School of Theology at Claremont
1001 1406936

The Library

SCHOOL OF THEOLOGY AT CLAREMONT

WEST FOOTHILL AT COLLEGE AVENUE
CLAREMONT, CALIFORNIA

BX
1233
REG
P7

PREGETHAU,

YN NGHYDAG

AREITHIAU A CHANIADAU;

GAN

SAMUEL ROBERTS,
GYNT O LANBRYNMAIR.

DOLGELLAU:
ARGRAFFWYD GAN WILLIAM HUGHES & Co.
—
MDCCCLXV.

Theology Library
SCHOOL OF THEOLOGY
AT CLAREMONT
California

REV. D. HUGHES,
843 HEMLOCK ST.
LOS ANGELES, CAL.

RHAGNODIADAU.

Cyhoeddodd yr awdwr tua saith mlynedd yn ol gyfrol yn cynnwys ei syniadau ar wahanol ganghenau *Llywodraeth*, a *Gwelliantau Gwladol*. Y mae yn ystyried y dylai pob dyn sy'n caru lles ei wlad astudio egwyddorion iawnderau cymdeithas, fel y gallo ffurfio barn bwyllog am fuddioldeb neu anfuddioldeb trefniadau y llywodraeth ag y mae yn gyfrifol iddi; ac fel y byddo ganddo reswm i'w roddi dros farn ei gydwybod. Cymerodd ryddid i resymu yn y gyfrol hôno yn *erbyn* y mesurau llywodraethol a ystyriai yn attaliol i dangnefedd a ffyniant ei wlad, a *thros* y mesurau a ystyriai yn angenrheidiol er ei dyrchafiad a'i llwyddiant.

Y mae egwyddorion gwerthfawr Rhyddid—rhyddid llafar a rhyddid y wasg, rhyddid gwasanaeth a rhyddid pleidlais, rhyddid masnach a rhyddid crefydd, mor anwyl ganddo ac mor bwysfawr yn ei olwg ag y buont erioed; ac y mae ei holl anadliadau am fuddugoliaethau tawel cynlluniau dyngarwch a heddwch, a phob gwelliantau gwladol, mor gynhes, ac mor gyflym, ac mor gryfion ag y buont erioed.

Ceir yn y gyfrol yma ei syniadau ar bethau *crefyddol*; y pethau ag y bu yn caru meddwl am danynt, a llefaru am danynt drwy ystod ei weinidogaeth; a'r pethau ag y bu ei hen gyfeillion yn hoffi wrando, ac yn ymhyfrydu ymddyddan yn eu cylch. Buont yn gwrando amryw o'r pregethau hyn yn yr "Hen Gapel," neu yn rhyw le arall; a dichon y bydd rhai o'r pregethau *argraffedig* yn waelach, neu yn well na'u dysgwyliad. Y mae yn hawdd i hyny fod, oblegid y mae pregethwr weithiau yn cael gwell hwyl i ysgrifenu nag i draddodi; y mae bryd arall mewn gwell hwyl wrth draddodi nag oedd wrth ysgrifenu: ond ceir y rhan fwyaf o'r pregethau yn lled agos o ran sylwedd i'r hyn a draddodwyd.

Bu yr awdwr drwy y ddwy flynedd ddiweddaf mewn sefyllfa wasgedig iawn. Bu mor gyfyng arno ar brydiau a phe buasai yn *gorchwyr rhyfel*; a dichon y buasai yn ddiogelach mewn dalfa nag yn y cyflwr yr oedd ynddo, trwy fod minteioedd o anrheithwyr llofruddiog yn gwibio beunydd ar bob llaw iddo. Bernid nad allai symud o'i le heb beryglu ei fywyd.

School of Theology
at Claremont
211416

gwrthryfelwyr gylchynu ein tŷ a'u dal yno. Bum yn cysgu lawer noson gyda chyfaill oedd yn cadw ei *rifle* wrth ochr ei wely, a'i *revolver* a'i gleddyf dan ein gobenydd. Nid oedd dim cysgu i mi pan oedd y *revolver* dan fy mhen; yn enwedig pan yr oedd perygl i'm *cyfaill* neidio i fyny i ddefnyddio ei arfau pan yn ngwres ei freuddwydion. Lladdwyd dau o'n cyfeillion yn lled agos i'n tŷ ni; cymerwyd y trydydd yn garcharor, a chymerwyd ef i Monticello, lle y cafodd ei rwymo yn nôd i ddeg ar hugain sacthu ato ar unwaith, ac agorwyd yn ei ben a'i galon ddigon o ffyrdd i'w enaid ddianc ymaith mewn moment. Collodd cyfaill arall i ni ei fywyd drwy y lludded, a'r eisieu, a'r anwyd a ddyoddefodd wrth ddianc drwy afonydd a thros greigiau o'i garchar yn Knoxville. Bu farw un arall o glefyd a gafodd mewn canlyniad i'w hir gaethiwed yn meddiant y gelyn. Bu bron i fintai o wrthryfelwyr ddyfod ar ein gwarthaf pan oeddwn yn cadw oedfa ar foreu Sabbath yn nhŷ cymydog. Dro arall, pan oeddym yn dechreu y gwasanaeth, buwyd yn ymyl tynu y *revolver* allan wrth ddrws yr addoldy, drwy i ddau *rebel* ieuanc hyfion ddyfod yno i gynhyrfu hen *Union men* ag oeddynt yn rhy selog dros yr Undeb i fedru dyoddef dirmyg eu gogan-eiriau. Dro arall, pan oeddwn wedi anturio myned i Monticello i chwilio am lythyrau a chyhoeddiadau o'r Gogledd ac o Gymru, clywais wrth d lychwelyd adref fod brwydr boeth yn nglyn coediog yr afon, o fewn wyth milldir i'm cartref, rhwng cant o "*home-guard*" ein sir ni a thros bum' cant o wŷr y De. Yr oedd fy nghalon yn curo yn drom bob cam o weddill y ffordd tuag adref; ac yr oedd yn llon iawn genyf weled fy mrawd a'i briod a'u merch fach yn fyw, a'n tŷ coed, a'n *hychydig* lyfrau heb gael eu llosgi. Yr oedd gwŷr y De wedi bod yn ymyl cylchynu *Union guard* y sir, a phe buasent yn deall eu nerth y pryd hyny, gallasent yn bur hawdd eu dyfetha, neu eu cymeryd; ond ciliodd pob ochr mewn brys a dychryn, gan dybied fod yr ochr arall yn cael adgyfnerthion. Bu y cam-gymeriad yn drugaredd i'r ddwy blaid. Lladdwyd dros hanner cant o'r encilwyr; ond bernir iddynt gael eu lladd gan eu gilydd yn eu cyffro wrth ffoi drwy goedydd y glyn. Bu yn ein cylchoedd ni *frodyr* o'r un teulu-oedd yn tanio yn erbyn eu gilydd. Yr oedd yn echrydus i feddwl fel yr oedd y rhyfel yn cynddeiriogi ac yn barbareiddio eu teimladau. Galwodd mintai o *Union men* heibio i ni unwaith, gan ofyn i ni ymarfogi i fyned allan gyda hwy i ymlid ar ol y *rebels*; ond atebasom mai ein penderfyniad oedd aros gartref yn llonydd, am fod yn well genym farw ar ein haelwyd na myned allan yn *soldiers*. Bum unwaith yn pregethu i ryw dri chant o *Union guard* y sir pan oeddynt yn gwersyllu mewn amddiffynfa fechan gerllaw i ni. Yn mhen ychydig oriau ar ol yr oedfa, daeth byddin o bymtheg cant o'r *rebels* ar eu gwarthaf i'w chwalu. Bu diwedd ar ein *home guard* o'r dydd hwnw allan; a bu perygl i mi gael fy nal fel eu *chaplain*, er nad oeddwn wedi gweinyddu ond rhyw ddwy waith, a hyny o herwydd afiechyd eu pregethwr.

Profedigaeth drom arall i ni oedd fod llaweroedd o ffoedigion o'r De yn dyfod heibio i ofyn am letty ac am luniaeth. Nid gofal bach i deulu bychan oedd parotoi swper a boreufwyd i dros ugain o ddynion felly; ond nid allem eu gomedd, oblegid yr oeddynt yn newynog a lluddedig. Yr oeddid yn ofni fod rhai o ysbryd *bradwrus* mewn ambell fintai.

Gan fod mwyafrif mor fawr o bobl East Tennessee mor *loyal*, mor ffyddlawn i'r Llywodraeth, mor dyn a selog dros yr Undeb, a hyny yn wyneb y fath amryw brofedigaethau, y mae yn achos o syndod ac o alar eu bod wedi cael eu gadael mor ddiamddiffyn drwy ddwy flynedd cyntaf y rhyfel. Cawsant eu gadael i drugaredd eu gelynion pan y buasai yn hawdd estyn ymwared iddynt. Cafodd y gwrthryfelwyr eu goddef i anrheithio holl gynnyrch cylch mawr o ganol y wlad, a hyny am ddwy flynedd, pan y buasai yn hawdd i fyddinoedd y Llywodraeth gymeryd meddiant o'r cylch pwysfawr hwnw, a chalonogi y preswylwyr i ddyblu ei gynnyrch trwy ymroi i lafur a diwydrwydd. Annogodd y Llywydd Lincoln, mewn iaith gref, eglur, yn ei *message* cyntaf i'r Gydgynghorfa, ar i *reilffordd* gael ei gwneud o Lexington, Kentucky, i Knoxville, Tennessee. Ymresymai fod y fath reilffordd yn "*military necessity*," er cymeryd meddiant o'r parth *loyal* hyny o ganoldir y wlad. Pe buasid yn gwrando ar ei gynghor, buasid yn arbed miliynau o arian, a dyoddefiadau aneirif, a miloedd o fywydau; a buasid hefyd, yn ol pob argoelion, yn *byrhau* tymmor y rhyfel. Y mae pawb erbyn heddyw yn cydnabod craffineb rhagweledigaeth y Llywydd, ac yn dirnad pwysfawredd ei gynghor; ond y mae yn rhy ddiweddar i edifarhau am y camgymeriad. Y mae yr ymdrechion gorchestol a gwaedlyd a wnaed yn ddiweddar gan fyddinoedd yr Undeb i ennill meddiant o East Tennessee, yn eglur brofi fod y *ddwy* blaid yn awr yn gwbl ystyriol o bwysfawredd y cylch mawr canoldirol hwnw fel maes eu gweithrediadau. Rhesymodd yr ysgrifenydd goreu ag y medrai yn rhai o newyddiaduron Ohio, Kentucky, a Tennessee, cyn tòriad allan y gwrthryfel, er cymhell ar i reilffordd *ganoldirol* o'r fath ddefnyddioldeb pwysfawr gael ei gwneud heb oedi, ond safodd rhagfarn ac anwybodaeth yn erbyn y cynllun nes i'r adeg gael ei cholli. Ymrestrodd miloedd lawer o fechgyn goreu East Tennessee yn myddinoedd yr Undeb ar ddechreuad y rhyfel, ac nid ellir dirnad y gwasgfeuon a ddyoddefodd eu teuluoedd. Pe buasent yn cael eu byddino i noddi eu *cartrefleoedd*, buasai yn hawdd iddynt gadw eu cymydogaethau rhag cael eu mathru gan anrheithwyr; ond nid felly y bu. Cymerwyd o leiaf ugain *regiment* o honynt i fyddin fawr yr Undeb; ond gadawyd eu teuluoedd yn hollol ddiamddiffyn i ruddfan a gwaedu, a marw dan ormes y gelyn.

Llonir fy ysbrydoedd isel wrth ddeall fod fy llyfr yn cael ei dderbyn mor wresog gan fy nghyfeillion yn America ac yn Nghymru. Y mae

geiriau ac ymddygiadau eu cydymdeimlad a'u cariad yn cynhesu ac yn cryfhau fy nghalon drallodedig, ac yn ei llenwi â diolchgarwch. Yr wyf yn ofni y cânt yn fy llyfr ormod o ôl pryder meddwl a therfysg teimlad. Gwybum lawer tro yn *Nghymru* beth oedd gorfod cyfansoddi pregethau ac anerchion mewn gormod o frys, ac yn nghanol gormod o fân-ofalon; ond ni welais erioed yn nghwlad fy ngenedigaeth orfod cipio fy mhapyrau mewn dychryn, oddiar fwrdd y fyfyrgell, i'w cuddio o'r golwg yn nyrys-leoedd y goedwig, allan o gyrhaedd anrheithwyr didosturi, a hyny dichon pan y byddwn newydd ddechreu cael blas a hwyl i ysgrifenu. Yr oedd colli wythnos ar ol wythnos mewn profedigaethau a pheryglon felly, a hyny yn bur fynych, yn trallodi fy ysbryd, ac yn nychu fy meddwl. Buasai y pregethau yn llawnach ac yn fwy cryno pe cawswn hamdden dawelach i'w parotoi i'r wasg. Hyderaf y cofir weithiau, wrth eu darllen, am flinderau eu hawdwr, ac yna ni bydd raid iddo ofni llawer rhag llymdra beirniadaeth.

Gwnaethum amryw gynnygion yn ystod y tair blynedd diweddaf i ddianc o beryglon y terfysgoedd yn Tennessee i ymweled â'm cyfeillion yn y Gogledd; ond gorfu i mi droi yn ol bob tro rhag syrthio i afael minteioedd y gwrthryfel. Yr oedd gorfod troi yn ol felly, ar ol parotoi at daith, a chychwyn darn o'r ffordd, yn siomedigaeth. Llwyddais o'r diwedd i allu dianc, ond bu bron iawn i mi, a chyfaill oedd gyda mi, syrthio i afael mintai o dros fil o wrthryfelwyr ag oeddynt yn encilio mewn nwydau dialgar, ar ol cael eu gwasgu i ffoi o Kentucky; a gorfu i ni ymguddio yn y goedwig drwy y noson hòno, a rhan o'r dydd canlynol. nes iddynt ymgilio heibio.

Yr wyf yn awr ar derfynu taith o bum' mis o ddyddiau, drwy ranau helaeth o daleithiau eang Ohio, Pennsylvania, New York, Vermont. Maryland, Kentucky, Illinois, a Wisconsin. Cyfarfyddais bron yn mhob man â lluoedd o gyfeillion hoff oeddwn wedi weled a *dechreu* adnabod yn yr hen wlad, ac yr oedd eu cyfeillachau cynhes yn nhiroedd pell a llydain y Gorllewin yn felusach i mi nag y buasent erioed o'r blaen rhwng bryniau iachus gwlad werdd ein genedigaeth. Buasai yn hawdd i mi ysgrifenu *cyfrol* ar fanylion eu caredigrwydd. Ni ddygwyddodd i mi unrhyw lwaid drwy holl droadau y daith fawr o dros bum' mil o filldiroedd. Cefais iechyd da drwy'r daith, a chefais gyfleusderau i bregethu dros ddau gant o weithiau i gynnulleidfaoedd boneddigaidd o'm cydgenedl: ambell dro mewn "hwyl," dan eneiniad eu cariad, ond weithiau yn fwy diysbryd a digalon wrth adgofio, heb fy ngwaethaf, am ddifrod a galanas y rhyfel yn Tennessee, ac am brofedigaethau a gwasgfeuon y teulu bychan oeddwn wedi adael ar ol yno.

Wrth fod yr awdwr yn cael *dethol* o gronfa o ddwy fil o bregethau oedd ganddo, buasai yn hawdd iddo *ddyblu* maint y gyfrol; a buasai yn dda ganddo, ar lawer golwg, ei helaethu; ond yr oedd yn ofni y buasai y *pris* felly, yn yr adeg bresenol, yn ei chodi o gyrhaedd llaweroedd allent fforddio prynu "*llyfr dolar.*" Ysgrifenodd dros gant o bregethau, a thros gant o areithiau, ac yr oedd wedi rhag-gyfrif y gallasai eu rhoddi oll mewn llyfr dolar; ond ar ol y codiad diweddaf yn mhris y papyr a'r argraffwaith, a'r rhwymo a'r cludo, y mae yn cael fod hyny yn analluadwy; ac felly, y mae wedi cael ei orfodi i adael allan lawer o'r pregethau oedd wedi barotoi i'r llyfr.

Ceisiodd ymgadw yn ofalus at ystyr ac ysbryd y *testun* yn mhob pregeth, oddieithr yn yr un ar "Destament Crist." Cymerodd ryddid yn hòno, yr hon a gyfansoddodd er's deng mlynedd ar hugain, i ddilyn *cymhariaeth* y cyfeithwyr, a syniadau hen esbonwyr, er ei fod yn golygu mai *nid* yr ystyr hyny oedd gan Paul i'r geiriau "Testament," a "Thestamentwr;" ond mai y priodol ystyr yw yr un a grybwyllir yn y rhagymadrodd i'r bregeth.

Ceir fod rhai o'r pregethau yn llawnach nag eraill. Yr ydys weithiau yn hoffach o ddarllen pregeth *fer* na phregeth faith; ac felly byrhawyd rhai o honynt. Gallai fod yn fuddiol ambell dro i ddarllen pregeth mewn teulu, yn enwedig ar nos Sabbath, pan na bydd "cyfarfod" yn y cyrhaedd: a byddai yn dda i arfer *plant* i ddarllen bob un yn ei dro; oblegid tueddai y fath ymarferiad, nid yn unig i'w cynnorthwyo i *ddarllen* yn fwy dealladwy ac effeithiol, ond i feddwl yn fwy bywiog a rheolaidd; ac felly i gryfhau a helaethu eu defnyddioldeb drwy eu hoes. Gallai hefyd fod yn fuddiol ambell waith i rag-grybwyll testun pregeth *argraffedig* i fod yn bwnc ymddyddan y gymdeithas grefyddol, oblegid yr ydys wedi sylwi lawer gwaith fod yr ymddyddan ar bwnc *gosodedig* yn fwy cyfoethog ac adeiladol, na'r ymddyddan *difyfyr* ar y "*rhyw* bwnc" a ddygwyddo ymgynnyg i'r meddwl.

Ni cheisiwyd cyflëu y pregethau yn y llyfr yn ol unrhyw drefn *ddwyinyddol.* Nid oedd eisieu hyny, am fod pob pregeth ar ei thestun ei hun, ac am y ceir mynegai o'r testunau yn nechreu y gyfrol.

Amcanwyd crynhoi i'r llyfr *faterion* wedi eu cyfaddasu at brofiadau, sefyllfaoedd, ac oedran gwahanol ddosbarthiadau o ddarllenwyr:—megys y pregethau ar "Iesu yn ddeuddeg oed," i *blant.* "Offrymiad Isaac," i *benau teuluoedd.* "Nis bwriaf ef allan ddim," i *ymofynwyr am iachawdwriaeth.* "Canu y Nos," i rai mewn *trallodion.* "Marwolaeth Aaron," "Gweddi olaf Crist," i rai yn galaru ar ol eu *meirw.* "Testament Crist,"

"Ernes yr Etifeddiaeth," "Dull y byd hwn," i *hen bererinion*. "Dinas Duw," "Cymdeithas y Saint," &c., i *eglwysi*. Ceir hefyd yn y llyfr Bregethau ac Anerchion i Gymdeithasau Cenadol a Beiblaidd, ac Ysgolion Sabbathol, i dangnefeddwyr, i gynhenwyr, i ragrithwyr hunangar a bydol, i'r gorthrymydd erlidgar, i'r cybydd, i'r coelgrefyddwr, i'r anffyddiwr, i'r glwth didosturi, i'r diog diddefnydd, i'r ofnus, i'r euog edifeiriol, i deulu crefyddol, ac i'r cymunwr, er parotoi ei feddwl i gofio am farwolaeth Iesu.

Rhoddir yn niwedd y gyfrol gasgliad o fyfyrdodau yr awdwr mewn Angladdau, ac wrth Fwrdd yr Arglwydd; ac o'i gynghorion i ieuenctyd ar eu derbyniad i'r eglwys; ac o'i gymhelliadau i "edrychwyr" ddewis crefydd heb oedi. Rhoddir hefyd dalfyriad o rai o'i anerchion mewn gwyliau Cenadol a Dirwestol, Ymostyngiad a Diolch, Cyflwyniad Anrhegion, Agoriad Addoldai, Urddiad Gweinidogion, Dyledion Addoldai, Jubilïau, &c., &c., yn nghyda'i "*Ganiadau Byrion*."

Ceir fod y pregethau a'r areithiau yn cynnwys cryn lawnder o syniadau, a bod y syniadau hyny wedi cael eu crynhoi i gylch cyfrol *radlawn*, ac wedi cael eu gwisgo mewn geiriau a amcanwyd i fod yn *ddealladwy*; a gobeithio y byddant, dan fendith Ysbryd y Gras, yn foddion o lesâd diddarfod i ryw eneidiau anfarwol.

Ionawr 1, 1864. S. R.

O. Y. Cyfansoddodd yr awdwr yn ystod y misoedd diweddaf DDARLITHIAU ar y testunau canlynol:—Sefydliadau Gormes—Rhyfeloedd y Groes—Columbus a'i Ddarganfyddiadau—Y Frenhines Elizabeth a'r Puritaniaid—Goresgyniad India gan Loegr—Addfwynder yn adgyweirio y beiadwy—Hanes y Genedl Iuddewig—Y Rhyfel mawr yn America—Rhyddhad y Caethion—Cymysgiad y Cenedloedd, er eu cael "oll yn un"—Ariangarwch, gwreiddyn pob drwg—Rheidrwydd Cyfraith i gynnal moesau da—Pleadings for a Vote—Steps to Success; yn cynnwys digon o ddefnyddiau at lyfr *dolar helaeth*. Ond nid yw am anturio cyhoeddi y *Darlithiau* heb gael awgrym boddhaol oddiwrth werthiad y *Pregethau* y byddant yn dderbyniol gan ei gyfeillion.

Y mae yn meddwl ei fod yr un olygiadau a'r nifer amlaf o'i gydgenedl ar bwnc pob darlith, oddieithr ar bwnc mawr, dyrys, *newydd*, y "*Rhyfel Cartrefol yn America*."

Os ydyw yn wahanol ei farn i rai o'i gyfeillion am ambell i ffaith, neu egwyddor, neu gynllun, nid yw yn meddwl y bydd i hyny wneuthur un-

rhyw ddarllenydd rhydd-ymofyngar yn llai awyddus i chwilio ac ystyried ei ymresymiadau. Y mae ef bob amser wedi arfer bod yn lled eiddigus o'i hawl i farnu drosto ei hun, ac y mae ganddo barch calon i bob darllenydd o'r profiad hwnw.

Ceir fod y darlithiau bron oll ar destunau *hanesyddol*. Y mae maes hanesyddiaeth yn un o eangder bron annherfynol. Y mae hefyd yn faes agored i bawb, neu y mae rhyddid i bawb ei chwilio. Y mae ei lwybrau a'i lanerchau yn cael eu gwneud yn fwyfwy cyfleus at ymchwiliad pob meddwl ymofyngar. Y mae yn gyflawn o amrywiaeth, ac yn gyfoethog o addysg. Ei chwilio yn deg ydyw un o'r moddion penaf a drefnwyd gan Ragluniaeth er i ddyn gyrhaedd doethineb a phrofiad; ac er cael hyfforddiant pa fodd i ochelyd yr hyn sydd ddrwg, ac i ymestyn at yr hyn sydd dda. Y mae y sawl a chwilia y fath faes helaeth, cyfoethog, yn fyfyriol a diwyd, yn ngoleuni gair Duw, gyda bwriad diysgog i gondemnio a chasáu yr hyn sydd feiaidwy, ac i ganmol ac i garu yr hyn sydd rinweddol, yn sicr o gael tâl da am ei lafur a'i ofal. Y mae yn alarus i orfod addef fod plant dynion wedi myned oll yn "*blant y cwymp*," a bod eu hanes felly yn llawnach o bethau i'w *beio* nag o bethau i'w *canmol*. Y mae yn ddymunol iawn i gael ymlwybro weithiau yn mysg *blodau* eu grasau, ac ymdroi yn nghyrhaedd *peraroyl* eu rhinweddau; ond y mae yn fuddiol hefyd i astudio eu cyfeiliornadau a'u llygredigaethau, er gallu eu hadwaen yn well, a bod yn fwy gwyliadwrus i'w gochelyd. Y mae argraff ar feddwl yr awdwr fod rhy fach o astudio ffeithiau mawrion hanesyddiaeth. Y mae, dichon, yn brofedigaeth i ni, o leiaf ar brydiau, i roddi cin holl sylw ar bethau ydynt *yn* cymeryd lle o'n deutu, heb graffu bron byth ar y pethau mawrion ydynt *wedi* cymeryd lle yn yr oesau a aethant heibio. Ni buasai yr Arglwydd ddim yn crynhoi y fath drysorfa o hanesion i'w hen lyfr ei hun, oni buasai ei fod am i'w gwersi fod er addysg i'r byd drwy ei holl genedlaethau.

Yr oedd tair o'r darlithiau, sef Ariangarwch, Angenrheidrwydd Cyfraith, a Pleadings for a Vote, wedi cael eu cyhoeddi cyn i'r awdwr ymfudo o Gymru. Ysgrifenodd y deuddeg eraill, yn wyneb gradd o anhawsdra, am fod yr hanes-lyfrau llawnaf a goreu, y llyfrau ag y buasai yn dda ganddo gael cyfle i'w chwilio, allan o'i gyrhaedd.

Os cyhoeddir y darlithiau, byddant yn un blygiad, yr un rhwymiad, a'r un bris a'r pregethau. Nid ystyrir derbynwyr y pregethau dan unrhyw rwymedi i aeth i dderbyn y darlithiau, ond byddir yn ddiolchgar am eu cefnogaeth. Ni roddir y darlithiau yn y wasg heb gael digon o circhion i ddigolledu y cyhoeddwr. Rhoddir yr elw arf rol yn gydnabod i'r dosbarthwr. Ystyrir y bydd y drafferth yn llai o fwy na'r hanner nag ydyw

y drafferth o ddosbarthu cyhoeddiad misol. Bwriedir am i'r gyfrol fod yn un hardd a rhadlawn.

Ol-Nodiad, Ebrill, 1864.—Pan y byddir yn cyhoeddi llyfr, y mae yn anghyfleusdra i'r awdwr fod yn mhell o gyrhaedd pob gohebiaeth reolaidd â swyddfa yr argraffydd. Bum am y ddau fis diweddaf heb allu clywed oddiyno; ond daeth llythyrau heddyw yn hysbysu fy nod wedi darparu llawer *gormod o ddefnyddiau* i fod yn gyfrol. Yr wyf yn gwybod fod y cysodydd a'r argraffydd yn gwneud eu gorchwylion gyda phob gofal a medr; ond buasai yn dda iawn genyf allu bod gyda hwy drwy yr wythnosau diweddaf, er eu cynnorthwyo yn *netholiad* y defnyddiau. Cymerodd y "Caniadau" a'r "Anerchion" fwy o le nag oeddwn yn ddysgwyl; ac felly gwasgwyd allan lawer o'r "Pregethau" ag oeddwn wedi obeithio fuasai yn cael lle yn y gyfrol; ac yn eu mysg y pregethau *Saesoneg* i bobl ieuainc ag oeddwn wedi amcanu gyhoeddi; ond ni bydd hyny yn siomedigaeth gan y nifer amlaf o'r darllenwyr. Nid oedd modd cynnwys mewn llyfr dolar yr *oll* a ddarparesid; ond ceir ynddo lawer o ddarlleniad am yr arian; ac yr wyf yn hyderu y ceir, mewn cymaint o amrywiaeth, rywbethau cyfaddas at bob archwaeth, a buddiol i bob oed ac i bob profiad.

S. R.

CYNNWYSIAD.

PREGETHAU.

Cymdeithas y Saint 17
Canu y Nos 27
Marwolaeth Aaron 33
Brad ac Edifeirwch Judas 43
Y ddau fath Drysorau 53
Dinas Duw 56
Offrymiad Isaac 62
Nos y Pasg cyntaf 71
Gwaedd y Gelyn yn y Môr 82
Nis bwriaf ef allan ddim 86
Yr Iesu pan yn ddeuddeg oed 98
Ernes yr Etifeddiaeth 113
Testament Crist 119
Dull y Byd hwn 130
Rhodreswaith Consurwyr 141
Pregeth Jonas 151
Gweddi olaf Crist 156
Manasseh 167
Yr Iawn 173

ANERCHION BYRION WRTH FWRDD Y CYMUNDEB.

Y Milwr da 181
Cynghor o Wely angeu Gweinidog 183
Ar ol claddu Gweinidog... 184
Amcanion y Swper Santaidd... 186
Mynydd y Gweddnewidiad 187
Cymeradwy yn yr Anwylyd... 190
Yr Iesu yn dangos ei glwyfau 191
Dwyn yr Iau 193
Yr Iesu yn yfed y cwpan 194
Dangos marwolaeth yr Arglwydd 195
Gwledd Mynydd Seion 196
Blino ac ymollwng 198
Arfogi â'r un meddwl 200
Y Pasg 200
Golygfeydd o fryn y groes 202
Amddiffyn proffesu yn foreu... 203

Rhoddwch law i'r Arglwydd 205
Drws Agored 207
Mwy na Bywyd 208
Cynnyg marw dros arall 209
Cymundeb yn Patmos 210
Cyfammod Eglwysig 213
Y Perygl o oedi 214
Fy Nhad i a'ch Tad chwithau 215
Duw am ymresymu â dyn 217
Rhedeg yr yrfa 218
Angel y Cyfammod 220
O flaen Cymanfa 221
Caru yr Anweledig 223
Rhyfeddodau Cyfryngdod yr Iesu 224
Enwau yr Ordinhad 225
Deffroi o Gysgu 226
Wrth dderbyn un oedranus 229
Cyffesu Crist 230
Penderfynu o'r diwedd 231
Plant y wraig rydd... 232
Iachawdwriaeth a fydd byth 234
Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd 236
Chwi yw goleuni'r byd 237
Amseroedd i orphwys 239
Yr Afradlon yn gwledda 240
Merched ieuainc yn dyfod i'r Eglwys... 241
Testunau llawenydd a diolch 243
Yr Ysbryd yn dwyn ar gof 243
Gwybod cariad Crist 244
Codwch, awn oddiyma 245
Daw yr ail waith heb bechod 247
Gogoniant a nerth Gras 248
I mi y gwnaethoch 248
Derbyn saith o Ferched ieuainc 250
Gweddi y dyn dall 251
Cynghor i Ferch ieuanc ar gychwyn oddicartref 251
Lle ac enw yn y tŷ 252
Addunedau 254
Galwad i'r winllan 256
Y Gwinllanwyr anffyddlawn... 258
Cyfeillion yr Iesu 260
Cwbl iachâu 261
Gorchestgampau y Cristion 264
Ymarfer duwioldeb 268
Myfyrio 270

ANERCHION MEWN ANGLADDAU.

Yr Angladd cyntaf wrth yr Hen Gapel 273
Angladd Plentyn 274
Angladd Richard Thomas, Tafolwern... 275
Cadwedigaeth Babanod 277
Yr Arglwydd a gyfododd yn wir 278
Y ddau Gartref 279
Angladd Merch ieuanc 281
Truanaf o'r holl ddynion 282
Y byr ysgafn gystudd 285
Bywyd a Marwolaeth y Saint 286
Angladd Plentyn 288
Marw sydd elw... 288
Yr Adgyfodiad a'r Bywyd 291
Beunydd yn marw 294
Un genedlaeth a â ymaith 295
Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwon... 297
Dyddiau megys llongau buain 298
Cerdded yn araf 300
Alltud fel fy holl dadau 302
Myfi a âf ato ef 303
Diddymu angeu 304
Ymadroddion dyddanwch 306
Dilynwyr y rhai sy'n etifeddu yr addewidion 309
Etifeddiaeth yn nghadw yn y nefoedd 310
Y dorf ar Fynydd Seion 314
Cyfaill a lŷn 317
Y Gwas ffyddlawn 317
Cân Simeon 319
Rhagor rhwng y cyfiawn a'r drygionus 322
Huno yn yr Iesu 324
Dim gwaith yn y bedd 326
Cyfrif ein dyddiau 328
Angeu i angeu 331
Gobeithio pan yn marw... 333
Ystyried y diwedd 335
Rhodio llwybr ar hyd yr hwn ni ddychwelir 336
Addfedrwydd i farw 339

ANERCHION AR WAHANOL ACHLYSURON.

Yr Achos Cenadol 342
Outlines of an Address at a Missionary Meeting in Birmingham. 349
Penau Anerch mewn Cyfarfod Gweddi Cenadol... 353
Anerch mewn Gwyl Ddirwestol 354
Crybwylliadau mewn Cyfarfod Dirwest 360

Address at a Temperance Festival... 363
Anerchiad mewn Cyfarfod Beiblau 367
Anerch o blaid y Feibl Gymdeithas 371
Penau Anerch mewn Cyfarfod Gweddi ar ddydd o Ymostyngiad ... 380
Anerch mewn Cyfarfod Diolchgarwch 381
Jubili Liverpool, Ionawr 3ydd, 1854 385
Outlines of an Address at Newtown 388
Ar Agoriad Ysgoldy... 390
Anerch Eglwys 392
Cynghor i Eglwys 394
Cynghor i Weinidog 398
Testimonial to the Rev. S. Roberts, M.A. 400
Anrheg i'r Parch. S. Roberts, A.C. 405
Cyffes S. R. ddydd ei Urddiad 409
Gair o Annogaeth i Ysgolion Sabbathol 413
Diwedd Blwyddyn 414
A gredodd neb o'r penaethiaid? 417
Railroads against Sewers 418

CANIADAU BYRION.

Y Teulu Dedwydd 427
Y Lili Gwywedig 429
Cân y Nefoedd 430
Ar Farwolaeth Maban 432
Y Cristion yn hwylio i fôr gwynfyd 432
Cwyn a chysur Henaint 433
Mae Nhad wrth y llyw 434
Y ddau Blentyn amddifad 435
Cyfarchiad ar Wyl Priodas 436
Dinystr Byddin Senacherib 436
Gweddi Plentyn 437
Cwynion "Yamba," y gaethes ddu 438
Y Creulondeb o Fflangellu Benywod 439
Y Fenyw Wenieithus 440
Y Twyllwr hudawl 441
Darostyngiad a Dyrchafiad Crist 442
Buddugoliaethau yr Efengyl yn y Mil blynyddoedd 443
Ffynnon Calfaria 447
Ar Farwolaeth Mam yr Awdwr 447

PREGETHAU.

CYMDEITHAS Y SAINT.

"Eithr os rhodiwn yn y goleuni, megys y mae efe yn y goleuni, y mae i ni gymdeithas â'n gilydd, a gwaed Iesu Grist ei Fab ef, sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod."—1 Ioan i. 7.

Gair hyfryd ei swn, a hyfryd ei ystyr, ydyw y gair *cymdeithas*. Arwydda gymundeb meddwl, a gwaith, a theimlad, rhwng dau, neu ychwaneg o gyfeillion. Rhaid bod mwy nag *un* lle byddo cymdeithas. Gall fod cymdeithas felus lle na byddo ond dau neu dri. Gall fod mwy na dau neu dri chant mewn cymdeithas, gall gynnwys tair mil, neu gan' mil, neu ddeg can' mil o aelodau. A bydd cymdeithas fawr bur y nef yn cynnwys miloedd o filoedd a myrddiynau o fyrddiynau. Bydd yno dyrfa hardd na ddichon neb ei rhifo, pan y bydd yr aelodau oll wedi cyfarfod gartref yn ddiangol, wedi dyfod allan o'r cystudd mawr i drigfanau tŷ eu Tad yn nhir y gogoniant.

Yr oedd Ioan wedi bod lawer yn nghymdeithas ei Arglwydd. Yr oedd wedi bod yn pwyso ar ei fynwes mewn llawer cyfeillach. Yr oedd ei galon yn llawn o gariad ei Athraw a'i Waredwr; ac yr oedd yn hoff iawn o gymdeithas y saint; a dichon y cadwem at ei brif amcanion yn ysgrifenu ein testun, ond crybwyll yn

I. Rai rhesymau dros gymdeithas y saint.

II. Rhai o'r elfenau hyny a wnant eu cymdeithas yn felus ac yn fuddiol.

I. Rhai cymhelliadau i gymdeithas y saint, neu resymau dros eu cymdeithas. Gallem gael un o gymeriad a gorchymyn ein Duw—un o gynghor ac esiampl ei bobl yn mhob oes—un o'n barn a'n teimlad ein hunain—un o'r enwau a roddir i'r saint yn y Beibl—un o elfenau a deddfau anian—ac un o beryglon a rhwystrau ein gyrfa drwy yr anialwch tua gwlad well yr addewid.

1. Cawn y cymhelliad blaenaf i gymdeithas y saint o gymeriad a gorchymyn ein Duw. Y mae deall dyn yn fach, a gwan, ac isel i allu amgyffred ond ychydig am *natur* Duw: ond dysgir i ni yn amlwg fod tri o bersonau yn hanfodi yn y Duwdod—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd, a'u bod mewn cymdeithas berffaith a digyfnewid;

yn cydfod, yn cydfeddwl, yn cydarfaethu, yn cydlunio, yn cydweithio, yn cyd-deimlo, yn cydfwynhau. Y mae hyny yn awgrym i'r saint y dylent fod mewn cymdeithas anwyl â'u gilydd er bod yn debyg i'w Tad, a'u Brawd hynaf, a'u Santeiddydd yn y nefoedd. Y mae *ymddygiadau* Duw hefyd yn gystal a'i natur, yn profi ac yn egluro yr un gosodiad. Pan yn crëu dyn, cynnysgaethodd ef â galluoedd *cymdeithasol*. Rhoddodd iddo *lygad* i weled wyneb ei gyfaill, a *thafod* i ddweyd ei feddwl wrth ei gyfaill, a *chlust* i glywed geiriau atebion ei gariad, a *llaw* i'w rhoddi yn llaw ei gyfaill, a *braich* i'w phlethu am ei fraich, a *gwedd* yn cyfateb i'w wedd, a *chalon* i lynu wrth ei galon, a holl linynau teimlad y naill yn ateb i linynau teimlad y llall. A gwnaeth Duw y byd yn faes i'w gyfanneddu gan gymdeithas. Gallasai roddi ynys fawr, neu gyfandir llydan i bob un o'i blant. Yr oedd yn ddigon cyfoethog i roddi *byd* cyfan i bob un o honynt, a gadael ei blentyn yn ei ganol i gael yr holl haul, a'r holl ddwfr, a'r holl awyr, ei holl dir, a'i holl fôr, a'u holl gynnyrch, a'u holl olygfeydd, yn gyfangwbl iddo ei hun; ond nid felly y trefnodd y Creawdwr. Y mae wedi trefnu y byd yn lle preswyl cymdeithas. Y mae yn ewyllysio i gymdeithas fod ar bob cyfandir, yn mhob ynys, yn mhob ardal, ar bob tyddyn, yn mhob gardd, ac yn mhob tŷ. Y mae am i blant dynion gydfyw, a chydweithio, a chyd-deimlo, a chydfwynhau. Gallasai Duw drefnu nefoedd lawn i bob un o'i blant, a'i osod yn nghanol ei nefoedd, yn yr eangder mawr, heb fod yr un cydaddolydd yn agos ato; ond nid felly y gwnaeth. Nid nefoedd ddigymdeithas felly fydd nefoedd y saint. Yn nhŷ ein Tad, yno y mae llawer o drigfanau; ond y maent yn ymyl eu gilydd, wedi eu trefnu felly er mantais i'r teulu gydgyfeillachu. Y mae ar flodeuog fryniau, a than gysgod coed anfarwol, ac wrth ffynnonau bywiol y wlad well lawer iawn gwell lle i gymdeithasu nag sydd yn y byd isod ystormus hwn. Y mae yn nghynteddoedd ac ar orielau y deml ddysglaer fry ddigon o leoedd manteisiol i'r holl deulu gyfarfod i gydymddyddan, a chydganu y ganiad newydd, ac i gydwledda o gylch yr un bwrdd. O bob cŵr o'r ddinas nefol y mae yr heolydd yn arwain tua'r cylch *canol* sydd oddeutu yr orsedd; a gall y dinasyddion oll gyfarfod i gymdeithasu yn llys y Brenin. Y mae hefyd yr ordinhadau a'r breintiau a roddodd Duw i'w eglwys ar y ddaear yn rhai i'w cyflawni a'u mwynhau yn gymdeithasol. Mewn gair, y mae holl gymeriad, a holl ymddygiad, a holl ordinhadau yr Arglwydd yn gymhelliadol i'w bobl gymdeithasu â'u gilydd mewn cariad.

2. Profir yr un gosodiad oddiwrth hanes, a phrofiad, a chynghor, ac esiampl y saint yn mhob oes a than pob goruchwyliaeth.

Yr oedd yn dda iawn gan batriarchiaid yr oesoedd boreuaf gymdeithasu â'u gilydd. Byddai yn dda gan Adda gael cymdeithydd i gydalaru âg ef am y cwymp, ac i gydafael âg ef yn yr addewid. Byddai yn dda gan Seth gael eraill gydag ef i alw ar enw yr Arglwydd. Byddai yn dda gan Enos gael rhyw bererin arall gydag ef i rodio gyda Duw. Byddai yn dda gan Noah gael rhyw gyfaill ato i gydymddyddan am gyfiawnder. Byddai yn dda gan Abraham groesawu ymwelwyr crefyddol er cael cydymddyddan am drefniadau y nefoedd; ac yn ei hoffder o gymdeithas y saint, cafodd unwaith, yn ddiarwybod iddo ar y dechreu, y rhagorfraint o lettya angylion. Yr oedd yn ddifyr ei weled y tro hwnw yn codi o ddrws ei babell, yn ngwres y dydd, i groesawu y "tri-wŷr" dyeithr, mewn dull mor garedig a moesgar, gan eu harwain i orphwys dan y pren, a rhoddi iddynt ddwfr i'w traed; a gweled Sarah yn brysio i'w gynnorthwyo i arlwyo iddynt arlwy—y llo tyner, y teisenau o'r peilliad goreu, yr ymenyn, a'r llaeth. Yr oedd y *wledd* yno yn dda, ond yr oedd y *gymdeithas* yn well. Yr oedd syndod a llawenydd Abraham yn fawr, ac yn chwyddo fwyfwy, eu bod mor brofiadol, ac mor dduwinyddol, ac mor ffyddlawn; eithr ni wyddai o ba wlad y daethant; ond deallodd cyn y bore mai tri angel o'r nef oeddynt; ac mai Angel y Cyfammod oedd blaenor y gyfeillach. Yr oedd y gymdeithas rhwng Job a'i gyfeillion, er mai nid y cyfeillion tyneraf oeddynt, yn adeiladol iddo ef a hwythau. Yr oedd yn dda gan Moses gael o gymdeithas ei frawd a'i chwaer, a henuriaid Israel, i'w galonogi a'i gyfnerthu yn ngwasanaeth y nefoedd. Byddai Dafydd yn hiraethu am gael rhyddid aderyn y tô a'r wennol pan y byddai yn methu cael cyfarfod â'i gyfeillion o gylch allorau yr Arglwydd. Yr oedd yn dda gan Solomon gael o gymdeithas yr offeiriaid, a'r cantorion, a'r gynnulleidfa yn y deml. Yr ydoedd yn gysur ac yn nerth i Daniel a'r tri llanc gael cymdeithasu â'u gilydd yn wyneb eu profedigaethau yn Babilon. Yr oedd yn dda gan blant y gaethglud gael *cyd*eistedd ar làn yr afonydd i gymdeithasu mewn dagrau, pan nad allent gymdeithasu mewn caniadau; ac yr oedd yn ddedwyddach iddynt, wrth ddychwelyd tua Seion dan gerdded ac wylo, eu bod yn cael ymddyddan a holi am wlad yr addewid, am y ddinas santaidd, am feddrod eu tadau, ac am y ffordd tuag yno; a'u bod yn gobeithio cael cydymddangos yn fuan ger bron Duw yn Seion hoff eu hynafiaid. Yr oedd y Cristionogion cyntaf yn hoffus iawn o fod yn gytun yn yr un lle, mewn goruwchystafell, a'r drysau yn gauad rhag ofn yr Iuddewon; neu mewn lle mwy cyhoeddus yn mhorth Solomon, neu ryw ran arall o'r deml, neu yn tòri bara o dŷ i dŷ; ac nid allai Thomas, na'r un o

honynt, esgeuluso eu cydgynnulliad heb gael colled. Yr oeddynt yn gytun yn yr un lle pan ddisgynodd yr Ysbryd ar ddydd y Pentecost. Ac yr oedd eu holl ddilynwyr trwy yr oesoedd dilynol yn hoff o gymdeithas eu gilydd, pa un bynag ai mewn adfyd ai llwyddiant. Pan na oddefid iddynt gydaddoli yn gyhoeddus, mewn amserau o erledigaeth, anturient eu bywydau i gyfarfod yn ogofeydd y creigiau, neu yn nyrys lwyni y goedwig, er cael cymdeithasu â'u gilydd o gylch bwrdd, ac o gylch gorsedd y Gwaredwr. Profiad duwiolion pob oes a phob goruchwyliaeth oedd fod cymdeithas grefyddol yn felus ac yn fuddiol iddynt.

3. Cawn brawf o wirionedd yr un pwnc yn ein profiad ein hunain. Nid oes yr un plentyn i Dduw, yr un dysgybl i Iesu, yr un deiliad o ddyddanwch yr Ysbryd, yr un aelod o deulu Duw, i'w gael mewn un man nad yw yn derbyn lles o gymdeithas y saint. Y mae yn dda i fabanod y teulu fod yn nghymdeithas y tadau a'r mamau; ac y mae yn dda gan y tadau a'r mamau fod yn swn caniadau a gweddïau y babanod. Y mae y mamau a'r babanod yn cydymhyfrydu yn swn teimladau eu gilydd. Y mae gweddi eang, gryno, gynnwysfawr, yr hen gredadyn yn cydblethu yn hyfryd â gweddi fer, fylchog, y credadyn ieuanc; ac y mae cân floesg, araf, grynedig, yr hen sant yn cydgordio yn rhagorol â chân fywiog y sant ieuanc. Y mae deigryn edifeirwch a gobaith ar rudd yr ieuanc wrth gymuno y tro cyntaf yn ateb yn ddedwydd i ddeigryn hyder, a diolch, a gorfoledd, yr hen gredadyn wrth gymuno y tro diweddaf. Y mae yn dda gan yr hen filwr glywed yr ieuanc yn cyhoeddi ei fwriad, ac yn cymeryd y llw o ffyddlondeb, wrth wisgo yr arfau; ac y mae yn dda gan y milwr ieuanc glywed yr hen filwr yn adrodd helynt y filwriaeth wrth ddyosg ei arfau. Y mae cymdeithas profiad y tlawd duwiol yn adeiladol i'r credadyn cyfoethog; ac y mae cymdeithas ostyngedig a bonеddigaidd y duwiol cyfoethog yn ddyddanol i brofiad y tlawd. Y mae cymdeithas y saint yn dda iawn i'r Cristion isel ac anllythyrenog; y mae yn dda iawn i'r duwinydd mwyaf dysgedig. Pe dywedid wrth y duwinydd uchel ac eang ei ddysg fod ganddo ef lyfrgell ardderchog—llawn o esboniadau, a gweddiau, a chaniadau o ffrwyth ymchwiliad a myfyrdod a phrofiad y tadau, ac y gall ef faethu holl rasau ei grefydd heb symud o gadair esmwyth ei lyfrgell; ac nad oes neb yn y gymdeithas all helaethu ei wybodaeth ef am yr un o athrawiaethau duwioldeb; ac na raid iddo ef ddim trafferthu i deithio o lys cynhes ei lyfrau i babell cu cyfarfod—Na, na, atebai y duwinydd yn union, ni wna hyny mo'r tro i'm henaid i. Rhaid i mi gymuno gyda'r plant o gylch bwrdd cin Tad; rhaid i mi gael nerth i'm gweddi o'u gweddïau

hwy; rhaid i mi gael bywyd i'm cân o'u caniadau hwy; rhaid i mi gael cyfnerthiad i'm profiad o'u profiadau hwy; rhaid i mi gael gwres i'm serchiadau o farwor eu cariad hwy, neu ynte oera fy sel, gwywa blodau fy nghrefydd, nycha fy ysbryd gweddi, dystawa llais fy nghân, pyla awch fy myfyrdod, a throir irder fy mhrofiad yn sychder haf. Mewn gair, y mae cymdeithas grefyddol yn fuddiol i bob credadyn, o bob oed, a gradd, a dosbarth, a sefyllfa; yn mhob amgylchiad, dan bob goruchwyliaeth, ac yn mhob man.

4. Gellid rhesymu i brofi yr un pwnc oddiwrth yr enwau a'r cymeriadau a roddir i'r saint yn y Beibl. Os ydynt yn *ganghenau*, y maent yn cyd-dyfu o'r un winwydden, ac yn sugno eu maeth o nodd yr un gwreiddyn, ac yn dwyn yr un ffrwyth. Os ydynt yn *feini*, y maent yn feini bywiol, pob un yn ei le yn yr un adeilad, wedi eu goruwchadeiladu ar yr un sail, ac wedi eu cymhwys gysylltu i gynnyddu yn deml santaidd i fod yn breswylfod i Dduw trwy yr Ysbryd. Os ydynt yn *ddefaid*, y maent yn adnabod llais yr un Bugail da, yn gorwedd ar yr un porfeydd, ac yn yr un cysgod, yn cael eu tywys gerllaw yr un dyfroedd tawel, ac yn perthyn i'r un gorlan ddiogel. Os ydynt yn *ddysgyblion*, y maent yn eistedd wrth draed yr un Athraw mawr, i dderbyn ei eiriau, ac i ddysgu yr un gwersi ysbrydol. Os ydynt yn *filwyr*, y maent yn dilyn yr un Cadben, dan yr un faner, yn yr un arfogaeth, yn erbyn yr un gelynion; ac y maent am fod yn ddiymmod drwy holl ddyddiau eu milwriaeth, nes cael eu gwneud yn goncwerwyr, a mwy na choncwerwyr, drwy yr hwn a'u carodd. Os ydynt yn *bererinion*, y maent ar yr un yrfa, yn teithio trwy yr un dyrys anialwch, yn tynu dyfroedd o'r un ffynnonau, yn byw ar yr un manna ysbrydol, ac yn tynu tua'r Ganaan nefol i gydgartrefu yn y wlad well. Os ydynt yn *dystion*, maent yn dystion o ochr yr un Brenin; ac y mae eu tystiolaethau am ei enw, ei natur, a'i gymeriad, am ei ddoethineb, ei allu, a'i ras, am ei lywodraeth a'i ragluniaeth, am ei dŷ, ei fwrdd, ei wasanaeth, a'i oludoedd, yr un rheddiad a'r un ystyr. Os ydynt yn *blant*, y maent yn blant i'r un Tad, yn frodyr ieuangaf yr un Tywysog, yn perthyn i'r un teulu, yn cael yr un triniaethau ac ymgeledd, yn arfer yr un iaith, ac yn dwyn yr un ddelw. Os ydynt yn *etifeddion*, y maent yn etifeddion i Dduw, ac yn gydetifeddion â Christ, a chanddynt deitl i'r un etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, yr hon sydd yn nghadw iddynt yn y nefoedd. Y mae y gwahanol gymeriadau hyn, a'r holl deitlau eraill a roddir i'r saint, yn tybied eu bod i gymdeithasu â'u gilydd, a'u bod i garu ac i gynnorthwyo eu gilydd.

5. Y mae deddfau anian, neu gydweithrediad elfenau y greadigaeth, yn cyfnerthu ein hymresymiad fod cymdeithas yn fuddiol. Nid un gwlithyn sy'n ireiddio mynyddoedd Gilead, a Basan, a Hermon, ond cymdeithas o fân-ronynau dirif y gwlith sy'n gwisgo eu holl borfeydd â thlysni, ac yn peri iddynt wenu a llawenychu. Nid un dyferyn sy'n gwneud y gawod, ond cymdeithas o ddyferynau sy'n dyhidlo y gwlaw graslawn i ffrwythloni yr holl dir. Nid un ffynnonell fechan sy'n gwneud y ffrwd loyw gref sy'n cerdded rhwng y mynyddoedd; ac nid un ffrwd sy'n gwneud yr afon nofiadwy; ac nid un afon sy'n toi wyneb y môr; ond cymdeithas o fân-ffynnonau sy'n gwneud y ffrwd, cymdeithas o ffrydiau sy'n gwneud yr afon, a chymdeithas o afonydd sy'n llenwi y moroedd. Nid un pelydryn o oleuni yn ymsaethu o'r haul sy'n gwneud y dydd, ond cymdeithas o belydr yn fyrddiynau ar fyrddiynau, yn cydymdaith yn eu nerth a'u cyflymdra, sy'n gwasgaru tywyllwch y nos, ac yn gwisgo y dyffrynoedd a'r bryniau â goleuni yr heulwen. Nid un tywodyn sy'n cadw y môr yn ei wely, ond cymdeithas o'r mân-dywod sy'n cadw llif ei dònau draw yn ei le. Cymdeithas o fân-wreichion sy'n cochi yr wybren. Cymdeithas o fflamau sy'n gwneud yr oddaith. Cymdeithas o blanhigion a wnant y goedwig gysgodfawr. Cymdeithas o egin wnant y cnwd toreithiog.

6. Profir yr un gosodiad oddiwrth reddfau y creaduriaid direswm. Y mae pob rhywogaeth o anifeiliaid y maes, a physg y môr, ac ehediaid yr awyr, yn hoffi cymdeithas. Y mae yn addysgiadol i feddwl am drefn gymdeithasol y morgrug bychain. Nid byw mewn unigedd—un dan y gareg yma, a'r llall dan y gwreiddyn draw y maent—ond cydfyw yn gymdeithasau lluosog. Y maent yn arfer doethineb a gofal i ddewis lle, a dull cyfansoddiad eu dinas: y maent yn gwneud ffyrdd a llwybrau cyfleus i bob parth o honi; ac y maent yn trefnu eu trysorgelloedd yn y manau diogelaf o gyrhaedd y tywydd, ac o gyrhaedd pob anrheithydd. Y maent yn gweithio wrth drefn, yn eu dosbarthiadau, dan eu priodol arolygwyr; ac ni oddefant i ddiogyn fyw yn eu mysg. Y maent yn dedwydd gymdeithasu wrth gydweithio yr haf, ac wrth gydfwynhau eu llafur yn amser oerder y gauaf. Y mae yr un ddoethineb neu yr un reddf yn y gwenyn. Y mae trysorgelloedd eu dinas, yr hon a adeiladasant yn holltau y graig, wedi eu gwneud mor gywrain ac mor gywir a phe buasent yn gweithio yn ol rheolau manylaf *mathematics*. Nis gallasai y celfyddydwr cywreiniaf ddim gweithio yn gywirach wrth ei *scale* a'i gwmpawd. Buasai y camfesuriad lleiaf yn lluniad un o'u celloedd yn dyrysu cyfansoddiad eu holl ddinas. Y maent wedi

hyny yn diwyd gasglu mel i'w diliau tlysion; a phan y bydd ganddynt gyflawnder o ddarpariaeth, y mae swn caniadau llawenydd a diolch drwy eu holl ddinas. Y maent bob amser yr un gân; naill ai emyn galar, os bydd yn brin neu yn galed arnynt; neu salm llawenydd pan y byddant yn mwynhau digonoldeb a dedwyddwch. Y locustiaid hefyd a ânt allan yn dorfeydd: y maent yn hoffi bod yn swn eu gilydd wrth ymosod ar y meusydd, a gwledda ar eu gwyrddlesni. Y mae y pysgod mân hefyd yn ymwasgu at eu gilydd yn heigiau lluosog er eu cyd-ddiogelwch. Y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymmorau; y durtur hefyd, a'r aran, a'r wennol, a gadwant amser eu dyfodiad; ac y maent yn dyfod gyda'u gilydd yn gymdeithas, a'r rhai hynaf a chryfaf yn mlaenaf, er tòri grym yr awel, a chadw ar yr iawn ffordd. Y mae y defaid yn hoffi bod yn ddeadelloedd, i gydborfâu ac i gydorwedd; ac os bydd un yn troi heibio oddiwrth ddeadell ei chyfeillion, y mae yn argoel er drwg, ei bod yn nychu dan afiechyd, neu ei bod am grwydro i ryw borfa waharddedig. Y mae y meirch gwylltion, a'r buail, a'r camelod, a'r dromedariaid, a'r elephantiaid, ar eu porfeydd llydain, yn dewis bod gyda'u gilydd yn yroedd, neu yn gymdeithasau—y mae ymladd weithiau, mewn awr o brofedigaeth, rhwng rhai o'r creaduriaid direswm; ond y mae llawer llai nag sydd yn y gymdeithas ddynol. Y mae ymlyniad wrth eu gilydd, ac anwyldeb cynhes, y rhan amlaf yn eu mysg; ac y mae eu greddfau cymdeithasol yn pregethu i ddynion am werth cymdeithas.

7. Cawn un rheswm etto dros gymdeithas y saint oddiwrth beryglon a rhwystrau eu taith drwy'r anial. Pe buasai eu ffordd yn amlwg a diogel, heb na phydew, na rhwyd, na magl, na chwm dwfn, na glyn tywyll ynddi, ac heb na llew na gelyn yn y goedwig o'i deutu; ac heb lwybrau croes ar bob llaw yn arwain i ddyrysleoedd, ni buasai o gymaint pwys i'r pererinion deithio yn finteioedd, neu gymdeithasau. Ond nid ffordd hawdd a diogel ydyw. Y mae'n arwain drwy afonydd a thros greigiau anial, blin, gwyllt, dyrys, serth, a llithrig. Y mae cenawon y llew rhuadwy yn gwylio ar bob llaw. Y mae pydewau dyfnion, lleidiog, peryglus, mewn llawer glyn corsiog. Y mae tymhestloedd geirwon yn curo o lawer cwr; a'r cornentydd yn chwyddo ac yn llifo yn chwyrn dros eu glànau. Y mae yspeilwyr yn cynllwyn drwy holl gonglau y goedwig, ac am anrheithio y pererin o'i olud, ac o'i holl gysuron. Y mae hyny yn galw am i'r pererinion fod yn swn ac yn ngolwg eu gilydd, fel y gallont fod yn barod i gyfarwyddo eu gilydd mewn dyryswch, ac i amddiffyn eu gilydd mewn peryglon. Felly y mae marsiandwyr ac ymdeithwyr yn teithio bob amser ar draws

anialdiroedd y Dwyrain. Y maent yn cyduno, ac yn trefnu i gyddeithio yn finteioedd er eu cyd-ddiogelwch a'u cyd-ddyddanwch. Pe byddai gan fam dyner ferch fechan ddeuddeg oed ryw ugain milldir oddicartref; a phe byddai yn ei dysgwyl adref ryw ddiwrnod cyn nos, teimlai yn bur bryderus os dywedid wrthi fod rhanau o'r ffordd yn ddyrys drwy leoedd anial, a churai ei chalon yn drwm ped ychwanegid fod yno beryglon o lawer math, fod yno rai teithwyr cryfion wedi suddo mewn pydewau heb allu codi mwy, a bod yno rai wedi cael eu llarpio gan fwystfilod rheibus, a bod yno eraill wedi syrthio i ddwylaw gwaedlyd lladron llofruddiog, a bod yno eraill wedi colli eu ffordd yn yr anial dyrys, a threngu yn oriau oerion y nos; byddai y fam wrth glywed hyn ar dòri ei chalon o bryder am fywyd ei phlentyn; ond pe dywedai rhywun wrthi, "Peidiwch dychryn, nid yw eich merch fach ddim yn dyfod ei hunan; y mae mintai fawr o gyfeillion caredig yn dyfod gyda hi. Y maent wedi cytuno i *gyd-deithio* dan gyfammod i gynnorthwyo a hyfforddi eu gilydd. Y mae eich merch fach chwi dan amddiffyn ac arweiniad y fintai. Daw adref o hyn i'r nos." Cryfhai hyny galon y fam; llonai ei gwedd ar unwaith, a dywedai, Gan fod y fintai mor gref ac mor garedig, a bod llawer o honynt yn gyfarwydd â'r ffordd; a'u bod yn arfer cyfarwyddo yr ieuanc dibrofiad, a chynnorthwyo y gwan blinedig, daw y fintai o'r anial ac i'r pentref erbyn yr awr benodedig; a daw fy merch fach innau adref yn ddiogel gyda hwy. Gweddai i'r saint gymdeithasu â'u gilydd, oblegid fod eu gyrfa yn un ddyrys a pheryglus. Dyma brif benau ein hymresymiad dros gymdeithas y saint; yn codi o orchymyn Duw, o esiampl ei bobl, o'n profiad ein hunain, o gymeriad credinwyr, o ddeddfau anian, o reddfau y creaduriaid, ac o rwystrau yr yrfa. Crybwyllwn etto yn

II. Rai o elfenau bywyd, a nerth, a dylanwad, a melusder eu cymdeithas.

1. Ysbrydolrwydd meddwl, neu feddwl yn hoffi myfyrio ar bethau y byd anweledig. Meddwl yn caru cymdeithasu â'r Tad, ac â'i Fab ef Iesu Grist; yn caru dal cymundeb âg angylion gwasanaethgar, ac âg ysbrydoedd y cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd. Nid y rhai mwyaf siaradgar, ond y rhai mwyaf myfyrgar, ydynt y mwyaf defnyddiol mewn cymdeithas. Pa le bynag y mae brodyr neu chwiorydd ieuainc, yn hoffi cymeryd eu Beibl yn eu llaw, i'w hystafelloedd dirgel, i ddal cymundeb â'r byd ysbrydol, i feddwl am briodoliaethau a gweithredoedd y Duwdod, a throion ei raglunaeth; a hanes y prynedigaeth, a milwriaeth y saint, a dydd marwolaeth, a boreu yr adgyfodiad, a gwaith y farn, ac anobaith gwlad y tywyllwch eithaf, a gogoniant a gwynfyd didranc y nef, y mae'r

cyfryw yn debyg iawn o fod yn aelodau dedwydd a defnyddiol mewn cymdeithas grefyddol.

2. Elfen arall o'r gymdeithas ydyw *goleuni*. "Os rhodiwn yn y goleuni, y mae i ni gymdeithas â'n gilydd." Y mae goleuni natur yn hyfryd i gymdeithion ar eu gyrfa: ond nid goleuni haul natur olygir yma, eithr goleuni Haul cyfiawnder. Goleuni llusern y gair, lamp ysbrydoliaeth; goleuni ysbrydol yn y meddwl; a'r rhai sy'n rhodio yn y goleuni, yn byw agosaf i ffynnonell y goleuni, y rhai sy'n dewis eu hegwyddorion, yn cyfansoddi eu credo, ac yn ffurfio eu bywyd yn y goleuni, dyna y rhai goleuaf a harddaf, a chysonaf, a defnyddiolaf mewn cymdeithas grefyddol.

3. Elfen arall ydyw *cariad*. Nid yw y gair *cariad* yn y testun, ond y mae yn gynnwysedig yn y gair *cymdeithas*. Ni bydd byth gysur mewn cymdeithas heb gariad. Y mae cariad yn hirymaros, yn gymwynasgar; nid yw yn cenfigenu, nac yn ymffrostio, nac yn ymchwyddo; ni chythruddir, ni feddwl ddrwg. Y mae'n hyfryd gweled cariad yn gweithio mewn cymdeithas, yn adgyweirio y beiadwy, yn sychu dagrau y galarus, yn cynnal beichiau y gwan, yn calonogi yr ofnus, yn tynu ymaith y gwreiddyn chwerw, ac yn ei daflu ymaith, yn gosod lles craill o flaen ei olud ei hun. Nid yw cariad byth yn udganu o flaen nac ar ol ei gyflawniadau. Y mae yn gweithio mor ddystaw, mor ddirodres, heb roddi achos tramgwydd i neb. "Cariad byth ni chwymp ymaith."

4. Elfen arall yw *purdeb*. Nid yw y gair *purdeb* ddim yn y testun; ond y mae y gair *gwaed* yn y testun; ac y mae yn arwyddo *purdeb*. Y mae purdeb yn elfen gref mewn cymdeithas —purdeb meddwl a theimlad, purdeb edrychiad ac agwedd, purdeb gair a gweithred. Yr ydym ni wrth natur yn ansantaidd. Y mae anmhuredd yn perthyn i gyflawniadau santeiddiaf ein bywyd cymdeithasol; ond y mae llinell lawn o gysur yn cael ei dwyn i mewn yn sydyn, a bron yn annysgwyliadwy, i'r testun. Prin y buasem yn dysgwyl y fath linell yn y fath gysylltiad— "A gwaed Iesu Grist ei Fab ef sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod;" nid yn unig pechodau cudd y galon, ond pechodau ein cyflawniadau cymdeithasol. Arwydda y geiriau yn y cysylltiad yma, fod y gair, a'r weddi, a'r cydymddyddan, a'r rhybudd, a'r cynghor, a'r bregeth, a'r cymuno, a'r adgyweirio, yn anmherffaith, a'u bod i gael eu "glanhau" drwy y gwaed, cyn y byddont yn effeithiol nac yn dderbyniol.

5. Elfen werthfawr arall ydyw *gweithgarwch*. Ni bydd yr un gymdeithas byth yn llwyddiannus os na bydd yno *weithio*. Y mae cymdeithasau teuluaidd, a masnachol, ac elusengarol, a

gwladol, yn gystal a rhai crefyddol; ond os na weithiant, a gweithio er cyrhaedd eu dyben, gwanychant, a gwywant, a threngant. Y mae gwaith mawr a phwysig iawn ar gyfer pob cymdeithas grefyddol, er cydadeiladaeth ei haelodau ei hun, ac er lles pob cymdeithas fydd yn nghyrhaedd ei dylanwad: a'r cymdeithasau crefyddol sydd yn *gweithio* ffyddlonaf ydynt y rhai llawnaf eu cysuron; a'r rhai fyddant uchaf eu hanrhydedd, ac a fyddant fwyaf eu gwobr.

6. Yr unig elfen arall a grybwyllwn yn awr ydyw *llawenydd.* Dylai pob cymdeithas grefyddol ymgais am fwynhau llawenydd. Y mae duwiol dristwch, neu alar am bechodau a thrallodion y galon, ac am ddrygau y byd, a diffygion yr eglwys, yn wir werthfawr, yn gweithio edifeirwch i fywyd, yn gyfoeth a gwledd i'r profiad, yn addysg i'r byd, yn peri llawenydd i angylion, ac yn sicr o droi yn orfoledd yn yr enaid; a dylid magu y fath deimlad tyner; ond ni ddylai cymdeithas grefyddol fod o hyd yn wynebdrist, yn ben isel, yn bruddglwyfus, ac yn gwynfanus; a siarad yn ddiddiwedd am eu trallodion a'u croesau. Dylent godi eu penau, mewn dull mwy teilwng o'u hurddas a'u breintiau, fel plant y Brenin mawr. Gan fod addewidion y Beibl, ac ymgeledd Rhagluniaeth, a gweinidogaeth angylion, a dyddanwch yr Ysbryd, yn eiddo iddynt; gan fod gorsedd trugaredd yn eu hymyl, ac arlwy yr iachawdwriaeth ar eu bwrdd, a thrysorau gras yn eu cyrhaedd, a gobaith gogoniant yn eu golwg, a'r etifeddiaeth fawr yn eu haros; gan fod Duw yn Dad iddynt, a Iesu yn Frawd iddynt, a'r Dyddanydd yn Arweinydd iddynt, a'r cyfammod disigl yn gylch o'u deutu; dylent, yn lle cwyno yn barhaus, fel pe byddai pob peth yn eu herbyn, lawenychu yn yr Arglwydd, a gorfoleddu yn Nuw eu hiachawdwriaeth. Bydd eu llawenydd yn elw iddynt eu hunain, yn lles i'r byd, ac yn enw i'w Duw. Dyma *brif* elfenau bywyd cymdeithas y saint. Pe gofynid pa un o honynt ydyw y bwysicaf, neu y benaf, byddai yn anhawdd genym benderfynu; y maent yn cyd-ddylanwadu yn ardderchog. Y mae *myfyrdod* yn arwain i oleuni, a *goleuni* yn bywiocâu y cariad, a *chariad* yn magu purdeb trwy ymwneud â'r gwaed, a *phurdeb* yn cymhell i weithgarwch, a *gweithgarwch* yn chwyddo ac yn cryfhau y *llawenydd.* Nis gellir hebgor yr un o'r elfenau hyn heb nychu y gymdeithas.

Wrth gymhwyso ein nodiadau hyn, gallwn grybwyll yn

1. Fod cymdeithasau *llygredig* i'w cael; a gellid barnu, ar yr olwg gyntaf, eu bod yn gryfion ac yn ddedwydd. Y mae ganddynt yn fynych eu gwin a'u gwirod, eu cynghanedd a'u dawns, eu llysoedd addurnedig a'u llestri aur, eu dillad sidan a'u tlysau;

ond *diwedda* eu cymdeithas mewn siomedigaeth a galar, mewn gwae ac anobaith. Yr oedd Belsassar yn llawen iawn pan wnaeth ei wledd i fil o dywysogion, pan yn yfed gwin gyda'i wragedd a'i ordderchadon yn ngwydd y mil; a phan, wrth flas y gwin, y mynasant lestri aur y deml i addurno bwrdd eu cyfeddach: ond pan welwyd bysedd llaw dyn yn ysgrifenu ar galchiad pared y llys, ar gyfer y canwyllbren, newidiodd lliw y brenin, a'i feddyliau a'i cyffroisant ef, fel y dattododd rhwymau ei lwynau, ac y curodd ei liniau y naill wrth y llall. Surodd blas y gwin, chwerwodd melusder y wledd, dystawodd sain y delyn, peidiodd y ddawns, nid oedd ysbryd mwy i oganu y deml a'i dodrefn, nac i foliannu duwiau Babilon, diffoddodd tân eu cyfeillgarwch, dattodwyd rhwymau eu cymdeithas, aeth eu goleuni yn dywyllwch, a'u llawenydd yn alar. Yr oedd Pharaoh a'i gadbeniaid mewn ysbryd uchel pan yn cynllunio i fynu eu gwynfyd ar Israel, ond yr oedd eu ton wedi newid pan yn ceisio ffoi yn erbyn nerth y môr. Yn y tywyllwch am fyd arall y mae pob cymdeithas lygredig yn ateb oreu; derfydd ei holl gysuron yn wyneb purdeb a goleuni y dydd diweddaf.

2. Y mae pob cymdeithas grefyddol i wella. Y mae yma weithiau yn wan, ond daw yn gref; yma weithiau yn dywyll, ond daw yn oleu; yma yn ofnus, ond cyfyd uwchlaw ofnau; yma yn anmherffaith, ond daw yn berffaith; yma yn ychydig o nifer, ond daw yn dorf hardd na ddichon neb ei rhifo. Yma yn yr anial, ar wasgar, oddicartref, yn nghanol gelynion, yn cael èu bylchu gan angeu; ond daw yn fuan adref, i lys eu Tad, i wlad eu hetifeddiaeth, yn eu dillad gwynion, yn fwy na choncwerwyr, lle na bydd neb yn henciddio, na neb yn marw, na neb byth yn glaf, na neb yn gorfod ymadael o'r gymdeithas.

3. Yr ydym oll yn aelodau o ryw gymdeithas. Dylem fod yn aelodau o gymdeithas y saint gyda rhyw *eglwys*. Caiff pawb wrth farw eu casglu at eu pobl. Cymdeithion ein dewisiad yn y byd hwn, fydd ein cymdeithion byth yn y byd a ddaw.

CANU Y NOS.

"Ond ni ddywed neb, Pa le y mae Duw, yr hwn a'm gwnaeth i; yr hwn sydd yn rhoddi achosion i ganu y nos?"—Job xxxv. 10.

Y mae y gair *nos*, mewn ystyr gyffredin, yn arwyddo oriau tywyllwch—o fachludiad haul a diflaniad goleuni un diwrnod hyd dòriad gwawr y dydd dilynol: ond mewn ystyr gyffelybiaethol, neu ffugrol, y mae y gair *nos* yn arwyddo unrhyw dymmor o adfyd a

galar. Y mae yr adnod sydd dan ein sylw yn dysgu i ni dri pheth.

I. Y GALL NOSWEITHIAU TYWYLL TYMHESTLOG O DRALLOD GYFARFOD Y CREDADYN.

1. Gall nos *tlodi* gau o'i ddeutu, pan y bydd fel Job wedi colli ei holl olud bydol—pan y bydd ei holl gyfoeth wedi ehedeg ymaith, a'i holl gysuron daearol wedi diflanu; pan y bydd fel Habacuc a'i ffigysbren heb flodeuo, ac heb ffrwyth ar ei winwydd, a gwaith ei olewydd wedi pallu, a'i feusydd heb roddi bwyd, a'r praidd wedi eu tòri ymaith o'i gorlan, ac heb eidion yn ei feudai; pan y bydd ei gyfan oll o'r pethau a welir wedi toddi ymaith neu gilio. Y mae tywyllni nos felly yn fawr, a'i gwasgfeuon yn drymion.

2. Gall nos dywyll *cystudd* ddyfod i'w ran; nos cystuddiau teuluaidd a phersonol. Y mae yn dywyll ac yn gyfyng pan y bydd cystudd trwm yn ei deulu, pan y bydd ei dad, neu ei fam, neu ei briod yn cwynfan ac yn llewygu dan nerth y clefyd—neu pan y bydd ei blentyn hoff wedi colli ei wrid a'i sirioldeb, ar wely, yn wan ac yn gwynfanus, yn edrych ato, ac yn estyn ei law ato am gymhorth, yn ymdroi gan boen, yn gruddfan y nos am y boreu, a'r boreu am y nos: a dichon pan y bydd tad, neu fam, neu briod, neu blentyn, neu ryw un anwyl ganddo, dan loesau angeuol, yn disgyn o'i olwg i ddyffryn cysgod angeu: neu pan y bydd tymhestloedd cystudd yn siglo ei holl babell ei hun.

3. Gall ystormydd nos ddu *gwasgfeuon gwladol* guro ar y credadyn: pan y bydd newyn yn ei wlad, neu haint, neu gynddaredd terfysg rhwng cymydogion, neu estroniaid arfog yn y porth yn gwneuthur difrod a galanas: pan y bydd y march coch, a'r march du, a'r march gwelwlas, yn carlamu heibio iddo, gyda'u gilydd, yn rhwysg eu nerth, gan ddifwyno pob prydferthwch, a mathru ei gydnabod a'i gyfeillion a'i gymydogion dan draed. Y mae dychrynfeydd, a thywyllwch, a gwasgfeuon nos felly yn arswydus.

4. Gall nos dymhestlog *erledigaethau* o achos yr efengyl oddiweddyd y credadyn. Bu erlid creulawn ar bobl Dduw yn yr Aipht, yn amser rhwysg y Pharoaid ar ol dyddiau Joseph, nes i Moses gael ei godi i'w harwain allan o wlad y caethiwed. Bu erlid yn Babilon, yn amser Nebuchodonosor a Belsassar ac eraill, pan yr oedd plant y gaethglud yn eistedd ar làn afonydd Babel, a'u telynau ar yr helyg, yn wylo o hiraeth am Seion, ac oblegid gwawd a gorthrymder y gelyn. Bu erlid wedi hyny drwy daleithiau Judea, yn nyddiau yr Herodiaid a'u cydswyddwyr; ac wedi hyny yn Rhufain, yn nyddiau Nero a'i frodyr ymerodrol. Bu erlidiau chwerwon mewn amserau diweddarach yn Ffrainc, a Piedmont, a

Spaen; ac yn Lloegr, a Scotland, a'r Iwerddon, yn nyddiau Mari ac Elizabeth a'u Bonneriaid. Bu erlid yn *ddiweddar* yn rhai o dywysogaethau Itali, ac yn Madagascar, a China, a rhai gwledydd eraill. Y mae lle i obeithio na welir mwy ddim cymaint ag a welwyd o erlidiau felly; ond y mae ysbryd erlid yn o gryf a chreulawn etto yn y byd mewn llawer llys gwladol ac eglwysig.

5. Gall nos *amddifadiad o ordinhadau* cymdeithasol crefydd ddal y Cristion: pan y bydd ar wely cystudd yn wan, neu yn trigo yn mysg cymydogion digrefydd a gwatwarus; neu pan ar encil yn Basan, neu mewn caethiwed wrth afonydd tir y gelyn, o gyrhaedd peroriaeth caniadau Seion, ac arogldarth peraidd gweddïau'r saint, a gwledd eu cymundeb; yn sychedig am Dduw, am y Duw byw, am ymddangos ger bron Duw, am weled ei nerth a'i ogoniant yn y cysegr, am gerdded gyda'r gynnulleidfa i'w dŷ mewn sain cân a moliant, am fod gyda'r dyrfa yn cadw gwyl; pan y bydd ei enaid yn ymderfysgu ynddo o hiraeth am gynteddau ac allorau yr Arglwydd; pan y mae ei galon yn toddi o'i fewn wrth gofio fod aderyn y tô yn cael tŷ yno, a bod y wennol yn cael nyth yno, lle y gesyd ei chywion, tra mae ef i lawr yn isel draw yn mhell yn ngwaelod dyffryn Baca, mewn tir cras sychedig, neu yn nyfnderoedd cilfachau y môr, a'r hesg yn cau am ei ben, allan o olwg y bwrdd a'r allor, ac allan o gyrhaedd swn nablau a thelynau y cantorion a'r cerddorion, a swn yr udgyrn arian, a swn clychau aur godre mantell yr offeiriad. Nos ddu drom ydyw hòno.

6. Gall nos *ammheuaeth* weithiau gau yn sydyn oddeutu y Cristion, pan y bydd mewn ysbryd anwyliadwrus, wedi troi allan o lwybr ei ddyledswydd i'r llwybr glas, esmwyth, sy'n arwain i lawr i diroedd anobaith; pan y bydd wedi cael ei ddal yno, ac wedi cael ei guro a'i drybaeddu gan y gelyn, a'i gloi mewn tywyllwch dudew yn nghellodd dyfnaf hen "gastell oer anobaith."

7. Daw *nos angeu* i'w gyfarfod; pan y bydd yn taro ei draed wrth y mynyddoedd tywyll, a chysgodau tewion marwolaeth yn ymestyn drosto; pan y bydd cyntafanedig angeu yn bwyta ei gryfder, ac yntau yn gorfod troi ei gefn ar gyfeillion daear, a rhagorfreintiau daear, a chysuron daear, a holl olygfeydd anwylaf ei fywyd daearol, ac yn cael ei arwain at frenin dychryniadau, i rodio ar hyd y glyn tywyll, ac i rodio yr hen afon ddu i'r byd anweledig. Y mae'n amlwg y gall llawer nos ddu dynhestlog ymgau oddeutu y credadyn; ond dengys y testun yn

II. Fod "achosion canu" yn y nos dywyllaf.

1. Yn nos ddu *tlodi* gall ganu tri phennill:—Fod ganddo gyfoeth *ysbrydol* mewn gafael iddo at dalu ei ffordd: fod ganddo olud mwy yn ei gyrhaedd i'w gael yn ol yr alwad, ac y gall dynu pryd

y myno yn ol ei ffydd o drysorau anchwiliadwy trugaredd: a bod ganddo "olud gwell" yn ei aros erbyn y delo i'w oed, sef etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, ac yn nghadw iddo yn y nefoedd.

2. Y mae ganddo o leiaf dair cân yn oriau tywyllaf nos *cystudd*. Fod cystuddiau oll dan oruchwyliaeth ei Dad nefol, mai llaw dyner ei ddoethineb a'i gariad ef fu'n cymysgu'r pethau chwerwon sydd yn ei gwpan, a bod ei lygad craff a gofalus ef bob moment ar y pair:—y bydd i'r cystuddiau oll *ateb dyben da*, sef ei brofi a'i buro: ac y bydd ef a'i anwyliaid cystuddiol, ar ol eu profi, yn cael eu dwyn *allan o'r peiriau* i gydfyw mewn gwlad lle na bydd neb o'i phreswylwyr yn glaf; ond oll wedi goddiweddyd llawenydd a hyfrydwch, a chystudd a galar wedi ffoi ymaith.

3. Yn yr holl drwst a'r dychryn yn nhrymder tywyllaf nos *gwasgfeuon gwladol*, gall y Cristion ganu yn gyntaf—Fod ei Dduw ef yn teyrnasu, yn Frenin yn oes oesoedd; ei fod yn eistedd ar y llifeiriant, a'i law ar y llyw: yn ail, fod ei saint oll yn ei law ef ac yn gwbl ddiogel, ac y dyry efe nerth ac ymwared a thangnefedd iddynt: ac yn drydydd, fod ei enaid ei hun yn anfarwol; nad all y tân na'r cleddyf ddim ei ladd, nad all na'r haint na'r newyn ddim ei niweidio: a phe byddai i'w *gorff* syrthio yn aberth yn nydd cynddaredd y dinystr, yr ymgodai ei enaid yn iach a rhydd ar aden bywyd didranc i oleuni a thawelwch awyr glir anfarwoldeb.

4. Pe byddai i nos ddu *erledigaeth* gau o'i amgylch, gallai ei Dduw, yr hwn a'i gwnaeth, roddi iddo achosion i ganu yn amser tywyllaf a gerwinaf y dymhestl. Gall ganu fod myrddiynau ag a fuont mor weiniaid ac mor ofnus ag yntau wedi eu cynnal drwy yr erledigaethau poethaf, ac wedi cael gorfoledd yn eu canol, ac wedi gallu gogoneddu eu Duw ynddynt er gwaethaf eu gerwindeb; a gall ganu fod y Duw fu gyda hwy yn y dwfr ac yn y tân, yr un etto i'w waredu a'i ddyddanu yntau.

5. Yn oriau tywyllaf nos ddu *difodiad o ordinhadau crefydd*, gall y credadyn ganu—Fod ei feddwl yn rhydd i ehedeg ar aden ffydd dros feusydd helaeth yr addewidion, a bryniau tawel heulog y cyfammod, i gasglu ffrwythau trugaredd, i yfed o ffynnonau iachawdwriaeth, ac i anadlu awyr peraroglau y wlad well. Gall ganu—Fod ffordd yr orsedd fawr yn rhydd iddo anfon ei weddi at Dduw ei einioes. Gall ganu—Fod gweinidogaeth angylion yn rhydd, nad oes na chlo, na chadwyn, na chwmwl, na chwsg, na chystudd, na gelyn, all eu lluddias hwy i ddyfod i edrych am dano a gweini iddo. A mwy a gwell na'r cyfan, gall ganu—Fod gweinidogaeth y Dyddanydd nefol yn hollol rydd i ymgeleddu ei

gyflwr, i rwymo ei galon ysig, a nerthu a santeiddio holl alluoedd ei enaid.

6. Yn nyfnder nos *ammheuaeth* gall ganu—Fod Iesu yn gwybod am ei wendidau a'i wasgfeuon, am ei gleisiau a'i archollion; a'i fod wedi addaw ei wrando a'i waredu; a'i fod yn cofio ei addewid, ac yn ffyddlawn i'w addewid, ac yn alluog i'w chyflawni; a gall ganu hefyd fod ganddo yn ei feddiant y pryd hyny allwedd o ddefnydd ac o wneuthuriad nefol, a ddichon wthio yn ol holl follt-au tynaf pyrth trymion ei gaethiwed, ac agor holl gloion caethaf hen "gastell anobaith."

7. Y mae ganddo achosion i ganu hyd yn nod yn nos *angeu;* a'i gân wrth farw ydyw y gynhesaf a'r fwyaf o'i holl ganiadau. Y pennill cyntaf ydyw—Fod ei Brynwr yn fyw, wedi buddugol-iaethu ar angeu ac uffern a'r bedd, ac y saif yn y diwedd ar ei ran: ei ail bennill ydyw—Fod yr holl saint a aethant drwy'r glyn o'i flaen wedi croesi yr afon yn ddiogel, ac wedi glànio yn fuddugol yr ochr draw: ei drydydd pennill wrth farw yw—Yr adgyfodir ei gorff i nerth a gogoniant bywyd anllygredig ac anfarwol: a'i bennill melus arall wrth farw yw—Mai dyna y nos *olaf* a'i cyf-erfydd, y dymhestl *olaf* a gura i'w erbyn, fod y cwmwl du *olaf* yn cilio, a bod gwawr dydd tragwyddoldeb yn tòri o'i flaen; fod y byd a'i holl drallodion o'i ol, a bod ei droed ar drothwy porth y ddinas nefol frenhinol fry, ac na bydd nos yno.

III. Y gosodiad arall o'n blaen yma yw—Mai Duw, yr hwn a'i gwnaeth, sydd yn rhoddi i'r credadyn achosion canu y nos. Gellir crybwyll tri phrawf o hyn:—

1. Yn Nuw yn unig y mae pob achosion canu yn ffynnonellu; ynddo ef yn unig y maent i'w cael. Yr hyn ydyw ef, a'r hyn a wnaeth ef, a'r hyn a addawodd ef, ydyw sylfaen pob cân. Bwr-iadau grasol ei gariad ef, doethineb perffaith ei oruchwyliaethau ef, cadernid tragwyddol cyfammod ei drugaredd ef, addewidion sicr a dianwadal ei gynghor ef, cyflawnder cyfoeth ei ras ef, darpar-iaethau goludog ei iachawdwriaeth ef, Iawn anfeidrol ei anwyl Fab ef, dyddanwch diball ei Ysbryd ef, gweinidogaeth anrhydeddus ei angylion ef, gofal effro a dibaid ei Ragluniaeth ef, swyddau uchel cyfryngol ei Eneiniog ef, moroedd didrai a diderfyn ei ddaioni ef, trysorau anchwiliadwy a diddarfod ei nefoedd ef, ydynt yr unig achosion canu sydd gan y credadyn. Hollol ofer iddo feddwl troi i un man arall i chwilio am destunau gorfoledd.

2. Profir hyn oddiwrth ei gyflwr andwyedig dan bechod. Y mae wedi dinystrio ei hun; troseddodd gyfammod ei Grëwr; gad-awodd ffynnon y dyfroedd byw; cloddiodd iddo ei hun bydewau, ïe, pydewau wedi eu tòri, na ddaliant ddwfr. Gwerthodd ei hun

i gaethiwed, gwnaeth ei hun yn ddeiliad o deyrnas y tywyllwch, ymlithrodd i feddiant Satan, ac nid oes ganddo nerth i ddianc. Ni fedd iawn i'w gynnyg er ei brynedigaeth, ac ni buasai ganddo byth obaith, nac unrhyw achos cân, oni buasai i Dduw, yr hwn a'i gwnaeth, gofio am dano, a thosturio wrtho, a meddwl meddyliau o heddwch yn nghylch ei gyflwr truenus, ac agor drws gobaith o'i flaen, a threfnu ar ei gyfer ffordd rydd o waredigaeth.

3. Ceir cadarnhad pellach i hyn yn mhrofiad pob duwiol. Teimlad ei galon ydyw, mai Duw sy'n rhoddi iddo ei holl achosion canu. Dyna iaith ei weddi, dyna eiriad ei gyffes, dyna sylwedd ei gân. Swm ei brofiad ac enaid ei foliant ydyw—"Ein Duw ni sydd Dduw iachawdwriaeth, ac i'r Arglwydd Dduw y perthyn diangfaau rhag marwolaeth. Efe a ymostyngodd ataf, ac a glybu fy llefain, cyfododd fi hefyd o'r pydew erchyll, allan o'r pridd tomlyd, ac a osododd fy nhraed ar y graig, gan hwylio fy ngherddediad, a rhoddodd yn fy ngenau ganiad newydd. Gwell yw dy drugaredd na bywyd, fy ngwefusau a'th foliannant; preswyliaf yn dy babell byth, a'm hymddiried fydd dan gysgod dy adenydd."

CYMHWYSIAD.

1. Gall nosweithiau blinion gyfarfod yr *annuwiol*, ond nis gall "ganu y *nos*." Gall nos ddu tlodi ei oddiweddyd. Gall nos cystudd gau o'i amgylch. Gall tymhestloedd nos gwasgfeuon gwladol guro yn ei erbyn. Bydd nos dychrynfeydd angeu yn *sicr* o'i ddal—dichon yn yr awr na thybio; ond nid oes ganddo byth "achosion i ganu y nos." Pan y mae heulwen dydd difyrwch, a llwyddiant, a hawddfyd, yn tywynu ar ei babell, a nerth iechyd yn chwareu yn ei lygad ac ar ei rudd; pan y mae ei aelodau yn heinyf, a'i fwrdd yn llwythog o arlwyadau, a'i gwpan yn llawn ac yn llifo drosodd, a'i gymdeithion difyrus yn gwenu o'i ddeutu, a'i dir yn cnydio yn dda, a chanddo ddâ lawer wedi eu rhoi i gadw dros lawer o flyneddoedd, a'i galon yn llawen yn eu canol, y mae ganddo yntau ei gân: ond pan y mae y *nos* yn ei ddal, peidia trwst ei orfoledd, derfydd hyfrydwch ei delyn, try ei win yn chwerw iddo, diffydd ei lusern, a diflana ei holl lawenydd: a daw hyny i gyd oll arno am ei fod yn anghofio Duw, ac yn ei gadw ef allan o'i holl feddyliau. Y mae yn wir alarus i feddwl y gellir cymhwyso cwyn Elihu at lawer teulu, a llawer cymdeithas yn ein hamser ni—"Ni ddywed neb pa le y mae Duw, yr hwn a'm gwnaeth i; yr hwn sydd yn rhoddi achosion i ganu y nos?" O! na byddai i'r cyfryw gofio fod y *nos* yn nesâu, ac y byddant hwy heb gân yn y nos, ac nad allant dalu y bai ar neb ond hwy eu hunain pan y delo eu cyfyngder i wasgu arnynt.

2. Nad oes dim peroriaeth effeithiolach na mwynach ar yr holl ddaear na chân y credadyn *yn y nos*. Y mae cân diolch diwrnod heulog llwyddiant yn felus. Y mae cân gwaredigaeth o feddiant y gelyn yn felus. Y mae cân cymundeb y saint pan yn eistedd oddeutu y bwrdd i wledda ar rinweddau yr Aberth mawr yn felus. Y mae cân y credadyn pan yn gorphwys yn dawel a diogel dan gysgod y groes, wrth droed yr orsedd, yn felus: ond melusach na dim ydyw clywed peroriaeth ei gân yn treiddio trwy dew gymylau y nos, ac yn codi yn uwch na rhuad y dymhestl. Y mae peroriaeth fwyn, fyw, gynhes, felly yn cryf hau, ac yn codi, ac yn chwyddo, ac yn treiddio drwy awelon oerion y dywyll nos, yn peri i gythreuliaid sefyll draw mewn syndod, a gwasgu eu gilydd i gilio yn ol o'r clyw i dywyllwch duach. Y mae yn denu angylion, pan ar eu hedyn yn cyflymu heibio, i sefyll a chlustfeinio, a throi o'u llwybr i ymdyru o gylch y credadyn. Y mae yn newid gwedd y gwatwarwr anffyddiog, ac yn ei daro â mudandod. Y mae yn addysg effeithiol i'r byd, yn adfywiol i'r eglwys, yn gryf haol i ddylanwad Cristionogaeth, ac yn anrhydedd i ras y Gwaredwr.

3. Os yw cân y credadyn yn y *nos* mor fwyn ac mor effeithiol, beth fydd pereidd-dra ei gân pan wedi cyrhaedd gwlad y *dydd* diddarfod! pan y bydd wedi cael meddiant o'i drigfan barod yn nhŷ ei Dad—pan gartref yn ei breswylfa lonydd ar fynydd Seion! O!'r olwg hyfryd fydd ar y saint pan yn myned i mewn drwy'r pyrth i ddinas eu cyfarfod, â chaniadau a llawenydd tragwyddol ar eu pen; goddiweddant yno lawenydd, a hyfrydwch digymysg a diddarfod; ac O! mor soniarus y canant gyda'u gilydd pan y bydd pob cystudd a galar wedi ffoi ymaith!

MARWOLAETH AARON.

A GYFANSODDWYD AR YR ACHLYSUR O FARWOLAETH GWEINIDOG.

"Cymer Aaron ac Eleazar ei fab, a dwg hwynt i fyny i fynydd Hor; a dyosg ei wisgoedd oddiam Aaron, a gwisg hwynt am Eleazar ei fab ef: canys Aaron a gesglir at ei bobl, ac a fydd farw yno. A gwnaeth Moses megys y gorchymynodd yr Arglwydd: a hwy a aethant i fyny i fynydd Hor, yn ngwydd yr holl gynnulleidfa. A dyosgodd Moses oddiam Aaron ei wisgoedd, ac a'u gwisgodd hwynt am Eleazar ei fab ef: a bu farw Aaron yno yn mhen y mynydd. A disgynodd Moses ac Eleazar o'r mynydd. A'r holl gynnulleidfa a welsant farw Aaron; a holl dŷ Israel a wylasant am Aaron ddeng niwrnod ar hugain."—NUM. xx. 25—29.

Y MAE llawer o son am farw. Y mae hyny yn hynod o briodol: ond wrth *son* am farw, dylid *teimlo*, a dysgu parotoi erbyn marw.

Rhy anhawdd i ni edrych i unrhyw gyfeiriad, na ddaw rhyw amgylchiad i ddwyn i'n cof ein bod i farw.

Os edrychwn *yn ol*, a meddwl am yr amserau a fu, yr ydym yn gweled fod cenedlaethau a fu ar faes amser wedi cael eu symud gan angeu i'r byd tragwyddol.

Os edrychwn *yn mlaen*, gan feddwl am yr oesau sydd etto i ddyfod, yr ydym yn gweled cenedlaeth yn codi tu draw i genedlaeth; a'r agosaf atom ni yn dyfod yn mlaen yn gyflym i'n gwthio ni o'r ffordd.

Os edrychwn *o'n hamgylch* i'n haddoldai, i'n gweithdai, ac i'n masnachdai, yr ydym yn cael lleoedd llaweroedd, fu yn ddiweddar yn llenwi cylchoedd pwysig ynddynt, yn awr yn weigion.

Os edrychwn i'r mynwentydd, yr ydym yn gweled yno feddau newyddion yn mhob cwr, a'r lle yn cael ei lenwi yn gyflym.

Os edrychwn i groniclau yr oes—y rhai blynyddol, chwarterol, misol, wythnosol, a dyddiol, colofn y "*Bu farw*" ydyw yr hwyaf ynddynt oll; a chyfarfyddir hysbysiadau am farwolaethau yn holl hanes-lyfrau yr hen oesoedd: ac y mae y *Beibl*, bron o'i ddechreu i'w ddiwedd, yn ei hanesion, neu ei athrawiaethau, neu ei orchymynion, neu ei addewidion, yn cyfeirio ein myfyrdod at weinidogaeth angeu. Y mae crybwylliad am ddwy farwolaeth yn y bennod hon—marwolaeth Miriam yn Cades, a marwolaeth Aaron ei brawd yn mynydd Hor.

Y mae yn adroddiad y testun am ddiwedd gyrfa a gweinidogaeth Aaron *bum'* darluniad o farwolaeth:—

I. FEL GOSODIAD O EIDDO YR ARGLWYDD. Daeth gorchymyn pendant o enau Duw gyda golwg ar farwolaeth Aaron: "Cymer Aaron ac Eleazar ei fab, a dwg hwynt i fyny i fynydd Hor; a dyosg ei wisgoedd oddiam Aaron, a gwisg hwynt am Eleazar ei fab: canys Aaron a gesglir at ei bobl, ac a fydd farw yno." Yr oedd y gorchymyn yn un manwl, eglur, pwysig, effeithiol, cyhoeddus, awdurdodol. Nid oedd modd i'w gamddeall, ac nid oedd appeliad i fod yn ei erbyn. Nid oedd newid i fod ar yr amgylchiad, nac oediad i fod ar yr amser. "Gwnaeth Moses megys y gorchymynodd yr Arglwydd." Nid ydym i feddwl y daw gorchymyn *pendant* fel hyn o'r nef, gyda golwg ar le, ac amser, ac amgylchiadau marwolaeth credinwyr yn ein hoes ni. Yr oedd Aaron yn aelod hynod, o deulu hynod, yn llenwi swydd bwysfawr, mewn oes o ryfeddodau. Dichon i'r gorchymyn eglur yma, gyda golwg ar ei symudiad ef, gael ei roddi er anrhydeddu a mawrhau y swydd archoffeiriadol, a elwid yn "urdd Aaron," am mai efe oedd y *cyntaf* i'w llenwi dan yr oruchwyliaeth Lefiaidd.

Nid ydym ychwaith i gasglu fod pob peth perthynol i farwolaeth y *credadyn* wedi cael ei arfaethu a'i drefnu gan Dduw. Y mae gwendidau a beiau yn gysylltiedig â marwolaeth, yn gystal ag â bywyd y credadyn gloywaf ac anwylaf. Y mae pob peth felly yn groes i ewyllys Duw, ac yn niweidiol i gysur a defnyddioldeb y credadyn. Nid ydym i feddwl fod yr Arglwydd wedi trefnu, nac yn gorchymyn dim sydd yn groes i'w feddwl. Y mae pethau *da* bywyd a marwolaeth y dyn duwiol wedi cael eu trefnu gan yr Arglwydd.

Ond pan yr ydym yn son am farw fel *goruchwyliaeth gyffredinol* ag y mae plant dynion wedi dyfod dani, yr ydym yn ei hystyried yn oruchwyliaeth, neu osodiad o drefniad Duw. Y mae ef wedi gosod i ddynion farw unwaith.

1. Y mae defnyddiau a deddfau ein cyfansoddiad yn profi hyny. Y mae y *corff* wedi ei lunio o ddefnyddiau gweledig, cyfnewidiol—wedi ei lunio o'r pridd; y mae ei sail mewn pridd, a malurir ef yn y diwedd gan y gwyfyn. Ac y mae y cwlwm sydd rhwng corff ac enaid yn un ag y gellir yn hawdd iawn ei ddattod, ar unwaith, mewn moment, dan ddyrnod angeu, pa bryd bynag, neu yn mha ddull bynag y daw. Gall yr ergyd lleiaf ddattod y cwlwm. Y mae y pethau lleiaf, megys pelen llawddryll, blaen y nodwydd ddur, dyferyn o wenwyn, gwres y fflam, ergyd dwrn, codwm, &c., wedi gwneud lawer tro; ond nid ellir lladd yr enaid, ac y mae wedi ei gyfansoddi fel y gall fyw a gweithredu ar ol dattodiad y berthynas rhyngddo â'r corff.

2. Y mae Duw wedi trefnu tymmorau amser, ac wedi gosod olwynion rhagluniaeth i gyd-droi yn barhaus er ein gwaethio ni yn mlaen tua phorth marwolaeth: a rhaid i ni symud yn mlaen bob moment, gyda'r peiriant ardderchog, o'r bru i'r bedd, o fabandod i ieuenctyd, o ieuenctyd i nerth canol ein dyddiau; a disgyn i lawr ar ol hyny i wendidau henaint; ac y mae porth angeu wedi ei osod yn union ar ein cyfer, er i ni fyned drwyddo i'r byd tragwyddol.

3. Y mae cydrediad holl dystiolaethau y Beibl yn dysgu yn eglur fod marw yn un o osodiadau yr Arglwydd, neu yn ganlhen fawr o oruchwyliaethau ei ddoethineb a'i awdurdod. "Gosodwyd i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn." "Canys myfi a wn y dygi di fi i farwolaeth; ac i'r tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw." Athrawiaeth eglur y Beibl ydyw, y cilia dyddiau ieuenctyd, y daw y dyddiau blin; y daw yr amser y cryna ceidwaid y tŷ, y cryma y gwŷr cryfion, y metha y rhai sydd yn malu, am eu bod yn ychydig, y tywylla y rhai sydd yn edrych trwy ffenestri; y cauir y pyrth yn yr heolydd, pan fo isel swn y malu, y cyfodir wrth lais yr aderyn, y gostyngir i lawr holl ferched cerdd: y daw

amser yr ofnant yr hyn sydd uchel, ac yr arswydant yn y ffordd, ac y blodeua y pren almon, ac y bydd y ceiliog rhedyn yn faich, ac y palla chwant; y tòrir y llinyn arian, a'r cawg aur, a'r piser gerllaw y ffynnon, a'r olwyn wrth y pydew; y daw y dydd i hebrwng dyn i dŷ ei hir gartref, a'r galarwyr yn myned o bob tu yn yr heol. Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac y dychwel yr ysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef.

II. Darlunia y testun farwolaeth fel YSGARIAD CYFEILLION ANWYLAF ODDIWRTH EU GILYDD. Yr oedd gan Aaron lawer o geraint, a llawer iawn o gyfeillion, ac o gydnabod; ond yr oedd yn canu yn iach iddynt oll wrth esgyn mynydd Hor i farw. Yr oedd ei enw a'i gymeriad yn adnabyddus drwy holl lwythau Israel. Yr oedd wedi bod lawer iawn yn nghymdeithas y blaenoriaid a'r henuriaid; wedi bod yn un o brif aelodau eu cynghor, ar bob amgylchiad; yr oeddynt yn edrych arno fel un o brif henuriaid y genedl; ond wrth gychwyn i fynydd Hor y tro yma, yr oedd yn *ffarwelio* â hwynt oll, am y tro diweddaf ar y ddaear. Nid oeddynt i weled ei wyneb, nac i glywed ei gynghor mwy. Yr oedd ganddo hefyd *frawd* cu, ac anwyl, a ffyddlawn, sef Moses. Yr oeddynt wedi bod lawer iawn gyda'u gilydd; wedi bod yn hoff iawn o'u gilydd pan yn blant gartref ar aelwyd eu rhïeni. Yr oeddynt, ar ol bod hir amser yn mhell oddiwrth eu gilydd, wedi adnewyddu eu cyfeillach ar anfoniad Moses o Horeb i ymweled â phlant Israel yn nhrymder eu caethiwed. Yr oeddynt gyda'u gilydd yn llys yr Aipht, yn traddodi cenadwri yr Arglwydd, ar ran ei bobl, i Pharaoh a'i gadbeniaid. Yr oeddynt gyda'u gilydd yn gwneud yr arwyddion a'r rhyfeddodau ger bron Pharaoh a'i swynwyr, a gwŷr ei lys. Yr oeddynt gyda'u gilydd pan yn trefnu sefydliad y pasg, pan yn gwledda ar yr oen, pan yn cychwyn y daith fawr o dir y caethiwed, pan yn croesi y môr, pan yn canu ar ol ei groesi, pan yn nghanol profedigaethau a gwyrthiau yr anialwch; yr oeddynt wedi bod gyda'u gilydd drwy bron holl helyntion deugain mlynedd y daith: ond y maent yn awr ar ben mynydd Hor, wedi cerdded gyda'u gilydd am y tro diweddaf, yn edrych yn wynebau eu gilydd, ac yn gafaelyd yn nwylaw eu gilydd, am y tro diweddaf! Ac yr oedd gan Aaron hefyd *fab* anwyl ac ufudd iawn, wedi esgyn gydag ef i'r mynydd; ond y mae angeu yn eu hysgaru yno. Y mae ei fab a'i frawd yn cael cymmal ei ben a'i wylio i farw; ac yna y maent yn ei golli. Y mae angeu yn mhob oes, a than bob goruchwyliaeth, yn dattod y cylymau anwylaf ac agosaf, ac yn ysgaru cyfeillion a cheraint oddiwrth eu gilydd. Rhwygodd rhwng Abraham a Sarah, rhwng Isaac a Rebecca, rhwng Jacob a Rahel, rhwng Joseph a Benjamin, rhwng Job a'i

blant, rhwng Dafydd a Jonathan, rhwng Samuel ac Eli, rhwng Elias ac Eliseus; a'r un modd mae'n gwneud yn ein dyddiau ni. Pan y mae yn cymeryd y tad ymaith, y mae y plant yn colli ei addysg. Pan y mae yn cymeryd y fam ymaith, y mae ei babanod yn colli ei hymgeledd. Pan y mae yn cymeryd y gwr ymaith, y mae y weddw yn colli ei nodded. Pan y mae yn cymeryd y cyntafanedig ymaith, y mae y rhïeni yn colli hoffder eu llygaid. Pan y mae yn cymeryd y gweinidog ymaith, y mae yr eglwys yn colli ei bugail. Pan y mae yn cymeryd yr athraw ymaith, y mae y dosbarth yn colli ei gyfarwyddwr.

Felly, gan fod angeu yn ysgaru y cyfeillion anwylaf oddiwrth eu gilydd, y mae hyny yn dysgu i ni y dylem wneud ein goreu er lles *i'n* cyfeillion, ac er cael lles *oddiwrth* ein cyfeillion, tra y cawn fod gyda'n gilydd; fel y byddom, ar ol marw, yn cael dedwydd gyfarfod i gydfyw yn dragywydd yn y wlad well.

III. Darlunir marwolaeth yn y testun fel DYOSGIAD GWISGOEDD POB SWYDDAU A PHOB GALWEDIGAETHAU DAEAROL. "A dyosgodd Moses oddiam Aaron ei wisgoedd, ac a'u gwisgodd hwynt am Eleazar ei fab ef." Yr oedd gwisgoedd Aaron yn odidog iawn, wedi eu gwneud o'r defnyddiau gwerthfawrocaf—o sidan glas, a phorphor, ac ysgarlad, a llian main cyfrodedd, ac wedi eu haddurno âg aur a meini gwerthfawr: yr oeddynt wedi eu gwneud gan y dwylaw cywreiniaf yn Israel, yn ol y portread a ddangoswyd i Moses yn y mynydd. Yr oedd meitr hardd i addurno y pen; ac ar y meitr, o'r tu blaen, i fod ar dalcen Aaron, yr oedd dalen o aur coeth, ac wedi ei naddu arni, fel naddiadau sel, "Santeiddrwydd i'r Arglwydd." Yr oedd ephod o waith cywraint i fod am y corff; ac yr oedd dau faen onix i fod ar ysgwyddau yr ephod; ac enwau meibion Israel, yn ol eu genedigaeth, wedi eu naddu ar y meini hyny. Ac yr oedd dwyfroneg barnedigaeth, o waith cywraint, i fod ar yr ephod, yn bedair ongl, yn ddau ddyblyg, yn rhychwant ei hyd, ac yn rhychwant ei lled, yn hongian ar y ddwyfron, wrth ddwy gadwyn aur, wedi eu byclu wrth foglynau aur ar ysgwyddau yr ephod; a modrwyau aur ar ei chonglau, i'w rhwymo â llinynau o sidan, wrth fodrwyau aur yr ephod, fel na ddattodid y ddwyfroneg oddiwrth yr ephod. Yr oedd pedair rhes o feini gwerthfawr yn y ddwyfroneg, oll yn ddeuddeg o feini *gwahanol*, ac enw un o'r llwythau, o naddiad sel, ar bob maen; ac ar ganol y ddwyfroneg yr oedd yr Urim a'r Thummim, ar galon Aaron pan elai i mewn ger bron yr Arglwydd; yn arwyddo, dichon, *Oleuni perffaith:* a bernir y gallai yr archoffeiriad ymgynghori â Duw drwy yr Urim a'r Thummim, felly yr oedd yn dwyn enwau meibion Israel ar y ddau faen coffadwriaeth oedd ar

ei ysgwyddau, ac hefyd ar y deuddeg maen barnedigaeth yn y ddwyfroneg; ac yr oedd arwyddion coffadwriaeth y llwythau, ac arwyddion presenoldeb yr Arglwydd ganddo ar ei galon yn wastadol. Yr oedd gwregys cywraint yr ephod o'r un waith a hi; ac hefyd o'r un defnyddiau; ac o'r gwregys i lawr hyd y traed, yr oedd mantell yr ephod, oll o sidan glas; a phomgranadau o borphor ac ysgarlad ar ei godre, o amgylch; a chloch aur rhwng y naill bomgranad a'r llall, fel y clywid swn yr archoffeiriad pan yn gweini yn y cysegr. Gwnaed y gwisgoedd hyn i Aaron er "gogoniant a harddwch;" a gelwid hwy yn "wisgoedd santaidd," ac yn "wisgoedd y weinidogaeth," am mai ynddynt yr oedd i "weini yn y cysegr." Yr oedd wedi bod yn gweini ei swydd fel archoffeiriad, yn y "gwisgoedd santaidd" hyn, am bron ddeugain mlynedd; ond wele ef yn eu gwisgo y *tro diweddaf*, ac yn myned i fyny i'r mynydd, yn ngolwg yr holl gynnulleidfa, i'w dyosg oddiam dano i'w gadael i arall; ac yma y mae yn plygu ei ben i farw.

Ac felly y mae pawb, yn mhob oes, pan yn marw, yn gadael eu gwisgoedd swyddol i eraill. Pan y mae brenin neu frenhines yn marw, y mae yn gadael y goron, a'r fantell, a'r deyrnwialen, a'r deyrngadair, a sel y frenhiniaeth, i arall. Pan y mae cadeirydd y Senedd yn marw, y mae yn gadael ei wisg hardd ac addurn ei swydd i'w olynydd. Pan y mae barnwr yn marw, y mae yn gadael y gŵn coch a'r cap du i arall. Pan y mae archesgob yn marw, y mae yn gadael ei feitr, a'i fantell, a'i arffedog fer, a'i lewys llaesion, i arall. Pan y mae y maeslywydd yn marw, y mae yn gadael ei gleddyf, a'i fyclau, a'i ddillad milwraidd, i arall. Pan y mae llyngesydd yn marw, y mae yn gadael ei lunan a'i long i'w olynydd. A gellir dweyd yr un peth am *holl* swyddau ein byd ni. Pan y mae yr arlywydd yn marw, y mae yn gadael ei le yn y Tŷ Gwyn i'w olynydd. Pan y mae llywydd talaeth yn marw, y mae yn gadael sel a swyddfa ei lywodraeth i arall. A'r un modd am holl swyddau îs y ddaear. Pan y mae cyfreithiwr yn marw, y mae yn gadael holl bapyrau ei swyddfa i eraill orphen yr hyn oedd ef wedi gychwyn. Pan y mae marsiandwr yn marw, y mae yn gadael ei long a'i llwyth i eraill. Pan y mae amaethydd yn marw, y mae yn gadael ar ol ei dyddyn, ei anifeiliaid, a'i holl offer amaethyddiaeth. Pan y mae y celfyddydwr yn marw, y mae yn gadael ei arfau a'i weithdy i eraill: a phan y mae pregethwr neu weinidog yn marw, y mae arall yn cael ei lyfrgell, ei Feibl, ei rodfeydd dirgel, a'i areithfa. Felly y mae pob un pan yn marw yn newid ei wisgoedd *swyddol* am yr *amdo gwyn* a dillad y bedd.

Y mae yr olwg yma ar farwolaeth yn dysgu i ni y dylai pawb

fod gyda rhyw alwedigaeth doilwng: ac y dylai pawb fod yn egnïol ac yn ddyfal yn eu galwedigaethau, fel y gallont ddyosg eu *gwisgoedd* gweithio gyda phrofiad cysurus, a noswylio yn dawel, a myned i orphwys a huno yn ngwely y bedd, heb nac euogrwydd na dychryn, er cael codi yn siriol, a hardd, a bywiog, o flaen gorsedd y Meistr mawr, i roddi i fyny y cyfrifon, yn nydd agoriad y llyfrau, a derbyniad y wobr.

IV. Darlunia y testun farwolaeth fel CASGLIAD YR YSBRYD I'W LE EI HUN, AC AT EI EIDDO EI HUN, MEWN SEFYLLFA DDYFODOL; "Canys Aaron a gesglir at ei bobl, ac a fydd farw yno." Nid ydyw y geiriau *at ei bobl* yn yr iaith wreiddiol. Yr ystyr ydyw, Aaron a gesglir *at ei eiddo*—at ei wobr, i'w gartref at ei geraint, a'i deulu sydd wedi blaenu, at ei gyfeillion anfarwol mewn byd arall—at Abel ac Enoch, a Noah a Job, ac Abraham ac Isaac, a Jacob, a Judah, a Joseph, a Jochebed ei fam, a Miriam ei chwaer; at rai o'r un ysbryd ac egwyddorion ag yntau; i gymanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, at ysbrydoedd y cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd, i gysegr perffeithiach na hyd yn nod le y drugareddfa gynt, i wisgo gwisgoedd harddach na'r rhai a ddyosgwyd oddiam dano ar fynydd Hor; i wyddfod gogoneddus Duw, Barnwr pawb; ac at Iesu, Cyfryngwr holl oruchwyliaethau trugaredd, i fwynhau ei fythol ran o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.

Y mae yr olwg yma ar farw, fel casgliad enaid *at ei bobl*, yn dysgu i ni yn

1. Fod gan bawb "eu pobl" yn y byd yma; fod gan bob dyn ei ochr, ei faes gwasanaeth, ei flaenor, ei faner, a'i fyddin.

2. Fod pobl pawb ag ydynt wedi blaenu o'r byd yma etto *yn fyw* mewn byd arall, mewn byd anweledig ac anfarwol.

3. Eu bod oll yno yn eu lle eu hunain, gyda'u *teulu* eu hunain. Nid oes yno ddim cymysg, neb o bobl Abel gyda Cain, na neb o bobl Cain gydag Abel; ond pob un gyda'i bobl ei hun.

4. Fod pob un sydd yn marw yn ein hoes ni yn cael ei gasglu at ei bobl. Ni bydd dim camgymeriad yn y symud o'r naill fyd i'r llall. Bydd llygad hollwybodaeth yn ddigon craff i adwaen pawb. Bydd llais cyfiawnder yn ddigon cryf ac eglur i gyhoeddi y ddedfryd briodol ar bawb; a bydd braich hollalluogrwydd yn ddigon cref i gasglu pawb i'w lle eu hunain.

5. Na bydd dim newid pobl i fod ar ol i enaid gael ei gasglu yn angeu "at ei bobl." Ni bydd dim newid egwyddorion, na newid cymdeithion ar ol awr marwolaeth. Bydd i'r anghyfiawn barhau byth yn anghyfiawn, a chartrefu byth gyda'r anghyfiawnion; a bydd y cyfiawn yn gyfiawn byth, a chaiff ddedwydd fyw gyda'r cyfiawnion yn oes oesoedd.

6. Fod pobl Aaron yn y nef yn *llawer amlach* yn awr nag oeddynt pan aeth ef yno o fynydd Hor. Y mae dros dair mil a thri chant o flynyddoedd er pan ddyosgodd ef ei wisgoedd; ac y mae myrddiynau o fyrddiynau wedi cael eu *casglu* yno ar ol hyny; ac y mae y gymanfa fawr yn lluosogi yn barhaus. Ond yr addysg *ymarferol* benaf i ni yn yr olwg yma ar angeu yn "casglu rhai at eu pobl" ydyw, y dylem ni yn awr yn ein bywyd a'n hiechyd, y dylem ni yn awr yn ddioed, ddewis y bobl hyny i fod yn bobl i ni ag y carem fod gyda hwy yn nydd yr adgyfodiad a'r farn, ac yn y byd mawr diddiwedd a digyfnewid.

V. Arwydda y testun fod marw—gan ei fod yn osodiad o eiddo Duw—yn ymadawiad â chyfeillion—yn ddyosgiad gwisgoedd pob swyddau daearol—ac yn gasgliad yr enaid at ei bobl i fyd arall —YN AMGYLCHIAD TEILWNG IAWN O YSTYRIAETH—yn amgylchiad ag y dylai y byw ei osod at eu calon. "A'r holl gynnulleidfa a welsant farw Aaron; a holl dŷ Israel a wylasant am Aaron ddeng niwrnod ar hugain." Treuliasant, yn ol defod yr Aipht, fis o ddyddiau galar; a diau eu bod yn meddwl ac yn son llawer am ei farwolaeth ef, a marwolaethau eraill, yn ystod y dyddiau hyny. Yr oeddynt yn dywedyd wrth eu gilydd, Yr ydym yn colli ein blaenoriaid o un i un. Yr oedd Aaron yn un o'r rhai hynaf yn ein gwersyll; ond y mae ein *harchoffeiriad* tirion ei dymher, ffraeth ei ymadrodd, siriol ei wyneb, hardd yn ei wisgoedd, boneddigaidd ei ymddygiad, ffyddlawn i'w swydd, yn awr wedi ein gadael. Y mae Aaron wedi blaenu at ei bobl. Bu lawer tro, â'i thuser aur yn ei law, yn gweini drosom yn y cysegr; ond y mae wedi dyosg ei wisgoedd, a rhoddi ei swydd heibio. Ni chawn glywed ei lais, na gweled ei wyneb mwy. A dichon fod yno ambell deulu yn dweyd, Y pryd hyn y llynedd yr oeddym ninnau yn claddu ein tad; ac eraill yn ateb eu bod hwy wedi colli eu rhieni er's bron ddeugain mlynedd yn Cibroth-Hattaafah, neu yn Tabera, neu yn Mara. Byddai yn fuddiol i ninnau etto feddwl a son llawer am *farw*. Nid yw o gymaint pwys i ni gadw at yr hen ddefod o neilldu mis o ddyddiau at hyny: ond dylem "farw beunydd." Hyny ydyw, dylem yn

1. Ystyried yn ddifrifol beth yw marw. Darfyddiad â phob peth daearol, a symudiad i'r byd diddarfod! gadael ar ol orchwylion y byd yma, a dechreu byw byth yn myd yr ysbrydoedd.

2. Ystyried fod awr marw yn sicr o ddyfod, ac y gall ddyfod yn fuan.

3. Ystyried fod genym barotoadau mawrion a phwysig i'w gwneuthur erbyn marw, sef cael Iesu yn Waredwr i ni, cael ein dattod o'r byd, a chael ein serch ar y nefoedd.

4. Ystyried y bydd canlyniadau marw yn dragwyddol, ac yn bwysig amnhraethadwy. Ni wna ddim drwg i ni ystyried y pethau hyn, ond gall fod yn foddion i'n cynhyrfu i fwy o ddiwydrwydd ac ymdrech, ac i fagu ynom fwy o ysbryd gwyliadwriaeth a gweddi. Byddai yn ddymunol iawn ein bod wedi dysgu "marw beunydd" cyn i angeu ein galw ymaith.

Yr ydym yn cael tystiolaethau newyddion bron bob wythnos fod marw yn ein haros. Y mae ein hen gyfaill *Richard Owens*, Hafodyfoel, newydd ein gadael. Estynwyd ei ddyddiau i gyrhaedd oedran teg; ond daeth yn hawdd iddo ddeall y geiriau, "Eu nerth sydd boen a blinder." Yr oedd wedi cyrhaedd henaint pan ddaeth at grefydd. Cydnabyddai yn ddifrifol fod hyny yn golled ac yn anfantais iddo. Ni chafodd ddim cyfleusderau na chymhelliadau yn ei febyd i fagu doniau cymdeithasol crefydd; ond tystiai fod yn dda iawn ganddo iddo gael ei blygu yn y diwedd i ofyn am le ac enw yn eglwys Dduw. Effeithiodd marwolaeth ei ddau fab yn ddwys iawn ar ei deimlad. Yr oedd ei hiraeth mor drwm ar eu hol, fel na ddarfu ei galon byth iachâu. Yr oedd yn dda iawn ganddo eu bod hwy wedi cael y fraint o fod yn ddefnyddiol yn eu cylchoedd—un fel diacon yn yr eglwys yma, a'r llall fel gweinidog cymeradwy gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Dywedai yn fynych fod eu marwolaeth hwy wedi dwyn pethau y byd ysbrydol yn nes i'w brofiad; a bod y gobaith o gael myned atynt yn nerthu ei ysbryd; ac y mae yn ddyddanol i feddwl am *angeu* yn casglu duwiolion at eu gilydd i dir y bywyd.

Y mae un arall o'n cyfeillion, sef y Parchedig John Breese, o Gaerfyrddin, newydd orphen ei yrfa. Magwyd ef yma yn Llanbrynmair. Derbyniwyd ef yn aelod o'r eglwys yn yr Hen Gapel; ac yma dechreuodd bregethu. Y mae yma rai yn cofio yn dda am ei ysbryd a'i ddoniau yn nechreuad ei yrfa grefyddol—am ei anerchion yn nghyfarfodydd y bechgyn ieuainc yn Llawrycoed—am ei sylwadau goleu a chynhes yn y cymdeithasau crefyddol, ac yn ei ddosbarth yn yr Ysgol Sabbathol, ac yn nghynnadleddau yr athrawon—ac am nerth taerineb ei weddïau cynnwysfawr. Yr oedd ei ymddyddanion yn brawf ei fod yn hoffi myfyrio am bethau crefydd. Yr oedd yn dda ganddo tra yn yr Athrofa, ac ar ol ei sefydliad yn y weinidogaeth, ddyfod i ymweled â Llanbrynmair, ardal ei enedigaeth, i bregethu y gair i'w hen gymydogion: ac yr oedd y gwrandawiad lluosog fyddai yn gael bob amser, yn brawf eu bod hwythau yn caru ei weled a'i glywed yntau. Clywodd y rhan fwyaf o honom ef yn pregethu ar brif ganghenau yr athrawiaeth yn ol duwioldeb: ar arfaethau y nef—ar gread pob peth drwy Jesu Grist—ar Iawn y groes—ar athrawiaeth cyfriflad—ar

waith yr Ysbryd—ar gysylltiad gras a dyledswydd—ar gyfiawnhad drwy ffydd—ac ar ogoniant y nef. Cofir yn hir am ei bregeth felus wrth Benybont, oddiwrth eiriau Paul, "Canys y mae yn gyfyng arnaf o'r ddeutu, gan fod genyf chwant i'm dattod, ac i fod gyda Christ; canys llawer iawn gwell ydyw." Yr oedd yr ystyriaeth fod Mrs. Jones y pryd hyny ar ei gwely angeu, ac yn cael profiad mor gryf a dedwydd o athrawiaeth y bregeth, yn gymhorth i beri iddi effeithio yn anarferol ar y dorf fawr oedd yn ei gwrando. Yr oedd ei bregeth *ymadawol* yma, pan yn symud i ddechreu ei weinidogaeth yn Liverpool, yn un nodedig effeithiol a difrifol, oddiwrth y geiriau, "Canys perarogl Crist ydym ni i Dduw, yn y rhai cadwedig, ac yn y rhai colledig: i'r naill yr ydym yn arogl marwolaeth i farwolaeth; ac i'r lleill yn arogl bywyd i fywyd: a phwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?" Yr oedd ei bregeth ar *ddirywiad*, oddiwrth Hosea vii. 9, "Estroniaid a fwytant ei gryfder, ac nis gwyr efe: ymdaenodd penwyni ar hyd-ddo, ac nis gwybu efe," yn un o awch a nerth anarferol. Yr oedd ei ddwy bregeth, y Sabbath cyntaf y bu yma ar ol marwolaeth fy nhad, yn gyfoethog o'r cysuron melysaf—un ar "Adgyfodiad y corff," a'r llall ar "Ddwyn meibion lawer i ogoniant." Ac yr oedd ei bregeth i'r eglwys a'r gynnulleidfa yma ar achlysur urddiad fy mrawd yn un lawn drwyddi o serch a ffyddlondeb. Bu yn gweinidogaethu mewn addoldai eang, ac i gynnulleidfaoedd *mawrion*, yn Liverpool, ac yn Nghaerfyrddin. Pregethai deirgwaith y Sabbath. Yr oedd cyfansoddiad ei bregethau yn gofyn llawer o feddwl, ac yr oedd ei ddull yn eu traddodi yn gofyn llawer o nerth corff. Bernir y buasai ei oes yn *hŵy*, ac y buasai ei weinidogaeth fywiog a llafurus, ar y cyfan, yn llawn mor ddefnyddiol, pe buasai yn gallu rhoddi llai o egni corff, a llai o gynhwrf teimlad wrth bregethu. Y mae yn awr wedi myned i orphwys. Casglwyd ef at ei frodyr a'i dadau o Lanbrynmair, a'r Wern, a Threffynnon, a Dinbych, a Llanfyllin. Daw yr adeg yn fuan iawn pan y bydd raid i *ni* ei gyfarfod *ef*, ac *eraill* fu yn pregethu i ni, o flaen y frawdle fawr. Gwnawn ein goreu ar i'r cyfarfod mawr hwnw fod yn un dedwydd i ni; ac os bydd felly, bydd yn gyfarfod annhraethol ddedwyddach na'r un a gafwyd erioed yr ochr hyn i'r bedd.

BRAD AC EDIFEIRWCH JUDAS.

"Yna pan welodd Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, ddarfod ei gondemnio ef, bu edifar ganddo, ac a ddug drachefn y deg ar hugain arian i'r archoffeiriaid a'r henuriaid, gan ddywedyd, Pechais, gan fradychu gwaed gwirion. Hwythau a ddywedasant, Pa beth yw hyny i ni? edrych di."—Mat. xxvii. 3, 4.

Cyfeirir yma at un o'r gweithredoedd mwyaf ysgeler a gyflawnwyd erioed; sef gwaith Judas, "un o'r deuddeg," yn bradychu yr Iesu i ddwylaw ei elynion. Cawn yn yr hanes *bum'* golygfa ar ei fradwriaeth.

Y *gyntaf* yn yr oruwchystafell, ar y swper, pan y dywedodd yr Iesu, dan y teimlad dwysaf, wrthynt, "Yn wir yr wyf yn dywedyd i chwi, mai un o honoch chwi a'm bradycha i. A hwythau yn drist iawn a ddechreuasant ddywedyd wrtho, bob un o honynt, Ai myfi yw, Arglwydd? Ac efe a atebodd, Yr hwn a wlych ei law gyda mi yn y ddysgl, hwnw a'm bradycha i. Mab y dyn yn ddiau sydd yn myned, fel y mae yn ysgrifenedig am dano: eithr gwae'r dyn hwnw drwy yr hwn y bradychir Mab y dyn, da fuasai i'r dyn hwnw pe nas ganesid ef. A Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, a atebodd ac a ddywedodd, Ai myfi yw efe, Athraw? Yntau a ddywedodd wrtho, Ti a ddywedaist." Ond yr oedd y dysgyblion cywir yn parhau i edrych ar eu gilydd, gan ammheu ar bwy yr oedd efe yn dywedyd. Ac yr oedd un o honynt yn pwyso ar fynwes yr Iesu; ac amneidiodd Simon Pedr ar hwnw i ofyn, pwy oedd efe, am yr hwn yr oedd yn dywedyd. A'r hwn oedd yn pwyso ar ddwyfron yr Iesu a ofynodd, "Arglwydd, pwy yw efe? Yr Iesu a atebodd, Hwnw yw efe i'r hwn y rhoddaf fi damaid wedi i mi ei wlychu. Ac wedi iddo wlychu y tamaid, efe a'i rhoddodd i Judas Iscariot. Ac ar ol y tamaid, yna yr aeth Satan i mewn iddo. Am hyny y dywedodd yr Iesu wrtho, Hyn yr wyt yn ei wneuthur, gwna ar frys. Ac ni wyddai neb o'r rhai oedd yn eistedd i ba beth y dywedasai efe hyn wrtho. Canys rhai oedd yn tybied, am fod Judas â'r gôd ganddo, fod yr Iesu yn dywedyd wrtho, Pryn y pethau sydd arnom eu heisieu erbyn yr wyl; neu, ar roi o hono beth i'r tlodion. Yntau, gan hyny, wedi derbyn y tamaid, a aeth allan yn ebrwydd: ac yr oedd hi yn nos." Gwelir yn yr olygfa effeithiol yma bryder pob un o'r dysgyblion cywir rhag iddo, mewn awr o brofedigaeth, droi yn fradychwr; a brad calon galed Judas yn addfedu hyd yn nod pan oedd yn derbyn y tamaid o law ei Athraw ffyddlawn; ac awydd santaidd Iesu am i'r bradwr, ag oedd yn caledu i'r fath frad, yn wyneb y fath rybudd, droi allan o'r gymdeithas.

Ceir yr *ail* olygfa, yn ddiocd ar ol hyny, yn llys yr archoffeiriad.

Yr oedd yno gynghor yn cael ei gynnal ar y pryd, yn nyfnder y nos, i ystyried pa fodd i ddal yr Iesu, i'w osod i farwolaeth. Yr oedd yno ddwy farn yn eu cynghor. Yr oedd rhai am drefnu i'w ddal ar unwaith, yr oedd eraill am oedi, gan ddywedyd, "Nid ar yr wyl, rhag bod cynhwrf yn mhlith y bobl:" a'r llais dros *oedi* oedd y cryfaf, nes i Judas fyned i mewn. Yr oedd yn dda ganddynt ei weled. Cytunasant yn rhwydd iawn i roddi y deg ar hugain arian. Yr oeddynt oll yn falch o'r cytundeb. Yr oedd yn dda ganddynt hwy gael "un o'r deuddeg" i fod yn flaenor eu dichell; ac yr oedd yn dda ganddo yntau gael y fath gyfle i weithio ei hun i ffafr yr archoffeiriaid a'r ysgrifenyddion a henuriaid y bobl. Aeth yn fawr ar unwaith gyda'r gwŷr mawr drwy ei frad a'i gyfrwysder.

Ceir y *drydedd* olygfa yn ngardd Gethsemane. Aeth yr Iesu o'r swper i'r ardd; ac yno yr oedd, mewn ymdrech meddwl, yn gweddïo yn ddyfalach, a'i chwys ef oedd fel defnynau gwaed yn disgyn ar y ddaear. Erfyniodd ar y tri dysgybl oeddynt gydag ef yn yr ardd, wylio gydag ef, am fod ei enaid yn drist iawn hyd angeu; ond ymollyngasant i gysgu gan dristwch a blinder; eithr ymddangosodd *angel* i'w nerthu, a daeth at ei ddysgyblion, a dywedodd, "Codwch, awn: wele nesaodd yr hwn sydd yn fy mradychu. Ac efe etto yn llefaru, wele, Judas a ddaeth, a chydag ef dyrfa fawr â chleddyfau, a ffyn, oddiwrth yr archoffeiriaid a henuriaid y bobl." Adwaenai Judas y lle, oblegid mynych y cyrchasai yr Iesu a'i ddysgyblion yno. Yr oedd Judas wedi deall bwriad yr Iesu i fod yno yn gweddïo y nos hòno; ac arweiniodd fyddin y lanternau, a'r lampau, a'r arfau, yn union i'r fan. A'r bradychwr a roisai arwydd iddynt, gan ddywedyd, "Pa un bynag a gusanwyf, hwnw yw efe: deliwch ef. Ac yn ebrwydd y daeth at yr Iesu, ac a ddywedodd, Henffych well, Athraw, ac a'i cusanodd ef. A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Ai â chusan yr wyt ti yn bradychu Mab y dyn?" ac yna daliwyd ef, ond erfyniodd oddefiad i iachâu clust Malchus cyn iddynt ei rwymo.

Ceir y *bedwaredd* olygfa yn y deml, foreu dydd y croeshoeliad. Daeth Judas yno, ar adeg y gwasanaeth, dan wasgfeuon dychryn cydwybod euog, i ddychwelyd yn ol y deg ar hugain arian i'r archoffeiriaid a'r henuriaid; a gwaeddodd yn wyllt, yn ei ing, yn nghlyw pawb oedd yno, "Pechais, gan fradychu gwaed gwirion. Hwythau a ddywedasant, Pa beth yw hyny i ni? edrych di." Ac efe a frysiodd allan, â dychryn anobaith yn ei wedd ac yn ei galon.

Bu yr olygfa *olaf* mewn lle unig, anial, lle yr ymgrogodd, ac yr aeth i'w le ei hun.

Er cael addysg ymarferol i ni oddiwrth y trosedd anfad, a'r cwymp galarus hwn, crybwyllwn yn

I. Rai o'r profedigaethau a hudasant Judas i'r cyflawniad o'r fath drosedd.

1. Camfarn am gymeriad yr Iesu. Camolwg ar natur ei frenhiniaeth, ac ar amcanion ei gyfryngdod, ac anghymeradwyaeth o'i gynlluniau, ac o egwyddorion blaenaf ei weinidogaeth. Yr oedd Judas, fel y dysgyblion eraill, wedi dysgwyl y buasai brenhiniaeth yr Iesu o'r byd hwn; y buasai yn dyfod mewn mawredd a rhwysg daearol, y buasai ganddo goron ar ei ben, a chadwyn aur am ei wddf, a mantell frenhinol am dano, a theyrnwialen yn ei law, a gosgordd hardd, a byddinoedd lluosog yn ei ddilyn, ac y buasai yn codi ei orsedd ac yn cynnal ei lys yn Jerusalem, ac y buasai yn tòri iau Rhufain, ac yn "gwaredu yr Israel," ac yn plygu galluoedd daear i fod dan deyrnged iddo; ac y buasai yn codi ei ganlynwyr i gyfoeth, ac awdurdod, ac urddas mawr: a diammheu fod Judas wedi dysgwyl y buasai yn cael ei godi i gylch o'r dylanwad mwyaf, ac i swydd o'r anrhydedd uchaf fel prif drysorydd y frenhiniaeth; a'i fod wedi gosod ei galon ar hyn. Ond daeth Mab y dyn mewn dull hollol wahanol—heb rwysg, heb gyfoeth, heb gerbyd, heb osgordd, heb le i roddi ei ben i lawr; ac yr oedd yn athrawiaethu am hunanymwadiad, am godi y groes, am beidio rhoddi serch ar drysorau nac urddas y ddaear; ac yr oedd yn annog ei ddysgyblion i fod yn addfwyn, yn dangnefeddwyr, yn drugarogion, yn bur o galon, i newynu a sychedu am gyfiawnder, ac i foddloni cymeryd eu gwaradwyddo a'u herlid er mwyn yr efengyl; a dysgwyl am eu gwobr yn y nefoedd: yr oedd yn egluro mai dyna ydoedd ysbryd teyrnas nefoedd, ac mai felly y deuent i'r mwynhad o'i breintiau ac o'i gwynfyd. Yr oedd yr athrawiaeth yma yn rhy ysbrydol i feddwl bydol ac anianol Judas, ac yr oedd ei siomedigaeth yn myned yn ddwysach fel yr oedd yr Iesu yn gwasgu ei addysg nefol at gydwybodau a phrofiadau ei ddysgyblion. Nid oedd dim argoel na dim gobaith i'r Iesu newid egwyddorion ei weinidogaeth. Gwelodd Judas mai llwyr ofer fyddai iddo ddysgwyl am fawredd a golud daearol wrth ei ddilyn; a rhoddodd ei fryd ar chwilio am esgus, ac am gyfle i gefnu arno.

2. Cenfigen tuag at ei gyd-ddysgyblion. Yr oedd yn fwy anwyl gan yr Iesu am y dysgyblion eraill nag oedd ganddo am Judas; ac yr oedd yn rhoi llawer mwy o'i gyfeillach i'r rhan fwyaf o honynt nag iddo ef, er mai ganddo ef yr oedd swydd a gofal y gôd. Yr oedd felly yn gweled fod ei gyd-ddysgyblion ar y ffordd i fod yn uwch ac yn fwy yn nheyrnas Iesu nag ydoedd

ef; ac yr oedd hyn yn cynhyrfu cenfigen ei galon oer, gul, gybyddlyd; ac yr oedd hyny yn peri ymrysonau ac enllibiau. Yr oedd Judas yn gweled nad oedd gan ei gyd-ddysgyblion, mwy na'u Hathraw, ddim ymddiried ynddo, na dim serch ato. Nid oedd iddo hyfrydwch yn eu cymdeithas, ac o radd i radd gwnaeth i fyny ei benderfyniad i gilio oddiwrthynt.

3. Ymgyfathrachu â'r gelynion. Ymwasgu atynt; cellwair â'u hudoliaethau; ymwthio i gylchoedd eu dichellion; gwrando yn ddigyffro arnynt yn camddarlunio ysbryd a gweinidogaeth yr Iesu, heb gynnyg ei amddiffyn. Goddef iddynt ei alw yn ddyn glwth, yn yfwr gwin, yn gyfaill publicanod a phechaduriaid, a chyhoeddi mai drwy Beelzebub yr oedd yn bwrw allan gythreuliaid. Buasai Pedr, ac Iago, ac Ioan, yn twymno i'w herbyn, ac yn dweyd yn eu hwyneb eu bod yn tystiolaethu *celwydd:* ond yr oedd wyneb a dystawrwydd Judas yn arwyddo ei fod yn cymeradwyo ac yn cefnogi eu camliwiadau; ac yn wir, byddai yn cytuno â hwy weithiau i siarad yn fach am ei Athraw addfwyn a gostyngedig: ac yr oedd ei eiriau ef yn pwyso yn drymach yn erbyn gweinidogaeth yr Iesu na geiriau neb o honynt hwy: ac y mae lle i feddwl ei fod wedi bod yn siarad, dichon amryw weithiau, â'r archoffeiriaid, ac eraill o'r gelynion, yn nghylch ei fradychu, cyn y nos ddu pan y cyflawnodd ei fradwriaeth. Dywedir gan yr Efengylwr ei fod wedi gofyn i'r archoffeiriaid, "Pa beth a roddwch i mi, a mi a'i traddodaf ef i chwi? A hwy a osodasant iddo ddeg ar hugain o arian;" hyny yw, rhoddasant iddo addewid neu ymrwymiad am hyny o arian; cytunasant ar yr ammodau. "Ac o hyny allan y ceisiodd efe amser cyfaddas i'w fradychu ef." Y mae y geiriau yn arwyddo ei fod am ryw amser, ar ol gwneud y cytundeb, yn ceisio "amser cyfaddas" i gyflawni ei fwriad yn ol y cytundeb. Y mae lle i gasglu mai nid y nos y bradychodd yr Iesu oedd y tro cyntaf iddo siarad â'r archoffeiriaid am ei fradychu. Yr oedd y bwriad wedi bod yn ei fynwes cyn i'r Iesu ei hysbysu mor gyhoeddus ar y swper.

4. Nid oedd wedi ystyried y buasai y canlyniadau mor ofnadwy. Yr oedd yn deall fod yr archoffeiriaid a'r henuriaid yn cyflawni llawer o'u bwriadau a'u cynlluniau trwy *ddichell*, a'u bod yn gyfrwys am gelu eu dichellion; ac yr oedd yn gobeithio y celid ei ddichell yntau, ac y cai fwynhau y wobr, a bod yn ffafr yr archoffeiriaid a'r Sanhedrim, heb i'r byd wybod mai efe oedd y bradychwr. Neu ynte, yr oedd yn dysgwyl y buasai ei Athraw yn dianc o afael ei elynion, ar ol iddo ef ei draddodi i'w dwylaw. Yr oedd yn gwybod am wyrthiau yr Iesu, ac y mae yn debyg ei fod yn tybied y buasai yn cilio yn wyrthiol o gyrhaedd ei elynion.

Ni feddyliodd y buasai yn cymeryd ei rwymo, y buasai yn fud o flaen ei gyhuddwyr. Ni feddyliodd y buasid yn ei gondemnio, yn ei fflangellu, yn ei goroni â drain, yn ei orfodi i ddwyn ei groes, ac yn ei groeshoelio. Ni feddyliodd y buasai ei frad yn dyfod i'r golwg, ac yn cael ei gyhoeddi drwy yr holl fyd, a hyny dros holl oesoedd y ddaear: ond pan welodd bob peth yn troi allan mor groes i'w ddysgwyliad; pan ddeallodd fod bwriad ei galon ddu yn hysbys i'r Iesu, a bod yr Iesu wedi nodi allan ei frad i'r dysgyblion, yn gyntaf ar y swper, ac eilwaith yn yr ardd; pan welodd ddarfod iddynt gondemnio yr Iesu, a'i fod yn cymeryd ei arwain fel yr oen i'r lladdfa, a'i fod yn dawel benderfynol i yfed y cwpan, bu yn edifar ganddo, a buasai yn dda ganddo allu dattod ei weithred, a thòri ei gytundeb; ond yr oedd yn rhy ddiweddar. Dyma rai o'r profedigaethau a'i hudodd i'r troedd, camolwg ar gymeriad Iesu—cenfigen at ei gyd-ddysgyblion—ymgyfathrachu â'r gelynion, a chwennychu elw ac anrhydedd ganddynt—a dim dychymygu y buasai canlyniadau ei bechod mor alarus, mor ofnadwy alaethus.

II. PRIF ELFENAU CYFYNGDER EI ENAID PAN YN SUDDO DAN FAICH EI EUOGRWYDD.

1. Ni fedrai gael unrhyw esgus, na chysgod o esgus, i gyfiawnhau ei ymddygiad yn bradychu ei Athraw. Yr oedd wedi cael y cyfleusdra goreu i sylwi ar ysbryd, ac ar ymddygiad yr Iesu. Yr oedd wedi cael y fraint o fod lawer yn ei gymdeithas. Yr oedd wedi clywed, nid yn unig ei ddammegion a'i bregethau, a'i ymresymiadau cyhoeddus, ond yr oedd wedi clywed ei ymddyddanion wrth ei ddysgyblion, a'i esboniadau iddynt o'i amcanion, ac o natur ei deyrnas. Yr oedd wedi cael y fraint o glywed ei weddïau, a gruddfanau ei dosturi ar ran pechaduriaid. Yr oedd wedi gweled, nid yn unig ei weithredoedd nerthol cyhoeddus, ond wedi sylwi ar ei holl ymarweddiad pan o'r neilldu. Yr oedd wedi cael cyfleusderau i weled ei wyneb hawddgar pan oedd yn llawenychu; ac i weled ei ddagrau pan yn galaru: ond nid oedd wedi gallu cael dim twyll ynddo. Ni fedrai gael yr enghraifft leiaf ei fod wedi gwneud cam â neb. Buasai medru galw i'w gof unrhyw fwlch neu ddiffyg yn nghymeriad yr Iesu, am ryw ddichell yn ei ysbryd, am ryw greulondeb yn ei ymddygiad, neu am ryw gyfeiliornad yn ei farn, neu ryw dwyll yn ei enau, neu ryw lygredd yn ei edrychiad, neu ei agweddiad, yn esmwythâu peth ar ei euogrwydd am ei fradychu; ond nis medrai gael dim. Yr oedd ei gydwybod oddifewn yn tystiolaethu ei fod yn "Oen difeius a difrycheulyd;" ei fod yn "Archoffeiriad santaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddiwrth bechaduriaid;" mai Eneiniog y nef,

mai Sant Duw, mai y Cywir hwnw ydoedd; ei fod yn "addfwyn a gostyngedig o galon;" yn ffyddlawn i'w Dad a'i lywodraeth; ac yn llawn cariad ac ewyllys da tuag at ddynion; ac felly, nid oedd ganddo ond tòri allan yn nghlyw holl fawrion y deml, a gwaeddi—"*Pechais, gan fradychu gwaed gwirion.*"

2. Ni fedrai gael dim mwynhad yn ngwobr ei anwiredd. Pe buasai rhywun yn dywedyd wrtho y boreu hwnw fod y deg ar hugain arian ganddo, ac y gallai eu defnyddio i addurno ei berson, neu i harddu ei dŷ, buasai y fath ymadrodd, yn lle dwyn dyddanwch iddo, yn tanio cynddaredd ei ddychryn; a buasai ei gydwybod yn dolefain—"Gwerth gwaed y cyflawn ydynt." Yr oedd wedi bod yn hoff iawn ganddo am *arian*, ac yr oedd ei chwant i'r deg ar hugain arian wedi bod yn gryf iawn; ond yr arian hyny yn awr oedd y tanwydd gwaethaf yn fflamau ei gydwybod. Ni feiddiai feddwl am danynt. Ni fedrai eu goddef yn ei fynwes; ac yr oedd golwg bur effeithiol arno pan yn eu "taflu" oddiwrtho, pan yr oedd swn eu chwaliad ar lawr y deml yn ei glustiau, a phan yr oedd yn ymwylltio i droi ei olwg oddiwrthynt: ac yr oedd ei galon yn chwyddo gan ing wrth frysio o'r fan.

3. Ni fedrai gael na chynghor na chydymdeimlad; na dim cymaint a gair nac edrychiad o gysur oddiwrth y rhai oeddynt wedi defnyddio eu holl gyfrwysder i'w demtio i'r brofedigaeth. Pan y dywedodd wrthynt yn ei wasgfa, "Pechais, gan fradychu gwaed gwirion," atebasant mewn ysbryd creulawn, a golwg dig, a llais ysgornllyd, "Pa beth yw hyny i ni? edrych di." Yr oeddynt yn gweled fod ei enaid mewn ing dan wasgfeuon cydwybod euog; ac ni buasai fawr iddynt edrych yn dosturiol arno, a chynnyg rhyw ystyriaethau er ceisio tawelu trallod ei galon. Yr oeddynt yn medru suo eu cydwybodau eu hunain i ddideimladrwydd, trwy ymddyddan â'u calonau, ac â'u gilydd, am Iesu, fel "y twyllwr hwnw;" ac mai trwy Beelzebub yr oedd yn gwneud ei wyrthiau; a'i fod yn athrawiaethu yn erbyn Moses, ac yn erbyn y deml; a dadleuent weithiau ei fod yn erbyn Cesar, a phryd arall ei fod yn gyfaill i bublicanod Cesar. A gallasent ddywedyd wrth Judas y cymerent hwy y cyfrifoldeb; nad oedd ef ddim ond gwas iddynt hwy, yn gweithio drostynt am gyflog, mai hwy oeddynt y blaenoriaid yn y cynllun yn erbyn yr Iesu, ac mai arnynt hwy y byddai ei waed ef. Dylasent ei wahodd yn mlaen, a dywedyd wrtho am beidio ymofidio, y safent hwy wrth ei gefn, ac yr atebent drosto: ond yn lle hyny, dirmygasant ef a'i ofid; ac atebasant, "Pa beth yw hyny i ni? edrych di." Yr *oedd* bradychu y gwaed gwirion hwnw i afael eu rhagfarn a'u cenfigen hwy yn beth iddynt *hwy*, ac yn beth

pwysig iawn iddynt hwy. Hwy oeddynt wedi cyflogi y bradychwr, hwy oeddynt wedi talu y deg ar hugain arian, hwy oeddynt wedi rhoddi byddin y cleddyfau a'r gwaewffyn i Judas, hwy oeddynt wedi condemnio y Cyfiawn, a'i draddodi i Pilat i'w fflangellu a'i groeshoelio. Yr oedd y peth o'i ddechreu i'w ddiwedd yn perthyn iddynt hwy, a chawsant deimlo hyny yn fuan ar ol hyny, ac y maent yn teimlo hyny hyd heddyw, a glŷn y teimlad yn eu cydwybodau am dragwyddoldeb.

4. Yr oedd dychryn ei gydwybod yn ei wasgu i gilio bellach bellach oddiwrth y Gwaredwr: oddiwrth lygad ei dosturi, ac oddiwrth borth ei drugaredd. Pe buasai y truan euog, yn lle brysio i'r deml at leiddiaid Arglwydd y bywyd, yn cyflymu ar draws y croes-heolydd culion tua godre Calfaria, ac yn ymwthio drwy y dyrfa at draed yr Iesu, pe buasai yn cynnyg am y fraint a gafodd Simon o Cyrene; a phe bitasai yn gwaeddi, "Pechais, gan fradychu gwaed gwirion; Arglwydd maddeu i mi fy mhechod:" pe buasai yn rhoddi ei galon ddrylliog, a'i ysbryd cystuddiedig dan ymgeledd yr un a edrychodd yn faddeugar ar Pedr, ac a weddïodd yn daer dros ei ddienyddwyr, buasai yr Iachawdwr hwnw yn edrych arno, nid fel y gwnaeth yr archoffeiriaid, ac yn ei ateb, nid fel y gwnaethant hwy; ond buasai yn tawelu ei fynwes âg edrychiad ei dosturi, neu â geiriau ei gariad, a buasai yn iachâu ei galon ddrylliog â balm ei iachawdwriaeth. Ond methodd Judas gael esgus am ei weithred greulawn—methodd gael dim mwyniant yn ngwobr ei fradwriaeth—methodd gael dim cydymdeimlad gan y rhai oeddynt wedi ei hudo i'r drwg—a methodd droi at Iesu am drugaredd; ac felly suddodd ar unwaith i "golledigaeth."

III. Enwn rai o'r gwersi mwyaf ymarferol i ni oddiwrth yr adroddiad galarus yma.

1. Y mae cymeriad y Gwaredwr yn dysgleirio yn loyw iawn yn wyneb yr holl amgylchiad. Dichon mai y dystiolaeth gryfaf i ddiniweidrwydd yr Iesu, yn holl gylch y Beibl, ydyw tystiolaeth *Judas*, pan y gwaeddodd yn nghlyw y cynghor, ar foreu gwyl y Pasg, yn y deml—"Pechais, gan fradychu gwaed gwirion." Yr oedd tystiolaeth Pilat yn gref, pan y cymerth ddwfr, ac y golchodd ei ddwylaw ger bron y bobl, ac y dywedodd, "Dieuog ydwyf fi oddiwrth waed y cyfiawn hwn: edrychwch chwi." Yr oedd tystiolaeth ei wraig yn gref iawn, pan y danfonodd gais ato, ac efe yn eistedd ar yr orseddfainc—"Na fydded i ti a wnelych â'r cyfiawn hwnw; canys goddefais lawer heddyw mewn breuddwyd o'i achos ef." Yr oedd tystiolaeth y canwriad a'i filwyr yn gref iawn, pan y gwaeddasant wrth wylio o gylch ei groes ef—"Yn wir, Mab Duw

ydoedd hwn." Yr oedd tystiolaeth y drwgweithredwr edifeiriol yn gref pan y dywedodd, wrth geryddu y cablydd—"Hwn ni wnaeth ddim allan o'i le." Yr oedd tystiolaeth yr ysbryd aflan yn gref pan y llefodd, "Mi a'th adwaen pwy ydwyt, Sant Duw." Yr oedd tystiolaeth Pedr yn gref, pan y dywedodd, "Ti yw Crist, Mab y Duw byw." Yr oedd tystiolaeth Ioan Fedyddiwr yn gref pan y dywedodd, "Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd." Yr oedd tystiolaeth Ioan y Duwinydd yn gref pan y dywedodd, "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni; ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megys yr uniganedig oddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd." Ond yr oedd cyffes Judas yn y deml, foreu dydd y croeshoeliad, dichon yn fwy effeithiol nag yr un dystiolaeth arall sydd genym—"Pechais, gan fradychu gwaed gwirion." Y mae yn amlwg i'w gyffes roddi ergyd arswydus i'r archoffeiriaid a'r ysgrifenyddion, ac aelodau y Sanhedrim. Y mae yn eglur eu bod mewn cynddaredd o lid am i'r fath gyffes ddyfod allan mor gyhoeddus o enau yr un oeddynt hwy wedi lwgr-wobrwyo i droi yn fradwr. Nid oedd eisieu prawf cryfach o burdeb cymeriad yr Iesu: ac yr oedd ei raghysbysiadau ar y swper o'r bradychu ac o'r croeshoelio yn brawf eglur o'i hollwybodaeth.

2. Y gellir *etto* fradychu yr Iesu: nid bradychu ei *berson* gogoneddus i ddwylaw ei elynion. Y mae ei ben yn awr yn rhy uchel i neb ei goroni â drain. Y mae ei wyneb yn rhy uchel i neb boeri arno. Y mae ei gefn uwchlaw cyrhaedd cwysau y fflangell. Y mae ei ddwylaw a'i draed allan o gyrhaedd yr hoelion. Nid oes gan yr un gelyn waewffon all gyrhaedd ei ystlys. Y mae yn awr yn "uwch na'r nefoedd." Y mae wedi esgyn "goruwch yr holl nefoedd;" ac wedi cael ei osod i eistedd ar ddeheulaw y Tad, "goruwch pob tywysogaeth, ac awdurdod, a gallu, ac arglwyddiaeth, a phob enw a enwir, nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn y byd a ddaw." Ond y mae wedi ymddiried ei efengyl a'i achos i ofal ei bobl ar y ddaear, ac y mae yn bosibl eu bradychu. Gellir gwadu ei egwyddorion, a mathru dan draed ei ordinhadau, a barnu yn aflan waed ei aberth, a difenwi ei Ysbryd Santaidd, a diystyru ei bobl, ac ymfyddino yn erbyn ei faner, a chynnyg attal helaethiad ei deyrnas: ac mae bradychu *achos* yr Iesu yn *awr* yn drymach pechod nag ydoedd ei werthiad gan Judas am y deg ar hugain arian; a bydd bradychwyr yr oes yma yn fwy diesgus yn nydd y cyfrif nag hyd yn nod Judas ei hun.

3. Fod yr enaid sydd wedi ymwerthu ac ymollwng i fyw dan lywodraeth unrhyw bechod, parod i'w amgylchu, megys "godineb, aflendid, gwŷn, drygchwant, a chybydd-dod," yn sier o gael ei

hudo yn y diwedd i fradychu achos yr Iesu: y mae yn sicr o gael ei orchfygu gan ei chwant at gyfoeth a phleserau y byd; ac os na chymer rybudd i ddianc, bydd yn sicr o syrthio fel Judas, yn nghadwyn anobaith, i ddinystr a cholledigaeth.

4. Mai chwerw iawn ydyw yr edifeirwch sy'n magu anobaith. Ceir enghraifft ddychrynllyd o'r modd y mae yn "gweithio angeu," yn y dull y taflodd Judas i golledigaeth. Ond gwerthfawr iawn ydyw y "duwiol dristwch sydd yn gweithio edifeirwch, er iachawdwriaeth ni bydd edifeirwch o honi." Ceir enghreifftiau tarawiadol o nodweddau a dylanwad tristwch felly yn hanes Dafydd, a Manasseh, a Magdalen, a Zacchëus, a Pedr, a'r lleidr ar y groes, a Paul, a Luther, a Bunyan, a'r Colonel Gardiner, a John Newton, a miloedd eraill fu'n enwog am eu duwioldeb a'u defnyddioldeb. Y mae duwiol dristwch, neu edifeirwch i fywyd, yn werthfawr yn ngolwg Duw, yn peri llawenydd yn y nef yn ngwydd angylion ac ysbrydoedd y cyfiawn; y mae yn iachaol ac yn santeiddiol i'r enaid, y mae yn ei gynhyrfu i fwy o wyliadwriaeth ac o lafur, i fwy o daerineb mewn gweddi, i fwy o hunanymwadiad a sel, i fwy o gariad ac o burdeb; ac felly y mae yn codi yr enaid i gylch uwch a helaethach o ddefnyddioldeb a dedwyddwch. Y mae tristwch felly yn profi yn addysgiadol i'r eglwys, ac yn fendithiol i'r byd; ac y mae'r Iesu yn dyfod i mewn at yr enaid hwnw, ac yn swpera gydag ef, ac yntau gyda'r Iesu.

Dylai hanes Judas lenwi ein calon â dychryn duwiol rhag bod yn debyg iddo. Y mae ei gymeriad rhyfedd yn cael ei ddadlenu o'n blaen yn yr efengyl er ein rhybudd. Er nad oes genym ddim o hanes ei febyd, na dull ei ddygiad i fyny, y mae lle i gasglu ei fod yn blentyn i *rieni crefyddol*. Yr oedd eu gwaith yn ei enwi yn *Judas*, yn arwyddo eu bod am ei gyflwyno i'r Arglwydd; a'u bod am i'w bachgen bychan ddysgu cydnabod Duw o'i febyd, a bod yn eiddo iddo byth. Mae'n debyg iddo gael gwell manteision pan yn blentyn na nemawr o'i gyd-ddysgyblion, a'i fod yn ddyn ieuanc o ddeall cryf a bywiog. Darfu i weinidogaeth yr Iesu ennill ei sylw yn gynnar, ac ymroddodd gyda sel i fod yn ddysgybl iddo, ac ymddengys ei fod yn astud a myfyrgar. Y mae yn amlwg, oddiwrth ei neillduad i'r "esgobaeth," neu yr arolygiaeth oedd ganddo fel trysorwr ac elusenranwr eglwys yr apostolion, eu bod yn ei ystyried yn ddyn synwyrol a gofalus, yn ddyn o gyrhaeddiadau uchel, ac o ddoniau i fod yn ddefnyddiol. Yr oeddynt yn ei ystyried y cymhwysaf i'r swydd allasid gael. Nid oeddynt yn dychymygu ei fod yn *gybydd*, yn gybydd mor drwyadl ac mor gyfrwys; ni feddyliasant ei fod yn *lleidr*, yn lleidr mor hyf ag i fradychu eu hymddiried trwy ddwyn eu trysor—y trysor oedd ganddynt

eu hangeuion cyffrediu, ac at gynnaliaeth y tlawd. Ond, er iddo allu eu twyllo yn o hir, gwaethygodd yn ofnadwy tua'r diwedd, a daeth ei wir gymeriad i'r golwg; yn enwedig ar y ddau swper, sef y swper yn Bethania, a swper y pasg, y ddwy nos cyn marwolaeth ei Athraw. Gwaethygodd ei galon yn ofnadwy fel yr oedd ei Arglwydd yn nodi allan ei bechod. Dangosodd ei bod yn siomedigaeth drom ganddo eisieu cael tri chan' ceiniog blwch enaint Mair i'w bwrs; a gwnaeth ei oreu, yn y dull cyfrwysaf, i ennyn a throi teimlad y dysgyblion yn erbyn Mair, ac yn erbyn ei Arglwydd; ond darfu i ddull effeithiol Iesu yn amddiffyn caredigrwydd haelfrydig Mair, ei greuloni yn arswydus, a bernir iddo fyned o'r wledd hòno yn union i lys yr archoffeiriad. A chreulonodd yn waeth fyth y noson ar ol hyny, pan y darfu i'w gyd-ddysgyblion, drwy eu hymholiadau, gael arwyddion mai efe oedd y bradychwr. Yr oedd pob un o honynt wrth ofyn â llais crynedig, Ai myfi yw, Arglwydd? yn ei galedu. Yr oedd atebiad ffyddlawn Iesu i'w ofyniad oeraidd ef yn ei galedu. Yr oedd cael tamaid o law garedig ei Arglwydd yn ei galedu. Ymadawodd yn sydyn oddiwrth y bwrdd cyn gorpheniad y swper. Gadawodd trugaredd ef. Gollyngwyd ef i gymeryd ei ffordd. Aeth y diafol i'w galon, a chymerodd feddiant o honi. Aeth yn ddigon caled i orphen ei gytundeb â'r archoffeiriad a'i gynghor. Gweithiodd ei hun yn hollol i ddylanwad uffern. Yr oedd yn falch o gael ei gyflogi i fod yn "flaenor" i dyrfa y gwaewffyn. Gallasid dysgwyl iddo ddychrynu, ac arafu, a chilio yn ol, pan y darfu i ddwyfol rym llais a gwedd ei Arglwydd, yn yr ardd, daflu y dyrfa arfog i'r llawr yn wysg eu cefnau; ond neidiodd Judas ar ei draed yn un o'r rhai cyntaf. Yr oedd, mewn ysbryd beiddgar, am ddangos ei wroldeb. Brys-gamodd yn mlaen i roddi *y cusan.* Nid oedd dim eisieu y cusan fel arwydd, oblegid yr oedd yr Iesu wedi dweyd wrthynt, ac wedi dangos iddynt yn ddigon eglur mai efe ydoedd yr hwn yr oeddynt yn ei geisio; ond yr oedd Judas am wneud ei holl gytundeb. Yr oedd wedi cyfammodi i roddi y cusan, a mynodd ei roddi. Rhoddodd wefusau ei frad wrth wefusau cariad ei Arglwydd. Mynodd berffeithio *holl* gynllun ei fradychiad: ac yna aeth ar garlam, yn y dull mwyaf truenus a gwarthus, yn ngwydd nefoedd, daear, ac uffern, "*i'w le ei hun*"—i gartref y bradychwyr, allan o gyrhaedd gwaed y cymmod, i suddo ddyfnach ddyfnach mewn anobaith. Gochelwn lwybr llithrig ei golledigaeth.

Y DDAU FATH DRYSORAU.

"Na thrysorwch iwch' drysorau ar y ddaear, lle y mae gwyfyn a rhwd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddio trwodd ac yn lladrata; eithr trysorwch iwch' drysorau yn y nef, lle nid oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, a lle nis cloddia lladron trwodd ac nis lladratânt. Canys lle y mae eich trysor, yno y bydd eich calon hefyd."—MAT. vi. 19, 20, 21.

DYMA un o gynghorion pregeth fawr y Gwaredwr, sef ei "Bregeth ar y Mynydd"—y bregeth lawnaf o ras a gwirionedd a draddodwyd erioed. Dysga ynddi i

Ddechreu, Pwy sydd yn wynfydedig: a dywed, yn groes i hen farnau y byd, mai y tlodion yn yr ysbryd—y rhai sydd yn galaru am eu llygredd, y rhai addfwyn, y rhai sydd arnynt newyn a syched am gyfiawnder, y rhai trugarogion, y rhai pur o galon, y tangnefeddwyr, a'r rhai a erlidir o achos cyfiawnder.

Dengys wedi hyny rwymau ei ddysgyblion i fod yn ddefnyddiol: fel halen y ddaear, fel goleuni y byd, fel tystion dros Grist, fel ymddiriedolwyr goruchwyliaeth yr efengyl, fel dilynwyr Duw, megys plant anwyl.

A dengys, gyda hyny, y grasau uchel sydd i Gristionogion geisio ac arfer er bod yn ddefnyddiol: bod yn hunanymwadol, byw uwchlaw y byd, dal cymundeb â'r nefoedd yn y dirgel, astudio ewyllys eu Tad, gochel dial, caru gelynion, gweddïo drostynt, a gwneud da iddynt.

Y mae cynghor pwysfawr y testun yn ddwy ran—sef *gwaharddiad* a *chymhelliad.* Cawn ystyried yn

I. Y GWAHARDDIAD—"Na thrysorwch iwch' drysorau ar y ddaear." Er deall ystyr ac amcan y gwaharddiad, y mae yn ofynol ystyried y tri pheth canlynol:—

1. Beth yw y trysorau ar y ddaear? Meddylir goludoedd daear o bob math; megys tai, tiroedd, anifeiliaid, dodrefn, gwisgoedd, peirannau, offer, arfau, aur, arian, perlau, mwnau, ffrwythau, cnydau toreithiog, neu unrhyw bethau drudfawr a all dyn gael yn y byd yma i'w feddiant.

Y maent yn cael eu galw yn *drysorau* am fod llawer o honynt o wahanol amrywiaethau weithiau i'w cael; a bod yn hoff iawn gan blant dynion gael llawer o honynt, nid yn unig yn y mwynhad, ond wrth gefn, erbyn yr amser a ddaw.

Y maent yn drysorau *ar y ddaear*, am mai pethau daearol ydynt—pethau gweledig byd gweledig a darfodedig; pethau cylch amser a pherthynol i'r ddaear, ac i fywyd daearol. Dyna yw y *trysorau* a olygir. Dylid ystyried yn

2. Beth yw ystyr y gwaharddiad yn eu cylch?—"Na thrys-

orwch iwch' drysorau ar y ddaear." *Nid* na *feddwch* ddim o'r trysorau hyn: oblegid y mae ychydig o honynt yn angenrheidiol at fywyd ar y ddaear, ac y mae rhai o'r duwiolion mwyaf ysbrydol a defnyddiol wedi bod yn meddu llawer o honynt. *Nid* na *ofelwch* am y gyfran o honynt sydd genych. Y mae bod yn esgeulus, yn ddibris, yn afradlawn o honynt, yn hollol groes i rediad yr efengyl. *Nid* na *fwynhewch* ddim o drysorau y ddaear; y mae yr Iesu yn ewyllysgar i'w ddysgyblion eu hetifeddu a'u mwynhau. Y mae yn rhoddi iddynt addewid o'r bywyd sydd yr awrhon; ac arwydda yn y bregeth yma mai y rhai *addfwyn* sydd yn eu hetifeddu a'u mwynhau oreu. *Nid* na *ddefnyddiwch* drysorau y ddaear; oblegid eu defnyddio yn briodol er llwyddiant teyrnas yr Iesu, ac er lles dynolryw, ydyw un o brif rinweddau Cristionogaeth. Beth ynte ydyw ystyr y geiriau, "Na thrysorwch iwch' drysorau ar y ddaear?" Na roddwch eich holl amser a holl nerth eich galluoedd i'w casglu, am fod gofalon annhraethol bwysicach yn orphwysedig ar ddyn. Na chuddiwch, ac na chedwch hwy i rydu ac i lygru. Na roddwch eich calon arnynt, oblegid nid ydynt yn haeddol o serch blaenaf y galon.

3. Beth ydyw rhesymau yr Iesu dros y gwaharddiad yma? Gwaith trafferthus a phrofedigaethus ydyw eu trysori. Y mae yn hawdd iawn eu colli ar ol yr holl drafferth i'w casglu. Er gallu llwyddo i'w cadw, nis gallant ddiwallu na dedwyddu enaid, yn enwedig pan ddelo cyfyngder, neu afiechyd, ac awr marwolaeth: a bydd *raid* eu gadael oll, a hyny yn fuan. Ystyriwn yn

II. Y CYMHELLIAD sydd yn y testun — "Eithr trysorwch iwch' drysorau yn y nef." Y mae y cynghor yn un anfeidrol deilwng o'n hystyriaeth. Y mae ufuddhau iddo, a gwneud yn ei ol, yn hanfodol er ein dedwyddwch. Gosodwn ger bron rai ystyriaethau annogaethol i ni drysori i ni drysorau yn y nef.

1. Y mae *nef yn bod:* yn ol holl addysg y Beibl; yn ol llais cydwybod hyd yn nod y digrefydd a'r anffyddiwr; ac yn ol golwg ffydd y credadyn. Nid y byd hwn yw diwedd dyn; nid mynyd marw ydyw terfyn ei fodolaeth. Y mae byd heblaw hwn, byd ar ol hwn; y mae byd mwy a gwell na hwn, y tu draw i len deneu amser. Y mae byd mawr ysbrydol yn bod; lle mae y Duw hollalluog a hollgyfoethog yn cynnal gorsedd ei lys; lle mae yr Iesu yn parotoi lle i'w ganlynwyr; lle y mae Ysbryd y gras, y gwirionedd, a'r dyddanwch, yn cadw doniau ac ymgeledd trugaredd; lle y mae ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd yn cartrefu; lle y mae angylion yn gweini o gylch yr orsedd fawr; lle y mae addoli pur mewn perffaith oleuni; lle y mae myfyrio melus heb fod y meddwl byth yn blino: lle y mae

cymdeithasau difyr a dedwydd mewn awyrgylch lawn o gariad; lle y mae gwynfyd a digrifwch yn oes oesoedd.

2. Y mae yn y nef *gyflawnder o drysorau.* Y mae darluniadau llyfr ysbrydoliaeth o'r nefoedd yn tybied hyny. Darlunir y nef fel "gwlad well" nag unrhyw Ganaan ddaearol; fel "paradwys" hyfrydach nag Eden; fel "teyrnas" lawn o gyfoeth a gogoniant; fel "dinas" ardderchog a phob peth ynddi gofynol i'w llawenhau; fel "etifeddiaeth" hardd, anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, yn nghadw i'r saint yn y goleuni; fel "trigfanau lawer" yn perthyn i dŷ ein Tad; fel lle "gwledd" o basgedigion breision a gloyw-win puredig; fel teml ardderchog, a gogoniant Duw a'r Oen yn ei goleuo; fel gwlad telynau a phalmwydd buddugoliaeth; ac fel gwlad gorphwys i ranu a mwynhau anrhaith y goncwest.

3. Y mae y trysorau sydd yno yn rhai *diogel a diddarfod.* Y maent yn "olud parhaus;" yn "etifeddiaeth anllygredig;" yn baradwys na wywa byth ei blodau, ac na sycha byth ei ffynnonau. Nid oes yno na llygru, na gwywo, na heneiddio. Nid oes yno na gwyfyn, na rhwd, na lladron, na nos, na gauaf, na thymhestl, nac ymadael, na byth *notice to quit;* na lludded, na phoen, nac afiechyd, nac angeu.

4. Y mae trysorau y nef yn rhai *cyfaddas i enaid.* Yr Anfeidrol ddoethineb a luniodd yr enaid a ddarparodd hefyd y trysorau er ei gyfoethogi a'i ddedwyddu; ac y mae elfenau y trysorau hyny yn berffaith addas i alluoedd yr enaid. Y mae credinwyr wedi cael weithiau ragbrawf o honynt yr ochr hyn i'r bedd: wedi cael dafnau mân o'r moroedd didrai sydd yno; wedi cael ysgub y blaenffrwyth o'r cynhauaf mawr fydd yno; wedi cael ambell friwsionyn o'r wledd felus ddiddarfod geir yno; wedi cael yn yr anial ambell un o'r sypiau grawnwin llawnion addfed sydd yno; wedi cael ernes o'r etifeddiaeth sydd yn cael ei pharotoi a'i chadw iddynt yno; wedi cael cipolwg ar gyrau y wlad, ac ar beth o'r tir pell, ac ar y Brenin yno yn ei degwch, yn ei deml, a'i lys, a'i rodfeydd; wedi clywed blaen adswn rhai o nodau y ganiad newydd, a lleisiau y telynorion, a seiniau tannau eu telynau; ac yr oedd y blaenbrawf a gafwyd yn gwneud eu heneidiau yn ddedwydd, yn eu llenwi â llawenydd, nes oeddynt wrth eu bodd yn gallu gorfoleddu mewn gorthrymderau.

5. Y mae y trysorau gogoneddus hyn *yn ein cyrhaedd ni.* Buasai yn ddigalon ac yn ddiles i bregethu am danynt, pe buasai raid dweyd yn y diwedd eu bod allan o'r cyrhaedd. Y mae yr Iesu, drwy gyfryngdod ei Jawn mawr, wedi eu hennill i ni. Disgynodd i barthau isaf y ddaear er eu darlunio i ni. Y mae yn

eu cynnyg i ni yn daer, ac yn eglur, ac yn ddifrifol yn ei efengyl. Y mae cyfeillion a cheraint i ni, o'n byd ni, ac o'n teulu ni, wedi derbyn ei gymmygion, ac wedi dyfod i afael y trysorau. Y mae rhai fu 'n weiniaid ac yn dlodion, ac yn ofnus, ac yn llygredig fel 'ninnau, wedi blaenu i'w mwynhau yn y nefoedd.

CYMHWYSIAD.

Byddir yn dlawd a thruenus byth os heb y trysorau gwerthfawr hyn. Collir yr hyfrydwch pur o chwilio am danynt ar feusydd crefydd; a'r hyfrydwch o'u trysori mewn lle diogel. Collir yr hyfrydwch o feddwl am danynt, ac o'u meddu mewn gafael i gynnal y meddwl mewn cyfyngder. Collir cynnaliaeth eu dyddanwch wrth farw, ac yn nydd mawr yr adgyfodiad; a chollir y dedwydd fwynhad o honynt gyda theulu y nefoedd.

Y mae yn alluadwy i ni wybod, a dylem wybod, a yw y trysorau hyn genym ai nad ydynt; "Canys lle y mae ein trysor, yno y bydd ein calon hefyd." Yno y *myn* fod. Os yw ein calon ar y ddaear, ar y ddaear y mae ein trysor; ond os yw ein calon yn y nefoedd, yn y nefoedd y mae ein trysor.

Os yw y trysorau hyn genym, dylem fyw fel boneddigion y nefoedd—yn lan ein gwisgoedd, yn bur ein moesau, yn rasol ein geiriau, yn foddlawn ein tymher; byw uwchlaw y byd, yn llawen, yn ddiolchgar, yn ddefnyddiol, ac yn ddedwydd; byw i ganmol, a dangos, a gwerthfawrogi ein trysorau; byw a'n hymarweddiad yn y nefoedd, mewn marsiandïaeth â'r nefoedd, ac mewn cymundeb anwyl â'r teulu perffaith sydd yno.

DINAS DUW.

"Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti, O ddinas Duw."—Salm lxxxvii. 3.

Darlunir yr eglwys yn y Beibl dan lawer o wahanol gymhariaethau. Weithiau fel *gardd* flodeuog, ffrwythlawn, baradwysaidd. Bryd arall fel *gwinllan* hyfryd, drefnus, yn dwyn grawnwin mawrion addfed i'r gwinllanydd. Weithiau fel *coedwig* o brenau enwog; rhai hen brenau cyfiawnder, brigog, uchel, cysgodfawr, cryfion yn y dymhestl; a rhai planhigion ieuainc iraidd a gobeithiol. Bryd arall fel *tŷ* mawr, llawn, wedi ei harddu, a'i ddyddosi, a'i ddodrefnu i fod yn gartref i deulu dedwydd. Weithiau fel *talaith*, neu goron frenhinol, lawn o'r perlau dysgleiriaf. Bryd arall fel *corlan* glyd lawn o braidd diniwaid dan ofal y Bugail da. Weithiau fel *maenerfa* gyfleus i fagu a

hyfforddi eneidiau yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd; ac weithiau fel *teml* helaeth hardd, o feini bywiol, i fod yn breswylfod i Dduw drwy'r Ysbryd. Ond yn yr adnod yma, darlunir yr eglwys fel DINAS—"dinas Duw."

I. Crybwyllwn rai o'r PETHAU GOGONEDDUS a ddywedir am y ddinas. Dywedir pethau gogoneddus am dani yn

1. Fel dinas *Duw*—"Dinas y Brenin mawr." Efe ddarfu ei chynllunio. Efe osododd i lawr ei sylfeini. Efe yw ei "saer a'i hadeiladydd." Efe, yn ol ei anfeidrol, ddoethineb drefnodd bob rhan o honi. Efe, yn ol cyfoeth anchwiliadwy ei ras, sydd yn ei chyfoethogi a'i haddurno. Eiddo ef ydyw y ddinas oll, a'r oll sydd ynddi: eiddo ef ei muriau a'i rhagfuriau, ei phyrth a'i thyrau, ei heolydd a'i thrigfanau, ei phalasau a'i themi, ei llys a'i gorsedd, a'i holl olud.

Y mae yn *preswylio* ynddi; "yn ei chanol;" mewn lle cyfleus i'w ddeiliaid. Mae'n cynnal yno orseddfainc ei lys. Oddiyno y mae yn anfon allan ei ddeddfau a'i farnedigaethau. Yno y clywir ei lais. Yno y dengys ei wedd. Yno y datguddia ei ewyllys. Yno y mae yn cymdeithasu â'r dinasyddion, yn derbyn eu deisyfiadau, ac yn ateb eu gweddiau. Y mae ffordd, neu heol, o bob cŵr o'r ddinas i'r heol fawr; ac ato ef i'r "canol." Y mae rhyddid i bob un o'r preswylwyr anturio yn mlaen ato i'r canol, at ei orsedd, i'w wyddfod, i weled gwedd ei wyneb, i ymgynghori ac ymddyddan âg ef, i dderbyn ei eiriau grasol; ïe, ac i cistedd wrth ei fwrdd brenhinol i wledda ar arlwyadau ei gariad. Y mae yn byw yn ei ddinas *bob amser*. Y mae gartref yn ei lys yn y canol yn wastadol. Ni huna ac ni chwsg. Ni flina ac ni ddiffygia. Y mae ei lygaid yn agored drosti bob amser. Y mae yno i'w chynnorthwyo yn "foreu iawn." Nid oes berygl i elyn ddyfod i mewn nac yn "foreu iawn" nac yn *hwyr* iawn. Y mae ef yn effro, ar ei uchel wyliadwriaeth bob amser. Y mae iddi yn fur o dân o amgylch, ac yn ogoniant yn ei chanol. Y mae yn *hoffi* byw ynddi. Ynddi y mae ei ddewisedig gartref. Y mae yn caru ei phyrth a'i phalasau yn fwy na holl rannau eraill ei ymerodraeth fawr. Yno y mae "cysegr" ei breswylfeydd. Y mae yno fel Penrhyfelwr i'w hamddiffyn: yno fel Tad yn ei deulu: yno fel Brenin ar orsedd ei lys: yno yn Dduw yn ei deml.

2. Dywedir pethau gogoneddus am ei threfn, ei chyfoeth, ei chyfleusderau, ei sefyllfa, a'i chadernid. Y mae yn perthynu iddi ei chyfreithiau a'i hordinhadau; a dygir yn mlaen bob rhan o'i gwasanaeth yn ol y drefn fanylaf. Y mae iddi ei breintiau cymdeithasol a'i moddion addysg; ei huchel-wyliau a'i gwleddoedd, ei chyfarfodydd a'i chymanfaoedd, ei defodau a'i dulliau o

addoli; ei darlithiau a'i phregethau; ei chyngherddau a'i chyfrynga-au hanesion; ac y mae y cyfan oll o'i rhagorfreintiau cymdeithasol wedi cael eu trefnu gan Anfeidrol ddoethineb a chariad: ac y mae y Brenin ei hun yn llywyddu yn mhob cymdeithas.

Y mae ynddi bob cyflawnder o bob rhyw *oludoedd*. Y mae ei chyfoeth yn ddidrai ac yn anchwiliadwy. Ni bydd yno na newyn na phrinder. Y mae ei thrysordai mawrion yn llawn o bob darpariaethau er diwallu y preswylwyr. Y mae ei phyrth yn agored yn wastad, er dwyn iddi y golud o bob cwr. Y mae ynddi *afon* bur o ddwfr y bywyd yn dyfod allan o'r orseddfainc, a'i ffrydiau a lawenhant yr holl ddinas. Y mae afon o annhraethol werth mewn dinas. Yr ystyriaeth o hyny achosodd i'r rhan fwyaf o brif ddinasoedd y ddaear gael eu hadeiladu ar afonydd—Llundain ar y Thames, Liverpool ar yMersey, Glasgow ar y Clyde, Dublin ar y Liffey, Paris ar y Seine, Rhufain ar y Tiber, Moscow ar y Moskwa, Petersburg ar y Neva, Lisbon ar y Tagus, Vienna ar y Danube, Cologne ar y Rhine, Frankfort ar y Maine, Pekin ar y Peiho, Cairo ar y Nile, Calcutta ar y Ganges. Y mae prif ddinasoedd America ar eu hafonydd—New York ar yr Hudson, Philadelphia ar y Delaware, Washington ar y Potomac, Baltimore ar y Chesapeake, Pittsburgh a Cincinnati ar yr Ohio, St. Louis a New Orleans ar y Mississippi, Richmond ar y James, a Nashville ar y Cumberland. Yr oedd y rhan fwyaf o ddinasoedd yr hen oesoedd, megys Babilon, a Ninefeh, a Memphis yn sefyll ar afonydd; ac y mae cael ffrydiau yn hanfodol er iechyd a chysur pob dinas. Yr oedd gan Jerusalem ei ffrydiau—y Cedron a'r Gihon: ac felly dywedir fod "afon a'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw." Afon bur o ddwfr y bywyd, dysglaer fel y grisial, wedi tarddu o fryniau tragwyddol gariad, ac yn llifo allan yn ei nerth, o orseddfainc Duw a'r Oen: ac yn nghanol ei heol hi, ac o ddau tu yr afon y mae pren y bywyd, yn dwyn deuddeg rhyw ffrwyth, bob mis yn rhoddi ei ffrwyth, a dail y pren i iachâu y cenedloedd: ac y mae ffrydiau afon y bywyd yn llawenhau pob rhan o'r ddinas. Y mae *addurniadau* y ddinas yn ogoneddus uwchlaw pob dirnadaeth: addurn ei phyrth, ei phalasau, ei heolydd, ei themi, ei llys brenhinol, ei ffynnonau bywiol, ei choed anfarwol, ei gerddi blodeuog, a'i llwybrau paradwysaidd. Y mae yn ogoneddus o ran ei *maint*. Ni wyddir y mesuriad; y mae nifer ei thrigfanau yn aneirif; a hyd ei heolydd yn anfesuradwy: rhai yn cyrhaedd o gyrau cyntaf y dwyrain i gyrau pellaf y gorllewin; a rhai yn cyrhaedd o gyrau uchaf y gogledd i gyrau eithaf y de. Anhawdd fyddai darlunio *lle* y ddinas, ond y mae yn ogoneddus o ran ei *sefyllfa*. Y mae ar y "tir dymunol," ar y "mynyddoedd

santaidd." "Tegwch bro, llawenydd yr holl ddaear yw mynydd Seion, yn ystlysau y Gogledd, dinas y Brenin mawr. Duw yn ei phalasau a adwaenir yn amddiffynfa." Dywedwyd llawer gynt am hyfrydwch *sefyllfa* llawer hen ddinas enwog, megys Babilon a Ninefeh, a Memphis a Thebes, a Tyrus a Sidon, a Carthage ac Alexandria: a dywedir llawer yn awr am hyfrydwch sefyllfa Naples a Venice, Turin a Milan, a Calcutta a Mexico, a Canton a Nanking, a New York a Liverpool; ond y mae dinas Duw yn rhagori arnynt oll o ran ei *sefyllfa*, fel pob peth arall; y mae yn nghanol ymerodraeth fawr y nef, yn nghyrhaedd pob rhyw gyfleusderau; o ddau tu afon iachawdwriaeth; ac awelon iachusol o fôr gloyw anfeidrol gariad, ac o fryniau a mensydd gwyrddion trugaredd yn ysgwyd eu hedyn drwy ei holl heolydd, ac yn anadlu i'w holl drigfanau.

Y mae yn ogoneddus hefyd o ran ei *chadernid*. Y mae yn hollol anorchfygadwy. Bu llawer dinas gref, gadarn, gaerog; ond nis gwyddom am yr un a'r nas cymerwyd gan y gelyn. Cymerwyd yr hen Gaerdroia, cymerwyd Babilon, cymerwyd Jerusalem, cymerwyd Rhufain, cymerwyd Carthage, cymerwyd Tyrus, cymerwyd Acre, cymerwyd Gibraltar, cymerwyd Sepastopol; ond ni chymerwyd erioed, ac ni chymerir byth, mo ddinas Duw. Ni chloddir byth o dan ei sylfeini, ac ni ddryllir byth ei rhagfuriau: "A phyrth uffern nis gorchfygant hi."

3. Dywedir pethau gogoneddus am ei *phreswylwyr*. Y maent yn *lluosog*. Dichon fod miliwn o breswylwyr yn New York, a mwy na hyny yn Paris; ond y mae llawer mwy yn ninas Duw nag sydd yn y ddwy. Dichon fod tair miliwn yn Llundain, a mwy na hyny yn Pekin; ond y mae llawer mwy yn ninas Duw. Y mae ynddi filoedd o filoedd, a myrddiynau o fyrddiynau; ac y maent yn *lluosogi* yn barhaus, genir cenedl ynddi mewn un dydd; ac yr ydys yn cymeryd "*census*" ynddi *bob* dydd; ac y mae cofrestrwyr cyflym yn ysgrifenu yn ei llyfrau am bob un a enir ynddi: a chan nad oes neb yn marw ynddi, na neb yn ymfudo o honi, bydd ei phreswylwyr yn y diwedd yn dyrfa na bydd y cofrestrwyr eu hunain ddim yn ddigon o rifyddwyr i'w rhifo. Y maent oll yn cael yr *addysg oreu*, dan arolygiaeth yr Athraw mawr; dan ddysgyblaeth ac ymgeledd Ysbryd Duw, yn gydysgolheigion âg angylion; yn cael rhodio yn y goleuni; yn ngoleuni cymdeithas eu gilydd, yn ngoleuni lamp ysbrydoliaeth; yn llewyrch gair Duw; yn nysgleirdeb goleuni Haul cyfiawnder. Y maent yn *ufudd*, wedi eu gwneud yn ewyllysgar yn nydd nerth eu Brenin; ac yn gwbl blygedig i'w ewyllys ef, i gyflawni ei holl orchymynion a'i ordinhadau. Y maent yn rhai *bywiog a gweith-*

gar, o feddwl effro, myfyriol, ymchwilgar; ac yn ymhyfrydu yn ngwasanaeth Beu renin. Y maent yn "bobl *santaidd;*" yn ymdrwsio oddifewn â gostyngeiddrwydd ac â santeiddrwydd. Y maent yn caru ac yn magu purdeb calon. Y mae "santeiddrwydd i'r Arglwydd" i'w ddarllen ar eu holl wisgoedd a'u holl addurniadau. Mewn harddwch santeiddrwydd y dygir hwynt i lys y Brenin; ac y mae santeiddrwydd yn gweddu i'w gwaith, i'w cymdeithas, i'w rhagorfreintiau, i alloran ac anneddau eu dinas, ac i'w holl obeithion a'u dysgwyliadau. Y maent yn rhai *addfwyn, cariadlawn, tangnefeddgar;* wedi yfed o ysbryd eu Hathraw: y mae ei gariad ef yn dywalltedig ar led yn eu calonau. Y mae eu cariad yn ddirodres ac yn ddiragrith. Y maent am flaenori eu gilydd mewn bod yn garedig i'w gilydd. Y maent yn *ddedwydd*, yn gwerthfawrogi eu breintiau, ac wrth eu bodd yn eu mwynhau. Y mae llawenydd yn eu calon, a llonder yn eu gwedd, a chân yn eu genau.

4. Dywedir pethau gogoneddus am *barhad* gogoniant a dedwyddwch y ddinas. Y mae dinasoedd caerog, cedyrn, cyfoethog, wedi bod yn yr hen oesoedd, megys No, Noph, Tadmor, Ninefeh, a Babilon, ag ydynt yn awr yn adfeilion anghyfannedd, a'r rhan fwyaf o'u carneddau wedi suddo i'r ddaear; y mae eraill, fu'n enwog am eu cyfoeth, yn awr yn hynod am ddim ond eu gwaelder a'u tlodi. Drylliwyd eu cadernid, diflanodd eu gwychder, gwywodd eu tegwch, darfu eu cyfoeth, ymadawodd eu gogoniant. Ond nid "ysgog" dinas Duw. Ni siglir byth ei sylfeini, ni ddryllir byth ei muriau, ni chauir byth ei phyrth, ni ddymchwelir byth ei phalasau, ni halogir byth ei theml, ni ymâd byth ei gogoniant. Ni fachluda ei haul, ni sycha byth ei ffynnonau, ni wywa ei blodau, ni dderfydd ei thrysorau, ni ddirymir ei chyfreithiau, ni ddiorseddir byth ei Brenin, ni bydd marw byth yr un o'r dinasyddion, ac ni oera eu cariad byth bythoedd; ond *parha* ei chyfoeth a'i gogoniant i gynnyddu yn ddiddiwedd.

II. NODWN RAI GWERSI YMARFEROL, CYMHWYSIADOL, oddiwrth y darluniad yma o ddinas Duw. Mae yn eglur yn

1. Fod llawer o *gamfarnau* am y ddinas. Ac y mae yn lled hawdd i wybod yr *achos* o lawer o'r camfarnau hyny. Y mae dwy ochr i'r ddinas: yr ochr isaf a'r ochr uchaf; yr ochr y tu yma i'r afon a'r ochr y tu draw i'r afon; ochr y ddaear ac ochr y nefoedd: ac y mae dynion y byd hwn yn dueddol iawn i graffu ar ochr y ddaear o'r ddinas—yr ochr isaf, yr ochr y tu yma i'r afon; heb godi eu penau i edrych dros niwl yr afon ar y golygfeydd hyfryd sydd yr ochr draw. Y mae yr ochr yma etto heb ei pherffeithio. Y mae yr ochr isaf yn agored i holl dymhestloedd

y ddaear; ochr tywydd mawr llygredigaethau pechod ydyw; ochr duwch tarth, a niwl, a mwg, a llwch, profedigaethau a llygredigaethau y byd ydyw; ochr ymosodiadau parhaus pyrth uffern ydyw; ochr y plant ieuangaf sydd dan eu hoed ydyw; ochr yr argyhoeddi, y ceryddu, y puro, y glanhau, ydyw: ac y mae y rhai sydd yn edrych o hyd ar ochr isaf y ddinas, yn sicr o gamfarnu a meddwl yn waelach am dani nag y dylent. Y maent yn meddwl ei bod yn llawer gwanach a gwaelach nag yw. Byddai yn dda ac yn deg i'r cyfryw gymeryd golwg lawnach ar ei gogoniant. Codwch eich golygon, edrychwch dros niwl glyn yr afon; ewch o amgylch Seion, rhifwch ei thyrau, ystyriwch ei rhagfuriau, edrychwch ar ei phalasau, gwelwch ei phyrth perlawg, a ban eglur binaclau ei themi a'i llys; a'r heulwen ddigwmwl sydd yn tywynu arnynt; a meddyliwch am gymeriad preswylwyr y rhan uchaf o'r ddinas—mor hardd eu gwisgoedd, mor foneddigaidd eu moesau, mor bur eu gwasanaeth, mor hardd eu trigfanau, ac mor iach, a llon, a dedwydd ydynt. Na chyfyngwch eich golygon i ochr y ddaear; ond edrychwch weithiau dros niwl y glyn, ar olygfeydd prydferth yr ochr draw; fel y mynegoch i'r oes a ddelo ar ol farn gywirach a llawnach am ei chyfoeth, ei chadernid, a'i gogoniant.

2. Fod rhwymedigaethau pwysfawr ar y dinasyddion. Dylent anrhydeddu a charu eu Brenin â chalonau dedwydd, diolchgar, oblegid ei fod wedi parotoi y fath ddinas iddynt. Dylent fyw yn deilwng o'u hurddas a'u breintiau, o'u carenydd a'u cyddinasyddion, o'u gobeithion a'u hetifeddiaeth, o ras a chariad a phresenoldeb eu Tywysog. Dylent fod yn ffyddlawn i'w cyddinasyddion, ac ymhyfrydu yn eu cymdeithas, a llawenhau yn eu dedwyddwch. Dylent ddymuno llwyddiant eu dinas trwy ganmol ei Brenin, ei chyfreithiau, ei chyfoeth, ei gwleddoedd, a'i holl wasanaeth. Dylent yn ysbryd cariad eu Brenin wneud eu goreu i ddenu trueiniaid tlodion dinas pechod i ddianc am eu bywyd oddiyno i ddinas Duw; i adael dinas llygredd a dystryw, er dyfod i breswylio yn anrhydeddus a diogel, yn bur a dedwydd yn ninas Duw.

3. Gan fod dinas Duw mor fawr, mor gyfoethog, ac mor ogoneddus, y mae pob annogaeth i bechaduriaid tlodion ddyfod iddi i gyfranogi o'i breintiau. Gan fod ei Brenin mor oludog, mor alluog, ac mor dosturiol; gan fod ei chyfreithiau mor esmwyth, ac mor uniawn; gan fod ei chyfoeth yn anchwiliadwy a diderfyn; gan fod ei chadernid yn ddiysgog a thragwyddol; gan fod ei phreswylwyr yn rhai o fonedd mor uchel, ac o ysbryd mor gariadlawn; gan fod ei bwrdd wedi ei hulio â'r fath arlwyadau

brenhinol, o bob rhyddid a chroesaw i bob newynog a sychedig eistedd i lawr wrtho i gyfranogi o'r wledd; gan fod ei phyrth yn agored ddydd a nos, a'r gweision wedi cael eu hanfon allan i wahodd pawb i droi i mewn, y mae pob cymhelliad i drueiniaid ar drengu droi iddi, a throi iddi yn ddioed; a chofrestru eu henwau ar unwaith yn mysg y dinasyddion, cyn i'r pyrth a'r llyfrau gael eu cau.

4. Na feddylier y ceir myned i ochr y nef o'r ddinas, trwy ddirmygu a dibrisio ochr y ddaear. Trwy byrth a chynteddoedd, a heolydd, ac yn nghyfeillach preswylwyr ochr y ddaear, yr eir i mewn i ddinas y nef. Nid teg dysgwyl cael myned drwy byrth uchel y farn i'r ddinas nefol fry wedi treulio yr oes i esgeuluso ordinhadau a breintiau eglwys y ddaear.

5. Bydd Seion y nef yn annhraethadwy ogoneddus pan wedi cael ei llawn adeiladu a'i pherffeithio. Pan y bydd holl gynlluniau y Brenin wedi cael eu cyflawni; pan y bydd y Rhagflaenor wedi parotoi y trigfanau, ac wedi trefnu yr heolydd; a phan y bydd yr holl deulu wedi cael eu dwyn adref, wedi gorphen eu hysgol, wedi perffeithio eu moesau, wedi dyfod i'w hoed, wedi cael cyrff cyffelyb i'w gorff gogoneddus ef; a phan y bydd yr hyn sydd farwol wedi ei lyncu i fyny gan fywyd; a phan y bydd pob gelyn wedi ei orchfygu, a phob tramgwyddiadau, a holl *scaffoldings* yr adeiladau gogoneddus wedi eu symud o'r ffordd; a'r holl deulu yn ddedwydd gyda'u gilydd, wedi goddiweddyd llawenydd a hyfrydwch, a chystudd a galar wedi ffoi ymaith.

"Ni glywsom ogoneddus air
I'r ddinas ddysglaer lonydd;
A phethau mawrion yn ddios,
Wnaeth Duw dros Seion ddedwydd.
Gwyn fyd ei dinasyddion sydd,
Yn rhodio 'n rhydd ar hyd-ddi;
Y nefol fraint i minnau rho,
O Dduw, i drigo ynddi."

OFFRYMIAD ISAAC.

"Ac wedi y pethau hyn y bu i Dduw brofi Abraham, a dywedyd wrtho, Abraham. Yntau a ddywedodd, Wele fi. Yna y dywedodd Duw, Cymer yr awr hon dy fab, sef dy unig fab Isaac, yr hwn a hoffaist, a dos rhagot i dir Moriah, ac offryma ef yno yn boethoffrwm ar un o'r mynyddoedd yr hwn a ddywedwyf wrthyt."—Gen. xxii. 1, 2.

Y mae y byd hwn yn llawn drwyddo o brofedigaethau. Y maent ynddo o'r dechreuad; ac y maent hyd etto yn ei lenwi ar bob llaw. Y mae ei oruchwyliaethau wedi cael eu trefnu i brofi plant dynion, i brofi eu ffydd, eu hamynedd, eu gwroldeb, eu hufudd-dod, eu hymostyngiad i ewyllys y nef, eu taerineb mewn gweddi, eu dianwadalwch, a'u dyfal-barhad.

Y mae plant *anwylaf* yr Arglwydd yn cael eu profi yn fynych; a rhai o honynt yn cael eu profi trwy y goruchwyliaethau chwerwaf—trwy golli eu cyfoeth a'u cysuron, neu trwy golli ceraint a chyfeillion, neu trwy golli eu hiechyd a'u nerth, neu trwy golli rhagorfreintiau cymdeithasol crefydd, neu golli yr arwyddion dyddanol fuasai unwaith ganddynt o ffafr eu Duw; a darfu i ambell un golli bron yr oll o'r pethau hyn ar unwaith.

Y mae gan yr Arglwydd *hawl* i hoffi ei bobl, am mai efe yw eu Duw a'u Tad. Ni wna yn anghyfiawn, nac yn angharedig â hwy, oblegid Duw yr uniondeb a'r cariad ydyw. Gwyr beth a weithia oreu er eu lles, ac er ei ogoniant ei hun. Nis gall gamgymeryd, oblegid y mae ei ddeall yn aneirif. Gall eu cynnal dan eu holl brofedigaethau; a gwna i bob peth gydweithio er eu daioni. Cymerodd ddull hynod ac anarferol i brofi ei gyfaill Abraham y tro hwn. Yr oedd cymylau a thywyllwch o'i amgylch ef," er mai "cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainc." Daeth allan mewn mawredd o'i breswylfa santaidd i orchymyn iddo gymeryd ei fab, ei unig hoff ufudd Isaac, a'i offrymu yn boethoffrwm ar un o fynyddoedd Moriah. Yr oedd wedi profi Abraham lawer tro o'r blaen, ond nid yr unwaith fel y tro yma. Yr oedd Abraham wedi rhoddi amlygiadau eglur o'i ffydd a'i ufudd-dod ar lawer amgylchiad; ac y mae prif nodweddiadau ei grefydd yn cael eu darlunio yn ei hanes. Cafwyd prawf o nerth ei ffydd, ac o sirioldeb ei ufudd-dod parod i ewyllys ei Dduw, yn ei waith yn gadael ei wlad, ar alwad y nef, gan fyned allan fel pererin, heb wybod i ba le yr oedd i fyned. Cawn brawf o'i awydd am dangnefedd a heddwch rhwng cymydogion, yn ei waith yn gadael i Lot, ei nai, gael dewis ei borfeydd, yn lle bod dim cynhen rhwng eu bugeiliaid. Cawn enghraifft o'i daerineb mewn gweddi yn ei ddull yn eiriol dros Sodom a dinasoedd eraill y gwastadedd. Cawn amlygiad o'i hoffder o gymdeithas y saint ac o'i frawdgarwch, yn ei ddull yn llettya dyeithriaid; ac "wrth hyny llettyodd angylion yn ddiarwybod." Ceir tystiolaeth o'i ofal fel penteulu yn y ganmoliaeth a rydd yr Arglwydd ei hun iddo, "Mi a'i hadwaen ef, y gorchymyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honynt ffordd yr Arglwydd." Ond y gorchymyn yma i offrymu ei fab, ei hoff fab Isaac, oedd yr amgylchiad rhyfeddaf yn ei holl fywyd. Yr oedd yr Arglwydd am i'r byd gael prawf cryfach o'i grefydd, gael amlygiad effeithiolach o'i dduwioldeb, nag yr un oeddid wedi gael o'r blaen.

I. ENWN RAI O'I RINWEDDAU, NEU EI RASAU SY'N DYSGLEIRIO FWYAF YN WYNEB Y PROFI RHYFEDD FU AR MORIAH.

1. Profwyd ef fel hyn er cael amlygiad o nerth ei *ffydd:* a

dichon mai yr orchestgamp fwyaf a wnaeth ffydd erioed oedd rhwymo Isaac ar yr allor. Yr oedd y gorchymyn a gafodd y patriarch i wneuthur hyny yn hollol wahanol i bob gorchymyn oedd wedi dderbyn erioed o'r blaen o enau ei Dduw. Buasai rheswm yn dadleu ei fod yn hollol groes i natur Duw, a'i fod yn taro yn erbyn ei holl orchymynion eraill; ac yn enwedig yn erbyn y cyfammod oedd Duw wedi wneuthur âg ef gyda golwg ar Isaac. Yr oedd y cyfammod hwnw yn un manwl ac eglur, wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr; ac wedi ei roddi yn y dull mwyaf grasol, ac wedi ei eirio yn y modd llawnaf fel y canlyn:— "Pan oedd Abram onid un mlwydd cant, ymddangosodd yr Arglwydd iddo, a dywedodd wrtho, Myfi yw Duw hollalluog, rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith: a mi a wnaf fy nghyfammod rhyngof fi â thi, ac a'th amlhaf di yn aml iawn. Yna y syrthiodd Abraham ar ei wyneb; a llefarodd Duw wrtho ef, gan ddywedyd, Myfi, wele, myfi a wnaf fy nghyfammod â thi, a thi a fyddi yn dad llawer o genedloedd. A'th enw ni elwir mwy Abram, ond Abraham; canys yn dad llawer o genedloedd y'th wneuthum. A mi a'th wnaf yn ffrwythlawn iawn; ac a wnaf genedloedd o honot ti; a brenhinoedd a ddaw allan o honot ti. Cadarnhaf hefyd fy nghyfammod rhyngof â thi, ac â'th had ar dy ol di, trwy eu hoesoedd, yn gyfammod tragwyddol, i fod yn Dduw i ti, ac i'th had ar dy ol di. A mi a roddaf i ti, ac i'th had ar dy ol di, wlad dy ymdaith, sef holl wlad Canaan, yn etifeddiaeth dragwyddol; a mi a fyddaf yn Dduw iddynt.....Duw hefyd a ddywedodd wrth Abraham, Sarai dy wraig, ni elwi ei henw Sarai, onid Sarah fydd ei henw hi. Bendithiaf hi hefyd, a rhoddaf i ti fab o honi: ïe, bendithiaf hi fel y byddo yn genedloedd; brenhinoedd pobloedd fydd o honi hi. Ac Abraham a syrthiodd ar ei wyneb, ac a chwarddodd, ac a ddywedodd yn ei galon, A blentir i fab can mlwydd? ac a blanta Sarah yn ferch ddeng mlwydd a phedwar ugain? Ac Abraham a ddywedodd wrth Dduw, O na byddai fyw Ismael ger dy fron di! A Duw a ddywedodd, Sarah dy wraig a ymddwg i ti fab yn ddiau; a thi a elwi ei enw ef Isaac: a mi a gadarnhaf fy nghyfammod âg ef yn gyfammod tragwyddol, ac â'i had ar ei ol ef. Am Ismael hefyd y'th wrandewais: wele, mi a'i bendithiais ef, a mi a'i ffrwythlonaf, ac a'i lluosogaf yn aml iawn: deuddeg tywysog a genedla efe, a mi a'i gwnaf ef yn genedlaeth fawr. Eithr fy nghyfammod a gadarnhaf âg Isaac, yr hwn a ymddwg Sarah i ti y pryd hwn y flwyddyn nesaf." Dyma oedd ystyr y cyfammod; ac nid ydoedd yn bosibl iddo fod yn eglurach; ac yr oedd y gorchymyn i aberthu mab y cyfammod, ei aberthu yn mlodau ei nerth, cyn iddo gael

had, yr un mor eglur—"Cymer yr awr hon dy fab, sef dy unig fab Isaac, yr hwn a hoffaist, a dos rhagot i dir Moriah, ac offryma of yno yn boeth-offrwm ar un o'r mynyddoedd yr hwn a ddywedwyf wrthyt." Nid oedd dim anhawsder i ddeall geiriau yr addewid, na geiriau y gorchymyn. Gwyddai Abraham fod y ddau wedi dyfod o'r un genau; oblegid yr oedd yn adwaen llais, a gwedd, ac ymddangosiad, yr hwn oedd wedi eu llefaru wrtho: yr oedd wedi bod yn hir yn ei gyfeillach, ac yr oedd wedi cael llawer prawf o'i ddoethineb, ei gariad, a'i anfeidrol fawredd. Yr oedd y gorchymyn i aberthu Isaac yn taro yn uniongyrchol yn erbyn addewid y cyfammod: a gorchest fawr ei ffydd oedd hyderu yn nerth a gras y cyfammod, ac ar yr un pryd ufuddhau i'r gorchymyn: ac yr oedd yn orchest fawr, oblegid yr oedd yr amgylchiad yn ddyrys, a'r oruchwyliaeth yn dywyll: ond dacw ei hen ffydd brofedig yn gloewi ei golygon, yn cryfhau ei chalon, yn gwregysu ei lwynau, ac yn ymwthio yn mlaen, gan lefaru wrtho, Dy swydd di yn awr yw ufuddhau, nid ceisio esbonio pethau dyfnion, na chysoni pethau dyrys, na cheisio treiddio i'r tywyllwch, na dadlenu goruchwyliaethau yr amserau pell dyfodol, ond *ufuddhau*. Y mae yr un sel wrth y gorchymyn ag sydd wrth yr addewid; rhaid plygu ar unwaith i orchymyn pendant awdurdod mor uchel; a rhaid cofleidio yr addewid hefyd, heb ei gollwng o'r gafael am foment ar unrhyw gyfrif; a mynodd ei ffydd ufuddhau, heb ymgynghori â rheswm cnawdol; ac felly cyflawnodd y gamp, ac enillodd y fuddugoliaeth. "Trwy ffydd yr offrymodd Abraham Isaac, pan ei profwyd; a'i uniganedig fab a offrymodd efe, yr hwn a dderbyniasai yr addewidion: wrth yr hwn y dywedasid, Yn Isaac y gelwir i ti had: gan gyfrif fod Duw yn abl i'w gyfodi ef o feirw; o ba le y cawsai efe ef hefyd mewn cyffelybiaeth."

2. Profwyd Abraham yn y dull yma er cael amlygiad anarferol o nerth ei *gariad* tuag at ei Dduw. Y mae yr Arglwydd yn teilyngu, ac yn dysgwyl, cael ei garu yn fwy nag unrhyw wrthddrychau daearol. Rhaid iddo ef gael y lle blaenaf yn serchiadau y galon. Os rhoddir ei le ef yn y serch i unrhyw wrthddrych arall, ni byddir yn deilwng o hono. Y mae y cariad ato ef i fod yn gryfach na'r cariad at y perthynasau anwylaf; ac felly, er cael amlygiad eglur ac effeithiol o rym cariad Abraham tuag at ei Dduw, gofynodd yr Arglwydd iddo am yr anwylaf oedd ganddo —am ei Isaac, mab ei henaint a'i hoffder; mab Sarah, uniganedig Sarah; yr hwn oedd yn awr yn anwylach ganddynt na'u heinioes eu hunain; eu prydferth Isaac, yr hwn oedd yn awr yn mlodau nerth a gwrid ei oes; eu haddfwyn, ufudd, siriol, hawdd-

gar Isaac, yr hwn yn awr oedd coron, a melusder, a bywyd eu cymdeithas. Yr oedd Abraham wedi profi y medrai adael gwlad ei enedigaeth, ac ymadael â'i geraint a'i gyfoedion, yn nerth ei gariad tuag at ei Dduw; ond rhoddwyd iddo gyfle yn yr amgylchiad yma i amlygu mwy o nerth ei gariad. Buasai yn hawddach iddo aberthu pawb a phob peth oedd ganddo nag aberthu Isaac. Ni fuasai offrymu i Dduw ei aur a'i dlysau ond aberth bychan. Ni fuasai ei ddeadelloedd lluosog ond aberth bychan i'w gymharu âg offrymu Isaac. Buasai colli hanner ei deulu yn llai colled yn ei olwg na cholli Isaac. Buasai aberthu Ismael yn hawddach nag aberthu Isaac. Buasai colli ei anwyl Sarah, cymhares ei fywyd, yn hawddach ei dyoddef na cholli Isaac: ïe, buasai yn llawer hawddach iddo fyned rhagddo ei hunan i dir Moriah, ac anadlu ei einioes yn dawel i ddwylaw ei Dduw, nag aberthu Isaac, anwylyd yr holl deulu, a mab y cyfammod; ond wrth blygu mor ufudd i offrymu Isaac ar archiad y nefoedd, yr oedd ei gariad at Dduw yn curo pob cariad arall yn gwbl o'r golwg.

3. Profwyd Abraham yn y dull yma er cael amlygiad cryfach nag erioed o nerth ei *ofn* duwiol. "Wele, ofn yr Arglwydd, hyny ydyw doethineb." Ofn Duw ydyw dechreuad a nerth bywyd duwiol. Ofn yr Arglwydd yw trysor y credadyn, castell ei amddiffyn, a choron ei ymarweddiad. Cadwai Abraham ofn Duw ger ei fron bob amser; ond cafodd yn yr amgylchiad rhyfedd yma brofedigaeth danllyd i'w ofn duwiol. Buasai yn hawdd i ofn *dyn* fod yn "fagl" iddo, a'i orchfygu. Gallasai ymresymu â'i Dduw yn wyneb y gorchymyn—Yr wyf yn barod i fawrhau pob serch daearol, ac i aberthu hyd yn nod fy anwyl Isaac, *o'm rhan fy hun;* ond yr wyf yn ofni *eraill.* Yr wyf yn ofni Sarah ei *fam.* Byddai cystal ei haberthu hithau ar unwaith. Y mae ei chalon yn nglŷn âg einioes ei hunig fab. Os aberthaf ef, tòraf ei chalon. Paraf i'w phenwyni ddisgyn i'r bedd mewn tristwch. Tro ymaith y cwpan hwn, ac arbed y fam a'i bachgen, O fy Nuw! Yr wyf hefyd yn ofni *Isaac.* Y mae yn awr yn ei nerth a'i fywiogrwydd. Rhydd bob peth, a gwna bob peth, am ei einioes. Cyfyd ei law i amddiffyn ei fywyd wrth yr allor; ac y mae ei fraich gref ieuanc yn sicr o orthrechu braich egwan grynedig ei hen dad. Nis gellir dysgwyl iddo agor ei fynwes i'r gyllell aberthu drywanu ei galon. Yr wyf yn awr yn rhy egwan *o gorff* i gyflawni y gorchwyl. Y mae ceidwaid fy nhŷ yn crynu. Y mae golygon fy llygaid yn pallu. Y mae fy hen galon yn awr yn curo yn wyllt ac yn wan bob yn ail. Bu adeg pan oedd ef yn wanach, a minnau yn gryfach. Bydd yn hawdd i'r un deg ar hugain oed

orchfygu yr un cant a deg ar hugain. Paid, O fy Nuw, a gofyn i mi gynnyg gwasanaeth sydd uwchlaw fy ngallu! Neu, gallasai ddweyd, Yr wyf yn ofni y *tylwyth*. Y maent oll yn parchu ac yn caru Isaac. Y mae yn athraw caredig iddynt yn barod; ac y maent yn meddwl mai efe yn fuan iawn fydd prophwyd, ac offeiriad, a brenin y teulu; ac y maent oll wrth eu bodd am dy fod di wedi codi un mor hawddgar i gymeryd fy lle a'm swydd fel penteulu. Os aberthaf Isaac, ymwylltiant yn eu galar a'u siomedigaeth, collaf fy awdurdod yn eu mysg ar unwaith, ac am byth: codant oll yn fy erbyn, ac ni wyddir beth fydd y canlyniad. Neu, gallasai ddweyd, Yr wyf yn ofni y *cymydogion*—y penau teuluoedd o'm deutu; byddant yn sicr o cistedd mewn barn ar fy ymddygiad, a'm dedfrydu i farw fel y tad creulawn a aberthodd ei anwyl fab ar allor ei gaugrefydd: yr wyf yn ofni y bydd fy enw dan warth am holl oesau y ddaear; ac yr wyf yn ofni y bydd y tro yn achlysur i ddwyn anfri a dirmyg ar dy addoliad, a'th aberthau, ac ar dy enw mawr, a'th goffadwriaeth. Buasai yn hawdd i'r patriarch ddadleu yn y dull yma yn erbyn y gorchymyn; ond yr oedd yn ofni Duw; nid ynganodd yn ei erbyn. Nid ymgynghorodd â chig a gwaed. Ni ddechreuodd *ofni dynion*. Nid astudiodd beth a wnaent, na pha beth a ddywedent; ac felly, buddugoliaethodd ei ofn duwiol ar bob ofn arall.

4. Profwyd Abraham yn y dull yma er cael amlygiad o *fanylrwydd* ei ufudd-dod. Yr oedd y gorchymyn yn un manwl, a buasai yn bosibl iddo gynnyg ufudd-dod *hannerog* iddo. Gallasai ddweyd ei fod am ufuddhau, pan ar yr un pryd am *newid* rhai o benau y gorchymyn. Y mae Duw yn gofyn ufudd-dod *cyflawn* i'w orchymynion: ufudd-dod siriol, parod, dioed, ac anammodol. Pan ddywedodd Duw, "*Cymer;*" ni wnaethai y tro i Abraham ddweyd, Na, fy Nuw, cymer di, neu cymered rhyw un arall Isaac, er mwyn i'w hen dad gael ei arbed. Pan y dywedodd Duw, "Cymer yr *awr hon;*" ni wnaethai y tro i Abraham ddweyd, Cymeraf, ryw dro etto; cymeraf yn mhen blwyddyn, cymeraf ar ol i Isaac briodi a chael etifedd; cymeraf ar ol i mi gael yr *ŵyr* bach unwaith yn fy mreichiau. Pan y dywedodd Duw, "Cymer yr awr hon dy fab, sef dy unig fab *Isaac*, yr hwn a hoffaist;" ni wnaethai y tro i Abraham ddweyd, Cymeraf fy mab Ismael. Pan y dywedodd Duw, "Dos rhagot i dir *Moriah;*" ni wnaethai y tro i Abraham ateb, Na, os wyf i offrymu Isaac, gwell genyf beidio ei arwain mor bell; gwell genyf ei aberthu yma, ar wastadedd Mamre, yn ngolwg ac yn nghanol y teulu. Pan y dywedodd Duw, "Offryma ef yn *boeth-offrwm;*" ni wnaethai y tro i Abraham ddweyd, Na, gwell genyf gael ei gorff

i'w gladdu yn fy meddrod, na'i losgi ar yr allor. Yr oedd ystyr i bob gair o'r gorchymyn; ac ni cheisiodd Abraham newid ystyr, na gair, na sill o hono. Penderfynodd ufuddhau yn gyflawn ac ar unwaith. Gydag iddo dderbyn y gorchymyn, boreu-gododd, cyfrwyodd ei asyn, cymerodd ei ddau lanc gydag ef, ac Isaac ei fab; ac a holltodd goed y poeth-offrwm, ac aeth tua'r lle a ddywedasai Duw wrtho. Teithiodd y dydd cyntaf a'i hyder yn Nuw, a'i fryd ar gyflawni ei orchymyn. Llettyodd y noson hòno yn y maes gyda'i anwyl Isaac. Teithiodd yr un modd yr ail ddydd, a'i ffydd yn ddiegwan ac yn ddisigl. Ar y trydydd dydd, dyrchafai ei lygaid, a gwelai y lle o hirbell. Gwelai yno arwydd dysglaer o bresenoldeb yr Arglwydd: a dywedodd wrth y ddau lanc, "Aroswch chwi yma gyda'r asyn; a mi a'r llanc a awn hyd acw, ac a addolwn, ac a ddychwelwn atoch. Yna cymerth Abraham goed y poeth-offrwm, ac a'u gosododd ar Isaac ei fab; ac a gymerodd y tân, a'r gyllell yn ei law ei hun." Ac fel yr oeddynt yn agosâu at y lle, dywedodd Isaac, "Fy nhad....wele dân a choed, ond mae oen y poeth-offrwm?" Gallasid dysgwyl i'r fath ofyniad, yn ymyl y fan, siglo ei ffydd, ac y buasai yn gollwng y tân a'r gyllell o'i law, gan fethu ateb gair, na symud cam; ond dywedodd yn dawel a ffyddiog, "Fy mab, Duw a edrych iddo ei hun am oen y poeth-offrwm." Felly yr aethant yn nghyd, daethant i'r lle; adeiladodd Abraham allor, gosododd y coed mewn trefn, rhwymodd Isaac ei fab, ac a'i gosododd ar yr allor, ar uchaf y coed. Buasem yn hoffi cael ychydig eiriau o hanes y modd yr hysbysodd Abraham i'w hoff fab, mai efe oedd i fod yn oen y poeth-offrwm, ac o'r modd y plygodd Isaac i'r drefn. Bu hyny, ond ni cheir yr hanes yn y byd yma. Aeth Abraham drwy holl gamrau y gorchymyn: a dacw ef yn estyn ei law, ac yn gafael yn y gyllell, ac yn edrych ar y lle yr oedd calon ei anwyl Isaac yn curo, ac yn codi ei fraich i roddi y clwyf marwol, pan y galwodd angel yr Arglwydd arno o'r nefoedd, ac a ddywedodd yn uchel ac yn gyflym, "Abraham, Abraham. Dywedodd yntau, Wele fi. A dywedodd yr angel, Na ddod dy law ar y llanc, ac na wna ddim iddo: o herwydd gwn weithian i ti ofni Duw, gan nad atteliaist dy fab, dy unig fab, oddiwrthyf fi." Fel pe dywedasai, Y mae awr y brofedigaeth drosodd, daliodd dy grefydd y prawf, er trymed ac er cyfynged oedd. Gorchfygodd dy ffydd, a'th gariad, a'th ofn duwiol; buost yn ufudd hyd y diwedd, ennillaist y fuddugoliaeth, ac yr ydwyt yn fwy na chonewerwr.

II. Cyfeiriwn yn fyr iawn AT BETH O'R LLES A DDEILLIODD O'R PROFIAD RHYFEDD YMA O RASAU CREFYDD ABRAHAM.

1. Rhoddodd foddhad i feddwl Duw, a gogoniant i'w enw a'i

gymeriad. Yr oedd pob cam o ufudd-dod Abraham, ar lwybr mor ddyrys ac mor dywyll, yn anrhydedd ac yn fawrhad i awdurdod, a doethineb, a gwirionedd, a ffyddlondeb, a thrugaredd yr Arglwydd.

2. Rhoddodd y prawf yma o grefydd Abraham lawenydd ac addysg, ac adnewyddiad meddwl i deulu y nefoedd. Yr oedd enw Abraham yn adnabyddus drwy y nefoedd; a dichon i lengoedd o'r teulu gael cenad i ddyfod i lawr i fod yn dystion o'r profi ar ben Moriah, ac yr oedd yno hefyd rai o angylion y tywyllwch yn dysgwyl i'r prawf droi yn fethiant, er iddynt gael achlysur i feio trefniadau y nefoedd: ond gorfu iddynt droi adref yn siomedig, dan argyhoeddiad nad ellir byth orchfygu ffydd o'r un natur a ffydd Abraham; ac aeth teulu y nef adref dan ganu eu telynau, a llawenychu fod ganddynt y fath gyfaill ag Abraham ar y ddaear; a'u bod i'w gael atynt mor fuan i gymeryd ei ran yn eu cân a'u gwasanaeth.

3. Gwnaeth y profi rhyfedd hyny les mawr i Abraham. Adnewyddodd ei nerth, adfywiodd ei brofiad, melusodd ei gysuron, cryfhaodd ei ffydd a'i lawenydd, gloewodd ei holl rasau; trymhaodd ei ddylanwad yn ei deulu; helaethodd gylch ei ddefnyddioldeb, ac anfarwolodd ei enw a'i goffadwriaeth. Yr oedd ei deulu yn meddwl yn uwch ac yn well am dano nag o'r blaen. Yr oedd ei gymydogion yn gorfod dweyd ei fod yn haeddu cael ei alw yn "gyfaill Duw;" ac yr oedd ei ôl-oeswyr yn parchu ei goffadwriaeth fel "tad y ffyddloniaid." Byddai yn anmhosibl i ni ddirnad y llawenydd a brofodd yn yr oedfa ryfedd hòno ar ben Moriah, pan ddywedodd yr angel wrtho, "Na ddod dy law ar y llanc;" pan y cafodd ddattod rhwymau Isaac, a'i ollwng yn rhydd; pan y cafodd offrymu yr hwrdd yn lle ei fab. Yr oedd y nefoedd yn dysgleirio yn ei wyneb pan yr oedd yn sefyll wrth yr allor, ac Isaac ar ei gyfer. Gwelodd y pryd hyny ddydd Crist.

4. Bu y tro yn addysg ac yn gysur i'w deulu, ac i lawer eraill. Bu yr adgofion am y daith hòno i dir Moriah, ac am ei deimlad pan yn rhwym ar yr allor yn dysgwyl brath y gyllell, a phan glywodd lais yr angel yn galw am ei arbed, a phan oedd yn cynnorthwyo ei hen dad i offrymu yr hwrdd yn ei le, yn lles mawr i Isaac, yn nerth i'w galon, yn wledd i'w fyfyrdod, ac yn faeth i'w grefydd drwy holl gyfnewidiadau ei fywyd. Yr oedd Sarah hefyd, ar ol iddi gael yr hanes gan ei mab Isaac, ar ei ddychweliad, yn meddwl yn uwch am ei mab, ac am ei phriod, ac am ei Duw, nag oedd o'r blaen. Pe buasai Abraham yn hysbysu iddi y bwriad pan oeddynt yn cychwyn i'r daith, mae lle i ofni y buasai yn gwrthryfela yn erbyn y drefn, neu yn tòri ei chalon i

farw; ond wrth glywed yr adroddiad, wedi i'r brofedigaeth fyned heibio, pan y byddai Isaac yn dweyd wrthi, Y mae yn dda genyf i mi blygu i gymeryd fy rhwymo, na ddarfu i mi ddim codi fy llaw yn erbyn fy nhad; byddai ei fam yn ateb, Y mae yn dda genyf finnau hyny. Y mae trefniadau yr Arglwydd, er eu bod weithiau yn dywyll ac yn ddyrys i ni, yn llawn o ddoethineb ac o gariad, ac yn cydweithio er ein daioni; a dylem ei garu ac ymddiried ynddo trwy y cyfan: ac y mae yn hoff iawn genyf fod dy dad wedi bod mor ffyddlawn i'w orchymyn drwy awr y brofedigaeth. Un ffyddlawn ydyw wedi bod trwy bob peth er pan adnabum i ef; ac y mae ei grefydd yn cryf hau o hyd fel y mae yn heneiddio. A byddai Isaac yn ei hateb hithau yn ol, Mi gofiaf finnau byth am ei wedd fyfyriol, nefol, dadol, trwy y daith i dir Moriah; am ei lais effeithiol pan y dywedodd, "Duw a edrych iddo ei hun am oen y poeth-offrwm;" am ei ddifrifwch dystaw wrth godi yr allor; am ei edrychiad yn fy wyneb pan y dywedodd mai fi oedd i fod yn oen y poeth-offrwm, a phan oedd yn codi y gyllell uwch fy mynwes, ac am ei holl agwedd ddiolchgar pan yn dattod fy rhwymau. Bu llawer o son am offrymiad Isaac yn y teulu; ac yr oedd yno ddigon o dduwioldeb yn y teulu i'w dysgu i barchu y patriarch am ei ymddygiad; a'u tystiolaeth wrth eu gilydd oedd, nad oedd y fath grefyddwr i'w gael dan yr holl nefoedd a'u hen feistr ffyddlawn hwy. Ac aeth y son am aberth pen Moriah ar led drwy y gymydogaeth, a thrwy yr holl wlad; a'r gair cyffredinol oedd, nad oedd neb ar y ddaear mor ffyddlawn i Dduw ag oedd yr hen batriarch Abraham. Ac y mae yr hanes am yr amgylchiad wedi bod o addysg ac o galondid i gredinwyr pob oes, er eu cymhell i ymddiried yn yr Arglwydd bob amser, i ymostwng yn ddiddig dan alluog law ei holl oruchwyliaethau er tywylled fyddont; ac i roddi ufudd-dod llawn a llawen a dioed i'w holl ddeddfau a'i ordinhadau.

CYMHWYSIAD.

1. Dylem fod yn ddiolchgar iawn am *fywgraffiadau* y Beibl, yn gystal ag am ei *athrawiaethau:* ac am fod yr hanesion am dywydd a chroesau yr hen dduwiolion, am brofedigaethau a buddugoliaethau eu ffydd, mor darawiadol ac mor eglur, mor fyrion ac mor effeithiol.

2. Dylem ninnau geisio, a magu, a maethu, y ffydd hòno all sefyll ei thir yn wyneb *profedigaethau:* y ffydd hòno all oddef cystudd, all wneud aberth pan y gelwir am hyny, all blygu i Dduw gael ein ceraint anwylaf pan y byddo yn galw am danynt; all lawenychu yn yr Arglwydd pan y bydd ffynnonau pob cysuron daearol yn sychu, pan y bydd goludoedd daear yn cymeryd aden-

ydd ac yn ehedeg ymaith, pan y bydd tosturi cyfeillion a chymhorth pob braich o gnawd yn pallu; y ffydd hòno all orchfygu y byd, a diffodd picellau tanllyd y fall, a siglo pyrth uffern, a dyfal-barhau hyd y diwedd.

3. Y mae Duw yn ymhyfrydu i brofi ei bobl, er eu cael yn fwy pur, a'u gwneud yn fwy defnyddiol; ac y mae yn rhoddi i'w bobl bob annogaeth i'w brofi yntau: i brofi tosturiaethau ei galon, a'i ffyddlondeb i'w addewidion, a golud anchwiliadwy ei gariad, a nerth ei freichiau tragwyddol, a chadernid disigl ei gyfammod, a dianwadalwch ei gynghor a'i lw: os profir ef, ceir pob peth yn hollol ddiogel a sicr. Ni cheir byth ball yn ei addewidion, na gwendid yn ei amddiffyniad, na thrai yn ei drugaredd, nac unrhyw ddiffyg yn ei iachawdwriaeth.

4. Ni ddylem ddarllen, na son, na chofio am Isaac yn cario coed y poeth-offrwm tua Moriah, ac yn rhwym ar yr allor dan law ei dad, heb feddwl am Un mwy nag Isaac, yn dwyn ei groes tua'r un fan, ac yn yfed y cwpan a roddes y Tad iddo i'w yfed. Cafodd Isaac ei arbed, a'i ryddhau; ond ni arbedodd Duw ei briod fab, eithr traddododd ef drosom ni oll. Bu Iesu yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu y groes. Rhoddodd ei hun drosom ni, yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd. Meddyliwn am ei gariad annhraethol ef; ymegnïwn am ei adnabod ef, a grym ei adgyfodiad ef, a chymdeithas ei ddyoddefiadau ef, nes ein cydffurfio â'i farwolaeth ef, a'n dysgu i ymffrostio yn unig yn ei groes ef, ac ennill y "gamp," ar yrfa ffydd, drwy rym ei haeddiant ef.

NOS Y PASG CYNTAF.

"Lleferwch wrth holl gynnulleidfa Israel, gan ddywedyd, Ar y degfed dydd o'r mis hwn cymerant iddynt bob un oen, yn ol teulu eu tadau, sef oen dros bob teulu. Ond os y teulu fydd ry fychan i'r oen, efe a'i gymydog nesaf i'w dŷ a'i cymer, wrth y rhifedi o ddynion; pob un yn ol ei fwyta a gyfrifwch at yr oen. Bydded yr oen genych yn berffeith-gwbl, yn wrryw, ac yn llwdn blwydd: o'r defaid, neu o'r geifr, y cymerwch ef. A bydded yn nghadw genych hyd y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis hwn: a lladded holl dyrfa cynnulleidfa Israel ef yn y cyfnos. A chymerant o'r gwaed, a rhoddant ar y ddau ystlysbost, ac ar gapan drws y tai y bwytânt ef ynddynt. A'r cig a fwytânt y nos hòno, wedi ei rostio wrth dân, a bara croyw, gyda dail surion y bwytânt ef. Na fwytewch o hono yn anmrwd, na chwaith wedi ei ferwi mewn dwfr, eithr wedi ei rostio wrth dân; ei ben gyda'i draed a'i ymysgaroedd. Ac na weddillwch ddim o hono hyd y bore: a'r hyn fydd yn ngweddill o hono erbyn y bore, llosgwch yn tân. Ac fel hyn y bwytewch ef; wedi gwregysu eich lwynau, a'ch esgidiau am eich traed, a'ch ffyn yn eich dwylaw: a bwytewch ef ar ffrwst; Pasg yr Arglwydd ydyw efe. O herwydd mi a dramwyaf trwy wlad yr Aipht y nos hon, ac a darawaf bob cyntafanedig o fewn tir yr Aipht, yn

ddyn, ac yn anifail; a mi a wnaf farn yn erbyn holl dduwiau yr Aipht: myfi yw yr Arglwydd. A'r gwaed fydd i chwi yn arwydd ar y tai lle byddoch chwi: a phan welwyf y gwaed, yna yr âf heibio i chwi, ac ni bydd pla dinystriol arnoch chwi, pan darawyf dir yr Aipht. A'r dydd hwn fydd yn goffadwriaeth i chwi; a chwi a'i cedwch ef yn wyl i'r Arglwydd trwy eich cenedlaethau: cedwch ef yn wyl trwy ddeddf dragwyddol."—Exod. xii. 3—14.

Nos y Pasg cyntaf oedd un o'r nosau rhyfeddaf a fu er dechreu amser. Nos marwolaeth holl gyntafanedigion gwlad yr Aipht. Y nos cyn cychwyniad llwythau Israel o dŷ eu hir gaethiwed i'w taith ryfedd tua gwlad yr addewid. Nos eu swper olaf yn yr Aipht, ond eu gwledd gyntaf ar oen y Pasg. Nos ag oeddynt i'w chadw mewn coffadwriaeth trwy eu cenedlaethau yn wyl i'r Arglwydd trwy ddeddf dragwyddol. Y mae yr adnodau a ddarllenwyd yn ein harwain i ystyried yn

I. Yr achosion o galon-galedwch, rhyfyg, a chreulondeb Pharaoh a'i gadbeniaid a'i bobl.

Y mae calon-galedwch Pharaoh wedi bod yn awr yn ddiareb am lawer o oesau. Dylem wylio rhag meddwl fod yr Arglwydd yn ewyllysio i Pharaoh fod yn galed ac yn greulawn. Y mae calon ddrwg yn hoff iawn o geisio taflu y bai at ddrws trefniadau a rhagluniaethau yr Arglwydd; ac y mae weithiau yn ceisio chwilio am awdurdod o'r Beibl i wneud hyny, ac y mae, dichon, mor hoff o'r geiriau, "Yr Arglwydd a galedodd galon Pharaoh," ag unrhyw ymadrodd sydd yn y Beibl. Y mae yn wir fod cyfeiriadau lluosog yn y Beibl at "galedu calon Pharaoh." Y mae'r ffaith yn cael ei chrybwyll mewn pedair ffordd: "Caledodd calon Pharaoh." "Caledwyd calon Pharaoh." "A Pharaoh a galedodd ei galon." "A'r Arglwydd a galedodd galon Pharaoh." Y mae yn bosibl i'r dywediad olaf gael ei gamddeall a'i gamesbonio, fel ag i symud y bai oddiwrth ddrws Pharaoh at ddrws Duw. Y mae hyny i'w ochelyd, oblegid yr Arglwydd a gâr gyfiawnder, a myn ei enw a'i orsedd yn berffaith glir oddiwrth bechodau plant dynion. Gan hyny, "na ddyweded ñeb pan demtier ef, Gan Dduw y'm temtir: canys Duw nis gellir ei demtio â drygau, ac nid yw efe yn temtio neb." Byddai yn gamgymeriad niweidiol iawn i ni feddwl fod yr Arglwydd yn hoffi i Pharaoh ymgreuloni i orthrymu Israel, ac i foddi eu plant yn yr afon, a phenderfynu trymhau a chryfhau iau eu caethiwed. Byddai cystal i ni feddwl ei fod yn hoffi hefyd iddo roddi coel i'r swynwyr, ac addoli gaudduwiau; ac os dywedir fod yr Arglwydd yn llygru ac yn creuloni Pharaoh, dylid cadw at gysondeb y ffydd hòno, a dywedyd mai efe galedodd Cain i genfigenu wrth ffydd ei frawd, ac i'w ladd; mai efe galedodd y cynddiluwiaid yn eu trais a'u hanffyddiaeth;

mai efe galedodd y Sodomiaid yn eu llygredigaethau; mai efe oedd yn caledu croeshoelwyr Tywysog y bywyd; mai efe oedd yn caledu pob Pharaoh, a phob Belsassar, a phob Nero a Bonner fu yn y byd erioed; mai, os efe oedd ewyllysydd ac awdwr calon-galedwch yr Aiphtiaid, efe hefyd ydyw awdwr calon-galedwch pob gorneswyr eraill. Byddai yn dda i ni ddiwreiddio y fath gyfeiliornad o'n calon. Beth ynte a olygir wrth y geiriau—"Yr Arglwydd a galedodd galon Pharaoh"? Y mae yr Arglwydd yn Llywydd uniawn. Y mae ganddo ei gyfreithiau. Y mae ganddo ei oruchwyliaethau er cadw ei lywodraeth fawr mewn trefn; ac yr oedd yn amser Pharaoh, fel y mae bob amser, yn troi olwynion mawrion ei ragluniaeth yn erbyn annhrefn ac annhegwch; a *myn* eu troi, yn ol ei drefn gyfiawn, er gwaethaf holl gyndynrwydd dyn. Pe buasai Pharaoh yn plygu yn addfwyn i drefniadau teg a grasol y nef, gallasai fod y dedwyddaf, a'r cyfoethocaf, a'r anrhydeddusaf o blant dynion; ond yr oedd yn gosod ei wyneb yn erbyn cariad a chyfiawnder y nefoedd; yr oedd ei holl galon am wrthryfela yn erbyn Duw; ac yr oedd yn wallgof am geisio attal olwyn fawr Rhagluniaeth i droi; a chan fod yr olwyn yn troi er ei waethaf ef a'i swynwyr, a'i gadbeniaid, yr oedd yn ymgynddeiriogi fwyfwy: a byddai yn decach i ddweyd fod y tad tirionaf a ffyddlonaf yn ceisio caledu ei fab ystyfnig wrth gadw trefn yn ei dŷ, na dweyd fod yr Arglwydd yn ymhoffi i galedu Pharaoh, yn gymaint a bod trefn dysgyblaeth yr Arglwydd yn ei deulu mawr yn anfeidrol uniawn, pan y gall fod anmherffeithrwydd yn nysgyblaeth y tad tecaf a doethaf: a dyna olygir wrth "galedu calon Pharaoh," ei fod yn ystyfnigo ac yn ymgaledu yn erbyn goruchwyliaethau anorchfygol y nefoedd, yn lle plygu iddynt er ei gysur. Hawdd i ni, ond craffu ar yr amgylchiadau, weled ac adwaen yr *achosion* o'i galon-galedwch.

1. *Cariad at elw anghyfreithlawn:* sef yr elw oedd yn gael drwy orthrymu llwythau Israel. Yr oedd yn Israel y pryd hyny dros chwe' chan' mil o wŷr cryfion, heblaw gwragedd a phlant; ac yr oeddynt oll wedi bod yn hir mewn caethwasanaeth, ac yr oedd eu caethwasanaeth caled yn dwyn elw mawr i dywysogion yr Aipht. Dichon mai y brif gangen o'u llafur y pryd hyny oedd gwneuthur priddfeini, er adeiladu dinasoedd a phalasau, a themlau a chofgolofnau, a bedd-adeiladau brenhinoedd yr Aipht. Yr oedd calon brenin yr Aipht wedi ei gosod gymaint ar yr elw deilliedig oddiwrth eu caethlafur, fel yr oedd ef a'i bobl yn foddlon bron i golli eu bywyd, yn hytrach na gollwng Israel o'u gwasanaeth. Y mae cariad at elw anghyfiawn felly wedi andwyo miloedd heblaw Pharaoh. Y mae cariad at elw anghyfiawn yn sicr o

galedu y galon lle y bydd yn cael ei fynwesu. Ond dedwydd yw y galon na wna ddim *cam* â neb, nag â dim,—ddim â hi ei hun nac âg eraill, ddim cam â'r byd nac â'r eglwys, er mwyn yr holl elw sydd gan y ddaear i'w roi.

2. *Balchder ysbryd*, neu *uchder calon.* Yr oedd brenin yr Aipht a'i gadbeniaid wedi cael cymaint o'u ffordd ac o'u rhwysg, nes oedd yn anhawdd ganddynt blygu i neb, mewn dim, ar unrhyw amgylchiad. Yr oeddynt yn eu hystyried eu hunain yn arglwyddi y byd; ac nid oedd yn y byd y pryd hyny yr un gallu a fedrai eu plygu. Yr oeddynt yn ymwybodus o'u grym, fel meistri, ar eu holl gymydogion, ac yr oedd eu trechu yn anhawdd ei ddyoddef. Aeth yn ddadl annysgwyliadwy rhyngddynt â *Duw eu caethion*, Duw yr Hebreaid; a dechreuasant y frwydr yn bur hyfion. Yr oedd y frwydr wedi myned yn boeth ac yn bur gyhoeddus. Yr oedd Pharaoh wedi gofyn yn nghynddaredd gwawd ei falchder, "Pwy yw yr Arglwydd, fel y gwrandawn i ar ei lais?" Yr oedd wedi cyhoeddi yn nghlyw nefoedd a daear, "Yr Arglwydd nis adwaen, ac Israel nis gollyngaf." Yr oedd wedi ychwanegu, rhag i neb o honynt feddwl y gallent ddianc—"Mi a erlidiaf, mi a oddiweddaf, mi a ranaf yr yspail: caf fy ngwynfyd arnynt; tynaf fy nghleddyf, fy llaw a'u dyfetha hwynt." Yr oedd yn anhawdd iawn gan Pharaoh blygu ar ol ymffrostio, a hèrio, a bygwth felly: ac yr oedd ei galon yn ymgyndynu ac yn ystyfnigo fwyfwy fel yr oedd y frwydr yn trymhau yn ei erbyn. Yr oedd yn rhy anhawdd gan ei ysbryd balch blygu yn nghanol y fath frwydr gyhoeddus. Yr oedd yn meddwl y buasai yn warth tragwyddol iddo i'r Duw dyeithr, Duw yr Hebreaid, fynu ennill ei bwnc, a gwared ei bobl o feddiant yr Aipht: ac felly hen falchder ei ysbryd ystyfnig oedd yn ei galedu yn amser y frwydr.

3. Achos arall o'i galedwch oedd *coelgrefydd* a *swyngyfaredd.* Yr oedd gaudduwiau lawer yn cael eu haddoli yn yr Aipht; ac yr oedd y brenin a'i luoedd yn rhoddi eu hyder ynddynt. Bernir eu bod yn ddefosiynol iawn yn addoli eu hafon ardderchog, a'u teirw mawrion, ac yr oedd offeiriaid y gaudduwiau, a Jannes a Jambres, ac athrawon eraill y swynwyr, yn cydymegnïo drwy eu dichellion, eu cyfrwysder, a'u hudoliaethau, i'w calonogi mewn twyll a chelwydd. Yr oedd elw eu crefft y pryd hyny mewn perygl, ac yr oeddynt yn arfer pob dyfais yn eu gallu er attal y brenin a'i gadbeniaid rhag plygu i Dduw Israel: ac ar ol arfer ymgynghori â'r cyfryw, a gwrando arnynt, a rhoddi coel i'w daroganau, a hyder yn eu cymhorth, yr oedd Pharaoh yn meddwl y gallent ei gadw ef a'i wlad rhag pob perygl: ac yr oedd ei

feddwl o'r diwedd wedi myned mor goelgrefyddol, ac mor dywyll, fel na fedrai wahaniaethu rhwng bys Duw a bys twyll. Ac y mae swyngyfaredd wedi caledu calonau miloedd ar ol dyddiau Pharaoh. Y mae yn bechod gwaradwyddus a damniol i ddynion roddi coel i ddaroganau dewiniaid, yn lle i eiriau eglur Duw; ac ymddiried i hudoliaethau cyfaredd, yn lle i addewidion y gwirionedd.

4. Achos arall o galedwch calon Pharaoh oedd chwareu âg argyhoeddiadau ei feddwl, cellwair â theimladau ei galon, a thòri yr addunedau oedd yn wneud yn oriau ei argyhoeddiad. Yr oedd wedi teimlo lawer tro ei fod yn ymladd yn erbyn un trech nag ef. Yr oedd wedi teimlo y byddai yn ddoethach ac yn ddiogelach iddo blygu. Yr oedd weithiau yn cydnabod ei fai, ac yn dymuno ar Moses weddïo drosto, ac yn addunedu gollwng Israel; ond gydag i'r cwmwl fyned heibio, byddai yn ail ymgaledu. Galwodd unwaith am Moses ac Aaron, a dywedodd, "Gweddïwch ar yr Arglwydd, ar iddo dynu'r llyffaint ymaith oddiwrthyf fi, ac oddiwrth fy mhobl; a mi a ollyngaf ymaith y bobl, fel yr aberthont i'r Arglwydd." Gwnaed yn ol ei gais, etto efe a galedodd. Dywedodd dro arall, "Ewch, aberthwch i'ch Duw yn y wlad." Yr oedd am roddi "goddefiad" iddynt aberthu, ond iddynt beidio myned allan o'r wlad: atebodd Moses nad allent ddim aberthu yn ngwydd llygaid yr Aiphtiaid, i gael eu herlid am eu haberth. Dywedodd yntau, "Mi a'ch gollyngaf chwi, fel yr aberthoch i'r Arglwydd eich Duw yn yr anialwch; ond nac ewch yn mhell: gweddïwch drosof fi." Nid oedd yn foddlon iddynt fyned yn mhell, fyned allan o'r cyrhaedd, nac aros yn hir. Yr oedd am iddynt aberthu gyda brys, a dyfod yn ol yn fuan. Gweddïwyd drosto y pryd hyny, a symudwyd y farn, ond ymgaledodd drachefn. Dywedodd dro arall, "Pechais y waith hon; yr Arglwydd sydd gyfiawn, a minnau a'm pobl yn annuwiol. Gweddïwch ar yr Arglwydd (canys digon yw hyn) na byddo taranau Duw na chenllysg; a mi a'ch gollyngaf, ac ni aroswch yn hŵy." A lledodd Moses ei ddwylaw at yr Arglwydd, a'r dymhestl a beidiodd; ond gydag iddi dawelu, ail ymgaledodd Pharaoh a'i weision. Dywedodd dro arall, pan oedd ei weision mewn dychryn, "Ewch, gwasanaethwch yr Arglwydd eich Duw: ond pa rai sy'n myned?" Atebodd Moses, "A'n llanciau, ac â'n henafgwyr, yr awn ni; â'n meibion hefyd, ac â'n merched, â'n defaid, ac â'n gwartheg, oblegid rhaid i ni gadw gwyl i'r Arglwydd." Ail ddigiodd Pharaoh, a gwaeddodd, "Gwelwch mai ar ddrwg y mae eich bryd. Nid felly; ewch yn awr y *gwŷr*, a gwasanaethwch yr Arglwydd." Yr oedd yn gwybod y deuai

y gwŷr yn ol yn lled fuan, ond iddynt adael eu gwragedd a'u rhai bach ar ol. Ond pan ddeallodd eu bod am fyned *oll*, digllonodd, a gorfu i Moses ac Aaron gilio o'i wydd. Ond galwodd am danynt drachefn pan yr oedd pla blin y locustiaid yn difwyno y wlad, a dywedodd, "Pechais yn erbyn yr Arglwydd eich Duw, ac yn eich erbyn chwithau: ac yn awr maddeu, attolwg, fy mhechod y waith hon yn unig, a gweddïwch ar yr Arglwydd eich Duw, ar iddo dynu oddiwrthyf y farwolaeth hon yn unig." A Moses a weddïodd ar yr Arglwydd, a chwythwyd ymaith y locustiaid gan wynt cryf iawn o'r gorllewin, i'r Môr Coch: ni adawyd un locust o fewn holl derfynau yr Aipht: er hyny ymgaledodd Pharaoh fel na ollyngai Israel ymaith. Pan oedd y tywyllwch dudew drwy holl wlad yr Aipht am dri diwrnod, galwodd Pharaoh am Moses ac Aaron, a dywedodd, "Ewch, gwasanaethwch yr Arglwydd; arhöed eich defaid a'ch gwartheg yn unig: aed eich rhai bach hefyd gyda chwi." Yr oedd yn foddlon i'r bŏbl oll fyned, ond iddo ef gael eu *hanifeiliaid*. Ond dywedodd Moses, "Aed ein hanifeiliaid hefyd gyda ni; ni adewir ewin yn ol: oblegid o honynt y cymerwn i wasanaethu yr Arglwydd ein Duw." Ond ni fynai Pharaoh eu gollwng hwy; a dywedodd wrth Moses, "Dos oddiwrthyf, gwylia arnat rhag gweled fy wyneb mwy: oblegid y dydd y gwelych fy wyneb, y byddi farw." Atebodd Moses, "Uniawn y dywedaist, ni welaf dy wyneb mwy." A dywedodd yn hyf wrth Pharaoh mai marwolaeth pob cyntafanedig yn ngwlad yr Aipht fyddai y pla nesaf; ac y byddai *raid* iddo eu gollwng. Yr oedd yn siarad yn hyf, ond gwyddai pwy oedd wrth ei gefn; ac aeth allan o wydd Pharaoh "mewn digllonedd llidiog." Nid rhyfedd ei fod mewn "poethder digllonedd," yr oedd Pharaoh wedi tòri ei air y fath nifer o weithiau, ac yr oedd hyny yn ei galedu fwyfwy; oblegid nid oes dim yn waeth am galedu y galon na mygu argyhoeddiadau a thòri addunedau. Y mae hyny wedi caledu ac andwyo myrddiynau ar ol dyddiau Pharaoh. Dyma, dichon, y prif achosion o'i galon-galedwch: cariad at elw anghyfreithlawn, balchder calon yn erbyn plygu, coelgrefydd a swyngyfaredd, a mygu argyhoeddiadau ei gydwybod.

II. Cawn yn y testun grybwylliad am Y FARN DROM A'I GODDIWEDDODD EF A'I BOBL. Yr oedd yn drymach nag un o'r barnedigaethau blaenorol.

1. Yr oedd yno *ladd*. Yr oedd yno golli *bywyd*. Nid tywyllwch yn eu rhwystro i godi o'u lle am dri diwrnod; nid llau na llyffaint, na locustiaid, na chornwydydd llinorog, na'r cenllysg, na'r cymysgbla; nid troi dyfroedd eu hafon, a'u ffrydiau,

a'u llynoedd yn waed; nid colli y llin a'r haidd, a'r rhyg, a'r gwenith, a'r ffrwythau, a'r pysgod, a'r anifeiliaid, ond yr oedd yn golli *bywyd.*

2. Yr oedd yno ladd y *cyntafanedig;* yr anwylaf, y mwyaf gobeithiol a gwerthfawr yn y teulu, yr un yr edrychid fwyaf arno, ac y dysgwylid mwyaf oddiwrtho.

3. Yr oedd yno ladd *yn mhob tŷ ar unwaith,* o gyntafanedig y brenin oedd yn eistedd ar ei deyrngadair, hyd gyntafanedig y wasanaethferch oedd ar ol y felin, a'r gaethes oedd yn y carchardŷ. Yr oedd gweiddi mawr drwy'r holl wlad, oblegid nid oedd tŷ a'r nad oedd un marw ynddo. Yr oedd anghladd yn mhob teulu yr un pryd; ac nid oedd yno yr un teulu i'w gael mewn amgylchiadau i gynnorthwyo teulu arall yn ei gyfyngder.

4. Yr oedd yno ladd trwy wyrth, neu drwy oruchwyliaeth oruwchnaturiol; drwy weinidogaeth "angel." Ofer fuasai ceisio cymhorth na meddyg, na swynwr, na byddin i gadw yr *angel* draw. Ni buasai holl feddygon, a holl ddewiniaid, a holl fyddinoedd yr Aipht ond "llai na dim" o flaen nerth angel yr Arglwydd. Rhydd yr adroddiad olwg i ni ar wybodaeth, a grym, a chyflymdra angel. Yr oedd yn adnabod y cyntafanedig yn mhob tŷ, yr oedd yn medru tramwy drwy yr holl wlad mewn moment, ac yr oedd yn medru cyflawni ei swydd yn anwrthwynebadwy. Dychrynodd Pharaoh a'i weision, a'r holl Aiphtiaid, drwy eu henaid y nos hòno. Cyfodasant liw nos, a gwaeddodd y brenin ar Moses ac Aaron, "Codwch, ewch allan o fysg fy mhobl, chwi a meibion Israel hefyd; ac ewch, a gwasanaethwch yr Arglwydd, fel y dywedasoch. Cymerwch eich defaid, a'ch gwartheg hefyd, fel y dywedasoch, ac ewch ymaith, a bendithiwch finnau." A'r Aiphtiaid fuont daerion ar y bobl, gan eu gyru ar ffrwst allan o'r wlad; oblegid dywedasant, "Dynion meirw ydym ni oll."

III. Trefn gwaredigaeth Israel, fel drych o holl waredigaethau Duw, ac yn enwedig fel cysgod o'r waredigaeth fawr o gaethiwed pechod drwy aberth a gwaed Iesu Grist. Yr oeddynt i gymeryd oen dros bob teulu. Yr oeddynt i'w ladd yn y cyfnos. Yr oeddynt i daenellu y gwaed ar gapan y drws, ac ar y ddau ystlysbost. Yr oeddynt i fwyta yr oen y noson hòno, ac i'w fwyta ar ffrwst, a'u lwynau wedi eu gwregysu, a bod yn barod i'w taith. Yr oedd trefn eu gwaredigaeth yn

1. Yn gofyn *ffydd.* Yr oeddynt i gredu fod Duw eu tadau yn fyw ac yn ddigyfnewid; a'i fod yn ddoeth, a ffyddlawn, a hallalluog; credu ei fod wedi gweled eu dagrau, ac wedi clywed eu cwynion, ac y gwyddai am holl wasgfeuon eu caethiwed;

credu ei fod yn ewyllysgar ac yn alluog i'w gwared o feddiant y gelyn; credu y byddai yr angel dinystriol yn myned allan y noson hòno drwy holl wlad yr Aipht, a chredu y byddai diogelwch dan arwydd y gwaed. Yr un modd y mae trefn gras i gadw pechaduriaid yn gofyn ffydd yn y rhai a waredir. Rhaid credu yn rhinweddau Aberth anfeidrol y groes; credu fod Duw yn gymmodlawn yn Iawn ei Fab, ac y gallwn gyfarfod âg ef yno ar ei drugareddfa; credu fod Iesu, yr hwn a fu farw, yn awr yn fyw, goruwch yr holl nefoedd, a'i fod i fyw yn oes oesoedd, a'i fod yn byw bob amser i eiriol, a bod pob awdurdod ganddo yn y nef ac ar y ddaear, ac y gall achub hyd yr eithaf pwy bynag a ddel ato; credu nad oes dim diogelwch i bechadur yn un man, ond dan gysgod haeddiant ei groes ef; credu y bydd angel marwolaeth yn myned allan yn fuan, ac na arbedir neb ond y rhai fyddant dan nawdd y gwaed, yn gwledda ar rinweddau aberth yr Oen.

2. Yr oedd trefn gwaredigaeth Israel o'u caethiwed yn gofyn yr *ufudd-dod* manylaf. Yr oedd raid cael oen o'r iawn oed, ac o'r iawn ryw, oen perffeith-gwbl, dianaf, difeius. Yr oedd raid ei ddal yn brydlawn, ar yr un pryd, sef ar y degfed dydd o'r mis. Yr oedd raid ei gadw yn y tŷ am bedwar diwrnod. Yr oeddid i'w ladd yr un dydd, sef y pedwerydd ar ddeg o'r mis, ac ar yr un awr o'r dydd, yn y cyfnos, am dri o'r gloch prydnawn, sef awr marwolaeth Iesu, Oen Duw. Yr oedd raid rhoddi y gwaed ar y ddau ystlysbost, ac ar gapan drws y tŷ lle y byddid yn ei fwyta. Yr oedd raid bwyta y cig wedi ei rostio wrth dân, nid yn anmrwd, nac wedi ei ferwi. Yr oeddid i'w fwyta gyda bara croyw a dail surion. Yr oeddid i'w fwyta oll. Nid oedd dim surdoes i fod yn eu tai am saith niwrnod. Yr oeddynt i'w fwyta ar ffrwst, wedi gwregysu eu lwynau, a'u ffyn yn eu dwylaw. Yr oedd yn ofynol iddynt, dan berygl eu bywyd, i wneud y cyfan oll yn ol cyfarwyddyd a gorchymyn yr Arglwydd. Pe buasai un yn dweyd, Y mae genyf fi lwdn *dwy* flwydd ardderchog, gwerth dau oen blwydd, tuag at swper y Pasg; ac arall yn dweyd, Ni raid i mi ddim cadw fy oen mewn dalfa am bedwar diwrnod, am y bydd yn hawdd i mi ei ddal foreu dydd y Pasg; ac arall yn dweyd, Gwell genyf fi ei ladd yn y boreu nac yn y cyfnos; ac arall yn dweyd, Gwell genyf fi ei fwyta yn anmrwd nac wedi ei goginio; ac arall yn dweyd, Gwell genyf fi gig wedi ei ferwi, na chig wedi ei rostio; ac arall yn dweyd, Nid da genyf fi ddim "dail surion;" ac arall yn dweyd, Gwell gan ein teulu ni fara lefain na bara croyw; ac arall yn dweyd, Nid âf fi ddim i fwyta ar "ffrwst;" ac arall yn dweyd, Talcen ein tŷ ni sydd at y ffordd, mi roddaf fi y gwaed ar y talcen, am y bydd yn amlycach

yno i'r angel ei weled; ac arall yn dweyd, Hawddach i mi ei roi ar y drws nag ar y ddau ystlysbost; ac arall yn dweyd, Medraf fi ei roddi âg ysbwng yn hawddach nag â "thusw isop;" ac arall yn dweyd, Ni cheisiaf fi ddim cadw y teulu yn y tŷ drwy gydol y nos; ac ambell hen wr go hunanol yn dweyd, Gallaf fi gerdded yn burion etto heb yr un "ffon" yn fy llaw; buasai pob dywediad felly yn anufudd-dod i orchymyn yr Arglwydd, yn wrthryfel yn erbyn awdurdod, a doethineb, a gras y nefoedd; a buasai pob troseddwr felly yn colli ei hawl i nodded y nef, ac yn gwneud ei hun yn agored i ergyd angel marwolaeth. Yr oedd yr Arglwydd yn dysgwyl ufudd-dod, yr ufudd-dod manylaf, ac yr oedd wedi egluro iddynt *fanylion* ei drefn, er mwyn profi eu hufudd-dod, ac y mae pob trefn a wnaeth, er gwaredigaeth dyn, yn gofyn cydffurfiad â'i holl ammodau. Nid ellir cael bywyd drwy Grist heb bwyso ar ei Iawn, heb wledda ar ei aberth, heb ymddiogelu dan nawdd ei waed, heb geisio dianc o gaethiwed pechod, heb gymmuno neu gofio am ei angeu, heb gyffesu ei enw ger bron dynion, heb filwrio dan ei faner, ac ymdrechu o blaid helaethiad ei deyrnas.

3. Yr oedd trefn gwarediad Israel yn rhoddi cyfle iddynt *gymdeithasu* yn grefyddol. Bu yno lawer o ymddyddan yn ystod dyddiau gwyl y Pasg, rhwng yr henuriaid â'u gilydd, rhwng cymydogion â'u gilydd, ac yn y teuluoedd rhwng rhïeni a phlant. Cawsant gyfle manteisiol i esbonio trefn ac amcan y Pasg y naill i'r llall cyn dal yr oen, a thrwy y pedwar diwrnod yr oedd yr oen mewn cadwraeth; a dichon fod ambell benteulu, er cymhorth i'w gof, yn ysgrifenu y cyfarwyddiadau ar byst ei dŷ, ac ar ei byrth, ac y gellid darllen wrth fyned heibio y geiriau canlynol: "Oen blwydd gwrryw perffeith-gwbl." Bara croyw, dail surion, tusw isop, y ddau ystlysbost, capan y drws, cawg, gwregys y lwynau, ffon, &c. "Y pedwerydd dydd ar ddeg yn y cyfnos, wedi ei rostio, na thòrer asgwrn o hono." Yr oedd yno bryder a gofal i gael pob peth yn barod yn brydlawn; dichon fod ambell fam yn ymholi, Pa le y ceir isop? a'r ferch yn ateb, Y mae digon i ugain o deuluoedd yn ngardd fy modryb. Dichon fod ambell un lled hael a chyfoethog yn dweyd wrth gymydog tlawd, Y mae genyf fi amryw lydnod blwyddiaid perffeith-gwbl, caiff eich teulu chwi un o honynt erbyn swper y Pasg. Dichon fod gwr cyfoethog ag oedd heb oen yn prynu un gan ei gymydog. Dichon fod ambell i gyntafanedig bychan, wrth weled yr oen mewn dalfa, yn tosturio wrth ei weled dan gadwraeth, yn gofyn y rheswm i'w dad, neu ei fam; a'u bod hwythau yn ateb, ei fod i gael ei ladd a'i rostio i swper nos fawr yr wyl: a'i fod yntau yn codi ei lais

yn erbyn lladd ei oen tlws anwyl diniwaid, a bod y tad yn ateb, Rhaid i'r oen waedu, neu daw yr angel heibio i dy ladd di; ac wrth glywed hyny, fod y plentyn, dan wylo, yn boddloni i'r oen gael ei ladd yn ei le ef. Yr oedd y tad yn gofyn i'r fam ar foreu y dydd cyntaf, Ydyw y surdoes wedi ei fwrw allan o'r tŷ? Yr oedd hithau yn gofyn yn ol, oedd yr oen yn ddiogel. Efe yn gofyn oedd y "cawg" yn barod; hithau yn gofyn yn ol, oedd y "ffon" ar gael. Byddai y plant yn siarad llawer â'u gilydd wrth weled yr oen mewn dalfa. Holai Moses ac Aaron yr henuriaid, oeddynt wedi esbonio y cyfarwyddiadau yn ddigon manwl ac eglur. Yr oedd y tadau a'r mamau yn dweyd yn effeithiol iawn ar y swper, Heno y mae yr angel yn lladd cyntafanedigion y rhai creulawn fu'n boddi ein cyntafanedig ni. Byddai anbell i blentyn yn gofyn, Oes dim perygl i'r angel hyny ddyfod i mewn yma? "Nac oes, dim perygl, meddai'r tad; oblegid y mae gwaed yr oen ar y ddau ystlysbost, ac ar gapan y drws." Prif bynciau eu hymddyddanion oedd: Trugareddau Duw eu tadau, a'i ffyddlondeb i'w gyfammod, a'i allu i'w gwaredu; creulondeb gorthrymder y gelyn; a'r daith fawr oedd o'u blaen; a'r pwys annhraethol iddynt gredu holl eiriau Duw, ac ufuddhau i'w holl orchymynion, ac ymddiried yn ei allu a'i ffyddlondeb. Y mae yr Arglwydd am i'w bobl *gymdeithasu* â'u gilydd, yn enwedig yn eu *teuluoedd.* Archodd i Israel gadw gwyl y Pasg trwy eu holl genedlaethau, er iddynt gael cyfleusdra i adrodd i'w plant o flwyddyn i flwyddyn, ac o oes i oes, am hen waredigaeth yr Arglwydd: ac yr oeddynt bob amser yn llwyddiannus, a diogel, a dedwydd, pan oeddynt yn gofalu i gadw at amcanion yr ordinhadau cymdeithasol hyny o eiddo eu Duw. Ac y mae holl gyfreithiau y Testament Newydd yr un mor annogaethol ac mor gyfarwyddiadol i blant Duw ymddyddan â'u gilydd, ac yn enwedig â'u plant, am bethau mawrion crefydd.

4. Yr oedd trefn gwaredigaeth Israel yn rhoddi cyfle iddynt *ddangos eu hochr;* beth oedd eu cred a'u hegwyddorion, pwy oedd eu blaenor a'u pobl, dan faner pwy yr oeddynt am filwrio, ac yn nerth pwy yr oeddynt am ymddiried. Yr oedd y gwaed ar y ddau ystlysbost, ac ar gapan y drws, yn arwydd i bawb oddiallan mai teulu oedd am fod dan nodded Duw oedd yn byw yno. Buasai yr angel yn adwaen y tŷ pe buasai heb nôd felly arno; ond yr oedd yr Arglwydd am iddynt hwy arddel yn gyhoeddus eu bod am wrando ar ei lais ef, ac am ddilyn ei arweinyddiaeth ef: ac y mae am i'w bobl yn mhob oes a than bob goruchwyliaeth gyffesu ei enw a chadw ei gyfammod.

5. Yr oedd trefn oen y Pasg yn un *effeithiol* er cu gwaredig-

aëth. Ni bu yr angel dinystriol ddim mewn un tŷ ag oedd dan arwydd y gwaed. Nid oedd yno ddim un teulu yn gorfod dweyd boreu dranoeth, Cadwasom y Pasg, lladdasom yr oen, bwriasom allan y surdoes, a gwnaethom y cyfan oll yn ol y cyfarwyddyd; ond daeth yr angel i mewn heb weled y gwaed, daeth yn ei frys mewn camgymeriad, a lladdwyd ein cyntafanedig anwyl, pan oeddym ar ganol y wledd. Na, nid oedd yno drwy holl lwythau Israel ddim un gŵyn felly. Yr oedd perffaith ddiogelwch dan arwydd y gwaed. Yr oedd hollol dawelwch i wledda ar yr oen: bu pob aelod o bob teulu fyw hyd y boreu, a byw i gychwyn, byw i groesi'r môr, a byw i ganu cân Moses a Miriam wedi cyrhaedd y làn. Y mae *holl* drefniadau yr Arglwydd yn sicr o ateb eu dyben. Gellir anturio pwyso yn dawel ar drefn fawr yr iachawdwriaeth. Bydd perffaith ddiogelwch i'r rhai a ymgysgodant dan groes Crist. Ni chollir neb a gredo ynddo ef. Ni chaiff neb byth ddweyd, Mi ymddiriedais i i'w addewid ef, mi bwysais ar ei lawn ef, mi ymffrostiais yn ei groes ef, dangosais a dadleuais ei waed ef ger bron yr orsedd, a bu fy enaid yn gwledda ar ei aberth ef; ond nid atebodd i mi: y mae yr angel dinystriol wedi gafaelyd ynof, ac y mae yn fy nghondemnio i farw. Ni chlywir yr un gŵyn felly o enau y credadyn yn nydd y farn; ond bydd cyfiawnder am ei gadw, bydd y gyfraith am ei gadw, a bydd swyddogion a holl awdurdod yr orsedd am ei gadw, ac am ei gôdi i fythol wynfyd.

CYMHWYSIAD.

1. Dichon ein bod ni yn gweled rhyfyg yr Aiphtiaid yn fawr iawn yn rhuthro ar ol Israel i'r môr, ar ol gweled cymmifer o farnedigaethau yr Arglwydd: ond gochelwn rhag bod yn rhy debyg iddynt. Os ydym ni yn anghredu geiriau Duw, ac yn gwrthryfela yn erbyn rhai o'i oruchwyliaethau, y mae ein hewogrwydd yn drymach na'r eiddynt hwy, am fod genym ni well manteision nag oedd ganddynt hwy i *adnabod* yr Arglwydd.

2. Dichon ein bod hefyd yn mynych ryfeddu anghrediniaeth a grwgnachrwydd Israel, fod y bobl fu'n gwledda ar oen y Pasg yn tuchan ac yn crynu wrth y Môr Coch; fod y bobl fu'n canu ar làn y môr yn dawnsio mor fuan ar ol hyny o gylch y llo aur; fod pobl y manna, a'r dwfr o'r graig, yn blysio am y cig a'r winwyn, ac yn dweyd na fedrai Duw ddim hulio bwrdd iddynt yn yr anialwch; i'r bobl ddarfu gychwyn mor enwog, syrthio drwy anghrediniaeth, a methu cyrhaedd gwlad yr addewid. Ond os ydym ni, dan yr efengyl, yn ammheu cadernid y cyfammod gras, yn ammheu digonoldeb trefn yr iachawdwriaeth, yn ammheu gallu neu ewyllys Crist i'n cadw, y mae ein hanghrediniaeth yn waeth,

a bydd yn drymach ei ganlyniadau nag anghrediniaeth y rhai a gollasant y Ganaan ddaearol.

3. Y mae yr "angel dinystriol" allan yn awr. Nis gwyddom yr awr y daw heibio. Brysiwn am ddiogelwch dan nawdd gwaed yr Oen. Bydd yno gadw bywyd, a gwledd hefyd. Nid oes ond colledigaeth anocheladwy yn mhob man arall. Rhedwn i'r noddfa *yn awr* rhag i'r angel ein dal.

GWAEDD Y GELYN YN Y MOR.

"Ffown oddiwrth Israel, oblegid yr Arglwydd sydd yn ymladd drostynt hwy yn erbyn yr Aiphtiaid."—Exod. xiv. 25.

Y mae yr Arglwydd yn hoffi gogoneddu ei nerth a'i ffyddlondeb yn ngwaredigaethau ei bobl. Yr oedd y waredigaeth a ddarlunir yma yn un nodedig o ogoneddus. Ceir mynych gyfeiriadau ati yn y Beibl. Y mae yn werth ei chofio a'i choffa. Ystyriwn yn

I. Floedd dychryn y gelyn wrth golli'r dydd.

1. Bloedd gelyn hyf iawn ydoedd. Yr oedd Pharaoh newydd fod yn codi ei lais mewn rhyfyg i ofyn—"Pwy yw yr Arglwydd?" Pa le y mae'n byw? Beth yw ei nerth a'i awdurdod?—"fel y gwrandawn i ar ei lais." "Yr Arglwydd nis adwaen," ac nid wyf am ei adwaen, ac nid wyf yn ei ofni; "Israel nis gollyngaf." Mynaf eu cadw yn dynach, a'u gwasgu i weithio yn galetach, gan ei fod ef yn gofyn i mi eu rhyddhau. Os cynnygia ef eu harwain ymaith, "mi a erlidiaf, mi a oddiweddaf, mi a ranaf yr yspail, caf fy ngwynfyd arnynt, tynaf fy nghleddyf, fy llaw a'u dyfetha hwynt." Yr oedd ef a'i gadbeniaid yn hyf eu hysbryd, yn hyf eu hiaith, yn hyf eu hymddygiad: ond hwy yn awr oedd yn gwaeddi, "Ffown."

2. Bloedd *uchel* dychryn *cyffredinol* ydoedd. Nid ochenaid wan ddystaw yn dianc o fynwes milwr ofnus yma ac acw ydoedd. Nid cyffes ddirgel ambell gadben digalon ydoedd; ond gwaedd uchel yr *holl* fyddin; ac yr oedd yno fyddin gref yn ymdaith yn ei rhwysg. Yr oedd yno res hir o gerbydau, a rhes hir o farchogion, a rhes hir o wŷr traed; ac yr oeddynt *oll* yn gwaeddi. Yr oedd bloedd eu dychryn yn rhwygo'r wybrenau, ac yr oedd y creigiau o bob tu y môr yn adseinio y floedd. "Ffown," meddai'r fyddin fawr; ac yr oedd y creigiau yn ymorchestu i'w dynwared, ac yn ateb, "Ffown," er ychwanegu eu gwarth a'u dychryn. "Ffown," meddai'r marchogion. "Ffown," meddai'r gwŷr traed. "Ffown," meddai'r cerbydwyr. "Ffown," meddai'r cadbeniaid dewisol: a "Ffown," meddai'r brenin gwyllt yn ei gerbyd uchel. "Ffown," meddai'r marchogion *blaen*, y rhai agosaf at y golofn

dàn. "Ffown," meddai'r cerbydwyr *ol* wrth weled tònau y môr yn cau rhyngddynt a'r làn. "Ffown," meddai'r rhesi *canol*, gan wylltio wrth glywed y cynhwrf yn y ddau pen i'r fyddin, a gweled y môr yn ysgyrnygu ac yn ewynu bob ochr iddynt. "Ffown, ffown, ffown," oedd y floedd trwy yr holl fyddin hir. Yr oedd eu gwaedd yn uwch na thrwst olwynion eu cerbydau, wrth yru ar draws asenau gwaelodion y môr; yn uwch na chynhwrf y tònau, yn uwch na thwrf yr wybren; ac yn diaspedain o glogwyni yr Aipht i greigiau Arabia.

3. Bloedd gelyn yn *deall ei berygl* ydoedd. Bu byddinoedd cryfion cyn hyn mewn "*panic*," neu ddychryn gwyllt, yn ffoi *heb achos*, heb neb yn eu herlid; ond nid bloedd wyllt dychryn felly oedd bloedd yr Aiphtiaid. Yr oeddynt o'r diwedd, ar ol eu hir ryfyg, wedi dyfod i ddeall eu perygl. Yr oedd ganddynt *reswm* am eu dychryn—"Yr Arglwydd sydd yn ymladd drostynt hwy yn erbyn yr Aiphtiaid." Maent yn cydnabod fod "*yr Arglwydd*" yn bod, ac yn dechreu adwaen ei nerth. Yr oeddynt wedi bod yn gofyn yn feiddgar, "Pwy ydyw?" Ni feiddiant y pryd hyn ofyn, Pwy ydyw? na pha le y mae? Y maent yn gweled ei *fod*, a'i fod yn "Arglwydd:" yn Arglwydd ar y môr ac ar y tir, ar y cymylau ac ar y tònau; a'i fod hefyd yn medru "ymladd," a'i fod yn rhyfelwr, a'i fod wedi digio, a bod dydd dial yn ei galon, a'i fod wedi dyfod i'r maes, a'i lygaid yn fflamio, a'i fod yn codi ei fraich i daro. Y maent yn deall ei fod yn "ymladd dros Israel." Gallasent ddeall hyny o'r blaen, pan gododd Moses i fod yn flaenor iddynt, pan wnaeth y fath ryfeddodau er eu mwyn yn maes Soan, pan barthodd y môr, gan ei wneud yn fur uchel bob ochr iddynt, pan symudodd ei golofn dân i'w hol hwynt, i fod yn amddiffyn rhyngddynt a'r Aiphtiaid. "Y mae yn ymladd, yn ymladd *dros* Israel," yn *erbyn* yr Aiphtiaid. Y mae pob argoel, pob sicrwydd, ei fod yn ein *herbyn* ni; y mae'n edrych yn ddu arnom drwy'r cwmwl; y mae ei olygon yn melltenu arnom drwy'r tân; y mae anadl ei enau yn toddi ein calon; y mae y môr yn rhuo ei ddial o'n deutu. Y mae ein meirch porthiannus wedi gwylltio; y mae'r creigiau yn danneddu fwyfwy dan ein traed; y mae olwynion ac echyl ein cerbydau rhyfel yn tòri; dacw gerbyd yn lluchio ymaith ei olwynion. Yr oedd ganddynt *reswm* am eu dychryn—"Y mae yr Arglwydd yn ymladd yn erbyn yr Aiphtiaid."

4. Gwaedd *ofer* ydoedd. Yr oedd yn rhy ddiweddar i ffoi. Yr oedd Pharaoh newydd fod yn gwaeddi, "Cauodd yr anialwch ar Israel;" ond y mae yn awr yn cael fod y môr wedi "cau" am dano ef a'i fyddinoedd. Tyn dy gleddyf Pharaoh, yn ol dy

fygythiad. Na, y mae yr Arglwydd yn ymladd drostynt hwy; ac y mae yn drech na mi. Pe buasai ef a'i gadbeniaid yn syrthio ar eu gliniau yn edifeiriol, hyd yn nod yn y môr, dichon y cawsent drugaredd; oblegid "Duw graslawn a thrugarog, hwyrfrydig i ddig, aml o drugaredd, ac edifeiriol am ddrwg," ydyw Duw Israel; ond ofer i Pharaoh oedd ceisio *ymladd*, ac ofer oedd iddo geisio *ffoi*. Yr oedd Duw yr Hebreaid wedi dyfod i'r maes. Yr oedd wedi tynu cynllun y frwydr, wedi cael y gelyn i'r ddalfa: nid oedd modd iddo ffoi. Yr oedd y golofn dân o'i flaen, a muriau y môr bob ochr, a'r tònau chwyddedig yn ymgau o'i ol, a'i feirch yn gwylltio, a'i gerbydau yn tòri, a'r graig yn crynu dan ei draed, a llygad dig Iehofah uwch ei ben. Yr oedd wedi cau arno o bob tu, ac ofer oedd iddo waeddi, "Ffown." Nid oedd modd iddo ffoi.

II. GOGONIANT Y FUDDUGOLIAETH.

1. Daeth y fuddugoliaeth pan oedd y gelyn yn uchder ei rym a'i ymffrost, ac Israel yn nyfnder eu dychryn a'u digalondid. Yr oedd y gelyn wedi bod yn hyf ac ymffrostgar lawer tro, ond yr oedd yn fwy beiddgar yn awr nag erioed. Yr oedd wedi gwregysu ei gleddyf ar ei glun, wedi taclu ei gerbydau, wedi casglu ei ryfelwyr dewraf, wedi trefnu ei fyddin, yn bloeddio i'r frwydr, yn gyru yn chwyrn, yn rhuthro ar ol Israel i'r môr, ac yn dweyd, "Mynaf fy ngwynfyd arnynt." Ac yr oedd Israel wedi bod yn ddigalon lawer tro, ond yr oeddynt yn fwy digalon yn awr nag erioed. Yr oedd "holl feirch a cherbydau Pharaoh, ei wŷr meirch a'i fyddin, wedi eu goddiweddyd yn gwersyllu wrth y môr, gerllaw Pihahiroth, o flaen Baal-sephon. Pan welodd Israel fyddin fawr yr Aiphtiaid yn eu hymyl, "ofnasant yn ddirfawr," a gwaeddasant ar yr Arglwydd; ond yr oedd eu ffydd yn pallu, a dywedasant wrth Moses, "Ai am nad oedd beddau yn yr Aipht y dygaist ni i farw yn yr anialwch? Onid dyma y peth a lefarasom wrthyt yn yr Aipht, Paid â ni, fel y gwasanaethom yr Aiphtiaid? canys gwell fuasai i ni wasanaethu yr Aiphtiaid na marw yn yr anialwch." Ond pan oedd eu dychryn a'u cyfyngder fwyaf y cawsant weled iachawdwriaeth yr Arglwydd.

2. Buddugoliaeth *gyflawn* ydoedd. Ni bu erioed ei llwyrach. Nid rhyw hanner goruchafiaeth ydoedd, ond yr oedd yn llawn; ac yn ardderchog yn ei holl amgylchiadau. Y mae llawer buddugoliaeth enwog wedi ei hennill; ond byddai y gorchfygwyr yn gorfod dweyd yn niwedd eu cân, Profodd y goncwest yn ddrud iawn i ni. Collasom luoedd o'n milwyr ffyddlonaf, a diangodd llawer o'r prif elynion: ond nid oedd dim i gymylu gogoniant y

fuddugoliaeth yma. Ni ddiangodd o'r gelynion "gymaint ag un," drwy gadernid ei gerbyd, na thrwy gyflymder ei farch, drwy ei fedr i nofio, nac ar ddarn o gerbyd, nac yr un ffordd arall. Ac ni chollwyd o Israel ddim "cymaint ag un." Nid oedd modd i'r gelyn gylchynu i ymosod ar y llwyth *blaenaf*. Ni chollwyd yr un o bobl yr *ochrau*, yr oedd y môr yn fur o bob tu iddynt, fel nad ellid eu cyrhaedd; ac ni chollwyd cymaint ag un o bobl wanaf y llwyth *olaf;* yr oedd y golofn dân rhyngddynt â chadbeniaid blaenaf y gelyn.

3. Buddugoliaeth *derfynol* ydoedd. Ennillwyd llawer buddugoliaeth enwog, ond heb derfynu y ddadl rhwng yr ymrysonwyr: ond terfynodd y fuddugoliaeth yma y ddadl rhwng Duw a Pharaoh am byth. "Yr Arglwydd nid adwaen," meddai Pharaoh; ond cafodd ei adwaen. "Pwy ydyw, fel y gwrandawn i ar ei lais?" ond gorfu iddo wrando. "Israel nis gollyngaf," bu *raid* iddo eu gollwng. Bu deg o frwydrau manach o flaen hon; ond, yn lle plygu ar ol colli, byddai Pharaoh yn cynnyg drachefn; ond ni bu cynnyg ar ol hon, penderfynodd y ddadl, dacw Israel yn rhydd, a Pharaoh yn eigion y môr.

4. Buddugoliaeth o eiddo yr Arglwydd ydoedd. "Iachawdwriaeth yr Arglwydd" oedd Moses yn ei galw. Efe dynodd ei chynllun; efe ddyrysodd y gelyn, ac a'i dygodd i'r ddalfa; efe wnaeth y *charge* ofnadwy yn erbyn y gelyn; efe, trwy ddwyreinwynt cryf, a holltodd y dyfroedd er cael ffordd i'w bobl fyned trwodd; efe ddychwelodd y môr cyn y boreu i'w nerth, ac a ddymchwelodd yr Aiphtiaid yn nghanol y môr. Eiddo ef oedd y fuddugoliaeth. Dyna oedd cyffes y gelyn wrth foddi yn y dyfroedd cryfion. Dyna gyffes eu teuluoedd gartref yn No, a Noph, a No-ammon, a Rameses, a thrwy holl wlad yr Aipht. Dyna oedd cân Israel ar y làn—cân Moses a meibion Israel—cân Miriam a'r gwragedd. Dyna gyffes preswylwyr Palestina, duciaid Edom, a chedyrn Moab. Dyna gyffes y tadau a'r mamau wrth adrodd yr hanes i'w plant yn yr oesau ar ol hyny. Dyna gyffes yr holl ysgrifenwyr santaidd wrth goffâu yr hanes. Dyna gyffes urddasol duwiolion holl oesau y byd. Dyna ystyr anthem y fuddugoliaeth—"Canaf i'r Arglwydd; canys gwnaeth yn rhagorol iawn; taflodd y march a'i farchog i'r môr. Efe a daflodd gerbydau Pharaoh a'i fyddin yn y môr: ei gadbeniaid dewisol a foddwyd yn y Môr Coch. Y dyfnderau a'u toisant hwy: disgynasant i'r gwaelod fel càreg. Dy ddeheulaw, Arglwydd, sydd ardderchog o nerth; a'th ddeheulaw, Arglwydd, a ddrylliodd y gelyn. Trwy chwythad dy ffroenau y casglwyd y dyfroedd yn nghyd: y ffrydiau a safasant fel pentwr; y dyfnderau a geulas-

ant yn nghanol y môr. Ti a chwythaist â'th wynt; y môr a'u todd hwynt: soddasant fel plwm yn y dyfroedd cryfion. Arweiniaist yn dy drugaredd y bobl y rhai a waredaist; yn dy nerth y tywysaist hwynt i anneddle dy santeiddrwydd."

Y mae yr adroddiad yma am ddinystr Pharaoh a'i fyddin yn dysgu i ni, yn

1. Y gwallgofrwydd o ymgaledu i ymladd yn erbyn Duw. Y mae pob gelyn yn sicr o ddyrysu fwyfwy wrth ymgyndynu; a bydd yn sicr yn y diwedd o gael ei wasgu i le mor gyfyng fel na bydd modd iddo ddianc.

2. Diogelwch y bobl y mae Duw yn ymladd drostynt. Y mae ei galon yn llawn tiriondeb. Ni orchfygir nerth ei fraich dragwyddol. Ni huna ac ni chwsg ceidwad Israel. Ni chollodd frwydr erioed. Ni siomwyd neb a ddysgwyliodd wrtho. "Mawr yw yr Arglwydd, mawr ei nerth, ac aneirif yw ei ddeall:" a gall pob credadyn ganu fel Dafydd, "Yr Arglwydd yw fy nghraig, a'm hamddiffynfa, a'm gwaredydd; fy Nuw, fy nghadernid, yn yr hwn yr ymddiriedaf; fy nharian, a chorn fy iachawdwriaeth, a'm huchel-dŵr."

3. Mai hyfryd iawn ydyw cân gwaredigaeth. Yr oedd yn gref ac yn fwyn ar làn y Môr Coch. Yr oedd caniadau Dafydd yn gynhes ar ol ei wahanol waredigaethau. Yr oedd cân Hezeciah a'i bobl yn gynhes ar ol dinystr byddin Senacherib. Yr oedd cân y llanciau yn fwyn ar ol dyfod allan o'r ffwrn dân. Y mae cân y credadyn yn gynhes o gylch yr allor neu o gylch y bwrdd, ar ol cael y gelyn dan draed; ond bydd cân teulu yr adgyfodiad, cân yr orymdaith wrth fyned i mewn drwy y pyrth i'r ddinas, a'r "ganiad newydd" o gylch yr orseddfainc, yn gynhesach, ac yn felusach, ac yn gryfach, na'r un gân fu erioed ar y ddaear.

4. Fod gwaredigaethau Duw yn werth i ni eu hastudio; yn teilyngu i ni "sefyll i edrych" arnynt; y mae yn werth i ni ddarllen, a holi, a meddwl am danynt. Gwna hyny ni yn fwy penderfynol i ymddiried yn yr Arglwydd, ac yn fwy parod i'w garu ac i'w ganmol.

NIS BWRIAF EF ALLAN DDIM.

"A'r hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim."—Ioan vi. 37.

Y mae y geiriau byrion, tlysion, goleu, grasol, cryfion hyn, yn cynnwys mêr a melusder yr efengyl. Y mae yn lled hawdd i'r meddwl ystyriol ddeall, ac adrodd beth yw dyfod at yr Iesu.

Gall y fam dduwiol esbonio y pwnc i'w phlant yn yr ystafell fagu, wrth eu hymgeleddu a'u haddysgu. Gall y tad ei esbonio iddynt pan y byddant yn ei siriol ddilyn trwy ei rodfeydd. Er mai y pwnc mawr am fywyd pechadur ydyw; er mai prif bwnc duwinyddiaeth ymarferol trefn iachawdwriaeth ydyw, y mae yn hawdd i'r meddwl ymofyngar gwanaf ei ddeall a'i egluro. Gall y brawd hynaf ei egluro i'w frodyr ieuangaf. Gall y chwaer henaf ei adrodd i'w chwiorydd ieuangaf. Hawdd ydyw i'r athraw a'r athrawes esbonio y pwnc pwysfawr i'w dosbarthiadau yn yr Ysgol Sabbathol. Hawdd ydyw i'r gweinidog ei egluro yn ei bregethau i'w gynnulleidfa. Hawdd iawn ydyw i'r awdwr ei ddarlunio yn eglur yn ei lyfr. Dichon mai nid yr un geiriau yn hollol a ddefnyddiant i'w egluro, ond digon tebyg y byddai esboniad y fam a'r chwaer mor ddealladwy ac mor gynnwysfawr ag esboniad y duwinydd a'r awdwr. Byddai y *meddwl* ganddynt yr un, er y gallai fod ychydig o wahaniaeth yn eu dull o'i eirio. Dywedent o ran ystyr fel y canlyn:—"Dyfod at Iesu ydyw—bod pechadur ar ddarfod am dano, dan wasgfa oblegid ei gyflwr colledig, fel troseddwr o gyfammod yr Arglwydd, heb ddim gobaith am gael bywyd ynddo ei hun na thrwyddo ei hun, na dim gobaith am gael maddeuant ac iachawdwriaeth trwy neb o'i gyd-ddynion, yn dyfod yn isel, edifeiriol, pryderus, at Iesu Grist, i gael ei achub ganddo yn nhrefn ei ras; pechadur, wrth ei gweled wedi cau yn ei erbyn yn mhob man arall, yn troi yn wylaidd, ond yn daer, at borth trugaredd yr Iesu i gael ymgeledd, ac yn nesâu at ei orsedd, ac yn ymdreiglo at ei draed, ac yn dadleu am drugaredd trwy haeddiant ei aberth iawnol, ac yn tywallt iddo ei galon, ac yn agor iddo ysbryd briw ei fynwes euog, ac yn dadguddio ei archollion, ac yn rhoddi ei hunan dan ei law i gael ei feddyginiaethu."

Pe meddyliem am un claf mewn ing a chwys, gan wres ei glefyd angeuol, a'i geraint o gylch ei orweddfa yn edrych yn drist, ac yn syn, ac yn anobeithiol, heb allu gwneud dim at attal na dofi angerdd y clefyd, yr hwn, er pob ymdrech, sydd yn cyflym weithio ei angeu; ond pan y mae yn ei ddychryn yn teimlo fod yn rhaid iddo farw, a'i fod yn ymyl marw, dyma gyfaill yn ymwthio at ei wely, ac yn dweyd wrtho am ymwroli am ychydig fynydau—fod meddyg enwog yn ymyl, yr hwn sydd yn deall ei afiechyd, ac wedi cael allan feddyginiaeth anffaeledig, a'i fod wrth y drws yn barod i ddyfod i mewn; a bod ei galon yn dosturiol, a'i law yn dyner, a'i fod yn arfer iachâu heb arian ac heb werth, ac nad oedd dim yn eisieu ond iddo roddi ei hunan dan ei law, ac y gallai dawel ymddiried i'w fedr, ei garedigrwydd, a'i

ffyddlondeb. Gallai ddychymygu rywfaint o deimladau y claf hwnw wrth weled y meddyg yn dyfod i mewn, a'i glywed yn dyweyd â llais tirion, "Paid ag ofni, medraf dy gwbl iachâu;" a gallem ddirnad ei deimlad, a dychymygu ei agwedd wrth roddi ei hun dan ofal y meddyg hwnw, yr hwn sydd yn deall ei afiechyd yn well nag y medr ef ei ddarlunio. Teimlad cyffelyb i hwnw, ond ei fod yn ddyfnach ac yn gynhesach, ddylai fod teimlad pechadur wrth ddyfod at yr Iesu—y meddyg mawr, i roddi ei hunan dan ei law.

Neu, pe meddyliem am grwydryn tlawd heb gymwynaswr, heb gyfoeth, heb gartref, heb wisg, heb luniaeth, heb wybod pa le i droi, ar farw o newyn, ac yn ymollwng i farw yn y clawdd, a rhyw lais yn dywedyd wrtho fod ychydig gamrau yn nes yn mlaen, ar ei law ddehau, wrth y llwyni gleision, borth agored boneddwr cyfoethog, haelionus, yr hwn sydd ganddo bob amser ddigonedd o luniaeth iachus a maethol ar ei fwrdd; a bod rhyddid i bob truan newynog droi i mewn i gyfranogi; gallem ddychymygu fel yr adlonai y truan hwnw wrth glywed y fath newydd, ac fel yr ymadfywiai wrth ymlusgo yn mlaen at y porth; ac fel y teimlai wrth gael ei groesawu i eistedd wrth y bwrdd, yn enwedig wrth fod y boneddwr tirion ei hun yn rhanu iddo o'i arlwyadau. Cyffelyb i hyny ddylai teimladau pechadur anghenus fod wrth gael ei groesawu i eistedd wrth fwrdd llawn yr efengyl, i wledda ar arlwyadau trugaredd.

Neu, pe meddyliem am droseddwr wedi cael ei ddal, ac wedi cael ei brofi yn euog o fradwriaeth yn erbyn llywodraeth ei wlad, ac wedi cael ei gondemnio i farw, a bod awr osodedig ei ddienyddiad yn ymyl, a'r swyddwyr o gylch porth ei garchar, a phob gobaith iddo allu dianc wedi darfod; a bod rhyw un, yn y fynyd hòno, yn dywedyd yn ei glust, fod y tywysog brenhinol yno, a bod gan hwnw hawl i bardynu troseddwyr, a'i fod yn un o galon dyner, ac y gallai gael cyfle i lefain arno am arbediad pan y byddid yn ei arwain i'r dienyddle: gallem ddychymygu rhywbeth o deimlad y troseddwr pan yn codi ei lef grynedig o dan y pren dyoddef, ac yn gwaeddi—"pardwn, pardwn; pardynwch fi, O dywysog grasol! a byddaf was ffyddlawn i chwi byth bythoedd;" a phan glywai y tywysog yn dywedyd yn dosturiol—"Maddeuer iddo, caffed fyw, dattodwch ei rwymau, gollyngwch ef yn rhydd." Cyffelyb i hyny ddylai teimlad pechadur euog fod wrth ddyfod at Iesu i gael symud ei ddamnedigaeth, a myned drwodd o farwolaeth i fywyd.

Neu, pe tybiem am un gwan diborth wedi cael ei ddal gan anrheithiwr cryf, arfog, llofruddiog, ac wedi cael ei rwymo, ac yn

cael ei lusgo ganddo i gaethiwed, a phe b'ai un cryfach na'r cryf arfog yn dyfod i'w gyfarfod, ac yn dywedyd wrtho fod yn rhaid iddo ollwng y caeth yn rhydd, gallem ddychymygu beth fyddai teimlad y caeth crynedig wrth gael dianc oddiar y creulawn; ac fel y diolchai i'w achubwr am ei waredigaeth, ac fel yr ymlynai wrth ei waredwr cryf rhag syrthio eilwaith i law y gelyn. Cyffelyb i hyny ddylai teimlad pechadur diallu fod wrth ffoi at yr Iesu rhag creulondeb caethiwed ei elynion ysbrydol.

Neu, pe meddyliem am blentyn yn dyfod i ysgol, ac yn rhoddi ei hun dan ofal athraw addfwyn a dawnus, ac yn eistedd yn ei le, wrth draed yr athraw, i edrych yn ei wyneb siriol, i wrando arno, ac i ddysgu y wers o'i enau; tebyg i hyny ydyw y dysgybl ieuanc yn dyfod at yr Iesu i ddysgu ganddo.

Neu, pe meddyliem am gadlywydd enwog yn ymdaith drwy ardal, dan addurn ei fuddugoliaethau, ac yn cyhoeddi ei fod am i filwyr ieuainc ymrestru dan ei faner, a phe gwelwn un ieuanc yn ymwthio yn mlaen yn wirfoddol, ac yn dweyd—"Yr wyf wedi darllen, clywed, a meddwl am uniondeb eich egwyddorion, ac iawnder eich achos, a gogoniant eich milwriaeth; yr wyf yn hoffi meddwl am eich buddugoliaethau gorchestol, am foneddigeiddrwydd eich ysbryd, ac am drefn eich byddinoedd; yr wyf am gael lle ac enw yn eu mysg, ac am wisgo eich arfogaeth yn llawn, ac am dyngu llw o ffyddlondeb i'ch baner, ac am gael yr anrhydedd o'ch dilyn i'r maes: byddai hyny yn fath o ddrych o ysbryd ac ymddygiad un yn dyfod at yr Iesu—cadben ein hiachawdwriaeth, i ymgysegru yn ewyllysgar i fod yn filwr ffyddlawn dan ei faner, ac yn ymgyfammodi i blygu i ddysgyblaeth ei fyddin, i wisgo ei holl arfogaeth, ac i beidio byth gwneud heddwch â'r gelynion.

Neu, pe meddyliem am y brawd ieuangaf mewn teulu wedi colli pob teitl i'r etifeddiaeth drwy wrthryfela yn erbyn ei dad, a thòri cyfreithiau y tŷ, ac yn gorfod troi allan yn grwydryn tlawd ac euog, heb wybod i ba le i gyfeirio am gartref, na chynnaliaeth; a phe meddyliem am y brawd hynaf yn gwneud aberth ac iawn mawr, er mwyn cael maddeuant iddo, ac yn galw ar ei ol ei fod wedi gwneud iawn drosto, a'i fod yn barod i eiriol ar ei ran, a'i fod wedi symud pob rhwystr er iddo gael derbyniad yn ol, a'i fod yn barod i ranu ei etifeddiaeth âg ef, a bod pawb o'r teulu am iddo ddyfod yn ol i gydfwynhau y llawenydd; gallem ddychmygu beth fyddai teimladau y mab ieuangaf diolchgar, edifeiriol, yn dyfod adref yn ol o'i grwydriadau annedwydd, yn llaw ei frawd hynaf, a'r tad a'r holl deulu yn ei dderbyn ac yn ei gusanu, ac yn ei groesawu i eistedd wrth fwrdd y wledd;

cyffelyb i hyny ddylai teimlad pechadur edifeiriol fod wrth blygu i lais yr Iesu, ac wrth nesâu dan wylo yn mlaen, yn ei enw, ac yn ei law, i gael ei adferu i ffafr y Duw y troseddodd i'w erbyn.

Ni bydd dim anhawsdra i ni ddeall beth yw dyfod at Iesu, ond i ni ystyried darluniadau y Beibl o gyflwr pechadur, ac o barodrwydd yr Iesu i'w dderbyn, a'i allu i'w achub.

Y mae llaweroedd o bechaduriaid yn dueddol iawn i ymollwng dan awdurdod rhyw ofnau ac ammheuaeth gyda golwg ar *ryw ran* o gymeriad yr Iesu fel Gwaredwr. Bydd ammheuon gyda golwg ar ryw ganghen o'i drefn i gadw yn gweithio yn eu calon, er dichon na anturiant eu hadrodd. Y mae rhai yn ammheu ei awdurdod, ac eraill yn ammheu ei ewyllysgarwch i dderbyn ac achub pechadur. Ceir ambell un yn ammheu digonolrwydd ei Iawn, ac arall yn ofni cyfaddasrwydd ei iachawdwriaeth; un yn barod i ofyn gyda llais ammheuaeth, A oes sicrwydd fod galwad arno ef, ac a fydd croesaw iddo ef at y bwrdd; ac a geir lle iddo ef yn mysg y gwahoddedigion, neu a fydd modd cael coron, a thrigfan, ac etifeddiaeth iddo ef yn y nefoedd. Ac arall yn barod i feddwl fod mynydd o rwystrau ar y ffordd iddo ef gael ei dderbyn a'i gadw. I'r dyben i orchfygu pob ammheuon o'r natur grybwylledig y rhoddwyd i ni gyhoeddiad grasol y testun o enau y Gwaredwr ei hun: "A'r hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim." Ac y mae y geiriau gwerthfawr hyn wedi bod yn gymhelliad ac yn galondid i filoedd droi at yr Iesu, a rhoddi eu holl ymddiried ynddo. Pwnc mawr ymarferol y geiriau yw—Y cysur cryf sydd i bechadur ddyfod at yr Iesu yn nghadernid y dystiolaeth na bydd i'r Iesu byth ei wrthod. Er cynnorthwy i ni allu amgyffred cadernid y dystiolaeth, gallwn sylwi yn

I. Fod ei GEIRIAU yn rhai o berffaith eglurdeb. Nid oes ynddynt yr un *os*, na *dichon*, nac *oni b'ai*, nac *ysgatfydd;* na dim un gair mawr hir o bum' sill, ac o ystyr dwbl; na dim tywyllwch, nac anghysondeb, na gwrthddywedyd. Ni osodwyd erioed wrth eu gilydd eiriau byrach, tlysach, a goleuach, i osod allan y meddwl—"Yr hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim." Y mae yn anmhosibl camddeall eu hystyr. Gall y plentyn pedair oed eu deall, a gall yr hen fam bedair a phedwar ugain, pan nad all bron ddeall dim arall, eu cofio, a'u deall, a'u hadrodd, pan y bydd ei llais yn bloesgi ar ei gwely angeu; ac nid ellid, wrth holi, nac wrth groesholi, ddim siglo ei ffydd yn eu heglurdeb na'u cadernid. Pe gofynid iddi, A ydyw y fath iaith yn gywir, yn gyson â rheolau gramadeg? atebai yn hyf, Ydyw. Pe gofynid a ydyw yn deall pob gair, atebai, Ydwyf. Pe gofynid a ydyw yn deall eu cystrawen a'u cyfansoddiad, atebai,

Ydwyf. Pe gofynid iddi a ydyw yn medru dosranu y fath ymadroddion yn ol deddfau gramadeg, ac a fedrai hi enwi i ni y *nouns*, a'r *pronouns*, a'r *verbs*, a'r *adverbs*, a'r *adjectives*, a'r *prepositions*, a'r *conjunctions*, edrychai yn wawdus, os nid yn ddigofus, yn wyneb y fath ofyniad. Os edliwiem iddi ei bodwedi dweyd fod y geiriau yn gywir yn ol deddfau iaith, hyf atebai eilwaith eu bod yn gywir, yn ol gramadegau nefoedd a daear; a'i bod yn eu deall, ac yn anturio ei bywyd a mil o fywydau ar eu cywirdeb. Wel, os ydych yn eu deall, dywedwch beth yw ystyr y ddau air cyntaf—"Yr hwn." Atebai fod "yr hwn" yr un ystyr a "pwy bynag"—pwy bynag fydd, o ba oes bynag, o ba genedl bynag, o ba iaith bynag, o ba wlad bynag, yr hen neu yr ieuanc, y tad neu y plentyn, y fam neu y ferch, y brawd neu y chwaer, y gwar neu yr anwar, y dysgedig neu yr anwybodus, y cyfoethog neu y tlawd, y caeth neu y rhydd, Iuddew neu genedl-ddyn. Wel, ewch yn mlaen, beth yw ystyr y ddau air nesaf? Yr hwn "a ddel" yw yr hwn a *ddaw* o'i fodd, yn deimladwy dan ei wasgfa; nid yr hwn a yrir, neu a wthir, neu a hudir, ond yr hwn "a ddel" yn ewyllysgar, a'i neges bwysig yn ei deimlad. Wel, ewch rhagoch at y geiriau nesaf. "Ataf fi"—dyna i chwi *preposition* a *pronoun* mewn cwlwm. Ydych chwi yn eu deall? Ydwyf yn eu deall; a diolch byth am danynt. "Ataf *fi*," meddai y Gwaredwr addfwyn, anwyl; nid at benaeth y synagog, nid at Rabbi y brifysgol, nid at gadeirydd y sanhedrim, nid at archoffeiriad y deml, nid at detrarch y dalaeth, nid at y rhaglaw Rhufeinig, nid at y dewin na'r swynwr na'r gauathraw; ond at uniganedig Fab Duw, yr Athraw mawr, Enciniog y nef, Gwaredwr pechaduriaid. A chodai yr hen fam ei llais i ddweyd, O, dyna eiriau anwyl—"Yr hwn a ddel ataf fi." Wel, beth sydd etto? "Nis bwriaf ef allan ddim." Onid oes swn croes braidd yn y gair bach *nis?* O, nac oes. Y mae ei ystyr yn troi ar y gair sydd ar ei ol. Buasai ei swn yn groes ac yn drwm pe buasai y gair "derbyniaf" ar ei ol—*nis derbyniaf* ef. Buasai geiriau felly yn lladd gobaith, ac yn tòri calon y pechadur edifeiriol; ond, diolch byth, nid dyna y gair sydd yno, ond "nis bwriaf ef allan ddim"—nis cauaf byth mo hwnw allan. Wel, gallasech wneud heb y gair bach olaf o'ch adnod oleu. Buasai yn ddigon dweyd, "Nis bwriaf ef allan," a gadael allan y gair bach *ddim*. Nid yw y bobl fawr byth braidd yn rhoi rhyw air bach unsill felly yn niwedd eu cyhoeddiadau. Gellwch chwithau hebgor y gair bach *ddim*. O, na fynwn er y byd mo'i golli. Y mae yr Iesu wedi ei ddweyd; ac yr oedd ef am i'w dystiolaeth fod yn llawn ac yn gref; ac y mae y gair bach

dim yn air tlws, cryf, eglur, ac yn ddiweddglo ardderchog i'w gyhoeddiad grasol. Nis bwriaf ef allan *ddim*—ddim byth byth-oedd, er neb, nac ar un cyfrif. O, y mae ei eiriau yn eglur ac yn gedyrn. Mi bwysaf yr oll a feddaf ar ei addewid—"Yr hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim."

Ac yn wir y mae barn a phrofiad yr hen fam ffyddiog a ffyddlawn yn iawn. Y mae *geiriad* tystiolaethau, a gwahoddiadau, ac addewidion yr Iesu yn berffaith eglur. Nid felly y mae bob amser yn mysg dynion, ïe, dynion mawrion a dysgedig, pan yn gwneuthur cyfammodau â'u gilydd. Er talu yn ddrud am gymhorth gramadegwyr, a chyfreithwyr penaf eu gwlad i'w dysgu i *iawn eirio* eu hymrwymiadau i'w gilydd yn ol deddfau iaith, a chyfraith, byddid yn cael allan yn fynych, ar ol seliad y cytundeb, fod rhyw aneglurder neu anghywirdeb yn ei *eiriad* ag a fyddai yn ei wneud yn hollol ddiwerth; a byddai un o'r pleidiau yn gallu ei dòri, er dianc oddiwrth rwymedigaeth ei addewid.

Ychydig flynyddau yn ol, bu dau foneddwr enwog yn llunio, ac yn selio, a llawnodi cytundeb pwysig rhwng Lloegr ac America; ond yn mhen ychydig fisoedd ar ol hyny, yr oeddynt hwy eu hunain yn methu deall ystyr rhai o brif eiriau eu cytundeb: yr oedd un ochr yn eu hesbonio fel hyn, a'r ochr arall yn eu hesbonio fel arall; a bu bron iawn i'r ddwy wlad fyned i ryfel gwyllt â'u gilydd o herwydd y dyryswch. Ond nid oes dim tywyllwch felly yn perthyn i eiriad ymrwymiadau yr Iesu. Y mae eu heglurder a'u cywirdeb yn dyfod yn fwyfwy i'r golwg po fwyaf y meddylir am danynt. Daliant eu chwilio yn y goleuni, a hyny yn ol y deddfau a'r rheolau manylaf. Y maent wedi dal ymchwiliad cyfrwysaf anffyddwyr, cyfreithwyr proffesedig tywysog y fagddu; a daliant ymchwiliad goleuni a manylrwydd llys mawr y farn ddiweddaf.

II. Heblaw fod *geiriad* y dystiolaeth yn eglur, y mae CYMERIAD Y TYSTIOLAETHWR yn uchel iawn am ei eirwiredd a'i ffyddlondeb. Nid oes dim gair o hanes, nac o gysgod hanes, ei fod wedi tòri ei air erioed. Y mae bob amser yn sefyll yn ddiysgog a ffyddlawn at ei holl gyhoeddiadau a'i ymrwymiadau. Nid oes neb drwy'r nefoedd na'r ddaear all brofi iddo erioed anghofio ei addewid, na chynnyg ei hysgoi na'i thòri, na methu ei chyflawni. Y mae wedi *arfer* bob amser gyflawni ei holl ymrwymiadau. Gellid hèrio holl deulu y ddaear, a holl deulu uffern hefyd, i fedru dwyn un enghraifft o waith yr Iesu yn tòri ei addewid, neu yn ysgoi ei ymrwymiad: ac y mae holl hen deulu enwog y nefoedd, saint ac angylion, yn barod i gyd-dystiolaethu yn unllais fod yr Iesu bob amser yn ffyddlawn i'w addewidion; ac y mae y

Tad hefyd wedi cyhoeddi ei fod wedi cael ei lwyr foddloni ynddo. Rhoddodd addewidion pwysfawr i'w Dad yn y cytundeb boreu, cyn seiliad y byd, y byddai iddo wisgo y natur ddynol, a dyfod i'r byd yn nghyflawnder yr amser, ac yr esboniai i ddynion gyfreithiau y nefoedd, a chanlyniadau alaethus pechod, ac egwyddorion mawrion trefn iachawdwriaeth gras; ac y wnebai i'r frwydr fawr â holl alluoedd y tywyllwch, ac y mynai yspeilio eu tywysogaethau; a dilëu ysgrifenlaw yr ordeiniadau, a'i chymeryd oddiar y ffordd i gadw dyn, gan ei hoelio wrth y groes; ac y rhoddai ei hunan yn aberth ac yn Iawn i'r llywodraeth, fel y gallai y Llywydd mawr faddeu i'r troseddwr edifeiriol, ac ar yr un pryd anrhydeddu, a mawrhau, a chadarnhau ei gyfraith; ac yr âi drwy diriogaeth angeu, ac y cymerai feddiant o'i agoriadau, ac yna yr esgynai goruwch yr holl nefoedd, i arolygu dygiad yn mlaen wahanol ranau ei waith cyfrynngol; a chyflawnodd i'r llythyren eithaf holl ymrwymiadau ei gyfammod â'i Dad. Nis gwyddom gymaint am ei addewidion i angylion, ond gwyddom eu bod oll yn ei adnabod, a'u bod oll yn ei addoli fel un tŷddlawn i'w addewidion, a'u bod yn awyddus am i ddynion ymddiried i'w dystiolaethau. Rhoddodd addewidion lawer i saint yr oesau y byddai gyda hwynt yn y peryglon a'r profedigaethau—y byddai gyda hwy yn y llif ac yn y tân—y byddai gyda hwy yn y carchar nesaf i mewn, ac yn Patmos anial bell, a chyda hwy yn y glyn ac yn yr afon; ac y maent yn awr yn yr orphwysfa fry yn canu nes adseinio yr holl nefoedd, ei fod wedi cyflawni ei holl addewidion: a phe caem gyfle yn awr i fyned i ganol eu cymanfa fawr yn y Jerusalem nefol, i ofyn eu cynghor ar hyn, dywedent wrthym yn unllais, y gallwn dawel anturio ein bywyd a'r oll a feddwn ar ei air ef—y gall y mynyddoedd gilio a'r bryniau symud—y gall y nefoedd a'r ddaear fyned heibio, ond na chilia ef byth oddiwrth yr un o addewidion ei gyfammod.

Y mae yn hawdd i mi grodu, medd anabell bechadur, pan dan draed ei ammheuon, fod yr Iesu wedi cyflawni ei ymrwymiadau i'w Dad, a'i fod wedi cyflawni ei addewidion i hen angylion pur a gwasanaethgar y nefoedd; a'i fod hefyd wedi cyflawni ei addewidion i hen tŷddloniaid enwog y ddaear; ond y pwnc mawr i mi ydyw, a wna efe gofio a chadw a chyflawni ei addewid i afradlon tlawd ac euog fel myfi? Y mae anabell un yn ofalus am gyflawni ei air i wŷr o urddas a mawredd, ond yn lled anghofus o'u haddewidion i rai isel a gweiniaid, diolud, a diggyfeillion. Dichon fod rhai felly yn mysg dynion, ond nid un felly ydyw yr Iesu. Try yr Iesu ei glust draw oddiwrth gân blaenor cor yr angylion cyn y try ei glust draw oddiwrth gyffes a gweddi yr

edifeiriol. Ni thyr ei addewid i neb, ond byddai yn fwy tebyg o anghofio ei addewid i Gabriel, nac o anghofio ei addewid i bechadur edifeiriol. Y mae yn hoffi tosturio, ac yn ymofyn am le i drugarhau. Y mae myrddiynau ar fyrddiynau o'r pechaduriaid duaf a gwaethaf wedi troi yn edifeiriol ato i ymbil am drugaredd, ac ni wrthododd neb erioed. Ni fwriodd allan, naddo yr un. Nid yn unig derbyniodd Dafydd a Phedr, a gwrthgilwyr eraill, yn ol i fynwes ei gariad, ar eu hymostyngiad a'u hedifeirwch, ond derbyniodd Manasseh, a Saul, a Zaccheus, a Magdalen, a'r wraig o Ganaan, a'r "bechadures fawr," a'r lleidr ar y groes, a gwawdwyr gwaethaf dydd y Pentecost, a rhai duaf Corinth, a John Bunyan, a John Newton, a miloedd eraill, gyda'u bod yn nesâu ato ac yn syrthio wrth ei draed i ymbil am drugaredd. Oes, y mae myrddiynau o'r pechaduriaid penaf wedi ymddiried eu bywyd i eiriau y Gwaredwr, ac ni siomwyd yr un o honynt erioed. Gan hyny, byddai yn llawer iawn gwell i'r pechadur ofnus, nag ymollwng i nwydau ammheuaeth, ymroi i ganu :—

"Pwy glywodd am bechadur
Mewn unrhyw oes na gwlad,
Erioed a ddaeth at Iesu
Fu farw wrth ei draed?
Ni thyr y gorsen ysig,
Ni wrthyd neb a ddaw,
Ni ddiffydd lin yn mygu,
Af ato yn ddifraw.

Mi glywais son am dano,
Mi glywais lawer gwaith,
Fod ynddo drugareddau
Sydd fwy na'r moroedd maith;
Ymbiliaf am drugaredd,
A dysgwyl byth y'm ceir,
Os trengu wnaf, mi drengaf
A'm gobaith yn ei air."

III. Heblaw eglurdeb geiriau y dystiolaeth, a chymeriad uchel awdwr y dystiolaeth, y mae genym sylfaen arall i'w chadernid disigl, sef nad oes dim awdurdod uwch, na gallu mwy nac eiddo yr Iesu i'w ORFODI i dòri ei addewid, ac i fwrw allan bechadur edifeiriol. Y mae ganddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear; ac nid oes neb yn medru symud cam, nac yngan gair yn erbyn gweinyddiad ei drugaredd faddeuol. Dichon fod ambell i bechadur ofnus weithiau yn barod i ddywedyd—"Mi wn fod Iesu yn dosturiol, yn faddeugar, yn gariadlawn; mi wn ei fod ef yn addfwyn a gostyngedig o galon; mi wn iddo ef ddyfod i'r byd a marw er mwyn i bechadur gael byw; yr wyf yn credu ei fod ef am achub, a'i fod am gadw ei addewid; ond yr wyf yn ofni y daw rhyw awdurdod uwch na'r eiddo ef, a rhyw allu mwy na'i allu ef i'w luddias, ac i'w orfodi i'w bwrw allan; ac felly i'w rwystro i gyflawni ei addewid: y mae llawer un yn ffyddlawn i'w addewid, yn ei chofio yn barhaus, ond yn *methu* ei chyflawni; ac yr wyf yn ofni i'r Iesu fethu, y cyfyd rhyw awdurdod uwch yn ei erbyn i'w rwystro, ac i'w orfodi i'w bwrw allan.—*Na wna byth.* Os

dywed y pechadur—Yr wyf yn ofni y bydd i'r Tad santaidd, Barnydd yr holl ddaear, yr hwn sydd lanach ei lygaid nag y gall edrych ar ddrwg, roddi ei lais yn fy erbyn, ac erchi fy mwrw allan. Etyb yr Iesu, Na wna byth. Yr wyf yn gwybod ei galon ef, yr wyf wedi mawrhau ei gyfraith ac anrhydeddu ei lywodraeth ef. Y mae ef wedi ymddiried ei holl agoriadau i'm gofal i, ac wedi rhoddi i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ni wna efe byth roddi ei lais yn erbyn i mi achub pechadur. Cael trefn i achub pechadur oedd prif hoffder ei feddwl ef er dyddiau tragwyddoldeb. Os dywed y pechadur, Yr ydwyf fi yn ofni y rhydd yr Ysbryd Glan ei lais yn erbyn derbyn un mor aflan a mi; yr wyf wedi gwrthwynebu ei ymrysoniadau, a mygu ei argyhoeddiadau drwy fy oes; yr wyf wedi ei hir dristâu, ac wedi gwneud fy ngoreu i'w ddiffodd; yr wyf yn ofni y bydd ef yn dyn am fy mwrw allan, Na fydd byth, medd yr Iesu; ei hoff waith ef yw cymeryd o'r eiddof fi, a'i ddefnyddio i ymgeleddu cyflwr pechadur. Os dywed y pechadur, Yr wyf yn ofni i hen angylion gwynion y nefoedd roddi eu llais yn erbyn i mi gael byth fy nerbyn yno. Y maent wedi fy ngweled lawer tro yn mathru Mab Duw, ac wedi fy nghlywed yn difenwi Ysbryd y gras; byddant hwy oll yn un llais yn erbyn derbyn pechadur mor gyndyn ac mor greulawn i'w cymdeithas. Na fyddant, medd yr Iesu; yr wyf yn eu hadwaen oll, ac nid oes dim yn peri mwy o lawenydd yn eu mysg na gweled pechadur yn edifarhau ac yn cael ei achub. Os dywed y pechadur, Yr wyf yn ofni y bydd saint y nef o unfryd am fy nghadw allan oddiyno; y mae rhai o honynt yn cofio yn dda fel y bum yn eu goganu, yn gwawdio eu cân a'u gweddi, eu cynghor a'u dagrau. Na, medd yr Iesu, ni bydd dim yn well ganddynt na chlywed y newydd dy fod yn edifarhau ac yn gweddio; a bydd yn llawen iawn ganddynt gael dy gymdeithas wrth fwrdd y wledd yn nhŷ eu Tad, a chael dy glywed yn seinio y ganiad newydd am dy gadw. Os dywed y pechadur, Ni bydd o un dyben i mi ymwasgu at y dysgyblion ar y ddaear. Yr wyf wedi bod yn eu gwaradwyddo, yn eu herlid, ac yn dyweyd pob drygair yn eu herbyn; ni bydd ganddynt byth ymddiried ynof, nis gallant byth faddeu i mi, a rhoddant eu pleidlais oll am fy mwrw allan. Na wnant byth. Yr wyt yn eu camadwaen hwy a'u crefydd. Os byddant braidd yn ofnus yn y dechreu, cynhesant atat yn union, a rhoddant eu llaw i ti i'th groesawu gyda dagrau o lawenydd, ar ol cael prawf o dy edifeirwch. Neu, os bydd ambell un yn eu mysg o hyd am dy gadw draw, ni bydd hyny ond amlygiad o'i Phariseaeth; ac ni chaiff ei gulni ef byth rwystro dy iachawdwriaeth. Os dywed y pechadur, Yr wyf yn

ofni y daw Satan yn mhaen i ddadleu am fy mwrw allan. Yr wyf wedi bod yn hir yn ei deyrnas, ac yn fywiog dan ei faner, a dichon y daw i haeru fy mod mewn cynghrair âg ef ac â'i fyddin; fy mod wedi rhoddi fy hun iddo, ac na wna byth fy ngollwng yn rhydd. Digon tebyg y daw, medd yr Iesu, ac y bydd ganddo lid mawr yn dy erbyn; ond safaf fi drosot, cymeraf dy blaid, dadleuaf dy ddadl, ac archaf iddo sefyll draw, a phrofaf iddo ei fod wedi codi baner gwrthryfel yn llys gogoniant, a'i fod drwy ei hudoliaeth a'i gelwydd wedi twyllo myrddiynau o dreiniaid i'w dinystr: a gelli dithau ddywedyd wrtho, dy fod yn tòri dy gynghrair âg ef, dy fod yn gadael ei wasanaeth, a'th fod wedi dy roddi dy hun i'r hwn a'th brynodd drwy ei lawn, ac a faddeuodd dy holl feiau, a dy fod am fod yn eiddo iddo bellach o hyn allan. Gelli ddannod iddo ei ddichellion, a'i wrthwynebu yn hyf, a chyhoeddi y byddi yn elyn iddo ef a'i deyrnas yn oes oesoedd; a byddaf fi gyda thi bob amser, fel na raid i ti ofni ei gyhuddiadau na'i gynddaredd. Neu, os dywed y byd mai efe bia galon y pechadur, etyb yr Iesu, Nage: y mae wedi rhoddi ei galon i mi, yr wyf wedi ei hennill; "y mae wedi agor y drws i mi, a mi a swperaf gydag ef, ac yntau gyda minnau, ac nis bwriaf ef allan ddim." Neu, os dywed y bedd, Mynaf fi feddiant o'i gorff, a mynaf ei gadw allan o wynfyd yn llwch fy nhiriogaeth; etyb yr Iesu, Na fyni, O! fedd: yr ydwyf wedi prynu ei gorff, a byddaf yn dranc i ti, a mynaf ei adgyfodi mewn nerth a gogoniant anfarwol yn y dydd diweddaf. Ac os meiddiai angeu ddywedyd, Mynaf fi fyned ar ei ol dros yr afon, i'r tu fewn i'r llen, i gylchoedd y Ganaan fry, a mynaf ddwyn ei einioes o'th law di: atebai yr Iesu, Nac âi byth, angeu, colli dy anadl os ceisi roddi dy droed i lawr ar diroedd anfarwoldeb, byddaf fi yn angeu i ti, O! angeu; a rhoddaf derfyn tragwyddol ar rwysg dy frenhiniaeth. Na, na, medd yr Iesu, nid yn unig nis bwriaf allan ddim, yr hwn a ddel ataf, ond nis dwg neb ef allan o'm llaw i.

IV. Y mae gan yr Iesu FODDION ANFFAELEDIG i ymgeleddu a gwella pechadur, fel na raid iddo ei fwrw allan wedi methu ei iachâu. Y mae meddygon goreu clafdai daear yn gorfod rhoddi llawer claf i fyny, ac mewn effaith yn gorfod ei fwrw allan o'u clafdy. Ar ol ei fod dan eu gofal am fisoedd, ac ar ol iddynt gynnyg pob moddion fedrent ddyfeisio, yr oeddynt yn y diwedd yn gorfod ysgrifenu at ei geraint i'w gyrchu adref i farw yn nghanol ei deulu; gan addef fod ei afiechyd yn gwaethygu yn barhaus er yr oll fedrent wneud; ond ni orfu i'r Iesu fwrw allan felly yr un claf fu dan ei law. Y mae rhinweddau diderfyn yn mhlith drud ei iachawdwriaeth ef; ac y mae yn "ewbl

iachâu" pob un sydd yn dyfod ato. Y mae yr athrawon enwocaf yn gorfod bwrw allan ambell i ysgolhaig, gan hysbysu i'w gyfeillion fod yn rhy anhawdd ei ddysgu na'i ddysgyblu; a'i fod yn dyrysu trefniadau eu hathrofa, ac yn drygu ei chymeriad, a'u bod yn ei ddiarddel, ac yn ei wrthod fel un nad ellid ei addysgu; ond ni orfu i'r Athraw mawr erioed fwrw allan unrhyw ddysgybl a ddaeth dan ei ofal, gan orfod dweyd ei fod yn methu ei ddysgu i fod yn ddoeth i iachawdwriaeth. Y mae y cadbeniaid enwocaf wedi gorfod bwrw ambell i filwr allan o'r fyddin, gan gyhoeddi ei fod yn rhy anufudd i ddysgu ymarferiadau milwraidd; a bod ei gyfeillach yn llygru ei gydfilwyr; ond ni orfu i Gadben iachawdwriaeth erioed fwrw allan un milwr o'i fyddin, ond y mae yn gallu dysgu pob un i fod yn filwr *da*, ac yn fwy na choncwerwr. Y mae y sefydliadau goreu sydd yn bod er diwygio troseddwyr ieuainc wedi gorfod bwrw llawer un allan, gan ei adael i gymeryd ei ffordd ei hun i ddinystr; ond ni orfu i'r Iesu erioed fwrw allan yr un troseddwr i fyned yn ei ol i hen ffordd lithrig lydan colledigaeth. Yr oedd ambell i synagog yn amser Crist yn bwrw allan lawer un, gan gyhoeddi ei fod yn rhy ffol neu yn rhy gyndyn i gadw at reolau ei dysgyblaeth; ond y mae y Gwaredwr addfwyn yn medru gwneud pob un sydd dan ei ofal yn ufudd yn nydd ei nerth. Y mae y doniau a'r moddion goreu ganddo i wella, a diwygio, ac addysgu pechadur; y moddion perffeithiaf i oleuo ei feddwl, i dyneru ei gydwybod, i buro ei galon, i adnewyddu ei ysbryd, a'i wneud yn ddyn cymhwys i'r nefoedd.

Dyma bedair o'r seiliau sydd genym i bwyso ar gadernid addewid ein testun: y mae y geiriau yn eglur ac yn gryfion. Nid yw yr Iesu byth yn arfer tòri ei air. Nid oes neb all ei orfodi i wneud hyny; ac y mae ganddo foddion effeithiol tuag at iachâu ac achub pechadur.

CYMHWYSIAD.

Gan fod yr Iesu wedi gwneud yr hyn a wnaeth, ac wedi dywedyd yr hyn a ddywedodd, a bod ei gymeriad yr hyn yw, pob pechadurus ac ynfyd yw ammheu ei eirwiredd a'i ffyddlondeb.

Dylai y rhai sydd wedi dyfod at Grist, a chael y fath groesaw a'r fath brawf o olud ei ddaioni, ei gannol yn gynhes, a hyny heb byth flino.

Er nad yw yr Iesu byth yn bwrw allan, dylai y rhai sydd yn diystyru ei wahoddiadau a'i addewidion, gofio y daw amser pan y bydd yn cau drws ei drugaredd, a phan y bydd yn troi ei wyneb tirion draw oddiwrthynt; a phan y byddant hwythau yn cu gwasgfa, wrth ei gweled wedi myned yn rhy ddiweddar, yn ymwylltio ac yn ymwthio ar ol i'r drws gael ei gau.

YR IESU PAN YN DDEUDDEG OED.

ANERCH I FAMAU A'U PLANT.

"A'i rieni ef a aent i Jerusalem bob blwyddyn ar wyl y Pasc. A phan oedd efe yn ddeuddeng mlwydd oed, hwynt-hwy a aethant i fyny i Jerusalem yn ol defod yr wyl. Ac wedi gorphen y dyddiau, a hwy yn dychwelyd, arosodd y bachgen Iesu yn Jerusalem; ac ni wyddai Joseph a'i fam ef. Eithr gan dybied ei fod ef yn y fintai, hwy a aethant daith diwrnod; ac a'i ceisiasant ef yn mhlith eu cenedl a'u cydnabod. A phryd na chawsant ef, hwy a ddychwelasant i Jerusalem, gan ei geisio ef. A bu, ar ol tridiau, gael o honynt hwy ef yn y deml, yn eistedd yn nghanol y doctoriaid, yn gwrandaw arnynt, ac yn eu holi hwynt. A synu a wnaeth ar bawb a'r a'i clywsant ef, o herwydd ei ddeall ef a'i atebion. A phan welsant ef, bu aruthr ganddynt. A'i fam a ddywedodd wrtho, Fy mab, paham y gwnaethost felly â ni? wele, dy dad a minnau yn ofidus a'th geisiasom di. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Paham y ceisiech fi? oni wyddech fod yn rhaid i mi fod yn nghylch y pethau a berthyn i'm Tad? A hwy ni ddeallasant y gair a ddywedasai efe wrthynt. Ac efe a aeth i waered gyda hwynt, ac a ddaeth i Nazareth, ac a fu ostyngedig iddynt. A'i fam ef a gadwodd yr holl eiriau hyn yn ei chalon. A'r Iesu a gynnyddodd mewn doethineb, a chorffolaeth, a ffafr gyda Duw a dynion."—Luc ii. 41—52.

Er fod pedwar Efengylwr wedi ysgrifenu i ni grynhoad o hanes bywyd a gweinidogaeth yr Iesu, etto ychydig sydd genym o hanes dyddiau ei febyd. Hoffai llawer wybod yn fanylach pa fath un oedd pan yn ddeg a phymtheg ac ugain oed. Y mae genym awgrymiadau ei fod yn blentyn ufudd, addfwyn, gostyngedig, santaidd; ei fod yn hoff o ddarllen, a myfyrio, a gweddio, a'i fod yn gwerthfawrogi cymundeb y saint, yn ofalus i gadw y Sabbath, ac yn caru byw mewn cymundeb â'r nefoedd. Y mae teulu dedwydd y nef yn gwybod mwy o'i hanes nag ydym ni; ac os cawn ni gyrhaedd yno, cawn wybod mwy nag allwn wybod yma. Y mae y duwinydd Ioan, y dysgybl anwyl, yr hwn a wyddai, dichon, fwy o'i hanes na neb arall, yn diweddu ei efengyl trwy ddweyd fod "llawer o bethau eraill a wnaeth yr Iesu, y rhai ped ysgrifenid hwy bob yn un ac un, nid wyf yn tybied y cynnwysai y byd y llyfrau a ysgrifenid." Y mae genym adroddiadau lled fanwl am amgylchiadau ei enedigaeth: am anfoniad yr angel Gabriel at Mair i ragfynegu am ei enedigaeth—am fynediad Joseph a Mair o Nazareth i Bethlehem i gael eu trethu—am enedigaeth yr Iesu yn Bethlehem; ac i'w fam orfod ei ddodi yn y preseb, am nad oedd iddynt le yn y lletty—am angel yr Arglwydd yn ymddangos ar wedd ogoneddus i'r bugeiliaid oeddynt yn yr ardal hono yn gwylied eu praidd liw nos, a mynegu iddynt y newyddion da o lawenydd mawr, fod Ceidwad wedi ei eni y dydd hwnw yn ninas Dafydd, sef Crist yr Ar-

glwydd; ac y mae anthem y llu nefol ar yr achlysur genym—"Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da." Y mae adroddiad genym am ddoethion yn dyfod o'r dwyrain, dan arweiniad ei seren; a phan welsant y mab bychan, yn syrthio i lawr i'w addoli, ac yn offrymu iddo eu hanrhegion, ac yna yn dychwelyd i'w gwlad ar hyd ffordd arall, gan siomi dysgwyliad Herod; ac am lid Herod, pan welodd ei siomedigaeth, yn lladd yr holl fechgyn dwy flwydd oed a than hyny, oedd yn Bethlehem a'i chyffiniau, yn ei awydd creulawn i ladd yr Iesu; ac am Joseph a Mair yn cymeryd y mab bychan ac yn ffoi i'r Aipht, ac yn dychwelyd i dir Israel ar ol marwolaeth Herod, ac yn trigo yn Nazareth. Ni cheir, ar ol hyny, ond ychydig iawn o hanes yr Iesu am bron ddeng mlynedd ar hugain; ond ceir adroddiadau helaethach a manylach am dano ar ol iddo ddechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus. Darlunir i ni ei athrawiaeth a'i ddull yn addysgu, ei ysbryd addfwyn cariadlawn, ei deimladau tyner, ei weddïau taerion, ei sel dros ogoniant ei Dad, ei ympryd yn yr anialwch, ei fuddugoliaethau ar y temtiwr, ei fedr yn dystewi y Phariseaid a'r Sadduceaid, ei wyrthiau yn iachâu cleifion, yn bwrw allan ysbrydion aflan, yn codi mab y weddw o Nain a Lazarus oddiwrth y meirw, yr olygfa ar fynydd y gweddnewidiad, ei ymddyddanion ar y swper, ei weddi a'i chwys yn yr ardd, ei ddull tawel yn cyfarfod tyrfa y gwaewffyn, ei eiriau wrth Judas, ei dosturi yn iachâu clust Malchus, ei ysbryd a'i ddull tawel ger bron cynghor yr Iuddewon, ac yn llys Pilat, ac o flaen gorsedd Herod, ei edrychiad ar Pedr, y fflangellu, y coroni â drain, y wisg borphor, y gorsen, y poeri yn ei wyneb, y cuddio ei lygaid, ei gernodio, ei arwain allan, dan y baich trwm, i'w groeshoelio, ei gynghor i ferched Jerusalem, ei weddi dros ei leiddiaid, ei air wrth ei fam, ei addewid i'r lleidr, ei lef ar ei Dad, ei farw, trywanu ei ystlys, ei gladdu yn y bedd newydd, ei adgyfodiad, ei gyfarwyddiadau a'i eirchion i'w ddysgyblion, a'i esgyniad i ogoniant wedi gorphen ei waith mawr ar y ddaear. Ond yr ychydig adnodau a ddarllenwyd ydyw bron yr oll sydd genym am ddyddiau ei *febyd*. Yr ydys yn addef mai pynciau *mawrion* yr efengyl ydyw ei weinidogaeth gyhoeddus, a'i offrymiad yn aberth ac yn Iawn i Dduw o arogl peraidd: ond nid anfuddiol fyddai i ni am dro droi ein meddwl, ac yn enwedig cyfeirio meddyliau *mamau a'n plant*, at bwnc llai, sef at ddyddiau mebyd yr Arglwydd Iesu. Cawn yn y testun yn

I. Olwg ar ei GYMERIAD pan yn blentyn gartref dan ofal ei fam. Geiriau cryno yr hanesydd Luc ar hyny ydynt, "A'r Iesu a gynnyddodd mewn doethineb, a chorffolaeth, a ffafr gyda Duw

a dynion." Yr oedd y *cynnyddu* yn perthyn iddo fel *dyn.* Am ei natur *ddynol* yr oedd Luc yn ysgrifenu yma. Yr ydym yn credu pwnc mawr ei Dduwdod, ac yn credu ei fod yn cael ei ddysgu yn yr efengyl. Fod yr Iesu hwn, Crist Duw, yr hwn a hanodd o'r tadau yn ol y cnawd, uwchlaw pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd. Yr ydym yn credu tystiolaeth eglur Ioan y Duwinydd, "Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw, a Duw oedd y gair." Yr ydym yn credu tystiolaeth gynnwysfawr Paul am dano, "Mawr yw dirgelwch duwioldeb; Duw a ymddangosodd yn y cnawd, a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd, a welwyd gan angylion, a bregethwyd i'r cenedloedd, a gredwyd iddo yn y byd, a gymerwyd i fyny mewn gogoniant." Yr ydym yn credu ei fod yn *Dduw,* yn credu hefyd ei fod yn *ddyn;* i'r Gair oedd yn y dechreuad gael ei wneuthur yn gnawd, ac iddo drigo yn ein plith ni, yn llawn gras a gwirionedd: ac am dano fel *dyn* yr oedd Luc yma yn tystiolaethu. Nid oedd dim "*cynnyddu*" yn perthyn iddo fel *Duw,* ond fel *dyn* yr oedd yn "cynnyddu" yn

1. Mewn "*corffolaeth;*" hyny ydyw, o ran maint a nerth ei gorff. Ganwyd ef fel babanod eraill, a thra y bu yn faban yr oedd yn egwan fel babanod eraill. Yr oedd ei draed bychain yn rhy weiniaid i gerdded cam, ac yr oedd ei ddwylaw bychain yn rhy weiniaid i wneuthur dim er ei ymgeledd ei hun: ond "cynnyddodd" o ran ei gorff, yr oedd yn dyfod yn fwy, yn dalach, yn drymach, ac yn gryfach o fis i fis, ac o flwyddyn i flwyddyn. Pan oedd yn flwydd oed, yr oedd yn gyffelyb i faban arall blwydd oed o ran maint a nerth ei gorff. Pan oedd yn bump oed, yr oedd o ran maint ei gorff yn gyffelyb i blentyn pump oed. Pan oedd yn ddeg oed, yr oedd fel bachgen deg oed. Pan oedd yn bymtheg, yr oedd fel llanc pymtheg. Pan yn un ar hugain, yr oedd fel dyn ieuanc un ar hugain oed. Ac yr oedd Luc yn ystyried ei bod yn fuddiol coffâu yn ei hanes ei fod yn "cynnyddu mewn corffolaeth." Er ei fod "yn ffurf Duw, ac ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw, efe a'i dibrisiodd ei hun, gan gymeryd arno agwedd gwas, ac a wnaed mewn cyffelybiaeth dynion: a'i gael mewn dull fel dyn, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf, efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angeu, ie, angeu y groes." Gwnaed ef o ran ei *gorff* yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr: "Oblegid gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau; fel trwy farwolaeth y dinystriai efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, ac y gwaredai hwynt y rhai trwy ofn marwolaeth oeddynt dros eu holl fywyd dan gaethiwed:

canys yn gymaint a dyoddef o hono ef, gan gael ei demtio, efe a ddichon gynnorthwyo y rhai a demtir."

2. Yr oedd yn cynnyddu mewn "*doethineb*," hyny ydyw, mewn gwybodaeth a phrofiad. Byddai yn anghyson i ni dybied fod gan yr Iesu *hen* brofiad mewn corff babanaidd, fod ganddo wybodaeth eang pan yn faban yn y preseb. Yr oedd ei enaid dynol yn fabanaidd pan yr oedd ei gorff yn fabanaidd. Yr oedd ar y cyntaf, fel babanod eraill, yn ddiwybodaeth ac yn ddibrofiad: ond casglodd wybodaeth, ac mewn canlyniad i hyny cynnyddodd mewn doethineb a phrofiad. Casglodd wybodaeth yn yr un dull, a thrwy yr un moddion, ag y mae plant eraill yn casglu gwybodaeth; sef drwy wrandaw ar addysg ei fam, a'i holl athrawon; trwy ddarllen a chwilio y llyfrau goreu oedd yn ei gyrhaedd; trwy drysori pethau yn ei gof, a myfyrio ynddynt. Yr oedd yr un moddion yn ei gyrhaedd ef ag oedd yn nghyrhaedd ieuenctyd eraill; ac yr oedd ei gynnydd yn *anarferol* o gyflym, oblegid diwydrwydd, a difrifoldeb, a phurdeb dilwgr ei feddwl a'i galon. Yr oedd Joseph a Mair yn enwog am addysgu y rhai oedd dan eu gofal yn mhethau crefydd. Yr oedd yr Iesu pan yn blentyn yn hoff iawn o wrando, a chofio, ac astudio adroddiadau ei fam am wirioneddau duwioldeb. Y mae yn amlwg hefyd fod ysgrythyrau yr Hen Destament yn ei gyrhaedd, naill ai yn nhŷ ei fam, neu yn y synagog, neu gan rai o'r cymydogion. Dysgodd ddarllen ac ysgrifenu, ac yr oedd yn ddiwyd iawn yn chwilio yr ysgrythyrau. Yr oedd addysgwyr plant yn ei ardal, ac yr oedd yn hoff o eistedd wrth eu traed i'w holi ac i wrando arnynt; ac yr oedd yn hoff iawn hefyd o wrando y darlleniadau a'r esboniadau yn y synagog, ac o gael bod yn nghyfeillach y rhai mwyaf eu gwybodaeth, a'u profiad, a'u duwioldeb; ac wrth ddilyn y moddion oedd yn ei gyrhaedd yn ddiwyd a myfyriol, "cynnyddodd mewn doethineb." Yr oedd adnabyddwyr y teulu yn rhyfeddu at ei gynnydd. Bu adeg yn nechreu ei fywyd pan nad oedd yn gwybod dim o hanesion yr Hen Destament; ond bu yn ddiwyd a chyflym iawn i'w dysgu. Un diwrnod byddai yn dysgu hanes gwaith chwe' diwrnod y crëu—ddiwrnod arall yn astudio hanes galarus y cwymp—bryd arall yn darllen neu adrodd am ferthyrdod Abel, neu symudiad Enoch, neu hanes Noah, neu Abraham, neu Jacob, neu Joseph, neu Moses, neu Dafydd; byddai rhyw wers o lyfr ysbrydoliaeth ganddo yn ei gof a'i fyfyrdod yn barhaus; a phan oedd ei fam ac eraill yn ei holi, neu yn cael eu holi ganddo, am ffeithiau ac athrawiaethau crefydd, yr oeddynt yn gorfod synu at ei "ddoethineb," neu gynnydd ei wybodaeth.

3. Yr oedd yn cynnyddu mewn "*ffafr*" gyda Duw a dynion. Yr oedd yn cael amlygiadau beunyddiol o ffafr Duw, ac arwyddion a phrofiad mwyfwy eglur yn barhaus o'i gymeradwyaeth; ac yr oedd yn myned uwch uwch yn ffafr *dynion*, pob dynion ag yr oedd duwioldeb ganddynt, neu ag yr oedd dim rhinwedd ynddynt. Yr oedd yn anmhosibl i neb o'r cyfryw ddyfod i adnabyddiaeth o ysbryd ac ymddygiad yr Iesu heb ei garu. Yr oedd gair da i'r plentyn Iesu drwy yr holl ardal. Yr oedd pob mam yn barod i ddweyd, O na byddai fy mhlant i yn debyg i fachgen bach Mair. A byddai y tadau yn dweyd wrth gynghori ac addysgu eu plant, Sylwch mor dirion, mor addfwyn, mor ostyngedig, mor ufudd, mor foneddigaidd, mor fyfyrgar, mor hawdd ei drin, ydyw y bachgen Iesu. A byddai ambell i athraw craff, cretyddol, yn cyfeirio sylw ei ysgol, neu ei ddosbarth, at esiampl yr Iesu, gan ddweyd, Sylwch ar ei addfwynder a'i ufuddod, y mae pawb yn gorfod ei ganmol, y mae mewn ffafr gyda phawb sy'n ei adnabod; gwnewch ymgais am fod yn debyg iddo, a deuwch chwithau felly i anrhydedd a defnyddioldeb. Byddai ambell i fam yn galw yn nhŷ Mair, rhyw gymydoges iddi, neu ryw gares, fel Elizabeth, ac yn treulio diwrnod gyda'r teulu, ac yn adrodd ar ei dychweliad adref, wrth ei theulu, ac wrth ei chymydogesau, ei bod newydd ymweled â theulu Mair, a bod yno blentyn o'r ysbryd hawddgaraf a'r a welsai erioed; ei bod wedi cael hyfrydwch nodedig wrth sylwi ar ei ymddygiad. O, meddai, mor dirion ei lygad, mor nefol ei wedd, mor effeithiol ei lais mwyn, mor ufudd i'w rieni, mor astud yn gwrando ar eu haddysg, mor addfwyn garedig wrth y plant eraill, ac wrth bawb. Nid yw ond rhyw bump oed. O fel y buasech yn hoffi ei glywed yn canu ei emyn, ac yn gweddïo ei weddi, ac yn adrodd ei wers o'r ysgrythyr, ac yn holi ac yn ateb ei fam. Clywais ef yn adrodd hanes Moses, a hanes Job, a hanes Daniel mewn dull hynod o gynnwysfawr ac effeithiol. Clywais ef, ar gais ei fam, yn canu hen anthem y drydedd Salm ar hugain, ac nid oedd modd peidio hiraethu a gweddïo am gael yr Arglwydd yn Fugail i ni wrth ei glywed yn canu y "porfeydd gwelltog, gerllaw y dyfroedd tawel;" ac yr oedd yn ddigon bron i beri i un hiraethu am rodio ar hyd y glyn, wrth glywed y bach yn canu adnod y glyn, ac yn chwyddo ei lais mwyn babanaidd i ddyblu y geiriau, "Ïe, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angeu, nid ofnaf niwaid; canys yr wyt ti gyda mi; dy wialen a'th ffon a'm cysurant." Ac nis gallaf ddweyd fel yr oedd fy nghalon yn cynhesu, ac yn toddi ynof, wrth ei glywed yn canu hen anthem y chweched Salm a deugain—"Duw sydd noddfa a nerth i ni, cymhorth hawdd ei

gael mewn cyfyngder." Y mae y fath blentyn mewn teulu yn gymhorth nodedig i fyfyrdodau ac ymddyddanion crefyddol y teulu hwnw, yn gymhelliad cryf i'w cariad a'u trefn, ac yn sicr o felysu dyddanwch eu duwioldeb. Yr wyf yn ofni fod ei feddwl yn rhy fyfyrgar, a'i galon yn rhy dyner, a bod ei brofiad a'i ymarweddiad yn rhy nefol iddo gael aros yn hir yn y byd oer, tywyll, tymhestlog hwn. O na byddai ein plant oll yn fwy tebyg i fachgen bychan Mair. Felly yr oedd llawer o garesau Mair yn ymddyddan am ei bachgen. Yr oedd yn cynnyddu mewn ffafr gyda Duw a dynion. Dyma'r olwg geir gan Luc, mewn un adnod tèr, ar gymeriad yr Iesu pan yn blentyn gartref: yr oedd yn cynnyddu yn y tair golwg a grybwyllwyd; mewn "corffolaeth," mewn "doethineb," ac mewn "ffafr."

II. Crybwyllir yn y testun am ei DAITH i Jerusalem ar wyl y Pasg, gyda'i rieni, a mintai o Nazareth. Yr oedd Joseph a Mair yn hoff o ordinhadau crefydd; ac yn cynnal ymarferiadau crefyddol yn eu teulu. Ni sonir yma ond am un ganghen o'u crefydd, sef eu llafur yn myned i Jerusalem "bob blwyddyn" ar wyl y Pasg. Yr oedd y daith yn bell, yn ddeng milldir a thriugain; yr oedd eu hamgylchiadau yn isel; yr oedd eu gofalon teuluaidd yn lluosog. Buasai yn hawdd iddynt gael esgusodion i aros gartref; ond yr oeddynt yn ofalus i fyned i'r wyl "bob blwyddyn" trwy bob anhawsderau. Y mae hyny yn profi eu bod yn selog dros ordinhadau crefydd; eu bod yn fanwl gyda'u dyledswyddau teuluaidd a chyhoeddus; eu bod yn parchu crefydd yn eu calonau, a'u bod am ddwyn i fyny eu teulu yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Cyfeirir yma at eu taith pan aeth yr Iesu gyda hwy i'r wyl, dichon am y tro cyntaf. A chyda golwg ar ei fynediad ef gyda hwy, gallwn wneud tri sylw: yn

1. *Mai deuddeng mlwydd oed* oedd y pryd hyny. Dichon mai dyna yr oed arferol, yn ol deddfau yr eglwys Iuddewig, i dderbyn plant i gyflawn aelodaeth eglwysig. Yr oedd y gyfraith Iuddewig yn eu cydnabod yn yr oed hwnw fel rhai cymhwys gymundeb y saint, fel rhai wedi dyfod i oedran cyfrifoldeb, i allu barnu drostynt eu hunain, i allu deall egwyddorion duwioldeb ac amcan ordinhadau cymdeithasol crefydd; ac felly yr oeddynt yn cael y fraint o fyned i'r wyl, i wledda ar oen y Pasg, gyda'u rhieni a'u cyfeillion. Meddyliwn fod amcan pwysig mewn golwg gan Ysbryd Duw wrth grybwyll *oed* yr Iesu pan yr aeth gyntaf i fyny i'r wyl; ei fod am ddysgu i ni y gall plant deuddeg oed fod yn gymhwys i gymuno gydag eglwys y Testament Newydd: y gallant wybod digon am egwyddorion ac ordinhadau Cristionogaeth i fod yn gyflawn aelodau eglwysig; ac y dylent

gael eu hannog i broffesu crefydd, i fod ar enw Crist, ac i filwrio o blaid ei deyrnas. Dichon y gallai ambell un feddwl nad oedd o ddim pwys neillduol i gadw mewn cof drwy yr oesoedd, ac i gyhoeddi yn holl icithoedd y byd pa faint oedd *oed* yr Iesu pan yr aeth i fyny i Jerusalem ar wyl y Pasg; ond yr oedd Ysbryd Duw yn ystyried y crybwylliad yn un o'r pwys mwyaf i gael ei gyhoeddi yn holl Feiblau, ac o holl bulpudau y byd; oblegid ei fod am i blant ystyried ei bod yn llawn bryd iddynt broffesu crefydd, a bod yn nghymundeb yr eglwys pan yn ddeuddeng mlwydd oed; a'i fod am iddynt ymroddi at hyny os ydynt am ddilyn Crist; a'i fod hefyd am i'w rhieni, eu hathrawon, ac eglwysi, a'u gweinidogion, osod y peth at eu calon, a gwasgu y pwys o hyny yn y dull mwyaf difrifol at ystyriaeth y plant sydd dan eu gofal. Os oedd plant deuddeg oed yn gymhwys i gymundeb eglwysig dan yr Hen Destament, y mae yn amlwg y gall plant deuddeg oed fod yn gymhwys dan oruchwyliaeth oleuach y Testament Newydd. Nid ydym yn meddwl fod gwaharddiad yn holl gylch yr efengyl i blentyn *dan* ddeuddeg oed, os ceid ynddo arwyddion cariad at yr Iesu, ac awydd i ddysgu ganddo, i ddyfod at ei fwrdd ac i gymundeb ei saint. Pe byddai i ryw Ioan bychan *deg* oed ddyfod yn mlaen i ymgynnyg am aelodaeth eglwysig, gan ddweyd, "Yr wyf wedi dysgu darllen am Grist; ac yr wyf yn hoffi darllen am dano, a gweddïo arno, a chanu iddo, a meddwl am ei hanes, a chlywed am waith ei gariad; ac yr wyf yn ei garu, ac am ei gyffesu; ac am bwyso arno am fy mywyd, a rhoi fy hun iddo i weithio drosto; ac yr wyf am nesu at ei fwrdd i roddi fy llaw wrth seliau ei gyfammod; yr wyf am gymeryd y llw gyda'i fyddin i fod yn ffyddlawn i'w achos hyd angeu," nid ydym yn meddwl fod yr un tad duwiol, fod yr un fam grefyddol, brofiadol, fod yr un gweinidog i Grist, na'r un eglwys efengylaidd, na'r un swyddog ysbrydol mewn unrhyw eglwys, a roddai lais yn erbyn derbyniad y cyfryw blentyn. Pe byddai i ryw Fair fechan *naw* oed ddyfod yn mlaen gan ddweyd, "Yr wyf finnau, fel fy mrawd Ioan, am gael lle ac enw yn eglwys Crist; yr wyf am gymuno gyda'r saint er cof am dano; yr wyf am fwyta o'r bara ac yfed o'r cwpan er dangos ei farwolaeth; yr wyf am gymeryd ei iau ef arnaf, a dysgu ganddo; ac am lynu wrth ei draed hyd fy medd, ac am fod gyda'r teulu yn Salem bur oddeutu'r bwrdd; y mae fy nghalon yn toddi wrth gofio ei ruddfanau yn yr ardd, ac yr wyf am iddo gael fy nghalon a'm cân o hyn allan byth," nid ydym yn meddwl fod yr un Cristion o ddim profiad allai ddweyd wrth y Fair fechan hòno, Na, gwell i ti aros am rai blynyddoedd etto. Bydd yn ddigon buan i ti ddyfod pan

fyddi yn bymtheg oed; ond dywedai pob brawd a chwaer o deimlad ac o oleuni, "Pethau i'w *dysgu* yw pethau yr efengyl; pethau i'w *magu* yw teimladau duwiol; tyred yn mlaen, Mair fach, a gwnawn ddaioni i ti; cei help ein llaw, a rhan yn ein gweddi, a chyndeithas ein profiadau o edifeirwch ac o lawenydd; cymer dy le wrth y bwrdd gyda dy fam a'r teulu, gochel ddeniadau plant llygredig, parha i ddarllen hanes yr Iesu ac i weddïo arno; ac y mae efe wedi addaw bod gyda thi i'th dywys ac i'th gynnal hyd y diwedd.

2. Yr oedd yr Iesu yn myned yn *wirfoddol*, gyda llawenydd, o fodd ei galon, i'r wyl i gadw y Pasg er cof am waredigaethau yr Arglwydd. Nid o'i anfodd neu o orfod yr oedd yn myned. Nid codi gwrthddadleuon yr oedd yn erbyn myned, gan ddweyd wrth ei rieni, "Yr wyf yn rhy ieuanc etto, gwell i mi aros dan y llwyddyn nesaf; arosaf yn ol gartref am eleni gyda phlant fy modryb tra y byddwch chwi yn yr wyl. Y mae y ffordd i Jerusalem yn faith, byddaf yn fwy cryf i ddyfod gyda chwi yn nhen blwyddyn neu ddwy etto, ond byddai yn ormod i mi allu dyfod y tro yma." Nid oedd ganddo ddim gwrthddadleuon felly; ond yr oedd ei holl galon yn llawenhau wrth feddwl am y daith. Yr oedd yn gwybod y rheol, yn gwybod ei oed, ac yn gwybod am ddydd yr wyl; ac yr oedd yn llon ddweyd wrth ei fam a'i geraint, "Yr wyf wedi cyrhaedd deuddeg oed. Y mae'r wyl fawr i fod y mis nesaf; cawn fwyta y Pasg ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis; yr wyf finnau, yn ol y ddefod, i gael dyfod gyda chwi y tro yma; ac y mae yr adeg i gychwyn yn awr wrth y drws; caf finnau yr hyfrydwch o weled Jerusalem; ni bum ddim yno er pan y bum yno yn faban yn breichiau Simeon: y mae fy meddwl a'm calon yn parotoi at y daith ac at y wledd; da iawn genyf fod yr adeg wedi dyfod i minnau gael myned gyda chwi." Yr oedd wrth ei fodd yn rhagfyfyrio ar y daith, ac wrth barotoi i gael rhan o'r wledd. Dywedwn, fel cynhwysiad o'r sylw yma, nad oes dim a wneir o orfodaeth gyda chrefydd yn gymeradwy. Rhaid i bob rhan o'r gwasanaeth fod yn wirfoddol. Rhaid i'r canu, y gweddïo, y myfyrio, y cymuno, a'r cyfranu ddyfod o'r galon yn wirfoddol cyn y bydd yn dderbyniol gan yr Iesu.

3. Yr oedd yr Iesu wedi *parotoi ei feddwl a'i galon* er bwyta y Pasg mewn dull teilwng. Yr oedd yn cofio hanes ei sefydliad, ac yn deall amcan ei sefydliad, ac yn gyfarwydd â holl fanylion y drefn o gyfranogi o hono. Gwyddai am yr oen, am yr amser i'w ddal, am yr awr i'w ladd, am y dull o'i barotoi, am y bara croew a'r dail surion, ac am y tusw isop i roddi y gwaed ar y

ddau ystlysbost ac ar gapan y drws; a'r gwregysu y lwynau a'r bwyta ar ffrwst; ac am yr angel dinystriol yn myned heibio, a'r diogelwch dan arwydd y gwaed, pan oedd cyntafanedigion yr Aipht yn cael eu lladd; ac am y cychwyn o'r caethiwed dan nodded a than arweiniad yr Arglwydd; a bod y wledd wedi cael ei sefydlu er cofio am waredigaethau yr Arglwydd; am dosturiaethau ei galon, a nerth ei fraich, a'i ffyddlondeb i addewidion ei gyfammod. Yr oedd yr Iesu wedi clywed a darllen am y pethau hyn, ac wedi eu trysori yn ei gof, ac wedi meddwl llawer am danynt er parotoi ei galon i wledda ar yr oen mewn dull ac ysbryd teilwng. Yr oedd ei feddwl yn oleu yn yr holl hanes, a'i galon yn gynhes o ddiolchgarwch ac o gariad wrth adfyfyrio ar yr amgylchiadau. Pe buasid yn ei holi wrth gychwyn i'w daith am hyd y ffordd, am Jerusalem, am ymddangosiad y minteioedd yno, ac am drefn y Pasg, buasai yn medru ateb yn llawn ac yn eglur. Byddai yn werthfawr iawn i blant astudio esiampl yr Iesu yn y tri pheth a grybwyllwyd, sef yn *gyntaf*, dyfod i broffesu crefydd yn *gynnar*. Y mae yn llawn bryd iddynt ddyfod pan yn *ddeuddeg* oed. Ni chânt amser gwell. Ond os yw yr amser hyfryd a gobeithiol hyny wedi myned heibio, na oeder yn hŵy. Gwell dyfod yn bymtheg oed na dyfod pan yn bump ar hugain; gwell dyfod pan yn bump ar hugain na phan yn bump a deugain; gwell dyfod pan yn ddeg a deugain na dyfod pan yn ddeg a thriugain; ac os oes rhyw hen bererin pedwar ugain, ar fin ei fedd, yn gorfod dweyd ei fod heb erioed gofio am farwolaeth yr Iesu, ei fod heb erioed eistedd wrth ei fwrdd er cof am dano, mae yn gysur annhraethol fod awdurdod i gyhoeddi i hwnw fod digon o le iddo wrth y bwrdd, fod yr arlwy oreu ar ei gyfer, fod pob croesaw iddo eistedd i gyfranogi, ac y dylid ei *gymhell* i ddyfod yn mlaen ar unwaith cyn i'r drws gael ei gau: ond y mae yn annhraethol fraint i rai ddyfod i gymundeb teulu nawdd y gwaed pan yn ddeuddeg oed: a dyfod, yn *ail*, o'u bodd; a dyfod, yn *drydydd*, wedi rhagfyfyrio er parotoi eu calon at wasanaeth y wledd.

III. Adroddir yn y testun am Y TRO RHYFEDD a wnaeth y bachgen Iesu ar y daith hòno; sef gadael i'w rieni a mintai Nazareth gychwyn tuag adref hebddo ar ddiwedd yr wyl, gan aros ar ol yn Jerusalem heb yngan gair wrth ei fam, nac wrth neb o honynt, am ei fwriad i wneuthur hyny. Yr oedd tro felly yn dro rhyfedd iawn yn hanes bywyd un mor ufudd, mor addfwyn, ac mor ostyngedig a llawn o gariad. Pe buasai plentyn arall o'r oed hwnw yn gwneuthur tro felly dan y fath amgylchiadau, buasai ei ymddygiad yn feiadwy—yn hollol feiadwy.

Pe byddai plentyn deuddeg oed yn awr yn cael y fraint o fyned gyda'i rieni i wyl fawr yn mhrif ddinas ei wlad, a phe ciliai o'r neilldu ar ddiwedd yr wyl hòno, i aros ar ol heb yn wybod i'w rieni, byddai yn feiadwy, a haeddai gerydd; ond gwnaeth y bachgen Iesu dro felly, ac y mae yn cael ei goffàu, ond heb ei feio. Y mae tri holiad yn ymgynnyg i'r meddwl yn wyneb yr amgylchiad: yn

1. Pa fodd yr aeth y fintai, ac yn enwedig ei rieni, daith diwrnod tuag adref heb ddeall ei fod ar ol? Dywed ambell fam, Ni buaswn i byth yn cychwyn heb fod fy machgen gyda mi. Dywed un arall, Ni buaswn innau byth yn teithio trwy y dydd heb wybod rhywbeth o'i hanes. Yr oedd Mair mor dyner ac mor ofalus a mamau eraill, a dychwelodd daith diwrnod hebddo; ac y mae yn lled hawdd i ni ddeall pa fodd y bu. Yr oedd hi a Joseph yn "tybied ei fod yn y fintai." Dichon fod y fintai yn fawr, yn cynnwys llawer o deuluoedd o gymydogaethau Nazareth. Yr oedd dealltwriaeth ganddynt oll eu bod i gychwyn tuag adref boreu tranoeth yr wyl; a'u bod i gyfarfod o'r gwahanol fanau yr oeddynt yn llettya ar ffordd Nazareth ar yr awr benodedig; ac yr oedd yno rai yn fanwl at awr y cytundeb, yn awyddus i deithio yn mlaen cyn gwres y dydd. Y mae rhai yn ofalus iawn i gadw eu hamser i'r fynyd, ac y mae lîyny yn rhinwedd ag sydd o ennill ac o gysur mawr iddynt. Yr oedd yno eraill wedi cysgu yn hir, ac wedi esgeuluso parotoi eu sypynau y nos o'r blaen, ac wedi ymdroi gyda'u boreufwyd, nes eu bod awr ar ol yr amser cyn gallu cychwyn; yr oedd yno eraill, y dosbarth mwyaf afler a diog, ddwy awr ar ol eu hamser; yr oedd wedi wyth o'r gloch arnynt yn cyrhaedd penffordd Nazareth, ac yr oeddynt yn chwys mawr wrth gychwyn, tra yr oedd eu cymydogion prydlawn wedi teithio dwy awr yn y modd mwyaf deddwydd, difyr, a diludded. Nis gwyddom yn awr pa le yn y fintai yr oedd Joseph a Mair, pa un ai gyda'r teithwyr blaen, ai tua'r canol, ai yn mysg y dosbarth olaf. Os oeddynt gyda'r rhai blaenaf, yr oeddynt yn tybied fod yr Iesu yn dyfod ar ol gyda rhai o'u ceraint. Os oeddynt yn mysg y rhai olaf, yr oeddynt yn dweyd wrth eu gilydd, ac wrth eraill, Y mae y bachgen Iesu wedi cychwyn er's meityn gyda'r dosbarth blaen; yr oedd yn effro yn foreu, ac yr oedd yn barod i gychwyn gyda'r rhai blaenaf. Os tua'r canol yr oeddynt, dichon na fedrent ddim dweyd yn sicr pa un ai yn mlaen ai yn ol yr oedd, ond yn unig "ei fod yn y fintai." Pe buasid yn gofyn iddynt ar amser gorphwys i gael bwyd ganol dydd, Pa le y mae'r bachgen Iesu i gael lluniaeth? y mae angen bwyd arno erbyn hyn; buasent yn ateb yn ddibryder,

Caiff ef damaid gan rai o'n cymydogion. Y mae ef yn adnabod pawb o deuluoedd cylch Nazareth; ac y mae pawb yn ei adwaen yntau. Y mae yn bur gyfeillgar gyda'r plant a phawb. Ni raid i ni ddim gofalu; caiff ef damaid gyda rhai o honynt: ac felly teithiasant yn mlaen trwy y dydd, gan "dybied ei fod yn y fintai." Ond tua'r hwyr, dechreuodd Mair fod mewn pryder. Pan oeddynt wedi cyrhaedd i'r man yr oeddynt i lettya y nos gyntaf, a phan oedd teulu ar ol teulu yn dyfod i mewn i'r gwersyll, ac heb fod neb o honynt wedi gweled y bachgen Iesu trwy y dydd, nac yn gwybod dim pa le yr ydoedd, llanwyd Mair o bryder ac o drallod. Nid oedd wedi cael erioed y fath brofedigaeth o'r blaen. Er ei bod yn flinedig gan y daith, ni fedrai fyned i orphwys ac i gysgu; ac nid oedd ganddi flas at fwyd nac at ymddyddan. Yr oedd yn ofni fod ei hanwyl Iesu wedi darfod am dano. Trwy gamgymeriad felly y teithiasant trwy y dydd, heb feddwl ei fod yn aros ar ol.

2. Paham yr arosodd yr Iesu ar ol felly heb ddweyd gair wrth neb, ac yntau yn blentyn mor ufudd ac mor lawn o gariad? Paham yr achosodd y fath bryder i'w fam, ac yntau yn arfer bod mor ofalus am ei theimladau, ac mor awyddus i'w gwneud yn ddedwydd? Y mae yr holiad yma yn fwy dyrys braidd na'r cyntaf. Ai dyrysu a cholli'r ffordd, a chymeryd un heol yn lle y llall wrth gychwyn a wnaeth? Nage, yr oedd yr un mor graffus ac mor bwyllog i adwaen ac i gadw y ffordd a neb o'r fintai. Ai anghofio dyddiau yr wythnos a wnaeth; ac felly y boreu i gychwyn wedi dyfod yn gynt nag y meddyliodd, ac yntau yn ei gamgymeriad yn myned allan yn y boreu i roddi tro trwy y ddinas, gan feddwl mai dranoeth yr oeddynt i gychwyn, ac felly yn colli ei gymdeithion? Nage, nid oedd neb yn y fintai yn fanylach nag ef am gofio a chadw yr amser Ai rhedeg i'r deml a wnaeth cyn cychwyn i fwynhau yr awr weddi, ac i rai o'r hen weddïwyr gael hwyl ac ysbryd anarferol i weddïo dros eu gwlad a'u cenedl, ac iddo yntau wrth eu clywed fyned i'r un ysbryd a hwythau, ac felly anghofio yr awr i gychwyn tuag adref? Nage, yr oedd yr Iesu yn hoff o weddïo ac o glywed hen ffyddloniaid yn gweddïo; ond nid hwyl unrhyw gyfarfod gweddïo barodd iddo anghofio y boreu i gychwyn tuag adref. Ai myned i wrandaw ar y cantorion a'r cerddorion a wnaeth, er gallu dysgu yr anthem newydd oedd ganddynt, fel y gallai ei chanu gartref i blant Nazareth ar ei ddychweliad; ac wrth eu clywed yn y deml yn dyblu yr anthem, anghofio yr awr i gychwyn tuag adref? Nage, yr oedd yr Iesu yn hoffi caniadau Seion; ond nid hwyl y gân barodd iddo anghofio ei daith. Ai gwybod yr oedd fod

athrawon duwiol yn Jerusalem, rhai enwog am ddysgu pethau mawrion crefydd i rai ieuainc, a phenderfynu aros dan eu haddysg a wnaeth, yn lle dychwelyd at yr athrawon gwaelach oedd yn Nazareth? Nage, yr oedd yr Iesu yn sychedu am wybodaeth, ac yr oedd yn caru mwynhau moddion gwybodaeth, ac yn hoffi cymdeithas y rhai mwyaf profiadol a gwybodus; ond nid hyny yn benaf barodd iddo aros ar ol yn y dull y gwnaeth. Ai gweled yr oedd ei enaid ieuanc fod gwell maes iddo ddyfod yn ddefnyddiol yn Jerusalem nag oedd yn ngwlad Galilea? Nage, y mae yn wir fod ei galon dyner yn llosgi ynddo am gyfleusderau i weithio o blaid achos ei Dad; ond nid hyny yn benaf a barodd iddo aros ar ol fel y gwnaeth. Beth ynte oedd yr achos o'r fath ymddygiad? Yr oedd y tro yn un o'r rhai rhyfeddaf yn ei fywyd; beth oedd ei amcan? Yr oedd yn gwybod y buasai y fath ymddygiad yn peri gofid a phryder i'w fam ac i Joseph, ac yn peri cynhwrf yn mysg ei geraint a'i gydnabod, ac y byddai yn achosi llawer o ymddyddan ar ol hyny; ac yr oedd yn ewyllysio ac yn amcanu i hyny fod. Yr oedd yn gweled fod ei gydnabod wedi bron llwyr anghofio ei neges bwysig yn dyfod i'r byd, a'r gwaith mawr oedd ganddo i'w gyflawni; yr oedd yn gweled fod hyd yn nod ei anwyl fam wedi bron anghofio ymweliad a geiriau yr angel; a bod Joseph a Mair wedi myned i edrych arno fel ar blant eraill y gymydogaeth: ac yr oedd am achosi peth poen a phryder iddynt er mwyn ailargraffu yn eu calonau y dyben mawr o'i ddyfodiad i'r byd: yr oedd am i'w gydnabod gofio fod ganddo gymeriad gwahanol i'w gyfoedion, a bod ganddo waith pwysig i'w gyflawni. Os nid hyn oedd ei amcan, yr ydym yn methu deall beth oedd yn ei gymhell i ymddwyn fel y gwnaeth.

3. Pa fodd y treuliodd yr amser, a pha le y bu yn llettya y nosweithiau y bu yn Jerusalem heb ei rieni? Nid yw ddim o gymaint pwys i ni fedru ateb yn fanwl, gan fod yr holl hanes yn dysgu i ni ei fod ef gyda'r pethau a berthynent i waith ei Dad. Dichon iddo gerdded ei hunan dros afon Cedron i ardd Gethsemane, lle y bu wedi hyny yn gweddïo ddyfalach ddyfalach, a'i chwys fel defnynau gwaed yn disgyn ar y ddaear. Dichon iddo ddringo o'r ardd i fynydd yr Olewydd, lle y bu ar ol hyny yn wylo uwchben anwireddy ddinas. Dichon iddo fyned oddiyno i'r ochr arall i'r ddinas i le Calfaria, a'i fod yn sefyll yn y fan y safodd ei groes ar ol hyny. Mae'n debyg iddo dreulio rhan o'r amser yn ac oddeutu y deml a'i chynteddau, yn sylwi ar yr aberthu, ac yn tynu addysg a chysur i'w feddwl oddiwrth wasanaeth tŷ ei Dad. Ond pa le y bu yn *llettya* y nosweithiau hyny? Dichon na bu yn *llettya* mewn unrhyw *annedd;* ond ei fod yn

myfyrio, ac yn gweddïo y rhan fwyaf o oriau y nos yn rhyw ran o'r deml, neu yn rhai o'r llwybrau cysgodol o amgylch y ddinas. Meddyliem nad oedd ddim yn anhawdd iddo gael lletty. Yr oedd ei ymddyddanion a'i ymarweddiad wedi ennill sylw a serch llaweroedd yn ystod hyny o ddyddiau y bu yn y ddinas gyda'i rieni. Digon tebyg iddo aros i lettya yn y tŷ lle yr oeddynt hwy wedi bod yn llettya: a bod y teulu yn dweyd wrth eu gilydd, Y mae bachgen addfwyn Joseph a Mair, o Nazareth, wedi ei adael ar ol; ond y mae ei gymeriad mor hawddgar fel y byddai yn dda genym gael rhoddi lletty iddo nes y deuant yma y flwyddyn nesaf: gwnai ei ysbryd a'i ymddyddanion les annhraethol i'n plant ni. Na, meddai cymydoges, o'r tu arall i'r heol, yr ydych chwi wedi cael ei gymdeithas drwy ddyddiau yr wyl, gadewch iddo ddyfod i'n tŷ ni am un noson. Pan ddeallwyd yn y gymydogaeth fod y bachgen bach rhyfedd o Nazareth wedi cael ei adael ar ol, mewn rhyw gamgymeriad, yr oedd yno laweroedd, yn enwedig o *famau* ac o *blant*, am gael y fraint o'i groesawu. Yr oedd ei foes a'i eiriau mor ddeniadol nes ennill calon pawb oeddynt yn cael cyfle i'w weled a'i glywed, os byddai ganddynt ddim archwaeth at bethau crefydd.

IV. Y ganghen arall o'r hanes ydyw y LLE y cafwyd ef, ar ol y pryder yn ei gylch, a'r chwilio am dano. Ni raid i'w ganlynwyr ddim cywilyddio darllen, na dweyd, y *lle* y cafwyd ef. Mae'n hawdd i ni ddychymygu rhywfaint o deimladau ei fam pan lawn ddeallodd nad oedd ddim yn y fintai. Gallwn ddychymygu ei gweled yn troi yn ol mewn gofid, ac yn cerdded drwy oriau y nos i chwilio am dano; gan holi pob teithydd oedd yn gyfarfod a ydoedd ddim wedi gweled yn un man fachgen deuddeg oed, wedi colli ei rieni: neu a oedd ddim wedi clywed am un felly wrth gychwyn o'r ddinas? Ar ol colli plentyn felly, un o'r gofyniadau cyntaf gan bawb, ar ol ei gael, fyddai, Pa *le* y cafwyd ef? Collwyd y plentyn Iesu am dridiau; pa le y cafwyd *ef*? Ai wedi ymollwng i gysgu yn ei flinder ar ochr y ffordd wrth geisio dal ei fam a'r fintai? Nage. Ai wedi troi i ardd, neu winllan, neu berllan i gael ychydig o ryw ffrwythau i'w ddisychedu? Nage. Aeth ei rieni yn ol bob cam i'r ddinas, gan holi yn mhob man y caent gyfle, ond heb ei gael ar hyd y ffordd. Pa le yn y ddinas y cafwyd ef? Ai gwibio o heol i heol i edrych ar deganau, neu i weled rhyfeddodau, ac i chwilio am ddifyrwch? Nage. Ai wedi ei lithio gan icuenctyd gwylltion llygredig y ddinas i ystafelloedd cyfeddach ac oferedd yr oedd? Nage. Ai wedi dringo un o'r pinaclau yr ydoedd, er gweled gwychder a gogoniant y ddinas? Nage. Ai yn y lletty yr oedd, yn y gwely,

neu wrth y bwrdd? Nage. Ai mewn *dalfa* yr oedd gan swyddwyr y ddinas am droseddu rhai o ddeddfau yr wyl? Nage. Buasai hyny yn dòriad calon i'w fam. Ai yn y deml yr oedd? Ië. Ond yn *mha le* yno? Yr oedd y deml a'i chynteddau yn fawrion. Ai wrth fwrdd y "cyfnewidwyr arian" yr oedd, yn edrych arnynt yn trafod yr aur a'r arian o bob parth o'r wlad? Nage. Ai ar gyfer cawell y cywion colomenod yr oedd, yn edrych ar eu llygaid tyner, a'u lliwiau tlysion, ac yn gofidio wrth eu clywed yn trydar, eu bod mewn dalfa, i gael eu lladd am gamwedd dyn? Nage. Nid yno yr oedd, er y buasai yn ddigon naturiol ei weled yno. Ai yn nghorlan yr ŵyn yr oedd, wedi dringo drosodd atynt, ac yn gosod ei law ar ben yr oen, ac yn tynu ei fysedd bychain drwy *curls* ei wlan, ac yn wylo wrth feddwl fod yr oen diniwaid i waedu y dydd hwnw am drosedd dyn? Nage; nid yno yr oedd; er na buasai ddim yn anhyfryd ei weled yno yn colli dagrau i lygaid yr oen bach. Ond yr oedd mewn lle gwell. Yr oedd yn y rhan hòno o'r deml lle yr oedd yr athrawon penaf yn eistedd i esbonio pethau mawrion cyfraith yr Arglwydd, a lle yr oeddynt yn egwyddori ieuenctyd yn athrawiaethau a dyledswyddau crefydd. Yno yr oedd yr Iesu, yn eu canol, yn eistedd, nid ar fainc uchel, fel un o ddoctoriaid y deml, ond fel *plentyn*, gyda'r plant, wrth eu stol draed; yn gwrando arnynt, ac yn eu holi hwynt, nes oedd pawb yn synu at ei ddeall ef a'i atebion. Yr oedd holiadau y bachgen Iesu, a'i atebion, wedi gwneuthur cynnadledd y doctoriaid yn boblog iawn y boreu hwnw, fel yr oedd yn anhawdd i Mair allu ymwthio yn mlaen drwy y dorf i weled pwy blant oedd yno yn y "canol." Diammheu ei bod yn sisial mewn pryder wrth Joseph ei bod yn gobeithio fod yr Iesu yno; nas gwyddai pa le i'w geisio yn mhellach os nad oedd yno; ac wrth glywed llais ei gofid, a gweled ei gwedd bryderus, yr oedd pob dyn ystyriol yn ymwasgu o'r neilldu er iddi allu ymwthio yn mlaen i weled pwy oedd yn y canol. O'r diwedd dyna hi yn dweyd yn gynhyrfus, Dyna ei *lais* yn ateb. Diolch i drugaredd, y mae yma tua'r "canol." Ymwthiodd rhagddi, ac o'r diwedd dacw hi yn ei *weled;* a dacw lygad yr Iesu a llygad ei fam yn cyfarfod eu gilydd: a dyna'r fam, gan gynhwrf teimlad, yn tòri allan bron ar draws cynnadledd y doctoriaid, mewn llais ceryddol—"Fy mab, paham y gwnaethost felly â ni? Wele, dy dad a minnau yn ofidus a'th geisiasom di." Yr oedd ei chalon yn fwy na llawn o *gymysg* deimladau; ond nis medrai ddefnyddio iaith lem cerydd uniongyrchol, oblegid ei bod yn gwybod cymaint am ysbryd ufudd ac addfwyn a thyner ei mab. Nid aeth yr Iesu i lunio esgusodion yn y dull sydd ry gyffredin yn mysg plant pan

allan o'u llc. Megys, Anghofiais yr awr yr oeddwn i gychwyn; neu, Collais y ffordd yn y croesheolydd; neu, Yr oeddwn yn meddwl brysio ar eich ol yn union; neu, Denwyd fi i aros gan rai o deulu y deml; neu, Yr oeddwn yn teimlo yn glaf a llesg y boreu yr oeddid i gychwyn; ond gan edrych yn serchog a difrifol yn wyneb ei fam, atebodd, "Oni wyddech fod yn rhaid i mi fod yn nghylch y pethau a berthyn i'm Tad?" Fel pe dywedasai wrth ei *fam*, Oni wyddech *chwi* yn anad neb? Gwyddech *chwi* am dystiolaethau yr angel am danaf cyn fy ngeni. Gwyddech *chwi* am gân y llu nefol ar adeg fy ngenedigaeth. Gwyddech *chwi* am y seren arweiniodd y doethion o'r dwyrain i'n cyfarch a'n hanrhegu pan oeddwn yn faban yn y preseb. Gwyddech *chwi* am y geiriau daenwyd gan y bugeiliaid drwy holl gylchoedd Bethlehem, y geiriau oedd yr angel wedi ddywedyd wrthynt. Gwyddech *chwi* am ymweliad yr hen Simeon dduwiol â'r deml, ychydig cyn ei farw, i'm cymeryd yn ei freichiau; ac am y geiriau o lawenydd a draethodd. Clywsoch *chwi* Anna y brophwydes, yr hon oedd oedranus iawn, ac yn aros i addoli yn y deml ddydd a nos, yn codi ei llais bloesg crynedig i foliannu yr Arglwydd am gael fy ngweled. Buoch *chwi* yn "rhyfeddu" yn eich calon am yr holl bethau a ddywedwyd am danaf: ac oni wyddech *chwi* fod yn rhaid i mi fod yn nghylch y pethau a berthyn i'm Tad? Nid oedd gan ei fam ddim i ateb iddo. Prin yr oedd yn deall ei eiriau, ond "cadwodd hwy yn ei chalon." Gallasid dysgwyl i'r fam, yn y teimlad yr oedd ynddo, gynnyg mwy o eiriau cerydd; ond nis medrai. Yr oedd ei chalon yn caru yr Iesu, ac yr oedd yntau yn caru ysbryd ei fam. Gallasid dysgwyl y buasai yntau yn dadleu dros gael aros yn Jerusalem; y buasai yn dweyd—"Yr wyf fi am aros yma yn Jerusalem, dinas Dafydd. Dyma'r lle yr hoffwn aros, heb fyned allan o'r deml ddydd na nos. Dyma'r fan i mi astudio ac addoli, a pharotoi at fy ngwaith mawr. Cawn yma gyfeillach athrawon penaf ein cenedl, a chyfleusderau i wrando arnynt, ac i'w holi, er fy addysg. Cawn yma gefnogiad i wasanaethu Duw mewn ymprydiau a gweddïau yn wastadol. Synagog wael, a moddion gwaelach na hyny, sydd yn Nazareth. Nid oes, ac ni bu, mewn un man, athrawon mwy diysbryd, a dilafur, a diddawn nag sydd yn Nazareth. Nid wyf fi ddim am ddychwelyd yno byth mwy; arosaf yma o hyn allan gyda doctoriaid y deml. Byddai yn hawdd i mi gael lle a braint yma fel efrydydd a dysgybl iddynt." Ai fel hyn y dadleuodd yr Iesu dros ei ymddygiad? Nage; cofiodd mai *plentyn* ydoedd, dan oed; a bod rhwymau arno fel y cyfryw i anrhydeddu ei rieni, ac i ufuddhau i'w hewyllys. Yr oedd yn hawdd deall oddiwrth

lygad ei fam, mai ewyllys ei chalon hi oedd iddo ddychwelyd gyda hwy i Nazareth; a phlygodd ar unwaith i'w dymuniad. Gafaelodd yn ei *gap* bychan, ac estynodd ei law i law ei fam, ac aeth allan gyda hi o gyfeillach y doctoriaid; a dychwelodd yn siriol gyda'i rieni i Nazareth; "A bu yn ostyngedig iddynt:" ac arosodd gyda hwy ar ol hyny am ddeunaw mlynedd, nes dyfod yr amser iddo ddechreu ar ei weinidogaeth gyhoeddus.

Mae yr hanes yma am yr Iesu yn perthyn yn arbenigol i *blant*. Byddai yn fuddiol iddynt astudio ei gymeriad a'i esiampl pan yn blentyn. Byddai hyny yn sicr o fod yn gysur ac yn anrhydedd iddynt. Os byddant am fod yn debyg i'r Iesu, rhaid iddynt ymestyn at *bedwar* o bethau: Anrhydeddu eu rhieni—llafurio am addysg—proffesu crefydd yn foreu—a bod yn ostyngedig. Bu yr Iesu yn barchus iawn o'i rieni, gan blygu yn siriol i'w hewyllys: llafuriodd yn ddiwyd iawn am wybodaeth yn yr ymarferiad o bob moddion oedd yn ei gyrhaedd; ymroddodd yn gyhoeddus i gymundeb yr eglwys pan yn ddeuddeg oed; gan deithio o Nazareth i Jerusalem er cyfranogi o swper y Pasg: a bu yn "ostyngedig" pan yn ffafr, ac yn cael canmoliaeth ei gymydogion; a phan oedd athrawon y deml yn synu o herwydd ei ddeall ef a'i atebion.

Gallai fod yn fuddiol i *rieni* hefyd i astudio ysbryd ac esiampl Joseph a Mair. Yr oeddynt, er fod eu hamgylchiadau yn isel, yn rhieni tyner a gofalus. Nid ydym am ddyrchafu Mair, fel y gwna rhai, i lenwi *swyddau cyfryngol* o flaen gorsedd y nef. Cafodd fraint oruchel, cael bod yn fam i Dywysog y bywyd; ac yr oedd ei henaid yn mawrhau yr Arglwydd am y gras a gafodd. Nid ydym yn edrych arni fel brenhines y nefoedd; ond yr oedd yn *fam* enwog, yn un dduwiol ei hysbryd, daer ei gweddi, ac yn un fedrus a ffyddlon i addysgu ei theulu yn ffyrdd y nef. Ond cael *manau* yn debyg i Mair, a chael *plant* i ddilyn esiampl y plentyn Iesu, llenwid y wlad a'r byd o deuluoedd dedwydd.

ERNES YR ETIFEDDIAETH.

"Yr hwn yw ernes ein hetifeddiaeth ni, hyd bryniad y pwrcas, i fawl ei ogoniant ef."—Eph. i. 14.

Y MAE rhoddiad ernes gan un blaid, a derbyniad ernes gan blaid arall, yn arwydd fod cyfammod wedi cael ei wneud rhyngddynt, ac yn gadarnhad o'u cytundeb. Y mae ernes yn wystl i'r derbynydd o'i hawl yn ol cytundeb i ryw ddaioni ychwanegol. Y mae yr ernes yn gyffredin o'r un natur, er yn llai o werth, na'r

daioni dysgwyliedig. Anfynych iawn y mae yr ernes yn gymaint, neu yn gydwerth â'r cyflog; byddai yn anghyson i son am ernes mor fawr a'r etifeddiaeth. Y mae gweision yr Iesu, saint Duw, yn cael yn y byd yma ernes o'r etifeddiaeth fawr a gânt yn y nefoedd. Byddai yn naturiol i ni ystyried yn

I. BETH YW YR ERNES? Beth yw yr elfenau neu y defnyddiau sydd yn ei chyfansoddi? Gellid ateb mewn gair, mai dylanwadau yr Ysbryd yn yr enaid ydyw. Y mae bod yr ernes o'r un natur a'r etifeddiaeth yn gynnorthwy i ni ddeall beth ydyw.

1. Y mae *gwybodaeth* o bethau ysbrydol yn un o elfenau yr ernes. Y mae gwlad yr etifeddiaeth yn wlad o oleuni a gwybodaeth. Myfyrio a chasglu gwybodaeth ydyw rhan fawr o waith ac o fwynhad y nefoedd. Testunau eu myfyrdod a'u hymchwiliad yno fydd cymeriad Duw, a'i lywodraeth, a'i ragluniaeth; eangder ei greadigaeth; golud ei iachawdwriaeth; hanes cyfryngdod Iesu, a goruchwyliaethau ei drugaredd; hanes cwymp dyn, a'r ffordd i'w godi; a'u hanes eu hunain, a'r gobeithion sydd o'u blaen. Moddion magwraeth a chynnydd eu gwybodaeth fydd eu cymdeithas â'u gilydd, ac esboniadau yr Iesu; a'u meddyliau yn cael blas i fyfyrio ar yr oll a welant ac a glywant: ac felly y mae syched ac ymdrech am wybodaeth yn ernes i'r credadyn o'r etifeddiaeth yn y nef, lle y bydd gwybodaeth yn un o elfenau ei hyfrydwch.

2. Y mae *santeiddrwydd* yn un arall o elfenau yr ernes. Gwlad y purdeb ydyw gwlad yr etifeddiaeth. Nid aeth, ac nid â dim aflan i mewn yno. Nid oes yno yr un angel ansantaidd, na'r un sant ansantaidd. Nid oes yno na meddwl, na gair, na chân, na chyfeillach, nac ordinhad, nac unrhyw deimlad, nac ymddygiad ansantaidd. Mae arogl santeiddrwydd ar holl flodau a holl ffrwythau y baradwys hòno. Y mae argraff santeiddrwydd ar holl byrth a magwyrydd y ddinas hòno, ar holl ddodrefn ei thrigfanau, ac ar goronau ac addurn ei phreswylwyr. Mae sain santeiddrwydd yn holl beroriaeth telynau y byd gogoneddus hwnw. Santeiddrwydd ydyw yr arogldarth pur sy'n llenwi y cysegr hardd sydd tu fewn i'r llen. Felly, lle y mae enaid ar y ddaear yn caru santeiddrwydd, yn ymestyn at santeiddrwydd, yn diwyd ddefnyddio y moddion i santeiddio, ac yn hiraethu am fod yn bur, y mae gan yr enaid hwnw yn ei feddiant ernes o etifeddiaeth y nef.

3. Y mae *cariad* yn un o brif elfenau yr ernes. Cariad ydyw awyr y nefoedd, a rhwymyn eu cymdeithas yno, a melusder eu gwleddoedd. Cariad sy'n cyflymu edyn angylion i ehedeg ar eu negesau pwysig. Cariad sy'n tanio mynwesau seraphiaid a

saint i ganmol y Gwaredwr. Cariad sy'n chwareu tannau y telynau yno. Cariad at eu Duw a'i holl drefniadau: cariad at Grist a holl waith ei gyfryngdod: cariad at yr Ysbryd a'i holl ddylanwadau santeiddiol: cariad at eu gilydd—angylion yn caru y saint, a'r saint yn caru angylion—cariad pur yn eu cymhell i gydaddoli, ac i gydlawenhau: a phe byddai mwy o'r cariad hwnw yn llywodraethu yn mynwesau y saint ar y ddaear, byddai ganddynt gryfach ernes o'u hetifeddiaeth; a byddai eglwys y ddaear yn fwy tebyg i eglwys y nef. Yn mha fynwes bynag y mae cariad yn tòri allan mewn dymuniad da i eraill; mewn gweud cymwynasau i eraill; mewn ymdrech am achub eraill; mewn addfwynder yn wyneb profedigaethau oddiwrth eraill; mewn maddeugarwch a chydymdeimlad; pa le bynag y mae cariad yn gwresogi, ac yn tyneru, ac yn eangu, ac yn puro y galon er dwyn ffrwyth i Dduw ac i ddynion, y mae yn y galon hòno ernes o'r nef.

4. Y mae *ffydd* hefyd yn un o elfenau penaf yr ernes. Y mae ffydd mewn llawn a bywiog weithrediad yn y nefoedd. Y mae eu ffydd yno weithiau yn edrych *yn ol* i gael addysg: yn edrych yn ol dros hanes ein rhieni cyntaf yn Eden; a symudiad Enoch i'r nefoedd; a hanes Noah a'r diluw; a hanes y daith ryfedd drwy'r Môr Coch, a'r olygfa ryfedd ar ben Sinai, a buddugoliaeth pen Carmel, a'r fuddugoliaeth anfeidrol bwysicach ar Galfaria, a thros egnïadau yr eglwys mewn oesau o erledigaeth, a'i chynnydd er pob gwrthwynebiadau. Ac y mae eu ffydd weithiau yn y nef yn edrych *yn mlaen* at fuddugoliaethau yr eglwys yn y mil blynyddoedd, ac at brynedigaeth y corff, ac at y "cyfarfod oll yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw," ac at arddangosiadau y dydd mawr, a'r orymdaith hardd i'r ddinas, a'r mwyniant ar ol hyny sydd mewn addewid, a'r dadguddiedigaethau newyddion a geir yn y nef, o wyl i wyl, ac o gymanfa i gymanfa. Felly rhan, a rhan fawr bwysig iawn, o ernes yr etifeddiaeth ydyw *ffydd*. Ffydd yn sugno cynnaliaeth o'r byd anweledig, nes diddyfnu yr enaid oddiwrth fronau amser. Ffydd yn syllu ar wrthddrychau byd y gogoniant nes anghofio teganau y ddaear. Ffydd yn estyn ei llaw at ffrwythau melusion ac iachusol pren y bywyd, nes gallu dibrisio aeron afiach llygredd, a blodau hudol y llawr. Ffydd yn gallu ymnerthu yn nghadernid gallu Duw, nes gallu gorchfygu y byd, a sathru Satan a'i lengoedd dan draed. Ffydd yn gallu ymgodi ar edyn myfyrdod i awyr angylion, i swn telynau y nef, uwch cyrhaedd swn dwndwr y byd, a mwg a tharth ei lygredigaethau a'i derfysgoedd. Y mae ffydd gref fywiog felly yn ernes o'r nefoedd.

5. Y mae *llawenydd* yn rhan o'r ernes. Gwlad y llawenydd ydyw y nefoedd; y mae yno ddigonolrwydd o lawenydd, a digrifwch yn oes oesoedd. Y maent yno wedi goddiweddyd llawenydd a hyfrydwch, a phob cystudd a galar, a gofid a gruddfan, wedi ffoi ymaith. Sychwyd ymaith bob deigr oddiwrth eu llygaid hwynt. Ni bydd yno mwyach na thristwch, na llefain, na phoen. Bydd pob trymder wedi ei ymlid o'r galon; a bydd awelon llawenydd yn chwareu ar bob wyneb, a ffrydiau o lawenydd yn llifo ar bob llaw. Bydd pob peth yno yn cryfhau eu llawenydd, eu gwybodaeth, eu purdeb, eu cariad, eu ffydd, eu gobaith, eu lle, eu gwaith, eu hadolygon, eu rhagolygon, eu cyndeithion, ac yn benaf oll wedd wyneb y Gwaredwr. Y mae modd i gael rhan, neu flaen-brawf o'r llawenydd hyny ar y ddaear; ac y mae gradd o'r fath lawenydd yn ernes ac yn brawf i'r cnaid fod mwy yn ol. Dyma rai o ddefnyddiau yr ernes. Gellid gofyn yn

II. Paham y mae Duw wedi TREFNU i roddi i'w blant yn y byd yma ernes o'u hetifeddiaeth fawr ddiderfyn yn y nefoedd?

1. Er eu dysgu i iawn brisio etifeddiaethau daear. Pe gofynid pa fodd y dysgodd Moses farnu dirmyg Crist yn fwy golud na holl drysorau yr Aipht; gellid ateb mai trwy ei fod wedi derbyn ernes o'r nefoedd. Pe gofynid pa fodd yr oedd rhai o'r patriarchiaid mor ddedwydd pan nad oedd ganddynt na dinas, na chymaint a lled troed o etifeddiaeth ar y ddaear; gellid ateb fod ganddynt ernes o etifeddiaeth mewn gwlad well, a'u bod yn dysgwyl am ddinas ag iddi sylfeini cadarnach na sylfeini y ddaear. Y mae ernes o'r nefoedd wedi dysgu rhai i edrych ar holl brif ogoniant y byd yma fel gwagedd; i edrych ar deyrnwiail a choronau fel teganau, ar balasau o farmor fel pebyll o glai, ar yr etifeddiaethau mwyaf paradwysaidd fel dim ond lle iddynt lettya am noson, neu ymdroi ychydig i gael eu hanadl wrth fyned heibio; ac i gyfrif pob elw a mawredd daearol yn dom ac yn golled pan ar y ffordd iddynt ennill Crist.

2. Er eu cynnal dan orthrymderau y byd. Y mae yr ernes yma wedi nerthu a chynhyrfu llawer oedd i ganu mewn tlodi ac mewn cystudd, mewn unigedd ac ar grwydr, pan dan lafur caled y gorthrymydd, a phan yn y carchar nesaf i mewn, pan dan y fflangell ac yn y tân. Os darllenir hanes Abel a Job, Dafydd a Daniel, Paul ac Ioan, a'r rhan fwyaf o enwogion yr unfed bennod ar ddeg o'r Hebreaid, ac ardderchog lu y merthyron, a llawer credadyn yn ein dyddiau ni, ceir gweled fod yr ernes yma, nid yn unig yn eu gwneud yn ddyoddefgar ac yn dawel yn eu holl gystuddiau a'u trallodion, ond yn eu galluogi i ddweyd—"Ein

byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol, yn gweithredu tragwyddol bwys gogoniant i ni." Ac i gyfrif "nad yw dyodd cfiadau yr amser presenol hwn yn haeddu cu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir i ni:" ac i ganu—

"Os yw ein rhan tra ar y llawr,
Mewn cystudd mawr yn dygwydd,
Fe chwâl y nos, cawn awyr glir,
A boreu o wir lawenydd.

O nerth i nerth awn oll fel hyn,
Nes gorphen glyn trallodion;
Ac uno a'r côr sy'n llawenhau,
Ar nefol fryniau Seion.

Cawn yno rodio glânau clir,
Hen afon bur y bywyd,
A drachtio'i dyfroedd dibrin da,
Mewn hirfaith dragwyddolfyd."

"Fry ar flodeuog wyrddlas fryn,
Ein henaid blin gaiff eiste'i lawr;
A chyfri 'n llawen y pryd hyn,
Ein teithiau drwy 'r anialwch mawr."

3. Er eu galluogi i ddangos i'r byd fod crefydd yn werth ei cheisio. Y mae gweled y credadyn yn dangos yr ernes sydd ganddo o'i etifeddiaeth, ac yn cannoi y mwynhad o'i ernes, ac yn gorfoleddu mewn gorthrymderau yn ei ernes, ac yn tystio na werthai mo'i ernes am holl drysorau y ddaear, lawer tro wedi dirymu gwrthddadl yr anffyddiwr, a dystewi gogan y cablwr; ac wedi dychrynu yr erlidiwr mwyaf creulawn i orfod cyfaddef fod cysuron o'r gwerth mwyaf mewn crefydd; ac wedi ennill miloedd o rai oeddynt yn cloffi rhwng dau feddwl i benderfynu derbyn cynnygion y Gwaredwr, ac ymroddi i'w wasanaeth, a chymeryd ernes ganddo i'w calonogi yn y llafur nes derbyn y wobr.

4. Er sefydlu eu meddwl yn fwy diysgog ar yr etifeddiaeth, ac er eu parotoi i'r mwynhad o honi. Y mae yn wir fod ambell un, megys y lleidr ar y groes, wedi cael eu codi i'r nefoedd bron newydd iddynt dderbyn yr ernes; ac y mae yn wir hefyd fod llawer oedd o fabanod yn cael eu cymeryd i wynfyd y nef heb gael ernes erioed; ond trefn gyffredin yr Arglwydd tuag at rai mewn oed a synwyr ydyw, eu galw i'w wasanaeth, a rhoddi ernes iddynt o'r wobr; am fod defnyddio yr ernes nid yn unig yn gwroli yr enaid yn y gwasanaeth, ond yn ei addfedu i'r orphwysfa. Y mae yr ernes yn rhoddi blas i'r credadyn feddwl am yr etifeddiaeth. Y mae y defnyn geir yma yn magu syched am y môr geir yno. Y mae y briwsion geir yma yn magu archwaeth at y gwleddoedd llawnion fydd yno. Y mae llafur i feithrin gwybodaeth, a phurdeb, a chariad, a ffydd, a llawenydd ar y ddaear, yn cymhwyso yr enaid i gyfranogi o'r gwynfyd sydd yn nghadw iddo yn y nefoedd.

III. Awgryma y testun DROS BA HYD y bydd raid i'r credadyn fyw ar yr ernes; sef, hyd amser "pryniad y pwrcas." Y mae yn amlwg fod yr adeg sydd mewn golwg etto *yn mlaen*, ac mai peth heb gymeryd lle ydyw "pryniad y pwrcas." Y mae

plant anwylaf ac enwocaf Duw etto heb eu perffeithio. Dichon mai y rhai mwyaf perffeithiedig yno ydyw Enoch ac Elias, a'r saint a gyfodasant o'u beddau ar ol adgyfodiad Crist; ond y mae hyd yn nod y cyfryw yn edrych *yn mlaen* am amser "pryniad y pwrcas." Y mae y corff ar ol yn y bedd oer diwaith gan y rhan fwyaf o deulu y nef. Y mae cyfeillion etto ar ol gan bawb sydd yno. Y mae brodyr iddynt dan eu hoed yn myd y llygredd a'r llafur, a miloedd o'u cydetifeddion etto heb eu geni. Y maent, gan hyny, oll yn hiraethu am "bryniad y pwrcas." Pa bryd y bydd hyny?

1. Pan y bydd yr Iesu, eu rhagflaenor, wedi gorphen parotoi eu trigfanau, ac wedi cyflawn hardd-drefnu eu hetifeddiaeth.

2. Yn amser prynedigaeth y corff, a'u cyflawn ryddhad gyrff ac eneidiau oddiwrth bob llesgedd a llygredd, a phob peth attaliol i'w dedwyddwch a'u cynnydd.

3. Amser eu cyfarfyddiad oll gyda'u gilydd, a'u harddangosiad oll mewn gogoniant a bri anfarwol, fel gwaredigion, ac fel buddugoliaethwyr i'r Tad, ac i angylion, i'w gelynion, ac iddynt eu hunain, ac i'w gilydd.

4. Amser eu hymdaith yn dorf hardd ddirif, ar hyd ffordd eu Brenin, dros fryniau blodeuog anfarwoldeb, i mewn drwy y pyrth, i gymeryd meddiant rheolaidd o wlad eu hetifeddiaeth.

IV. Dywed y testun Y TUEDDA Y CYFAN "i fawl ei ogoniant ef."

1. *Ef*—y Tad tragwyddol, y Llywydd cyffredinol, Iesu Grist y Cyfryngwr, Awdwr yr Iawn a'r iachawdwriaeth, a Glan Ysbryd yr addewid, y Dyddanydd a'r Santeiddydd.

2. I fawl ei *ogoniant* ef: nid yn unig i fawl ei ddoethineb ef, neu ei allu ef, neu ei ffyddlondeb ef, neu ei gariad ef, ond i fawl ei "*ogoniant*" ef, gogoniant ei holl briodoleddau, ei holl waith, a'i holl gymeriad. Bydd personau a phriodoliaethau a holl drefniadau y Duwdod yn cyd-ddysgleirio mewn "gogoniant" yn y drefn fawr i gadw a chodi pechadur.

3. I *fawl* ei ogoniant ef: nid yn unig bydd ef byth yn ogoneddus, ond bydd ei ogoniant yn cael ei weled a'i *foli*. Bydd holl dafodau y gwaredigion yn canmol gogoniant rhyfeddol ei ras ef. Bydd holl delynau y nefoedd yn canu "*mawl* ei ogoniant ef." Bydd holl ddoniau y nefoedd yn gymhes ar waith yn dadgan "*mawl* ei ogoniant ef."

4. Bydd y cyfan oll o'r drefn fawr i gadw dyn yn terfynu er mawl ei ogoniant ef. Parotoi a chyfoethogi a threfnu yr etifeddiaeth, cynllunio ac agor y ffordd i'w chyrhaedd, ei dadguddio, a'i chynnyg; denu yr enaid i edrych arni ac i'w chwennychu, rhoddi

yr ernes iddo, ei dywys a'i gynnal ar hyd ffordd y bywyd; ei nerthu at bob gwasanaeth, ei gymhwyso i'r etifeddiaeth, a'i ddwyn yn ddiogel i'r mwynhad o honi; bydd y cyfan oll o dreſn fawr gras, o'i dechreu i'w diwedd, o'i chychwyniad i'w pherffeithiad, yn cydweithio oll drwyddi i "fawl ei ogoniant ef."

CYMHWYSIAD.

Y penaf a'r blaenaf peth i ni geisio ydyw yr ernes yma o'r etifeddiaeth sydd i'w chael yn y nefoedd. Goreu i ni po gyntaf a pho daeraf y ceisiwn yr ernes. Ceisiwn hi o flaen y golud, y parch, a'r llawenydd penaf a feld y byd.

Byddai yn ddoethineb i ni hefyd geisio ernes *fawr*. Y mae un fawr i'w chael, a gwell gan Dduw roddi un fawr nac un fechan. Bydd un fawr, gref, ac eglur yn debyg o fod o fwy o gysur i ni, ac o fwy o les i'r byd, ac o fwy o gynnaliaeth erbyn amser cystudd ac awr marwolaeth, nag ernes fechan aneglur. Bydd maint a gogoniant yr etifeddiaeth a geir fry yn debyg o gyfateb i faint yr ernes fydd genym ar y ddaear.

Nid yw yr oll a geir yma ond *ernes*. Y mae yr etifeddiaeth yn cael ei chadw yn y nefoedd hyd amser pryniad y pwrcas. Y mae modd i Gristion gael yma gymaint o ernes ag a all gynnal a defnyddio ar ei daith, eithr ni chafodd y sant gloewaf yma ond ernes; nid oes yr un galon all ddychymygu beth fydd maint a gwerth yr etifeddiaeth.

Os ceir ernes yma, byddys yn *sicr* o gael yr etifeddiaeth, oblegid nid yw Duw byth yn tòri ei gyfammod.

Y mae gan yr annuwiol ei ernes, ond ernes ydyw o gyflog ofnadwy. Digofaint diddiwedd fydd ei drysor ef; tlodi tragwyddol fydd rhan ei etifeddiaeth; ond y mae yn gyfreithlawn iddo yn awr roddi ernes marwolaeth yn ol, a cheisio yn ei lle ernes bywyd tragwyddol.

TESTAMENT CRIST.

"Canys wedi marw dynion, y mae testament mewn grym: oblegid nid oes etto nerth ynddo tra fyddo y testamentwr yn fyw."—Heb. ix. 17.

Y MAE dau ystyr i'r gair *testament*. Y mae weithiau yn arwyddo *cyfammod* rhwng dwyblaid. Os dyna'r ystyr oedd i'r gair gan Paul yn yr adnod yma, yr oedd yn gosod allan efengyl yr iachawdwriaeth fel cyfammod rhwng dwyblaid, sef rhwng Duw—y Llywydd uniawn, â dyn euog, fel deiliad ei lywodraeth;

a Iesu Grist yn Gyfryngwr rhwng y ddwyblaid, ac wedi "marw" er i'r cyfammod fod "mewn grym." Ac os hyny yw yr ystyr, y mae yr adnod i'w darllen neu i'w deall fel y canlyn:—"Canys wedi marw yr *aberth* y mae y *cyfammod* mewn grym; oblegid nid oes etto nerth ynddo tra fyddo yr aberth yn fyw."

Ond mewn ystyr fwy cyffredin, y mae y gair *testament* yn arwyddo ewyllys diweddaf un gyda golwg ar ddosbarthiad ei eiddo rhwng ei geraint a'i gyfeillion ar ol dydd ei farwolaeth. Ac wrth sylwi ar yr adnod y tro hwn, cawn gymeryd y gair yn yr ystyr hwnw, fel yn gosod allan ewyllys grasol yr Arglwydd Iesu gyda golwg ar raniad goludoedd ei iachawdwriaeth i bechaduriaid andwyedig. Y mae'r testun yn dysgu yn

I. Fod testament yr Iesu MEWN GRYM. Er mwyn i ni gael golwg ar *rym* ei destament, gallwn sylwi yn

1. Fod ganddo hawl gyfreithlawn i'r holl oludoedd a ddarlunir ac a addewir yn ei destament. Y mae yn ofynol, yn mysg dynion, i destamentwr fod yn berchenog cyfreithlawn y cymunroddion a adewir ganddo. Pe byddai i destamentwr ysgrifenu i lawr yn ei ewyllys ei fod yn gadael etifeddiaeth lydan i un, ac yn gadael palas gwych i un arall, ac yn gadael dodrefn drudfawr i un arall, a mil o aur i arall, llyfrgell lawn i un arall, a gwisgoedd ac addurniadau i un arall; os gellid profi mewn llys barn nad oedd ganddo deitl cyfreithlawn i'r pethau a enwodd, gwnai hyny ei destament ar unwaith yn hollol ddirym; ac ni byddai neb sioniant i'r sawl a ddysgwyliai gael dim elw oddiwrth ei ewyllys. Ond ni raid ofni byth i neb allu tòri testament Crist ar y sail nad oedd ganddo ddim teitl da i'r goludoedd a ddarlunir yn ei destament. Nid oes neb yn y nefoedd wedi erioed ammheu ei hawl i'r golud, ac nid oes neb ar y ddaear nac yn uffern a faidd wadu ei hawl. Y mae ei deitl yn rhy hen, yn rhy eglur, yn rhy gadarn, ac yn rhy brofedig ac adnabyddus i neb byth allu ei siglo. Y mae ganddo hen deitl i'r golud oll fel yr union *etifedd:* ofe ydyw yr "anwyl Fab," yr "uniganedig oddiwrth y Tad," ac yr oedd yr holl oludoedd yn dyfod iddo drwy etifeddiaeth, ac ni wnaeth ddim erioed yn erbyn ei Dad na'i lywodraeth i alw am dòri yr etifeddiaeth oddiwrtho. Y mae y Tad wedi cyhoeddi am dano drwy ei holl ymerodraeth, "Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd." Ac heblaw ei deitl trwy *aeriaeth*, y mae ganddo deitl hefyd drwy weithredoedd cyfammod. Bu cytundeb rhyngddo a'i Dad cyn bod amser. Ymrwymodd i gymeryd gofal holl weinyddiadau llywodraeth ei Dad, i amddiffyn awdurdod ac anrhydedd ei orsedd a'i goron, i fawrhau y gyfraith, i egluro a chyflawnhau holl ffyrdd goruchwyliaethau ei ragluniaeth a'i ras.

i ddarostwng gelynion ei deyrnas, ac i agor ffordd ogoneddus, drwy ei aberth iawnol, i drugaredd achub a chodi i wynfyd ac anrhydedd bob pechadur edifeiriol. A chadwodd i'r llythyren ei holl ymrwymiadau. Y mae y Tad, o'r tu arall, yn ol ammodau yr hen gytundeb hwnw, wedi rhoddi i'w anwyl Fab "bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear." Rhoddwyd iddo holl agoriadau y llywodraeth. Ar ei ysgwydd ef y crogwyd holl ogoniant tŷ ei Dad. Y mae ef yn awr yn gwisgo wrth ei wregys allweddau yr holl drysorau—trysorau rhagluniaeth, a gras, a gogoniant. Yr oedd efe cyn pob peth. Trwyddo ef y gwnaethpwyd pob peth sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear, yn weledig ac yn anweledig, pa un bynag ai thronau ai arglwyddiaethau, ai tywysogaethau ai meddiannau; pob dim a grëwyd trwyddo ef, ac erddo ef; ac y mae efe cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll. Ac felly eiddo ef ydyw pob peth trwy gread, trwy etifeddiaeth, trwy gyfammod, a thrwy fuddugoliaeth. Eiddo ef yr orsedd a'r goron, a'r coronau lawer, a'r teiynau, a'r dillad gwynion; eiddo ef holl diroedd y goron, holl dlysau y goron, a holl awdurdod a gras y goron. Eiddo ef y Jerusalem newydd, a'i mur, a'i phyrth, a'i phalasau. Eiddo ef ydyw yr afon bur o ddwfr y bywyd, a'r ffynnonau bywiol o ddyfroedd, a'r bryniau blodeuog, a'r coed anfarwol fyrdd, a'r llwybrau paradwysaidd, sydd yn y wlad well. Mewn gair, y mae holl olud ynerodraeth annherfynol y Duwdod yn perthyn iddo, ac yn gwbl dan ei ofal. Can ei fod wedi ymgymeryd â holl ofal gweinyddiadau y llywodraeth, daeth i'w ran y gwaith pwysig o ddarostwng y gwrthryfel creulawn oedd wedi tòri allan yn llys ei Dad: a chan i'r gelyn, ar ol iddo gael ei wasgu allan o'r nefoedd, godi baner ei wrthryfel ar y ddaear, a hudo dyn i daro o'i du, cymerodd yr Iesu agwedd gwas, a disgynodd i barthau isaf y ddaear, gwisgodd natur dyn, a wynebodd y gelyn ar ei safle dewisedig ei hun, ac yn awr ei allu mwyaf; ac yspeiliodd dywysogaethau ac awdurdodau uffern, ac a'u harddangosodd hwy ar gyhoedd, gan ymorfoleddu arnynt ar ei groes; a dileodd yr ysgrifenlaw oedd yn erbyn pechadur, am iddo gymeryd rhan yn y gwrthryfel, ac a'i cymerodd oddiar y ffordd, ac a'i hoeliodd wrth ei groes, ac a groesodd y cyhuddiad allan â'i waed ei hun, ac a gododd faner wen trugaredd, gan anfon cenadwri o gymmod at blant dynion, er derbyn yn ol i ffafr y nef bob enaid a dderbynio ammodau grasol gweinidogaeth y cymmod. Bu y frwydr â galluoedd y tywyllwch yn drom iawn; o'r bobl nid oedd neb gydag ef. Sathrodd y gwinwryf ei hunan. Edrychodd, ond nid oedd gynnorthwywr; ond mathrodd y gelyn yn ei lid. Dydd dial oedd yn ei galon. Llychwin-

odd ei wisgoedd â gwaed: ei fraich ei hun a'i hachubodd: a blwyddyn ei waredigion a ddaeth.

"Fe godod yr Iesu ei law,
Ymladdodd, ennillodd y dydd,
Ei holl waredigion a ddaw,
A'i gaethion a roddir yn rhydd;
Ennillodd fath goncwest trwy waed,
Mae ganddo lywodraeth mor fawr,
Hyd eithaf terfynau ei Dad, [llawr."
Mae'n cyrhaedd o'r nefoedd i'r

Ac felly y mae ganddo deitl cyfreithlawn, ansigledig, ac ansigladwy, i'r holl oludoedd a ddarlunir yn ei destament.

2. Rhaid i destamentwr fod yn ei lawn *oed*, ac yn ei iawn *bwyll*, ac yn *rhydd*ewyllysiwr, cyn y bydd ei destament mewn grym. Pe profid, mewn llys cyfraith, mai plentyn dan ei oed ydoedd, neu nad oedd ddim yn y mwynhad o'i gof a'i bwyll cyffredin, neu nad oedd ddim yn rhyddewyllysydd pan yr ysgrifenodd ac y seliodd ei destament, byddai hyny yn ddigon ar unwaith i'w ddirymu. Os profid mai plentyn ydoedd, dan ymddiriedolwyr, heb ddyfod i lawn awdurdod a meddiant; neu os profid fod galluoedd ei feddwl wedi cael eu dyrysu gan gystudd, neu ryw drallod, fel nad oedd yn gallu cofio ei geraint, nac amgylchiadau ei eiddo; neu os profid fod rhyw allu neu awdurdod allanol tu cefn iddo, wrth ei glust a'i ysgwydd, yn ei orfodi i ysgrifenu yr hyn nad oedd yn ewyllysio, byddai hyny yn ddigon i wneud ei destament yn ddirym. Y mae cyfreithiau dynion yn gofyn i destamentwr fod yn ei oed a'i synwyr, ac mewn pwyll a rhyddid, fel y gallo gyfansoddi ei destament, nid yn unig mewn iaith gywir, eglur, ond mewn cysondeb â deddfau iawnder cymdeithasol. Nid oes un perygl i destament yr Iesu gael ei dòri drwy i unrhyw elyn cyfrwys ddyfod yn mlaen i brofi ei fod dan ei oed, neu allan o'i bwyll, neu nad oedd ddim yn rhyddweithredydd, neu ei fod yn rhy ddiddawn i fedru amlygu ei feddwl yn ddealladwy, neu yn rhy anwybodus i ddirnad deddfau uniondeb cymdeithasol; ac iddo wneud ei ewyllys mewn awr o wendid, mewn ias o fyrbwylldra, heb ddim rhagystyriaeth na chynllun, heb ddim astudiaeth o egwyddorion cyfiawnder, nac o gyflwr dyn, nac o'i olud ei hun. Na, nid oes dim perygl y ceir gwendid nac anghysondeb felly yn nhestament yr Iesu. Na, cafodd ei ddwyn i fyny yn uchel lys y nefoedd. Yr oedd gyda'r Barnwr tragwyddol, wedi ei feithrin gydag ef, cyn gwneuthur o hono ef y ddaear, na'r meusydd, nac uchder llwch y byd. Yr oedd ef yno pan barotodd efe y nefoedd, a phan osododd gylch ar wyneb y dyfnder. Yr oedd y pryd hyny gyda'i Dad, yn hyfrydwch iddo beunydd, ac yn ymlawenychu ger ei fron ef bob amser; ac yn llawenychu yn nghyfanneddle ei ddaear ef, a'i hyfrydwch oedd gyda meibion dynion. Gwyddai feddwl Duw, Barnwr pawb.

Yr oedd yn gyfarwydd â holl egwyddorion a threfniadau ei lywodraeth, ac â holl adnoddau ei deyrnas fawr. Yr oedd cyn bod angylion, ac y mae yn gydnabyddus â'u holl hanes: a gwyr hefyd am nodwedd a holl angen *dyn;* a gwyddai fod ganddo ddigonedd yn ei drysorau i wneud i fyny ei holl eisieu; a lluniodd holl benau, a holl ammodau, a holl gymunroddion ei destament mewn perffaith gysondeb âg egwyddorion tragwyddol gyfiawnder a doethineb. Pan y cynlluniodd ac y cyfansoddodd ei destament, yr oedd Ysbryd yr Arglwydd, nid wrth fesur, yn gorphwys arno —ysbryd doethineb a deall, ysbryd cynghor a chadernid, ysbryd gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd; ac y mae ei destament trwyddo yn llawn gras a gwirionedd.

3. Cyn y byddo testament mewn grym, "rhaid yw dygwyddo *marwolaeth* y testamentwr: canys wedi marw dynion y mae testament mewn grym; oblegid nid oes etto nerth ynddo tra fyddo y testamentwr yn fyw." A rhaid cael *tystiolaeth* neu *brawf* o'i farwolaeth cyn y gellir gweinyddu ei lythyr cymun. Methwyd cychwyn gweinyddu ambell destament cyn hyn, am nad oedd dim *prawf sicr* fod y testamentwr wedi marw. Yr oedd wedi ysgrifenu a selio ei lythyr cymun, ac wedi ei roddi i ofal ymddiriedolwr cyn cychwyn i daith bell. Yr oeddid yn gwybod yr awr y cychwynodd, a'r pryd y glàniodd ar ol croesi y môr; clywyd ei hanes yn dringo yr Alpau, ac yn croesi anialdiroedd, ac yna collwyd pob hanes am dano; ni chlywyd gair am dano, ac ni chafwyd gair oddiwrtho am dros flwyddyn. Y farn oedd ei fod wedi *marw*—wedi boddi yn y llif, neu syrthio dros y graig, neu rewi ar ryw fynydd uchel, neu newynu mewn rhyw anial cras, neu gael ei larpio gan wylltfilod, neu ei fwrddro gan lofrudd; ond nid oedd dim *prawf* ei fod wedi marw. Os oedd, ni wyddai neb pa bryd, nac yn mha le, na than ba amgylchiadau; ac felly ni feiddiai ei ymddiriedolwr agor sel ei destament a rhanu ei gymunroddion, rhag y byddai yn dyfod yn ol i fwynhau ei olud. Yr oedd y testament ar gael, a'r golud ar gael, a'r gweinyddwr yn barod at ei swydd, a phawb o'r ceraint yn ddigon addfed i dderbyn eu rhoddion; ond nid oedd dim *sicrwydd* pa un ai byw ai marw oedd y testamentwr, ac felly nid ellid symud cam, na gwneud dim yn yr achos. Ond nid oes dim dyryswch na gwendid fel hyn yn perthynu i destament yr Iesu. Y mae y prawf egluraf genym fod y Testamentwr wedi marw. Gwyddai yn dda pa bryd, gwyddai yn mha le, gwyddai dan ba amgylchiadau. Gwyddai am ei eiriau grasol ar y swper yn yr oruwchystafell y nos o'r blaen; gwyddai am ei ing, a'i chwys, a'i weddi yn yr ardd; gwyddai am gusan Judas, am fföedigaeth y tri dys-

gybl, am wŷr y gwaewffyn yn syrthio i lawr yn wysg eu cefn, am iachâu clust Malchus, am y gwawd a'r poeredd yn llys yr archoffeiriad, am wawd Herod a'i filwyr, am eiriau Pilat wrth ei gondemnio, am y ffiangell, y goron ddrain, a'r wisg borphor, a'r gorsen yn ei law, a'i lewyg wrth gario y groes, a'i weddi dros y rhai oeddynt yn ei groeshoelio. Gwelwyd ef gan filoedd yno yn gogwyddo ei ben wrth farw. Gwelwyd y milwyr yn trywanu ei ystlys, a gwelwyd y dwfr a'r gwaed yn dytod allan o archoll y waewffon; ac yr oedd dylifiad y dwfr a'r gwaed o gelloedd ei galon yn brawf digonol o'i farwolaeth. Do, bu y Testamentwr trugarog *farw*, yn ol rhagderfynedig gynghor y nef, yn ol ei ymrwymiadau i'w Dad, yn ol y cysgodau a'r prophwydoliaethau oeddynt wedi eerdded o'r blaen am dano; a bu farw o'i fodd, er selio ei destament a'i osod mewn grym.

Ond dichon y gofynir yma, Os nad oes rym yn y testament nes dygwyddo marwolaeth y Testamentwr, pa fodd yr aeth duwiolion yr Hen Destament i'r nefoedd i fwynhau yr etifeddiaeth cyn i'r Iesu farw? I hyn gellir ateb, fod yr Iesu wedi gwneud ymrwymiad yn yr oes foreuaf y byddai iddo ymddangos i gadarnhau ei destament drwy ei aberth anfeidrol; ac adnewyddodd ei ymrwymiad lawer gwaith yn yr oesoedd ar ol hyny. Ymwystlodd yn llys y nef, rhoddodd ei air a'i lw ger bron yr orsedd, rhoddodd ei law a'i sel wrth weithred yr ymrwymiad, y byddai iddo gadarnhau a selio y testament â'i briod waed. Derbyniwyd ei ymrwymiad gan ei Dad, a chan lys y nefoedd; a chynnygiwyd y cymunroddion i ddynion ar sail ADDEWID y Testamentwr: pwysodd myrddiynau ar ei addewid, daethant yn mlaen i dderbyn y rhoddion, ac aethant adref yn ddedwydd i feddiannu yr etifeddiaeth *cyn* i Dywysog eu hiachawdwriaeth hwy gael ei berfeithio drwy ddyoddefiadau.

Ond dichon y gofynir yn mhellach gan ysbryd digywilydd anffyddiaeth, Beth pe buasai yr Iesu yn *tòri* ei ymrwymiad? Beth pe buasai yn cilio ac yn gwrthod *marw* er rhoddi ei destament mewn grym? Gellid ateb trwy ddweyd, nad oedd dim perygl i'r Iesu dòri ei addewid, na thòrodd ei gyfammod erioed. Ond os *myn* yr anffyddiwr wasgu ei ofyniad disynwyr—Beth a ddaethai o enwogion duwiol yr Hen Destament pe buasai yr Iesu yn tòri ei ymrwymiad? gellid ateb y buasai cynlluniau trugaredd yn cael eu dyrysu, a threfn yr iachawdwriaeth yn cael ei dadsylfaenu; y buasai testament yr Iesu yn cael ei dòri; y buasai caniadau llawenydd y saint yn cael eu dystewi; ac y buasai tywyllwch anobaith yn toi holl wyneb y nefoedd. Ond nid oedd berygl i'r Iesu dòri ei ymrwymiadau. Cyflawnodd ei ymrwym-

iadau i'w Dad. Cyflawnodd ei ymrwymiadau i ffyddloniaid yr Hen Destament. Cyflawnodd ei addewidion i'w apostolion erlidiedig. Y mae yn cyflawni ei addewidion yn barhaus: a gellir ychwanegu yn wyneb yr anffyddiwr hyf, y cyflawna yr Iesu ei air yn erbyn yr anffyddiwr, pan y daw o'r nef gyda'i angylion nerthol, â thân fflamllyd, i roddi dial i'r sawl nid adwaenant Dduw, ac nid ydynt yn ufuddhau i'w efengyl; pan y daw gyda myrddiwn o saint i wneuthur barn, ac i lwyr argyhoeddi yr holl rai annuwiol am weithredoedd eu hannuwioldeb, y rhai a wnaethant hwy yn annuwiol; ac am yr holl eiriau chwyddedig caledion, y rhai a lefarodd pechaduriaid annuwiol yn ei erbyn ef; y rhai a ddyoddefant yn gosbedigaeth ddinystr tragwyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid cf. Bu y Testamentwr *farw* yn ol ei fwriad a'i air, er gosod ei destament mewn grym; a myn hefyd, yn ol ei fwriad a'i fygythiad, lwyr argyhoeddi dirmygwyr ei destament yn nydd mawr toddiad y defnyddiau,* a dystryw yr anwir ddynion.

4. Y mae testament yr Iesu wedi cael ei *brofi* yn holl lysoedd ymerodraeth y Duwdod; ac y mae sel fawr y llywodraeth wedi cael ei gosod wrtho, fel arwydd ei fod yn gadarn ac yn gymeradwy. Y mae testamentau dacar i gael eu *profi*, a rhaid cael sel llys y prawf wrthynt, cyn y gellir eu gweinyddu. Felly profwyd testament Crist yn llys uchaf yr orsedd fawr, ac yn y llysoedd angylaidd, ac yn llys eglwys bur y nef, ac yn llys cydwybod yr eglwys ar y ddaear, ac y mae wedi dal pob prawf. Y mae y *Tad*, Barnwr pawb, wedi ei chwilio drwyddo, ac wedi tystio ei fod wedi cael ei lwyr foddloni ynddo. Y mae yr *Ysbryd* tragwyddol wedi ei chwilio, ac wedi cael fod ei holl gynnygion a'i holl ammodau yn gyfreithlawn; ac y mae wedi gosod ei sel wrtho a'i gyhoeddi, ac y mae yn ei argymhell yn drugarog a difrifol i ystyriaeth ac i ymddiried pechadur. Y mae *cyfiawnder* wedi bod a'i lygaid manwl drosto, ac wedi methu cael yr un bwlch na dim diffyg ynddo. Y mae y *ddeddf* wedi cymhwyso ei holl egwyddorion at ei wahanol benau, ac wedi cael eu bod oll yn safadwy. Y mae yr *angylion* wedi ei ddarllen trwyddo, y maent wedi "chwennychu" cael cyfleusderau i'w astudio, ac y maent yn rhyfeddu ei uniondeb a'i gadernid. Y mae *saint* y nef a'r ddaear, yn fyrdd myrddiynau, wedi ei chwilio a'i gymeradwyo, wedi cydsynio â'i ammodau, wedi gosod eu llaw wrtho, ac yn byw ar ei drysorau. Y mae *ysbrydion drwg* wedi bod yn lluddias Crist i'w selio, ac wedi ceisio cael bylchau neu anghysonderau ynddo, ond y maent wedi cwbl fethu yn eu holl amcanion. Y mae *anffyddwyr* wedi bod yn ceisio haeru fod

diffyg a thwyll ynddo, ac nad oes dim golud ynddo ar gyfer trueiniaid tlodion; ond gwyddant yn wahanol, gwyddant fod myrddiynau o fyrddiynau wedi eu cyfoethogi trwyddo.

Dyma rai o'r profion sydd genym o nerth testament yr Iesu: yr oedd ganddo deitl teg i'r holl olud; yr oedd yn ei oed a'i synwyr, ac yn rhyddweithredydd, pan yn ei gyfansoddi; bu y Testamentwr farw; ac y mae y testament wedi ei brofi yn y llysoedd uchaf, ac wedi ei gyhoeddi yn safadwy.

II. Enwn rai o RAGORIAETHAU GOGONEDDUS testament Crist.

1. Y mae y goludoedd a ddarlunir ynddo yn anchwiliadwy, yn hollol uwch pob cyfrif, yn ddiball, ac yn ddiderfyn. Y mae ambell un o destamentwyr y ddaear, fel Rothchilds, Peel, Lloyd, Wood, Coutts, Arkwright, ac eraill yn Ewrop; ac Astor, a Vanderbilt, a Girard, a Longworth, ac eraill yn America; a rhai o benaethiaid India, China, a rhai o wledydd y dwyrain, yn gallu gadael rhoddion gwerthfawr yn eu testamentau i'w hetifeddion a'u cyfeillion; ambell un yn gallu gadael cannoedd o filoedd o aur ac arian, ac etifeddiaethau eang, a phalasau godidog, a dodrefn drudfawr, a meirch a cherbydau, a chadwyni aur, a pherlau; a byddwn yn arfer dweyd am etifeddion y cyfryw, fod ganddynt "ddigon o fodd i fyw." Ond aeth epil llawer o bobl y "miliynau" drwy eu hetifeddiaethau, a buont farw yn dlawd, heb ddim i'w adael ar ol i neb. Yr oedd swyddwyr llysoedd daear yn medru cyfrif goludoedd, a *phrisio* etifeddiaeth pob testament fu yn cael ei chwilio a'i brofi ganddynt; yr oeddynt yn medru gosod i lawr pa faint oedd cyfoeth y testamentwr er mwyn gallu trethu ei etifeddion; ond nid oes ŷr un *protector* drwy yr holl nefoedd fedr gyfrif golud na phrisio etifeddiaeth yr Iesu. Y mae yn ei destament "addewid o'r bywyd sydd yr awrhon;" ond yr oedd pethau amser, trysorau y ddaear, yn rhy ddibwys, a diwerth, a darfodedig gan yr Iesu i son llawer am danynt yn ei destament. Prif bethau testament yr Iesu ydyw goludoedd ysbrydol i'r enaid; ymgeledd santeiddiol maddeuol ras i'r cyflwr; tangnefedd, dyddanwch, a llawenydd i'r galon. Pethau erbyn byd arall, y "pethau sydd uchod—y trysorau sydd yn y nefoedd," y "golud parhaus" fydd yno, yr "etifeddiaeth ddihalogedig a diddiflanedig" sydd yn nghadw yno: pethau nad oes gan neb o destamentwyr y ddaear ddim o honynt i'w gadael ar ol i neb o'u ceraint anwylaf. Gallant hwy adael llawer o bethau goreu y byd, digon o fodd i'w hetifeddion fyw mewn cylch uchel yn ol cyfrif y byd yma; ond nid oes ganddynt ddim i'w adael wna les i'w holynwyr yn loesau angeu, ddim i ddal eu pen uwchlaw y dŵn yn llif yr afon, na dim i fod o gynnaliaeth nac o gysur iddynt yn y

byd a ddaw; ond y mae gan etifeddion yr Iesu, nid yn unig eu "bara a'u dwfr" yma, ond y mae ganddynt ddigon o fodd i farw, a digon o fodd i fyw fel boneddigion byth yn y byd anfarwol. Nid fel y mae y byd yn rhoddi y mae yr Iesu yn rhoddi. Y mae ganddo ddigon o fodd yn ei destament i wneud ei ganlynwyr neu ei etifeddion yn frenhinoedd ac yn offeiriaid, a hwy a deyrnasant yn oes oesoedd. Nid oes yr un cerub o chwe' aden allodd ehedeg erioed etto i weled cŵr pellaf etifeddiaeth yr Iesu. Nid oes yr un *surveyor* yn y nefoedd fedr ei mesur na'i myfyrio, na'r un prisiwr yno fedr gyfrif ei gwerth.

2. Y mae cymunroddion testament yr Iesu yn dyfod i gyrhaedd ac i ran *estroniaid*—i ran estroniaid pell, troseddwyr euog, trueiniaid tlodion. Nid dyna ffordd testamentwyr y ddaear. Y mae yn wir fod rhai yn gadael eiddo tuag at lesâu amddifaid a thlodion ar ol dydd eu marwolaeth, pan dichon na wnaethant ond ychydig iawn o les â'u heiddo trwy eu bywyd: ond i *berthynasau* neu ryw gyfeillion mynwesol y mae testamentwyr y byd yma yn gyffredin yn gwneud eu cymunroddion. Nid anhawdd dweyd, cyn agor y testament, i bwy y bydd y golud i fyned—i blant, a brodyr, a chwiorydd, ac ambell rodd hael i gyfaill fydd wedi bod yn anarferol o ffyddlawn i'r testamentwr. Ac ni buasai ddim mor rhyfedd pe buasai yr Iesu yn rhanu ei gymunroddion i'r angylion glan a gweithgar, i'r seraphiaid tanllyd a dysglaer, i'r cerubiaid cyflym a golcu, ydynt trwy yr oesoedd wedi bod yn ffyddlawn iddo; i'r rhai oeddynt yn canu ei glodydd pan oedd yn sylfaenu y ddaear, i'r rhai fu yn gweini iddo yn ei fynediadau allan cyn bod y byd, ac yn ei ymddangosiadau yn yr hen oesau; i'r rhai fu'n canu anthem ei ddyfodiad yn y cnawd, i'r rhai fu yn ymhyfrydu i weini iddo yn ei yrfa o ddarostyngiad drwy ei holl dristwch a'i wasgfeuon; ond dyma sydd yn rhyfedd, ac a bery yn ddiddarfod, fod yr Iesu wedi derbyn rhoddion i *ddynion;* ïe, i rai *cyndyn* hefyd, i rai wedi ei hir ddirmygu a gwrthod ei wahoddiadau a'i roddion, a barnu yn aflan waed ei destament, a difenwi Ysbryd y gras; i blant y codwm mawr, i rai wedi hir ymddyrysu yn rhwydau pechod, wedi ymsuddo i bydewau pob llygredigaeth, wedi ymdrybaeddu yn eu gwaed: mewn gair, i rai heb ddim teilyngdod na dim hawddgarwch ynddynt, y mae yr Iesu wedi gadael ei gymunroddion anmhrisiadwy.

3. Y mae ammodau testament Crist mor deg ac mor esmwyth ac mor gyfleus fel y gall y pechadur truanaf, tlotaf, anturio yn mlaen i afaelyd yn ei oludoedd. Y rhan anllaf yn nhestamentau dynion y mae cymunroddion yn *an*ammodol, a dichon mai felly

y mae oreu, o leiaf y mae yn fwyaf dibrofedigaeth: ni wneir dim ond enwi y derbynydd a'r gymunrodd fydd iddo. Y mae *amnodau* yn nhestament Crist, oud y maent yn nghyrhaedd pawb. Y maent yn ymyl, ac y mae yn hawdd iawn i'r gwanaf a'r tlotaf gydsynio â hwy. Pa rai ydynt y prif ammodau? *Caru y Testamentwr.* Meddwl am yr hyn ydyw, ac am yr hyn a wnaeth; meddwl am ei anfeidrol gariad a'i ymddarostyngiad, am iddo, ac efe yn gyfoethog, fyned er ein mwyn ni yn dlawd, fel y cyfoethogid ni trwy ei dlodi ef: meddwl am ei ras nes teimlo cariad tuag ato yn cynhesu ac yn llosgi yn ein mynwes. *Cyffesu ei enw*fel ein Gwaredwr a'n cymwynaswr. Arddel yn ngwydd pawb mai o'i destament ef yn unig yr ydym ni wedi cael gobaith bywyd tragwyddol, wedi cael ymgeledd yr iachawdwriaeth, wedi cael pob bendith dymmorol ac ysbrydol, a gobaith gogoniant a gwynfyd didranc yn y diwedd. *Chwilio beunydd ei destament* er ei ddeall yn llawnach, ac er gweled mwyfwy o'i nerth a'i ogoniant; er bod yn fwy parod i dderbyn a defnyddio y golud sydd ynddo, ac i'w ddangos i eraill. *Byw yn llawen a diolchgar ar drysorau ei destament*, gan gredu, a chyfaddef, a dangos, eu bod yn ddigon i'n gwneud yn wynfydedig ac wrth ein bodd, a cheisio yn gyntaf fendithion penaf ei destament, sef breintiau teyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef, yn hytrach na gofalu am bethau y corff, pa beth a fwytaom, neu pa beth a yfom, neu pa beth a wisgom. *Gweithio o gariad*, â'n holl galon, er dyrchafu ei enw a helaethu ei deyrnas yn nghymdeithas ei bobl, ac yn yr ymarferiad â'i holl ordinhadau a osododd yn ei eglwys. Dyma ammodau ei destament. Gwelir eu bod yn nghyrhaedd pawb. Nid rhai i hen bobl yn unig ydynt, ond rhai i blant hefyd; nid rhai i gyfoethogion yn unig ydynt, ond rhai yn nghyrhaedd tlodion hefyd. Nid rhai i'r uchelradd yn unig, ond i'r iselradd hefyd. Nid i'r dysgedigion yn unig, ond i'r anmysgedig hefyd: y maent yn rhai teg, esmwyth, ysgafn, isel, yn nghyrhaedd pob oed a phob gradd, pob gwlad, ac iaith, a chenedl.

4. Y mae y Testamentwr etto yn fyw i arolygu gweinyddiad ei destament ei hun. Dyma ragoriaeth na bu erioed ac na bydd byth yn perthynu i unrhyw destament daearol. Ni bu na thad na brawd hynaf erioed, yn y byd yma, yn gallu cyfarwyddo a chynnorthwyo yn ngweinyddiad ei lythyr cymun. Gwelwyd plant cyn hyn yn ceisio darllen testament eu tad. Yr oedd yno ddarpariaeth gysurus ar eu cyfer. Yr oedd enw pob un o honynt yn y testament. Yr oedd geiriad pob cymunrodd yn eglur; ond yr oedd y plant yn methu ei ddarllen gan hiraeth. Torent allan i wylo ac i ddweyd, O na buasai yn fyw, i ranu â'i law

garedig ei hun yr hyn oedd yn ddewis i ni gael. Gwelwyd y weddw, a'i chalon yn ddrylliog, bron andwyo testament ei phriod â'i dagrau; er fod ynddo ran dda ar ei chyfer, yn gorfod ei roddi heibio o'i llaw ac o'i golwg gan lewygon hiraeth, gan godi llef o'i chalon dòredig, "O na buasai yn fyw i drefnu â'i law, a'i lais, a'i nerth, fel y byddai yn arfer; nid oes genyf yn awr ond y testament hwn i arwyddo ei ewyllys:" ond nid oes modd i'r plant a'r weddw gael eu dymuniad yn hyn. Ond ni raid i Seion wisgo ei galarwisg, a dywedyd—"O na buasai fy Mhriod yn fyw i arolygu gweinyddiad ei destament." *Y mae yn fyw.* Efe a fu farw. Y mae digon o sicrwydd ei fod wedi marw; eithr y mae yn awr yn fyw, ac y mae pob sicrwydd ei fod yn fyw; ac wele byw ydyw yn oes oesoedd. Dichon, medd ambell un, gan ei fod yn fyw, y ceidw yr holl olud iddo ei hun. Na wna Testamentwr mawr y nefoedd byth mo hyny. Nid yw ei galon lawn o gariad ddim am gadw yr holl etifeddiaeth iddo ei hun: y mae yn hoffi rhanu y trysorau i'r rhai sydd yn derbyn ei destament ac yn dewis bod yn gydetifeddion âg ef. Er mai efe yw y cyntafanedig a'r etifedd, y mae yn ewyllysio i'r holl saint fod yn gydetifeddion âg ef: er ei farw, y mae yn fyw, ac y mae yn byw bob amser yn ei swydd fry i arolygu gweinyddiadau ei destament; ac y mae ganddo bob digonedd ar gyfer yr holl deulu, oblegid y mae holl gyflawnder y Duwdod yn eiddo iddo.

CYMHWYSIAD.

1. Dylem ni lawenychu a diolch am fod genym ni y Cymry, yn ein hen iaith ardderchog, gopi llawn o destament yr Iesu. Gwnaed pob math o ymdrechiadau ac o gynnygion gan anffyddwyr ac erlidwyr, o ddyddiau y Cesariaid hyd ein dyddiau ni, i ddyfetha testament Crist o'r byd. Llosgwyd miloedd a myrddiynau o gopïau o hono, a llosgwyd miloedd o gredinwyr am ei gadw ac am ei ddarllen. Ond methodd y gelyn, er ei holl lid, a'i holl nerth, a'i holl gyfrwysdra ei ddyfetha; ac nid oes modd iddo yn awr byth wneud hyny. Gallesid meddwl ei fod bron wedi cnnill llawn fuddugoliaeth yn yr oesoedd tywyll; ond y mae ei holl obaith yn awr wedi darfod. Gellir gofyn ei waethaf. Y mae testament yr Iesu wedi ei gyhoeddi yn awr yn holl brif ieithoedd y ddaear. Y mae miliynau dirif o gopïau wedi cael eu gwasgaru yn mysg yr holl genedloedd. Lledaenwyd dros ddeugain miliwn o gopïau gan un gymdeithas—sef y Gymdeithas Feiblaidd Frutanaidd a Thramor: ac y mae mwy o Gymry, yn ol eu nifer, nag sydd o un genedl arall, yn meddu copi o destament Crist. Chwiliwn ei ddalenau beunydd, a gwerthfawrogwn ei gynnwysiad.

2. Gwaith mawr a phwysig iawn sydd gan bob Beibl Gymdeithas, sef cyhoeddi a lledaenu testament Crist, a gwneud yn hysbys ei gymunroddion goludog i drueiniaid sydd ar ddarfod am danynt mewn tlodi ysbrydol; a dylid gresynu gyda galar na buasai llawer mwy wedi cael ei wneud. Dylasai fod testament gwerthfawr Crist erbyn heddyw yn mhob teulu ar wyneb yr holl ddaear; ond nid felly y mae. Gadawodd Cristionogion drwy yr oesoedd i lyfrau tywyll Mahomet, a llyfrau coelgrefydd Paganiaeth, a llyfrau cabledd anffyddwyr gael hir feddiannu y rhan fwyaf o faes y byd. Prin un o bob hanner cant o bobl y byd sydd etto mewn cyfle i wybod am gynnygion gwerthfawr testament Crist. Ennillai testament yr Iesu y maes ar holl gaudestamentau y byd ond iddo gael maes rhydd i redeg yn eu mysg.

3. A ydym ni yn cydymffurfio âg ammodau ei destament? Yr ydym yn ei ddarllen, ac yn proffesu ein bod yn ei gymeradwyo, ac nas mynem er dim ychwanegu ato na thynu oddiwrtho. Os ydym mewn gwirionedd am estyn llaw i'w selio, ac i dderbyn o'i gymunroddion, byddwn yn gyfoethog byth; ond os gwrthodwn roddion caredig ei ewyllys, byddwn yn sicr o fod yn druenus a diesgus, a bydd yr adgofion am y fath wrthodiad yn ofnadwy drwm yn ngwlad yr anobaith diddiwedd.

DULL Y BYD HWN.

"Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio."—1 Cor. vii. 31.

Y mae'r geiriau "y byd hwn," yn tybied fod byd arall. Y mae dau fyd yn bod, ac mewn ystyr foesol nid oes ond dau—y byd hwn a'r byd a ddaw; y byd gweledig a'r byd anweledig; y byd naturiol a'r byd ysbrydol; y byd cyfnewidiol a darfodedig, a'r byd digyfnewid a diddarfod; y byd ag yr ydym ni yn awr dros enyd fach yn ei breswylio, a'r byd mawr y byddwn ynddo yn fuan yn ein cartref tragwyddol.

Y mae yn amlwg fod perthynas rhyngom ni a'r ddau fyd. Yr ydym yn greaduriaid anfarwol, ac yn ddeiliaid o lywodraeth foesol Duw; ac fel y cyfryw y mae genym ychydig o amser i fyw yn y byd hwn, a rhwymedigaethau o annhraethol bwys i'w cyflawni; ond ar ol treulio y tymmor byr sydd genym i fyw yma, byddwn yn cael ein symud yn mlaen i'r byd mawr dyfodol i dderbyn yno yn ol ein gweithredoedd yma. Y mae gair Duw yn dysgu i ni, yn y modd egluraf, fod cysylltiad annattodadwy rhwng ein byw yma a'n byw mewn byd tragwyddol, rhwng ein cyflwr yn

y byd hwn a'n sefyllfa ddigyfnewid yn y byd mawr a ddaw. "Beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fêd efe." "Oblegid yr hwn sydd yn hau i'w gnawd ei hun, o'r cnawd a fêd lygredigaeth; eithr yr hwn sydd yn hau i'r Ysbryd, o'r Ysbryd a fêd fywyd tragwyddol." "Yr hwn sydd yn hau yn brin, a fêd hefyd yn brin; a'r hwn sydd yn hau yn helaeth, a fêd hefyd yn helaeth." Os gwasanaethir yr Iesu yma, ceir arddeliad a gwobr gan yr Iesu yn y byd a ddaw. Os dewiswn ein rhan gyda phobl Dduw yma, cawn fod gyda hwy mewn byd gwell. Os rhedwn yrfa ffydd a duwioldeb, cawn goron cyfiawnder yn y diwedd; ond os dewiswn wasanaeth pechod, derbyniwn gyflog pechod. Os dilynwn gymdeithion annuwiol yma, bydd raid cyfranogi o'u dinystr yn y diwedd. Caiff pob un yn y byd a ddaw o ffrwyth ei ffordd ei hun yn y byd yma. Caiff pob un ei le ei hun a'i ochr ei hun, a byw byth gyda'i bobl ei hun.

Cawn yn y testun ddarluniad byr, ond tarawiadol iawn, o'r byd hwn: "Y mae dull y byd hwn yn myned heibio." Yr oedd yn anmhosibl rhoddi darluniad mwy cyflawn mewn can lleied o eiriau. "A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, frodyr, am fod yr amser yn fyr. Y mae yn ol, fod o'r rhai sydd â gwragedd iddynt, megys pe byddent hebddynt; a'r rhai a wylant, megys heb wylo; a'r rhai a lawenhant, megys heb lawenhau; a'r rhai a brynant, megys heb feddu; a'r rhai a arferant y byd hwn, megys heb ei gamarfer. Canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio." Pan yr oedd yn dywedyd fod "dull y byd hwn yn myned heibio," dichon ei fod yn cyfeirio at ddull dadleniad ac arddangosiad (*panorama*) ar chwareufwrdd, ger bron cynnull-eidfa fawr o edrychwyr. Yr oedd arddangosiadau felly yn gyffredin yn rhai o ddinasoedd Groeg yn nyddiau Paul. Yr oedd yno arlunwyr enwog am dynu a lliwio eu harluniau ar leni; a phan y byddid yn eu cadw o'r neilldu, byddid yn eu plygu am garfan; ac wrth eu dangos, byddid yn eu dadblygu, ger bron yr edrychwyr; ac fel y byddid yn eu dadblygu, byddai llen ar ol llen, neu olygfa ar ol golygfa, yn synud o'r golwg, ac un newydd yn dyfod i'w lle. Yr oedd yr arluniau yn cael eu newid neu eu symud heibio yn barhaus; ac yn gyffelyb i hyny, fel yr awgrymir yma, "y mae dull y byd hwn yn myned heibio." Nid hawdd oedd cael cymhariaeth fwy darluniadol. Cynnygiwn yn

I. Agor cynnwysiad y geiriau, neu egluro meddwl Paul pan yn dywedyd fod "DULL Y BYD HWN YN MYNED HEIBIO." Gallwn sylwi fod ei ddull yn myned heibio mewn tair ystyriaeth:—

1. Y mae dull y *byd* ei hun yn myned heibio. Y mae wyneb y ddaear yn cyfnewid yn barhaus. Nid ydyw yn gwisgo yr un

wyneb ag oedd yn y dyddiau o flaen y diluw; nid ydyw yr un ymddangosiad ag oedd yn amser Moses, nac yr un ymddangosiad ag oedd yn amser Paul. Y mae ei ymddangosiadau yn myned heibio yn barhaus. Yr ydym yn darllen mewn llyfrau hanesyddol am ddinasoedd, a thyrau, a themlau, a phalasau, a chestyll, a phyramidiau fuont gynt yn gedyrn ac yn enwog; ond pe gofynid yn awr pa le y maent, byddai raid ateb eu bod "wedi myned heibio." Bu ein hynafiaid anfyddiog, yn fuan ar ol y diluw, yn prysur "adeiladu dinas a thwr," a'i nen hyd y nefoedd, er gwneud iddynt enw, a chael iddynt gartref i sefyll yn wyneb holl gyfnewidiadau amser; ond disgynodd Duw i weled eu dinas a'u twr, a chymysgodd eu hiaith, a dyrysodd eu hamcan, a gwasgarodd hwynt oddiyno, ac ni wyddis yn awr pa le yr oedd sylfaen y twr ag oeddynt hwy wedi amcanu i sefyll byth. Felly, y mae hen dwr Babel ag oedd ar wastadedd Sinar, wedi myned heibio. Bu hen ddinasoedd llygredig gwastadedd yr Iorddonen unwaith yn gedyrn ac yn gyfoethog, ond y maent wedi myned heibio: difaodd tân Duw o'r nefoedd eu gogoniant, ac y mae dyfroedd trymion y Môr Marw yn awr yn hulio yr holl fangre lle y buont yn sefyll. Yr oedd dinasoedd ardderchog yn nyffryn mawr y Nile yn amser Moses—No a Noph, neu Thebes a Memphis; ond y mae eu gogoniant wedi diflanu a myned heibio. Bu yno hefyd demlau a phalasau o gadernid a gwychder ardderchog, ond y mae eu hadfeilion yn gydwastad â'r llawr. Dichon mai pyramidiau yr Aipht ydynt yr adeiladau hynaf yn awr yn y byd; ond y mae dannedd amser o hyd ar waith yn eu malurio. Pe gofynid, Pa le y mae y deml odidog a adeiladwyd gan Solomon, ac a gysegrwyd gyda'r fath rwysg a sel i wasanaeth yr Arglwydd? a pha le y mae ei chysegr santeiddiolaf, a'i môr tawdd, a'i hallorau, a'i phyrth enwog, a'i holl ddodrefn drudfawr? Y maent wedi myned heibio. Pe gofynid, Pa le y mae Nineveh fawr, prif ddinas gadarn gaerog hen ymerodraeth Assyria? Y mae wedi myned heibio. Yr ydys wedi bod yn cloddio yn ddiweddar i'r ddaear er dyfod o hyd i rai o'i hadfeilion, ac yr ydys wedi codi o'r llwch ddarnau o farmor cerfiedig ddigon i ddangos ei bod unwaith yn gref ac ardderchog. Pe gofynid, Pa le y mae Babilon fawr, brenhines y gwledydd, a'r caerau uchel llydain oeddynt yn ei hamddiffyn, a'i phyrth, a'i thyrau, a'i phalasau, a'i themlau, a'i gerddi crogedig; yr hon oedd unwaith yn ogoniant y byd o ran ei chyfoeth, a'i gwychder, a'i chadernid, ac yn wrthddrych ymffrost didòr a diderfyn ei brenhinoedd? Y mae wedi hen fyned heibio. Prin yr ymostyngai yr Arab gwyllt, pan ar ei bererindod, i godi ei babell i lettya am noswaith ar y gwastadedd

enwog lle y bu Nebuchodonosor gynt yn codi ei ddelw aur. Prin y codai y bugail ei gorlan yn awr yn y man y bu arglwyddi Babilon yn cynnal eu llysoedd, ac yn yfed eu gwin yn swn cynghanedd a dawnsio. Ond anifeiliaid gwylltion yr anialwch a orweddant yno, a chywion yr estrys a drigant yno, a'r ellyllon a lamant yno; yr ellyll a eilw ar ei gyfaill, a'r wyll a gaiff orphwysdra iddi yno; yno y nytha y ddylluan, y dodwa, ac y deora; a'r fwlturiaid a ymgasglant yno; a'r cathod a gydatebant yn ei gweddw-dai hi, a'r dreigiau yn ei phalasau hyfryd. Y mae Babilon, prydferthwch y teyrnasoedd, gogoniant godidawgrwydd y Caldeaid, wedi myned heibio yn llwyr. Bu Tyrus a Sidon gynt yn enwog iawn o ran eu marsiandïaeth, ac o ran eu cyfoeth a'u cadernid; ond y mae eu henwogrwydd wedi myned heibio. Gellid dweyd yr un peth am Jerusalem, a Samaria, a Damascus, a Tadmor. ac Athen, a Rhufain, a Carthage, ac Alexandria, a dinasoedd eraill hen wledydd y Dwyrain. Y mae eu cyfoeth a'u cadernid, a'u holl ogoniant wedi myned heibio. Y mae dull arwyneb y byd yn myned heibio. Y mae llawer o'r tiroedd fu gynt yn ffrwythlawn wedi myned, drwy gamdriniaeth dyn, yn anial ac yn ddiffrwyth; ac y mae llawer o diroedd ag oeddynt gynt yn ddiffaeth-leoedd anghyfannedd, yn awr wedi eu diwyllio gan ddwylaw diwydrwydd, ac yn ffrwytho fel Eden, ac yn blodeuo, ac yn llawenychu hefyd â llawenydd ac â chân. Nid yw gwlad Canaan ddim yr un olwg nac yr un ffrwythlonedd yn awr ag ydoedd yn amser Solomon, pan yr oedd yr amaethydd diwyd a dedwydd yn eistedd dan ei olewydden a'i ffigysbren ei hun; y mae yr hen wlad enwog hòno wedi gwaelu ei dull, ac wedi gwaethygu a thlodi llawer er yr amser hyny. Nid yw wyn[illegible] llydan cyfandir mawr America ddim yr hyn ydoedd yn nydd [illegible] Columbus, dri chant a hanner o flynyddoedd yn ol; y mae ll[illegible] o'r tir ag oedd y pryd hyny yn anial diffaeth a diannedd, y[illegible] dan ddiwylliant yr amaethydd; ac y mae anneddau, a [illegible] ydd, a dinasoedd yn addurno pob talaeth; a'r march [illegible] cerbyd tân yn croesi ei gefnau a'i ddyffrynoedd, a'r [illegible] mawrion yn nofio ei lynoedd a'i afonydd; a gallasai fod y[illegible] mwy poblog, a chyfoethog, a dedwydd nag ydyw, oni buasai difrod, a thraul, a galanasdra rhyfeloedd. Y mae arwyneb y ddaear o hyd yn newid naill ai *er gwell*, dan law y diwyd a'r celfyddydgar, neu *er gwaeth*, dan lygaid y musgrell a'r diog. Gobeithio fod y dyddiau i wyneb y ddaear newid er gwaeth ar derfynu, ac y parha bellach i newid er gwell, hyd ddiwedd amser, pan y caiff ei gwneud yn "ddaear newydd," yn yr hon y bydd cyfiawnder yn cartrefu. Un ystyr i'r dywediad fod "dull y

byd hwn yn myned heibio" ydyw, fod wyneb y ddaear o hyd yn cyfnewid: ac er mai dyma'r ystyr lleiaf pwysig sydd i'r geiriau, nid yw yn anmherthynol i'r testun: a daw yr amser pan y gellir dywedyd fod dull y byd *wedi* myned heibio; pan y bydd yr angel cryf wedi ei wisgo â chwmwl, ac enfys ar ei ben, a'i wyneb fel yr haul, yn gosod ei droed deheu ar y môr, a'i aswy ar y tir, ac yn codi ei law i'r nef, ac yn tyngu i'r hwn sydd yn byw yn oes oesoedd—na bydd amser mwyach; pan yr â y nefoedd heibio gyda thwrf, ac y todda y defnyddiau gan wir wres, ac y llosgir y ddaear a'r gwaith fyddo ynddi; yna gellir dweyd fod dull y byd hwn *wedi* myned heibio.

2. Ystyr arall i'r geiriau, ac ystyr nes atom ni, ydyw, fod cenedlaeth ar ol cenedlaeth o *breswylwyr* y byd o hyd yn myned heibio. Y mae *patriarchiaid* enwog wedi bod yn pabellu ac yn codi allorau o fan i fan yn y byd pan ar eu pererindod trwyddo; ond y maent wedi myned heibio. Y mae *llywiawdwyr* ffyddlon wedi bod yn y byd yn eistedd ar eu gorseddau i weinyddu barn rhwng eu deiliaid; ond y maent wedi myned heibio. Y mae *prophwydi* ysbrydoledig wedi bod yn y byd yn cyhoeddi ac yn esbonio meddwl Duw i'w cyd-ddynion; ond y maent wedi myned heibio. Y mae *offeiriaid* selog wedi bod yn y byd yn aberthu ac yn gweddïo; ond y maent wedi myned heibio. Y mae *rhyfelwyr* cedyrn a dewrion wedi bod yn y byd yn tynu eu cleddyfau, ac yn trefnu eu byddinoedd, ac yn bloeddio i'r frwydr; ond y maent wedi myned heibio. Y mae *gorthrymwyr* Pharaohaidd a Neroaidd, a Jesuitaidd wedi bod yn y byd yn ennyn fflamau erledigaeth, ac yn cloi y duwiol a'r diniwaid yn oer-gelloedd gwenwynig eu chwil-lysoedd, ac yn eu harwain oddiyno i'r tân; ond y maent wedi myned heibio. Bu *apostolion* ffyddlon yr Iesu yn ymdrechgar i blanu egwyddorion Cristionogaeth drwy holl gylchoedd eu dylanwad; ond y maent wedi myned heibio. Bu *tadau* yr eglwys Gristionogol yn gynhes eu sel, yn eang eu llafur, ac yn ddiwyd yn holl gylchoedd eu gweinidogaeth; ond y maent wedi myned heibio. Bu *diwygwyr* enwog, fel lampau dysglaer, yn llewyrchu mewn manau tywyll yn y byd, ac yn yr eglwys; ond y maent wedi myned heibio. Bu *beirdd* enwog iawn, o lygad craff, ac o aden gref, yn nhiroedd Groeg a Rhufain, a bu dysgyblion iddynt yn Germany, Lloegr, a gwledydd eraill; ond y maent wedi myned heibio. Bu *philosophyddion* a *duwinyddion* o uchel ddoniau, ac o ddwfn ddysg yn y byd; ond y maent wedi myned heibio. Pa le yn awr y mae Georgiaid coronog Lloegr, fuont unwaith yn fawr eu rhwysg brenhinol? Pa le y mae Napoleon fawr o Ffrainc, fu yn ddiweddar yn peri i Ewrop

grynu a gwaedu? Pa le y mae Wellington enwog o Loegr? a pha le y mae Washington yr Unol Daleithiau, a'u holl gyd-gadbeniaid a'u milwyr? y maent oll wedi myned heibio. A gallwn ddyfod yn nes etto, a gofyn, Pa le y mae ein tadau a'n mamau ni? y maent oll wedi myned heibio. A pha le y mae y brodyr a'r chwiorydd fuont yn cael eu cydfagu â ni ar hen aelwyd ein rhïeni; a'r cymdeithion fu'n difyr gydchwareu â ni yn muarth yr ysgol, ac yn dysgu yr un gwersi a ni yn y dosbarth? y maent bron oll wedi myned heibio. Pe byddai i ddyn ag oedd yn byw yn y byd driugain mlynedd yn ol, gyfodi oddiwrth y meirw, i roddi tro trwy hen gylchoedd ei adnabyddiaeth, mewn gwlad ac eglwys, gorfodid ef i ddweyd, fod dull y byd hwn yn myned heibio. Cai yr afonydd, a'r mynyddoedd, a'r creigiau, fel yr oeddynt. Cai *rai* o'r coedwigoedd, a'r ffyrdd, a'r meusydd, a'r tai, a'r addoldai, fel yr oeddynt. Ond cai ddynion newyddion yn mhob annedd, a swyddfa, a llys, a chysegr. Cai swyddogion newyddion ar y gorseddau, a gweinidogion newyddion yn eu cyfrin-gynghor, a deddfwyr newyddion yn y seneddau, a barnwyr newyddion yn llysoedd cyfraith, ac athrawon newyddion yn y colegau a'r ysgolion, a gweinidogion newyddion yn nhemlau yr Arglwydd, a rhïeni newyddion yn magu teuluoedd; rhai newyddion fyddai y cantorion, a'r gweddïwyr, y beirdd, a'r traethodwyr, a'r darlithwyr; mewn gair, byddai pob cylch megys wedi ei wneud o newydd. Pe b'ai dyn yn dychwelyd i ardal ar ol bod oddiyno am *ddeng* mlynedd, cai yno lawer o gyfnewidiadau. Pe gofynai pa le mae yr hen fam addfwyn ac astud fyddai bob amser yn ei lle yn yr addoldy, a'i chalon yn gynhes, a'i llygaid yn llawn? yr ateb fyddai, Y mae wedi myned heibio. Pe gofynai pa le y mae yr hen weddïwr toddedig, ag oedd bob amser yn tynu y nefoedd i lawr i'r cyfarfod gweddi? atebid, Y mae wedi myned heibio. Pe gofynid pa le y mae y ferch ieuanc wylaidd, wridog, ag yr oedd pereidd-dra a chylch ei llais bob amser yn gwefreiddio yr holl gynnulleidfa? atebid, Y mae wedi myned heibio, gwywodd ei gwrid a disgynodd i'w bedd. Pe gofynid pa le y mae y llanc duwiol dirodres, effeithiol ei ddawn mewn araeth ac mewn gweddi, yr hwn yr oedd yr eglwys yn gobeithio ei weled fel efengylwr llawn o sel ac o gariad? atebid, Y mae wedi myned heibio: machludodd ei haul cyn canol dydd. Y mae rhywbeth yn barhaus yn pregethu yn mhob ardal, fod "dull y byd hwn yn myned heibio."

3. Y mae un ystyr arall i'r geiriau ag sydd yn dyfod yn nes *etto* atom ni. Nid yn unig y mae wyneb y byd yn newid, ac yn myned heibio, ac y mae ei breswylwyr yr un modd yn myned

heibio; ond yr ydym *ni* ein hunain yn myned heibio, yn nghanol yr holl symud, yn nodedig o gyflym. Y mae y baban gwan yn dyfod yn fuan iawn yn blentyn craff, siaradus, a bywiog; y mae y plentyn yn symud yn fuan drwy ei ysgol, ac yn dyfod yn fab neu yn ferch ieuanc, a'r cyfryw yn symud yn mlaen i ganol gofalon bywyd, fel tad neu fam; ac yn disgyn yn gyflym i ddyddiau henaint, ac yna yn ymlithro i'r bedd, ac yn "myned heibio." Ac y mae yr oll a berthyn i ni yma yn myned heibio. Ein *cysuron*, megys iechyd, cyfoeth, difyrwch, cyfeillachau—pethau ansefydlog ydynt, a gallant gilio ar unwaith; gall yr iechyd wywo; gall cyfoeth gymeryd ei aden ac ehedeg ymaith. Gall y difyrwch penaf ddiflanu, a gallwn golli, yn rhyw ddull, ein cyfeillion goreu. Y mae ein *trallodion* yn myned heibio. Pan y byddwn yn meddwl fod rhyw *dòn* fawr yn llifo dros ein mynwes, ac y cleddir ni dani, heb allu cyfodi mwy, treigla heibio, a gad i ni anadlu mewn awyr glir. Pan y byddir yn dysgwyl i ryw *gwmwl* du fydd uwch ein pen dòri arnom, ac ysgubo ymaith ein holl gysuron, daw awel gref yn annysgwyliadwy, o ryw gwr, a chwal y cwmwl ymaith. Pan y bydd y *cwpan* roddir i ni i'w yfed yn chwerw iawn, ceir melusder heb ei ddysgwyl yn ei waelod. Pan y bydd y *rhiw* yn serth iawn, cyrhaeddir pen y bryn yn gynt nag oeddid yn dysgwyl, a cheir eistedd i lawr i orphwys a mwynhau balm yr awel, a pherarogl y blodau, ac i edrych i lawr ar y tylau fyddir wedi dringo drostynt. Bydd y *baich* weithiau yn drwm iawn, ond ceir cyfle i'w roi i lawr pan na fyddir yn dysgwyl. Ceir siomedigaeth drom bryd arall, ond daw rhyw amgylchiad yn sydyn i wneud y golled i fyny.

Y mae ein rhagorfreintiau penaf yma yn myned heibio, ein cyfleusderau i gasglu addysg, ac i gyflwyno addysg; ein cyfleusderau i wrando y gair, ac i ddarllen y gair; ein hadegau i weddïo yn y dirgel, ac yn y teulu, ac yn y gynnulleidfa. Y mae ein Sabbathau yn myned heibio. Ein Suliau cymundeb yn myned heibio. Y mae pob Sabbath, a phob oedfa ydym yn gael, yn gadael y cyfrif sydd yn ol yn llai. Mewn gair, y mae ein bywyd a'i holl gysuron, a'i holl drallodion, a'i holl ragorfreintiau yn parhaus fyned heibio.

II. Pe gofynid YN MHA DDULL Y MAENT YN MYNED HEIBIO, gallem ateb eu bod yn

1. Yn myned heibio yn *wastadol*, heb aros dim. Fel y tywod mân yn yr awr-wydr yn rhedeg yn ddidòr nes rhedeg oll allan. Fel y ffrwd fach sy'n dawnsio rhwng y bryniau, neu yr afon fawr sy'n ymddolenu drwy y gwastadedd, yn llifo yn mlaen o hyd nes

cyrhaedd y môr. Fel y cwmwl bychan yn codi o'r môr draw yn y gorllewin, ac yn symud gan ymledu yn barhaus o flaen yr awel, nes ymwasgaru o'r golwg yn y dwyrain; neu fel yr haul yn dyfod allan o'i ystafell ac yn rhedeg ei yrfa heb orphwys moment nes machludo o'r golwg yn y gorllewin. Felly y mae rhedfa amser dyn. Pa le bynag y bydd, gartref neu oddicartref; beth bynag fydd ei waith, ai teithio neu weithio, casglu neu wasgaru, bwyta neu yfed, cysgu neu chwareu, wylo neu chwerthin, caru neu gasâu, ar ei ben ei hun, neu mewn cyfeillach; beth bynag fydd ei gyflwr, cyfaill Duw neu elyn Duw, cyfiawn neu euog; pwy bynag fydd ei bobl, teulu y ffydd neu anffyddwyr—y mae yn cael ei gario yn mlaen o hyd gyda llif amser; y mae yn teithio yn mlaen ddydd a nos tua'r bedd a byd arall.

"Ein bywyd ar yr aden sydd,
Nesâu bob dydd mae angeu;
Y fynyd gyntaf caffom fyw,
Marwolaeth yw yn dechreu."

2. Y mae yn myned heibio yn *gyflym.*

"Pa fwg-darth gwag yw'n hamser brau,
Ein dyddiau'n glau sy'n darfod;
Cyflym fel saethau Indiaid y'nt,
Neu'r ser a redant uchod.

Ein hamser a ched,
Ehed o hyd yn gynt
Na thôn y môr, er cynted rhed,
Yn wyllt o flaen y gwynt.

Ein hamser a ched,
Uwch llong pan ar ei thaith
Gyflymaf dan ei hwyl y rhed
Dros dònau 'r eigion llaith.

Ein hamser a ched,
Yn gynt na'r eryr cryf,
Pan fo ei esgyll llawn ar led
Yn disgyn ar ei bryf.

Mwy cyflym nas gall iaith
Byth ddweyd gyflymed yw:
Am hyn ystyried dyn ei waith,
A'r modd y dylai fyw."

3. Y mae yn myned heibio bron yn *ddiarwybod* i ni. Y mae fel hûn, nid ydys yn dirnad nac yn teimlo fel y mae yn cyflymu heibio: cheda ymaith megys breuddwyd, neu fel gweledigaeth nos.

4. Y mae ein hamser yn myned heibio yn *anwrthwynebol.* Nid oes dim modd sefyll yn erbyn ei lif. Nid oes na nerth, na dawn, na dyfais, na gwobr, all attal ei redfa. Ofer fyddai i fab neu ferch ieuanc ddweyd, Cadwaf fi o hyd flodau fy ieuenctyd heb wywo. Ofer i'r cryf yn nghanol ei ddyddiau ddweyd, Cadwaf fi fy nerth rhag pallu. Ofer i'r hen ar fin ei fedd ddywedyd, Nid âf fi ddim pellach. *Rhaid* i bawb fyned yn mlaen.

"Mae'n hoes yn ffoi ar frys,
Nid crys 'r un fynydyn, [maith,
Ein dyddiau'n chwyrn fel llif-ddŵr
A'n dwg ni ymaith ganddyn'.

Os rhaid i'n dyddiau ffoi,
I'n golwg byddo 'u terfyn;
Yn ffyrdd doethineb treuliwn hwy,
A brysiant fwyfwy gwed'yn.

Trosglwyddant ni yn gynt
Dros fôr ein helynt 'stormus,
Cawn dirio'n glau mewn tawel fyd,
Tragwyddol fywyd hapus."

5. Pan êl ein hamser heibio, *nid ellir ei alw yn ol.* Y mae'r Sabbathau a gamdreuliwyd, a'r cyfleusderau a gollwyd, wedi eu colli am byth. Nid ellir byth eu galw yn ol.

"Ein doe aeth heibio fel ffrwd gref,
Ni welwn ef ond hyny;
Ansicr hefyd y'm ar daith,
Y gwelwn chwaith yfory.

Y rhai sydd heddyw yn eu hoes,
Dan locs yn dilyn Iesu,
Yn ddiwael dorf ar ddelw Duw
Hwy fyddant fyw yfory.

Er gruddfan heddyw dan y baich,
A dynol fraich yn pallu,
Nid yw ond byr dymhestlog ddydd,
Tragwyddol fydd yfory."

III. Yr EFFAITH ddylai y darluniad yma o'r byd a'i breswylwyr gael ar ein teimlad ac ar ein hymddygiad. Dylai yn

1. Godi ein myfyrdodau a'n serchiadau uwchlaw pethau y byd hwn, a'u sefydlu ar bethau y byd tragwyddol. Ni ddylem adael i bethau *goreu* y byd hwn, ei olud penaf, ei fwynderau melusaf, ei etifeddiaethau blodeuog, ei balasau teg, ei sidanau a'i ysgarlad, ei gadwyni aur a'i berlau, ei basgedigion brasaf a'i winoedd melusaf, ei anrhydedd, ei fri, na'i ddifyrwch, gael ein calon: ac ni ddylem adael i'w bethau *gwaethaf* dòri ein calon, oblegid pethau yn "myned heibio" ydynt; pethau darfodedig, pethau dros amser. Dylem ymgodi ar aden ffydd i fyw uwchlaw ei wên, ac uwchlaw ei wg hefyd—uwch cyrhaedd ei dymhestloedd, ac uwch cyrhaedd hudoliaethau ei rwysg a'i fwyniant. Y mae enaid dyn yn rhy fawr i bethau y byd hwn ei ddiwallu, a dylai fod yn rhy fawr hefyd i gymeryd ei fathru yn y llwch dan draed y byd.

2. Dylem lawenhau mewn un ystyr am fod dull y byd yn myned heibio, oblegid yr ydym yn gobeithio ac yn hyderu ei fod yn myned heibio *er gwell.* Buasai yn achos o alar i'r credadyn pe buasai y byd i aros byth yn ei ddull presenol. Yr ydym yn gobeithio fod rhai o'i ddrygau gwaethaf yn myned heibio. Yr ydym yn gobeithio fod ei gaethiwed, ei ormes, a'i erledigaethau yn myned heibio; fod ei drais, ei derfysgoedd, a'i ryfeloedd yn myned heibio; fod ei dywyllwch, ei anffyddiaeth, a'i goelgrefydd yn myned heibio; fod ei afradlonedd, ei feddwdod, a'i annhrefn yn myned heibio; fod ei dwyll, ei gelwydd, a'i ddichell yn myned heibio: y gwelir dull gwell arno yn fuan—y daw yn fwy goleu, yn fwy teg, ac yn fwy tawel; y daw yn fwy llawn o ddiwydrwydd, o gyfoeth, ac o gysur: y troir ei dai llygredd yn athrofaau rhinwedd, ei dai gwagedd ac oferedd yn llysoedd cân a gweddi. Y mae llawer o gynniwair yn y byd, ac y mae ei wybodaethau yn amlhau. Y mae ei gelfyddydau yn cael eu

cywreinio yn feunyddiol. Yr ydys yn cael allan ryw ddyfais newydd fuddiol bron bob dydd. Yr ydys o hyd yn dyblu yr egniadau i leihau ei ddrygau, i ysgafnhau ei feichiau, ac i luosogi ei gyfleusderau a'i gysuron. Y mae ei sefydliadau o elusen, ac addysg, a chrefydd, yn amlhau ac yn cryfhau eu dylanwadau. Y mae egwyddorion y deyrnas nad yw o'r byd hwn yn ennill tir yn barhaus. Y *mae* dull y byd hwn yn myned heibio; ond y mae yn newid er *gwell* o ran y *rhan fwyaf* o'i amgylchiadau; ac yr ydym yn gobeithio y parha i wella ei ddull nes y daw ei deyrnasoedd oll yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef.

3. Dylem ystyried yn ddifrifol beth ydym *ni* yn wneud yn y byd wrth fyned trwyddo. Yr ydym ni yn dylanwadu yn barhaus ar ei ddull, er ei wneud yn well neu yn waeth. Y mae galluoedd ein corff a'n meddwl ar waith yn wastadol; ac nid oes modd i hyny beidio effeithio ar gymdeithas mewn rhyw fodd neu gilydd. Y mae ein bywyd a'n hymarweddiad yn dylanwadu yn barhaus, er da neu er drwg, yn ein teuluoedd a'n cymydogaethau, ac ar ein gwlad ac ar y byd. Yr ydym yn gweithio o hyd dros lygredd, neu dros rinwedd; dros Grist, neu yn ei erbyn; dan faner wen y nefoedd, neu dan faner ddu uffern; gyda ffyddloniaid yr Oen, neu gyda byddinoedd y diafol. a gweddai i ni ystyried yn ddifrifol pa le yr ydym yn sefyll, pa beth yw ein dylanwad, a thros bwy yr ydym yn gweithio. Y mae y rhai sydd yn weision pechod yn newid dull y byd *er gwaeth;* a buasai yn well i'r byd, ac yn enwedig i'w teuluoedd ac iddynt hwy eu hunain, pe buasent heb eu geni. Y mae gweision Crist yn newid dull y byd er gwell; y mae eu hysbryd, a'u geiriau, a'u hymarweddiad yn lles i'w ceraint ac i'r byd, ac ni chollant eu gwobr yn nydd mawr y cyfrif.

4. Dylem ddwys dosturio wrth y bobl sydd heb ddim yn eu meddiant ond pethau "yn myned heibio." Dyna ydyw sefyllfa yr annuwiol. Gall fod ganddo etifeddiaeth eang, gall fod ganddo balas o farmor, gall ei fod yn marchogaeth yn ei gerbyd esmwyth addurnedig, gall fod ei fwrdd yn llwythog o basgedigion, gall ei fod yn yfed ei win mewn cwpan o aur, gall ei fod yn gwisgo ysgarlad a llian main, gall fod y lleni sidan o gylch ei wely, gall fod y llawrlen gynhes esmwyth o dan ei draed, gall fod peroriaeth y delyn a'r organ yn chwareu drwy ystafelloedd ei drigfa, gall fod heulwen llwyddiant yn llewyrchu ar ei babell, a gall fod ei gymdeithion llawen yn gwneud eu goreu i'w ddifyru; ond nid oes ganddo ddim yn ei feddiant ond pethau "yn myned heibio;" a gall fod yr awr yn ymyl pan y cyll y cyfan, ac y gadewir ef heb ddafn o gysur, ac na bydd gobaith am ymwared.

5. Dylem feddwl yn fawr am gymeriad ac am gyflwr y creadyn; am ei ddoethineb a'i ddiogelwch, a'i dawelwch a'i obeithion. Gall ei fod yn dlawd ac yn isel ei amgylchiadau, gall ei fod yn ddigartref ac yn ddigyfeillion, gall fod y byd yn troi ei gefn arno yn ei angen a'i gystudd, gall nad oes ganddo ond elusen ansicr dyn rhyngddo â newynu; ond, er y cyfan, y mae yn oludog a dedwydd; y mae ei gyflwr yn ddiogel, a'i gymeriad yn anrhydeddus. Y mae addewidion yr efengyl yn eiddo iddo. Y mae bendithion yr iachawdwriaeth yn eiddo iddo. Y mae trysorau cariad yr Iesu yn eiddo iddo. Y mae gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glan, yn eiddo iddo. Y mae gweinidogaeth angylion a chymundeb y saint yn eiddo iddo. Y mae ganddo deitl i weddïau yr eglwys a chaniadau y nefoedd. Y mae pob peth yn cydweithio o'i du; a holl nerthoedd Duw mewn cyfammod i'w gymhwyso i ogoniant.

6. Y mae darluniad Paul yma o'r "byd hwn" yn rhoddi i ni feddwl mawr ac uchel a phwysig am *dragwyddoldeb*. Nid oes yno ddim newid, ddim myned heibio, ddim heneiddio na darfod; ond y mae pethau y byd tragwyddol yn aros yn ddigyfnewid. Yn un wlad y mae nos ddu dymhestlog, ond nid yw yn myned heibio—nid oes yno ddim gobaith am dòriad gwawr byth. Y mae yno bryf, ond nid yw yn marw; y mae yno dân, ond nid yw yn diffoddi; y mae yno fwg poenedigaeth, ac y mae yn esgyn i fyny yn oes oesoedd; y mae yno bydew, ond y mae heb waelod; y mae yno agenddor, ond nid oes neb byth yn cael croesi drosti; y mae yno syched, ond nid oes defnyn o ddwfr oer yno i oeri y tafod; y mae yno glwyf yn y gydwybod, ond nid oes yno ddim balm i'w meddyginiaethu; y mae yno halogrwydd, ond nid oes yno ddim gwaed i lanhau; y mae yno euogrwydd, ond nid oes yno ddim Iawn i fod yn ddadl maddeuant. O'r tu arall, y mae yno wlad o wynfyd tragwyddol, gwlad lle mae digrifwch yn oes oesoedd, gwlad o haf diddarfod, lle na wywa ei blodau, lle na sycha ei ffynnonau bywiol o ddyfroedd, lle na fachluda ei haul mwyach, lle na bydd arnynt newyn mwyach na syched mwyach, lle y cânt orphwys dan gysgod pren y bywyd heb ddim i'w drygu nac i'w dychrynu byth. Gwlad lle na bydd dim i oeri na llygru eu cymdeithas; gwlad lle bydd y gân o hyd yn newydd, a'r wledd o hyd yn llawn, a'r llawenydd yn ddidranc; gwlad lle nad oes na gwyfyn na rhwd i lygru ei thrysorau; gwlad lle na bydd neb yn glaf na neb yn marw; gwlad lle y bydd holldd-igonedd i lenwi holl ddymuniadau ei phreswylwyr. Gwnawn ein goreu, yn ein hamser byr yn y byd hwn, er ein cael yn gymhwys i fyned i'r wlad ddedwydd hòno i gartrefu.

RHODRESWAITH CONSURWYR.

"Yna rhai o'r Iuddewon crwydraidd, y rhai oedd gonsurwyr, a gymerasant arnynt enwi uwchben y rhai oedd âg ysbrydion drwg ynddynt, enw yr Arglwydd Iesu, gan ddywedyd, Yr ydym ni yn eich tynghedu chwi trwy yr Iesu, yr hwn y mae Paul yn ei bregethu. Ac yr oedd rhyw saith o feibion i Scefa, Iuddew, ac archoffeiriad, y rhai oedd yn gwneuthur hyn. A'r ysbryd drwg a atebodd ac a ddywedodd, Yr Iesu yr wyf yn ei adnabod, a Phaul a adwaen; eithr pwy ydych chwi? A'r dyn yr hwn yr oedd yr ysbryd drwg ynddo, a ruthrodd arnynt, ac a'u gorchfygodd, ac a fu drwm yn eu herbyn; hyd oni ffoisant hwy allan o'r tŷ hwnw, yn noethion ac yn archolledig. A hyn a fu hysbys gan yr holl Iuddewon a'r Groegiaid hefyd, y rhai oedd yn preswylio yn Ephesus; ac ofn a syrthiodd arnynt oll, ac enw yr Arglwydd Iesu a fawrygwyd. A llawer o'r rhai a gredasant a ddaethant, ac a gyffesasant, ac a fynegasant eu gweithredoedd. Llawer hefyd o'r rhai a fuasai yn gwneuthur rhodreswaith, a ddygasant eu llyfrau yn nghyd, ac a'u llosgasant yn ngwydd pawb: a hwy a fwriasant eu gwerth hwy, ac a'i cawsant yn ddeng mil a deugain o ddarnau arian. Mor gadarn y cynnyddodd gair yr Arglwydd, ac y cryfhaodd."—ACTAU xix. 13—20.

Y MAE yn addysgiadol ac annogaethol i ddarllen a meddwl am fuddugoliaethau cyntaf yr efengyl yn oesau boreuaf Cristionogaeth; am ddwysbigiad ac argyhoeddiad y tair mil yn Jerusalem ar ddydd y Pentecost; am ychwanegiad dwy fil at nifer y credinwyr yn fuan ar ol hyny; am ledaeniad y gair drwy bentrefydd Judea, Samaria, a Galilea; am ôl yr efengyl yn nheuluoedd Lydia, Cornelius, ceidwad y carchar, ac hyd yn nod yn nheulu Cesar; am ddylanwad cariad Crist ar Paul, a Dionysius, a Damaris, a'r eunuch galluog o Ethiopia, a Sergius Paulus y rhaglaw, a llawer eraill; ac am bregethiad yr ymadrodd am y groes trwy Antiochia, a Macedonia, a Phœnicia, a Cyprus; ac yn Coriuth, ac Athen, a Berea, a Thessalonica, a Philippi, a Rhufain. Crybwyllir yn yr adnodau a ddarllenwyd am amgylchiad a gymerodd le yn Ephesus yn ystod y ddwy flynedd y bu Paul yno yn efengylu golud Crist i bawb oedd yn trigo yn Asia, yn Iuddewon a Groegiaid. A gwyrthiau rhagorol a wnaeth Duw trwy ddwylaw Paul; hyd oni ddygid at y cleifion oddiwrth ei gorff ef napcynau, neu foledau; a'r clefydau a ymadawai â hwynt, a'r ysbrydion drwg a aent allan o honynt. Yr oedd Iuddewon crwydraidd y pryd hyny yn Ephesus, yn cenfigenu wrth sel a doniau, a gwyrthiau, a llwyddiant Paul; ac yr oeddynt am i'r Ephesiaid a'r byd gredu, eu bod yn gystal dynion, ac yn gymaint dynion ag oedd Paul; eu bod yn "gonsurwyr" trwyddedig, o'r urdd oreu; ac y medrent iachâu cleifion, a bwrw allan ysbrydion drwg, a chyflawni pob gwyrthiau eraill; mewn gair, bod ganddynt bob dawn, a gras, a gallu, ag oedd gan Paul. Ac yr oedd rhyw saith o feibion i Scefa, Iuddew, ac archoffeiriad, yn proffesu ac yn ymffrostio y

gallent wneuthur hyn: ac yr oeddynt yn cymeryd arnynt enwi uwchben y rhai oedd âg ysbrydion drwg ynddynt enw yr Arglwydd Iesu, gan ddywedyd, "Yr ydym ni yn eich tyngheduchwi trwy yr Iesu, yr hwn y mae Paul yn ei bregethu." Ond yr oedd yr ysbryd drwg ei hun yn ffieiddio rhagrith ac ymffrost y fath gonsurwyr: a phan oeddynt yn gorchymyn iddo fyned allan, yn lle ufuddhau, cododd yn eu herbyn, a dywedodd, "Yr Iesu yr wyf yn ei adnabod, Sant Duw ydyw; a Phaul a adwaen, apostol ffyddlawn a llafurus ydyw, yn gweinidogaethu yn enw ac yn nerth yr Iesu; eithr pwy ydych chwi, y crwydriaid diog, hunanol, cybyddlyd, cnawdol? Pwy ydych chwi, y twyllwyr celwyddog, y glythion boliog, sy'n crwydro ar draws y gwledydd? Pwy ydych chwi i feiddio enwi enw y Sant Iesu, ac i feiddio hòni eich bod yr un alwedigaeth ac apostolaeth a Paul? Yr wyf fi yn adwaen yr Iesu a'i apostol, ac os rhaid i mi blygu i ufuddhau iddynt *hwy*, ni raid i mi ddim plygu i chwi, y crwydriaid lladronig;" ac efe a ruthrodd arnynt, ac a'u gorchfygodd, ac a fu drwm yn eu herbyn; ac a rwygodd eu dillad a'u cnawd, hyd oni ffoisant allan o'r tŷ hwnw, yn noethion ac yn archolledig. Tro yn iawn wnaeth yr "ysbryd drwg" hwnw. Yr oedd y consurwyr, *saith* o honynt, wedi dyfod i'r tŷ yn rhith-santeiddiol a mawreddog, fel pe buasai nefoedd a daear ac uffern dan eu hawdurdod; ond rhoddodd yr ysbryd drwg ei ddyrnau yn drwm arnynt, a phlanodd ei ewinedd yn ddwfn yn eu cnawd, a rhwygodd eu dillad yn gareiau oddiam danynt; ac yr oedd golwg hyll arnynt yn ffoi allan o'r tŷ hwnw, yn noethion, ac yn waed, ac yn garpiau, ac archollion a chleisiau i gyd drostynt; ac yn rhedeg drwy'r ddinas fel dynion gwylltion o'r coed, ac yn ysgrechian yn eu dychryn rhag y buasai yr ysbryd drwg yn eu hysgubo ar unwaith o'i flaen i uffern, yn noethion fel yr oeddynt, heb iddynt gael amser i wisgo am danynt, na dweyd eu pader, na chyffesu eu pechodau i'w tad Scefa, yr archoffeiriad; na galw am Paul i roi yr ysbryd drwg i lawr, na dim arall. Ac yr oedd y tro hwn mor *gyhoeddus*, fel y bu yn hysbys gan yr holl Iuddewon a'r Groegiaid hefyd, y rhai oedd yn preswylio yn Ephesus; ac ofn a syrthiodd arnynt oll, ac enw yr Arglwydd Iesu a fawrygwyd. A llawer o'r rhai a gredasant a ddaethant, ac a gyffesasant, ac a fynegasant eu gweithredoedd. A llawer o'r rhai a fuasai yn gwneuthur rhodreswaith consuriaeth a ddygasant eu llyfrau yn nghyd, ac a'u llosgasant yn ngwydd pawb; a hwy a fwriasant eu gwerth hwy, ac a'i cawsant yn ddeng mil a deugain o ddarnau arian. Mor gadarn y cynnyddodd gair yr Arglwydd, ac y cryfhaodd. Rhaid fod "rhodreswaith consurwyr" mewn bri mawr

yn yr oes hòno, pan yr oedd y fath nifer o lyfrau crefft dewiniaeth mewn un ddinas. Buasai yn dda i'r byd pe buasai pob rhodreswaith felly yn darfod y pryd hyny, pe buasai pob swyngyfaredd a dewiniaeth wedi diflanu o'r byd er dyddiau Paul; buasai yn dda pe buasai holl gonsurwyr y byd yn cael eu hargyhoeddi a'u dychrynu yr un pryd a meibion Scefa; a phe buasai holl lyfrau y fath goelgrefydd ac ynfydrwydd yn cael eu gwneud yn goelcerth y pryd hyny, *nid gan unrhyw awdurdodau gwladol*, ond gan eu hastudwyr argyhoeddedig; ond gan fod gweddillion, ac olion, a dylanwadau yr hen grefft ddu felldithiol wedi aros drwy'r holl oesau, ac wedi achosi y fath niweidiau; a chan fod rhai canghenau o'r grefft yn cael eu proffesu mewn llawer man yn ein dyddiau ni; a chan fod tuedd cryf yn y galon ddynol, pan yn esgeuluso ordinhadau yr efengyl, ac yn diystyru ei haddysg, ac yn casâu ei goleuni, i ymollwng i afaelion hudoliaethau consurwyr; a chan fod pob ymollyngiad i'r fath dwyll, a phob gogwyddiad ato mor niweidiol, ac mor bechadurus, yn llygru ac yn caledu y galon, yn nychu dedwyddwch teuluaidd, yn dyrysu trefniadau gwlad, yn croesi egwyddorion efengyl, ac yn ddirmyg ar awdurdod y nefoedd, dichon mai nid anfuddiol fyddai i ni droi ein myfyrdodau am ychydig fynydau at destun o'r ystyr a ddarllenwyd. A gallem nodi yn

I. Rai o brif canghenau rhodreswaith consurwyr.

1. Hònir y gallant ddarogan tynged, neu helyntion bywyd dyn, oddiwrth *blaned* ei enedigaeth, ac oddiwrth amgylchiadau eraill; hyny yw, y gallant ddweyd pa un ai cyfoethog ai tlawd fydd, pa un ai helbulus ai esmwyth fydd ei fywyd, pa un ai tirion ai creulawn fydd ei dymher, pa un ai nwydwyllt ai addfwyn fydd ei ysbryd, pa un ai hir ai ber fydd ei oes, a pha un ai naturiol ar ei wely, ai trwy drais, neu ddamwain y bydd marw; a hònir hefyd y gallant ddweyd pa fath wyneb a chalon fydd gan gymhares ei fywyd; a pha beth fydd tynged ei blant ar ei ol. Oni b'ai fod hòniadau afresymol fel hyn yn effeithio mor andwyol mewn llawer o amgylchiadau, ni byddai yn werth i neb gymeryd dim trafferth i drefnu ei resymeg er eu gwrthbrofi. Ond gellid sylwi mai nid y bobl fanylaf am gadw eu hamser ydyw y bobl sydd am wybod eu tesni, fod eu *clociau*, fel hwy eu hunain, dros ddwy awr o'u lle y rhan amlaf, ac nas gwyddant awr eu genedigaeth, ac o ganlyniad nis gellir gwybod planed eu genedigaeth; a phrin yr wyf yn meddwl fod consurwyr crwydraidd yr oesau diweddaf yn ddigon o rifyddwyr a seryddwyr, eu bod yn gwybod digon am lwybr yr haul ac am dro-gylchoedd y planedau er gallu cyfrif yn ol, i wybod planed genedigaeth dyn, hyd yn nod pe

byddent wedi cael hysbysiad cywir o *awr* ei enedigaeth. Gellid sylwi yn mhellach, fod miloedd wedi cael eu geni dan yr un blaned, ond yn cyfarfod â helyntion hollol wahanol; a bod miloedd wedi cael eu geni dan blanedau gwahanol, ond yn cyfarfod â'r un helyntion a'r un diwedd. Gellid sylwi hefyd y cyhoedda un consurwr heddyw dynged ddudrom uwchben y truan fydd yn gwrando arno, ac arwydda ofid ei galon wrth gyhoeddi fod y fath drallodion yn aros un o'i gyd-ddynion; ond ei fod yn rhwym fel "consurwr gonest" o hysbysu prophwydoliaethau ei blaned; y buasai yn dda iawn ganddo pe buasai wedi cael ei eni dan blaned mwy lwcus; ond nad oedd dim i'w wneud ond plygu, am mai hollol ofer fyddai iddo wingo yn erbyn ei blaned a'i dynged. Ond er cysur i'r truan yn ei ddychryn a'i siomedigaeth, daw consurwr *arall* heibio iddo dranoeth, a dywed y gall ddirymu prophwydoliaeth y consurwr cyntaf, a newid ei dynged yntau, ond iddo gael digon o arian er ei alluogi i fyned drwy y drafferth o hyny. Gellir sylwi hefyd—Os y planedau sy'n dylanwadu ar fuchedd ac ar dynged dynion, nad oedd ac nad yw o ddim lles i sefydlu a dilyn moddion moesol er diwygio a gwella y byd. Os y planedau sydd i lywodraethu ysbryd a cherddediad dyn, yna ofer oedd rhoddi iddo athrawiaethau ac ordinhadau y Beibl. Nid yw dyn felly ddim yn fwy cyfrifol am ei fuchedd nag oedd y baban yn gyfrifol am le y blaned ar fynyd ei enedigaeth. Y mae pregeth fawr, faith, ddofn y consurwyr ar "blaned genedigaeth dyn," yn llawn o dwyll ac o anghysondeb. Nid yw ond dichell dynion cyfrwys er ennill enw neu elw iddynt eu hunain. Y mae y dynion mwyaf gonest a'r dynion mwyaf lladronig, y dynion mwyaf tirion a'r dynion mwyaf creulawn, y dynion mwyaf tawel a'r dynion mwyaf terfysglyd, y dynion puraf eu calon a'r dynion aflanaf eu calon a'u buchedd, y dyngarwyr haelaf a hawddgaraf, a'r llofruddion mwyaf barbaraidd a gwaedlyd, y credinwyr gwyleiddiaf a'r anffyddwyr hyfaf, oll wedi eu geni dan yr un blaned. Y mae dynion y "blaned ddrwg" wedi troi allan yn ddynion da, a defnyddiol, a dedwydd; a dynion y "blaned dda" wedi troi allan yn ddynion gwaethaf fu dan haul erioed. Ac y mae gwaith y consurwyr yn proffesu y medrant wella anhwylderau dyn, a symud ei brofedigaethau, yn llwyr andwyo eu pregeth am athrawiaeth "tynged ei blaned."

2. Hònir y gallant ddadguddio trysorau cuddiedig, neu eiddo wedi ei golli, neu eiddo lladrad wedi ei guddio. Y mae yn rhyfedd iawn, os medrant wneud hyn, na fedrent gael ychydig o ryw drysorau iddynt eu hunain, yn lle bod yn grwydriaid carpiog anghenus; y rhan amlaf heb gartref, na maes, na masnach,

na gardd, na gwinllan, nac unrhyw alwedigaeth fuddiol. Os medrant ddatguddio trysorau cudd, pa fodd nad ydynt byth, trwy ddyfnderau dysg eu crefft, yn darganfod neu yn dangos mwnau gwerthfawr er lles y byd, ac er elw iddynt eu hunain hefyd? Pa fodd na fedrent ddangos ryw dro wythïen yr arian, a lle yr aur, a'r pridd y tynir haiarn allan o hono, a'r gàreg y toddir pres o honi? Pa bryd y bu consurwyr yn feddianuwyr nac yn gyfarwyddwyr mwngloddiau aur, nac arian, na phres, na haiarn, nac yn arolygwyr cloddiau glo na marmor, nac yn berchenogion gweithiau plwm nac alcam? Nid ydynt ddim yn rhy nefolfrydig i chwennychu cyfoeth; ac os ydyw y ddawn i ddarganfod pethau cudd ganddynt, gallasent fod yn rhes uchaf cyfoethogion y byd.

3. Hònir y gallant ddrygu dynion; eu drygu yn eu cyrff, neu yn eu meddyliau, neu ddrygu eu teuluoedd a'u ceraint, neu ddrygu eu hanifeiliaid, a chynnyrch eu tir, a phob rhan o'u heiddo. Arwyddir yn fynych y gallant fytheirio ebychiad ofnadwy yn erbyn y neb fyddant am ddrygu; ac na lwydda dim os byddant hwy wedi "tynu eu llygaid drosto." Yn awr y mae ysbrydion drwg yn lluosog, ac yn llawn o genfigen, ac o elyniaeth, a drwg-ewyllys yn erbyn plant dynion; ac y maent yn "myned o amgylch" i chwilio am le i'w drygu; ac y mae yn alarus y rhaid addef fod dynion drwg cenfigenllyd yn lluosog, ac yn llawn o elyniaeth a nwydau drwg, a'u bod yn ewyllysio drwg i'w cyd-ddynion; yn awr os gall dynion drwg ac ysbrydion drwg gydweithredu i ddylanwadu ar y gwynt, neu y tân, neu y dwfr, neu yr awyr, er drygu personau neu deuluoedd; y mae yn rhyfedd na byddai mwy o ddifrod ac o ddinystr, a mwy o anffodau ac o heintiau yn y byd nag sydd. Y mae digon o lid ac o ysbryd dial mewn gelynion at eu gilydd er ei gwneud ar unwaith yn uffern rhyngddynt y tu yma i uffern, pe medrent drwy ryw swyn neu ddewiniaeth gyflawni eu drwg-ewyllys. Y mae llawer dyn yn ddigon dig i andwyo ei gymydog, pe medrai wneud hyny yn rhyw ddull y tu allan i gyrhaedd cleddyf y gyfraith. Y mae llawer teulu yn ddigon cenfigenllyd i andwyo y teulu sydd yn eu hymyl, pe medrent wneud hyny ryw fodd trwy gonsuriaeth. Y mae llawer Balac etto yn ddigon parod i regu Israel pe medrai gael rhyw Balaam fedrai wneud hyny. Byddai yn dda iawn gan fyddinoedd gwrthwynebol, pan yn bloeddio i'r frwydr yn nghynddaredd eu dialgarwch, pe medrent gyflogi consurwyr ac ysbrydion drwg i ymdaith i'r maes o'u blaen i ddyrysu eu gelynion. Nid hir y byddent heb daro eu gelynion â dallineb neu â diffrwythder pe medrent wneud hyny. Taranent a mellteuent a

chwythent boethwynt ystormus i'w herbyn pe medrent gyflogi rhyw ddewin i allu gwneud hyny. Consurient y ser, a'r llif, a'r haint, a bwystfilod y maes, a seirph y llwch i ryfela yn erbyn eu gelynion pe medrent. Gall dynion ddrygu eu gilydd trwy foddion *naturiol*, drwy arfau rhyfel, trwy dân, neu trwy wenwyn; a gallant ddrygu a llygru eu gilydd yn *foesol* drwy hudoliaethau a llygredigaethau moesol. Y mae gan ddynion lawer ffordd i ddrygu eu gilydd trwy foddion moesol a naturiol; ond, trwy drugaredd Awdwr anian a'i deddfau, nis medrant ddrygu eu gilydd trwy gonsuriaeth, neu mewn modd goruwchnaturiol, gwyrthiol; ni fedrant weithio yn ddigyfrwng, nac yn groes i ddeddfau anian. Ni fedrant ennyn tân â gair o'u genau. Ni fedrant anfon heintiau allan i rodio yn y tywyllwch yn ol eu hewyllys hwy. Ni fedrant gynhyrfu tymhestl pan y gwelant yn dda. Pe buasai cenfigen a chås plant dynion yn medru drygu eu gilydd trwy gonsuriaeth, buasai yr holl deulu dynol wedi darfod o'r byd er's llawer oes.

4. Hònir y gallant iachâu clefydau, a gwella pob anhwylderau, a swyno ymaith boenau a phob rhyw bruddglwyf, nid trwy physygwriaeth, ond trwy gonsuriaeth; nid trwy rinweddau moddion meddyginiaethol, ond trwy eu swynion, trwy eiriau eu dewiniaeth. Y mae yn fwy dymunol eu clywed yn hòni y gallant iachâu na'u clywed yn ymffrostio y gallant ddrygu; ond y mae y naill hòniad mor ddisail ag ydyw y llall. Os medrant iachâu, pa fodd y mae eu teuluoedd eu hunain mor fynych mewn gwaew a gwewyr? Pa fodd y mae eu cyfeillion penaf yn dyoddef oddiwrth glefydau ac anhwylderau? Pa fodd y mae cymaint o ôl afiechyd ar eu gwedd eu hunain? A pha fodd hefyd, os medrant wella rhai clefydau, na fedrent wella pob afiechyd. Os medrant iachâu y gwahanglwyfus, pa fodd na fedrent roddi ei olwg i'r dall. Os medrant attal llifiad y gwaed, pa fodd nad allent gyfanu yr asgwrn tòredig. Os medrant iachâu y claf o'r parlys, pa fodd na fedrent roddi clyw i fyddariaid? Os yw y ddawn i iachâu ganddynt, pa fodd nad ymroddent i'w harfer yn nghylchoedd uchaf cymdeithas, yn nheuluoedd pendefigion goludog ac anianyddion dysgedig? Pe gwnelent hyny, gwelid hwy yn fuan yn foneddigion y palasau a'r sidanau, yn lle yn grwydriaid digartref, llwydion, gwelwon, budron, carpiog; yn astudio rhyw dwyll er cael tamaid o fara. Pe buasent yn medru gwneud yr hyn a broffesent, buasai yn hawdd iddynt ennill cyfoeth; a chael bywoliaeth fras, a bywyd esmwyth, a marchogaeth yn eu cerbydau, a chael eu dilladu mewn ysgarlad, a chael eistedd wrth fyrddau arglwyddi a thywysogion. Gallasent neillduo un *sect*

ddiwyd o'u hurdd fawr i *ddrygu* dynion, er mwyn i'w sectau eraill gael digon o waith i *iachâu*. Gallasent felly luosogi eu gwyrthiau, a llenwi y byd â dylanwad eu doniau; a phe buasid yn dygwydd dal un o ddosbarth y *rheyu* yn gwneud drwg i ryw deulu, ni byddai o un dyben i geisio ei rwymo, oblegid gallai dòri pob rhwymyn fel y tòrodd Samson y gwdyn irion, a'r rhaffau newyddion; a gallai ddianc o bob carchar fel y diangodd Samson o Gaza, a drysau porth y ddinas ar ei ysgwyddau, ac fel y diangodd Pedr heibio i'r pedwar pedwariaid o filwyr; a phe teflid ef i'r tân, gallai ddyfod allan heb i'r tân finio ar ei gorff, fel y daeth y tri llanc allan o'r ffwrn danllyd boeth ar wastadedd Dura. Nid yw eu hòniadau ond twyll. Pe medrent ddaroganu tynged dynion, llenwid y byd yn fuan â'u prophwydoliaethau. Pe medrent ddatguddio pethau cuddiedig, buan y llenwid eu trysorau. Pe medrent ladd ac iachâu, gwelid digon o brofion yn fuan o ôl eu nerth.

II. Y mae yn hawdd dangos fod holl rodreswaith consurwyr YN HOLLOL GROES I YSBRYD AC ADDYSGIADAU CRISTIONOGAETH, ac yn taro yn uniongyrchol yn erbyn holl oruchwyliaethau ac ordinhadau yr efengyl.

1. Y mae holl ddarluniadau y Beibl o gymeriad ac o grefft consurwyr, a dewiniaid, a brudwyr, a swynwyr yn profi hyn. Os sylwn ar hanes hudolion a swynwyr yr Aipht yn amser Moses ac Aaron; ar hanes Balaam, y dewin doniol a rhodresgar, yn ei ddyrysu ei hun ac yn dyrysu eraill yn amser Balac; a hanes hen ddewines gyfrwys Endor yn amser gwallgofrwydd anobaith Saul yn ei ddyryswch, ei anffyddiaeth, a'i goelgrefydd; a hanes swynwyr a brudwyr llys Caldea yn methu adrodd nac esbonio breuddwydion Nebuchodonosor yn amser Daniel; a hanes Simon yn Samaria, yr hwn yr oedd iddo enw mawr fel swynwr, a'r hwn oedd wedi ennill clw mawr drwy ei rodreswaith; a'r hwn yr oedd pawb yno, "o'r lleiaf hyd y mwyaf," yn rhoddi eu "coel" arno; a'r hwn, wrth weled yr arwyddion a'r nerthoedd mawrion a wneid gan Phylip a Phedr, a "gynnygiodd arian" iddynt, er cael meddiannu y ddawn; yr hyn oedd yn brawf ei fod *heb* y ddawn yn flaenorol, a'i fod yn ddigon ymwybodol o hyny; a hanes Elymas yn amser Paul yn ceisio gwrthwynebu yr efengyl, a gŵyrdroi y rhaglaw Sergius Paulus oddiwrth y ffydd; cawn fod eu holl hanes yn dangos eu bod yn wrthwynebwyr ysgeler i oruchwyliaethau gras. Nid oedd modd beio Simon y swynwr yn fwy llym nag y gwnaeth Pedr, pan y dywedodd wrtho, "Bydded dy arian gyda thi i ddystryw, am i ti dybied y meddiennir dawn Duw trwy arian. Nid oes i ti na rhan na chyfran yn y

gorchwyl hwn; canys nid yw dy galon di yn uniawn ger bron Duw. Edifarha, gan hyny, am dy ddrygioni hwn, a gweddïa Dduw, a taddeuir i ti feddylfryd dy galon. Canys mi a'th welaf mewn bustl chwerwder, a rhwymedigaeth anwiredd." A thrwm arswydus oedd geiriau Paul wrth Elymas y swynwr; pan yr edrychodd yn graff arno, ac y dywedodd yn ei wyneb, "O gyflawn o bob twyll, a phob ysgelerder; tydi, mab diafol, a gelyn pob cyfiawnder, oni pheidi di a gwyro uniawn ffyrdd yr Arglwydd? Ac yn awr, wele law yr Arglwydd arnat ti, a thi a fyddi ddall heb weled yr haul dros amser. Ac yn ddiattreg y syrthiodd arno niwlen a thywyllwch; ac efe a aeth oddiamgylch gan geisio rhai i'w arwain erbyn ei law." Cafodd Elymas y swynwr brawf, er ei warth a'i ofid, ei fod wrth wrthwynebu Paul wedi cyfarfod âg un trech nag ef. Yr oedd golwg druenus ar Elymas yn estyn ei ben, ac yn ysgwyd ei amrantau, er ceisio symud y niwlen oedd wedi dyfod mor sydyn dros ei lygaid, ac yn teimlo y ddaear o'i ddeutu â'i ffon, ac â'i draed, rhag iddo syrthio i'r ffos; ac yn ymbalfalu ganol dydd â'r pared; ac yn ceisio rhywun i gymeryd trugaredd arno i'w arwain erbyn ei law i'w letty. Yr oedd yn addysgiadol i weled Elymas, yr hwn yr oedd ei enwogrwydd fel swynwr mor uchel drwy holl ynys fawr Cyprus, a llawer parth arall o'r byd, yn methu swyno ymaith y "niwlen" oddiar ei lygaid ei hun. Yr oedd ysbryd a llythyren cyfraith yr Hen Destament yn drwm iawn yn erbyn hudoliaethau consuriaeth a swyngyfaredd. Dyma eiriau y gyfraith a roddwyd i Israel ar y mater yn amser Moses, "Pan elych di i'r tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti, na ddysg wneuthur yn ol ffieidd-dra y cenedloedd hyny. Na chaffer ynot a arfero ddewiniaeth, na phlanedydd, na daroganwr, na hudolwr, na swynwr swynion, nac a geisio gonsuriwr, neu frudiwr, nac a ymofyno â'r meirw; o herwydd ffieidd-dra gan yr Arglwydd yw pawb a wnelo hyn; ac o achos y ffieidd-dra hyn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn eu gyru hwynt allan o'th flaen di." Dywedir mewn man arall yn nghyfraith Moses, "Nac ewch ar ol dewiniaid, ac nac ymofynwch â'r brudwyr i ymhalogi o'u plegid: yr Arglwydd eich Duw ydwyf fi." Dywedir wrth Israel mewn man arall, "Canys y cenedloedd hyn, y rhai a feddienni di, a wrandawsant ar blanedyddion, ac ar ddewiniaid; ond am danat ti, nid felly y caniataodd yr Arglwydd dy Dduw i ti." Mewn man arall dywedir, "Gwr neu wraig a fo ganddynt ysbryd dewiniaeth, neu frud, hwy a leddir yn farw; â chèryg y llabyddiant hwynt; eu gwaed fydd arnynt eu hunain." Yn y darluniad a rydd y Beibl o bechodau ysgelor Manasseh, ceir y geiriau

trymion, "Efe a arferodd frud, a hudoliaeth, a chyfareddion, ac a fawrhaodd y swynyddion a'r dewiniaid; ac a wnaeth lawer o ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd i'w ddigio ef." Un o'r prif bechodau oedd yn twyllo Israel gynt i ymlygru ac ymgaledu, ac i droseddu cyfammod eu Duw, ac i esgeuluso gwasanaeth ei allor yn amserau y brenhinoedd eulunaddolgar Jeroboam mab Nebat, ac Ahab, ac Ahaz, ac eraill, oedd rhoddi *coel* i frudwyr, ceisio gwybodaeth gan gonsurwyr, ac arfer dewiniaeth a swynion; ac ofergoeledd eu cyfareddion oedd yn achosi i'w Duw gefnu arnynt a'u gwerthu i orthrymder eu gelynion. Y mae Ioan y Duwinydd yn dysgu mai trwy ei swyngyfaredd yr oedd Babilon y ddinas fawr yn twyllo yr holl genedloedd, ac mai oblegid ei thwyll a'i thrais y daeth dial Duw arni; ac y mae, wrth ddiweddgloi y datguddiad dwyfol, yn cyhoeddi mai oddiallan i'r ddinas nefol y bydd y "swyngyfareddwyr a phob un a'r sydd yn caru ac yn gwneuthur celwydd;" ac y bwrir hwy i'r llyn o dân i gael eu poeni ddydd a nos yn oes oesoedd. Y mae y Beibl o'i ddechreu i'w ddiwedd yn dŷn yn erbyn gwreiddiau a changhenau hen grefft ddamniol consuriaeth.

2. Y mae y dulliau a ddewisir gan gonsurwyr i gyflawni eu rhodreswaith yn condemnio eu crefft fel un groes i efengyl. Y maent yn cyflawni eu cyfareddion yn gyffredin, nid yn ngoleuni y dydd, nid yn ngwydd y doeth a'r pwyllog, y craff a'r ymofyngar, ond yn ngwydd rhai anwybodus a dibrofiad, rhai yn hoffi cellwair âg ofergoelion, ac wedi ymlithro o radd i radd i rwydau hudoliaeth; ac y maent yn hoffi cyflawni eu rhodreswaith dan ryw leni cudd, yn nhywyllwch y nos; a rhyw ddirgelwch yn nglŷn â'u defodau: bydd rhyw ran o'r grefft allan o'r golwg. Weithiau mwngielir darn o adnod mewn hen iaith anadnabyddus, neu ddarn o hen weddi; ac weithiau enwir enw yr Iesu, yn ol esiampl rhyfyg meibion Scefa; ac weithiau dangosir dernyn o bapyr neu o hen femrwn, a llythyrenau Groeg neu Hebraeg arno; weithiau cymerant enw yr un fyddant am regu i ffynnon eu melldith. Bydd ganddynt bob amser ryw fymryn o groen neu o bapyr, neu ddernyn o edau wlan i fod yn gyfrwng rhinwedd eu cyfareddion. Nid defodau i'w cyflawni yn y goleuni, yn ngolwg rhyddymofynwyr dysgedig a diragfarn, ydyw defodau dewiniaeth. Nid ydynt, fel ordinhadau yr efengyl, yn caru y goleuni. Ni ddaliant ymchwiliad, ac ni safant y prawf mewn unrhyw lys teg.

3. Y mae yr ychydig a wyddom am gymeriad moesol consurwyr yn profi fod eu celfyddyd yn hollol groes i egwyddorion yr efengyl. Pa bryd y bu neb o honynt yn enwog am chwilio yr

ysgrythyrau, am weddïo yn efengylaidd, am gymdeithasu â dyoddefiadau lyr Iesu? Pa bryd y bu neb o honynt yn ddefnyddiol yn eu teuluoedd neu yn eglwys Dduw? Pa bryd y bu neb o honynt yn enwog fel athrawon, fel gweinidogion, nac fel cenadon? Pa bryd y bu neb o honynt yn selog fel diwygwyr mewn gwlad neu eglwys? Na, y maent wedi bod bob amser yn caru y tywyllwch ac yn gwrthwynebu pob diwygiad, a hawdd gwybod eu rheswm am hyny. Pe gallasent hwy gael eu ffordd a'u dymuniad cawsai holl oesau y byd fod yn "*oesau* tywyll." Yn yr oesau tywyllaf yr oeddynt hwy yn cael mwyaf o'u rhwysg; ac yn yr ardaloedd tywyllaf y maent hwy yn hoffi preswylio.

4. Y mae yr effeithiau niweidiol y mae eu rhodreswaith yń gael yn profi ei fod yn gwbl groes i'r efengyl. Yn y gwledydd ac yn y cymydogaethau lle y rhoddir mwyaf o "goel" i gonsurwyr y mae lleiaf o foddion crefyddol, y mae lleiaf o gyfarfodydd i chwilio y Beibl ac i esbonio ei wirioneddau, y mae lleiaf o bob cangen o wybodaeth fuddiol, ac o bob gras a rhinwedd. Pa bryd y cafwyd enghraifft o swyngyfaredd a dewiniaeth yn magu rhinweddau nefol Cristionogaeth, ffydd, gobaith, cariad, llafur, diwydrwydd, hunanymwadiad, ac ysbryd gweddi, mewn unrhyw deulu na chymydogaeth. Ni wnaeth dewiniaeth erioed ond drwg—tymmorol ac ysbrydol—yn mhob cylch lle byddid yn ei harfer.

III. Fod yr efengyl, pa le bynag y mae yn cael ei derbyn mewn purdeb, YN ANGEU I RODRESWAITH DEWINIAID. Y mae nerth ei chariad yn nychu ysbryd swyngyfaredd. Y mae dysgleirdeb ei goleuni yn ymlid pob consuriaeth o'i ffordd.

1. Mae natur a thuedd ei hegwyddorion, ei hathrawiaethau, a'i holl ordinhadau yn profi hyn. Mae yr efengyl yn egluro i ddyn lwybr ei ddyledswydd, ac yn ei annog i rodio y llwybr hwnw; ac i wisgo am dano arfau y goleuni, a milwrio yn erbyn pob profedigaeth a phob gelyn ysbrydol, yn nerth yr Iesu, gan weddïo arno, ac ymgyflwyno i'w ofal, ac ymgysegru i'w wasanaeth, ac ymddiried ei achos yn dawel yn ei law, a sychedu am fwyfwy o gymundeb âg ef, nes dyfod yn fwy na gorchfygwr drwy rym ei gariad ef; ac y mae hyny yn angeuol i ysbryd consuriaeth.

2. Y mae hanes ei buddugoliaethau yn yr oesoedd a aethant heibio yn profi hyn. Pa le bynag y byddai yr efengyl yn cael ei derbyn yn oes yr apostolion, yr oedd y dewiniaid a'r swynwyr yn gorfod cilio o'i ffordd—yn Jerusalem, a Damascus, ac Ephesus, ac Athen, a Corinth, a Rhufain. Ac fel yr oedd llafur a llwyddiant diwygwyr yr oesau ar ol hyny yn cryfhau, byddai consur-

iaeth yn gwanychu. Bu dewiniaid yn uchel eu bri, ac yn fawr eu dylanwad mewn rhai parthau o Gymru yn yr oesau a aethant heibio, ond y mae pregethiad yr efengyl, a gweinyddiad ei hordinhadau, ac addysg yr Ysgol Sabbathol, wedi nychu ei dylanwad, ac wedi eu cywilyddio o'r maes. Ac yn fwy diweddar, ar y meusydd cenadol, yn y gwledydd pell, yn India, yn Ynysoedd Môr y De, yn Madagascar, yn China; ac nid yn unig mewn gwledydd paganaidd, ond hefyd mewn gwledydd Pabaidd a Mahometanaidd, y mae swyngyfareddion coelgrefydd yn colli eu grym o flaen gweinidogaeth yr efengyl.

3. Y mae yr olwg sydd i fod ar y byd, yn ol y prophwydoliaethau a'r addewidion, pan y bydd yr efengyl wedi ei oresgyn a'i ennill, yn profi yr un peth. Yn amser goleu dedwydd y milflwyddiant ni ddysgant ddewiniaeth, ac nid ofnant ddewimiaeth. Bydd llyfrau consurwyr y pryd hyny yn anamlach nag ydynt yn bresenol, a byddai yn warth i ddyn eu meddu. Bydd dysgyblion y planedwyr wedi cefnu arnynt i fod yn ddysgyblion i'r Iesu; ac yn lle troi at gonsurwyr i wybod eu tynged, astudiant y Beibl, a dilynant ei gyfarwyddiadau, er cyrhaedd gwynfyd mewn sefyllfa ddyfodol.

PREGETH JONAS.

"Gwŷr Ninifeh a gyfodant yn y farn gyda'r genedlaeth hon, ac a'i condemniant hi; am iddynt hwy edifarhau wrth bregeth Jonas: ac wele, fwy na Jonas yma."—Mat. xii. 41.

Y mae holl hanes y byd yn dangos ei fod wedi myned yn llygredig, yn anffyddiog, ac yn galed. Felly yr oedd y cyn-ddiluwiaid yn amser Noah; y Sodomiaid yn amser Lot; y Sabeaid yn amser Job; y Canaaneaid yn amser Josuah; y Babiloniaid yn amser Daniel; y Ninifeaid yn amser Jonah; pobl Chorazin, Bethsaida, a Capernaum, a Jerusalem yn amser Crist; a phobl Athen, Rhufain, Corinth, a Philippi yn amser Paul. Yr oedd cwynion gweinidogaeth yr Iesu yn brawf fod y byd wedi myned yn llawn o drais a llygredd. Y mae y testun yn ein harwain i sylwi yn

I. Ar Bregeth Jonas.

1. Yr oedd y pregethwr yn ddyn o ysbryd anrasol, anhawddgar, a hynod o annedwydd. Nis gwyddom ond ychydig am ei ddygiad i fyny, nac am ei ddoniau, nac am ei fuchedd; ond gwyddom ei fod yn un ystyfnig a hunanol; ei fod yn ddyn cyndyn a chreulawn; ei fod yn fwy pryderus am ei enw ei hun

nag am enw ei Dduw; yn fwy gofalus am ei esmwythdra a'i gysur ei hun nag am wellhad a bywyd myrddiynau preswylwyr Ninifeh. Ceir prawf o hyny yn ei waith rhyfygus yn ceisio ffoi o wydd yr Arglwydd rhag gwneuthur ei orchymyn; yn cilio i waered i Joppa, ac yn hurio llong yno gan feddwl ffoi yn ddigon pell o gyrhaedd llygad a gair yr Arglwydd; ac yna yn ymlusgo i gysgu yn ystlysau y llong, ac yn llechu yno yn oriau y dymhestl; ac wedi hyny, ar ol cael ei arbed yn y modd rhyfeddaf, ar ol cael byw am dridiau a thair nos yn mol y morfil, a chael ei fwrw ar dir sych, er iddo blygu i fyned i Ninifeh, a thraddodi ei bregeth yno, etto gwrthnysig a grwgnachlyd ydoedd. Yr oedd yn dymuno dinystr y ddinas; ac efe a ddigiodd yn fawr am fod Duw yn ei harbed; yn lle llawenychu yn ymostyngiad ac arbediad y Ninifeaid, yr oedd yn beiddio dannod i'r Arglwydd ei fod yn rhy dosturiol i gyflawni ei fygythiad. A phan wywodd y cicaion oedd yn ei gysgodi, hyf-ddywedodd wrth Dduw mai "da oedd iddo ymddigio hyd angeu." Bu yno am ddiwrnodau lawer yn dysgwyl ac yn dymuno am ddinystr y ddinas; ac yr oedd ei galon wrthnysig yn eithaf annedwydd, pan y gallasai gael gwledd i'w enaid wrth feddwl am drugaredd yr Arglwydd yn arbed ac yn ymgeleddu y Ninifeaid edifeiriol.

2. Pregeth fêr fygythiol oedd ganddo. Yr oedd yn un ddigon hawdd ei deall a'i chofio. Nid oedd ynddi ddim rhaglith na phen cyntaf i esbonio llywodraeth bur yr Arglwydd, ac fel yr oedd pechodau pob dinas a gwlad ac oes, ac yn enwedig pechodau Ninifeh, yn taro yn erbyn daioni ac awdurdod y nefoedd. Nid oedd yn ei bregeth ddim pen canol i argymhell ymostyngiad ac edifeirwch a diwygiad. Nid oedd ynddi ddim un gair o annogaeth i edifarhau. Ac nid oedd ynddi yr un pen olaf, o gymhwysiad grasol, yn addaw arbediad a maddeuant i'r edifeiriol. Nid oedd ynddi ddim un gair o esboniad, nac o gynghor, nac addewid, ddim ond cyhoeddiad llym, noeth, cryf, eglur—"Deugain niwrnod fydd etto, a Ninifeh a gwympir."

3. Amser byr oedd gan y Ninifeaid i ystyried pregeth Jonas. Nid oeddid wedi trefnu iddynt gael ei chlywed ond *unwaith*. Ni ofynwyd i Jonas ond myned un daith drwy'r dref i'w chyhoeddi. Yr oedd, fel y gwneir gan gyhoeddwyr y dyddiau hyn, ar ol ei chyhoeddi mewn un man, i symud yn ei flaen i fan arall. Nid oedd ei wrandawyr ddim i gael rhybudd ar ol rhybudd, gorchymyn ar orchymyn, dammeg ar ddammeg, a phregeth ar bregeth, a hyny Sabbath ar ol Sabbath am hir dymmor; nid oeddynt i gael ond un cyfle i glywed ei bregeth fêr, oddieithr i rai o honynt ddewis rhedeg ar ei ol, er cael ei chlywed yr ail waith.

II. EDIFEIRWCH Y NINIFEAID. Yr oedd yn

1. Yn edifeirwch *dwys*. Yr oedd yno ddychryn mawr, o dan deimlad o euogrwydd: yr oedd yno ymostwng, a chyffesu, ac ymprydio, ac wylofain, a gruddfan; yr oedd yno rwygo y dillad ysgarlad a'r llian main, a gwisgo sachlian yn eu lle, a gosod lludw yn lle enaint ar y pen: yr oedd yno weddïo ac ymbil taer am drugaredd. Yr oedd yno hefyd radd o hyder ac o obaith. Yr oedd yno orchymyn i bawb alw ar Dduw, a galw yn lew, a dychwelyd bob un oddiwrth ei ffordd ddrygionus, ac oddiwrth y trawsder oedd yn ei ddwylaw. Yr oedd yno weiddi—"Pwy a wyr a dry Duw ac edifarhau, a throi oddiwrth angerdd ei ddig, fel na ddyfether ni?" Yr oedd yno swn ac ebychiad enaid ystyriol edifeiriol, yn cydnabod ei bechod, yn mawrhau cyfiawnder ac awdurdod Duw, yn hyderu yn ei dosturiaethau, yn ymbil am faddeuant, ac yn addunedu dychwelyd oddiwrth eu ffyrdd drygionus.

2. Yr oedd yn edifeirwch *cyffredinol*. *Holl* wŷr Ninifeh a gredasant i Dduw, a ofnasant angerdd ei ddig, a gyhoeddasant ympryd cyffredinol, ac a wisgasant sachlian, "o'r mwyaf hyd y lleiaf o honynt." Cyfododd y brenin oddiar ei frenhin-fainc, a dyosgodd ei frenhin-wisg oddiam dano, ac a wisgodd lian sach, ac a eisteddodd mewn lludw, ac a ymprydiodd. Gwnaeth tywysogion ei lys yr un modd, a dilynwyd eu hesiampl gan offeiriaid eu temlau, gan swyddogion y ddinas, gan gedyrn arfog y fyddin, gan ddysgedigion eu colegau, gan gyfoethogion y palasau, gan y celfyddydwyr a'r marsiandwyr, gan feibion a merched cerdd a digrifwch, gan hen ac ieuanc, bach a mawr. Yr oedd swn galar drwy'r holl ddinas. Yr oedd yno ympryd ac ymostyngiad yn mhob teulu. Yr oedd yno arwyddion galar yn mhob llys, a phob teml, oddeutu porth tŷ y brenin, yn gystal ag oddeutu bwthyn y tlawd. Nid oedd yno neb mewn un man ag nad oedd yn ymostwng ac edifarhau.

3. Yr oedd yno edifeirwch derbyniol gan Dduw. Gwelodd Duw eu hymostyngiad, edrychodd ar eu galar, trodd ei galon ynddo wrth feddwl am eu dinystrio; ei edifeirwch a gyd-gynneuwyd, clywodd eu hochencidiau, gwrandawodd ar lef eu hymbiliau, tosturiodd wrthynt, maddeuodd eu haml bechodau, cuddiodd hwynt y tu ol i'w gefn, canmolodd eu gweithredoedd, cadwodd y drwg bygythiedig oddiwrthynt, ac arbedodd eu dinas.

III. Dysgir yn y testun FOD BREINTIAU UWCH A GWELL GAN DDEILIAID GWEINIDOGAETH YR IESU.

1. Yr oedd y Pregethwr yn un o'r cymeriad puraf, ac o'r ysbryd hawddgaraf. Uniganedig y Tad ydoedd, yn llawn gras

a gwirionedd. Eneiniog ac anwylyd y nefoedd. Un yn meddu calon lawn o dosturiaethau cariad. Yr hwn oedd yn y dechreuad gyda Duw. Y gwir oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn. Dysgleirdeb gogoniant y Tad, a gwir lun ei berson ef. Yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth, trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd. Daeth i'r byd i gadw pechaduriaid. Yr oedd yn llawn hyder am achub eneidiau. Ceir yn ei hanes lawer enghraifft o'i ddull goleu cariadlawn yn pregethu efengyl yr iachawdwriaeth. Unwaith pan welodd efe ddinas, efe a wylodd drosti, gan ddywedyd,—"O na wybuasit dithau, ïe, yn dy ddydd hwn, y pethau a berthynent i'th heddwch! eithr y maent yn awr yn guddiedig oddiwrth dy lygaid." "Pa sawl gwaith y mynaswn gasglu dy blant yn nghyd, y modd y casgl iar ei chywion dan ei hadenydd, ac nis mynech!" Ar ol rhybuddio preswylwyr dinasoedd Galilea, dywedai, "Deuwch ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch. Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf, canys addfwyn ydwyf a gostyngedig o galon; a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau: canys fy iau sydd esmwyth, a'm baich sydd ysgafn." Tystiolaethai dro arall—"Yr hwn a ddel ataf fi, nis bwriaf ef allan ddim."

2. Yr oedd ei bregeth yn llawn o oleuni ac o gariad. Nid oedd dim modd camddeall ei esboniadau o lywodraeth ei Dad, o gyflwr andwyedig pechadur, o'i ddyledswydd yn wyneb ei berygl, ac o'r unig ffordd iddo gael gwaredigaeth. Mor ddifrifol yr oedd yn rhybuddio yr annuwiol, ac yn ei alw i edifarhau, a chredu ac ufuddhau! Mor dyner ac mor daer yr oedd yn gwahodd! Mor felus ac mor wresog yr oedd yn addaw maddeuant a gwynfyd i'r edifeiriol!

3. Yr oedd mwy o amser i ystyried ei bregeth, ac i ufuddhau i'w gynghor, nag oedd gan y Ninifeaid yn amser Jonas. Nid un oedfa, nac oedfaon un diwrnod, na thri diwrnod, na deugain niwrnod, gafodd gwrandawyr Crist: ond bu yn eu mysg am dros ugain mlynedd ar ol ei fod yn holi y doctoriaid yn y deml; a bu yn gweinidogaethu yn gyhoeddus am dros dair blynedd, yn mynod o amgylch i bregethu ffeithiau a thrugareddau ei efengyl. Traddododd bregeth ar ol pregeth. Llefarodd ddammeg ar ol dammeg. Offrymodd weddi ar ol gweddi. Rhoddodd rybudd ar ol rhybudd, ac addewid ar ol addewid. Cyflawnodd wyrthiau ar ol gwyrthiau. Ymresymodd, esboniodd, cynghorodd, gwahoddodd, ymbiliodd; a gwnaeth y cyfan yn y dull a'r ysbryd mwyaf cariadlawn a difrifol: ac yr oedd pregethwr enwog wedi bod yn rhagflaenor iddo, i gyhoeddi ei fod yn dyfod, a bod teyrnas nefoedd

yn nesâu; ac yr oedd ei ddysgyblion a rhai o'i wrandawyr yn ail adrodd ei bregethau gyda gwres a ffyddlondeb. Felly cafodd ei wrandawyr freintiau gwell na gwrandawyr Jonas. Cawsant uwch pregethwr, llawnach pregeth, a mwy o amser i ystyried.

IV. Pwnc mawr arall y testun ydyw, FOD BARN I FOD, ER TALU I BAWB YN OL EU BREINTIAU A'U GWEITHREDOEDD.

1. Barn *ragosodedig*. Yr ydys wedi meddwl am ei chynnal, ac wedi parotoi a threfnu tuag at ei dygiad yn mlaen er cyn seiliad y byd. Ordeiniwyd y Barnwr i'w swydd uchel, ac yr ydys wedi penderfynu y pryd, a'r lle, a'r dull y bydd i'r farn eistedd; a'r modd y bydd ei gwaith i gael ei ddwyn yn mlaen.

2. Barn *gyffredinol*. Cydgesglir yno yr holl genedloedd. Bydd cenedlaethau yr oesoedd cyn y diluw yno. Bydd pobloedd yr Aipht, ac Assyria, a Babilonia yno. Bydd deiliaid hen lywodraethau Groeg a Rhufain yno. Bydd deiliaid goruchwyliaeth Moses, a deiliaid gweinidogaeth yr efengyl yno. Bydd pobl yr oesau tywyll yno, a phobl y mil blynyddoedd yno. Bydd plant Adda *oll* yno, o'i blentyn hynaf hyd yr ieuangaf. Daw y Barnwr gyda'r cymylau, a phob llygad a'i gwel ef.

3. Barn *ogoneddus* ei holl amgylchiadau. Bydd dyfodiad y Barnwr a'i osgordd nefol gyda'r cymylau, a'r nefoedd yn ffoi ymaith o'u ffordd, a chaniad yr udgorn, ac adgyfodiad y meirw, a gosodiad y gorseddfeinciau, ac agoriad y llyfrau, a didoliad y dorf fawr, i bob un fod yn ei ochr ei hun, a thoddiad yr elfenau, a llosgiad y ddaear, ac wylofain yr annuwiol wrth gael ei yru i'r carchar, a chaniadau y saint wrth gael eu harwain i feddiannu y deyrnas, yn cydeffeithio i wneud yr holl olygfa yn un o fawredd a gogoniant annhraethadwy.

4. Barn *gyfiawn*. Ni bydd dim derbyn wyneb na gwyro barn yno. Ni bydd dim camddeall na chamgymeriad yno. Bydd goleuni llawn ar bob pwnc yno. Bydd y tystiolaethau yn berffaith eglur. Bydd llygad y Barnwr hollwybodol yn gweled drwy'r cyfan. Ofer i'r euog feddwl dianc yno drwy gyfrwysder. Bydd pob un yno yn ei gymeriad a'i le ei hun, yn derbyn ei ddedfryd, yn ol ei waith ei hun. Cymerir digon o amser yno i wneud cyfiawnder cyhoeddus â phawb. Nid ymguddia yr un anghredadyn yno yn mysg torf fawr y cyfiawnion; ac ni chollir yr un o'r saint wrth yru ymaith y rhai annuwiol.

5. Y farn *olaf* fydd. Bydd yn farn derfynol. Ni ddadwneir gwaith y dydd hwnw. Ni newidir dedfryd y farn hòno. Ni thòrir gair y Barnwr. Ni bydd yno ddim "appèlio" i lys uwch. Bydd barn y condemniad yn dragwyddol, a bydd y cyfiawnhad bywyd yn dragwyddol.

CYMHWYSIAD.

Y mae'n amlwg y bydd condemniad anghredinwyr yr oes hon, os ânt i'r farn yn euog, yn llawer trymach na chondemniad unrhyw genedlaeth fu yn y byd o'u blaen. Y mae breintiau uwch, a mwy, a llawer lluosocach yn ein dyddiau ni nag a fu yn yr hen oesau; breintiau llawer gwell nag oedd yn nyddiau Noah, llawer gwell nag oedd yn amser Abraham, llawer gwell nag oedd dan weinidogaeth Moses, llawer gwell nag oedd yn amser caniadau Dafydd a phregethau Solomon, llawer eglurach nag oedd yn amser yr efengylwr Esay, llawer iawn gwell nag oedd dan bregeth Jonas, llawer gwell nag yn oes diwygiadau Josiah, ac Ezra, a Nehemiah, a Daniel; ïe, llawer llawnach nag oedd yn amser *cychwyniad* Cristionogaeth. Y mae swn a sylwedd, addysg a goleuni, a min a melusder yr holl oruchwyliaethau hyny genym ni. Nis gallwn ddysgwyl goruchwyliaeth oleuach. Y mae esboniadau Crist a'i apostolion genym; a rhaid y bydd ein heuogrwydd yn drymach nag euogrwydd neb fu yn y byd o'n blaen, os awn i'r farn fawr olaf fel gwrthodwyr cynnygion yr efengyl.

GWEDDI OLAF CRIST.

"Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi; fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi: oblegid ti a'm ceraist cyn seiliad y byd."—Ioan xvii. 24.

Mae yr adnod yn rhan o un o weddïau Crist, o un o'i weddïau olaf, a dichon y *lawnaf* sydd wedi cael ei chadw. Cafodd ei gweddïo yn yr amgylchiadau rhyfeddaf. Cododd ei lygaid tua'r nef, a dywedodd, "Y Tad, daeth yr awr"—yr awr bwysicaf erioed, awr cyflawni ammod fawr y cynghor hedd, awr dilëu y cysgodau a'r aberthau, awr y frwydr â gallu uffern, awr anrhydeddu y llywodraeth a gwneud Iawn i fod yn sylfaen iachawdwriaeth. Daeth yr awr, "gogonedda dy Fab, fel y gogoneddo dy Fab dithau." Dyna *unig* ddeisyfiad yr Iesu drosto ei hun, "Gogonedda dy Fab"—cynnal a dyddana dy Fab yn awr y wasgfa drom, fel y gogoneddo dy Fab dy enw a'th lywodraeth dithau. Dichon ei fod ar y pryd yn cerdded yn araf o'r oruwchystafell tua'r ardd yn nhrymder a dystawrwydd y nos; a'i fod mewn dwy awr ar ol hyny yn cael ei arwain gan wŷr y cleddyfau a'r gwaewffyn tua'r lladdfa. Er nad oes yn ei weddi ond *un* deisyfiad ar ei ran ei hun, y mae ynddi *chwech* ar ran ei ddysgyblion; ac ystyrir ei weddi hon fel arddull neu grynodeb o sylwedd ei

eiriolaeth dros ei bobl yn y nefoedd. Yr oedd yn gweddïo drostynt yn

1. Ar i'r Tad eu cadw rhag y drwg sydd yn y byd. Y mae'r byd yn llawn o ddrygau *naturiol:* tlodi, cystuddiau, erledigaethau, colli cyfeillion, siomedigaethau; eithr nid am iddynt gael eu cadw o gyrhaedd cystuddiau, a gorthrymderau, a drygau *naturiol* y byd yr oedd yr Iesu yn gweddïo; ond ar iddynt gael eu cadw rhag ei ddrwg *moesol*—rhag ei lygredigaethau a'i hudoliaethau, cael eu cadw heb wadu eu Harglwydd, a gwneuthur llongddrylliad o'u crefydd, a'u gwasgu i anobaith neu anffyddiaeth dan draed eu gelynion, a than dònau tymhestlog; cael eu cadw yn bur ac yn ffyddlawn, ac yn wrol yn eu holl brofedigaethau. Yr oedd yn gweddïo na byddai i ddrygau y byd allu nychu eu crefydd, na lladd eu defnyddioldeb, na'u hyspeilio o'u dyddanwch.

2. Ar iddynt gael eu santeiddio yn y gwirionedd; hyny yw, ar iddynt gael goleuni, a nerth, a santeiddiad, a dyddanwch geiriau y gwirionedd. Ac er i enaid gael ei santeiddio yn y gwirionedd, rhaid iddo chwilio ysgrythyrau y gwirionedd, a bod ei ewyllys a'i fyfyrdod ynddynt; a rhaid iddo yfed o'u hysbryd, ymroddi i fod dan eu dylanwad, a byw yn ol eu rheolau, ar eu cyfoeth a'u cysuron.

3. Ar iddynt fod "oll yn un." Nid bod oll yr un oed, na bod yn yr un sefyllfa, nac yn yr un swydd, na bod yn yr un brofiad, na'r un wybodaeth, na'r un doniau, na'r un defnyddioldeb a dylanwad, na byw yn yr un amser, na bod gyda'u gilydd yn yr un fan; ond bod yn llawn o gariad yr un efengyl, pwyso ar yr un Iawn mawr am eu bywyd, gwrando ar addysg yr un Athraw mawr, gwisgo arfau yr un filwriaeth, yn erbyn yr un gelynion, yn enw ac yn nerth a than faner Cadben eu hiachawdwriaeth.

4. Ar iddynt fod oll yn *ddefnyddiol*, neu ennill eraill i gredu trwy eu hymadrodd a'u hymarweddiad. Yr oedd y byd yn llawn o anffyddiaeth am Grist, ac o elyniaeth tuag ato; yn meddwl ac yn cyhoeddi mai twyllwr oedd, ac mai cabledd ac ynfydrwydd oedd ei holl weinidogaeth. Yr oedd yr Iesu yn anfon ei ddysgyblion allan i amddiffyn ei gymeriad, i esbonio natur ei deyrnas; ac yr oedd yn gweddïo am i'w weinidogaeth fod yn foddion i orchfygu rhagfarnau, a chyfeiliornadau, a chroesgrefyddau y byd, ac ennill myrddiynau i gredu ynddo; a gwrandawyd gweddi yr Iesu ar eu rhan. Er eu bod yn ychydig o weiniaid anllythyrenog tlodion, acthant allan yn ei enw, ac ennillasant y buddugoliaethau mwyaf gogoneddus, a lledasant ei deyrnas dros wyneb bron yr holl fyd.

5. Ar iddynt fod yn ysbrydol eu profiad, neu mewn cymdeithas

agos a melus â'r byd ysbrydol. Bod yn un yn yr Iesu, ac yn y Tad, bod a'u serch ar bethau nefol, bod mewn cymundeb âg angylion, ac âg ysbrydoedd y cyfiawnion perffeithiedig, a bod yn gyfarwydd â gwaith ac â golygfeydd y nefoedd.

A deisyfiad *olaf* ei weddi ydyw adnod y testun—"Yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi; fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi." Cyfeirir ein meddwl yma yn

I. At y lle y mae Crist yn awr yndd0—"Y lle yr wyf fi." Yr oedd yn meddwl, nid am y lle yr oedd ynddo y foment hòno, yn ngwaelod dinas Jerusalem, ar làn afon fechan Cedron, wrth droed mynydd yr Olewydd; ond y lle yr oedd ar esgyn iddo ar orsedd deheulaw y Tad, yn uchel lys gogoniant. Ac am y lle hwnw gellir dywedyd yn

1. Ei fod yn lle i *orphwys*. Bu yr Iesu yma mewn llafur, a chwys, a lludded; ond y mae yno yn gorphwys. Bu yma yn gynnefin â dolur: bu yma heb le i roi ei ben i lawr: bu yma yn nghyrhaedd llid gelynion, a thònau chwyddedig tristwch yn llifo dros ei fynwes. Ond yno y mae ei holl ludded wedi darfod, ei gystudd a'i alar wedi ffoi ymaith; pob gelyn wedi ei orchfygu, pob cwmwl wedi ei chwalu, pob tòn wedi gostegu, pob tymhestl wedi tawelu, pob deigryn wedi ei sychu. A melus iawn ydyw esmwythdra ar ol poen, heulwen dawel ar ol y dymhestl, gorphwysdra ar ol y lludded. Melus i'r pererin blin a llesg, ar ol dringo y tylau serth a geirwon, ac ar ol croesi pridd tew a chlai tomlyd y glynoedd, ydyw cael gorphwys yn ei gadair, neu yn ei ardd, gartref, ar ol cyrhaedd yn ddiogel i ben ei daith. Melus i'r milwr, wedi bod yn ymdrechu yn galed trwy boethder y frwydr, ydyw cael eistedd i lawr ar y blodau, allan o gyrhaedd pob gelyn, ar ben bryn buddugoliaeth. Melus i'r morwr, wedi cael ei guro gan dymhestloedd, i fyny ac i lawr, ac yn ol ac yn mlaen gan y tònau, ydyw cael myned i mewn i'r porthladd i dderbyn croesaw ei gyfeillion, ac i orphwys yn mynwes ei deulu. A melus i'r Iesu, ar ol dringo tylau geirwon ei daith flinderog, ar ol morio yn erbyn tymhestloedd y byd, ar ol gorchfygu cyfrwysdra, a chynddaredd, a nerth holl alluoedd y tywyllwch, yw cael gorphwys yn ei lys yn nghanol croesaw a chaniadau holl deulu y nefoedd.

2. Y mae mewn lle o *wobr*. Y mae y Tad yno, oddiar ei orsedd, yn ngwydd yr holl nefoedd, yn cyhoeddi ac yn esbonio pwys a gogoniant holl ranau y gwasanaeth a gyflawnodd yr Iesu; ac y mae yn ei godi i'w ddeheulaw, ac yn dywedyd, Addoled holl angylion Duw ef, caner yr holl delynau iddo ef; yn Arglwydd

pawb coronwch ef; ac y mae yr holl deulu am y cynhesaf i ganu iddo, am y cyntaf i'w anrhydeddu a'i wobrwyo.

3. Y mae mewn lle o *awdurdod.* Y mae rhai yn cael gorphwys ar ol eu lludded, ond heb gael unrhyw wobr; a rhai yn cael gorphwysdra a gwobr, ond heb gael awdurdod; ond y mae yr Iesu, nid yn unig wedi cael gorphwysdra a gwobr, ond y mae wedi ei godi i urddas ac awdurdod. Dywedodd wrth esgyn, "Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear." Y mae yn eistedd ar orseddfa yr awdurdod uchaf yn y nefoedd. Y mae coron awdurdod ar ei ben, a chadwyn awdurdod am ei wddf, a modrwy awdurdod ar ei law, a chleddyf awdurdod wrth ei wregys; ac y mae agoriadau holl drysorau yr ymerodraeth fawr ar ei ysgwydd; mewn gair, y mae yn ysgwyd teyrnwialen llywodraeth gyffredinol. Efe yw yr Archoffeiriad mawr ar holl dŷ Dduw sy'n gweini yn y cysegr fry. Efe yw y Prophwyd mawr sy'n dysgu yr holl deulu. Ac efe yw y Brenin mawr ag y mae holl angylion a saint yn hoffi ufuddhau iddo. Y mae yn Ben drwy yr holl greadigaeth, ac ynddo ef, a thrwyddo ef y mae pob peth yn cydsefyll. Y mae yn Ben mewn Rhagluniaeth, ac yn troi yr olwynion fel y myno. Y mae yn Ben yn yr iachawdwriaeth, ac yn rhanu ei bendithion heb brinder ac heb ddannod, yn ol goludoedd ei ewyllys da.

4. Y mae mewn lle o *lawenydd.* Y mae rhai yn cael gorphwys ar ol eu lludded, ac yn cael gwobr am eu gwaith, ac wedi eu codi i uchder awdurdod, ond er y cyfan heb fod yn *llawen.* Y mae rhai yn awr yn gwisgo coronau, ac yn ysgwyd teyrnwiail, ac yn eistedd ar eu gorseddau, yn meddu yr urddas a'r awdurdod uchaf mewn ymerodraethau llydain, ond heb fod yn mwynhau llawenydd, heb fod yn ddedwydd: ond y mae yr Iesu yn ei le fry yn berffaith ddedwydd. Y mae pob peth drwy'r nefoedd yn peri llawenydd i'r Iesu: boddlonrwydd ei Dad yn holl waith ei gyfryngdod; caderuid a gogoniant yr orsedd fawr; dysgleirdeb cymeriad ei Dad; uniondeb cyfreithiau ac ordinhadau ei deyrnas fawr, ei threfn a'i galluoedd diderfyn; dedwyddwch y teulu pur dirif cariadlawn sy'n addoli o gylch yr orseddfainc; y cynnydd parhaus yn eu nifer, drwy fod rhai o bob oed a gradd yn cyrhaedd yno bob awr o wlad y cystudd; adgofion yr Iesu am lafurwaith a dyoddefiadau ei gyfryngdod tra y bu yma yn mharthau isaf y ddaear; holl olygfeydd y wlad well; holl wasanaeth teml y nef; buddugoliaethau ei efengyl ar y ddaear; Rhagluniaeth fawr yn troi ei holl olwynion i weithio o blaid ei achos; a'i ragolygon am lwyddiant y mil blynyddoedd, am adgyfodiad y meirw, am olygfeydd ardderchog y farn ddiweddaf, ac am ogoniant a gorfol-

edd diddarfod y nefoedd. Mewn gair, y mae pob peth yn cydeffeithio er croni, a chwyddo, a chryfhau llawenydd y Gwaredwr yn y nefoedd.

II. Ewyllys yr Iesu gyda golwg ar ei ddysgyblion.—Eu cael oll ato i'r man lle mae, i fyw gydag ef, ac i weled ei ogoniant. Y mae ei ddymuniad yn cynnwys yn

1. Ei fod am iddynt gael eu *cymhwyso* i'r lle yr oedd ef yn myned iddo. Buasai estron, wrth ei glywed yn dweyd,—"Yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi,"—yn tybied ei fod am eu cymeryd oll gydag ef adref i ogoniant *ar unwaith;* ond nid hyny oedd ei ddymuniad. Buasai eu cipio felly oll ar unwaith, fel yr oeddynt, yn groes i'w drefn. Ni buasai hyny ddim yn anrhydedd i'w enw, nac yn gysur iddynt hwythau; a buasai yn golled i'w achos ar y ddaear. Yr oedd am eu *cymhwyso* yn gyntaf cyn eu symud. Yr oedd ganddo waith i'w wneud *drostynt* yn y nefoedd er parotoi lle iddynt. Yr oedd ganddo waith i'w wneud *ynddynt* er eu puro, a'u goleuo, a'u perffeithio. Yr oedd ganddo waith mawr i'w wneud *trwyddynt* er adeiladaeth ei eglwys, ac er lles y byd: ac nid oedd am eu cymeryd i'r nef nes i waith gras ynddynt gael ei orphen, nac nes i waith gras trwyddynt gael ei gyflawni, nac nes iddynt fod yn gwbl gymhwys i fwynhau eu hetifeddiaeth.

2. Ar ol eu cael yn gymhwys i'r lle, yr oedd am eu *symud* yno, yn amser Duw, ac yn ol ei drefn ef. Nid oedd o gymaint canlyniad yn ei olwg o ba *le* y caent eu symud, nac yn mha *ddull* y caent eu symud, pa un ai o wely cystudd, ai oddiwrth fwrdd y cymundeb, ai o unigedd Patmos, ai o ganol eu cyfeillion, ai o'r carchar nesaf i mewn, ai o babell rhyddid, ai o'r fflamau tân, ai oddiar y gobenydd esmwyth. Yr oedd olwynion cerbyd amser y pryd hyny yn eu cario yn mlaen yn gyflym tua'u cartref dedwydd; yr oeddynt yn fuan i deithio ar hyd y glyn yn ngherbyd marwolaeth, ac yna yr oeddynt i groesi yr afon yn nghwch y bywyd, ac i gael eu harwain gan osgordd o angylion i'w trigfanau yn nhŷ eu Tad.

3. Ar ol eu symud yno, yr oedd am iddynt *gartrefu* yno byth. "Lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi." Yr oedd ef yn bwriadu cartrefu yno, ac yr oedd am iddynt hwythau fyw a chartrefu gydag ef. Nid "galw," a "rhoddi tro" yno wrth fyned heibio. Nid myned yno ar "ymweliad," i aros yno am wythnos, neu fis, neu dros y gauaf, neu drwy wres yr haf. Y mae cyfeillion dacarol yn hoffi talu ymweliad i'w gilydd—teuluoedd y ddinas yn hoffi dyfod i fryniau y wlad dros yr haf, a theuluoedd y wlad yn hoffi dyfod i'r ddinas dros y gauaf; ond

nid cael ymweliad felly gan ei gyfeillion oedd yr Iesu yn ewyll ysio. Nid cymeryd *lease* ar eu trigfanau yno am un mlynedd ar hugain, neu am ddeng mlynedd a thriugain, neu am gant ond un, nac am naw cant a naw deg a naw; ond dyfod yno i gartrefu *byth* gydag ef, dyfod yno i fyw a bod, i aros ac i breswylio gydag ef, a chyda'u gilydd, yn dragywydd.

4. Yr oedd am iddynt fod yn *ddedwydd* ar ol dyfod yno. Nid bod yno i hiraethu am fyned yn ol i'r ddaear, neu fyned allan oddiyno i le arall; ond yr oedd am iddynt gael gwynfyd yno, gael digrifwch yno, gael mwynhad yno, gael cyfranogi o'i lawenydd ef yno—"fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi." Gwyddai yr Iesu mai y mwynhad goreu, penaf ganddynt, fyddai cael bod yno gyda'u *gilydd* a chydag *ef*, i "weled ei ogoniant ef." Y mae mwynhad yn dyfod i enaid drwy lawer ffordd: mwynhad seiniau peraidd drwy y *glust*, mwynhad gwleddoedd breision drwy yr archwaeth, mwynhad peraroglau drwy y ffroenau, mwynhad prydferthwch golygfeydd a lliwiau drwy y llygaid. Crybwyllir yma am fwynhad drwy *weled*. Bydd llygaid craff, clir, cyflym gan y corff ysbrydol. Cânt weled golygfeydd a gwahanol wrthddrychau o ogoniant godidog. Ond hoffder penaf y saint yn y nef fydd *gweled yr Iesu*, a syllu ar ei ogoniant ef. Cânt weled delw, neu adlewyrch o ogoniant yr Iesu ar bob peth yn y nefoedd; ar wynebau ac addurn gwisgoedd yr holl deulu, ar byrth a muriau a dodrefn yr holl drigfanau, ar holl goed a blodau y baradwys hòno, ar drefn y llwybrau o bob tu yr afon, ar furiau a hcolydd y ddinas, ar y gân a holl wasanaeth y deml, ar y palmwydd a'r coronau a'r telynau, ar y cyflawnder o drysorau fydd yno, ar y deddfau a'r trefniadau a'r holl ordinhadau, ar y cof-lyfrau a'r banerau: mewn gair, bydd enw a delw yr Iesu ar bob peth yn y nefoedd. Bydd ei ogoniant ef yn adlewyrchu ar y cyfan: a'r hyn fydd yn rhoddi y llawenydd penaf i'r holl dyrfa fawr a brynwyd drwy ei waed, fydd cael gweled ei ogoniant ef. Gwyddai yr Iesu nad oedd gan y dysgyblion cryfaf eu ffydd ond dychymyg gwan iawn am ei ogoniant nefol, wrth ei weled ar y ddaear yn y dirmyg a'r tlodi, yn gynnefin â dolur, ac heb le i roddi ei ben i lawr; a gwyddai na byddai dim yn fwy dymunol ganddynt, na roddai dim fwy o lawenydd iddynt, na chael gweled yr anrhydedd a'r awdurdod, a'r cyfoeth, a'r gogoniant oedd y Tad wedi ddarparu iddo yn y nefoedd; ac felly y mae yn dywedyd, fel dymuniad olaf ei weddi, "Y Tad, y rhai a roddaist i mi, yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi, fel y gwelont fy ngogoniant a roddaist i mi."

III. Y SEILIAU SYDD GENYM I GREDU Y CAIFF GWEDDI YR

IESU EI HATEB, AC Y CAIFF EI EWYLLYS EI GYFLAWNI—"Oblegid ti a'm ceraist cyn seiliad y byd." Caiff ei saint fyned ato i fyw gydag ef, oblegid yn

1. Mae'n eglur ei fod yn *ewyllysio* hyny, ei fod yn *gweddio* ar ei Dad am hyny, ac mai hyny ydyw *deisyfiad* diweddglo ei weddi ryfedd ac effeithiol. Nid oedd dim modd i eiriad ei weddi fod yn fwy eglur. Nid oedd yr Iesu ddim fel tywysogion daear, am i'w deiliaid fod gyda hwy ar faes yr ymdrech, ond heb byth eu gwahodd i gael rhan o lawenydd a gwleddoedd y palas. Nid oedd yr Iesu fel y rhan fwyaf o faeslywyddion y byd, am i'w milwyr fod gyda hwy drwy boethder y frwydr, ond nid yn gymaint am eu cymdeithas yn nydd derbyn coronau y fuddugoliaeth. Nid oedd yr Iesu ddim fel etifeddion daear, am gadw yr etifeddiaeth i gyd oll iddynt eu hunain. Ni chlywyd erioed yr un etifedd daearol yn dywedyd wrth ei dad—Fy nhad, yr wyf am i'r plant eraill oll gael byw gyda myfi, yn y palas, ar yr etifeddiaeth. Ni chlywyd mo Wellington erioed yn dweyd, Yr wyf am i'r milwyr oll fu gyda mi ar faes Waterloo, fyw gyda myfi, ac eistedd wrth fy mwrdd i, yn *Apsley House*. Ni chlywyd erioed mo Washington, er cynhesed ei wladgarwch, yn dywedyd, Yr wyf yn ewyllysio i'r milwyr oll fu yn fy nilyn mor ffyddlon, gael byw gyda mi yn fy nhrigfan ar Mount Vernon. Ni chlywyd erioed mo Dywysog Cymru yn dywedyd wrth ei dad, nac wrth ei fam, Yr wyf yn ewyllysio i'r deiliaid oll gael byw gyda mi yn Buckingham Palace, neu yn Windsor Castle. Ond wele, yr Iesu yma, yn yr iaith egluraf, yn dywedyd—"Yr wyf yn ewyllysio, lle yr wyf fi, fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi." Rhyfeddir a molir byth ei annhraethol ymddarostyngiad a'i gariad.

2. Mae'n eglur fod yr Iesu a'i Dad yn *gyfeillion*, yn *hen* gyfeillion mynwesol, llawn o gariad: "Ti a'm ceraist cyn seiliad y byd." Yr oedd yr Iesu o'r dechreuad yn caru ac yn cymeradwyo holl gynghor a holl gynlluniau, a holl arfaethau ei Dad; holl egwyddorion ei deyrnas, a holl drefniadau ei lywodraeth fawr; ac felly ymroddodd o fodd ei galon i gyflawni gwaith y Tad yn ei ymddangosiadau fel Angel y cyfammod dan yr hen oruchwyliaeth, a thrwy ei holl weinidogaeth tra ar y ddaear; ac yr oedd y Tad, o'r tu arall, yn caru ac yn cymeradwyo holl deimladau, a holl athrawiaethau, a holl ymddygiadau yr Iesu; ac yn cyhoeddi iddo gael ei foddloni ynddo. Yr oedd yr Iesu yn cyhoeddi yn hyf ei fod yn caru y Tad, fod yn dda ganddo wneud ei waith, a'i fod â'i holl fryd am ogoneddu ei enw. Yr oedd y Tad, o'r tu arall, yn dangos trwy yr arwyddion egluraf ei fod am anrhydeddu a gogoneddu ei Fab fel Cyfryngwr. Yr oedd yr Iesu gyda'r Tad

er tragwyddoldeb. Ni bu erioed fwlch yn ei gariad. Ni chododd erioed y cwmwl lleiaf o anghydfod rhyngddynt. Yr oeddynt bob amser yn berffaith "*un*" o ran eu holl gynlluniau, a'u holl deimladau; ac nid rhyfedd bod yr Iesu mor hyderus yn ei weddi at ei Dad, am gael ei ddysgyblion i fyw gydag ef, ac i weled ei ogoniant, oblegid gwyddai fod hyny yn unol â'i ewyllys a'i drefn, a bod ei barodrwydd i'w wrando ac i gyflawni ei ddymuniad.

3. Mae'n eglur nad yw y byd yma ddim yn gymhwys i fod yn *fythol* gartref i'r saint. Gallasai fod yn fyd tlws a dedwydd iawn oni buasai pechod. Darfu i lygredigaethau pechod ei anurddo, a'i ddyrysu yn alaethus; ond y mae trefn gras wedi cadw pethau hyfryd ynddo er gwaethaf holl ddrygau pechod. Y mae ei heulwen yn tywynu, a'i loer yn llewyrchu yn hyfryd. Y mae ei wlith a'i wlaw yn disgyn, a'i gymylau yn ehedeg, a'i awelon yn hyfryd. Y mae ei haf a'i auaf, a'i ddydd a'i nos, yn dilyn eu gilydd yn hyfryd. Y mae ei goedydd, a'i ddolydd, a'i fryniau, yn edrych yn hyfryd pan yn gwisgo eu gwyrddlesni a'u blodau. Y mae ei ffynnonau yn llifo i'r dyffrynoedd, ac yn cerdded rhwng y bryniau yn hyfryd er diodi holl fwystfilod y maes. Y mae ei ydau, a'i ffrwythau, a'i win, a'i laeth, a'i fêl, a'i olew, yn hyfryd er diwallu angen dyn, ac er llawenychu ei galon. Y mae ei afonydd a'i foroedd yn hyfryd i gludo nwyddau masnach. Y mae ei aur a'i arian yn gyfleus i fod yn gyfrwng masnachaeth. Y mae ei lin, ei wlan, a'i sidan, yn hyfryd i wisgo y corff er clydwch a harddwch; ac y mae ei foddion moesol a'i ordinhadau crefyddol yn werthfawr er adeiladaeth yr enaid. Y mae yn fyd cyfleus ac addas i fod yn lletty fforddolion pan ar eu pererindod tua byd gwell; ond nid yw wedi cael ei addasu i fod yn gartrefle tragwyddol i saint Duw. Y mae yn hoff iawn genym am y byd bach yma, am ei olygfeydd, ei beroriaeth, ei Feibl, ei gân, a'i gysegr; ac y mae y credadyn goreu ar brydiau yn teimlo yn anewyllysgar i symud o hono i fyd gwell. Ped anfonai ei Arglwydd genad i'w symud heno i fyd arall, bron na byddai am ymwthio yn ol, gan ddywedyd, Yr wyf yn ofni y glyn a'r afon, a'r bedd oer tywyll; gwell genyf aros yn y cnawd am rai blyneddoedd etto, er i'r enaid ddyfod yn fwy cryf ac yn fwy pur cyn ei symud. Ond pe dywedai ei Arglwydd wrtho, Cei di aros yn y corff yna byth, cei fyw ar y ddaear yn ocs oesoedd, a chei holl gysuron y byd yn gyfran i ti dy hun, a chei iechyd i'w mwynhau; caiff y plant eraill farw a myned i'r bedd; ond cofia mai plant hûn y bedd fydd yn cael eu hadgyfodi, a'u codi i'w gorseddau; cofia mai hwy fydd i gael y corff anfarwol ac anllygredig; mai hwy fydd i godi eu penau yn nghanol rhyfeddodau

gogoneddus y farn; ac mai hwy, yn eu cyrff newydd, fydd yn cael yr etifeddiaeth yn y goleuni; cei di dy adael yn y byd yma, cei aros yma byth, a chei ddewis i ti dy hun y mwynderau gorcu sydd yma. Gan dy fod yn anewyllysgar i farw a myned i'r bedd, cei aros yma byth. Meddyliwn yr atebai y credadyn yn wyneb hyn, Na, fy Arglwydd, nid wyf fi ddim am aros yma byth. Nid wyf fi ddim am golli breintiau yr adgyfodiad, ac anrhydedd y ddeheulaw, a difyrwch yr orymdaith drwy'r pyrth i ogoniant, a chymdeithas y teulu yn y nef. Gwell genyf fi na hyny rodio ar hyd glyn cysgod angeu, a myned i gysgu gyda'r plant eraill i'r bedd; ac yr wyf yn foddlawn i fyned yn dy amser di, yn llc colli y llawenydd nefol sydd mewn addewid. Er cystal, ar lawer golwg, ydyw y byd bach yma, nid yw ddim yn addas i fod yn fythol gartref i ganlynwyr yr Iesu. Y mae ef am eu cael oll ato ei hun i fyd gwell.

4. Y mae yn amlwg fod gan yr Iesu drefn wedi ei darparu yn ei ddoethineb a'i gariad i gymhwyso y saint i fyned ato i fyd gwell. Y mae wedi agor ffordd gyfreithlawn i faddeu yr holl feiau ar sail ei lawn anfeidrol. Y mae wedi agor ffynnon i'w glanhau, wedi gweithio allan gyfiawnder i'w gwisgo, wedi sefydlu athrofa fawr ar y ddaear i ddysgu iddynt iaith, a gwaith, a moesau gwlad eu hetifeddiaeth. Y mae wedi anfon Santeiddydd anfeidrol ddoeth a graslawn i'w puro a'u dyddanu, a'u perffeithio, a'u gwneud yn gymhwys i esgyn i'r llys. Ac y mae myrddiynau digyfrif wedi cael eu perffeithio, ac wedi cael eu symud i fyw yn y man llc y mae yr Iesu yn teyrnasu.

CYMHWYSIAD.

Dylem ryfeddu annhraethol gariad yr Iesu fel yr aeth i'r fath draul, ac ymostwng mor isel, a dyoddef y fath boen a gwaradwydd er gallu darparu y fath lawenydd ar gyfer ei ganlynwyr, a'i fod wedi gosod ei holl fryd ar eu cael oll ato i ogoniant.

Hollol annheg ac ofer ydyw dysgwyl cael myned at yr Iesu i fyw byth, heb fod o blaid yr Iesu yma—heb gofio am ei angeu, heb wneud na dweyd dim byth drosto, na thros ei achos. Y mae yn alar genym feddwl am lawer o gyfeillion ieuainc sy'n gwybod yn dda am ryfeddodau ei ymddarostyngiad, am hanes ei ddyoddefiadau, am rinweddau ei lawn, am ddarpariadau ei ras ar gyfer ei ganlynwyr; ond ydynt, er y cyfan, yn gadael i ryw bethau bychain hollol ddiwerth eu dyrysu a'u cloffi, eu hudo a'u rhwystro i droi allan yn benderfynol gyhoeddus i broffesu ei enw, i ymresu dan ei faner, i wisgo ei arfogaeth, i eistedd wrth ei fwrdd, ac i fyned ar ei ol. Bydd yn drwm annirnadwy, os dywed wrthynt ar gyhoedd, yn nghlyw holl dorf fawr y dydd diw-

oddaf, Nid adwaen chwi; ewch oddiwrthyf. Nid wyf yn ewyllysio i chwi ddyfod i'm gorphwysfa a'm llawenydd i weled fy ngogoniant.

Y mae gweddi yr Iesu yn ein testun yn tafiu y goleuni mwyaf dyddanol ar farwolaeth credinwyr. Rhydd i ni y prawf mwyaf cysurlawn eu bod wedi myned i'r man lle y mae ef, a'u bod yno yn cael gweled ei ogoniant. Bydd ein calon yn mynych deimlo aethau hiraeth yn ei thrywanu ar ol y cyfeillion anwyl a gollwyd o'r ardal yma; ond cymedrolir a santeiddir ein galar a'n hiraeth wrth gofio mai *ewyllys* yr Iesu oedd eu cael ato ei hun.

Josiah Jones, yr hwn oedd yn enwog am gyflymder ei graffineb, am ei ffyddlondeb didderbynwyneb, ac amrywiaeth ei ddoniau, a'r hwn a hunodd mewn oedran teg, ar ol dros driugain mlynedd o ddefnyddioldeb helaeth gyda holl ofalon ei swyddau yn eglwys Crist.

Richard Thomas, Tafolwern, yr hwn oedd yn un o'r rhai mwyaf bywiog a selog yn ei oes gyda holl lafur yr Ysgol Sabbathol; yr oedd hefyd yn hynod o iraidd ei brofiad, ac o barod ei gynghor mewn pob cymdeithas grefyddol. A chymhares addfwyn ei fywyd, yr hon yn y modd mwyaf caruaidd a dreuliodd oes hir i borthi ei deimladau a'i ddoniau crefyddol.

Yr hynaws ei dymher, a'r sobr ei agwedd, a'r ysbrydol ei fyfyrdod, William Jones o Faesgwian, a'i briod, a'i ddwy chwaer ddystaw a dirodres. Y diwyd a'r darllengar William Peat o'r Dafarnnewydd, a'i dad, a'i fam gymdeithasgar a phrofiadol. Y gweithgar William Jones, Cwmpenllydan, a'r ymchwilgar John Evans o Flaenycwm, y rhai a ddiangasant i orphwys yn nghanol eu dyddiau. Y tawel, cariadlawn, Thomas Evans, Ty'nyrwtra, a'i briod gystuddiedig, a'i ferch, a'i wyres o'r capel. Y brodyr gafaelgar mewn gweddi, Richard ac Edward Peat, a'u câr dirodres Richard Peat o'r Groesafon. Y brodyr cyfeillgar ac ymadroddus o Goedglyniaen, Evan Evans, yr hwn ni flinai byth wrth "ganmol Iesu Grist," nac wrth ymresymu ar ei liniau o flaen ei orsedd; ac Edward Evans, yr hwn, wrth adrodd ffrwyth ei ddarlleniadau a'i fyfyrdodau, oedd yn nodedig o lawn a difyr ac adeiladol ei ddoniau mewn pob cyfeillach; a'r gwresogfrydig athrawus Richard Evans; a'r tawel David Evans, yr hwn oedd wedi darfod yn lled lwyr â'r byd rai blyneddoedd cyn ei symud. Nid oedd yn dewis canu llawer yn y glyn, ond yr oedd yn hyderus y cai ganu yn gynhes gyda'r teulu hardd ar ol croesi yr afon. Yr oedd ei gynghorion i'w fab ieuangaf, pan oedd ei draed yn oeri yn yr afon, yn wir effeithiol; ac yr oedd eu cofio yn felus gan y ddau pan y cyfarfu-

asant, ryw ddau fis ar ol hyny, mewn gwlad heb gystudd. Cafodd y pedwar brawd a enwyd y fraint annhraethol o briodi gwragedd ag a fuont o'r cymhorth cryfaf i'w holl gyflawniadau crefyddol.

Thomas Jones, Rhiwsaeson, yr hwn, yn nghanol ei ofalon lluosog, oedd am godi crefydd goruwch ei lawenydd penaf. Yr oedd yn ddifyr ei weled a'i glywed yn y gyfeillach grefyddol, pan y byddai yn ei hwyl, yn cynghori ieuenctyd i droi o ffyrdd ofer-edd i lwybrau doethineb a rhinwedd; a phan oedd yn egluro mai wrth wylio i ymgadw ar lwybr *dyledswydd* yr oeddid i allu dysgwyl am gynnorthwyon a chysuron gras; ac mai rhyfyg oedd i neb ddysgwyl gallu ymgadw yn bur pan yn ymollwng yn wyllt i lwybrau profedigaeth; ac yr oedd, yn enwedig yn ei ddyddiau diweddaf, lon'd ei galon gynhes, dadol, o bryder am i'w blant oll gael bod gydag ef ar y ddeheulaw yn y dydd diweddaf. Robert Jones, ei frawd, yr hwn a geisiai afaelyd yn dyn yn addewidion trugaredd pan oedd llewygfeydd trymion cystudd yn nychu galluoedd ei gorff a'i feddwl. Y tyner ei gydwybod John Davies, Llwynyffynnon; a'i chwaer feddylgar, Jane Edwards o'r Bont. Y ddau gydymaith diwyd Thomas a Margaret Owens o'r Cefn; a'r ddau hen bererin o Gwmffridd; a'r ddau o'r Ddolgoch; a'r ddau garedig o Bantglas; a'r ddau o Glawdd-achoed; a'r ddau bwyllog o'r Ddol-lydan; a'r dawel ddyoddefgar mewn cystudd, Jane Breese o'r Pandy. A'r cyfaill cywir, a'r diacon gofalus John Hughes o Gwmcarnedd, a'i briod, a'i chwaer; a'r cyfoethog ei brofiad, Ellis Lloyd, a'i briod; a John Thomas o Sychnant, diacon ffyddlawn Beulah, yr ydoedd yn wledd i'r meddwl ei glywed yn darllen pennod ar ddechreu cyf-arfod, a chlywed ei nodiadau ar ei chynnwysiad; ac yr oedd ei weddi eang, gryno, gynnwysfawr, afaelgar, yn gymhorth cryf i sefydlu y meddwl ar bethau y byd anweledig. Richard Thomas, ei frawd, yr hwn oedd yn meddu llawer o'i ddawn ac o'i ysbryd. A'r bywiog ei feddwl, Hugh Owen o'r Llan, yr hwn, fel llawer-oedd o'i gymydogion, a ddirwasgwyd gan ormes i ymfudo o'i wlad yn ei hen ddyddiau. A'r craffus, a'r pwyllog, a'r meddyl-gar Athelstan Owen o'r Gelly; a'r gwastad ei dymher Richard Jones o'r Tymawr, y cymydog parod ei gymwynas, y cyfaill di-dwyll, a'r diacon ffyddlawn; yr hwn a gyfeiriai yn fynych ac yn effeithiol at fyd mawr yr ysbrydoedd, yn enwedig ar ol i'w briod garedig ei flaenu yno.

Gallesid yn hawdd iawn gyfeirio at ugeiniau eraill o'n cym-ydogion ydynt wedi gorphen eu gyrfa; ac yn eu mysg amryw o'n cyfeillion ieuainc, yn feibion a merched, caruaidd a gobeith-

iol, am y rhai yr oedd ein dysgwyliad unwaith yn gryf y buasent yn cael oes hir o weithgarwch a goleuni, a defnyddioldeb ac anrhydedd. Ond nid felly yr oedd yr Iesu yn "ewyllysio;" ei drefn ef oedd eu cymeryd ato ei hun; ac y maent yn awr allan o gyrhaedd pob profedigaeth, yn gwbl bur, ac wrth eu bodd, gyda'r cyfiawnion perffaith yn y cysegr fry, yn cael gweled y gogoniant a roddwyd i'r Iesu er cyn seiliad y byd.

MANASSEH.

"A'r rhan arall o hanes Manasseh, a'i weddi ef at ei Dduw, a geiriau y gweledyddion a lefarasant wrtho ef yn enw Arglwydd Dduw Israel, wele hwynt yn mhlith geiriau brenhinoedd Israel. Ei weddi ef hefyd, a'r modd y cymmododd Duw âg ef, a'i holl bechod ef, a'i gamwedd, a'r lleoedd yr adeiladodd efe ynddynt uchelfeydd, ac y gosododd lwyni, a delwau cerfiedig, cyn ymostwng o hono ef; wele hwynt yn ysgrifenedig yn mysg geiriau y gweledyddion."—2 Cron. xxxiii. 18—19.

Yr oedd Manasseh yn un o'r cymeriadau rhyfeddaf ag y mae crybwylliad am dano ar ddalenau hanesyddiaeth. Cyfeirir yn y testun at ei bechodau ysgeler a'i ymostyngiad edifeiriol, ac arwyddir fod hyn wedi cael ei ysgrifenu er budd i eraill.

I. Ei bechodau ysgeler.

1. Hyf-ddiystyrodd yn ei febyd addysgiadau a chynghorion ei rieni a'i athrawon. Yr oedd ei dad, Hezeciah, yn ddyn nodedig o ran ei dduwioldeb. Ymroddodd i wasanaethu yr Arglwydd o'i febyd. Ymsanteiddiodd i buro Jerusalem, ac i gael diwygiad trwy y wlad. Cynnaliodd basg enwog i'r Arglwydd, cymhellodd ei ddeiliaid i ymddiried yn nawdd y Goruchaf. Gwrthsafodd yn egnïol elynion Israel a gelynion yr Arglwydd. Taenodd lythyrau cabledd Senacherib ger bron yr Arglwydd; a gweddïodd yn daer am iddo amddiffyn ei enw mawr, ac estyn ymwared i'w bobl. Rhoddodd ei holl ofal ar Dduw, ac ymddiriedodd yn ddiysgog yn ei allu a'i ffyddlondeb. Wylodd yn drist yn ei gystudd, pan y clafychodd hyd farw; a throdd ei wyneb at y pared, a gweddïodd yn daer at orsedd trugaredd am arbediad; a gwrandawodd yr Arglwydd ei weddi, ac estynwyd at ei ddyddiau bymtheng mlynedd. Canodd salmau o ddiolch i'r Arglwydd am ei waredigaethau. Medrai fyfyrio a medrai deimlo. Medrai ganu a medrai weddïo. Medrai gynghori a hyfforddi, a diau ei fod wedi cymeryd llawer o boen i addysgu ei fab Manasseh. Y mae lle i gasglu fod mam Manasseh hefyd yn ddynes ddoeth, grefyddol; yn un oedd am blanu egwyddorion da, a magu teimladau da yn nghalon ei mab Manasseh. Yr oedd hefyd

lawer o brophwydi enwog ac o offeiriaid ffyddlawn yn athrawon diwyd a defnyddiol yn Jerusalem yn nyddiau mebyd Manassch, ac y mae yn ddiddadl eu bod yn defnyddio eu doniau penaf i roddi addysg i etifedd y goron. Daeth Manasseh i'r orsedd pan yn ddeuddeg oed. Nid oedd trefn felly, i blentyn dideimlad a dibrofiad gael ei godi i'r swydd uchaf mewn gwlad ac eglwys, yn unol âg ewyllys yr Arglwydd; a diammheu i'r fath ddyrchafiad ddrygu calon falch Manasseh; ac y mae holl rediad ei hanes yn rhoddi ar ddeall i ni iddo wneud ei oreu, o'r dechreu, yn erbyn cynghorion a gweddïau, a llafur ac esiamplau, a holl gynlluniau a dymuniadau ei rieni duwiol a'i athrawon pryderus; ac yr oedd hyny yn argoel ddrwg iawn am dano o'i febyd. Nid ellir dysgwyl dim daioni oddiwrth y plant sydd yn dirmygu addysg, a chynghor, a rhybudd eu rhieni.

2. Yr oedd Manasseh yn hoffi cyfeillach a chynghor dynion llygredig, twyllodrus, coelgrefyddol, eulunaddolgar, dynion gwrthwynebol i bob rhinwedd a phob diwygiad, yn y wlad ac yn yr eglwys. Yr oedd pendefigion ieuainc diegwyddor ac annuwiol, rhai am dòri iau crefydd, am ymwthio i'r llys tua dyddiau olaf ei dad; ac yr oedd Manasseh yn hoffi eu hysbryd anffyddiog a'u cyfeillach ddigrefydd. Yr oedd hefyd brophwydi gau, ac offeiriaid eulunaddolgar yn Jerusalem y pryd hyny; ac yr oedd Manasseh am daro o'u plaid. Crybwyllir fod yno hudolion a brudwyr, a dewiniaid, a swynwyr; dynion yn proffesu y medrent wneud drwg a da trwy swyngyfaredd; dynion yn brudio, yn dewino, neu yn awgrymu y medrent ddarogan pethau i ddyfod, ac esbonio pethau tywyll, a dadguddio pethau cudd drwy liwiau y cymylau a thrwy graffu ar y planedau, trwy ddal ar y gwynt a'r tywydd, trwy sylwi ar yr adar yn yr wybren, ac ar anifeiliaid y maes, neu ar waed ac ymysgaroedd yr aberthau; neu trwy ymofyn â'r meirw—dynion â'u holl fryd ar hudo, a thwyllo, a chamarwain. Yr oedd Duw yn y dull difrifolaf wedi condemnio eu crefft ac wedi cyhoeddi eu melldith; ond yr oedd Manassch yn eu hoffi, yr oedd yn arfer brud a dewiniaeth gyda hwy; yr oedd yn astudio ac yn cymeradwyo, ac yn canmol eu "celfyddyd *ddu;*" ac yr oedd yn eu gwobrwyo ac yn eu mawrhau oblegid eu swynion a'u dewiniaeth. Yr oedd felly yn dibrisio ac yn dirmygu yr Urim a'r Thummin santaidd, a threfn Duw yn llefaru drwy ei Ysbryd wrth ći brophwydi. Nid oes neb all ddirnad mor galed, ac mor dywyll, ac mor greulawn yr â calon dyn wrth iddo ddilyn hudolion.

3. Yr oedd Manasseh yn casâu a diraddio, yn erlid ac yn merthyru dynion duwiol, ffyddlawn i'w Duw ac i'w gwlad. Yr

oedd ffyddloniaid enwog yn Jerusalem pan y dechreuodd deyrnasu; a diau eu bod yn cael eu poeni yn fawr yn wyneb coelgrefydd, a llygredd, a rhyfyg y brenin ieuanc. Yr oeddynt yn gweddïo ac yn ymresymu yn erbyn y fath gamreolaeth ac annuwioldeb. Yr oedd yntau yn eu casâu oblegid hyny, ac yn ymgynddeiriogi waeth-waeth i'w herbyn, gan eu gorthrymu yn yr ysbryd creulonaf. Yr oedd yn eu difreinio o'u hiawnderau ac o'u rhyddid; ac yn eu bwrw i garcharau ac i angeu. Dywedir iddo dywallt llawer iawn o waed gwirion, hyd oni lanwodd Jerusalem o ymyl i ymyl o drais, a gorthrymder, a gwaed.

4. Arferodd ei holl ddylanwad i wneud i Judah bechu. A llwyddodd drwy ei ddylanwad *brenhinol*, a thrwy ei ddawn, a'i ymresymiad, a'i esiampl, drwy ei fygythion a'i addewidion, drwy ei gyfreithiau a'i ddefodau, drwy ei gosbau a'i wobrwyon; a thrwy gyd-ddylanwad ei gynghorwyr llygredig, i ddysgu a chymhell Judah i bechu yn dost, yn waeth na'r cenedloedd eulunaddolgar a fwriasai yr Arglwydd allan o'u blaen hwynt. Efe a wnaeth i bobl Jerusalem, y ddinas santaidd, ac i holl bobl Judah gyfeiliorni o ffordd yr Arglwydd, a myned ar ol holl ffieidd-dra y cenedloedd, a dilyn defodau gwaethaf pob math o eulunaddoliaeth, nes y penderfynodd yr Arglwydd yn ei ddigofaint ddwyn drygau ar Judah a Jerusalem, ag a ferwinai y ddwy glust wrth glywed am danynt: a bygythiodd dynu llinyn dinystr dros Jerusalem a Samaria, a'u golchi, fel y golcha un gwpan a'i droi ar ei wyneb, a'u bwrw ymaith oddi ger ei fron, gan lwyr wrthod ei etifeddiaeth.

5. Cyflawnodd Manasseh ei ddrygau ysgeler yn enw *crefydd*. Yr oedd am i'w ddeiliaid ac i'r byd oll feddwl mai awydd *addoli* oedd yn ei gymhell at yr oll oedd yn wneud. Planodd lwyni i addoli ynddynt yn groes i orchymyn pendant yr Arglwydd. Ailadeiladodd yr uchelfeydd oedd ei dad wedi dynu i lawr; a'i reswm dros hyny oedd ei fod am addoli ynddynt. Yr oedd ganddo grefftwyr ar waith yn barhaus i wneuthur iddo eulunod a delwau i'w haddoli. Cododd allorau i Baal ac i holl lu y nefoedd er addoli o'u hamgylch. Cymerodd ato holl ddelwau y cenedloedd i'w haddoli. Nid oedd yr un eulundduw, bach na mawr, i'w gael yn un man, nad oedd Manassch am ei addoli. Yr oedd am i'r cenedloedd o'i ddeutu feddwl nad oedd y fath *addolwr* ag ef i'w gael ar wyneb y ddaear. Cododd allor i'w gau-dduwiau yn nhŷ yr Arglwydd, yn ei ddau gyntedd. Cymerodd ei ddelw fawr i gysegr Duw. Tynodd ei feibion drwy'r tân i Moloch, gan gyhoeddi mai sel ei grefydd oedd yn ei gymhell i hyny! A merthyrodd saint Duw am eu bod yn beiddio yngan

gair yn erbyn eulunaddoliad ei aml-dduwiau! Dyma rai o'i bechodau ysgeler.

II. Crybwyllir yn y testun ei YMOSTYNGIAD EDIFEIRIOL.

1. Dechreuodd ymostwng ac edifarhau pan ydoedd mewn cyfyngder. Dacth tywysogion llu brenin Babilon yn ei erbyn. Gorchfygwyd ei fyddinoedd. Collodd y dydd yn y frwydr. Nid oedd yr un o'i *dduwiau* yn gallu ei gynnorthwyo. Daliwyd ef mewn dyrysni, pan oedd yn ceisio dianc am ei einioes. Rhwymwyd ef â dwy gadwyn haiarn. Dygwyd ef yn gaeth i Babilon. Taflwyd ef i'r carchar du tywyll oer. Bwydwyd ef â bara trallod. Yr oedd yn gyfyng iawn arno. Ac yno yn y carchar, yn ẽi unigedd a'i ing, yn ei gadwynau, mewn newyn, ar y llawr oer llaith, y *dechreuodd* edifarhau ac ymostwng. Bu ei wasgfeuon a'i gyfyngderau yn dda ar les ei gyflwr. Buont yn *foddion* iachawdwriaeth ei enaid. Y mae lle i ofni na buasai byth yn ymostwng ger bron Duw ei dadau pe buasai yn cael ei rwysg yn ddirwystr. Y mae gan yr Arglwydd lawer ffordd i ddryllio y galon galed, i dyneru y gydwybod, ac i argyhoeddi y meddwl; ac un o honynt ydyw ffordd cystudd. Yr oedd ef, fel llawer craill, yn gorfod cydnabod mai da oedd iddo gael ei gystuddio. Bu trallodion yn fendithiol i Abraham a Job, i Jacob a Joseph, i Moses a Dafydd, i Solomon a Hezeciah, i Iago ac Ioan, i Pedr a Paul; i lawer afradlon yn ei wrthgiliadau pell o dŷ ei dad, ac i lawer credadyn anwyliadwrus pan wedi ymollwng i glauarineb a dirywiad. Hawddach braidd ydyw *teimlo* na darlunio y *modd* y mae cystuddiau yn gweithio edifeirwch: nid ydym ni yn awr ddim ond crybwyll y *ffaith* mai felly y mae yn bod; fod cystuddiau wedi bod yn fendithiol, yn llaw Ysbryd Duw, i ddwyn miloedd i edifeirwch o'r rhai ag oeddynt yn ymgaledu waeth-waeth o hyd drwy dymmor eu hiechyd a'u llwyddiant. Ac yn ngwasgfa ei gyfyngder y *dechreuodd* Manassch ymostwng ac edifarhau.

2. Magodd ei edifeirwch, a dyfnhaodd ei ymostyngiad drwy ystyriaeth a myfyrdod. Pan oedd yn ei garchar-gell, heb gâr na chyfaill yn agos ato, cafodd hamdden i adolygu helynt ei fywyd, i adgofio ei freintiau a'i gamymddygiadau. Cafodd yno gyfle da, allan o gyrhaedd rhwysg y byd, i adfyfyrio. Ac yr oedd ganddo lawer o destunau i'w fyfyrdod: Ei *hanes ei hun;* ei ragorfreintiau uchel o'i febyd, ei ryfyg ofnadwy yn eu camddefnyddio, ei goelgrefydd ynfyd yn ymwylltio ar ol gau-dduwiau; ac yn enwedig ei greulonderau gwaedlyd tuag at y saint. *Hanes ei wlad;* ei chyflwr isel, tywyll, terfysglyd, anrheithiedig, a llawn o lygredigaethau eulunaddoliaeth; a hyny wedi cael eu

dwyn arni yn benaf drwy ei gamreolaeth ef. *Hanes ei dadau;* cysur a defnyddioldeb ac anrhydedd y rhai fuont yn ffyddlawn i gyfammod eu Duw; a siomedigaeth a gwarth a chosb y rhai anffyddlawn. A dichon mai testun penaf ei fyfyrdod oedd *Cymeriad ei Ddnw;* ei natur, a'i briodoliaethau fel Duw trugarog a graslawn, cyfiawn a santaidd, ond ar yr un pryd yn dosturiol a maddeugar. Yr oedd ei feddwl yn cael ei lenwi gan ofn duwiol wrth feddwl am berffeithrwydd cymeriad ei Dduw, ac uniondeb a doethineb ei gyfreithiau, a'i holl ymddygiadau. Wrth fyfyrio ar y pethau hyn, pan yn ei gyfyngder, yr oedd ei galon o radd i radd yn cael ei thyneru a'i thoddi, a'i feddwl yn cael ei oleuo, a'i gydwybod yn cael ei deffroi; ac yr oedd ei holl enaid yn cael ei newid; ac yr oedd yn dyfod yn ddyn newydd.

3. Yr oedd ei ymostyngiad yn un dwys a chyflawn. Yr oedd ynddo lwyr ddrylliad calon; yr oedd gwir alar am ei bechod yn gweithio drwy ei fynwes. Yr oedd yn ffieiddio ei hun, ac yn cyffesu yn ei erbyn ei hun ei anwireddau i'r Arglwydd. Yr oedd yn cyfiawnhau ac yn canmol Duw, ac yn ymbil am ei drugaredd faddeuol. Yr oedd yn ymdreiglo yn y llwch. Nid oedd ganddo neb i droi ato ond Arglwydd Dduw ei dadau, na dim i ymddiried ynddo ond ei rad drugaredd ef.

4. Yr oedd dychweliad, neu ddiwygiad buchedd a bywyd, yn dilyn ei edifeirwch. Ofer ydyw edifarhau heb ymroi i newid y fuchedd. Nid edifarhau tra mewn caethiwed yn ei garchar, ac ailymgaledu wedi cael ei ollwng yn rhydd a wnaeth. Pe felly y buasai, buasai ei ddiwedd yn waeth na'i ddechreuad. Ond ymegnïodd i lafurio er gwelliant ei wlad ar ol cael ei ryddhau o'i gaethiwed. Adgyweiriodd fur Jerusalem. Tynodd i lawr allorau yr eulunod. Chwalodd holl lwyni eu goelgrefydd. Taflodd ymaith y delwau o dŷ yr Arglwydd, ac o bob man. Gosododd dywysogion a barnwyr uniawn, yn ofni Duw, trwy holl ddinasoedd Judah. Sefydlodd ordinhadau buddiol drwy yr holl wlad. Adgyweiriodd hen allor yr Arglwydd. Cymhellodd ei holl ddeiliaid i'w wasanaethu, a gwylio am fod yn ffyddlawn i'w holl gyfreithiau; a gwnaeth ei oreu i drefnu a chadarnhau, a santeiddio ei frenhiniaeth, a holl gylchoedd gwasanaeth tŷ yr Arglwydd.

5. Bu yr Arglwydd yn foddlon i'w ymostyngiad a'i edifeirwch. Gwelodd ei gyfyngder. Edrychodd yn dosturiol ar ei ddagrau. Gwrandawodd yn drugarog ar ei gyffes a'i weddi. Cymmododd âg ef. Maddeuodd iddo ei holl gamweddau. Iachaodd ei galon ddrylliog a'i ysbryd cystuddiedig. Derbyniodd ef i'w ffafr a'i gyfrinach. Dychwelodd ef o'i gaethiwed. Dygodd ef yn ol i'w wlad, i ddipas santaidd ei dadau, i'w balas brenhinol

ac i orsedd ei lys. Anrhydeddodd ef â'r fraint annhraethol o gael bod yn offerynol yn ei law i ddiwygio ei wlad, ac i adfywio yr eglwys. Rhoddodd iddo brawf melus a dedwydd o hyfrydwch ffyrdd duwioldeb, ac o gysuron bywyd defnyddiol. Cynnaliodd ef hyd y diwedd. Gorphenodd ei yrfa mewn anrhydedd a chysur; fel pechadur edifeiriol, fel afradlon adferedig, fel pentewyn wedi ei gipio o'r tân. Gwnaed ef yn gofgolofn enwog anfarwol o nerth dwyfol drugaredd a maddeuol ras; ac erys perarogl y cof am ei dröedigaeth yn adfywiol yn ngweinidogaeth yr eglwys dros holl oesau y ddaear.

III. Amcanwyd hanes y pethau hyn i fod ER ADDYSG. Crybwyllir yn y testun fod yr hanes wedi cael ei ysgrifenu *ddwy* waith, sef yn llyfr geiriau y brenhinoedd, ac yn llyfr geiriau y gweledyddion. Dysga i ni yn

1. Y gall plant rhïeni duwiol, plant y breintiau uchaf, a'r rhwymedigaethau pwysicaf, droi allan yn llygredig iawn: ac y gall plant rhïeni annuwiol a llygredig dòri trwy bob rhwystrau a digalondid, a throi allan yn rhai da, ac enwog am eu defnyddioldeb. Yr oedd y brenin Uzziah yn ddyn drwg nodedig; ond yr oedd Jotham ei fab yn ddyn da a duwiol. Yr oedd Ahaz yn nodedig am ei ddrygioni; ond yr oedd Hezeciah ei fab yn nodedig am ei ddaioni a'i ddefnyddioldeb. Trodd Manasseh yn ddyn anarferol o ryfygus ac o greulawn er holl addysg, a gweddïau, ac esiamplau, ei dad duwiol Hezeciah. Gallesid dysgwyl i edifeirwch ac ymostyngiad, a sel Manasseh ar ol ei dröedigaeth, ddylanwadu yn dda ar ei fab Amon; ond trodd Amon allan yn ddyn llygredig ac eulunaddolgar; ond cododd Josiah o ganol llygredigaethau teulu a llys ei dad i fod yn un o'r diwygwyr enwocaf. Y mae hanes y genedl Iuddewig, a llawer cenedl arall, yn profi fod rhai wedi cael yr addysg oreu, yn troi allan yn rhai rhyfygus a chaled, a chreulawn; a bod rhai, er pob anfanteision a gwrthwynebiad, yn troi allan yn rhai nodedig dduwiol a defnyddiol.

2. Nad all dyn drwg ddim gwybod pa faint o ddrwg y mae yn wneud, na'r dyn da ddim gwybod pa faint o dda y mae yn wneud, hyd ddydd y farn fawr gyffredinol. Ni wyr Ahaz, nac Ahab, na Manasseh, nac Amon, ddim hyd y dydd hwn pa faint o ddrwg a wnaethant yn eu hoes i'w cenedlaeth, ac i lawer o genedlaethau dilynol: ac ni wyr Asa, na Jehosaphat, na Hezeciah, na Josiah, ddim pa faint o dda a wnaethant yn eu hoes. Gwnaethant fwy nag a fedr y byd brisio, fwy nag a fedr angel fesur; ac un o amcanion pwysfawr gwaith y farn ddiweddaf fydd esbonio dylanwad y naill ddyn ar ei gyd-ddynion, er da neu er drwg; er lles neu er niwaid i gymdeithas.

3. Fod gobaith i'r rhai gwaethaf am faddeuant a thrugaredd, ond iddynt ymostwng ac edifarhau. Yr oedd Manasseh yn un o'r dynion gwaethaf a welodd y byd erioed. Dianrhydeddodd ei rieni. Dirmygodd ei athrawon; cablodd Dduw ei dadau; arferodd ddewiniaeth; pleidiodd eulunaddoliaeth; tywalltodd lawer o waed gwirion; llofruddiodd luoedd o saint Duw; gorfododd ei ddeiliaid i ddilyn llygredigaethau coelgrefydd, ac i droseddu cyfreithiau eu Duw; tynodd ei blant drwy'r tân i Moloch; etto cafodd drugaredd. Ymostyngodd yn edifeiriol, a maddeuwyd ei holl gamweddau. Gall Duw faddeu y pum' cant yn gystal a'r deg a deugain; a maddeu i bob un ddelo yn isel at ei draed i ymbil am faddeuant. Y mae yn derbyn pob afradlon edifeiriol gyda phob croesaw a llawenydd.

4. Er fod Duw yn faddeugar, na ddylid rhyfygu i bechu yn ei erbyn. Os achubwyd Manasseh, collwyd Cain, a Pharaoh, a llawer Jeroboam, a llawer Ahab, a llawer Ahaz, a llawer Uzziah, a llawer Amon, a llawer Belsassar, a llawer Herod, a llawer Judas. Y mae Duw yn hoffi trugarhau wrth yr edifeiriol, ac ymgeleddu y galon ddrylliedig; ond y mae yn rhyfyg o'r fath waethaf i ruthro yn mlaen i wrthryfela yn ei erbyn ar y dybiaeth ei fod yn dosturiol a thrugarog. Myn amddiffyn ei enw a'i orsedd, ei gyfraith a'i lywodraeth, yn ninystr pob anedifeiriol. Y mae y rhan fwyaf o'r rhai sy'n ymhyfhau ac yn ymgaledu i bechu, am fod Duw yn drugarog a maddeugar, yn myned waethwaeth, nes marw naill ai yn nghaledwch anffyddiaeth neu yn nychrynfeydd anobaith. Peth ofnadwy ydyw troi trefn gras yn achlysur i bechod. Y mae bod Duw yn faddeugar yn annogaeth gref i bechadur droi at ei orsedd. Gorcu po gyntaf yr ymostyngir at ei draed, tra y mae yn foddlon i dderbyn, a maddeu, a chyfiawnhau, a santeiddio, a chodi yr edifeiriol i fynwes ei drugaredd, a'i gymhwyso trwy ei Ysbryd i fwynhau llawenydd a gogoniant.

YR IAWN.

"A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu; yr hwn a osododd Duw yn Iawn, trwy ffydd yn ei waed ef, i ddangos ei gyfiawnder ef, trwy faddeuant y pechodau a wnaethid o'r blaen, trwy ddyoddefgarwch Duw; i ddangos ei gyfiawnder ef y pryd hwn, fel y byddai efe yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu."—Rhuf. iii. 24—26.

Yr Iawn ydyw prif athrawiaeth y Beibl—yr haul sydd yn ffurfafen yr ysgrythyrau. Y mae y gwirioneddau craill fel planedau yn eu gwahanol gylchoedd yn derbyn eu goleuni a'u

gwres oddiwrtho. Yr Iawn ydyw y cyfrwng gogoneddus trwy ba un y mae y Jehofah, yn ol penarglwyddiaeth ei ras, yn amlygu ei ewyllys da a'i drugaredd at fyd syrthiedig. Yr Iawn ydyw y sylfaen safadwy y mae trugaredd yn sefyll arni pan yn gwenu ar bechaduriaid, ac yn cynnyg maddeuant i wrthryfelwyr, ac yn estyn ei llaw i achub enaid pan ar suddo i fythol drueni. Yr Iawn ydyw y sylfaen fawr ddiysgog ar ba un yr oedd yr ysgrifenwyr santaidd oll—o Moses hyd Ioan—yn adeiladu eu holl athrawiaethau, eu tystiolaethau, a'u haddewidion. Yr Iawn ydyw sylwedd mawr holl gysgodau ac aberthau goruchwyliaeth Moses, ac oesau y patriarchiaid. Yr Iawn ydyw y boddhad anfeidrol gafodd cytraith bur y nef er ei galluogi i ollwng yn rhydd o'i gafael bechadur euog condemniedig, gan wenu arno, a chyhoeddi uwch ei ben, Y mae yn ymostwng ac yn edifarhau, ac yn ymbil am drugaredd; maddeu iddo, caffed fyw, mi a gefais Iawn. Iawn ydyw cyhoeddiad uchel llywodraeth y nef i'r deiliaid oll y rhaid cosbi pechod, ac nad oes dim maddeuant heb ollyngiad gwaed. Iawn ydyw yr unig ddrws o obaith a chalondid i bechadur y gellir ei arbed a maddeu ei fai. Iawn ydyw y pegwn mawr ar ba un y mae holl olwynion peiriant trefn y cadw yn troi; a'r sail ddiysgog ar ba un y saif holl oruwchadeiladaeth trefn fawr trugaredd. Yr Iawn ydyw enaid holl gorff duwinyddiaeth a duwioldeb, yr hwn sydd yn taflu gwaed bywyd drwy y cyfan oll. Yr Iawn ydyw y drych mawr cywir gloew sy'n arddangos i holl ddeiliaid llywodraeth Duw ogoniant ei gymeriad —cysondeb ei briodoliaethau, uniondeb ei lywodraeth, penarglwyddiaeth ei ras, cadernid ei orsedd, dysgleirdeb ei goron, ei benderfyniad, a'i allu i fod yn Dduw cyfiawn ac Achubydd. Wrth fyfyrio ar ymadroddion ein testun, y mae yn naturiol i ni wneuthur tri ymofyniad:—Beth yw yr Iawn? Pa fodd y mae i bechadur ddyfod i afael rhinweddau yr Iawn? Beth yw effeithiau derbyniad yr Iawn ar yr enaid?

I. Ymofynwn Beth yw yr Iawn—yr Iawn a osododd Duw? Beth ydyw o ran ei *darddiad*, o ran ei *ddefnydd*, o ran ei *ddyben*, o ran ei *ddigonolrwydd?* Dylem gofio mai *nid* cymhelliad i drugaredd weithredu ydyw. Yr oedd Duw yn gyfoethog o drugaredd cyn i'r Iawn gael ei osod. *Nid* gweithredol faddeuant pechodau ydyw. Nid rhyddhad neu brynedigaeth oddiwrth yr ofer ymarweddiad ydyw. Nid cyfiawnhad y troseddwr ydyw. Yr oedd miloedd wedi cael eu cyfiawnhau, a'u santeiddio, a'u gogoneddu, *cyn* i'r Iawn gael ei osod; ac y mae myrddiynau yn cael eu cyfiawnhau a'u gogoneddu o oes i oes, yn mhen llawer o oesau *ar ol* i'r Iawn gael ei wneud, a chael ei dderbyn.

Nid unrhyw dâl cyfartal, neu gydwerth masnachol, neu ryw fesur penodol o Iawn, am fesur penodol o wynfyd, i ryw nifer penodol o bersonau. Byddai tybiaeth felly yn dwyn dyryswch ar unwaith i holl drefn gweinyddiad penarglwyddiaethol trugaredd. Buasai yn gosod y Llywydd mawr o dan *rwymau* i drugarhau wrth y troseddwr. Beth, gan hyny, *yw* yr Iawn? Gallwn grybwyll

1. Beth oedd y *ffynnonell* o ba un y tarddodd, neu beth oedd yr achos cynhyrfiol o'i drefniad a'i osodiad. Nid cyfiawnder oedd yn rhwymo Duw i osod na derbyn Iawn. Gallasai cyfiawnder dynu ei gledd, a tharaw yr euog heb Iawn. Ond trugaredd Duw oedd am gael ffordd rydd i weithredu, am gael lle i ddangos ei hysbryd, a'i nerth, a'i golud, a'i hymgeledd; eithr nid oedd modd iddi wneud hyny heb Iawn: ac felly, doethineb anfeidrol, yn ol cymhelliad penarglwyddiaethol drugaredd, ddarfu drefnu yr Iawn.

2. Beth ydyw *defnydd* yr Iawn. "Yr hwn a osododd Duw yn Iawn." Defnydd yr Iawn ydyw *ufudd-dod* perffaith yr Iesu i holl egwyddorion a rheolau cyfraith ei Dad, a'i *ddyoddefaint* wrth roddi ei einioes yn aberth dros bechod, er anrhydeddu llywodraeth ei Dad. Yr oedd ei ufudd-dod yn angenrheidiol, oblegid ni buasai ei aberth yn ddifai oni buasai fod ei fywyd yn berffaith; ni buasai ei waed yn dderbyniol ac yn rhinweddol, fel gwaed y cymmod, oni buasai ei fod yn Oen dinam, "difeius a difrycheulyd," oni buasai ei fod wedi ufuddhau yn fanwl, yn mhob ystyr, mewn meddwl, teimlad, gair, a gweithred, i ofynion deddf ei Dad. Ond i'r dyben i gael Iawn dros gamwedd, yr oedd yn ofynol hefyd cael pech-*aberth* yn gystal ag *ufudd-dod;* a rhaid oedd i'r aberth waedu a *marw*. Ac felly, darfu i Dduw, o'i fawr gariad, yn ol golud ei drugaredd, ac yn ol cynghor ei anfeidrol ddoethineb, ethol a neillduo, a "gosod" ei Fab i fod yn Iawn. Efe, yr Uniganedig oddiwrth y Tad, yr Immanuel, y Duw cadarn, Tywysog tangnefedd, y dyn Crist Iesu, ydyw yr Iawn. Ei waed ef ydyw gwaed y cymmod. Nid oedd yr aberthau Iuddewig ond cysgodau. Nid oedd gwaed teirw, a geifr, ac ŵyn, ac annair cochion, a durturod, a chywion colomenod, ond santeiddio i bureiddiad y cnawd; canys anmhosibl yw i waed teirw, a geifr, a lloi, dynu ymaith bechodau: gwaed Crist, yr hwn trwy yr Ysbryd tragwyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, yn unig all buro cydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw. Ac felly, ymgnawdolodd y Meichiai: cymerodd ein natur ni i undeb â'i berson dwyfol; y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a babellodd yn ein plith ni, yn llawn gras a gwirionedd. Rhoddodd berffaith *ufudd-dod*, yn ein natur

ni, i'r gyfraith santaidd oeddym ni wedi droseddu, a thrwy hyny, mawrhaodd y gyfraith, ac arddangosodd ar yr un pryd berffaith burdeb ei gymeriad. Ac nid hyny yn unig a wnaeth, ond *dyoddefodd* hefyd; a dyoddefodd yn achos *eraill*, oblegid yr oedd ef ei hun yn ddifai us, yn ddiniwaid, yn Iesu y cyfiawn. Dyoddefodd yn ei *gorff* lesgedd a lludded, newyn a syched, gernodiau a phoeredd, y fflangell a'r goron ddrain, a'i hoelio ar y groes. A dyoddefodd yn ei *feddwl:* dyoddefodd fwy, annhraethol fwy, yn ei feddwl nag yn ei gorff. Yr oedd ing a llafur ei enaid dan holl ofalon ei waith cyfryngol, yn wyneb ymosodiadau creulawn daear ac uffern, a than guddiadau wyneb ei Dad, yn annhraethadwy. Bu yn wr gofidus a chynnefin â dolur. Mor llygredig oedd ei wedd gan ei ofidiau! Yr oedd fel un wedi ei faeddu gan gystuddiau. Yr oedd heb le i roddi ei ben i lawr: ac yr oedd ing ei feddwl yn *trymhau* mor ddirfawr tua'r *diwedd*, fel y dywedodd, "Trist iawn yw fy enaid hyd angeu!" "Mor gyfyng yw arnaf hyd nes y gorphener!" "Fy Nhad, os yw bosibl, aed y cwpan hwn heibio oddiwrthyf: etto nid fel yr ydwyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti." A chymaint oedd ymdrech ei feddwl, wrth weddïo yn ddyfalach, fel yr oedd ei chwys fel defnynau gwaed yn disgyn ar y ddaear: a dolefodd pan ar y groes, "Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?" Ond er hyny, ni thynodd yn ol; cuddiwyd edifeirwch o'i olwg. Bu yn ufudd hyd angeu, ïe, angeu y groes. Rhoddodd ei einioes yn bridwerth. Gwyddai, gan mai cyflog pechod yw marwolaeth, nad ellid boddhau ac anrhydeddu y ddeddf heb ollyngiad gwaed ei galon. Gogwyddodd ei ben, a rhoddodd i fyny yr ysbryd. Llifodd allan waed a dwfr ei fywyd o'r archoll yn ei ystlys. Dyoddefodd, a bu farw yn wirfoddol. Yr oedd ganddo awdurdod i roddi ei einioes i lawr. Dyma oedd yn cyfansoddi ei Iawn; ufudd-dod perffaith ei fywyd, a holl ddyoddefaint ei fywyd, a'i aberthiad gwirfoddol o'i fywyd, er mwyn eraill: a bod ganddo feddiant ar ei fywyd. Dywedai gyda gorfoledd, wrth son am roddi ei einioes yn aberth, "Am hyn y mae y Tad yn fy ngharu i, am fy mod i yn dodi fy einioes, fel y cymerwyf hi drachefn. Nid oes neb yn ei dwyn oddiarnaf fi: ond myfi sydd yn ei dodi hi i lawr o honof fy hun. Y mae genyf feddiant i'w dodi hi i lawr, ac y mae genyf feddiant i'w chymeryd hi drachefn. Y gorchymyn hwn a dderbyniais i gan fy Nhad." A chan fod undeb rhwng y ddynoliaeth oedd yn dyoddef â'r natur ddwyfol mewn un person, yr oedd rhinweddau anfeidrol ac annherfynol yn ei ddyoddefaint a'i angeu, yn ei waed a'i aberth.

3. Beth ydyw yr Iawn o ran ei *ddyben*. Nid cyfrwng i *grëu*

ydoedd, ac nid cyfrwng i *gynnal* y greadigaeth. Gallodd Duw grëu y bydoedd heb Iawn, a gall eu cynnal heb Iawn. Nid sylfaen diogelwch a gwynfyd angylion ydyw. Y mae yn wir fod trefn fawr yr Iawn wedi dwyn addysg a gorfoledd i angylion; ond gan y gallasent gadw eu dechreuad heb Iawn, gallasent fod yn ddedwydd byth heb Iawn: ond dyben yr Iawn oedd cael ffordd rydd i ymgeleddu pechadur mewn dull teilwng o lywodraeth y Goruchaf; cael ffordd gyfreithlawn i edrych arno yn dosturiol, ac i ddweyd wrtho yn ei waed, "Bydd fyw;" cael ffordd rydd i estyn llaw cariad ato i'w godi o'r pydew erchyll; a maddeu ei holl gamweddau, a'i olchi yn gwbl lan, a'i gyfiawnhau yn rhad, a'i wneud yn blentyn i Dduw; a'i ddwyn i dŷ llawn, llawen, at fwrdd gwleddoedd yr efengyl; a gosod cân newydd yn ei enau; a hwylio ei gerddediad yn mlaen ar ffordd y bywyd; a'i gynnal yn angeu; a chodi ei ben yn y farn; a'i ddwyn i'r meddiant a'r mwynhad o etifeddiaeth ddihalogedig a diddiflanedig yn y nefoedd; a gwneud hyn *oll* iddo heb i gymeriad y Duwdod gael, mewn un modd, ei gymylu, heb i'w lywodraeth gael ei gwanychu, heb i'w ddeddf santaidd gael ei thòri na'i mathru dan draed; mewn gair, heb i neb gael cam, nac i ddim gael ei ddyrysu, dirwy holl ymerodraeth Duw. Neu, yn iaith ein testun, i "ddangos cyfiawnder" Duw yn maddeu pechodau; i ddangos i'w ddeiliaid oll, yn mhob oes, ei fod yn gyfiawn pan yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu.

4. Beth ydyw yr Iawn o ran ei *ddigonolrwydd*. Y mae yn ddigon i foddloni calon y Tad, y Llywydd cyfiawn, Barnwr pawb oll; yn ddigon i fod yn atteg ddiysgog a saif byth dan holl weinyddiadau ei orsedd, ac i ddiogelu yn dragwyddol anrhydedd ei enw a'i goron; yn ddigon i fod yn foddhad, ac yn goron, ac yn orfoledd didranc i feddwl Crist am ei offrymu ei hun i fod yn Iawn: yn ddigon am fywyd tragwyddol pob pechadur tlawd ac euog a ymorphwyso yn ffyddlog ar yr Iawn. Y mae yn ddigon i ddirymu a dystewi gwrthddadleuon anffyddwyr a gwrthryfelwyr daear ac uffern yn oes oesoedd: y mae yn ddigon i fod yn destun syndod diddiwedd angylion pur y nefoedd: ac yn ddigon i fod yn destun myfyrdod a chân, ac ymffrost a gorfoledd holl dyrfa waredigol gwlad y gwynfyd am dragwyddoldeb. Y mae yn ddigon i fod yn ddrych mawr gloew i holl ddeiliaid llywodraeth y Goruchaf o gydweithiad grasol, a chyfiawn, a gogoneddus *holl* briodoliaethau ei natur, ei drugaredd, a'i gariad, a'i ras, a'i ddoethineb, yn gystal a'i santeiddrwydd, a'i uniondeb. Pe buasai ei dosturi a'i drugaredd yn maddeu i bechadur, ac yn ei gyfiawnhau a'i ogoneddu heb gael Iawn, buasai ei gyfiawnder dan

gwmwl; a buasai ei gyfraith bur a santaidd, a doeth a da, yn cael ei mathru dan draed. Y mae ei gyfraith wedi cael ei gosod yn rheol bywyd holl ddeiliaid ei lywodraeth. Y mae ei hegwyddorion uniawn yn rhai nad ellir eu gŵyro. Y mae yn cyhoeddi yr ufudd yn ddedwydd, ac yn condemnio y troseddwr i *farw;* a buasai yn dirymu y gyfraith pe buasai yn arbed ei throseddwr heb gael Iawn boddhaol. Buasai cyfiawnder yn dysgleirio yn ninystr y troseddwr yn ol y ddedfryd; ond ni buasai felly le i drugaredd amlygu ei thosturiaethau; ond wrth achub a chodi pechadur ar gyfrif yr Iawn, y mae cyfiawnder a thrugaredd yn cael cydweithredu a chyd-ddysgleirio; ac y mae *holl* gymeriad y Duwdod yn cael ei amlygu yn ei *lawn* ogoniant. Yn nhrefn fawr iachawdwriaeth pechadur drwy'r Iawn y mae'r holl ddwyfol briodoliaethau yn cydymddysgleirio. Ni buasid byth yn cael golwg ar drugaredd oni buasai y drefn i achub drwy yr Iawn.

II. PA FODD Y MAE I BECHADUR DDYFOD I AFAEL RHINWEDDAU ANFEIDROL YR IAWN? Dengys y testun mai "drwy ffydd yn ei waed ef." Gall fod dyn yn swn yr ymadrodd am y groes ac am yr Iawn, ac am y cyfiawnhau yn rhad drwy ei ras ef, drwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu, drwy ei holl oes; ond os bydd heb "ffydd yn ei waed ef," bydd yn golledig wedi'r cyfan. Nid oes neb i gael ei gyfiawnhau drwy'r prynedigaeth, ond yr hwn "sydd o ffydd Iesu." Y mae ffydd yn credu ac yn teimlo yn

1. Fod dyn yn bechadur euog, damniol, hunanddinystriol; a bod ei euogrwydd yn haeddu marwolaeth, marwolaeth dragwyddol dan ddedfryd y gyfraith a droseddodd, a than ddigofaint y Duw y pechodd i'w erbyn; ac nas gall drwy ddim o'i waith ei hun —drwy lafur, na haelioni, na gweddïau, na dagrau, nac ympryd-iau, na phenydiau, na dim arall, wneuthur Iawn am ei ganiwedd.

2. Y mae "ffydd yn ei waed ef" yn gweled yr Iawn a gafwyd drwy ei fywyd a'i angeu ef yn ddigon ar ei gyfer; yn bob peth sydd arno eisieu: y mae y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu, yr hwn a osododd Duw yn Iawn, yn hollol wrth ei fodd; ac nad oes arno eisieu yr un drefn arall; ac nid yw yn dewis yr un drefn arall; ac nid yw am newid dim ar drefn yr Iawn, nac ychwanegu dim ati, na thynu dim oddiwrthi.

3. Y mae ffydd yn ei waed ef yn tawel ymorphwys ar yr Iawn, ac ar yr Iawn yn *unig*, am fywyd, ac am bob gobaith, a phob gorfoledd.

III. BETH YDYW EFFEITHIAU DERBYNIAD YR IAWN AR BROFIAD YR ENAID CREDINIOL?

1. Y mae yn cael ei lenwi â gwylder ac â syndod parchedig wrth syllu ar berffaith gysondeb ffyrdd Duw, ar ogoniant holl ranau ei gymeriad, wrth weled fel y mae ei holl ymddygiadau tuag at holl ddeiliaid ei lywodraeth yn hardd ddysgleirio yn nrych yr Iawn.

2. Y mae deddf ffydd yn cau allan bob hunanymffrost o'i galon. Y mae yn gweled, ac yn barod i gydnabod mai dyfais fawr tragwyddol gariad a doethineb ydoedd y drefn i achub yr euog drwy Iawn; ac i'r drefn gael ei pherffeithio drwy haeddiant anfeidrol Aberth y Cyfryngwr; a bod holl fendithion y drefn yn cael eu cynnyg, yn hollol o ras, i bechadur halogedig a gwrthryfelgar, heb ynddo ddim haeddiant na theilyngdod, na dim harddwch na hawddgarwch; ac felly y mae yn gweled ac yn teimlo mai lle dyn yw bod yn isel yn y llwch yn cyffesu ei annheilyngdod, ac ymfrostio yn unig yn y groes.

3. Y mae prawf o rinweddau yr Iawn yn ei gynhyrfu i gasâu pechod, ac i filwrio yn ei erbyn. Gan fod Duw wedi aberthu heb arbed ei anwyl Fab, ac wedi ei draddodi i farw er cael ffordd gyfiawn i faddeu pechod, y mae yr enaid yn deall ac yn teimlo fod drwg-haeddiant annhraethadwy mewn pechod; ac y mae cariad y drefn ddrud i faddeu drwy waed Oen Duw yn cynhyrfu yr enaid yn fwyfwy i gasâu pechod, po fwyaf y myfyrio ar egwyddorion a ffeithiau mawrion trefn yr Iawn.

4. Y mae rhinweddau y cymmod drwy'r Iawn yn cymhell yr enaid i wneud yr oll a allo dros yr hwn a fu farw drosto.

CYMHWYSIAD.

Dylai holl lanes y Beibl o athrawiaeth fawr yr Iawn fod yn anwyl iawn genym: fod yn ein cof ac yn ein calon, yn ein myfyrdodau ac yn ein hymadroddion.

Na chollir neb a bwyso yn ffyddlog ar Iawn anfeidrol yr Iesu. Rhaid i ddyfais fawr anfeidrol ddoethineb, rhaid i holl gynlluniau tragwyddol gariad, rhaid i ddyoddefiadau trymion y Cyfryngwr, a holl gynnygion yr efengyl, fyned yn ofer os collir unrhyw enaid a gredo yn yr Iesu, ac a bwyso ar ei Iawn. Ni siomir byth mo obeithion y credadyn. Gan fod Duw wedi caru fel y traddododd ei Fab drosom ni oll, pa wedd gydag ef hefyd na ddyry efe i ni bob peth? Gall achub "dan ganu" ar ol y taro trwm fu ar Galfaria.

Gan nad oes iachawdwriaeth yn neb ond yr Iesu, rhaid y collir pawb a wrthodant ei Iawn: "Yr un a ddirmygai gyfraith Moses a fyddai farw heb drugaredd, dan ddau neu dri o dystion. Pa faint mwy cosbedigaeth (dybygwch chwi) y bernir haeddu o'r hwn a fathrodd Fab Duw, ac a farnodd yn aflan waed y cyfam-

mod, trwy yr hwn y santeiddiwyd ef, ac a ddifenwodd Ysbryd y gras?"

Dydd gogoneddus a gorfoleddus annhraethadwy fydd y dydd mawr hwnw, pan y bydd yr Iesu yn dangos y gwaredigion a brynodd drwy ei waed, a phan y bydd yn "dangos cyfiawnder Duw" yn holl drefn eu prynedigaeth.

"Dan bwys ein bai yn dyoddef poen
Bu'r Oen ar Galfari;
Gwnaeth i gyfiawnder dan ei gur,
Iawn yn ein natur ni.

A thrwy yr Iawn mae'r Ysbryd Glan
Yn puro'r aflan rai;
Trwy'r Iawn bydd myrdd ar ben eu taith,
Yn berffaith heb un bai.

Nis gall angylion pur y nef,
Er maint eu doniau hwy,
Fyth osod allan haeddiant llawn
Anfeidrol ddwyfol glwy'.

Mae yn ei haeddiant drysor mwy
Na fedd y byd yn un,
A phrawf o'i gariad ydyw'r fraint
Oruchaf gafodd dyn.

Yr Iawn a dalwyd ar y groes
Yw sylfaen f'enaid gwan,
Wrth bwyso arno ddydd a nos,
'Rwy'n dysgwyl d'od i'r lân.

Nis gall angylion nef y nef
Fynegu maint ei gariad ef,
Mae angeu'r groes yn drech na'u
Bydd canu uwch am Galfari [dawn;
Nag glywodd yr angylion fry,
Pan ddelo Salem bur yn llawn."

ANERCHION BYRION WRTH FWRDD Y CYMUNDEB.

CYMUNDEB, MAI, 1834.

Y MILWR DA.

Wrth dderbyn aelodau i'r Eglwys.—Yr ydych heddyw yn ymrestru yn wirfoddol i fod yn filwyr dan faner y groes. Yr ydych yn cael tymmor tawelach i ddechreu ar eich milwriaeth nag a gafodd ardderchog lu y merthyron; ond er fod tymhestloedd tanllyd yr erledigaethau wedi tawelu, cewch fod y byd etto yn llawn o elynion, a bod y frwydr yn boeth, ac y bydd yn rhaid i chwithau wylio ac ymegnïo. Yr ydym newydd fod yn ceisio darlunio i'r gynnulleidfa yma "Nodweddau y milwr da i Iesu Grist." Ceisiwch eu cofio.

1. Y mae y milwr da *yn ffyddlawn i'w flaenor*—yn ymddiried yn ei ddoethineb, yn plygu i'w awdurdod, yn ufudd i'w orchymynion, yn hoff o'i gyfeillach, yn awyddus i ryngu ei fodd, yn ofalus am ei enw, yn mynegu ei rinweddau gyda sel a llawenydd, yn arddel heb gywilydd ei egwyddorion a'i achos, ac yn foddlon i lafurio a dyoddef, os bydd raid, dros ei enw a'i ogoniant.

2. Y mae yn *caru ei gydfilwyr*, am wneud lles iddynt, a chael lles oddiwrth eu cymdeithas; am eu calonogi yn y frwydr, a'u hamddiffyn rhag ymosodiadau eu gelynion.

3. Y mae yn cymeryd ato yr *holl* arfogaeth—helm yr iachawdwriaeth, dwyfroneg cyfiawnder, cleddyf yr Ysbryd, gwregys y gwirionedd, tarian y ffydd, esgidiau parotoad efengyl y tangnefedd. Y mae am ddysgu gwisgo ei arfogaeth yn drefnus, am gadw ei arfau yn loewon, ac am eu defnyddio yn y dull mwyaf effeithiol.

4. Y mae y milwr da am ymegnïo ar faes y frwydr; am gadw ei le, a dal ei dir, a bod yn wrol, yn benderfynol, a gwyliadwrus, a diymmod, nes gorphen y filwriaeth ac ennill y fuddugoliaeth.

Cofiwch hefyd, er eich calondid, fod yr annogaethau mwyaf cysurlawn i'r milwr da.

1. Y mae Cadben ei filwriaeth yn un o'r cymeriad mwyaf gogoneddus. Nid yw byth yn rhyfela ond o blaid cyfiawnder. Y mae yn rhyfelwr profedig, wedi bod yn y brwydrau poethaf, ac wedi buddugoliaethu yn mhob brwydr. Y mae ganddo fyddinoedd lluosog a galluog, etholedig a ffyddlon, yn ei ddilyn, ac yn milwrio dano, sef llengoedd y nef, a saint y ddaear; ac y mae holl elfenau anian ac olwynion rhagluniaeth dan ei lywodraeth, ac yn gweithio o'i du. Ac y mae yn dirion iawn o'i filwyr. Y mae yn eu hadwaen oll, y mae eu henwau ganddo yn ei lyfr; y mae ei lygad arnynt bob moment, y maent yn cael rhyfela ar ei draul, enfyn nerth iddynt yn ol eu dydd, cydymdeimla â'u gwendidau, maddeua eu camgymeriadau, canmola hwy wrth ei Dad yn ngwydd yr holl lys, a chorona hwy â gogoniant anfarwol.

2. Y mae ei filwriaeth yn un enwog iawn, ac y mae sylw nefoedd, daear, ac uffern arni.

3. Y mae ei elynion wedi cael eu dyrysu, eu harcholli, a'u concro.

4. Y mae pob un fu yn y filwriaeth o'ch blaen, ïe, y rhai ieuangaf a gwanaf, wedi ennill y dydd.

5. Y mae dydd hyfryd y gorphwys, a'r seinio concwest, a'r cario palmwydd, a'r gwledda ar fwrdd ei Gadben yn ymyl.

Y mae rhai o'ch cyfeillion chwi a minnau yn parhau i sefyll ar ol fel EDRYCHWYR. Y maent yn cydnabod nad ydynt ddim yn filwyr i'r Iesu, a dichon eu bod yn meddwl nad ydynt yn filwyr i neb, nad ydynt yn symud dan yr un faner, nad ydynt yn taro gyda'r un ochr; eu bod yn sefyll ar dir *canolog*, eu bod yn *neutral*, nad ydynt ond edrychwyr er eu bod ar ganol y maes. Ond y maent yn camgymeryd; gan nad ydynt gyda'r Iesu, y maent yn ei erbyn. Y mae yr Iesu yn eu hystyried yn elynion; y mae y nefoedd yn eu gaiw yn elynion; y mae perygl, os oedant yn hŵy, y deuant yn elynion mwy cyhoeddus. Y mae ambell un yn eu mysg yn myned yn elyn mwy caled a mwy cyhoeddus wrth heneiddio. Yr wyf am droi atynt a deisyf arnynt dros eu Cadben, "Cymmoder chwi â Duw." Y mae ochr pechod yn sier o golli y dydd; newidiwch eich ochr, y mae Crist yn barod i'ch derbyn. Y mae yn eich mysg ambell i *deserter* fuont unwaith wrth y bwrdd yma yn cymeryd llw o ffyddlondeb i'r Iesu a'i fyddin, ac yn selio eu cyfammod âg arwyddion angeu Crist, ond y maent wedi troi cefn yn nydd y frwydr, ac wedi rhoddi achos i'r gelyn gablu; y mae enw a chymeriad y fath anffyddloniaid yn ddu; y mae eu hymddygiad at fyddin yr Iesu wedi bod yn fradychus: ond y mae ein Cadben tirion yn foddlon i faddeu y cyfan. Deuwch yn ol, ac efe a'ch derbyn etto gyda'r

llawenydd puraf a'r croesáw goreu. Y mae eich llc i chwi gael etto yn ei fyddin ac wrth ei fwrdd. Dychwelwch, dychwelwch, paham y byddwch feirw?

Mae yn gweddu i ninnau fel CYMUNWYR gofio y gellir, nid yn unig bod yn filwyr gwael, a mynych ruthro a syrthio ar y maes, a halogi ein gwisgoedd a'n harfau, ac achosi gwendid yn y fyddin a thynu anfri ar enw ein Cadben, ond ei bod yn bosibl i ni fod yn fradwyr yn y fyddin; bod ar enw yr Iesu a than faner yr Iesu, ond yn ceisio defnyddio ei arfau ei hun i filwrio yn ei erbyn. Y mae yr Iesu yn adnabod pob bradwr, y mae yn deall yr hyn sydd yn ei galon, gwyr pan y mae yn myned allan i wneud cynghrair â'r gelyn, a pha wobr y mae yn gael am fradychu achos ei Arglwydd. Nid oes modd i'r bradwr ddianc; ac oddieithr iddo newid ei ffordd, caiff ei golli, a bydd ei ddiwedd yn ofnadwy. Holwn ein hunain rhag ein bod yn fradwyr, a gwnawn ein goreu i fod yn filwyr da i Iesu Grist; bydd hyny yn ennill i ni, yn gysur ac yn rym i'n cydfilwyr, ac yn enw i Bentywysog a Pherffeithydd ein ffydd, yr hwn sydd ar ei orsedd hardd, yn mhen draw yr yrfa, yn dal y goron i'w rhoddi i bob un a ymdrecho ymdrech deg, ac a barhao yn ffyddlawn hyd y diwedd.

CYMUNDEB, GORPHENAF, 1834.

CYNGHOR O WELY ANGEU GWEINIDOG.

Edrychwyr.—Yr ydych newydd ein clywed yn crybwyll rhai o nodau a breintiau a rhwymedigaethau cyfeillion yr Iesu pan yn anerch eich cyfeillion sy'n eistedd yma o gylch y bwrdd. Y mae cymhelliadau i chwi o bob man i fwrw eich coelbren gyda hwy, ac i geisio lle ac enw yn eu mysg. Y mae efengyl yn taro tannau tyneraf ei thelyn er eich gwahodd. Y mae deddf yn sacthu ei mellt ar draws ffordd dinystr er eich dychrynu rhag rhuthro yn rhyfygus tua cholledigaeth. Y mae yr iachawdwriaeth rad wedi darparu arlwy fawr felus, ac y mae yn hulio ei bwrdd llawn o'ch blaen yn eich ymyl. Y mae yr Ysbryd a'r briodasferch yn dywedyd, Tyred. Y mae eich rhieni a'ch ceraint, a llawer o'ch cyfoedion yma, yn hiraethu am gael cymdeithas eich cân a'ch gweddi wrth fwrdd y wledd; ac y mae eu calonau yn curo yn gyflym rhag i chwi fod yn ol. Y mae angylion craffus caredig ar eu hedyn yn ymdroi uwch eich pen, yn dysgwyl canfod arwydd yn eich gwedd eich bod am daro o du yr Iesu, eu Tywysog. Y mae llaweroedd o'ch hen gyfeillion yn edrych i lawr fel tyst-

ion dros ragfuriau y ddinas nefol, yn dysgwyl eich gweled bellach yn cychwyn gyrfa bywyd tragwyddol. Y mae drws trugaredd yn agored o led y pen, a'r Iesu ei hun, a'i freichiau ar led yn barod i'ch croesawu at fwrdd y wledd. Ac y mae un cymhelliad anarferol yn cael ei gynnyg heddyw i'ch ystyriaeth. Y mae eich hen athraw tyner-galon, eich hen weinidog cŵf, oddiar wely cystudd trwm, yn "cofio atoch." Yr oedd ei lygaid yn llawn, a'i galon yn fwy na llawn, pan yr oedd bore heddyw â'i lais bloesg yn cofio at ei hen gyfeillion sy'n awr yn drist o hiraeth am ei weled; ond yr oedd yn erchi yn arbenig càel ei gofio atoch *chwi;* ac yr oedd yn erfyn dros Grist am i chwi beidio oedi dim yn hŵy. Buasai yn dda ganddo allu bod yma heddyw, pe na buasai ond yn gallu edrych arnoch. Y mae yn awr yn meddwl am danoch ac yn gweddïo drosoch.

CYMUNDEB, AWST 3ydd, 1834.

AR OL CLADDU GWEINIDOG.

Y MAE cymysg deimladau wedi bod yn ymweithio drwy ein mynwesau yn ystod y mis diweddaf. Drwy y dyddiau cyntaf o'r mis yr oedd hen weinidog fu'n tòri bara wrth y bwrdd hwn am bron ddeugain mlynedd yn rhodio ar hyd glyn cysgod angeu. Yr oedd yn dristwch trwm i ni ei weled yn tynu mor gyflym tua'r afon; ond yr oedd yn gysur cryf i'w gyfeillion ei glywed yn tystio mor dawel nad oedd yn ofni niwaid, am fod ei Fugail gydag ef. Bythefnos i heddyw yr oedd ei draed *yn* yr afon, ac aeth o'n golwg yn gyflym i'r ochr draw. Y mae yn awr yn gorphwys oddiwrth ei lafur a'i gystudd.

Braint werthfawr ac uchel i ni oedd i'r fath nifer o weinidogion profiadol ymweled mor garedig â'n hardal, a'n hanerch mor effeithiol yn ystod yr wythnos ar ol ei gladdedigaeth. Traddodasant i ni wirioneddau gogoneddus, o duedd dedwydd, i roddi gwaith a grym i'n meddyliau. Cawsom bregethau llawnion o deimlad ac o oleuni oddiwrth y materion canlynol:—Llef Eliseus pan gollodd Elias, "Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg;" Nerth yr Arglwydd i wared Israel; Gweddi yr Iesu dros ei ddysgyblion; Gwyn eu byd y meirw sydd yn marw yn yr Arglwydd; Adgofion ingawl eneidiau colledig; Hiraeth y credadyn am gael ei wared oddiwrth gorff y farwolaeth; Y penaf i fod yn was i bawb; Gweinidogaeth yr efengyl yn berarogl Crist i Dduw yn y rhai cadwedig, ac yn y rhai colledig; Adeiladu ar y tywod ac ar y graig; Y cyfarfod oll; Rhedeg er

ennill y gamp; Enaid yn bendithio yr Arglwydd; Mynediad helaeth i'w deyrnas dragwyddol; Dwyn meibion lawer i ogoniant; Cân buddugoliaeth yr adgyfodiad; a'r Orphwysfa sydd etto yn ol i bobl Dduw.

Gobeithio na ddilëir byth yr argraffiadau dyfnion a wnaed ar ein calonau wrth eu gwrando. Nid hawdd i ni ddarlunio y dyddanwch oeddym yn brofi wrth glywed am gerbyd Israel a'i farchogion, am farw yn yr Arglwydd, am adael corff y farwolaeth ar ol, am y cyfarfod oll, am gân yr adgyfodiad, ac am y "mynediad helaeth" i'r orphwysfa sydd etto yn ol. Rhaid y bydd cymdeithas y nef yn annhraethol ogoneddus a dedwydd. Y mae ein cyfeillion goreu o un i un yn esgyn yno atynt. Ofnwn, gan hyny, rhag i neb o honom ni fod yn debyg i fod yn ol.

Yr oedd gan Brydain, hyd ddydd Iau diweddaf, *wyth gan' mil* o'i deiliaid yn GAETHION yn ynysoedd pell y Gorllewin. Y maent heddyw wedi eu rhyddhau; ac y mae miloedd o honynt yn *cymuno* heddyw, fel crefyddwyr *rhyddion*, am y tro cyntaf yn eu bywyd. Dylem weddïo am iddynt *oll* gael eu dwyn i brofi melusder rhyddid gogoneddus yr efengyl. Y mae amryw genadon llafurus a ffyddlawn wedi bod yn efengylu yn eu mysg er's llawer o flynyddoedd; ac y mae miloedd lawer o honynt wedi cael eu hennill i dderbyn Cristionogaeth; ac adroddir eu bod yn ymdrechu byw yn ol cyfreithiau Crist: a dywedir hefyd fod bron *dri chant* o'u dynion ieuainc selog a gobeithiol yn awr dan addysg y cenadon yn parotoi i fyned allan i bregethu yr ymadrodd am y groes, ac i gynnyg anchwiliadwy olud gras i'w cenedl yn Affrica.

EDRYCHWYR CAREDIG!—Y mae genyf air atoch chwi. Yr ydych yn agweddu yn syml, ac yn gwrando yn astud. Fis i heddyw yr oedd eich hen athraw o'i wely cystudd, yn llesg a gwan, ond yn llawn o gariad, yn cofio atoch, ac yn taer erfyn am i chwi ymgysegru yn ddioed i wasanaethu yr Hwn sydd oll yn hawddgar, a'r Hwn yr ydym yn awr yn gwneud hyn er cof am dano. Bu eich hen weinidog, mewn ysbryd tadol, yn gafaelyd yn eich llaw lawer tro, yn yr ysgol, ac ar y ffordd, ac yn y tŷ, i'ch rhybuddio a'ch cynghori yn garedig; ond nid yw i'ch cynghori mwy. Yr ydych newydd fod yn ei hebrwng i'r dystaw fedd. Bydd yr adgofion am ei eiriau yn arogl marwolaeth i farwolaeth i chwi, neu yn arogl bywyd i fywyd. Gobeithio nad oes yma neb fydd yn adgofio ei gynghorion islaw y gagendor, yn lle anobaith y colledigion: "yno y bydd wylofain a rhincian dannedd, pan welech Abraham ac Isaac a Jacob, a'r holl brophwydi yn nheyrnas Dduw," os byddwch chwi, blant y

deyrnas, wedi eich bwrw allan. Gobeithio y bydd ein cyfarfod nesaf â'r hen JOHN ROBERTS yn un gorfoleddus.

CYMUNDEB, MEDI, 1834.

AMCANION Y SWPER SANTAIDD.

DYLEM, wrth eistedd fel hyn o gylch bwrdd ein Harglwydd, gadw yn ein golwg *amcanion* pwysfawr sefydliad ei Swper Santaidd. Gallwn enwi rhai o honynt—

1. I arddangos cyfoeth a chyflawnder arlwyadau trugaredd; neu fod gan Dduw ddarpariadau melus a diball ar gyfer pechaduriaid tlodion ac euog.

2. I arwyddo fod gwleddoedd gras i gyd oll yn werth gwaed, gwerthfawr waed Crist, gwaed y cymmod dros bechodau; ac nad oedd dim modd i'r euog gael byw, chwaithach cael gwledd, oni buasai angeu y Gwaredwr.

3. I gadw mewn cof ryfeddodau anghymharol tosturiaethau cariad yr Iesu; a bod y cariad hwnw yn parhau o hyd yr un.

4. I ddysgu i ni mai yr ymadrodd am y groes ydyw sylfaen a sylwedd yr holl efengyl, ac i fod yn foddion i'w chadw yn ei hysbryd, a'i bywyd, a'i blas, a'i phurdeb, yn yr eglwys ac yn y byd, dros yr holl genedlaethau.

5. I roddi cyfle cyhoeddus i bawb ddangos eu hochr, eu brenin, eu pobl, a'u gwaith, eu hegwyddorion a'u mwyniant.

6. I gadw ar gof y saint mai brodyr ydynt, yn perthyn i'r un teulu, i gylchynu yr un bwrdd, i wledda ar yr un arlwyadau; a'u bod yn blant i'r un Tad, yn cael yr un triniaethau; a'u bod oll yn etifeddion, yn etifeddion i Dduw, ac yn gydetifeddion â Christ, eu Brawd hynaf, a fu farw yn eu lle.

7. I adfywio, a dyddanu, a chryfhau meddyliau y saint ar eu teithiau trwy'r anialwch, yn enwedig er eu calonogi yn eu milwriaeth, wrth ymdrechu yn erbyn eu gelynion.

Wrth gymdeithasu â dyoddefiadau yr Iesu y cawn ni ein cydffurfio â dybenion ei farwolaeth; ac felly y deuwn i'w adnabod ef, a grym ei adgyfodiad ef, ac i ymffrostio ac ymorfoleddu yn ei groes ef. Canys cynnifer gwaith bynag y bwytaom y bara hwn, ac yr yfom y cwpan hwn, y dangoswn farwolaeth yr Arglwydd oni ddelo. Mae'n debyg na bydd eisieu na "bara" na "gwin" yn y nefoedd. Defnyddir yr elfenau hyn hyd "oni ddelo," ond bydd cofio uwch a phurach am ei farwolaeth ar ol ei ail ddyfodiad. Ceir gwledda yn nheyrnas nef mewn *lle* annhraethol mwy gogoneddus nag ar y ddaear; wrth y bwrdd mawr, yn nheml y

llys. Bydd y Brenin ei hun, yr hwn wisgodd y goron ddrain, yno yn ein natur ni, yn blaenori wrth y bwrdd. Ceir yno amlygiadau mil helaethach o arlwyadau gras nag a gafwyd erioed ar y ddaear. Bydd y teulu *oll* yno, yn dorf hardd na ddichon neb ei rhifo, heb neb yn eu mysg yn llesg nac yn llygredig, nac yn ofnus, ond oll yn iach a llawen, yn eu gynau gwynion, ac heb arnynt na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw; a phery y wledd yno i fyned felusach felusach o hyd, hyd byth bythoedd.

Edrychwyr ac Ymesgusodwyr—Y mae eich amser *goreu* yn colli, yr amser mwyaf cymeradwy, ac ni ddaw byth yn ol; ac y mae eich holl esgusodion yn rhai gwael, yn rhai na ddaliant unrhyw brawf. Yr ydych yn dysgwyl dyfod yn berffaith cyn dechreu ar yrfa crefydd, am gael sicrwydd ffydd cyn ymwneud â chyfryngau ffydd, am gael gorfoledd gwledd yr iachawdwriaeth cyn dyfod at fwrdd yr efengyl. Y mae pob dysgwyliad felly yn sicr o droi yn siomedigaeth.

Yr ydych yn dysgwyl cael perffeithrwydd heb ddim siom na gwendid mewn aelodau eglwysig; ni chewch eu gweled yn berffaith tra byddont ar y ddaear. Yr ydych yn dysgwyl fod Duw yn rhy drugarog i *chwi*, blant gweddïau rhïeni crefyddol, a phlant caniadau yr Ysgolion Sabbathol, gael eich cau allan o'r nefoedd; ond dylech gofio nad yw trugaredd Duw byth yn gweithio yn groes i'w orchymyn, nac yn gweithio er dirmygu na dirymu ei drefn. Yr ydych yn dweyd eich bod yn oedi rhag ofn i chwi fod yn rhagrithwyr yn yr eglwys; ond dylech ofni pan yr ydych yn ymdroi i fychanu ordinhadau crefydd ar dir yr oedi a'r rhyfygu. Yr ydych yn dysgwyl cyfleusderau gwell; ond mae pob lle i feddwl na chewch byth amser hawddach na'r adeg bresenol. Yn awr yw dydd yr iachawdwriaeth. Y mae yn sicr y daw arnoch gywilydd ryw bryd o'ch gau esgusodion.

CYMUNDEB, HYDREF, 1834.

MYNYDD Y GWEDDNEWIDIAD.

Cymundeb melus ac addysgiadol, a gogoneddus iawn oedd hwnw fu ar fynydd y gweddnewidiad. Yr oedd pedwar peth yn gwneud y cymundeb hwnw yn un tra gogoneddus.

1. Urddas y rhai oedd yn y gyfeillach. *Iesu*, anwylyd y nefoedd, Cyfryngwr y testament newydd, Gwaredwr pechaduriaid; a hyny pan oedd ar derfyn ei weinidogaeth ar y ddaear, pan yr oedd awr ei ymadawiad yn ymyl. Yr oedd wedi myned

i fyny i'r mynydd yn llawn o gariad i fyfyrio, gweddïo, a pharotoi at ei ymadawiad.

A dau o saint enwocaf y nefoedd. *Moses* enwog, y bachgen dynwyd o'r afon—ddaeth yn ddysgedig yn holl ddoethineb yr Aipht—wrthododd gymeryd ei alw yn fab merch Pharaoh, ac a fu ffyddlawn yn ei holl dŷ fel cyfryngwr yr hen oruchwyliaeth: ac *Elias*, diwygiwr mawr ei oes, gwron a gweddïwr, a buddugoliaethwr pen Carmel; bendithiwr blawd ac olew y weddw o Sarepta, ceryddwr brenhinoedd, athraw prophwydi, a'r hwn a ddyrchafwyd i'r nef mewn cerbyd tanllyd heb brofi marwolaeth.

A thri o ddysgyblion penaf y ddaear, o'r rhai ffyddlonaf i'w Hathraw, sef, Pedr, Iago, ac Ioan. Cawsant eu harwain i'r gyfeillach hòno er cysur i'w meddyliau eu hunain, ac er eu galluogi i fod yn fwy defnyddiol ar ol hyny.

2. Yr oedd amgylchiadau y cymundeb hwnw yn ogoneddus. Yr oedd Moses ac Elias yno, nid yn nillad llwydion y ddaear, ond yn holl ogoniant gwisgoedd goreu gwyliau y nefoedd. Yr oedd *Elias* yno yn y *corff*, aeth adref yn y cerbyd tanllyd. A barna rhai fod ei gorff gan Moses yno; ac mai adgyfodiad corff Moses oedd pwnc yr ymddadleu rhwng Michael a'r diafol. O leiaf, yr oedd y ddau sant enwog yn *weledig* fel eu gilydd, ac yr oeddynt yn dra gogoneddus.

Gwisgwyd yr Iesu yno hefyd â gogoniant annhraethadwy. Yr oedd ei wyneb yn dysgleirio fel yr haul, ac yr oedd ei ddillad yn wynach na'r eira.

Ac yr oedd cwmwl y Shechina, cwmwl presenoldeb gogoniant yr Arglwydd, yn toi y mynydd; a daeth llef o'r mawr ragorol ogoniant hwnw er anrhydedd i'r Iesu.

3. Yr oedd testun ymddyddan y cymundeb hwnw yn bwysfawr. Nid cyfarfod yno a wnaethant i esbonio deddfau anian a rhyfeddodau y greadigaeth, na throadau olwynion rhagluniaeth; nid i adrodd hanes helyntion rhyfedd dyddiau Moses ac Elias; ac nid i adrodd am y gwynfyd sydd yn y nefoedd; ond i gydymddyddan am yr "ymadawiad a gyflawnai yr Iesu yn Jerusalem," neu, mewn geiriau eraill, am ei groes a'i angeu. Ac y mae'n debyg eu bod yn ymddyddan am ei angeu fel y prif ran o gynllun neu arfaeth trefn achub—fel cyflawniad o brif addewidion trugaredd, fel sylwedd cysgodau yr hen oruchwyliaeth, fel lawn anfeidrol i lywodraeth y nef, fel buddugoliaeth ar allu uffern, ac fel agoriad ffordd iachawdwriaeth, a sylfaen gweinyddiaeth maddeuant, a chyfrwng pechadur i ogoniant.

4. Yr oedd amcanion y cymundeb hwnw yn ogoneddus, sef anrhydeddu yr Iesu yn ngolwg ei ddysgyblion gweiniaid, trwy

ddangos iddynt ei fod yn fwy na Moses, ac yn fwy nag Elias; er dangos iddynt fod byd gogoneddus o'n golwg ni, y tu fewn i'r llen, lle y mae y cyfiawnion perffeithiedig anfarwol yn cymdeithasu mewn cariad; ac er dangos iddynt nad ellir, tra yma yn y cnawd, ddim dal gogoniant y nefoedd. Yr oedd Pedr, Iago, ac Ioan, y rhai cryfaf a mwyaf ysbrydol o'r dysgyblion, ond yr oedd yr olygfa ar fynydd y gweddnewidiad yn ormod iddynt.

Y mae yr un testun genym ni wrth y bwrdd yma i feddwl a son am dano ag oedd gan Moses ac Elias ar fynydd y gweddnewidiad. Y mae yr un testun genym ag oedd gan y ddau ddysgybl ar y ffordd, ac ar y swper yn Emmaus. Yr un testun ag oedd gan yr unarddeg ac eraill yn yr oruwchystafell; yr un testun ag oedd gan Ioan yn Patmos; yr un testun ag oedd gan brophwydi enwocaf yr Hen Destament wrth aberthu; a dichon fod genym well cyfleusderau i'w astudio nag oedd ganddynt hwy. Y mae yr un pwnc genym i fyfyrio arno ag sydd gan gymunwyr pur, anfarwol y nefoedd. A dyna sydd yn ddigon i foddi yr enaid mewn syndod, fod modd ein gwneud ni sydd yn halogedig ac yn weiniaid, yn gystuddiol ac yn farwol, yn ddigon cryfion i ddal golygfeydd a gwasanaeth y byd ysbrydol; ïe, a bod modd gwneud y cyrff gwael hyn yn ddigon ysbrydol i ddal gogoniant a gwaith oes dragwyddol.

A dylem gofio oll, fel cymunwyr ac edrychwyr, y bydd raid i ni ar fyrder ddal tragwyddol bwys pethau byd arall. Bydd raid i ni yn fuan symud i fyd yr ysbrydoedd. Byddwn ni yn y carchar neu yn yr orphwysfa. Byddwn ni yn fuan yn eistedd i gymuno gydag Abraham, Job, Moses, Elias, Paul, ac Ioan, a holl gymanfa y rhai cyntafanedig yn nheyrnas nef, neu yn wylofain gyda'r colledigion yn y tywyllwch eithaf. Gwelir rhagor y pryd hyny rhwng y cyfiawn a'r drygionus.

"Gwelir myrdd o ryfeddodau
Ar ddyfodiad Iesu Grist;
Ni bydd neb o'r gwaredigion
Ar y bore hwnw 'n drist:
Galar mwy, poen na chlwy',
Byth ni ddaw i'w blino hwy."

Y mae yn drwm annhraethol i feddwl fod neb o'n ceraint, na neb o'n hardalwyr, yn cefnu ar eu cyfeillion goreu, yn dibrisio ordinhadau crefydd, yn gwrthod y cysuron penaf, yn troi draw oddiwrth y Cyfaill a lŷn yn well na brawd, ac yn debyg felly o gael eu cau allan o wleddoedd a chyfeillachau y nefoedd.

CYMUNDEB, TACHWEDD, 1834.

CYMERADWY YN YR ANWYLYD.

Y MAE Paul, wrth anerch y credinwyr oedd yn Ephesus, mewn iaith gref ac o galon gynhes, yn moli cyfoeth a gogoniant gras Duw, yr hwn oedd wedi ei wneud ef a hwythau "yn gymeradwy yn yr Anwylyd."

Y mae yr *enw* a rydd ar Iesu y Gwaredwr—"*Yr Anwylyd*," yn un hynod o ddarluniadol. Nid yw yn dweyd Anwylyd pwy ydyw; ond gallwn ni ddweyd ei fod yn Anwylyd y Tad, ei gyfaill, ei etholedig, ei gyntafanedig, ei uniganedig, ei anwyl Fab; a'i fod yn ei garu er cyn seiliad y byd. Ac Anwylyd yr *Ysbryd*, yr hwn sydd yn ymhyfrydu i gymeryd o'r eiddo Crist i'w fynegu i'r Eglwys. Ac Anwylyd yr *angylion*—yr ysbrydoedd pur sy'n llengoedd dirif yn gweini o gylch gorsedd y nef; y rhai sydd yn adwaen yr Iesu yn dda, wedi bod yn dystion o'i ymgnawdoliad, ei wyrthiau, ei angeu, ei adgyfodiad, a'i esgyniad i'w orsedd; ac y maent yn taro holl dannau eu telynau i ganu iddo. Ac Anwylyd yr holl *Eglwys* yn y nef ac ar y ddaear. Y mae y saint ar y ddaear yn ei garu, er nad ydynt yn ei weled; ac y maent yn ei garu fwyfwy po fwyaf feddyliont am dano; ond y mae saint y nef yn ei adnabod yn well, ac felly y maent yn ei garu yn berffeithiach.

Yr oedd yr apostol hefyd yn mawrygu y *fraint* oedd wedi dyfod i ran credinwyr, sef cael eu gwneud yn "*gymeradwy*" yn yr Anwylyd. Yr oedd yn tybied eu bod unwaith yn anghymeradwy, a bod eu cyflwr felly yn ofnadwy. Y mae ei eiriau hefyd yn arwyddo nad oes dim modd i'r euog gael ei wneud yn "gymeradwy" ond yn yr Anwylyd. Oferedd a thwyll ofnadwy ydyw i bechadur ddychymygu y gall wneud ei hun yn gymeradwy drwy ei hunangyfiawnderau; pe gallai hyny fod, ni buasai Duw byth yn taro ac yn dryllio ei anwyl Fab er cael ffordd i gyfiawnhau pechadur, nid oes ond *un* ffordd i'r euog am ei fywyd, sef ffoi ar unwaith i freichiau yr Anwylyd. Y mae ei air hefyd yn arwyddo mai cyflwr dedwydd a diogel iawn yw bod yn gymeradwy yn yr Anwylyd. Nid yw o gymaint pwys pa un ai gwenu ai gwgu wna'r byd, os byddys yn gymeradwy yn yr Anwylyd. Y mae hyny yn ddigon i fyw ac yn ddigon i farw, ac y mae yn wystl o wynfyd didranc yn y nef.

Yr oedd Paul hefyd am i bob credadyn gofio fod y fraint anmhrisiadwy yma wedi deilliaw yn hollol o rad drugaredd Duw, ac mai gras sydd i gael yr holl fawl. A bydd yn ddedwydd

iawn yn y nef, lle y bydd gras o hyd yn llifo i'r enaid, a mawl o hyd yn dyrchafu o'r galon.

"Gras, gras,
'Yw'r newydd gân bereiddia'i blas
Fu erioed ar wyneb daear las;
Hi ddeil ei blas pan losgo'r byd,
Pan ferwo'r môr a'i dònau'n dân,
Y nefol gân fydd gras i gyd."

Ein llafur blaenaf a'n pryder penaf ddylai fod am fod yn gymeradwy yn yr Anwylyd. Er gwaethed yw ein cyflwr fel troseddwyr euog, y mae modd ein gwneud yn gymeradwy yn ei gyfiawnder ef, trwy rinwedd ei aberth ef; ac os ydym yn gymeradwy ynddo, byddwn yn sicr o lawenychu yn ei gariad, ac ymddedwyddu yn ei gymdeithas.

CYMUNDEB YN 1834.

YR IESU YN DANGOS EI GLWYFAU.

Wrth dderbyn aelodau.—Yr ydych heddyw, yn ngwydd llawer o dystion, yn proffesu eich penderfyniad i fod o "du'r Arglwydd;" eich bod am filwrio dan faner yr Iesu; eich bod am gael breintiau cymdeithas ei eglwys, a'ch bod am *weithio* gyda hwy ar faes crefydd.

Dyna *ydyw* "eglwys," cymdeithas o gymydogion yn proffesu cariad at y Gwr a groeshoeliwyd, ac yn cydnabod eu rhwymau iddo; ac wedi cyfammodi, er eu gwendidau a'u hanmherffeithrwydd, i wneud eu goreu o blaid ei achos, ac i ddyrchafu ei enw: ac yr ydych chwithau heddyw yn gwirfoddol ymuno â chymdeithas felly, er eu calonogi a'u cynnorthwyo hwy, ac er cael cyfnerthiad i'ch crefydd eich hunain. Bydd cadw at reolau y gymdeithas, a bod yn ddiwyd a rheolaidd yn ei chynnulliadau, yn sicr o fod yn nerth a chysur i chwi. Glynwch yn eich proffes. Cerwch y frawdoliaeth. Chwennychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynnyddoch trwyddo ef. Arferwch weddi. Arosed eich myfyrdod ar bethau gogoneddus yr efengyl. Cewch brofi felly fod yr Arglwydd yn dirion. Tra fyddoch yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithrwch chwi ddim byth; canys felly yn helaeth y trefnir i chwi fynediad i mewn i dragwyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist. A bydd adgofion dedwydd yno am seliad eich cyfammod y dydd hwn, i fod o hyn allan byth yn eiddo i'r Arglwydd

Cymunwyr—Yr ydym yma yn awr i gofio am frwydr ryfedd Calfaria. Yn awr gyfyng y frwydr bwysfawr hòno, gadawyd yr Iesu ei hunan. O'r bobl nid oedd neb gydag ef. Edrychodd, ac nid oedd gynnorthwywr; rhyfeddodd hefyd, am nad oedd gynnal-

iwr; yna ei fraich ei hun a'i hachubodd, a'i gyfiawnder a'i cynnaliodd; a daeth i fyny o'r frwydr yn goch ei ddillad, yn hardd yn ei wisg, yn ymdaith yn amlder ei rym, yn llefaru mewn cyfiawnder, ac yn gadarn i iachâu. Ond yn nydd gogoneddus rhanu'r yspail yn y diwedd, bydd ei holl deulu, ei holl "warediglon" gydag ef, yn hardd yn eu gwisgoedd, wedi gwisgo eu coronau, yn ymdaith fel gorchfygwyr i'r Jerusalem newydd, i wledda gyda'u gilydd yn llawenydd eu Harglwydd.

Mae'n galondid annhraethol i bechadur edifeiriol i gofio fod yr Hwn a fuddugoliaethodd ar Galfaria yn gweini fel dadleuydd drosto yn uchel lys gogoniant; a'i fod yno fel *brawd* iddo, yn ei natur, yn dangos ei *glwyfau*, fel ei ddadl am ryddhad y rhai sy'n ymddiried eu hachos iddo. Yr oedd yn effeithiol i weled Amyntas gynt, yn llys Athen, yn dangos y clwyfau oedd wedi dderbyn yn mrwydr Salamis, yn achos ei wlad, fel dadl dros arbediad ei frawd Æschylus, yr hwn oedd wedi ei gondemnio i farw; ac yr oedd yn effeithiol i weled yr euog yn cael ei ollwng yn rhydd ar gyfrif clwyfau ei frawd: ond er cynhesed oedd cariad Amyntas, ac er cryfed oedd ei ddadl ar ran ei *frawd* condemniedig, nid oeddynt yn haeddu eu cyffelybu i gariad yr Iesu yn *marw* dros *bechaduriaid*, ac yna yn esgyn i'r llys i ddangos ei glwyfau, ac i ddadleu ei waed a'i angeu er cael maddeuant i'r euog edifeiriol. Y mae yno yn byw bob amser i eiriol; mae yn y bri uchaf yno, ac y mae ei ddadl bob amser yn llwyddiannus. Gallwn dawel ymddiried ein hachos yn ei law.

Y mae yn deg ac yn rhesymol i'r Iesu hwn, a drengodd ar y groes, ac sydd yn eiriol yn y nef ar ran pechaduriaid, gael eu calon a'u gwasanaeth. Y mae *wedi* gwneud llawer drostynt, ac y mae yn *bwriadu* gwneud llawer etto er eu codi a'u gogoneddu; a dylent hwythau wneud yr oll a allont drwy eu hoes er ei fwyn ef a'i achos. Y mae ei gariad ef o hyd yr un. Y mae yn addfwyn a gostyngedig o galon. Y mae efe oll yn hawddgar. Y mae ei faner yn sicr o ysgwyd yn fuddugol ar uchelfanau y maes; a bydd yn anrhydedd annhraethol i gael rhan yn y goncwest fawr yn y dydd diweddaf.

Y mae yn gysur mawr i ni fod teyrnas y Gwaredwr yn llwyddo yn gyflym yn ngwahanol barthau'r byd. Yr wyf newydd weled adroddiadau o America. Mae eu cymdeithasau Beiblaidd, Cenadol, a Dirwestol yno yn gweithio yn egnïol ac effeithiol; ac mae eu Hysgolion Sabbathol yn llawn o fywyd, ac yn hynod o flodeuog: ac y mae eu hieuenctyd wrth y cannoedd yn ymrestru dan faner yr Emmanuel. Y mae newyddion annogaethol hefyd wedi dyfod yn ddiweddar, fod ffeithiau gogoneddus, ac egwyddor-

ion pwysfawr efengyl yr Iesu yn ennill mwyfwy o sylw yn mysg Negroaid India y Gorllewin, a brodorion coelgrefyddol India y Dwyrain. Er fod Satan wedi codi ei orsedd ar y ddaear, ac er ei fod wedi dal ei lywodraeth am oesau meithion, ac er fod ganddo lid mawr, ac er ei fod yn llawn o gyfrwysdra ac o ddichellion, y mae yr Iesu yn llywodraethu yn nghanol ei elynion, ac yn dattod gweithredoedd y diafol, a myn y frenhiniaeth yn y diwedd iddo ei hun ac i'w saint.

"Henffych i enw Iesu gwiw!
Syrthied o'i flaen angylion Duw:
Rhowch iddo'r parch holl dyrfa'r nef,
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

Chwychwi a brynwyd trwy ei waed,
Plygwch yn isel wrth ei draed;
Fe'ch tynodd â thrugaredd gref,
Yn Arglwydd pawb coronwch ef.

Boed i bob llwyth a phob rhyw iaith,
Trwy holl derfynau'r ddaear faith,
Gydganu'n llawen iawn eu llef,—
Yn Arglwydd pawb coronwch ef."

A gobeithio y bydd i leisiau mwynion icuenctyd siriol y *gallery* gyduno, o galon gynhes, i gryfhau, mwyneiddio, a dyblu y gân—

"YN ARGLWYDD PAWB CORONWCH EF."

CYMUNDEB YN 1835.

DWYN YR IAU.

Wrth dderbyn cyfeillion ieuainc i'r eglwys.—Ceir yn y Beibl lawer o gynghorion i icuenctyd. Yr ydym wedi cyfeirio eich ystyriaeth heddyw at un o honynt, sef, "Da yw i wr ddwyn yr iau yn ei ieuenctyd." Cofiwch beth ydyw dwyn yr iau:—

1. Plygu y *meddwl* i chwilio tystiolaethau y Beibl, ac i fyfyrio ynddynt ddydd a nos.

2. Plygu yr *ymddygiad* i gadw gorchymynion Crist, ac i rodio gyda hyfrydwch yn holl ffyrdd ei dystiolaethau.

3. Plygu teimlad y *galon* dan alluog law Duw, gan gredu mai triniaethau cariad a doethineb Tad ydyw ei holl geryddon.

4. Plygu dan ddysgyblaeth eglwys Dduw. Y mae gan bob cymdeithas grefyddol ei rheolau; ac y mae ei chysur a'i bywyd yn ymddibynu ar eu cadw.

Cofiwch hefyd, beth yw y *lles* a ddeillia o ddwyn yr iau yn amser *ieuenctyd*:—

1. Y cyfryw fyddant debycaf o gael eu cadw rhag rhedeg yn wyllt i afael profedigaethau a drygau y byd.

2. Bydd yr iau i'r cyfryw yn esmwyth, ysgafn, a hyfryd.

3. Y cyfryw fyddant y rhai mwyaf gweithgar a defnyddiol ar faes crefydd.

4. Y mae addewid i'r cyfryw am le uchel yn nghariad Duw.

5. Bydd y cyfryw yn debyg o fod ar dir diogel pan y daw angeu, ac yn debyg o gael mynediad helaeth i dir y bywyd.

Yr ydych yn cael y fraint o wisgo'r iau yn lled foreu; ond i chwi ei dwyn yn ffyddlawn trwy eich dydd, cewch orphwysdra i'ch eneidiau.

Gobeithio y bydd i'r cyfeillion ieuainc sy'n *edrych* arnoch chwi heddyw yn gwisgo yr iau, ddyfod yn mlaen yn ddioed i ddilyn eich esiampl. Gwnewch eich goreu i'w denu i lwybrau crefydd. Yr wyf am grybwyll wrthynt yn awr, dros eu hen gyfeillion a thros Grist, fod *iau pechod* yn drom, yn drom iawn. Y mae yn drom i'r corff, ond yn drymach i'r enaid; y mae yn drom wrth fyw, ond bydd yn drymach wrth farw. Y mae yn drom yn y byd hwn, ond bydd yn drymach yn y byd tragwyddol. Y mae yn drugaredd fod modd heddyw i ddryllio y fath iau greulawn, a thrwy hyny i'r enaid gael diangfa.

IESU YN YFED Y CWPAN.

Frodyr a chwiorydd o gylch y bwrdd!—Yr ydym i gofio yn awr am y cyfiawn yn marw yn neddfle yr euog; y diniwaid yn dyoddef y groes er mwyn i'r troseddwr gael etifeddu y goron. Gallai fod yn fuddiol i ni sefydlu ein meddwl ar ryw *un* o olygfeydd rhyfedd yr oruwchystafell, neu yr ardd, neu le y groes; a cheisio dal ar rai o eiriau y Gwaredwr. Geiriau effeithiol iawn oedd y rhan hòno o'i weddi yn yr ardd, pan y dywedodd, "Fy Nhad, os yw bosibl, aed y cwpan hwn oddiwrthyf; etto nid fel yr wyf fi yn ewyllysio, ond fel yr ydwyt ti." Ac efe a aeth drachefn, yr ail waith, ac a weddïodd, gan ddywedyd, "Fy Nhad, onis gall y cwpan hwn fyned heibio oddiwrthyf, na byddo i mi yfed o hono, gwneler dy ewyllys di." Y mae ei eiriau yn arwyddo yn

1. Fod ei ddyoddefiadau yn chwerwon iawn. Yr oedd llawer o bethau yn gwasgu yn drwm ar ei enaid: ond dichon mai yr hyn oedd yn gwasgu drymaf oedd "cuddiad wyneb ei Dad."

2. Ei fod drwy'r cyfan yn gwbl blygedig i ewyllys ei Dad.

3. Nad oedd dim modd i gael ffordd i achub dyn heb i gwpan chwerw ei ddyoddefaint gael ei yfed. Ac felly yn

4. Fod cariad, ac ufudd-dod, a ffyddlondeb y Cyfryngwr y fath, fel ag y boddlonodd i yfed y cwpan, ïe, i yfed gwaddod y cwpan, er cael phiol lawn felus bywyd i drueiniaid collfarnedig.

Pe anturiai rhyw un ei fywyd i achub bywyd cyfaill o berygl- on dwfr, neu dân, canmolid ei ysbryd a'i ymddygiad gan bawb o'i amgyleh. Pe ymddarostyngai rhyw un i iselderau dyfnaf tlodi, er mwyn cyfoethogi estroniaid anhawddgar ac anniolchgar,

rhyfeddid ei dosturiaethau. Pe cymerai rhyw un ei arwain yn fud i'r lladdfa, er mwyn i'w gyfeillion gael byw, a chael mwy na bywyd, rhyfeddid a mawrygid graslonrwydd ei hunanymroddiad. Gwnaeth yr Iesu anfeidrol fwy na hyn: aeth i'r lladdfa yn lle yr euog aflan; bu farw mewn pryd dros ei elynion; ac

"Wrth gofio 'i ruddfanau 'n yr ardd,
A'i chwys fel defnynau o waed;
Aredig ar gefn mor hardd,
A'i daro â chleddyf ei Dad;
A'i arwain i Galfari fryn,
A'i hoelio ar groesbren o'i fodd—
Pa dafod na chanai am hyn,
Pa galon mor gyndyn na thedd!"

CYMUNDEB YN 1835.

DANGOS MARWOLAETH YR ARGLWYDD.

"Cynnifer gwaith bynag y bwytaoch y bara hwn, ac yr yfoch y cwpan hwn, y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd, oni ddelo." Y mae y geiriau yn arwyddo ein bod i gofio am farwolaeth yr Iesu trwy ordinhad fel hon, nid yn unig er ein budd ein hunain, ond er llesâd eraill hefyd. Y mae pob cymunwr cywir, teilwng, nid yn unig yn cael cynnaliaeth, grym, a gorfoledd i'w enaid ei hun, ond y mae hefyd yn "dangos" marwolaeth yr Arglwydd i eraill. Y mae yn dangos ei ddrylliad a'i angeu; yn dangos ei gariad a'i gyfiawnder; yn dangos ei aberth a'i lawn mawr; yn dangos y cyflawnder a'r cadernid sydd yn ei iachawdwriaeth. Y mae yma ugeiniau heddyw, rhai hen, bron ar derfyn eu gyrfa, a rhai ieuainc newydd ddechreu eu gyrfa, yn cyd-ddangos marwolaeth yr Arglwydd. Y maent felly yn cydbregethu yn ddystaw mai drwy angeu Crist y mae i bechadur gael ei fywyd; a bod nid yn unig waredigaeth, ond bod gwledd a gogoniant i'w cael trwy bwyso ar Iawn yr Iesu.

Y ROYAL STAR YN Y GOLWG.

Edrychwyr anwyl!—Dylech gofio fod gwrthod Crist yn awr yn waeth ymddygiad nag ydoedd ei groeshoelio pan ydoedd yma yn y byd. Pan oedd yr Iuddewon gynt yn gwaeddi, "Ymaith âg ef," yr oedd yn ei ddillad gweithio, wedi cymeryd arno agwedd gwas; ond yr ydym ni yn awr yn gwybod am holl hanes ei ddyrchafiad i'w ogoniant.

Y mae adroddiad i *press gang* unwaith ddal un o dywysogion coron Prydain pan yr oedd mewn dillad milwr cyffredin, ac iddynt ei gadw yn gaeth, a'i drin yn anmharchus ac yn greulawn, ond ni wyddent pwy ydoedd. Wrth iddynt un diwrnod ddyosg

ei ddillad oddiam dano i'w fflangellu, daeth y *royal star* oedd ar ei fynwes, neu seren loew ei urdd fel etifedd y goron, i'r golwg; gydag iddynt weled y *royal star*, a deall pwy ydoedd, syrthiasant ar eu gliniau yn edifeiriol i erfyn ei faddeuant a'i ffafr. Y mae *royal star* Tywysog y bywyd, Etifedd gorsedd y nefoedd, yn awr yn y golwg; ac y mae y rhai sydd yn ei wrthod yn cynnyg ei fathru dan eu traed, ei ail groeshoelio, a'i osod yn watwar, er eu bod yn gwybod yn dda pwy ydyw; a pha fodd y gall y cyfryw ddysgwyl cael ei nawdd, ei wên, a'i wledd yn nydd ei goroniad?

CYMUNDEB YN 1835.

GWLEDD MYNYDD SEION.

"Ac Arglwydd y lluoedd a wna i'r holl bobloedd yn y mynydd hwn wledd o basgedigion, gwledd o loew-win, o basgedigion breision, a gloew-win puredig. Ac efe a ddifa yn y mynydd hwn y gorchudd sydd yn gorchuddio yr holl bobloedd, a'r llen, yr hon a daenwyd ar yr holl genedloedd. Efe a lwnc angeu mewn buddugoliaeth; a'r Arglwydd Dduw a sych ymaith ddagrau oddiar bob wyneb; ac efe a dyn ymaith warthrudd ei bobl oddiar yr holl ddaear, canys yr Arglwydd a'i llefarodd."

Dichon fod Esaiah yn cyfeirio yn y geiriau a adroddwyd at ryw wledd a fu yn Jerusalem ar ol rhyw waredigaethau tymmorol, megys dinystr byddin Senacherib, neu ar ol y dyfodiad adref o gaethiwed Babilon; ond diau fod llygad y brophwydoliaeth at fendithion iachawdwriaeth gras, at arlwyadau trugaredd ar fynydd aberth y Cyfryngwr. Crybwyllir o leiaf bump o fendithion.

1. *Gwledd* o arlwy un mwy nag Ahasferus, mwy na Belsassar, mwy na Solomon, mwy na Cyrus, nac Alexander, na Cesar, na neb o arglwyddi daear—sef "Arglwydd y lluoedd"—gwledd i'r enaid—gwledd gyfoethog o bob amrywiaeth—gwledd digonedd i'r holl bobloedd—a gwledd ddiderfyn ei pharhad.

2. Difa y *gorchudd* a'r *llen*.—Gorchudd y seremoniau a llen y cysgodau oedd gynt ar ryw ystyr yn cuddio gogoniant gwrthddrychau ac athrawiaethau ysbrydol—y llen o anwybodaeth ag sydd yn awr yn gorchuddio y rhan fwyaf o wledydd y byd—y llen o lygredd sydd yn gorchuddio calon dyn wrth natur, ac yn ei hattal i weled llewyrch gogoniant yr efengyl—y mae y lleni hyn i gael eu difa trwy weinidogaeth yr efengyl a gweinidogaeth yr Ysbryd.

3. *Llyncu angeu mewn buddugoliaeth.* Llyncwyd angeu mewn buddugoliaeth pan adgyfodwyd yr Iesu fore y trydydd dydd. Yn

y frŵydr fawr ar Galfaria cafodd angeu bob mantais i ymladd ac i ennill y dydd. Yr oedd uffern yn taro o'i du, a dacar yn taro o'i du; ac yr oedd yr Iesu wedi disgyn i dir isel pechadur, plygodd ei ben i ddyrnod angeu, ac aeth i lawr i ystafelloedd angeu, ond llyncodd ef yno mewn buddugoliaeth, tynodd ei golyn, gafaelodd yn yr allweddau, a chymerodd feddiant o'i holl ymerodraeth. Y mae angeu etto yn cael ei lyncu mewn buddugoliaeth bob tro y bydd credadyn yn diane trwy borth angeu i dir y bywyd; ac yn enwedig pan y bydd yn canu yn ei wyneb wrth fyned trwodd, "O angeu, pa le mae dy golyn?" A llyncir angeu yn gyflawn ac am byth pan y codir cyrff y saint o feddiant y bedd, heb ddim o ôl marwoldeb arnynt, ac i fod allan o gyrhaedd marw byth: "Yna y bydd yr ymadrodd a ysgrifenwyd, Angeu a lyncwyd mewn buddugoliaeth."

4. *Sychir ymaith ddagrau y gwaredigion oddiar bob wyneb.* Y mae colli dagrau o'r llygaid yn arwyddo fod tristwch yn y galon. Y mae i'r saint yn y byd yma lawer o achosion galar, ond symudir yr holl achosion hyny, ac felly sychir eu dagrau am byth.

5. *Tynir ymaith eu gwarthrudd.* Y mae eu gwendidau, eu llygredigaethau, a'u llithriadau, yn peri gwarthrudd yn gystal a galar iddynt. Maent weithiau trwy eu gwendidau yn bradychu crefydd, yn gwadu eu Harglwydd, yn llacsu breichiau eu cydfilwyr, yn dyrysu gwersyll Seion, yn llychwino eu gwisgoedd, ac yn rhoddi lle i'r gelynion gablu ac ymffrostio: ond tynir ymaith eu gwarthrudd. Byddant cyn hir wedi eu perffeithio, ac ni bydd arnynt na chraith, na chlwyf, na brycheuyn, na chrychni, na dim o'r cyfryw; a bydd golwg hardd iawn y pryd hyny ar dorf ddirif y gwaredigion. "A'r dydd hwnw y dywedir, Wele, dyma ein Duw ni; gobeithiasom ynddo, ac efe a'n ceidw; dyma yr Arglwydd, gobeithiasom ynddo, gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth ef."

Dylem gofio mai yn "mynydd Seion," yn mynydd y groes a'r ordinhadau, y mae yr arlwyadau breision a'r bendithion gwerthfawr hyn i'w cael. Yr oedd yn dda genym groesawu y chwioryddion ieuainc a gymerasant eu lle heddyw am y tro cyntaf wrth fwrdd y wledd. Yr oedd yn dda iawn genyf glywed hen chwaer gystuddiol yn tystio yn gryf ac yn gynhes yr wythnos ddiweddaf fod gwleddoedd Seion yn profi yn felusach felusach o hyd; fod yr hanes am yr Iesu, am ei enedigaeth, ei weinidogaeth, ei angeu, ei adgyfodiad, a'i esgyniad i'w ogoniant, nid yn unig yn parhau yn ei flas, ond ei fod yn myned yn felusach i'w phrofiad o fis i fis, ac o flwyddyn i flwyddyn.

Byddai yn dda iawn genym pe medrem ddenu ein holl gyfeillion ieuainc sydd yn aros ar ol "i edrych," i droi ar unwaith o facs tlawd y gelyn i fynydd Seion. Y mae Arglwydd y lluoedd, yr hwn a wnaeth y wledd, yn barod i'ch croesawu. Y mae yn gorchymyn canu yr udgyrn er eich gwahodd i ddyfod yn mlaen at y bwrdd. Y mae holl deulu y wledd yn gwybod fod ei chyflawnder yn ddiddarfod, ac yn hiraethu am eich cyfeillach. Y mae yr arlwyadau darparedig yn berffaith gyfaddas at eich angen; ac y maent i'w cael heb arian ac heb werth. Y mae y bendithion yn eich ymyl, a pharhant yn eu blas a'u llawnder am oes ddiddarfod eich eneidiau. Y mae y croesaw a gafodd eraill yn annogaeth i chwithau ddyfod yn mlaen. Anturiodd myrddiynau o fyrddiynau yn mlaen fel yr oeddynt; y maent yn awr yn berffaith wrth eu bodd wrth fwrdd eu Tad fry, yn moli gras yn gynhes am eu denu i fynydd y wledd. Ni wrthodwyd neb a ddaeth; ni siomwyd neb a ddaeth; ac ni wrthodir ac ni siomir neb a ddaw. Ni wyddoch pa bryd y daw angeu i'ch cipio ymaith o gyrhaedd y wledd, a hyny am byth. Y mae llaweroedd ag oeddynt unwaith mor obeithiol ag ydych chwithau wedi ei cholli, a hyny yn unig trwy ymdroi ac arofyn ac oedi. Brysiwch rhag i'r drws gael ei gau. Pe baech yn ymddwyn at gymydog cymwynasgar fel yr ydych yn ymddwyn at yr Iesu, digiai am byth wrthych: ni chaech brofi o'i swper. Y mae perygl i Awdwr y wledd ddigio wrthych. Peth ofnadwy fyddai hyny—syrthio i'r tân na ddiffydd o ymyl mynydd Seion! Newynu byth wedi bod yn ymyl y wledd, a boddi yn ymyl drws yr arch! Cael eich arwain i'r lladdfa oddiwrth drothwy porth y noddfa. Marw am wrthod y feddyginiaeth, a diystyru cariad y Meddyg mawr. Syrthio i afael angel marwolaeth yn ymyl arwydd y gwaed a gwledd y Pasg; a cholli holl gysuron a rhagorfreintiau y Ganaan nefol.

"Deuwch, hil syrthiedig Adda,
Daeth y Jwbil lawn o hedd;
Galwad sydd i bawb o'r enw
I fwynhau tragwyddol wledd:
Bwrdd yn llawn, yma gawn,
O foreuddydd hyd brydnawn."

"Er bod rhyw dyrfa fawr,
Yn gwledda yn Salem fry,
Wrth fwrdd y neithior fawr,
Ni lanwyd etto'r tŷ:
Awn oll yn mlaen, gyfeillion cu,
Mae yno le i ddirfawr lu."

CYMUNDEB YN 1835.

BLINO AC YMOLLWNG.

"YSTYRIWCH am hyny yr hwn a ddyoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid; fel na flinoch, ac nad ymollyngoch yn eich eneidiau."

Y mae blino ac ymollwng yn ei enaid yn un o'r gwendidau mwyaf parod i amgylchu y credadyn yn y sefyllfa brofedigaethus bresenol. Y mae gofalon a dyledswyddau ei broffes yn bwysig iawn. Y mae ei elynion yn lluosog ac yn gryfion, ac oll am gael ei ben yn isel. Mae cystuddiau y corff weithiau yn drymion, ac y mae segurdod ei feddwl a chwantau ei galon yn waeth na dim arall, ac yn wyneb yr holl bethau hyn y mae yn dueddol iawn i flino ac i ymollwng. Y mae hanes duwiolion yr hen oesau yn arwyddo mai blino ac ymollwng oedd un o'u gwendidau gwaethaf. Byddent yn ymollwng mor isel weithiau nes dywedyd a llefaru—"Cuddiwyd fy ffordd oddiwrth yr Arglwydd, a'm barn a aeth heibio i'm Duw." "Yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd." "Yn fy erbyn i y mae hyn oll." A byddent weithiau mor isel nes dewis marw yn hytrach na byw. Ac y mae ein gwedd a'n hiaith a'n profiadau ninnau yn ein mynych gyhuddo ein bod yn rhy dueddol i flino ac ymollwng ar yrfa crefydd.

Y mae y fath ysbryd isel, llwfr, yn hynod o niweidiol. Y mae yn llesgâu bywiogrwydd a nerth y corff, yn pylu awch galluoedd y meddwl, yn gwneud ein dyledswyddau yn fwy anhawdd ac anhyfryd, yn cryfhau dwylaw ein gelynion, yn magu yr un ysbryd yn ein cydbererinion, ac yn taflu dirmyg ar gariad, cydymdeimlad, a gallu yr Iesu, a'i ffyddlondeb i'w addewidion.

Meddyginiaeth fawr Paul i'r "ymollwng a'r blino" niweidiol yma, ydyw ystyried yr Iesu, yr hwn a ddyoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid. Gallai fod yn fuddiol i gofio fod holl flinderau dacar yn fyr ac ysgafn, a'u bod oll i ddarfod. Gallai fod yn fuddiol i astudio hanes y duwiolion mwyaf gwrol a dianwadal. A gallai fod yn fuddiol i ystyried buddugoliaeth diwedd yr yrfa a'r orphwysfa geir yn y nefoedd. Ond y feddyginiaeth fawr anffaeledig ydyw edrych ar yr Iesu, ac ystyried yr hwn a ddyoddefodd gyfryw ddywedyd yn ei erbyn gan bechaduriaid. Gallwn ystyried yn

1. Y llafur, y gwaradwydd, a'r dyoddefiadau yr aeth drwyddynt.

2. Yr ysbryd a ddangosodd yn wyneb ei holl dywydd, y fath ymostyngiad i ewyllys ei Dad, y fath barch i'w lywodraeth, y fath ffyddlondeb i'w holl drefn, y fath gymwynasgarwch at bechadur, y fath gasineb at ddrwg, a'r fath ddiysgogrwydd diflino yn holl ranau ei waith fel Cyfryngwr.

3. Ystyried y sefyllfa uchel y mae ynddi yn awr, a'r manteision sydd ganddo i gynnorthwyo ei ganlynwyr. Rhoddwyd iddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Y mae ei fynwes yn

llawn o gydymdeimlad a thosturi, ac y mae wedi addaw bod gyda'i bobl bob amser nes perffeithio eu hiachawdwriaeth. Ystyriwn am hyny y pethau hyn, fel na flinom ac nad ymollyngom yn ein heneidiau.

CYMUNDEB YN 1835.

ARFOGI A'R UN MEDDWL.

"Am hyny, gan ddyoddef o Grist drosom ni yn y cnawd, chwithau hefyd byddwch wedi eich arfogi â'r un meddwl."

Y mae hanes bywyd Crist genym, a gallwn wrth astudio ei hanes, wybod y "meddwl" oedd yn ei lenwi, ei lywodraethu, a'i "arfogi;" a pho fwyaf fydd ynom ni o'r meddwl oedd yn Nghrist, mwyaf tebyg y byddwn iddo, mwyaf anwyl ganddo, a mwyaf defnyddiol drosto. Ceisiwn, gan hyny, fagu yn ein mynwesau y meddwl oedd yn Nghrist. Arfogwn ein calonau â'r meddwl oedd ynddo ef, yn

1. Am ei Dad a'i lywodraeth.
2. Am bechod a'i ganlyniadau.
3. Am y diafol a'i angylion.
4. Am grefydd a'i hordinhadau.
5. Am y ddaear a'i theganau.
6. Am ein breintiau a'n cyfrifoldeb.
7. Am fyd arall a'i ogoniant.

Ni bydd yn hawdd ein gorchfygu gan unrhyw elyn os byddwn ni wedi ymarfogi â'r meddwl oedd yn Nghrist Iesu. Y ffordd i ni lenwi ac arfogi ein calon â'r meddwl oedd yn Nghrist ydyw, cymdeithasu âg ef—â'i eiriau, ei deimladau, ei fywyd, ac â'i angeu, trwy y cyfryngau a'r ordinhadau a sefydlodd.

CYMUNDEB YN 1835.

Y PASG.

"Trwy ffydd y gwnaeth efe y Pasg, a gollyngiad y gwaed, rhag i'r hwn oedd yn dinystrio y rhai cyntafanedig gyffwrdd â hwy."

Yr oedd ffydd Moses yn gweithio yn ardderchog ar adeg sefydliad y Pasg.

1. Yr oedd yn ei nerthu i gredu holl dystiolaethau yr Arglwydd, y mynai achub ei bobl o gystudd yr Aipht, ac y mynai ddarostwng balchder y gelyn, a bod angel marwolaeth i fyned allan y noson hono i ladd y rhai cyntafanedig.

2. Dysgodd ei ffydd ef i ufuddhau yn fanwl i holl osodiadau Duw gyda golwg ar drefn y Pasg. Cyflawnodd y cyfan yn fanwl a difrifol gyda golwg ar yr oen, a'r gwaed, a dull y wledd, fel ag yr oedd yr Arglwydd wedi gorchymyn.

3. Galluogodd ei ffydd ef i fod yn wrol ac yn dawel ar dir ei ddyledswydd. Er y gwyddai fod yr angel dinystriol allan yn lladd heb arbed, yr oedd yn gwbl dawel fod trefn Duw rhyngddo ef a'r perygl.

4. Cynhyrfodd ei ffydd ef i ymegnïo er lles eraill. Dysgodd ordinhadau Duw i Israel. Galwodd ato henuriaid y llwythau. Eglurodd iddynt y drefn, ac archodd iddynt hwythau ei dysgu i'r bobl; ac archodd i'r bobl ei dysgu i'w plant, fel y cedwid coffadwriaeth o oes i oes am ofal Duw dros y rhai a'i hofnent ac a ymddiriedent ynddo.

Y mae ffydd pob credadyn diffuant o'r un natur ag ydoedd ffydd Moses. Y mae yn wir nad oes dim galwad ar ffydd, dan yr oruchwyliaeth bresenol, i hollti'r Môr Coch, nac i sychu'r Iorddonen, nac i beri i'r haul sefyll, nac i dynu ffrydiau o'r graig, a bara angylion o'r nefoedd, nac i gau safnau llewod, nac i ddiffodd angerdd tân, nac i dynu tân i lawr o'r nefoedd, nac i godi'r marw o'i fedd; ond y mae gwir ffydd *etto*, fel gynt, yn *credu* tystiolaethau Duw am ei Fab ac am holl ranau trefn y cadw. Y mae hefyd yn cymhell yr enaid i *ufuddhau* i holl osodiadau Duw. Y mae hefyd yn codi'r enaid i dir tawelwch a diogelwch, trwy ddangos iddo, gan fod Duw o'i blaid, nad all dim lwyddo yn ei erbyn. Y mae hefyd fel cynt yn cymhell yr enaid i fod yn ddefnyddiol. Yn ol nerth ein ffydd am bethau byd arall y bydd ein hegniadau i wasgu y pwys o honynt at feddyliau eraill.

Yr oedd agweddau ac ysbryd Israel gynt gyda'r Pasg yn addysgiadol i ni yn awr o gylch bwrdd yr Arglwydd. Y wledd hon yw ein Pasg ni dan yr efengyl.

1. Yr oeddynt hwy gynt i fwyta yr oen i gyd oll, heb weddillio dim o hono: rhaid i ninnau gael Crist *cyflawn* i ni ein hunain.

2. Yr oeddynt hwy i fod a'u hesgidiau am eu traed, a'u ffyn yn eu dwylaw, i arwyddo eu bod am ddianc o'r Aipht a chychwyn eu gyrfa tua gwlad yr addewid: dylem ninnau wregysu ein lwynau i ddianc o gaethiwed pechod tua thir y bywyd.

3. Yr oeddynt i deimlo yn dawel a diolchgar dan arwydd y gwaed, dan nawdd trefn eu Duw: dylem ninnau deimlo yn ddedwydd ac yn ddiolchgar dan nawdd gwaed Oen y cymmod.

4. Yr oeddynt hwy i esbonio i'r plant a enid holl hanes y Pasg, trefn y wledd, ac amcanion ei sefydliad. Dylem ninnau

wneud ein goreu i egluro i'r genedl sy'n dyfod ar ein hol, hanes y prynedigaeth trwy waed yr Oen, a'r tawelwch a'r cysur sydd i'w gael wrth fwrdd gwledd yr iachawdwriaeth.

Edrychwyr anwyl!—Y mae yr angel dinystriol allan, ac y mae cleddyf tanllyd dialedd yn ei law. Y mae am roddi cyfle ac amser i'r euog ddianc; ond y mae yn dal, ac yn taro llawer oedwr; a pheth ofnadwy ydyw syrthio dan ei ddyrnod i boenau yr ail farwolaeth. Y mae yn bryd i chwi ffoi o dir y perygl. Y mae lle diogel yn eich ymyl dan nawdd y gwaed Diangwch yno, a byddwch yn ddiogel, ac yn ddedwydd am byth. Dyma flwyddyn etto bron darfod. Y mae y rhai sy'n cloffi yn ei diwedd yn waeth eu cyflwr nag oeddynt wrth gloffi yn ei dechreu. Na freuddwydiwch am amser gwell. Penderfynwch heddyw i blygu at draed y Gwaredwr.

Yr ydym newydd gyhoeddi brodyr dyeithr i bregethu yma am lawer o Sabbathau yn ddilynol. Dichon y bydd rhai o honom wedi ein symud i fyd arall cyn y cawn gyfarfod fel hyn etto. Gweddïwch am i'r un sydd yn awr yn eich anerch gael y fraint o fod dan nawdd Rhagluniaeth, a than driniaethau gras tra ar ei deithiau oddicartref; a gweddïwch am i'r brodyr fydd yn dyfod yma i bregethu yn ei absenoldeb, gael y fraint o ennill eneidiau at Iesu Grist.

CYMUNDEB YN 1836.

GOLYGFEYDD O FRYN Y GROES.

YSGRIFENAI teithiwr yn ddiweddar, fod teimladau cryfion, cynhes, yn chwyddo yn ei galon pan oedd yn myned drwy Bethlehem, lle y ganwyd yr Iesu, ac yn dringo ei hen lwybrau ar fynydd yr Olewydd, a phan oedd yn gweled cylchoedd Bethania lle yr hoffai lettya, ac afon Cedron, a gardd Gethsemane, a bryn Moriah, a bryn Seion, a BRYN Y GROES, lle y gogwyddodd ei ben i farw, a lle y bedd santaidd, a manau hynod eraill a gysegrwyd gan bresenoldeb yr Iesu pan oedd yma yn y byd. Adroddai y teithiwr iddo dreulio cryn amser ar fryn uchel, o ba le y gallai weled ar unwaith lawer o'r lleoedd santaidd a nodwyd, a bod ei deimladau yn ei orchfygu. Dichon y buasai yn dda gan lawer yma gael golwg ar y manau enwog hyny. Nid tebyg y cawn fwynhau hyny o hyfrydwch tra yma yn y corff: ond gall ein *meddwl* yn awr roddi tro heibio iddynt: ac ond i ni esgyn, ar adenydd ffydd, i *fryn y groes*, ac edrych i fyny, gallwn weled oddiyno orsedd ogoneddus y nef yn ddigwmwl; a gweled Pentywysog a

Pherffeithydd ein ffydd yn gweini yno yn ei wisgoedd cyfryngol; a gweled y Tad, y Barnwr tragwyddol, yn gwenu pan y mae gras, ar gyfrif yr Iawn, yn ymgeleddu pechadur edifeiriol; a gweled angylion yno yn chwennychu edrych ar y drefn fawr; a gweled y saint yno wrth eu bodd yn eu gynau gwynion, wedi dyfod allan o'r cystudd mawr; ac wrth eistedd yno i ymwrando, cawn glywed adswn peroriaeth y "ganiad newydd" am rinweddau gwaed yr Oen; a chlywed llais trugaredd, oddiar orsedd cyfiawnder, yn cyhoeddi maddeuant llawn, a thangnefedd pur i'r enaid isel sy'n credu yn yr Iesu. Wrth aros yno ar fryn y groes, ac edrych *yn ol*, cawn weled mwg arogldarth yr hen oruchwyliaeth yn gwasgaru, a'r cysgodau yn cilio, a'r ŵyn a'r durturod yn cael byw. Ac wrth edrych *yn mlaen* cawn weled buddugoliaethau didrwst a didrais yr efengyl yn y mil blynyddoedd, a gweled Mab y dyn, yr hwn gynt a groeshoeliwyd, yn dyfod gyda'r cymylau mewn gogoniant mawr, ac yn eistedd ar ei orseddfainc i farnu y byw a'r meirw. Mawr iawn ydyw ein braint ein bod ni yn awr yn cael cyfle fel hyn i ddringo bryn y groes, i ganol y fath olygfeydd gogoneddus. Yr ydym i gofio yn awr am Anwylyd yr holl nefoedd, am Gyfaill mynwes y Tad, yn dyfod i lawr yno, o'i fodd, i *farw* yn lle pechadur, gan agor y ffordd i drueiniaid tlodion fel nyni ddyfod i feddiant o holl oludoedd y cyfammod gras. Arosed ein meddyliau, ac ymgartrefed ein serchiadau ar angerddol rym ei anfeidrol gariad; ar ei ymddarostyngiad a'i ddyoddefiadau; ar ei fuddugoliaeth ardderchog ar uffern, angeu, a'r bedd; ac ar ei Iawn mawr digonol i holl ofynion llywodraeth ei Dad. Eisteddwn dan ei gysgod ef. Edrychwn ar wenau ei wyneb llon. Gwrandawn ar eiriau grasol ei gariad. Syllwn ar ei wisg hardd, ac ar y "coronau lawer" sydd ar ei ben. Gwelwn fel y mae yr holl nefoedd yn plygu iddo. Gwelwn daenelliad ei waed ar yr orsedd danllyd, ac mor dawel ddysglaer ydyw yr holl olygfa; a gwledded ein henaid ar rinweddau ei aberth drud, fel y gallwn anghofio y byd a'i ofidiau a'i ddeniadau, ac fel y byddo ein llygredd yn cael ei farwhau, a'n henaid blin yn cael nerth newydd i rodio yn ffyrdd ei orchymynion, ac i fod yn sicr a diymmod a helaethion yn ei waith yn wastadol, a ni yn gwybod na bydd ein llafur yn ofer yn yr Arglwydd.

CYMUNDEB YN 1836.

AMDDIFFYN PROFFESU YN FOREU.

Wrth dderbyn merch ieuanc i'r eglwys.—Yr wyf yn deall fod rhai yn meddwl, ac yn clywed eu bod yn *dweyd* fod y chwaer

fechan hon yn "rhy *ieuanc*" i gael ei derbyn i gymundeb eglwysig; a bod y cyfryw yn beio yr eglwys am ei derbyn. Yr wyf am ddweyd gair mewn hunanamddiffyniad; a dichon ei bod yn fwy gweddus i *ni* amddiffyn a chyfiawnhau ei hymddygiad, nag ydyw iddi *hi* gymyg gwneud hyny.

Yr wyf yn ofni mai teulu yr *oedi* oedd yn barnu ar ei hawyddfryd i ddyfod yn mlaen, ond anturiaf ddywedyd wrthynt yn bwyllog, yn ngoleuni gair Duw, ac yn yr olwg ar bethau byd tragwyddol, ei bod yn well dyfod yn mlaen, er yn grynedig, i eglwys Crist, yn *ddeuddeg* oed, nag aros allan i oedi ac *ymesgusodi* pan yn *ddeuddeg ar hugain* oed: ac yr wyf yn sicr y deuant hwythau i deimlo hyny ryw dro—gobeithio mai nid pan y bydd wedi myned yn rhy ddiweddar.

Yr ydym yn gwybod mai un o hil syrthiedig Adda yw yr eneth ieuanc dyner yma; ond yr ydym yn credu nad yw ddim yn fwy tebyg i lychwino ei gwisg, nac i wadu ei phroffes, nac i fradychu achos yr Iesu, na rhyw ferch ieuanc un ar hugain oed. Y mae wedi cael ei maethu, yn *gynnar*, gan ei rhïeni a'i chyfeillion crefyddol, yn addysg ac yn athrawiaeth yr Arglwydd. Y mae yn medru gweddïo am i'r Iesu faddeu ei bai, ei chofio, ei chynnal, a'i chadw; ac y mae gweddïau rhai ieuangach na hi wedi cael eu derbyn yn y nefoedd. Y mae yn medru canu yn gynhes am angeu'r groes; ac y mae moliant o enau rhai llawer ieuangach na hi wedi cael ei berfformio. Y mae yn medru darllen yn hwylus am fywyd a gweinidogaeth a dyoddefaint y Gwaredwr, ac y mae yn medru deall ei ewyllys a'i orchymynion. Y mae mor barod i ymddyddan am yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd a rhai sy'n llawer hŷn na hi. Y mae, gyda theimladau tyner, wedi arfer anrhydeddu ei thad a'i mam. Y mae wedi bod yn blentyn ufudd, a myfyrgar, a dystaw, a diwyd yn yr ysgol ddyddiol. Y mae ei hathraw a'i dosbarth yn yr Ysgol Sul wedi cael llawer o foddhad ac o hyfrydwch yn ei hagweddau a'i hymddyddanion; ac y maent yn hoffi ei gweled yn dyfod yn mlaen at y bwrdd yma heddyw. Y mae yn astud dan y bregeth, ac yn cario adref yn ei chof gryn lawer o'i sylwedd. Y mae swn gwylder, a chariad, a gobaith, ac ofn yn ei chyffes yn y cyfeillachau crefyddol; ac y mae ei gwedd yn diolch am bob cynghor roddir iddi. Nid wyf yn dywedyd ei bod yn adnabod dyfnderau dichellion y gelyn. Dichon y gall gael ei maglu a'i hudo i ymadael â'i chariad cyntaf; ond yr wyf yn credu y bydd yn fwy tebyg o allu dal ei ffordd a chwanegu cryfder, ac o gael nerth yn ol y dydd, wrth fod yn nghymdeithas a than ddysgyblaeth yr eglwys, nag wrth aros ar faes y byd. Y mae wedi arwyddo

dymuniad cryf cynnyddol am gael dyfod dan iau Iesu Grist i ddysgu ganddo, ac y mae am nesâu at ei fwrdd i gofio am ei farwolaeth, ac i selio ei chyfammod i fod yn ddysgybl iddo; ac y mae tadau a mamau yr eglwys, y rhai helaethaf eu profiad mewn pethau ysbrydol, y rhai mwyaf eu cymhwysderau i farnu yn yr achos, y rhai sy'n diffuant ddymuno ei lles tymmorol ac ysbrydol, yn cydystyried mai ei dyledswydd a'i braint yw cymeryd ei lle yn yr eglwys; gan obeithio y bydd iddi gartrefu yno dros ei hoes, a byw yn ol cyfreithiau y tŷ, a chael dedwydd fwynhau ymgeledd a dyddanwch ei ordinhadau: ac yr wyf yn awr, o fodd calon, dros yr eglwys, yn estyn iddi ddeheulaw cymdeithas.

CYMUNDEB YN 1836.

RHODDWCH LAW I'R ARGLWYDD.

Wrth dderbyn aelodau i'r eglwys.—Yr ydych yn sefyll wrth y bwrdd hwn heddyw yn ngwydd llawer o dystion gweledig, a mwy o dystion anweledig, i selio cyfammod difrifol cyhoeddus, eich bod yn ymroddi i fod yn eiddo i'r Arglwydd o'r dydd hwn allan byth bythoedd. Yr wyf am wasgu at eich ystyriaeth eiriau Hezeciah wrth filoedd Juda, pan yr oedd, ar adeg bwysig, ac wrth gyhoeddi Pasg arbenig, yn eu dwys gymhell i adnewyddu eu cyfammod â Duw eu tadau—"*Rhoddwch law i'r Arglwydd*, a deuwch i'w gysegr a gysegrodd efe yn dragywydd." Rhoddwch *chwithau* heddyw law i'r Arglwydd.

1. Rhoddwch law i'r Arglwydd fel arwydd o *gymmod*. Pan y mae dynion yn dyfod i gymmod ar ol bod yn elynion i'w gilydd, y mae y naill yn rhoddi ei law i'r llall fel arwydd o'r cymmod. Y mae dyn wrth natur yn elyn Duw, ond y mae Duw yn ei efengyl ac yn ei Ragluniaeth yn estyn ei law ar hyd y dydd, yn y modd tirionaf, i arwyddo ei fod am gymmod; a chyndyn ac ynfyd iawn ydyw y dyn a wrthyd roddi ei law i'r Arglwydd i arwyddo ei fod yn derbyn cymmod.

2. Rhoddwch law i'r Arglwydd fel arwydd o *berthynas*. Pan y mae dynion, trwy briodas, neu fabwysiad, neu unrhyw gysylltiad teuluaidd arall, yn dyfod i berthynas â'u gilydd, y maent yn rhoddi llaw i'w gilydd fel arwydd o'r berthynas. Y mae Duw yn foddlawn i ddyfod i berthynas â phechadur. Y mae yn ei gynnyg ei hun i fod yn dad, ac yn briod, ac yn noddwr i ni. Y mae yn barod i'n derbyn i'w deulu ac at ei fwrdd, a'n harddel fel ei blant a'i etifeddion, ac fel brodyr i'r Brawd hynaf, yr hwn yw etifedd pob peth. Rhoddwn law iddo fel arwydd ein bod yn derbyn ei gynnygion grasol, a bydd hyny yn ennill tragwyddol i ni.

3. Rhoddwch law i'r Arglwydd fel arwydd o *gyfammod cyfathrach.* Pan y mae dynion yn gwneud unrhyw gytundeb masnachol â'u gilydd, y maent yn taro llaw mewn llaw, fel arwydd o orpheniad y cytundeb. Y mae yr Arglwydd yn cynnyg i ddyn ammodau y cytundeb mwyaf ennillfawr. Y mae yn cynnyg ei hun iddo yn yr oll ag ydyw, ac yn yr oll a fedd, ar yr ammod i ddyn adael ei bechod, a rhoddi ei hun dan nodded ei Greawdwr hollalluog, a than arweinyddiaeth ac ymgeledd ei Gynnaliwr ffyddlawn. Rhoddwch law i'r Arglwydd fel arwydd o gytundeb.

4. Rhoddwch law i'r Arglwydd fel arwydd o *gydweithrediad.* Pan y mae dynion am roddi cymhorth llaw i'w gilydd i ddwyn rhyw waith mawr i ben, y maent yn rhoddi llaw i'w gilydd fel arwydd eu bod am gydweithio. Syned daear a nefoedd! Y mae y Duw tragwyddol yn ymostwng i ofyn am gynnorthwy dyn i ddwyn yn mlaen ei waith yn y byd. Rhoddwn, gan hyny, law iddo gyda llawenydd, i arwyddo ein bod am gael y fraint o fod yn "gydweithwyr" âg ef.

5. Rhoddwch law i'r Arglwydd fel arwydd o *gymdeithas.* Pan y mae dau yn cydrodio law yn llaw, y mae hyny yn arwydd fod cymdeithas agos ac anwyl rhyngddynt. Y mae Duw yn estyn ei law i'n gwahodd ni i gael cymdeithas âg ef, i gael gwybod ei gyfrinach; oblegid y mae yn un bwysfawr a melus. Rhoddwn law iddo er arwyddo ein bod am aros byth yn ei gymdeithas.

6. Rhoddwch law i'r Arglwydd fel arwydd o *ymddibyniad* arno, ac o *ymorphwysiad* ar gadernid ei allu ef. Pan y mae un gwan yn rhoddi ei law yn llaw un cadarn, y mae hyny yn arwyddo ei fod am gymhorth ei law i'w dywys yn mlaen ar ei yrfa, ac am nerth ei fraich i'w noddi rhag pob rhyw beryglon. Rhoddwn ninnau law i'r Arglwydd fel arwydd ein bod am ei gymhorth i dynu yn mlaen tua'r bywyd, a'n bod am ei amddiffyniad rhag llid ein gelynion.

Yr ydych chwi heddyw uwchben yr arwyddion hyn o gorff a gwaed yr Arglwydd, wrth estyn eich llaw at y seliau hyn, yn rhoddi eich llaw iddo ef ei hun, fel arwydd o gymmod âg ef, fel arwydd o berthynas âg ef, fel arwydd o gyfammod âg ef, fel arwydd o gydweithrediad âg ef, fel arwydd o gyfrinach âg ef, ac fel arwydd o ymddibyniad arno. Y mae ef yn sicr o gadw at holl ammodau ei gyfammod. Gochelwch chwithau, er bywyd eich enaid, dynu byth eich llaw yn ol. Dywedwch,

> "O cymer fi, Iesu, fel yr wyf,
> A chuddia fi yn dy farwol glwyf;
> Can's dyna'r fan y gwnaf fy nyth,
> Ni chollir mo'nwyf yno byth."

CYMUNDEB YN 1836.

DRWS AGORED.

Y MAE yr Ysbryd yn dywedyd wrthym ni yma, fel yr ysgrifenodd at yr eglwys oedd yn Philadelphia, "Wele, rhoddais ger dy fron ddrws agored, ac ni ddichon neb ei gau."

1. Y mae drws gobaith ara ein bywyd yn agored o'n blaen. Drws y noddfa i'r euog; drws yr amddiffynfa i'r carcharor; drws y wledd i'r newynog; drws y gwisgdŷ i'r noeth; drws y cyfoeth i'r tlawd; drws pob digonedd i'r hwn sydd heb ddim.

2. Y mae drws rhyddfynedfa at orseddfainc trugaredd yn agored o'n blaen, bob amser, ac ar bob amgylchiad.

3. Y mae drws holl drysorau y Beibl yn agored o'n blaen. Y mae genym Feiblau yn mhob tŷ. Dichon fod gan bob aelod o'r eglwys yma Feibl. Y mae yn hawdd iawn yn ein hoes ni i bob un, hen ac ieuanc, gael Beibl iddo; a hawdd i ni hefyd gael cyfleusdra i'w chwilio, er cael gafael yn ei drysorau, ac er cael profi o'i wleddoedd.

4. Y mae drws y cysegr yn agored o'n blaen: drws holl freintiau ac ordinhadau, a chyfeillachau a gwleddoedd tŷ Dduw. Y mae pob rhyddid i ni gael eu cyflawn fwynhau.

5. Y mae drws defnyddioldeb yn agored o'n blaen. Nid oes yma neb all fyned i un man na throi ar un llaw, heb gael cyfle i fod yn ddefnyddiol dros Grist er lles ei gyd-ddynion.

6. Y mae drws y nef, o led y pen, yn agored o'n blaen. Y mae yr holl ffordd yn awr yn rhydd o waelodion dyffryn adfyd i uchel lys gogoniant, i'r wlad well, i'r baradwys nefol, i drigfannau tŷ ein Tad, i'r deml fawr oleu ddysglaer, lle y mae yr holl saint a'r angylion yn cydaddoli.

Y mae y drysau hyn yn llawn agored "o'n blaen," yn ein hymyl: y mae o bwys i ni gredu eu bod yn agored. Y mae yr Iesu yn tystio hyny, ac y mae ein cydwybodau yn cyd-dystio âg ef. Y mae y fath fraint yn un o anfeidrol werth, ac y mae o bwys annhraethol i ni ei defnyddio. Y mae tair ystyriaeth arbenig i'n cymhell i ymroddi yn ddioed i ddefnyddio y fraint fawr hon.

1. Gras a mawredd yr hwn a roddodd y drysau hyn yn agored o'n blaen; yn nghyda'r draul fawr a gymerodd i'w hagor. Daeth i lawr o'i lys i faes y llafur a'r dyoddef, a chollodd ei fywyd er mwyn i ni gael drws agored i fyned i'r bywyd.

2. Dyrchafiad a gorfoledd y rhai a ddefnyddiant y fraint, ni chânt ddim siomedigaeth mewn un man wrth fyned i mewn

trwy ddrysau gras; ac ar ol myned i mewn trwy'r drws i'r nef, cânt ryw ddrws newydd yn agored o'u blaen yn barhaus; a bydd yr Iesu ei hun yn eu harwain i weled a mwynhau rhyfeddodau diddarfod tragwyddoldeb.

3. Colled y rhai a arosant allan nes i'r drws gael ei gau. Collant bob gwledd, bob cysur, a phob gobaith.

Yn wir, mae yr *holl* bethau y mae yr Ysbryd yn eu dywedyd wrth y "saith eglwys," yn deilwng o'n hastudiaeth ninnau. Yr ydym ni yn meddu y *breintiau* oedd ganddynt hwy. Yr ydym yn agored i'r un *gwendidau* a hwythau, sef ymadael â'n cariad cyntaf, clauarineb, dilyn esiamplau niweidiol, a hunanoldeb. Y mae yr un *moddion gwella* yn ein cyrhaedd—edifarhau, adfyfyrio, ymwroli, gweithio, sugno nerth o addewidion yr Iesu. Daw yr un *gosb* i ninnau os parhawn yn glauar, sef symud y canwyllbren, a'n gadael mewn tywyllwch, a'n bwrw ymaith. A chawn yr un *wobr* os byddwn yn ffyddlawn; cawn y manna cuddiedig, y gareg wen a'r enw newydd, coron y bywyd, palmwydd buddugoliaeth, arlwy y wledd, a melusdra yr orphwysfa.

CYMUNDEB YN 1836.

MWY NA BYWYD

"MYFI a ddaethum," meddai yr Iesu, "fel y caent fywyd, ac fel y caent *fwy na bywyd.*" Yr oedd dywedyd wrth ferch yr Amoriad, pan yr oedd wedi ei thaflu ar wyneb y maes, ac yn ymdrybaeddu yn ei gwaed, "Bydd fyw," yn *fywyd;* ond yr oedd ei golchi oddiwrth ei halogrwydd, a'i henelnio âg olew, a'i gwisgo â gwaith edau a nodwydd, a rhoddi esgidiau o groen daearfoch am ei thraed, a'i gwregysu â llian main, a'i gorchuddio â sidan, a rhoddi breichledau am ei dwylaw, a chadwyn am ei gwddf, a thlws ar ei thalcen, a thlysau wrth ei chlustiau, a choron hardd ar ei phen, ac yna ei phriodi a'i dwyn i lys y brenin, yn "*fwy* na bywyd." Yr oedd disgyn i lawr o'r llys i barthau isaf y ddaear i dynu cortyn y gollfarn oddiam wddf y troseddwr, a'i ollwng yn rhydd o'i rwymau, yn *fywyd;* ond yr oedd ei gymeryd i'r cerbyd brenhinol, a'i wneud yn etifedd y deyrnas, yn "*fwy* na bywyd."

Yr oedd codi y truan o'r pydew erchyll yn *fywyd;* ond yr oedd ei wisgo â newid dillad, a'i gario yn y cerbyd i'r palas brenhinol, i wledda gyda phendefigion, yn *fwy* na bywyd.

Buasai maddeu i bechadur a thòri ei gadwynau, a'i gadw rhag cael ei fwrw i lyn tân yr ail farwolaeth, yn *fywyd;* ond yr oedd rhoddi iddo holl ymgeledd yr iachawdwriaeth, a'i wneud yn

etifedd cyfoeth a gwynfyd, a gogoniant y nefoedd, yn *fwy* na bywyd.

Y mae yr Iesu a ddaeth i lawr mor isel fel y caffem ni fywyd, a mwy na bywyd, yn haeddu cael holl alluoedd ein bywyd yn ei wasanaeth.

Cofied y rhai sydd yn eistedd yma heddyw am y tro cyntaf, yn awr wrth *ddechreu* ar eu gyrfa grefyddol, mai wrth ymdrechu yn y filwriaeth y cânt y fuddugoliaeth; mai wrth fuddugoliaethu ar lygredd y cânt gysur; mai ar dir cysur y deuant yn gryfion i fod yn ddefnyddiol; mai wrth fod yn ddefnyddiol y deuir yn fawr yn nheyrnas yr efengyl, ac y ceir mynediad helaeth i mewn i'r deyrnas dragwyddol; ac mai y rhai helaethaf eu llafur a mwyaf eu ffyddlondeb gânt eu gosod ar fwyaf yn llawenydd eu Harglwydd.

Edrychwyr! Y mae modd i chwi gael bywyd, a mwy na bywyd: y mae pob peth yn Nghrist ag sydd yn ofynol er gwneud eich eneidiau yn dragwyddol ddedwydd, ac mae pob croesaw i chwi droi ato; a'r hwn a ddel ato, nis bwrir ef allan ddim. Mae yn enbyd oedi. Peth ofnadwy yw bod "*heb Grist*," heb Grist ar daith yr anial; heb Grist yn nghanol profedigaethau; heb Grist i felysu y cysuron; heb Grist ar wely cystudd; heb Grist yn nyffryn adfyd; heb Grist wrth rodio ar hyd y glyn; heb Grist wrth rydio yr Iorddonen; heb Grist yn y farn ddiweddaf; heb Grist mewn bythol drueni!

CYMUNDEB YN 1836.

CYNNYG MARW DROS ARALL.

Y mae hanes genym i dywysog tirion, tyner, unwaith yn llys Cyrus, gynnyg gwaed ei galon am arbediad a rhyddhad ei wraig, yr hon oedd yn rhyw ddull wedi syrthio i afael y gyfraith, ac wedi cael ei chondemnio i farw. Effeithiodd ei gynnygiad a'i ddeisyfiad gymaint ar deimladau Cyrus fel ag y darfu iddo eu gollwng ill dau yn rhydd i fwynhau cymdeithas a chariad eu gilydd. Yr oedd pawb drwy y llys am y gwresocaf i ganmol Cyrus am arbed bywyd y wraig gollfarnedig ar gais y fath briod hunanymwadol a theimladol; ac yr oeddynt oll am yr uchaf eu llais wrth adrodd mor rasol oedd ei wedd wrth gyhoeddi maddeuant iddi, ac wrth orchymyn am iddi gael ei gollwng yn rhydd. Ond yr oedd y wraig o hyd yn berffaith ddystaw, a'i llygaid llawnion yn sefydlog ar wyneb ei phriod: a phan ofynwyd iddi paham na buasai yn rhyfeddu boneddigeiddrwydd, hawddgarwch,

a thosturí maddeuol Cyrus, ac ymroi i'w ganmol? atebodd, nad oedd hi ddim wedi gweled neb, nac wedi clywed neb, ond yn unig ei hanwyl *briod*, yr hwn ddarfu gynnyg gwaed ei galon yn iawn i'r gyfraith er mwyn iddi gael byw; a bod y gwaith o garu a rhyfeddu a chanmol y *priod* hwnw yn mynu holl alluoedd a holl deimladau ei chalon.

Gall merch Seion ddweyd fod ei hanwyl Briod hi, nid yn unig wedi sefyll i fyny yn y llys i *gynnyg* gwaed ei galon yn iawn er mwyn iddi hi gael byw, ond ei fod wedi disgyn ati i'r carchar, a'i fod wedi agor y ffordd iddi gael arbediad a rhyddhad, drwy golli gwaed ei galon yn ei lle; ac mai y Priod anwyl hwnw o hyn allan byth sydd i gael ei holl galon a'i holl ymffrost, a'i bod am ennill pawb i'w adnabod ac i'w garu a'i ganmol; i syllu ar ei wedd, i wrando ar ei eiriau, ac i gofio am ei angeu. Ei chân yw—

"Iesu'r Prynwr a'm gwaredodd
O'r caethiwed gwaetha' 'rioed,
Gydag ef o heddyw allan
Byth 'rwyf yn dymuno bod:
Fy neisyfiad,
Iesu, yw bod gyda thi."

CYMUNDEB YN 1836.

CYMUNDEB YN PATMOS.

Cafodd Ioan, pan yn alltud unig yn Patmos, y cymundeb melusaf a gwerthfawrocaf â'r Iesu: y fath gymundeb ag a anfarwolodd y coffa am ynys fechan Patmos. Breintiwyd Ioan â gweledigaethau gogoneddus y cymundeb rhyfedd hwnw er gwroli ei galon yn wyneb ei orthrymderau trymion, ac fel y gallai ddyrchafu gogoniant y Gwaredwr dwyfol—"y tyst ffyddlawn, y cyntafanedig o'r meirw, a thywysog brenhinoedd y ddaear," mewn dull mwy effeithiol, er addysg ac er cysur i'r eglwys, ac er rhybudd a dychryn i anffyddwyr anedifeiriol. Yr oedd y datguddiedigaethau a gafodd, ac yn enwedig ar Iesu, yn nghanol y saith canwyllbren aur, yn ei wisg laes hyd ei draed, a'r gwregys aur yn nghylch ei fronau, a'i wallt fel y gwlan, can wyned a'r eira, a'i lygaid fel fflam dân, a'r saith seren yn ei law ddehau, a'r cleddyf daufiniog yn dyfod allan o'i enau, a'i wynebpryd fel yr haul yn dysgleirio yn ei nerth, mor ogoneddus, fel y syrthiodd Ioan—Ioan y duwinydd, apostol cariad, yr hynaf a'r anwylaf o'r dysgyblion, wrth ei draed fel marw; ond gosododd yr Iesu ei law

ddehau arno, mewn dull mwy tyner nag y gall y fam dirionaf roddi ei llaw ddehau ar ben ei baban ofnus—a dywedodd yr Iesu wrtho, "*Nac ofna,*" ni wneir yma ddim niwaid i ti: "*myfi yw y cyntaf a'r diweddaf*" mewn crëu a chynnal, mewn rhagluniaeth ac iachawdwriaeth; y diddechreu a'r diddiwedd; yr hwn sydd ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd: a safaf o dy blaid, a gofalaf am dy fywyd. Myfi hefyd yw yr hwn "*a fum farw,*" gwisgais natur dyn, daethum yn gyfranog o gig a gwaed, fel fy mrodyr; a bum farw ar y groes dros droseddwyr, yn ol rhagderfynedig gynghor ac ewyllys fy Nhad, er cael ffordd gyfreithlawn i gadw dyn, a chael sylfaen safadwy i'm hawdurdod fel Cyfryngwr. Ond er marw, "*yr wyf yn fyw;*" er holl lafur a dichell y gelyn i geisio taenu y gair fy mod yn farw, "yr wyf yn fyw." Y mae fy saint yn gwybod hyny, ac yn eofn dystio hyny. Y mae uffern yn gwybod hyny, ac yn crynu o'r herwydd. A chaiff fy ngwrthodwyr wybod hyny er eu dychryn a'u dinystr. "*Ac wele, byw ydwyf yn oes oesoedd.*" Ni raid i mi farw mwy. Y mae fy aberth wedi ei dderbyn yn llys y nef. Yr wyf i fyw byth mwy yn natur dyn; a chan mai byw wyf fi, byw fyddwch chwithau hefyd. "*Ac y mae genyf agoriadau uffern a marwolaeth.*" Y mae genyf agoriadau y *bedd*, fel y caiff fy nghyfeillion fyned i orphwysfa, a chael eu galw i godi pan y gwelaf yn dda; ac agoriadau y *carchar* i gloi fy ngelynion ynddo o ffordd fy nheyrnas; ac agoriadau holl drigfanau y nef er dwyn fy ngwaredigion i mewn i weled ac i fwynhau trysorau fy ngogoniant a'm llawenydd.

Pwy all byth ddirnad yr effaith oedd y golygfeydd gogoneddus hyn, a'r geiriau grasol hyn, yn gael ar galon Ioan!

1. Yr oeddynt yn ei ddysgu i blygu yn isel wrth draed yr Iesu; a pho fwyaf a welai o'i ogoniant, isaf oll y plygai wrth ei draed; a pho isaf y plygai, mwyaf o hyd y cronai ei orfoledd.

2. Yr oeddynt yn lladd ei ofnau. Yr oedd yn gweled nad oedd raid iddo ofni na gwg y byd, na llid uffern, na dyrnod angeu, na thywyllwch y bedd, na manylrwydd y gyfraith, na thragwyddol bwys gogoniant, gan fod Iesu y Cyfryngwr o'i du, ac wedi cyfammodi i'w gynnal a'i ddwyn i wynfyd.

3. Yr oeddynt yn magu awyddfryd ynddo i wybod mwy am Grist, am ei berson, ei gymeriad, ei swyddau, a'i urddas.

4. Yr oeddynt yn magu penderfyniad ynddo i lafurio yn ddiflino dros Grist drwy ei oes, i ddyrchafu ei enw fel Gwaredwr, i ledaenu perarogl ei efengyl, ac i ennill eneidiau i'w garu.

5. Yr oeddynt yn magu dymuniad a hiraeth ynddo i fyned at Grist i fyw; i'w weled fel y mae, ac i fod yn debyg iddo. Yr

oedd yn hoffi meddwl fod yr Iesu yn y nef yn parotoi lle i'w ganlynwyr, a'i fod yn ewyllysio ac yn bwriadu eu cymeryd oll ato ei hun i'w orphwysfa, a'i lawenydd, a'i ogoniant.

Y mae yr Iesu wedi bod bob amser, a than bob goruchwyliaeth, yn hoff o ddatguddio gras a gogoniant ei gymeriad i eneidiau credinwyr. Datguddiodd ei hun i dduwiolion yr hen oruchwyliaeth; ac wedi hyny, mewn dull agosach, i'w ddysgyblion pan oedd yma ar y ddaear; ac wedi hyny, mewn dull mwy gogoneddus, iddynt ar ol ei gyfodiad o feirw, ac ar ol ei esgyniad i ogoniant: ac y mae yn barod yn awr i amlygu ei gariad i *ninnau*, ond i ni ddefnyddio yr ordinhadau a drefnodd efe i'r dyben hyny.

Y mae pob datguddiad a gawn ninnau o Grist yn sicr o gael yr un effaith arnom ni yn awr ag a gafodd ar Ioan gynt, sef ein plygu yn isel at ei draed, lladd ein hamnheuon a'n hofnau, cryfhau ein hawydd i'w adnabod yn well, ein cymhell i lafurio drosto, ac i ymgais am fod yn fwy tebyg iddo, ac am gael ei fwynhau mewn gwlad ac mewn cyflwr gwell: a pho helaethaf fyddo'r amlygiadau a gawn o hono, mwyaf fydd ein cysur, a'n defnyddioldeb, a'n tebygolrwydd iddo.

Gymydogion anwyl sydd hyd yma heb Grist!—Daw amserau ac amgylchiadau a golygfeydd i'ch cyfarfod, a fyddant yn sicr o'ch dychryn yn arswydol, os byddwch feirw yn eich cyflwr digrefydd presenol. Cewch weled yr hwn a fu farw ar y groes, a'r hwn sydd yn byw yn oes oesoedd, yn dyfod gyda'r cymylau: cewch deimlo baich ofnadwy eich beiau heb eu maddeu: cewch weled datguddiadau dychrynadwy o lid yr Oen: bydd raid i chwi ymddangos o flaen gorseddfainc cyfiawnder dialeddol; a gwrando ar gyhoeddiad dedfryd eich damnedigaeth; a gweled tyrfa y ffyddloniaid yn myned i mewn drwy'r pyrth i'r nef â llawenydd tragwyddol ar eu pen, a'r pyrth yn cael eu cau yn eich erbyn chwi; a chlywed pyrth trymion eich carchar tywyll yn cael eu cloi arnoch; a'r Iesu a groeshoeliwyd, yr Iesu fu'n sefyll wrth eich drws ac yn curo, ac yn cynnyg cymmod a bywyd a gwledd i chwi, a'i holl deulu mawr dedwydd gydag ef, yn cefnu arnoch, ac yn eich gadael yn eich trueni a'ch anobaith. O, ystyriwch eich perygl ofnadwy mewn pryd, a throwch am eich bywyd at yr Iesu, heb oedi dim yn hŵy, ac yna cewch gynhes ganu gyda'i deulu—

"Mi a wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
A'm prynodd â thaliad mor ddrud,
A saif ar y ddaear, gwir yw,
Yn niwedd holl oesoedd y byd;
Er ised a gwaeled fy ngwedd,
Teyrnasu mae'm Prynwr a'm
Ac er fy malurio'n y bedd, [Brawd;
Ca'i weled ef etto'n fy nghnawd.

Wel, arno b'om golwg bob dydd,
A'i daliad anfeidrol o werth;
Gwir Awdwr, perffeithydd fy ffydd,
Fe'm cynnal ar lwybrau blin serth:
Fy enaid ymestyn yn mlaen,
Na orphwys nes cyrhaedd y tir,
Y Ganaan dragwyddol ei chân,
A'r Sabbath diddarfod a phur."

CYMUNDEB YN 1836.

CYFAMMOD EGLWYSIG.

Wrth Fedyddio Plentyn.—Ni chawn hamdden yn awr, wrth gyflwyno y plentyn hwn i'r Arglwydd, ond i ddweyd tri gair:—

1. Fod y Duw trugarog yn tystio wrthym mewn llawer modd, a hyny yn y dull graslonaf, ei fod, ar gyfrif cyfryngdod ei anwyl Fab, yn foddlon i dderbyn *plant* i fod yn etifeddion breintiau trefn fawr ei drugaredd.

2. Fod y rhïeni, wrth ddwyn eu plentyn i'w fedyddio, yn tystio eu bod am ddal gafael yn nghyfammod graslawn y nef ar ran eu plentyn, a'u bod yn ymrwymo i faethu eu plentyn yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, a'u bod am egluro i'w plentyn, fel y bydd i'w feddwl ymagor, ammodau a breintiau trefn yr iachawdwriaeth, gan ei annog i roddi ei law drosto ei hun wrth seliau cyfammod yr Arglwydd; ac i'w rybuddio y bydd yn golledig byth os gwrthyd fendithion y cyfammod gras.

3. Mai un o ddyledswyddau pwysicaf a breintiau uchaf pob *eglwys* ydyw cydymdrechu yn ddiflino i fagu y plant sydd dan ei gofal yn egwyddorion duwioldeb; ac mai yr eglwys fwyaf llafurus a gofalus i wneuthur hyny ydyw yr eglwys fwyaf dedwydd a llwyddiannus.

Wrth dderbyn aelodau i'r Eglwys.—Y mae dyfod i gyfammod eglwysig yn un o orchwylion pwysicaf bywyd; ac y mae yn gweddu i chwi ddwys ystyried natur a dybenion y cyfammod yr ydych heddyw yn myned iddo. Cofiwch yn

1. Ei fod yn gyfammod o'r canlyniadau pwysicaf, yn cael ei selio megys â gwaed, wrth fwrdd yr Arglwydd; a bod eglwys fawr y nef yn gystal a'ch cyfeillion ar y ddaear, yn dystion eich bod yn ei selio. Y mae gelynion hefyd yn dystion, a gwnant eu goreu i'ch hudo i dòri eich ymrwymiadau.

2. Cofiwch ei fod yn gyfammod eang o ran ei gysylltiadau: yn perthyn i Grist, yn perthyn i'r eglwys, yn perthyn i'r byd, ac yn perthyn i'ch eneidiau.

3. Cofiwch fod dyledswyddau pwysfawr yn perthynu iddo yn y gwahanol gysylltiadau hyn, sef, ymdrechu i adnabod meddwl Crist, ac i wneud ei ewyllys, ac i ddyrchafu ei enw, a helaethu

ei deyrnas; ac amddiffyn cymeriad ei saint, a chryfhau eu santeiddrwydd a'u dedwyddwch; ac argyhoeddi a goleuo y byd; a gweithio allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn.

4. Y mae breintiau o annhraethol werth yn perthyn i'r cyfammod ag yr ydych yn myned iddo. Os ymgedwch o fewn ei gylch, byddwch ar y tir pellaf o gyrhaedd eich gelynion, y tir goreu i gael adeiladaeth a chysur, cylch anwylaf gweddïau a chymdeithas y saint, cylch hoffaf sylw a gweinidogaeth angylion, cylch dewisol nawdd a gwenau yr Iesu.

Y mae o bwys mawr i chwi yn awr ymholi, Beth yw'r *cymhwysderau* gofynol i ddyfod i'r fath gyfammod gwerthfawr? Gallwn ateb er eich cysur, nad oes dim eisieu i chwi wybod y dirgelion oll, na meddu doniau uchaf dynion ac angylion, na bod wedi cyrhaedd llawn sicrwydd ffydd, na gallu cyhoeddi yn hyf fod eich beiau wedi eu maddeu: ond os gellwch ddweyd yn wylaidd ac yn deimladwy eich bod yn credu ac yn teimlo eich bod yn bechaduriaid euog hunanddinystriol, nad oes genych ddim gobaith mewn dim hunangyfiawnder, bod yr Iesu yn Waredwr hollddigonol, a'ch bod am roddi eich hunain yn ei law, i gael eich cadw ganddo yn ol ei drefn; a'ch bod am fyw er ei glod, ni bydd gan yr un credadyn ddim i'w ddweyd yn erbyn i chwi gael eich derbyn i gyfammod a chymdeithas yr eglwys, i fod dan ei dysgyblaeth, ac i fod yn gyfranog o'i breintiau.

Y PERYGL O OEDI.

Gymydogion ieuainc hoff a siriol sy'n aros yn ol fel edrychwyr!—Goddefwch i ni eich gwahodd a'ch cymhell i ddyfod yn mlaen dan rwymau cyfammod y nefoedd. Elw mawr i chwi fydd penderfynu yn *gynnar*. Y mae eich ceraint a'ch cyfeillion, a welwch yma o gylch y bwrdd, yn hiraethu am eich cymdeithas; ac yn teimlo pryder wrth eich gweled yn sefyll draw ar dir profedigaethus yr *oedi;* ond y mae yn well ganddynt eich gweled yn aros i "edrych," na phe baech yn ymwylltio ymaith o olwg bwrdd yr Arglwydd. Y mae y rhai sydd yn cefnu felly can gynted ag y byddir yn dechreu hulio y bwrdd, yn cyhoeddi yn eu hymddygiad nad oes dim a fynont hwy â gwleddoedd a rheolau y tŷ. Y mae eu calonau wedi ymlithro yn isel i dir anystyriaeth a dideimladrwydd; ac nid oes ond gobaith gwan am eu dychweliad.

Gwelais yr wythnos ddiweddaf, yn un o newyddiaduron crefyddol yr Unol Daleithiau, adroddiad teilwng o ystyriaeth difrifolaf y rhai sydd yn cloffi rhwng dau feddwl; a dylai hefyd fod er addysg i'r eglwys, ac yn enwedig i rïeni ac athrawon.

Gwnaed yno yn ddiweddar ymchwiliad manylaidd i *oedran* pum' cant a saith o fyfyrwyr crefyddol chwech o'u prif golegau, pan y cawsant eu troi at grefydd, a chafwyd y cyfrif canlynol o'u hoedran:—

1 yn	3 oed.	31 yn	15 oed.	44 yn	21 oed.	2 yn	26 oed.
3 yn	10 „	63 yn	16 „	29 yn	22 „	2 yn	27 „
3 yn	11 „	47 yn	17 „	9 yn	23 „	1 yn	28 „
4 yn	12 „	63 yn	18 „	6 yn	24 „	1 yn	29 „
11 yn	13 „	59 yn	19 „	5 yn	25 „	1 yn	30 „
18 yn	14 „	49 yn	20 „				

Yr oedd 428, neu fwy na phedwar o bob pump o honynt, yn meddu tad neu fam grefyddol. Yr oedd 313, neu dros dri o bob pump, wedi bod dan addysg yn yr Ysgol Sabbathol. Daeth 317 o honynt at grefydd mewn amser o adfywiad yn yr eglwys. Ond y peth mwyaf addysgiadol i ni ydyw i can *lleied* gael eu troi at grefydd ar ol cyrhaedd un ar hugain oed. Ni ddaeth ond saith o'r pum' cant a saith ar ol myned dros bump ar hugain oed; ac ni ddaeth dim un ar ol myned dros ddeg ar hugain. Y casgliad oddiwrth y cyfrifon yw, ei bod o bwys annhraethol i fagu yn ofalus yr argraffiadau crefyddol *cynnaraf* ar feddyliau plant; a'i bod yn berygl ofnadwy i oedi pethau yr enaid, am fod y profedigaethau a'r anhawsderau o hyd yn amlhau; a bod y galon yn caledu, ac yn myned yn fwyfwy dideimlad y naill flwyddyn ar ol y llall. Y mae y rhai sydd yn cloffi, yn oedi, ac yn ymesgusodi, yn twyllo ac yn dyrysu eu hunain, yn camdreulio eu dyddiau goreu, ac yn camddefnyddio eu galluoedd a'u breintiau penaf: y maent felly yn cryfhau breichiau eu gelynion, yn digaloni eu cyfeillion goreu, yn rhwystr ar ffordd llwyddiant crefydd, yn tristâu yr Ysbryd, ac yn dirmygu a digio yr Iesu sy'n cynnyg iachawdwriaeth iddynt. Attolwg, ieuenctyd hawddgar, cymerwch rybudd i beibio oedi dim yn hwy.

CYMUNDEB YN 1836.

"FY NHAD I A'CH TAD CHWITHAU."

Geiriau grasol a dyddanol iawn oedd geiriau yr Iesu fore dydd ei adgyfodiad wrth Mair Magdalen, pan oedd yn llawn o derfysg meddwl yn wylo wrth y bedd. Yr oedd y ddau angel wedi edrych yn dirion arni, ac wedi gofyn iddi paham yr oedd yn wylo; ond ni chafodd gyflawn ddyddanwch nes iddi weled yr Iesu, a'i glywed yn dywedyd wrthi—"Na chyffwrdd á mi," y mae genyf

waith arall i dy gariad yn awr; cei gyfle etto i weled fy nwylaw a'm traed; "oblegid ni ddyrchefais i etto at fy Nhad;" arosaf etto am ychydig gyda'm dysgyblion: "Dos at fy mrodyr, a dywed wrthynt, Yr wyf yn dyrchafu at fy Nhad i a'ch Tad chwithau, a'm Duw i a'ch Duw chwithau." Arwyddai ei eiriau dri pheth:—

1. Ei fod yn arddel perthynas agos ac anwyl â'i ganlynwyr. Yr oedd yn eu galw, "Fy mrodyr;" ac yn galw ei Dad, "Fy Nhad i a'ch Tad chwithau." Gwisgodd eu natur, a daeth i babellu yn eu mysg, er dyfod i berthynas â hwy, er dyfod yn frawd iddynt; ac y mae yn hoff o'r berthynas, ac yn hoff o'i harddel yn mhob man, ac yn ngwydd pawb. Mae yn berthynas o elw annhraethol iddynt hwy, yn un a'u dyrchafa i olud ac anrhydedd; ac yn berthynas nad ellir byth ei thòri. Bydd yr Iesu yn frawd i'r credadyn, a Duw yn Dad iddo, tra y byddo y nefoedd yn bod.

2. Fod Iesu, y brawd hynaf, yn awr mewn sefyllfa o urddas a llawenydd. Y mae wedi dyrchafu at ei Dad. Y mae yno mewn *corff* o'r un naturiaeth a'n cyrff ni, ond y mae yn gorff ag sydd yn ogoniant i holl lys y nefoedd. Y mae ei enaid pur yno yn cael ei ddigoni o lawenydd. Y mae yno yn berffaith rydd oddiwrth ddrygau ac erlidiau y byd. Nid yw ddim yno yn "llygredig ei wedd," nac yn "wr gofidus a chynnefin â dolur." Nid all y fflangell ddim aredig ei gefn yno. Nid all y goron ddrain byth mwy archolli ei ben; ac y mae ei wyneb hardd uwch cyrhaedd y poeredd. Rhoddwyd iddo yr awdurdod uchaf yno; y mae yn gwisgo agoriadau y llywodraeth; ac y mae yr holl deulu sydd yno yn hoffi bwrw eu coronau wrth ei draed, a'i weled ef yn gwisgo ar ei ben goronau lawer.

3. Yr oedd yr Iesu am i'w ddyrchafiad at ei Dad fod yn destun gorfoledd i Mair ac i'w holl ddysgyblion yn yr oes hòno, a thrwy yr holl oesau dyfodol. Yr oedd am iddynt ymddyddan am ei ddyrchafiad wrth eu gilydd, yn eu holl gymdeithasau; ac yr oedd am i hyny fod yn gysur iddynt wrth *gychwyn* eu gyrfa, ac yn wyneb holl orthrymderau eu taith, ac wrth gyflawni eu dyledswyddau, ac wrth groesi yr afon yn niwedd eu gyrfa. Y mae cofio am yr hyn a *wnaeth* yr Iesu yn ei gyflwr o ddarostyngiad, a'r hyn y mae'n *wneud* yn awr yn ei gyflwr o ddyrchafiad, a'r hyn a *wna* etto yn nydd yr adgyfodiad a thrwy holl ddyddiau y nefoedd, yn sicr o fod yn gysur didranc i'w frodyr yn eu tywydd garwaf. Y mae eu bywyd yn ddiogel gydag ef, a bydd marw yn elw iddynt; oblegid yno cânt fod gydag ef, i'w weled fel y mae. Os ydym ni yn "frodyr" i Grist, gallwn lawenychu ynddo. Ei frodyr ef yw gwir foneddigion y ddaear; a chein gweled hefyd yn y dydd mawr mai hwy fydd boneddigion y nefoedd.

DUW AM YMRESYMU A DYN.

Gynnulleidfa y gallery!—Gobaith yr eglwys yma am yr oes nesaf! Yr ydym yn teimlo serch atoch am i chwi dderbyn y gwahoddiad i aros hyd ddiwedd y cyfarfod. Ond carem i chwi dderbyn y gwahoddiad i ddyfod yn nes, i ddyfod dan arwydd y gwaed, i fwyta y Pasg hwn gyda ni er cof am aberthiad Oen Duw yn ein lle.

Y mae genyf yn awr genadwri ryfedd atoch. Y mae Brenin y brenhinoedd yn anfon cais atoch yn yr iaith egluraf, ac yn yr ysbryd graslonaf. Y mae am i chwi ymostwng i ddyfod i "ymresymu" âg ef. Gwrandewch ei eiriau ef ei hun: "Deuwch yr awr hon ac ymresymwn, medd yr Arglwydd; pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, ânt cyn wyned a'r eira; pe cochent fel porphor, byddant fel gwlan." Y mae yn galw yn daer ac yn garedig. Y mae yn ymresymwr goleu, teg, hynaws, boneddigaidd, difrifol, ac urddasol, llawn o ddoethineb ac o dosturi. Y mae holl saint, a holl angylion y nefoedd yn berffaith ddedwydd wrth wrando ar ei "ymresymiadau." Y mae am ennill eich sylw chwithau; oblegid y mae am ymresymu â chwi, nid am bethau dibwys ac anmherthynol i chwi, ond yn nghylch y pethau a berthynant i'ch heddwch tragwyddol. Prif bwnc ei ymresymiad ydyw—profi ei fod am faddeu eich holl bechodau, ei fod am eu taflu y tu ol i'w gefn; ac am eu dilëu o lyfr ei goffadwriaeth: fod ganddo drefn gyfreithlawn i faddeu. Y gall ddilëu pechodau o'r lliwiau dyfnaf; pe byddent fel ysgarlad, yr ânt cyn wyned a'r eira; pe cochent fel porphor, y byddant fel gwlan. Y mae am "ymresymu," ei fod am eich cànu yn wyn, am eich denu i gymmod âg ef ei hun, ac â'i drefniadau; am eich cael yn bur, ac yn hardd, ac yn anrhydeddus; ac am eich gwneud yn berffaith a bythol ddedwydd: ac os gogwyddwch eich clust i wrando ar ei "ymresymiad," y mae yn sicr o *brofi* ei bwnc gogoneddus er eich boddhad a'ch cysur. Gwrandewch, a bydd byw eich enaid. Y mae genych *feddwl* anfarwol, meddwl o alluoedd wedi cael eu gwneud i ymresymu. Ni chewch byth waith mwy rhesymol i'r galluoedd hyny nag ymresymu â'ch Gwneuthurwr am bwnc mawr iachawdwriaeth eich eneidiau. Ei dosturiaethau diderfyn ef yn unig sy'n ei gymhell i fod mor daer. Y mae am i chwi ddyfod "*yr awr hon.*" Dichon na chewch yr un cynnyg ar ol "yr awr hon;" o leiaf, ni chewch byth *well* cyfle i wrando na'r "awr hon." Y mae saint y nef a saint y ddaear am i chwi wrando yr awr hon. O mor hyfryd i'ch meddwl fydd ystyried "ymresymiadau" ei ddoethineb a'i drugaredd! Bydd *raid* i chwi, a phawb eraill, eu hystyried ryw dro; oblegid myn yr Arglwydd brofi ei bwnc o'i

orsedd yn ngwydd pawb, ei fod wedi cynnyg ymresymu â chwi, er cynnyg maddeuant a bywyd i chwi. Bydd eich gwasgfeuon yn ofnadwy os byddwch yn gorfod ystyried ei "ymresymiadau," pan wedi cael eich cau allan am byth o gyrhaedd tosturiaethau ei drugaredd. Rhyfeddwch ei ymostyngiad a'i amynedd. Ymresymwch â'ch calon yr awr hon am raslonrwydd ei alwadau a'i gynnygion. Nis gall hyny wneud dim drwg i chwi yn y byd hwn, nac erbyn y byd a ddaw; a gall eich denu i gael blas ar fyfyrdodau duwiol; ac os dechreuwch eu hoffi a'u magu, deuwch i'w hoffi fwyfwy, nes y sefydlir eich bryd arnynt, ac y denir eich eneidiau i afael goludoedd a gwleddoedd yr iachawdwriaeth.

CYMUNDEB YN 1836.

RHEDEG YR YRFA.

Ar ol coffâu mewn iaith effeithiol am rai o orchestion ffydd prif enwogion yr Hen Destament, y mae Paul, wrth gymhwyso ei adroddiadau at gredinwyr y Testament Newydd, yn dywedyd:— "Oblegid hyny, ninnau hefyd, gan fod cymaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch, gan roi heibio bob pwys, a'r pechod sydd barod i'n hamgylchu, trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni; gan edrych ar Iesu, Pentywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni; yr hwn, yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddyoddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw."

Y mae ei eiriau gwerthfawr yn cynnwys cyfarwyddiadau annogaethol i ninnau redeg ein gyrfa tua'r bywyd. Nid yw ein gyrfa ond *ber*. Y mae y rhan fwyaf yn ei rhedeg i'r pen yn hir cyn cyrhaedd y "deng mlynedd a thriugain." Gall ei bod weithiau yn lled *ddyrys* drwy leoedd anial, a hawdd colli y ffordd pan y bydd niwl tew yn gordoi y glynoedd o'n blaen, a phan y bydd croeslwybrau ar bob llaw i ni. Ac y mae yn *anhawdd* weithiau tynu yn mlaen pan y bydd tymhestloedd yn curo i'n herbyn, a gelynion cyfrwys o ddau tu y ffordd, a rhiwiau geirwon i ddringo drostynt, a lleoedd lleidiog, y pridd tew a'r clai tomlyd ar lawer darn o'r ffordd, a phydew enbyd mewn llawer man, a'r afon ddu ar y terfyn; ond y mae Paul yma yn rhoddi i ni *bump* o gyfarwyddiadau pa fodd i redeg:—

1. "Gan roddi heibio bob pwys, a'r pechod sydd barod i'n hamgylchu," beth bynag fyddo; pa un bynag ai gofidiau y byd, ai gofalon y byd, ai deniadau y byd. Ofer i ni ddysgwyl gallu

rhedeg yn llwyddiannus a chario beichiau felly gyda ni. Rhaid i ni eu taflu heibio, a gwregysu lwynau ein meddyliau, ac ymroi i redeg â'n holl egni, a rhedeg hyd y diwedd.

2. Gan graffu ar y rheol osodedig. Ceir y rheol yn y Beibl, yr hon sydd yn ddarlunlen fawr, gywir, o'r holl yrfa; ac o'r lleoedd enbyd sydd ar bob llaw. Yr ydym i redeg, nid *rhyw* yrfa, ond "*yr* yrfa a osodwyd o'n blaen ni," gan gadw ein golwg yn fanwl o hyd ar linell fawr ein darlunlen.

3. "Trwy amynedd," mewn amynedd yn meddiannu ein heneidiau; gan fod yn ddyoddefgar mewn cystudd, os daw; a "gorfoleddu mewn gorthrymderau; gan wybod fod gorthrymder yn peri dyoddefgarwch; a dyoddefgarwch, brofiad; a phrofiad, obaith; a gobaith ni chywilyddia, am fod cariad Duw wedi ei dywallt yn y galon drwy yr Ysbryd Glan."

4. Gan graffu ar ôl traed y rhai sydd wedi rhedeg o'n blaen, ac wedi gorphen eu gyrfa. Y mae yn addysgiadol i ni weled y manau lle y buont hwy yn ymdroi ac yn llithro, ac yn ymddyrysu, ac yn colli y ffordd; ac y mae yn galondid i ni weled ôl eu traed yn ymorchestu i dòri eu ffordd trwy rwystrau, a gweled fel y daliasant ati er eu gwendidau, ac y gorchfygasant bob anhawsderau; ac y cyrhaeddasant yn ddiogel i ben eu taith; ac y mae yn galondid mawr i ni wybod eu bod yn awr yn "gwmwl o dystion" wedi ei osod o'n hamgylch i'n gweled yn rhedeg, a'u bod oll yn dymuno i ni redeg yn dda nes ennill y gamp; ac nid oes dim yn rhoddi iddynt fwy o lawenydd na gweled eu cyfeillion ar y ddaear yn rhedeg mewn dull teilwng o'u proffes ac o'u galwedigaeth.

5. "Gan edrych ar Iesu." Edrych ar ei ddull ef yn rhedeg ei yrfa, a'i lygad o hyd ar y nôd; edrych ar ei ysbryd a'i ymroad yn tòri drwy anhawsderau; edrych arno yn dyoddef y groes ac yn diystyru gwaradwydd; edrych arno yn esgyn i eistedd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw: ac yn enwedig, edrych arno fel Pentywysog a Pherffeithydd ein ffydd ni, ar ei orsedd hardd, yn gwenu yn rasol, ac yn dal y goron yn ei ddeheulaw i'w rhoddi i bob un a "ymdrecho ymdrech deg" ar orpheniad ei yrfa.

Ein hamcan ni, wrth gylchynu y bwrdd yma o fis i fis, yw cael cyfle i annog ein gilydd i edrych ar Iesu. Dylem edrych arno â llygad ein meddwl bob dydd, a llawer gwaith yn y dydd; ond y mae hon yn adeg fwy arbenig i ni edrych arno. A dylem gofio ei fod yntau yn awr a phob amser yn edrych arnom ninnau. Y mae yn adwaen pob rhedegwr, ac yn craffu ar ei holl gamrau. Y mae yn edrych yn anwyl ar yr *hen* bererin sydd bron ar ben ei daith, ac y mae yn barod i'w dderbyn ato i'r orphwysfa. Ac y mae yn edrych yn anwyl hefyd ar y pererin *ieuanc* sydd yn

cychwyn ei daith, ac addawa ei wenau a'i gymhorth iddo. Y mae hefyd yn gweled y rhai sydd yn cefnu arno, ac ar ei fwrdd, a'i goron, a'i deulu, a'i gyfeillach, ac yn rhedeg i lawr tua cholledigaeth. Y mae yn galw yn garedig ar eu hol, gan eu gwahodd i droi ato a dysgu ganddo. Y mae yn addaw swpera gyda hwy, a rhoddi iddynt orphwysdra i'w heneidiau.

Ystyriwn oll yn awr ar bwy yr ydym yn edrych; tua pha le yr ydym yn rhedeg; a pha le yr ydym yn debyg o derfynu ein gyrfa. Os rhedwn yrfa'r nef, yn ol *pum'* cyfarwyddyd Paul, try pob peth o'n tu; a bydd yn llawer iawn gwell arnom yn y diwedd nag y gall yr un galon yn awr ddychymygu.

CYMUNDEB YN 1836.

ANGEL Y CYFAMMOD.

Ceir darluniad ardderchog o Iesu yr Achubwr, Angel y Cyfammod, yn y drydedd bennod a thriugain yn Esaiah; yn enwedig pan gofiom ei fod wedi cael ei ysgrifenu yn hir cyn ymddangosiad yr Iesu yn y cnawd i babellu yn mysg dynion.

1. Efe oedd angel cynnrychioldeb Iehofa, angel ei bresenoldeb, y Cyfryngwr oedd yn ymddangos i weithredu drosto dan bob goruchwyliaeth, ac ar bob amgylchiad.

2. Efe oedd Amddiffynydd, Arweinydd, Addysgydd, a Dyddanydd yr eglwys yn yr oesau boreuaf: efe roddes yr addewid rasol yn Eden, a'r holl addewidion gwerthfawr ar ol hyny. "Yn eu holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd. Yn ei gariad ac yn ei drugaredd y gwaredodd efe hwynt; efe a'u dygodd hwynt, ac a'u harweiniodd yr holl ddyddiau gynt;" ac felly efe a aeth yn Iachawdwr iddynt. Tywysodd hwynt â'i ogoneddus fraich, gan hollti'r dyfroedd o'u blaen hwynt; ac arweiniodd hwynt drwy'r dyfnderau, fel march yn yr anialwch, fel na thramgwyddent, i wneuthur iddo ei hun enw tragwyddol.

3. Efe, yn eu natur hwy, ac yn eu mysg hwy, ac er eu mwyn hwy, ennillodd fuddugoliaeth fawr y groes; a daeth i fyny o Edom, yn goch ei ddillad o Bosra, yn hardd yn ei wisg, yn ymdaith yn amlder ei rym, yn llefaru mewn cyfiawnder, ac yn gadarn i iachâu. Sathrodd y gwinwryf ei hunan; o'r bobl nid oedd un gydag ef; canys dydd dial oedd yn ei galon, a blwyddyn ei waredigion a ddaethai. Anrhydeddodd lywodraeth ei Dad, drylliodd byrth uffern, ac agorodd ffordd rydd i achub pechadur.

4. Y mae yn parhau o hyd yr un yn ddigyfnewid; yn Briod ei

eglwys, yn Dad ei bobl, yn Athraw iddynt, yn Eiriolwr drostynt; y mae yn well iddynt na chyfaill na brawd, a bydd gyda hwy bob amser hyd ddiwedd y byd, er bod yn borth ac yn gynnalydd iddynt ar eu teithiau drwy'r anialwch.

5. Efe a'u dwg hwynt oll yn y diwedd i orphwys mewn heddwch, a llawnder, a llawenydd, yn y Ganaan nefol, allan o gyrhaedd eu holl elynion a'u holl orthrymderau.

6. Y mae, trwy hyn, yn gwneuthur iddo ei hun "enw gogoneddus;" caiff fythol glod gan angylion a saint y nef am ei ryfedd dosturiaethau, am ei ddirfawr ymostyngiad a'i angeu iawnol, ac am ei fuddugoliaethau gogoneddus ar uffern ac angeu, a'i waredigaethau llawn i bawb a ymddiriedasant ynddo. A bydd y gân newydd yn gynhes iawn iddo gan dyrfa y cystudd mawr—

"Pan ddelo Salem bur yn llawn."

Yr ydym ni wedi cyfarfod yma heddyw i gofio ac i ganu am ei gariad; a gobeithio y gallwn ni dystio ein bod ni yn ei garu ef am iddo ef yn gyntaf ein caru ni. Nid rhyfedd fod Duw yn canmol ei gariad tuag atom; "oblegid a nyni etto yn bechaduriaid, i Grist farw drosom. Canys os pan oeddym yn elynion y'n heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef, mwy o lawer wedi ein heddychu y'n hachubir drwy ei fywyd ef."

CYMUNDEB YN 1841.

O FLAEN CYMANFA.

Y MAE yn naturiol i ni feddwl a siarad heddyw am y Gymanfa ydym yn obeithio gael yr wythnos yma. Bydd ei breintiau yn sicr o wneud argraff ar ein teimlad, ac ar ein cymeriad. Gobeithio yr effeithiant er ein goleuo, a'n tyneru, a'n santeiddio, a'n dyddanu; ac er ein gwneud yn fwy gwyliadwrus a gweithgar, yn daerach ein gweddïau, ac yn ddifrifolach ein hymddyddanion.

Yr oedd rhai o'r hen gyfeillion neithiwr, yn y cyfarfod parotoad, yn cyfeirio at hen gymanfaoedd a gawsant, yn nyddiau eu hieuenctyd, yma ac mewn manau eraill; at yr eneiniad santaidd oedd arnynt, ac at yr awelon nefol oedd yn chwythu drwyddynt, ac yn llenwi eu hwyliau i forio yn mlaen yn gyflymach tua thir y bywyd; ac yn codi ambell i gwch ag oedd wedi suddo a sychu ar draeth gwrthgiliad i ail symud o flaen yr awelon. Yr oeddynt yn coffa am rai hen weinidogion calon-gynhes oeddynt yn tanio y cymanfaoedd hyny, ac yn teimlo hiraeth eu bod yn awr wedi myned i orphwys oddiwrth eu llafur; a bod cyfarfodydd y ddaear wedi colli cymdeithas eu profiadau a'u doniau.

Ond er fod y tadau wedi meirw, y mae yn bosibl i ninnau gael yr eneiniad ar ein Cymanfa drwy ymwasgu yn ddigon agos ac isel at groes ac at orsedd Eneiniog mawr y nef; a chael yr hen awelon heibio i ni, ond i ni droi ein hwyneb tua'r nef, a chyd-waeddi, "O anadl, tyred, ac anadla ar y lladdedigion hyn, fel y byddont byw."

Y mae genym oll rywbeth i'w wneud er i'r Gymanfa fod yn un lewyrchus ac effeithiol. Yr wyf yn hyderus y caiff le arbenig yn ein gweddïau heddyw. Nis gallwn ddysgwyl y fendith heb ymdrechu yn ein gweddïau am ei chael; ond ni chawn ein siomi os gafaela ein ffydd yn addewidion trugaredd. Dylem weddïo yn daer am i'r Gymanfa fod o les i ni yn bersonol, ac o les i ni fel eglwys, ac yn enwedig i'n cymydogion ieuainc ac eraill sydd yn cloffi rhwng dau feddwl. Dylem weddïo yn gynhes am i'r gweinidogion ddeuant i ymweled â ni fod yn llawn o ysbryd eu Hathraw: a dylem geisio parotoi ein meddyliau i wrando yn ddyfal ac yn astud, ac i ddal ar y pethau a bregethir i ni. Y mae maint tyrfa y Gymanfa, a gweled wynebau dyeithriaid, a'r trefnu tuag at letty a lluniaeth, a'r pregethu a'r gwrando yn yr awyr agored, ac heb le mor gysurus i eistedd, a dwy neu dair pregeth yn mhob oedfa, braidd yn anfanteisiol i wrandawiad astud. Dylem felly geisio gwylio yn erbyn pob cynhyrfiad ag fydd o duedd i wneud y meddwl yn wyllt neu yn wamal. Y mae o bwys i ni, er cael budd, i geisio dysgyblu y meddwl a'r galon i fod yn sobr ac yn dawel, yn sefydlog ac yn fyfyrgar. Yr ydys yn yr ardal yma wedi *arfer* trefnu er dyfod yn brydlon i'r oedfaon: y mae hyny yn wir ganmoladwy, oblegid y mae yn dra dymunol i gael *llonyddwch* pan ddechreuir y moddion.

Y mae ymddygiad y dyeithriaid yn ymwthio i mewn drwy'r tyndra i ganol y gynnulleidfa, drwy ganol, a bron ar ddiwedd cyfarfod y bore, yn nodedig o anfoneddigaidd ac o feiadwy; pan y byddai yn hawdd iddynt, ond cychwyn awr yn gynt, ddyfod yn ddigon prydlawn. Y mae yn wir boenus eu gweled yn ymwthio yn mlaen ar draws addolwyr astud a myfyriol, ac edrychiad rhai o honynt yn eglur arwyddo eu bod am i bawb wybod eu bod *hwy* wedi dyfod. Y maent yn fwy gofalus i ddyfod erbyn eu *ciniaw* nag erbyn y *bregeth;* a phe medrwn i gael fy ffordd, caent fod heb giniaw y diwrnod hwnw: a gallai ymprydio fod yn beth lles i'w calonau erbyn pregethau y prydnawn.

Dylem hefyd ymdrechu trysori yr oll a'r a allom o'r pregethau yn ein cof, fel y byddo genym, ar ol y Gymanfa, destunau myfyrdod ac ymddyddan, a mwy o faterion gweddïau; ac fel y cyfoethoger ein profiadau, ac y cryfhäer ein hymroadau i fyw yn well.

Y mae un peth arall hefyd ag y dylem fod yn wyliadwrus yn ei gylch, sef gwneud ein goreu i ddyfnhau yr argraffiadau a wneir ar feddyliau ieuenctyd, rhag iddynt ail ymgaledu, a rhag i freintiau mawrion y Gymanfa fod yn arogl marwolaeth i neb gânt eu mwynhau.

CARU YR ANWELEDIG.

Bywyd crefydd ydyw cariad, a phrif wrthddrych cariad y credadyn ydyw Iesu Grist. Y mae yr Iesu yn anfeidrol deilwng i gael ei garu oblegid gogoniant ei berson fel Emmanuel, fod y natur ddynol wedi ei chymeryd i undeb â'i Dduwdod: oblegid hawddgarwch ei gymeriad fel un yn llawn gras a gwirionedd, ac oblegid y cymwynasau anmhrisiadwy wnaeth â ni—meddwl am danom yn y cynghor hedd, gosod ei hyfrydwch arnom, ymbriodi â'n natur ni yn ei holl iselder, cyflawni ei weinidogaeth ogoneddus yn ein byd ni, rhoddi ei einioes yn aberth drosom ni, a byw bob amser i eiriol ar ein rhan.

Gan fod yr Iesu yn anweledig i ni, gan nas gwelsom erioed ei dirion wedd, gan na chlywsom erioed ei lais effeithiol, gan na buom erioed yn dystion o'i weithredoedd nerthol, gan na buom erioed yn pwyso ar ei fynwes ar swper, gan na welsom ef yn chwysu yn yr ardd, nac yn marw ar y groes, gan na welsom erioed y pen goronwyd â drain, na'r ystlys a wanwyd, na'r dwylaw fu dan hoelion, rhaid mai drwy nerth myfyrdod a ffydd y mae i ni ei garu; ac y mae y cariad hwnw ag sydd yn cael ei gynhyrfu gan fyfyrdod a ffydd yn ei gofleidio yn yr *oll* ag ydyw, ac yn yr oll a wnaeth, a'r oll mae'n gynnyg i ni, ac yn ofyn oddiwrthym. A chan y gall ffydd weithredu yn *sefydlog* ar Grist, er ei fod yn anweledig, gall cariad ato gynhesu y galon yn wastadol; a dylai ein cariad at Grist fod yn gryfach nag unrhyw gariad arall, o gymaint ag y mae ef yn rhagori ar bob gwrthddrych arall.

Yr ydym i *amlygu* ein cariad ato yn ein parch i'r ordinhadau a sefydlodd, er i ni gofio am dano yn ei absenoldeb; yn ein dysgwyliad hyderus wrtho am gyflawniad ei addewidion, ac yn enwedig ei addewid fawr am yr Ysbryd Glan; yn ein haelioni a'n gweithgarwch er llwyddiant ei achos, ac er cysur pawb ydynt yn dwyn ei ddelw; yn ein hymorphwysiad tawel arno am gyflawn iachawdwriaeth; yn ein hiraeth am fwy o'i gymdeithas, am fod yn fwy tebyg iddo, ac yn fwy cymhwys i'w weled fel y mae yn y nefoedd.

Byddai yn dda i ni ystyried y *berthynas* sydd rhwng y naill ras a'r llall yn holl weithrediadau ein crefydd. Os bydd y myfyrdod yn gryf, bydd y ffydd yn gref; ac os bydd y ffydd yn gref, bydd y cariad yn wresog; ac os bydd ein cariad yn wresog,

bydd ein hymdrech yn llawn o sel; ac os bydd ein sel yn weithgar, cryfha ein llawenydd, helaethir ein dylanwad a'n defnyddioldeb, a blodeua ein coron. Y mae cyfartalrwydd bob amser rhwng grasau ein crefydd. Bydd y ffydd yn gyfartal i'r myfyrdod; a'r cariad yn gyfartal i'r ffydd; a'r sel yn gyfartal i'r cariad; a'r llafur yn gyfartal i'r sel; a'r llwyddiant yn gyfartal i'r llafur; a'r llawenydd yn gyfartal i'r llwyddiant; a'n coron yn y diwedd yn gyfartal i nerth ein grasau.

Y mae un adnod gan Paul ddylai gael lle yn mhob calon:—"Od oes neb nad yw yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, bydded Anathema, Maranatha."

RHYFEDDODAU CYFRYNGDOD YR IESU.

Y mae cyfryngiad yr Iesu yn achos pechaduriaid yn llawn o ryfeddodau. Cymeryd eu hachos ac ymrwymo ar eu rhan yn y cynghor hedd. Llawenychu yn nghyfanneddle eu daear. Disgyn i lawr o'i uchel lys. Dyfod er eu mwyn yn dlawd, cymeryd arno agwedd gwas, bod yn wr gofidus a chynnefin â dolur—agor ac esbonio ei efengyl—marw mewn pryd o'i fodd i fod yn lawn er gallu achub gelynion—dilëu yr ysgrifenlaw oedd i'w herbyn—condemnio pechod yn y cnawd—gorchfygu uffern ac angeu—prynu neu ryddhau y credadyn o'i gaethiwed, a'i wneud yn etifedd y nefoedd.

Gallesid meddwl y buasai pawb yn ei ryfeddu byth am hyn; y buasai pawb yn ei barchu, ei garu, ei ganmol, a'i goroni byth am amlygu y fath gariad, mewn dull mor ddrudfawr. Gallesid dysgwyl y codasid ei enw ar unwaith goruwch pob enw, a'i achos uwch pob achos; ac y buasai yn cael ei groesawu i deyrnasu yn mhob calon. Dyna oedd gorchymyn ac ewyllys ei Dad. Dyna oedd dysgwyliad a dymuniad angylion wrth ei weled yn cychwyn ar genadaeth fawr ei gariad. Ond nid felly y bu. Cododd uffern yn ei erbyn. Hudwyd y byd i daro o du uffern. Cafodd ei ddirmygu, ei erlid, a'i groeshoelio. Ni thraethai neb ei oes pan oedd yn sefyll ei brawf. Ni thystiolaethai neb am eiriau na gweithredoedd ei gariad. Cydymgynhyrfodd a chydymgyngreiriodd uffern a daear i wneud yr oll a'r a fedrent yn erbyn ei enw a'i deyrnas; ac y mae yn wir alarus i feddwl fod y byd hyd heddyw mor llawn o elyniaeth yn erbyn Oen Duw, Tywysog tangnefedd, Anwylyd y nefoedd, a Gwaredwr pechaduriaid.

Yr ydym ni yn awr yn proffesu ein bod am ei garu â'n holl galon, ein bod yn rhyfeddu ei ymddarostyngiad, yn gweled ei hawddgarwch, yn cofleidio ei egwyddorion, yn cymdeithasu â'i ddyoddefiadau, a'n bod am fod yn ffyddlawn iddo, ac ymddiried

ein cadwedigaeth i'w ofal. Yr ydym yn proffesu fod ei drefn i gadw wrth ein bodd, a'n bod am gysegru pob dawn sydd genym i fynegu ei foliant. Ymbiliwn am ras yr Ysbryd i lenwi ein proffes ac i lynu ynddi.

Y mae breintiau o annhraethol werth yn perthyn i'r cyfryw. Y mae Crist ynddynt hwy, a hwythau ynddo ef. Y maent yn ei law ef, ac yn llaw ei Dad ef. Y mae deddf Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu wedi eu rhyddhau oddiwrth ddeddf pechod a marwolaeth. Y maent yn rhodio yn ol yr Ysbryd. Nid oes dim damnedigaeth iddynt. Y maent yn etifeddion i Dduw, ac yn gydetifeddion â Christ, ac fe'u cydogoneddir hefyd.

Ond er fod galluoedd uffern ac awdurdodau daear wedi codi yn erbyn ein Iesu ni a'i Grist ef, efe a lwydda er eu holl gynddaredd a'u cyfrwysdra; efe a godir ac a ddyrchefir, ac a fydd uchel iawn. Rhenir iddo ran gyda llawer. Rhoddir y cedyrn iddo yn yspail; efe a wêl ei had, efe a estyn ei ddyddiau; ewyllys ei Dad a lwydda yn ei law, a diwellir ei enaid.

Yr ydym am gael cymhorth doniau a serchiadau ein cyfeillion ieuainc sydd ar y *gallery*, i ddyrchafu ei enw, ac i bleidio ei achos. Os gwrthodwn ni ef, yntau hefyd a'n gwrthyd ninnau; ac os ceir neb o honom *ni* yn mysg ei elynion yn y dydd diweddaf, pa fodd y dichon i ni sefyll o flaen gorseddfainc ei awdurdod a'i ogoniant fel Barnwr y byw a'r meirw!

ENWAU YR ORDINHAD.

Swper yr Arglwydd—Am mai efe a'i sefydlodd, efe barotodd ei harlwy, cyfranogodd ei hun o honi, y mae i fod yn goffadwriaeth am ddrylliad ei gorff a thywalltiad ei waed, am ei fod yn gwenu yn rasol ar bob cymunwr teilwng, am ei fod yn ddrych o'r wledd lawn frenhinol sydd yn yr efengyl i eneidiau newynog; ac am ei bod yn arlun o'r wledd dragwyddol geir gydag ef yn nhŷ ei Dad.

Cymun corff a gwaed Crist—Am fod y cymunwyr yn aelodau o'r un teulu mawr, i eistedd o gylch yr un bwrdd, i wledda ar yr un aberth drud, i gael eu glanhau trwy rinweddau yr un gwaed, i gael eu cyfiawnhau drwy yr un Iawn mawr, ac i fod dan yr un triniaethau fel cydetifeddion; ac am eu bod i fyw mewn cymundeb â'u gilydd yn rhwymyn yr Ysbryd, ac yn nghwlwm tangnefedd, ac mewn cymundeb â Iesu a'i ddyoddefiadau, ac mewn cymundeb â'r Tad ac â'r Ysbryd, ac â holl deulu mawr y nef drwy gyfryngdod Iesu; ac am fod cymundeb yr Eglwys ar y ddaear i fod yn flaenbrawf o gymundeb purach a llawnach o gylch y bwrdd yn nhŷ ein Tad.

Ein Pasg ni—Sef gwledd ymadawiad o feddiant y gelyn, ac o

wlad y caethiwed; gwledd diogelwch dan arwydd y gwaed; gwledd i wroli yr enaid ar ei yrfa drwy'r anial; gwledd i gofio am waredigaethau yr Arglwydd; a gwledd o ymrwymiad i fod yn ffyddlawn i'w gyfammod.

Sacrament—Neu lw cyhoeddus y cymunwr y bydd yn filwr da i Iesu Grist, Tywysog ei iachawdwriaeth; y bydd yn ffyddlawn i'w faner, a'i fyddin, a'i achos, hyd eithaf ei allu, a hyny hyd angeu.

Y mae y darluniadau hyn o'r ordinhad yn arwyddo ei bod o bwys annhraethol i bob cymunwr fod mewn ysbryd teilwng pan y mae yn eistedd gyda'i gydgymunwyr o gylch bwrdd ei Arglwydd.

Edrychwyr!—Y mae pob croesaw i *chwi* ddyfod i gymundeb mawr y saint. Y mae digon o le wrth y bwrdd, a digon o arlwy ar eich cyfer. Ni thry byth yn anfri nac yn golled i chwi gymeryd *llw* o ffyddlondeb i'r Iesu. Y mae ef yn foddlon i dderbyn ac arddel a gwobrwyo eich gwasanaeth.

DEFFROI O GYSGU.

Wrth annog yr Eglwys yn Rhufain i ymadfywio, yr oedd Paul yn defnyddio yr iaith gynhyrfiol a ganlyn:—"A hyn, gan wybod yr amser, ei bod hi weithian yn bryd i ni ddeffroi o gysgu; canys yr awr hon y mae ein hiachawdwriaeth ni yn nes na phan gredasom. Y nos a gerddodd yn mhell, a'r dydd a nesaodd; am hyny bwriwn oddiwrthym weithredoedd y tywyllwch, a gwisgwn arfau y goleuni." Yr oedd am iddynt yn

1. "Ddeffroi o gysgu." Mae'r hwn sydd yn cysgu yn *anystyriol* pan yn y perygl mwyaf—pan ar fin ceulan, neu ar draeth y llifeiriant, neu yn nghyrhaedd y tân, neu yn ymyl ei elyn; mewn gair, pan ar golli ei enaid. Mae'r hwn sydd yn cysgu yn *ddifwynhad* yn nghanol y cysuron godidocaf; nid yw yn canfod golygfeydd gogoneddus yr efengyl, nac yn clywed peroriaeth mwynaf llais trugaredd, nac yn profi arlwyadau danteithiol rhad ras. Mae'r hwn sydd yn cysgu yn *ddiwaith*, ac felly yn ddiddefnydd, ac yn ddigynnydd, er cymaint sydd ganddo i'w wneud er gogoniant y Gwaredwr, er ei les ei hun, er adeiladaeth yr eglwys, ac er daioni y byd. Nid yw yn rhedeg, er fod y gamp uchel yn ei gyrhaedd. Nid yw ddim yn cynhauafu, er fod ei haf yn myned heibio, a bod y gauaf yn ei ymyl. Nid yw yn trysori erbyn yr amser a ddaw, er fod ganddo bob hwylusdod a chymhelliad i hyny. A dichon ei fod yn *breuddwydio* fod pob peth yn dda, fod ei fywyd yn ddiogel, fod ei waith yn cael ei gyflawni, ei gynhauaf yn cael ei gasglu, a bod ei orphwysfa, a'i wobr, a'i goron, a'i wynfyd yn ymyl. Y mae Paul, dros Grist, yn galw ar y cyfryw i ddeffroi i ystyriaeth

ac i deimlad, fel y gallo adnabod pethau yn iawn, ac ymdrechu a gweithio mewn dull teilwng o'i gyfrifoldeb.

2. Yr oedd am iddynt fwrw "oddiwrthynt weithredoedd y tywyllwch," sef pob meddwl, gair, a gweithred, croes i gyfreithiau Duw. Mae yn addas eu galw yn weithredoedd y *tywyllwch* am mai calon dywyll sy'n eu cyflawni, ac yn ymhyfrydu ynddynt, am eu bod yn rhy warthus i ddal ymchwiliad y goleuni, ac am eu bod yn cymhwyso yr enaid i'r tywyllwch eithaf. Eu "bwrw ymaith" ydyw eu gochel fel rhai ffiaidd ac atgas a niweidiol, a'u cadw yn mhell oddiwrthym drwy ein hoes.

3. Yr oedd am iddynt "wisgo arfau y goleuni"—sef arfau *milwriaeth* yr efengyl, er gallu concro y gelynion ar faes y rhyfel. Yr arfau hyny ydynt, helm yr iachawdwriaeth; dwyfroneg cyfiawnder; gwregys y gwirionedd; cleddyf yr Ysbryd, sef gair Duw; tarian y ffydd, er diffoddi picellau tanllyd y fall; esgidiau parotoad efengyl y tangnefedd, er rhodio yn ddiogel ac yn weddus. A gwisgo hefyd arfau *gweithio* yr efengyl, er bod yn llafurus a defnyddiol yn ngwinllan yr Iesu. Y maent yn cael eu galw yn arfau y *goleuni* am mai Tad y goleuni a'u trefnodd, am mai yn y goleuni y maent i gael eu defnyddio, am eu bod yn myned yn fwyfwy dysglaer wrth eu defnyddio, ac am y codir yr hwn sydd yn eu gwisgo ar fyrder i wlad y goleuni tragwyddol.

Yr oedd dau reswm gan Paul dros eu cymhell i ddeffroi o gysgu, bwrw ymaith weithredoedd y tywyllwch, a gwisgo arfau y goleuni.

1. Ei bod yn "*amser*" deffro; fod y nos wedi cerdded yn mhell, ei bod bron myned heibio; bod y dydd yn nesâu, y dydd yn tòri; a'i fod yn ddydd *goleu* o'i gymharu â dydd y patriciroh, a dydd dysgyblion Moses a'r prophwydi; eu bod hwy wedi bod yn gorfod gweithio dan gysgodau y nos, ond fod y cysgodau hyny wedi cilio, a dydd goleu wedi gwawrio arnynt. A gallwn *ni* ddweyd, nid yn unig fod yr efengyl wedi gwawrio, a bod yr haul wedi esgyn yn uchel, ond ei bod yn ddydd *tawel*, o'i gymharu â'r dydd tymhestlog a gafodd ardderchog lu y merthyron; a'i fod hefyd yn ddydd *prysur* iawn. Y mae pob peth o'n deutu mewn bywyd a chynhwrf. Y mae olwynion Rhagluniaeth yn troi yn gyflym, ac angylion y nef yn ehedeg yn gyflym ar eu negesau pwysfawr, a llengoedd uffern yn gwibio o amgylch yn gyflym er cael cyfleusderau i wneuthur drwg; y mae elfenau llygredd ac egwyddorion santeiddrwydd mewn llawn bywyd yn gweithio yn nerthol ac yn gyflym; ac y mae gweinidogion angeu ar daith ac ar waith yn ddiorphwys. Ac y mae yn ddydd *pwysig* iawn, am fod genym waith dros Dduw: ac am ei bod yn adeg ein cynhauaf erbyn tragwyddoldeb. A dydd *byr* iawn ydyw at

y fath waith pwysig. Y mae ei oriau yn cyflym fyned heibio, a gall fod y noswylio yn ymyl.

2. Ei reswm arall oedd bod yr iachawdwriaeth yn *nesâu* o hyd. Y nôd, neu y gamp yn eu golwg oedd "iachawdwriaeth;" a iachawdwriaeth gyflawn ydyw cael heddwch â Duw drwy Iesu Grist; cael cyfranogi o driniaethau gras yn ymgeleddu a chynnal a dyddanu yr enaid; cael maddeuant rhad a llawn o'r holl bechodau; cael bod yn berffaith bur, ac yn fythol rydd oddiwrth bob gofidiau; a chael cyflawn fwynhad o'r etifeddiaeth sydd yn cael ei chadw yn y nefoedd. Dyna'r gamp uchel, ac y mae yn dyfod bob dydd yn *nes*—fel y mae y porthladd yn dyfod yn nes i'r morwr pan y mae yn rhwyfo yn mlaen dros y tònau; fel y mae y goron yn dyfod yn nes at y rhedegwr, fel y mae yn ymestyn yn mlaen tua phen ei yrfa; fel y mae y palmwydd yn dyfod yn nes i'r milwr dewr wrth sefyll yn ffyddlawn ar y maes; fel y mae ei gartref yn dyfod yn nes i'r pererin blinedig pan y mae yn dringo tylau serth yr anialwch; ac fel y mae yr orphwysfa yn nes i r llafurwr ffyddlawn sy'n dwyn pwys y dydd a'r gwres yn ngwinllan yr Iesu. Ac y mae yr iachawdwriaeth, nid yn unig yn dyfod yn "nes," ond daw i'r *gafael* yn fuan. Yr ydys yn tybied weithiau fod ambell i nôd yn dyfod yn "nes," ond nid yw byth yn dyfod i'r *gafael*. Tybiodd llawer o blant y byd hwn fod rhyw gamp yn eu hymyl, fod rhyw goron neu drysor neu etifeddiaeth yn dyfod yn nes nes iddynt o hyd; ond ni ddaethant yn y diwedd i'w gafael. Ar ol yr holl ddysgwyl a'r gobeithio a'r ymdrechu, buwyd farw yn y llafur heb gyrhaedd y nôd. Ond nid dyna fydd rhan y credadyn, daw yr iachawdwriaeth *i'w afael*, a bydd iddo yn gysur annhraethadwy, ac yn ogoniant tragwyddol; gwna ei enaid yn gyfoethog a dedwydd dros byth. Ni siomir gobaith y credadyn, oblegid y mae wedi ei sylfaenu ar addewid a llw a nerth Duw.

Y mae yr holl gymhelliadau pwysfawr ag oedd i'r eglwys gynt yn Rhufain ddeffroi o gysgu, yn galw heddyw arnom ninnau i ymadfywio ac ymegnïo gydag achos crefydd. Y mae weithian yn llawn bryd i ni ymddihuno, ac ymroi i weithio. Po hwyaf y cysgir, anhawddaf fydd deffroi. Po hwyaf yr oedir, anhawddaf fydd cychwyn. Po hwyaf y cloffir rhwng dau feddwl, anhawddaf fydd ennill y gamp. Y mae yn alarus i feddwl am neb yn cysgu pan y mae eu damnedigaeth yn nesâu bob awr. Os parheir i oedi ac ymdroi, collir y gamp, a byddir yn annedwydd byth.

"'Rwy'n gwel'd yr oriau'n hir,
I fod o dir fy ngwlad;
Pryd deuaf at fy mrodyr fry,
Sy'n canu yn nhŷ fy Nhad:—

A gorphen ar fy ngwaith,
A'm dyrys daith is nen ;
Yn Salem fry par'to fy lle,
Mewn llys o fewn y llen.

"Hardd wisgo'u gynau gwyn
Y bydd y saint 'nol hyn,
Dydd sy'n nesâu:
Caniadau marwol glwy',
Fydd eu caniadau hwy,—
Caniadau glywir mwy
Byth yn parhau."

WRTH DDERBYN UN OEDRANUS.

Yr ydych chwi wedi dianc o gyrhaedd profedigaethau dyddiau ieuenctyd; ond bydd raid i chwithau wylio yn erbyn gelynion cyfrwys fyddant am ddwyn eich cysur oddiarnoch. Ni chafodd rhodres a gwagedd y byd nemawr o afael yn eich meddwl. Yr oedd yn dda genym eich clywed yn dweyd mor effeithiol y buasai yn dda genych pe buasech yn penderfynu dyfod yn gynt. Buasai yn dda genym ninnau pe buasem yn gwasgu yn nes atoch i'ch annog a'ch calonogi. Gallwch chwi o hyn allan ddweyd yn dra effeithiol yn erbyn y drwg o gloffi rhwng dau feddwl; a gobeithio y chwiliwch am gyfleusderau i hyny, ac y gwnewch lawer o les. Yr ydym yn hyderu eich bod lawer tro wedi gweled gradd o ogoniant crefydd, ac wedi teimlo ychydig o bwys crefydd; a'ch bod drwy yr wythnosau diweddaf wedi mwynhau ychydig o gysuron dyledswyddau crefydd. Yr ydym yn dymuno am i chwi gael gweled a theimlo a mwynhau etto lawer mwy. Y mae digon i'r enaid gael, a digon byth yn nhrysorau crefydd. Y mae pob croesaw i chwi ac i ninnau gyfranogi o'i chyfiawnder. Y mae pob rhyddid i ni yfed a gwledda, a derbyn yn ol ein ffydd, a'n sel, a'n cariad, a'n llafur; a bydd yn felus iawn, ar ol yfed o'i ffynnonau iachusol yma ar y ddaear, i gael derbyn o'i llawnder yn ngwlad yr orphwysfa. Y mae yn hyfryd iawn i weled *plant* myfyrgar o ddeg i ddeuddeg oed, ar ol cael eu haddysgu yn ysgol yr Iesu, yn dyfod i gartrefu yn ei dŷ. Y mae yn hyfryd iawn hefyd i weled ieuenctyd deunaw oed, yn eu gwrid a'u blodau, yn troi i ddewis pleserau crefydd yn lle pleserau hudol pechod. Y mae yn hyfryd hefyd i weled rhai yn nghanol eu dyddiau a'u gofalon, yn troi i mewn i dŷ yr Arglwydd, ar ol arofyn yn hir yn ymyl y drws. Ac y mae yn hyfryd iawn hefyd i weled yr *hen* yn nin eu bedd, ar ol oedi drwy eu hoes, yn plygu yn ddryllio ar yr unfed awr ar ddeg i ymroddi i wasanaeth yr Iesu. Bydd yn llon gan lawb eu gweled yn *gweithio* un awr yn ei winllan. Mae lle iddynt yn ei fynwes, a lle iddynt yn ei dŷ ac wrth ei fwrdd; ac os cewch y fraint o ymroddi o lwyrfryd calon iddo, cewch ei nawdd a'i arweinyddiaeth trwy weddill byr eich taith, a chewch fod byth gydag ef a'i deulu yn ngwlad y purdeb a'r gogoniant. Eisteddwch i lawr yn awr gyda'r gangen yma o'i deulu i gofio

am ei angeu. Cymuno â'i gorff ac â'i waed yw ein gwaith yn awr. Testun llawn o ryfeddodau ydyw ei farwolaeth ef dros yr euog. Dyna *oedd* testun cynghor dwfn y Tri yn un cyn bod y byd. Dyna *yw* testun penaf hyfrydwch y Duwdod yn awr yn y nefoedd. Dyna *oedd* testun ymchwiliad yr eglwys dan oruchwyliaeth y cysgodau; dyna *yw* prif destun myfyrdod a syndod yr eglwys dan oruchwyliaeth oleuach y Testament Newydd. Mae yn destun mor syml ac mor eglur fel y gall plentyn ddeall ei amcan, a theimlo ei ddylanwad, a chael lles oddiwrtho; ac y mae yn destun mor fawr, ac mor eang, fel ag y mae ynddo ddyfnderoedd o ryfeddodau, mwy na digon i lenwi amgyffredion duwinyddion penaf y byd, ac angylion hynaf y nefoedd. Mae yn destun addas i'r meddwl bob amser, ac yn mhob amgylchiad, beth bynag fydd ein sefyllfa a'n profiad. Os byddwn am adnabod drwg pechod, cawn weled ei ddrwg yn angeu Crist. Os am weled grym y ddeddf, cawn ei weled yn angeu Crist. Os am weled golud trugaredd a gras yr iachawdwriaeth, cawn ei weled yn angeu Crist. Os byddwn yn ddigalon ac yn ofnus, mewn perygl o fyned dan draed ammheuon, dyma'r fan i ni droi er cael grym a chysur. Os byddwn wedi llithro i diroedd oerion gwrthgiliad, dyma'r man goreu am ein hadferiad. Ac os byddwn yn teimlo yn wrol a bywiog a phenderfynol, dyma'r man goreu er ein cadw mewn diogelwch, a'n dwyn yn mlaen ar gynnydd Duw.

"Testun penaf fy myfyrdod
Fyddo Crist a'i farwol glwy';
Yna ni wna byd o drallod
Ddifa cysur f'enaid mwy:
Aros wrth ei groes yn gyson,
Edrych arno'n talu'r Iawn;
Hyn a darfa fy ngelynion,
Hyn a rydd im' heddwch llawn."

CYFFESU CRIST.

Wrth dderbyn cyfeillion ieuainc i'r Eglwys.—Sylwodd un o honoch, pan yn ei gynnyg ei hun i'r eglwys, fod pob un yn ngwlad pregethiad yr efengyl, ag sydd mewn oedran a synwyr, yn *cyffesu* Crist, neu yn ei *wadu*. Yr ydym yn barnu fod y sylw hwnw yn gywir. Nad oes dim lle canol; na dim cyflwr dyblyg: fod pob un sydd yn y gynnulleidfa yma heddyw *dros* Grist neu yn ei *erbyn*. Dyledswydd pawb ydyw cyffesu Crist. Dylai pob un sydd yn cael cyfleusderau i ddarllen a gwrando am Grist ymresu dan ei faner, a sefyll dros ei enw a'i achos. Y mae pawb yma yn cael rhyddid i farnu drostynt eu hunain, a rhyddid i weithredu yn ol eu dewisiad, a bydd pob un yn gyfrifol drosto ei hun am ei ymddygiad. Nid gwaith rhyw un oedfa fel hon, na gwaith holl oedfaon Sabbathau y cymundeb ydyw cyffesu Crist, ond gwaith *oes* ydyw. Nid wrth gychwyn y daith yn

unig yr ydys i'w gyffesu, ond drwy yr holl yrfa: nid pan wrth fwrdd y cymundeb, ond wrth y bwrdd gartref, ac yn mhob man arall. Y mae ein gwaith yn cyffesu Crist yn dylanwadu yn mhellach na ni ein hunain; y mae yn sicr o effeithio ar eraill. Nid oes neb yn ei gyffesu mewn modd teilwng, heb fod hyny yn lles i eraill: ac nid oes neb yn ei wadu, heb fod hyny yn niweidiol i eraill. Yr ydych chwi heddyw, ar y Sabbath olaf o'r flwyddyn yma, yn ei gyffesu yn gyhoeddus yn ngwydd llawer o dystion, am y tro cyntaf yn eich bywyd. Yr ydym yn gobeithio fod eich cyffes yn dyfod o'r galon, ac y glynwch ynddi hyd y diwedd; ac yna cyffesa yntau chwithau ger bron ei Dad a'r angylion santaidd yn y dydd diweddaf; a chewch eistedd wrth ei fwrdd gyda'r teulu pur yn nhŷ ei Dad.

Defnyddiwch a gwerthfawrogwch holl foddion a holl ordinhadau crefydd. Ymddyddenwch am grefydd gyda'ch ceraint yn y teulu, a chyda'ch cyfeillion pan yn cydrodio ar y ffordd, a phan yn dilyn eich galwedigaeth, os bydd cyfle at hyny. Gwerthfawrogwch y gymdeithas grefyddol: cewch yno le da i fagu gwybodaeth a phrofiad: ac ymestynwch am y fraint o *wneud* lles, yn gystal ag am dderbyn lles yn mhob cymdeithas. Ceisiwch barotoi eich gwers, a'ch meddwl, a'ch calon, fel y galloch gael budd, a bod o fudd i eraill, yn eich dosbarth yn yr Ysgol Sabbathol. Gobeithio y gwelir chwi yn eich lle wrth y bwrdd yn cofio am angeu Iesu bob tro y galloch o hyn i ddiwedd eich oes. Y mae holl hanes proffeswyr crefydd yn dangos i ni mai y rhai mwyaf dyfal gyda'r moddion ydynt y rhai mwyaf dedwydd a defnyddiol.

Edrychwyr anwyl!—Paham y byddwch feirw, pan y mae Duw mor drugarog, ac mor faddeugar, ac mor hael yn galw arnoch; pan y mae Iesu wedi talu Iawn anfeidrol er cael ffordd rydd i'ch achub; pan y mae trefn fawr y cadw mor gadarn, mor gyfoethog, ac mor gyfaddasol ar eich cyfer; a phan y mae y Beibl mor eglur ac mor daer yn eich gwahodd i ddyfod yn mlaen at fwrdd yr iachawdwriaeth? Paham y mynweswch y chwantau sydd yn rhyfela yn erbyn yr enaid anfarwol? Pa lesâd fyddai i chwi ennill yr holl fyd a cholli yr enaid? Gwrandewch heddyw ar leferydd cariad Iesu.

PENDERFYNU O'R DIWEDD.

Wrth dderbyn brawd ag ydoedd wedi hir oedi.—Y mae yn dda iawn genym gael eich croesawu i'r eglwys o'r diwedd. Buom yn dysgwyl llawer wrthych. Buoch yn hir yn ymyl trothwy y drws. Bu rhai o'r cyfeillion lawer tro yn eich annog yn ffydd-

lawn ac yn garedig. Y maent yn anwyl genych heddyw oblegid eu ffyddlondeb. Darfu i chwi addunedu lawer tro yn eu clyw hwy, ac yn nghlyw y nefoedd. Gobeithio bod eich holl fryd yn awr ar gyflawni eich addunedau. Yr ydym yn deall i rai o bregethau y "cyfarfod mawr" effeithio yn ddwys ar eich meddwl. Yr ydych hefyd newydd fod yn y fynwent uwchben bedd un ag oedd yn anwyl genych. Pe buasech wedi gallu dal pregethau nerthol y cyfarfod, a phregeth effeithiol y bedd, buasai yn anhawdd i unrhyw oruchwyliaeth eich symud. Da iawn genym eich gweled yn plygu o'r diwedd i wisgo iau Iesu. Mor garedig y mae yn dywedyd wrth eneidiau blinderog a llwythog, "Cymerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf; canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon; a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau." Gorchwyl penaf eich bywyd ydyw ymroddi yn ewyllysgar i'r Arglwydd, ac ymbriodi â'i achos. Os ydych yn gwneud o lwyr-fryd calon, try yn elw, ac yn gysur, ac yn anrhydedd i chwi. Cymerwch ysbryd crefydd gyda chwi i bob man, gartref ac oddicartref; ac yna ni bydd raid i neb ofyn, A ydyw ———— yn proffesu crefydd? Gobeithio y bydd i'r adgofion am y misoedd a'r blynyddoedd a gollasoch eich cynhyrfu i fwyfwy o ymegnïad yn barhaus, ac y bydd i chwi ymgryfhau a gloewi nes gorphen eich gyrfa mewn buddugoliaeth a llawenydd.

PLANT Y WRAIG RYDD.

Pan oedd Paul yn dywedyd wrth y Galatiaid, "Nid plant i'r wasanaethferch ydym, ond i'r wraig rydd," yr oedd yn dysgu fod dau fath o broffeswyr crefydd, a'i bod o bwys i ni ystyried eu nodweddau gwahaniaethol er gwybod i ba un yr ydym yn perthyn.

1. Y mae plant y wasanaethferch yn ceisio bywyd drwy'r ddeddf; y maent felly yn iselu santeiddrwydd Duw, a manylrwydd ei gyfraith, ac yn bychanu drwg pechod, a thrwy hyny yn gwneud trefn fawr yr Iawn yn ofer. Ond y mae plant y wraig rydd yn ceisio eu bywyd drwy Grist yn unig; y maent yn pwyso yn gyfangwbl ar yr Iawn, ac felly yn cydnabod yr angenrheidrwydd am dano, ac yn cyhoeddi ei werth i bawb o'u deutu.

2. Y mae plant y wasanaethferch yn hunangyfiawn, yn uchelfrydig, ac yn ymffrostgar; yn meddwl eu bod yn anrhydeddu deddf Duw, ac yn *haeddu* bywyd trwy eu gwaith eu hunain. Y mae plant y wraig rydd yn hunanymwadol, yn cyffesu yn y llwch eu bod wedi troseddu deddf bur eu Duw, a'u bod yn haeddu colledigaeth, ac nad oes ganddynt ddim gobaith ynddynt eu hunain.

3. Y mae plant y wasanaethferch yn erlidgar, fel Cain ac Ismael, fel Phariseaid a Phabyddion holl oesau y byd; yn eu hystyried eu hunain yn gyfiawnach nag eraill; ac felly y maent yn barnu yn gul am bawb sydd yn gwahaniaethu oddiwrthynt, ac yn eu gwawdio, gan eu gwthio draw, a'u difrïo, a'u herlid hyd eithaf eu gallu. Y mae plant y wraig rydd, wrth ystyried eu diffygion eu hunain, yn addfwyn, a gwylaidd, a maddeugar; yn barnu yn well am eu cyd-ddynion nag am danynt eu hunain; ac felly y maent yn ymddwyn yn frawdol ac yn foneddigaidd tuag atynt, ac am wneud lles iddynt, a thrwy hyny gyflawni cyfraith Crist.

4. Y mae plant y wasanaethferch yn *gaethion* i nwydau aflywodraethus calon ddrwg; i ddeniadau, a phrofediaethau, a thwyll y byd; i ddichellion y diafol a'i angylion, i euogrwydd cydwybod, ac yn agored i gaethiwed carchar tragwyddol. Y mae plant y wraig rydd yn rhyddion—nid etto yn *hollol* ryddion o gyrhaedd drygau byd, cnawd, a diafol; nid etto yn *gwbl* ryddion oddiwrth bob annmheuon ac ofnau; ond y maent yn rhyddion oddiwrth y ddamnedigaeth, ac y maent o dan oruchwyliaethau y rhyddhau a'r puro, a chânt eu symud yn fuan i wlad o fythol ryddid.

5. Y mae plant y wasanaethferch yn ddaearol. Gofidiau daear sydd yn eu blino fwyaf. Mwynderau daear sydd yn eu lloni fwyaf. Y ddaear a'i phethau sydd yn cael eu serchiadau penaf; a gofalon daear sydd yn cael eu doniau a'u gallnoedd blaenaf. Ond y mae plant y wraig rydd a'u hymarweddiad yn y nefoedd, a'u serch ar y pethau sydd uchod. Dyna'r pethau agosaf at eu calon. Dyna brif destunau eu myfyrdodau a'u hymddyddanion. Mae eu hwynebau tua'r nefoedd, a'u calonau yno.

6. Y mae plant y wasanaethferch yn dlodion, gan nad ydynt yn sugno dim o lawnder yr addewidion. Y maent yn dibrisio y wledd sydd ar fwrdd trugaredd, yn gwrthod goludoedd gras Crist, trysorau anchwiliadwy ei angeu; ac felly y maent heb gysuron yr efengyl, ac heb deitl i etifeddiaeth fawr y nef. Y mae plant y wraig rydd yn gyfoethog, yn etifeddion yr addewidion, yn mwynhau gwleddoedd ordinhadau yr efengyl, yn cael ymgeledd trinaethau tŷ eu Tad, ac arweinyddiaeth ei Ysbryd, a nawdd gweinidogaeth angylion, a gobaith da am wynfyd a gogoniant y nef.

Swydd a chymeriad ardderchog, fel gwraig a mam rydd, sydd i'r eglwys o dan y Testament Newydd.

1. Y mae addewidion ei Phriod a'i Phen yn sicrhau y bydd iddi lawer o hiliogaeth; y bydd ei phlant yn amlach na ser y nef, ac na thywod y môr.

2. Y mae ganddi gymhwysderau enwog i'w magu; sef teimladau tyner mam, gofal mam, tŷ cyfoethog, bwrdd llawn, gwisgoedd glan a drudfawr, llawer o weision, rheolau manwl, athrawon llafurus i ddysgu iaith a moesau y nef i'w phlant, ac addewid o nawdd a phresenoldeb eu Tad nefol iddynt oll.

3. Y mae ei phlant oll yn anfarwol; ac y mae eu breintiau a'u cysuron yn ddiderfyn ac yn ddiddiwedd. Er nad all gasglu ei phlant oll i'r un man i gydganu, ac i gydweddïo, ac i gydgymuno, caiff eu cyfarfod *oll* mewn byd gwell; a melus iawn fydd eu cymdeithas yn nydd yr adgyfodiad ar ddeheulaw y Barnwr, ac o gylch y bwrdd mawr llawn yn nhŷ eu Tad.

Y mae yn fraint werthfawr i ni fod darluniad mor eglur o'r ddau ddosbarth yn yr efengyl. Ystyriwn yn ddiduedd i ba ddosbarth yr ydym ni yn perthyn. Os ydym wedi aros hyd yma gyda theulu hunangyfiawnder a chaethiwed, y mae modd ein mabwysiadu i deulu y wraig rydd, a'n gwneud yn ddinasyddion o'r Jerusalem hòno uchod. Y mae cyflwr y fam gaeth a'i phlant i waethygu o hyd; ond y mae cyflwr plant y fam rydd i wella yn dragwyddol.

"IACHAWDWRIAETH A FYDD BYTH."

Pan oedd yr Arglwydd yn cysuro credinwyr yn amser Esaiah, yr oedd yn dywedyd wrthynt, "Y nefoedd a ddarfyddant fel mwg; a'r ddaear a heneiddia fel dilledyn; a'i phreswylwyr yr un modd a fyddant feirw: ond fy iachawdwriaeth i a fydd byth, a'm cyfiawnder ni dderfydd."

Y mae yn cyhoeddi fod y ddaear i heneiddio, fel *dilledyn;* wrth gael ei wisgo yn mhob tywydd, y mae yn treulio, yn teneuo, yn breuo, yn rhwygo, ac o'r diwedd yn darfod; fel peiriant, y mae yr olwynion yn treulio wrth droi yn barhaus; fel adeilad, yn adfeilio wrth fod am hir amser yn agored i'r tês a'r tymhestloedd. "A'r nefoedd a ddarfyddant fel mwg." Y mae llawer o bethau perthynol i'n byd ni fuont yn enwog, nid yn unig wedi heneiddio a myned fel hen ddilledyn diwerth wedi ei droi heibio, ond wedi darfod "fel mwg," wedi llwyr ddiflanu o'r golwg. Ac y mae preswylwyr y byd, nid yn unig i heneiddio, ond i feirw. Y maent fel blodeuyn y glaswelltyn, nid yn unig i golli eu harddwch, ond i wywo a diflanu. Y maent fel y ganwyll, nid yn unig yn treulio o hyd, ond o'r diwedd i ddiffodd. Ond yr hyn a ddywed yr Arglwydd er dyddanwch ei bobl ydyw, "*Fy iachawdwriaeth i a fydd byth.*" Ni heneiddia, ni dderfydd; ni wywa, ni ddiflana.

1. Ni syfla byth ei sylfaen. Gall colofnau y mynyddoedd

siglo, a gall sylfeini y ddaear syrthio; ond saif sylfaen yr iachawdwriaeth. Y mae dwyfol ddoethineb, a thrugaredd, a chyfiawnder, a gallu, wedi bod yn ei gosod i lawr, ac yn goruwchadeiladu arni; ac felly rhaid gorchfygu nerth y Duwdod, a siglo gorsedd ei ymerodraeth fawr, cyn y syflir trefn iachawdwriaeth gras.

2. Ni dderfydd byth ei chyflawnder. Syched y ffynnonau a sychant, ni sycha ffynnonau yr iachawdwriaeth. Darfydded y trysorau a ddarfyddant, ni dderfydd trysorau hon. Darfu gwleddoedd Ahasferus, ond ni dderfydd gwleddoedd hon. Gellir cyfrif trysorau Solomon, ond nis gellir cyfrif trysorau hon. Cafwyd gwaelod mwngloddiau Peru, ond nid oes waelod i fwngloddiau hon. Y mae myrddiynau wedi bod yn cyfranogi o'i gwledd, ond y mae ei bwrdd yn llawnach nag erioed. Y mae myrddiynau wedi bod yn byw ar ei thrysorau, ond nid oes arwydd prinder. Y mae holl oludoedd y Duwdod wedi ei gysegru i lenwi ei thrysorau.

3. Ni threnga byth ei hetifeddion. Y mae perchenogion etifeddiaethau eangaf y ddaear yn meirw, ac yn gorfod gadael eu trysorau i eraill. Yr oedd ganddynt ddá lawer wedi ei roddi i gadw dros lawer o flynyddoedd; ond gofynwyd eu henaid yn ddisymwth oddiwrthynt. Ond caiff etifeddion yr iachawdwriaeth fyw byth. Cánt fyw i weled y ddaear wedi heneiddio fel dilledyn, ac i weled y nefoedd yn darfod fel mwg. Ni byddant yn eu cyflawn oed cyn dydd anghladd elfenau y greadigaeth, a dydd adgyfodiad y corff. Dyna'r pryd y denant i lawn feddiant a'u hetifeddiaeth, ac ni byddant ond megys dechreu ei mwynhau or ol i'r byd fyned ar dán. Iachawdwriaeth a fydd byth ydyw, a'r saint fyddant byth. Ni sychir ei ffrydiau, ac ni dderfydd y saint yfed o honynt. Ni dderfydd ei rhyfeddodau, ac ni dderfydd y saint syllu arnynt. Ni syrth yr un o'i thrigfannau, ac ni threnga yr un o'i phreswylwyr. Ni bydd teml y nef byth heb ei haddolwyr, na llwybrau y nef heb rai i'w rhodio, na bwrdd y nef heb y teulu i eistedd wrtho, na thelynau y nef heb ddwylaw i chwareu eu tannau.

4. Ni newidir ei Hawdwr. Y mae wedi bod yn cynnal ac yn tywys ac yn dyddanu ei deiliaid drwy yr hen oesoedd, ac y mae yr un yn ein hoes ni. "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

Yr ydym ni yn proffesu, yn awr o gylch y bwrdd yma, ein bod yn dderbynwyr iachawdwriaeth Duw—fod ei darpariadau a'i gwleddoedd wrth ein bodd, a'n bod yn rhyfeddu y draul fawr a gymerwyd i ddarparu y fath iachawdwriaeth ar gyfer rhai mor

annheilwng. Dylem ymholi yn awr pa le y mae ein calon yn cartrefu? pa un ai ar y ddaear sydd yn heneiddo fel dilledyn, ai ar yr iachawdwriaeth a fydd byth? Os ydym hyd yma heb yr iachawdwriaeth, y mae modd yn awr i ni ei chael. Y mae yn un addas i ni. Y mae ei hammodau yn isel. Y mae ei gwleddoedd a'i gwisgoedd a'i thrysorau yn ein hymyl. Y mae myrddiynau a fu'n euog a thlodion fel ninnau yn gyfoethog a dedwydd yn ei gafael. Y mae y Duw a'i trefnodd am i ni ei derbyn. Y mae ein cyfeillion goreu ar y ddaear yn ein cymhell i'w derbyn. Y mae trueni yr eneidiau ddarfu ei gwrthod yn rhybudd i ni ei derbyn. Os byddwn ni heb ei chysuron a'i goludoedd pan fydd y nefoedd yn darfod fel mwg, a'r ddaear wedi heneiddio fel dilledyn, a'r defnyddiau gan wir wres yn toddi, byddwn yn dlodion yn wir; bydd yn gyfyng annhraethol arnom: a dyna fydd yn gwneud ein gwasgfeuon yn annyoddefol, mai nyni ein hunain fydd wedi gwrthod yr iachawdwriaeth, wedi dibrisio ei thrysorau, ac wedi dewis trysorau darfodedig yn eu lle, ac na bydd dim modd i ni byth newid y *faryen*. Na orphwyswn, gan hyny, am fynyd heb gael gafael ar yr iachawdwriaeth a fydd byth, a'r cyfiawnder ni dderfydd.

"BYW WYF FI, A BYW FYDDWCH CHWITHAU HEFYD."

Yr ydym newydd golli hen ddiacon ffyddlawn—Mr. T. J., Riwsaeson, yr hwn am dymmor hir fu'n gweini yn ei gylch wrth y bwrdd yma. Y tro olaf i mi ei weled coffaodd, gyda theimlad o orfoledd, eiriau yr Iesu, ychydig cyn ei farwolaeth, wrth ei ddysgyblion athrist, "Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd." Nid rhyfedd iawn oedd i'r dysgyblion ymollwng i drallod calon pan ddeallasant fod eu Hathraw addfwyn ar eu gadael. Eu meddwl oedd y byddent fel plant bychain *amddifaid* yn nghanol gelynion a drygau. Yr oeddynt yn gywir eu barn wrth feddwl y caent orthrymderau yn y byd; ond yr oeddynt yn camgymeryd pan yn meddwl y caent eu gadael yn ddigysur ac yn ddiymgeledd. Ac felly yr oedd yr Iesu yn dweyd wrthynt, "Nis gadawaf chwi yn amddifaid." Hysbysodd iddynt yr anfonai Ddyddanydd arall atynt i'w harwain a'u cysuro —Dyddanydd ffyddlawn a hollbresenol i aros gyda hwy yn barhaus, ac i'w tywys i bob gwirionedd: ac yna ychwanegodd y geiriau melus—"Byw wyf fi, a byw fyddwch chwithau hefyd." Fel pe dywedasai, Yr wyf, fel y dywedais i chwi, i gael fy nhraddodi i'r cenedloedd i gael fy lladd: yr wyf i farw yn aberth er cael trefn i achub pechaduriaid. Yr wyf wedi ymrwymo i roddi fy einioes yn lawn; ac nid wyf am dynu fy ngair yn ol.

Yr wyf am fyned i diriogaeth angeu, er cael meddiant o'i ymerodraeth; yr wyf am ei ddiddymu, er cymeryd gafael yn ei holl agoriadau; ond yr wyf i ddyfod o'r bedd yn fyw, a chewch chwi fy ngweled yn fyw ar ol fy adgyfodiad, cyn i mi esgyn at fy Nhad: "Y byd ni'm gwel, eithr chwi a'm gwelwch:" "canys byw wyf fi, *a byw fyddwch chwithau hefyd.*" Cewch fyw er gwaethaf gorthrymderau y byd; cewch fyw er gwaethaf cynddaredd a dichell Satan; cewch fyw er gwaethaf pla eich calon; rhoddaf ty ngwaed i'ch meddyginiaethu; cewch fyw er condemniad cyfraith y nef, oblegid anrhydeddaf y gyfraith drosoch; cewch fyw er gwaethaf angeu, mynaf eich cyrff o'i feddiant i fwynhau bywyd anfarwol. "Byw fyddwch chwithau hefyd." Yr oedd y fath eiriau o gysur yn werth eu cofio, ac yn werth eu hadrodd: ac yr oedd yn hyfryd iawn i glywed ein hen gyfaill yn eu hadrodd pan oedd yn ymyl marw. Crybwyllodd hefyd mai un o'r pethau cyntaf a effeithiodd ar ei feddwl oedd anerchion ei hen weinidog wrth fwrdd y cymundeb, pan yr oedd ef yn aros ar ol yn y galeri yn mysg yr edrychwyr: ac yr oedd yn dda iawn ganddo drwy ei oes glywed gweinidogion yn daer wrth deulu y galeri; ac yr oedd ei hun yn selog i gynghori y rhai sydd yn cloffi ac yn oedi. Yr ymadrodd am y groes oedd prif destun ei fyfyrdodau drwy dymmor ei broffes; ac yr oedd yn dyfod yn fwyfwy anwyl ganddo drwy wythnosau ei gystudd, ac angeu y groes oedd unig sylfaen ei obaith a'i orfoledd yn ei oriau diweddaf.

"CHWI YW GOLEUNI'R BYD."

Gofal pwysfawr oedd Iesu yn ymddiried i'w ddysgyblion gynt, pan y dywedodd wrthynt, "*Chwi yw goleuni'r byd:*" ac y mae ei eiriau yn deilwng o ystyriaeth ei eglwys yn mhob oes. Y maent yn tybied fod y byd yn gorwedd mewn tywyllwch; fod tywyllwch moesol wedi ymdaenu drosto—dros ei egwyddorion a'i ordinhadau, dros ei deimladau a'i foesau, dros ei deuluoedd a'i lysoedd, a thros ei holl arferion a'i alwedigaethau; a bod y tywyllwch hwnw yn niweidiol i'w hôll gysuron tymmorol ac ysbrydol, yn attaliol i'w drefn a'i ffyniant, ac yn andwyol i eneidiau; a bod y tywyllwch moesol hwnw yn anhawdd ei wasgaru, am fod dynion wrth natur yn caru y tywyllwch yn fwy na'r goleuni, ac felly yn gwneud yr hyn a allont er attal llewyrch y goleuni.

Pe gofynid pa fodd y mae y saint i fod yn oleuni'r byd, gellid ateb yn

1. Trwy fyw eu hunain yn y goleuni. Goleuni derbyniedig sydd ganddynt. Nid ydynt hwy mwy nac eraill yn oleuni wrth

natur. Rhai wedi cael eu goleuo ydynt. Rhai wedi derbyn eu goleuni, ac wedi cael eu gwneud yn oleuni yn yr Arglwydd: ac os ydynt am fod yn oleuni y byd, rhaid iddynt fyw yn y goleuni; rhodio yn y goleuni; aros yn y goleuni, yn nghanol llewyrch Lamp fawr ysbrydoliaeth, dan ddysglaer dywyniadau Haul y Cyfiawnder.

2. Ar ol goleu eu canwyllau, y maent, nid i'w dodi dan lestr, ond mewn lle amlwg, er goleuo i bawb fyddont yn y cyrhaedd. Ac y maent i *gyd*-oleuo. Y mae lamp mam i oleuo mewn teulu yn werthfawr, ond bydd y goleuni yn gryfach pan y bydd lamp y tad yn goleuo yn ei hymyl; a bydd goleuni hyfryd mewn teulu pan y bydd lampau y plant yn cydoleuo â lampau mwy eu rhieni. Y mae un lamp ddysglaer wedi goleuo trwy gylch mawr lawer tro, ond gall dwy lamp oleuo yn mhellach; a dylai eglwys o bedwar cant o aelodau fedru llewyrchu yn gryf ac yn mhell i'r cylchoedd o'i deutu: a dylai eglwysi hen wlad Gristionogol fel Lloegr fedru anfon eu goleuni i gyrau eithaf y ddaear. A dylai eglwysi Crist gydoleuo yn *wastad* ac yn *barhaus;* nid codi eu lampau ambell dro yn uchel uchel i'r awelon, ac wedi hyny eu cuddio am fisoedd dan lestri, ond eu cadw yn *wastad* mewn lle cyfleus i ledaenu eu goleuni.

3. Y mae'r gair *goleuo* yn arwyddo nad ydynt i arfer *trais* i lesâu y byd. Nid trwy nerth arfau ydynt gnawdol yr ydys i daenu goleuni duwioldeb: nid trwy fin y cledd, na thrwy dân y fagnel, na thrwy rwysg byddinoedd, ond mewn modd didrwst a didrais. Peth i ymwasgaru yn ddystaw, ac i weithio yn mlaen i gylch eangach o hyd, ydyw goleuni natur; a chyffelyb ydyw goleuni crefydd. Ond i grefyddwyr lenwi eu lampau â goleuni y nef, a'u codi i leoedd amlwg, goleuant i bawb fydd yn eu golwg. Ac y mae y *cymhelliadau* cryfaf gan ddysgyblion Iesu i oleuo y byd.

1. Dyna ewyllys eu Harglwydd. Dyna *oedd* ei ddymuniad pan oedd gyda hwy yn athrawiaethu. Dyna oedd ei orchymyn iddynt pan oedd ar ddyrchafu oddiwrthynt at ei Dad, a thyna *yw* ei ddymuniad yn awr pan y mae yn eiriol drostynt yn y nef.

2. Dyna'r gymwynas fwyaf, y gwasanaeth penaf fedr dyn wneud yn ei oes. Ped agorai dramwyfa gyfleus drwy wlad anial, byddai yn gymwynaswr i'w wlad. Pe dyfeisiai beiriant nerthol er cyflymu tramwyaeth dros fôr a thir, byddai yn gymwynaswr i'w gyd-ddynion. Pe deuai o hyd i gloddfa gyfoethog o aur neu arian, neu bres neu haiarn, gallai fod yn gymwynaswr i'r byd. Pe cyfansoddai feddyginiaeth anffaeledig at holl anhwylderau y corff, byddai yn gymwynaswr enwog i'w gyd-ddynion; ond y

mae yr hwn a wasgara oleuni ysbrydol drwy gylchoedd ei ddylanwad yn gymwynaswr o uwch cymeriad, ac o werthfawrocach gwasanaeth.

3. Y mae gwobr fawr i'r credadyn am wneud ei ran i oleuo y byd. Caiff ddyddanwch a budd i'w brofiad yn ei waith. Tywyna haul y nefoedd ar ei galon a'i lwybr. Caiff y fraint o adael llewyrch ei esiampl yn y byd ar ei ol, ac felly bydd ei goffadwriaeth yn beraidd. Y mae lampau llawer tad a mam yn goleuo yn y teulu yn hir hir ar ol iddynt hwy gael eu symud i'r bedd; a lamp llawer gweinidog yn llewyrchu yn ei eglwys yn hir ar ol ei farwolaeth. Y mae canwyllau rhai sydd wedi symud i fyd arall er's oesoedd yn goleuo etto. A'r rhai a oleuant fwyaf ar y ddaear, fyddant y ser dysgleiriaf yn y nefoedd.

"AMSEROEDD I ORPHWYS."

Y mae amseroedd gorphwys wedi cael eu mwynhau gan yr eglwys dan wahanol oruchwyliaethau—dan yr Hen Destament yn amser rhai o'r patriarchiaid, ac yn amser Moses a Miriam, Josua ac Eleaser, Debora a Barac, Dafydd a Solomon, Hezeciah a Josiah, Daniel ac Ezra, Esther a Mordecai. Yn yr oes apostolaidd, ar dòriad y bara yn Emmaus; yn yr oruwchystafell yn Jerusalem, pan y daeth yr Iesu i mewn a'r drysau yn gauad; ar ddydd y Pentecost, pan ddisgynodd yr Ysbryd; ac yn eglwysi Ephesus, Corinth, Colosse, Philippi, a Rhufain, pan dan weinidogaeth rhai o'r apostolion.

Ac mewn oesoedd diweddarach, yn amser tadau y tri chanrif cyntaf, ac yn amser Wyckliffe a'r diwygwyr cyntaf, yn amser Luther a'i gyd-lafurwyr; yn amser Owen a Watts a Doddridge, a Baxter a Whitfield a Wesley, ac yn amser rhai o'n tadau a'n mamau ag ydynt newydd fyned adref o eglwysi Cymru. Ac y mae amseroedd gorphwys felly yn rhai annhraethadwy bwysig a gwerthfawr.

Pa bryd y gellir dweyd fod eglwys yn cael amser gorphwys?

1. Pan y bydd trefniadau da, a theimladau da yn yr eglwys. Pan y bydd yno fyfyrdodau melus yn y gair, ymddyddanion cynhes am bethau crefydd, gweddïau taerion wrth yr orsedd, cariad gwresog at gydaelodau, pryder dwys am achubiaeth eneidiau, a gostyngeiddrwydd parod i roddi yr holl ogoniant i Dduw.

2. Teimladau tyner yn mynwesau y rhai *oddiallan*, yn enwedig y rhai ieuainc sydd oddeutu y drws, sef deffroad, ac ystyriaeth, ac ymofyngarwch, ac ysbryd addfwyn hawdd ei drin, ac awyddus i ymgysegru i wasanaethu yr Iesu.

3. Pan y bydd gwrthwynebiad a gwawd anffyddwyr yn gwanychu ac yn colli ei rym. Pan y bydd y gelyn, yn lle dweyd—Pa le mae eu Duw?—yn gorfod dweyd, Y mae Duw gyda hwy. Yn lle dweyd fod eu serch arnynt eu hunain, yn gorfod dweyd fod eu hymarweddiad yn y nefoedd. Yn lle dweyd eu bod yn llawn o genfigen, yn gorfod dweyd, Gwelwch fel y maent yn caru eu gilydd; ac felly, yn lle estyn bys, goganu, gwawdio, a dannod, yn gorfod addef mewn dull effeithiol fod grym a sylwedd mewn gwir grefydd.

4. Pan y bydd drysau llydain yn cael eu hagor o flaen yr eglwys, er taenu o amgylch gysuron a goleuni yr iachawdwriaeth.

Pa beth sydd gan yr eglwys i'w wneud er cael amseroedd gorphwys?

1. Hiraethu am danynt. Nid boddloni ar bethau fel y maent, ar fod yn glauar, ond meddwl a son am amseroedd gwell; myfyrio ar ddarluniadau yr addewidion, a darluniadau hanesion o honynt, ac am eu dedwyddyd, a'u goleuni, a'u gogoniant, nes teimlo hiraeth am eu mwynhau yn llosgi yn y galon.

2. Ymdrechu wrth yr orsedd am eu cael. Cofio mai o ras yr Arglwydd y maent i'w cael, mai llais ei gariad ef, a gwedd ei wyneb ef, a chymdeithas ei dosturiaethau ef sy'n eu gwneud mor hyfryd. Ac ystyried ei barodrwydd i'w rhoddi er mwyn ei anwyl Fab i'r rhai a ymbiliant am danynt.

3. Parotoi y galon, a'r teulu, a'r eglwys i dderbyn eu cysuron santaidd, trwy droi pob eulunod allan, a marweiddio pob ysbryd llygredig, ac ymlanhau, ac ymfywiocâu i groesawu Ysbryd yr Arglwydd.

Pan feddylir am ragorfreintiau yr eglwys yn ein hoes ni, y mae yn achos o alar ei bod yn cael mwynhau can lleied o amseroedd dedwydd y gorphwys: a'r achos o hyny ydyw yr ysbryd sectaidd a chlauar sydd yn yr eglwys; a'r anffyddiaeth a'r gorthrwm, a'r terfysg, a'r rhyfel sydd yn y byd.

O, na fedrid denu mawrion cyndyn a rhyfelgar, cybyddlyd a gwagogoneddgar, i feddwl am werth yr hyfrydwch a allent gael pe ceisient amseroedd i orphwys o olwg yr Arglwydd.

O, mor felus i'r saint fydd yr amseroedd i orphwys yn y nefoedd. Ceir yno orphwysfa *dragwyddol* yn ngwedd wyneb yr Arglwydd.

YR AFRADLON YN GWLEDDA.

Nid anhawdd fyddai i ni ddychymygu beth oedd teimladau yr afradlon pan yn eistedd yn ymyl ei dad, yn nghanol y teulu, a'r fodrwy ar ei law, a'r wisg oreu am dano, wrth fwrdd llawn y wledd, yn swn cynghanedd y croesaw. Yr oedd galar a

llawenydd yn croni hyd yr ymyl yn ei fynwes, ac yn effeithio bob yn ail; ac nid hawdd penderfynu pa deimlad oedd y cryfaf; ond gellir dweyd fod ei lawenydd yn puro ei alar, a bod ei alar yn cryfhau ei lawenydd.

Yr oedd yn *galaru* ei fod wedi anmharchu a digio ei dad, yr hwn oedd bob amser wedi bod mor dda ac mor dirion tuag ato; ond yr oedd yn *llawenhau* am fod ei dad yn foddlon i daflu ei feiau y tu ol i'w gefn, eu hanghofio, a pheidio son am danynt.

Yr oedd yn *galaru* ei fod wedi aros gyhyd yn ngwlad y llygredd a'r gwarth a'r newyn; ond yr oedd yn *llawenhau* nad oedd ddim wedi marw yno, ei fod wedi cofio am fwrdd ei dad, ac wedi codi a throi adref.

Yr oedd yn *galaru* ei fod wedi gwario cymaint o'i eiddo a · o'i nerth mewn dull mor afradlon; a'i fod wedi myned mor dlawd, ac mor wael ei ddrych: ond yr oedd yn *llawenhau* fod gan ei dad ddigon ar ei gyfer, a digon o'r pethau goreu—y fodrwy, a'r wisg, a'r esgidiau, a'r wledd, a'r delyn.

Yr oedd yn *galaru* ei fod wedi gwneud ei ran i dristâu a therfysgu a difrïo a chaledu y teulu, drwy ei ymddygiad balch yn troi allan ac yn cefnu arnynt; ond yr oedd yn *llawenhau* eu gweled mor llawen ac mor groesawgar wrth ei dderbyn yn ol, ac am fod gobaith ganddo am gyfleusderau i fod er cysur iddynt o hyn allan. Yr oedd yn *galaru* ei fod wedi rhoddi achos i elynion y teulu i wawdio a chablu; ond yr oedd yn *llawenhau* mewn gobaith i allu cyfiawnhau ac amddiffyn cyfreithiau ei dad a holl drefn ei dŷ, ac felly i ddystewi goganair y gelyn.

Dylai *cymysg* deimladau felly lenwi ein calonau ninnau pan yr ydym yn cael eistedd fel hyn o gylch bwrdd ein Tad. Dylem alaru wrth feddwl am ein gwrthgiliadau a'n hafradlonedd a'n hanniolchgarwch; a llawenhau wrth feddwl am ei faddeugarwch, a golud ei dosturiaethau, ac fel y mae yn rhedeg i gyfarfod yr afradlon ac yn ei gofleidio; dylem lawenhau wrth feddwl am rinweddau iachaol a glanhaol ffynnon Calfaria, ac am harddwch y wisg wen, cyfiawnder Iesu, ac am yr arlwyadau sydd ar fwrdd llawn yr efengyl; ac am lawenydd y teulu trwy'r nefoedd wrth ein gweled yn nesu at fwrdd y wledd: a dylem ryfeddu byth fod yr Iesu wedi cyfryngu er mwyn i ni gael y fath roesaw. Bu ef yn wylo, er i ni gael llawenhau. Bu ef mewn ing yn chwysu, er i ni gael gorphwys. Bu ef farw i ni gael byw.

MERCHED IEUAINC YN DYFOD I'R EGLWYS.

Y mae pedwar peth yn myned drwy fy meddwl yn awr wrth weled y merched ieuainc hyn yn dyfod yn mlaen at y bwrdd—

1. Yr wyf yn gwybod fod yn anwyl iawn ganddynt am eu hathrawon yn yr Ysgol Sabbathol. Y mae cynghorion eu hathrawon wedi bod o les a chysur iddynt; ac y mae hyny yn brawf adnewyddol nad â addysgiadau crefyddol ddim yn ofer. Y mae hefyd yn llawen iawn gan eu hathrawon eu croesawu i'r eglwys; yr hyn sydd yn profi fod cydymwneud â phethau crefydd yn magu anwyldeb o'r fath buraf ac o'r fath gryfaf.

2. Darfu i eiriau a gweddïau perthynasau anwyl ydynt wedi meirw effeithio yn ddwys ar rai o honynt. Y mae hyny yn anogaethol iawn i rïeni duwiol, am ei fod yn amlygiad y gall eu gweddïau gael eu hateb, a'u cynghorion ddylanwadu er daioni yn eu teuluoedd, pan y byddont hwy wedi dystewi yn y bedd.

3. Yr wyf yn deall fod y merched ieuainc hyn yn hoff iawn o gymdeithas eu gilydd, eu bod yn hoffi cael hamdden i gydymddyddan am eu profiadau a'u bwriadau wrth ddyfod i'r Ysgol ac i'r gyfeillach grefyddol; a'u bod wedi bod o gymhelliad ac o galondid i'w gilydd; a'u bod yn teimlo pryder rhag y buasai rhyw amgylchiad yn lluddias iddynt gael eu derbyn oll gyda'u gilydd. Y mae hyny yn dysgu i ni fod cyfeillach rhai â'u gilydd, ac yn enwedig os byddant oddeutu yr un oed, yn sicr o ddylanwadu er da, neu er drwg. Nid oes dim modd i ieuenctyd gyfeillachu â'u gilydd heb naill ai calonogi eu gilydd ar y ffordd tua'r nef, neu galedu eu gilydd ar y ffordd tua dinystr. Gobeithio y bydd i'r merched ieuainc hyn barhau i fod er cymhorth i'w gilydd yn y pethau mwyaf eu pwys. Dichon y cânt eu chwalu yn mhell oddiwrth eu gilydd yn amgylchiadau y byd cyfnewidiol a darfodedig hwn: ond hyderwn y bydd yn ddedwydd iawn iddynt adnewyddu eu cyfeillach mewn byd gwell; ac y bydd yr adgofion am eu cyd-ymddyddanion trwy y misoedd diweddaf yn ddyddanwch diddarfod iddynt.

4. Y mae llawer mwy o *ferched* nag o *feibion* wedi cael eu derbyn i'r eglwys yn y misoedd diweddaf. Y mae cryn nifer o ferched ieuainc yn awr yn aelodau o'r eglwys yma. Y mae ganddynt eu serchiadau a'u doniau a'u dylanwad. Gallant, ond iddynt gydfyfyrio, a chydymddyddan, a chydweddïo, wneuthur llawer er cyfoethogi a melysu ein cyfeillachau crefyddol; a byddai hyny yn debyg o'u parotoi at ddefnyddioldeb helaethach yn yr amser a ddaw. Nid oes dim mewn ymddyddanion duwiol am wirioneddau y Beibl yn anghyson â'r gwylder boneddigaidd ac addfwyn sydd i addurno eu cymeriad. Nid wyf yn gwybod am ddim yn yr efengyl i wahardd iddynt chwilio am gyfleusderau i weddïo gyda'u gilydd. Gall hyny brofi o nerth mawr iddynt pan dan ofalon, a dichon mewn cystuddiau, wrth fagu teuluoedd. Y

mae rhai o ferched ieuainc uchaf y deyrnas yn ymhyfrydu i ddarllen y Beibl, ac i ymddyddan am bethau crefydd, a gweddïo wrth erchwyn gwely y claf anghenus. Y mae yn hyfryd eu gweled yn estyn eu helusen i chwaer dlawd, gan weddïo ar yr un pryd am iachawdwriaeth ei henaid.

Y mae eich teimladau chwi *heddyw*, wrth gael eich derbyn i'r eglwys, yn dyner ac yn gynhes. Nid oes dim rhaid i'ch calon oeri na chaledu ar ol hyn. Ni bydd dim o du yr Iesu i beri i chwi ymadael â'ch cariad cyntaf: ac ond i chwi gymdeithasu yn fynych â dyoddefiadau Crist, a glynu wrth ei orsedd, gall eich calon fyned yn gynhesach a'ch llwybr yn oleuach o hyd, nes i chwi gyrhaedd gwlad y cariad a'r purdeb.

TESTUNAU LLAWENYDD A DIOLCH.

Y mae testunau llawenydd gan yr eglwys yma, a dylai eu cydnabod gyda theimladau gwylaidd a diolchgar.

1. Ymddengys llawer o arwyddion ysbryd myfyrgar ac ymofyngar yn mysg ieuenctyd ein hardal, a bod difrifoldeb yn eu meddiannu wrth ddiwyd ddilyn y moddion.

2. Y mae cryn nifer o honynt wedi ymuno â'r eglwys, yn ystod y ddwy flynedd ddiweddaf; ac wedi cael y fraint hyd yma o lynu yn eu proffes; a gobeithio eu bod am "chwanegu cryfder."

3. Y mae swyddogion a hen aelodau yr eglwys, yn ystyriol o bwys eu cyfammod eglwysig, ac o'u mynych addunedau, yn bryderus am geisio gwasgu ystyriaeth o bwys pethau tragwyddol at galonau ieuenctyd, fel y gallont drwy hyny ennill eneidiau at Grist.

4. Y mae y mamau a'r chwiorydd yn effro ac yn fywiog, yn teimlo fod rhan arbenig o'r gwaith yn perthyn iddynt; ac y mae y teimlad hwnw yn effeithio er daioni mewn teuluoedd ac yn yr eglwys.

5. Yr ydym yn gobeithio fod tri o gamgymeriadau, ag ydynt wedi bod yn dra niweidiol mewn llawer cylch crefyddol, yn colli eu grym a'u heffeithiolaeth—sef, y gall dyn gymhwyso ei hun i ddyfod at yr Iesu i gael ymgeledd; y rhaid i ddyn gael boddhad ei fod yn dduwiol cyn cychwyn proffesu; a bod yr eglwys i aros heb weithio nes cael sicrwydd fod yr Ysbryd yn gweithio. Dyledswydd eglur pob dyn a phob eglwys ydyw ymroi i wneud yr hyn a orchymynwyd iddynt, gan ymddiried yn ffyddiog i'r Arglwydd y gofal o gyflawni ei addewidion.

YR YSBRYD YN DWYN AR GOF.

Un o ymadroddion dyddanol yr Iesu wrth ei ddysgyblion, pan oedd ar ymadael oddiwrthynt, oedd, "Y Dyddanydd, yr Ysbryd

Glan, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi yr holl bethau, ac a ddwg ar gof i chwi yr holl bethau a ddywedais i chwi." Y mae ei eiriau yn arwyddo mai yn enw yr Iesu, hyny yw, ar sail ei aberth a'i eiriolaeth, yr oedd yr Ysbryd i ddyfod; ac y byddai iddo aros yn yr eglwys; ac mai y gangen benaf o'i waith fel Dyddanydd fyddai dwyn i gof y dysgyblion y pethau a ddywedasai yr Iesu wrthynt. Dichon fod yr Ysbryd weithiau yn defnyddio y pethau a lefarwyd gan batrieirch a phrophwydi i fod er goleuni ac er cysur i'r credadyn: gall ddefnyddio Salmau a gweddïau a ffeithiau oesau yr Hen Destament i fod er lles i'r eglwys; ond hanes bywyd ac aberthiad yr Iesu, hanes ei weinidogaeth ef, ei eiriau grasol, a'i ddyfnion ddyoddefiadau, ydyw y moddion penaf y mae'r Ysbryd yn ddefnyddio er argyhoeddi, a goleuo, a thyneru, ac ennill calon pechadur, ac er ei adeiladu yn y ffydd, a'i ddyddanu yn mhob gorthrymderau. Yr hyn a ddywedodd, a wnaeth, ac a ddyoddefodd yr Iesu sy'n argraffu gwerth ar yr oll a lefarodd ac a wnaeth yr hen dduwiolion. Yr hyn a ddywedodd ac a wnaeth ac a ddyoddefodd yr Iesu sy'n dangos priodoliaethau y Duwdod yn eu gogoniant dysgleiriaf. Yr hyn a ddywedodd ac a wnaeth ac a ddyoddefodd yr Iesu ddarfu anrhydeddu a mawrhau cyfraith a llywodraeth y nef. Yr hyn a ddywedodd ac a wnaeth ac a ddyoddefodd yr Iesu sy'n dangos annhraethol ddrwg pechod; ac yn dangos ar yr un pryd fod modd i gyfiawnhau yr euog edifeiriol a'i godi i wynfyd.

Y mae'n dda gan yr Ysbryd gymeryd o'r eiddo Crist a'i hysbysu i deulu y nef, ac i'r eglwys ar y ddaear. Y mae yn dda gan saint y nef fynegu i'w gilydd am yr hyn a wnaeth ac a ddywedodd ac a ddyoddefodd yr Iesu. A bydded ei fod yn benderfyniad sefydlog genym ninnau i ymddyddan â'n gilydd am yr hyn a wnaeth ac a ddywedodd ac a ddyoddefodd yr Iesu, fel yr eglurer ei fywyd ef yn ein marwol gnawd ni, sef drwy ein cymdeithas â'i ddyoddefiadau, drwy ein hymddyddanion am lawn ei groes, a thrwy ein gwroldeb a'n gorfoledd mewn gorthrymderau er mwyn ei enw a'i achos.

"GWYBOD CARIAD CRIST."

Gweddi gref gynhes oedd gweddi Paul ar ran yr Ephesiaid, pan y dywedodd—"O herwydd hyn yr wyf yn plygu fy ngliniau at Dad ein Harglwydd Iesu Grist, o'r hwn yr enwir yr holl deulu yn y nefoedd ac ar y ddaear, ar roddi o hono ef i chwi, yn ol cyfoeth ei ogoniant, fod wedi ymgadarnhau mewn nerth drwy ei Ysbryd ef, yn y dyn oddimewn; ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonau chwi; fel y galloch, wedi eich gwreiddio a'ch

seilio mewn cariad, amgyffred gyda'r holl saint, beth yw y lled, a'r hyd, a'r dyfnder, a'r uchder; a gwybod cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth, fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw."

Dyna weddi fèr, *fawr;* o galon fawr; yn cynnwys dymuniadau mwy na digon i lenwi calon yr angel hynaf a mwyaf sydd yn y nefoedd. Gellid meddwl, ar yr olwg gyntaf, fod enaid mawr Paul, er eanged ei amgyffredion, yn ymylu ar *anghysondeb,* pan oedd am iddynt "wybod cariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw gwybodaeth." Pan feddylir am dano fel cariad hunangynhyrfiol, diddechreu a diddiwedd, a digyfnewid; am ei angerddol nerth yn llosgi pob rhwystrau o'i flaen; am werth a rhinwedd a rhyfeddodau yr Iawn a ddarparodd; am amledd a dwfn drueni yr eneidiau a ymgelcddodd; am gyflawnder yr iachawdwriaeth a drefnodd; am ogoniant y lle y mae yn barotoi i'r ffyddloniaid; ac am y gogoniant a ddeillia i Dduw fel ffrwyth ei gariad, y mae uwchlaw gwybodaeth. Nid oes na dyn nac angel all wybod na'r lled na'r hyd, na'r dyfnder na'r uchder; ond er hyny, yr oedd Paul am i'r saint oedd yn Ephesus, ac yn mhob man arall, feddwl am ei ryfeddodau, a byw ar ei drysorau, a gwledda ar ei ffrwythau melusion, ac anadlu ei beraroglau, fel y byddai Crist yn trigo trwy ffydd yn eu calonau, fel y byddent yn gadarn a nerthol yn y dyn oddinewn, fel y byddent wedi eu gwreiddio a'u seilio mewn cariad, fel y byddent yn gallu ehedeg ar adenydd ffydd, yn nghymdeithas yr holl saint, yn eangderau annherfynol awyr cariad yr Iesu, gan ryfeddu a mawrygu ei led a'i hyd, a'i ddyfnder a'i uchder, a chan ymgodi ynddo uwch uwch, nes cael gorphwys a chartrefu ac ymddedwyddu byth yn nghanol ei oludoedd a'i ryfeddodau.

Beth yw ein barn *ni* am ei gariad, ac am waith ei gariad yn dyfod i lawr o lys y nef, yn marw ar y groes, yn esgyn i eiriol, ac yn cynnyg ein cwbl iachâu! A beth ydyw ein teimlad ni tuag ato? A ydym ni yn ei garu ef am iddo ef yn gyntaf ein caru ni? A ydym yn ei garu uwchlaw pawb a phob peth? A ydym yn tawel bwyso ar ei Iawn fel ein Harchoffeiriad mawr? A ydym am ufuddhau iddo fel ein Brenin? A ydym am ddysgu ganddo fel ein Hathraw? A ydym am godi ei enw a'i achos goruwch ein llawenydd penaf? Os hyn yw ein barn, a'n teimlad, a'n dymuniad, y mae ef yn eiddo i ni, ac yr ydym ninnau yn eiddo iddo yntau.

"CODWCH, AWN ODDIYMA."

Mae'n debyg mai geiriau olaf Crist wrth godi i fyned allan o ystafell y swper santaidd oedd—"Codwch, awn oddiyma." Mynyd rhyfedd oedd hwnw. Yr oedd yr Iesu wedi bod yn bwyta

y Pasg diweddaf gyda'i ddysgyblion; wedi bod yn eu dysgu yn y modd addfwynaf, yn eu rhybuddio yn y modd ffyddlonaf, yn eu dyddanu yn y modd caredicaf; ac yna, wele ef yn codi yn dawel, ac yn dweyd mewn modd gwrol, "Codwch, awn oddiyma." Gwyddai i ba le yr oedd yn myned. Gwyddai am y gwaith oedd o'i flaen. Gwyddai fod ei ddyoddefaint yn ymyl—fod yr ymdrech, a'r wasgfa, a'r ing yn ymyl; fod awr y frwydr fawr â galluoedd uffern wedi dyfod: gwyddai ei fod i sefyll dan y baich trymaf, i oddef y bedydd gwaedlyd, ac i'w aberthu ei hun yn ddifai i Dduw fel Iawn dros gamwedd. Yr oedd wedi sefydlu y swper ag oedd i fod yn gof am ei angeu dros holl oesau y ddaear. Yr oedd y bradwr wedi myned allan. Yr oeddynt newydd ganu yr hymn: a dacw ef yn cychwyn i fyned tua'r ardd i weddïo ddyfalach ddyfalach. Yr oedd Judas ac awdurdodau yr Iuddewon yn brad-fwriadu yn ei erbyn. Yr oedd uffern oll yn ymarfogi; a'r cwpan chwerw wedi ei gymysgu, a chleddyf ei Dad wedi deffroi, ac angylion yn sefyll draw mewn syndod. Gallesid dysgwyl iddo lesmeirio, i'r dychrynfeydd oedd o'i flaen ei orchfygu; ac iddo gilio yn ol i ryw anial le, o olwg y byd, ac o gyrhaedd y frwydr: ond nid felly y bu. Gwelwn ef ar ddiwedd y gân yn codi yn dawel, ac yn dywedyd wrthynt hwythau, "Codwch, awn oddiyma." Dichon eu bod hwy bron yn anewyllysgar i ymadael oddiwrth y bwrdd, ac o'r ystafell lle yr oeddynt wedi clywed geiriau y fath addysg a'r fath ddyddanwch; ac felly bod yn ofynol iddo ddweyd, "Codwch, awn oddiyma."

Yr ydym ni yn awr yn cael cyfle adnewyddol i gofio am ei wroldeb ac am ei ffyddlondeb. Ond y mae ein sefyllfa ni yn wahanol iawn i sefyllfa yr unarddeg y noson hòno. Mae ei ing yn awr drosodd. Mae'r frwydr wedi ei hymladd, a'r fuddugoliaeth wedi ei hennill. Mae gwaddod y cwpan wedi ei yfed. Mae uffern wedi ei baeddu, a'r Iawn wedi ei dalu, a'r gair "gorphenwyd" yn adseinio drwy'r nefoedd a'r ddaear. O lafur ei enaid y gwel ac y diwellir. Efe a wel ei had cyn amled a'r gwlith o groth y wawr. Efe a wel ei elynion oll wedi eu darostwng. Efe a ddwg farn i fuddugoliaeth, â ei deyrnas yn ben moliant dros y ddaear; a bydd tyrfa na ddichon neb ei rhifo yn eu gwyn, ar ei ddeheulaw yn y farn; ac yn canu iddo byth yn y nefoedd.

Cofiwn ein bod ni yn awr, wrth estyn ein llaw at arwyddion ei angeu, yn adnewyddu ein *llw* i fod yn ffyddlon iddo. Yr ydym wedi bod yn "canlyn o hir bell" drwy y flwyddyn aeth heibio. Cydaddunedwn yn awr i'w ganlyn yn agosach os cawn flwyddyn etto yn ei wasanaeth. Mae'n dyled iddo yn annhraethol fawr. Y mae yn deilwng o'n holl serchiadau ac o'n holl alluoedd.

Edrychwyr—Mae'r Iesu yn dweyd wrthych chwi, "Gwnewch hyn er coffa am danaf." Mae lle i chwi wrth ei fwrdd. Mae rhin yn ei waed i'ch glanhau. Mae cyfoeth yn ei drysordy ar eich cyfer. Gobeithio fod yma rai am benderfynu peidio oedi dim yn hŵy.

DAW YR AIL WAITH HEB BECHOD.

Wrth dderbyn aelodau.—Yr ydych heddyw yn cymeryd arnoch iau Iesu Grist i weithio ar ei faes gyda'i bobl. Yr ydych yn dyfod i'w ysgol i eistedd wrth ei draed i ddysgu ganddo. Yr ydych yn dyfod i gartrefu yn ei dŷ, ac i eistedd wrth ei fwrdd i wledda ar ei aberth. Yr ydych yn dyfod i gyfammod âg ef ac â'i deulu; ac yr ydych yn myned i selio y cyfammod trwy estyn eich llaw at arwyddion ei gorff a'i waed. Y mae yma lawer heddyw wedi gwneud hyny ugeiniau o weithiau, ac y maent wedi dyfod yma yn awr i adnewyddu eu cyfammod. Gwaith hyfryd yw ymrwymo, ac *ail* ymrwymo i fod yn eiddo i'r Iesu, os byddir yn ei garu. Yr wyf yn awr, dros yr Eglwys, i roddi i chwi "*ddeheulaw cymdeithas.*" Y mae hyny yn arwyddo mwy na'r ddefod o siglo llaw wrth gyfarfod ar y ffordd. Y mae yn arwydd o berthynas rhyngoch â theulu Duw. Y mae yn arwydd, o'n tu ni, o groesaw i chwi ddyfod i mewn i gyfranogi o wleddoedd ac o holl freintiau y tŷ. Y mae yn arwydd, o'ch tu chwi, eich bod yn dyfod dan rwymau cyfraith a dysgyblaeth y tŷ. Y mae yn arwydd hefyd o gyfeillgarwch rhyngom, ac o fwriad i fod yn ffyddlawn i'n gilydd. Cofiwch nad yw yr arwyddion ddim yn ddigon. Rhoddwch eich calon i'r Iesu; ymnerthwch yn ei ras, pwyswch ar ei Iawn, eisteddwch wrth ei fwrdd, gyda'i deulu: a gobeithio y cewch chwi a ninnau gartrefu byth gyda'r teulu mawr yn nhŷ ein Tad.

Y mae'r Iesu wedi ei offrymu ei hun unwaith yn niwedd y byd, i ddileu pechod; ac y mae wedi myned i'r gwir gysegr i weini fel archoffeiriad y tu fewn i'r llen. Nid oedd raid iddo ei offrymu ei hun ond "unwaith." Yr oedd taenelliad ei waed *unwaith* yn ddigon i dawelu yr orsedd daullyd, ac yn ddigon hefyd i buro cydwybod euog. Ac ar ol dwyn i ben ei waith gogoneddus yn y nef, "ymddengys yr ail waith *heb bechod*," hyny yw, heb bech-aberth. Daw yr ail waith, nid i wneud ail Iawn, nid i'w offrymu ei hun, nid i estyn ei law ar ol pechaduriaid, ac i ddweyd, "Deuwch ataf fi bawb a'r y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch." Daw yr ail waith, nid i hulio bwrdd, ac i ddweyd, "Gwnewch hyn er coffa am danaf," ond daw i wneuthur barn, daw i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn ofnadwy yn

ninystr tragwyddol y rhai fyddant wedi gwrthod ei efengyl. Y mae rhai yn edrych ar broffesu crefydd a chymuno yn beth o fychan bwys: ond nid peth o fychan bwys fydd yn eu golwg pan y daw yr Iesu â thân fflamllyd i roddi dial ar yr anufuddion.

GOGONIANT A NERTH GRAS.

1. Bod yn ostyngedig ac yn ddyfal, yn daer ac yn ffyddiog wrth yr orsedd, yn gafaelyd yn nerth Duw, ac yn ymdrechu am y fendith.

2. Bod ei haelodau yn llawn o gariad tuag at eu gilydd, yn ffyddlawn i'w gilydd, ac yn ymestyn am fod oll yn un, fel y credo y byd eu bod yn ddysgyblion i'r Iesu.

3. Bod yn ddiwyd yn y cynnulliadau eglwysig, ac yn astud gyda phob cangen o'r moddion, er gallu sugno cynnaliaeth a chysuron o ffynnonau yr iachawdwriaeth.

4. Anrhydeddu cyfraith y tŷ trwy gadw y ddysgyblaeth yn bur.

5. Astudio a llafurio i fod yn ddoeth i ennill eneidiau: defnyddio pob dawn a'r a feddom, a phob cyfleusdra yn ein cyrhaedd, i ennill ein cymydogion sydd heb Grist i ddianc o'r perygl i ymlochesu dan ei groes.

6. Bod yn hael ac yn egnïol i gynnorthwyo er anfon yr efengyl dros y byd, er i'r paganiaid gael gwybod am ffordd iachawdwriaeth trwy waed yr Oen.

"I MI Y GWNAETHOCH."

Pan y mae'r Iesu yn darlunio golygfeydd gogoneddus y dydd diweddaf, y mae yn crybwyll y bydd i'r Brenin, wrth arddel gwasanaeth torf hardd ddedwydd y ddeheulaw, ddywedyd wrthynt, "Yn gymaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch."

Tra yr ydym i ddysgu fod pob gweithredoedd o hunangyfiawnder yn anghymeradwy, yr ydym ar yr un pryd i resymu y dylid gweithio dros Grist, ac y bernir pawb yn ol eu gweithredoedd. Y mae geiriau y Brenin wrth y ddwy dorf yn y farn yn dysgu yn

1. Fod pawb yn gweithio. Fod gan bawb eu gweithredoedd. Fod gweithredoedd pawb yn amlygiad o'u cymeriad, yn ddangosiad o'u hochr, yn ffrwythau gweledig o'r gwreiddyn anweledig sydd yn eu calon. Fod gweithredoedd pawb yn effeithio yn mhellach na hwy eu hunain, yn effeithio ar deimladau teulu y nefoedd, ac ar eu cyd-ddynion er drwg neu er da, ac hefyd ar eu holoeswyr. A bod gweithredoedd pawb i'w canlyn i'r farn, i'w cyfarfod yn nydd y cyfrif, ac i gael eu barnu yno ger bron pawb.

2. Fod pob gweithio da efengylaidd yn weithio i Grist—"I mi y gwnaethoch." Buasai yn dda gan lawer yma gael cyfle i roi bwyd i'r Iesu, i roi diod iddo yn ei syched, i weini iddo pan yn glaf, i sychu ei chwys a'i ddagrau, i olchi ei draed, ac i fyned ato i'r carchar. Ni cheir dim cyfle i wneud cymwynasau felly âg ef *yn bersonol*, ond gellir gwneud iddo wasanaeth o gymaint gwerth yn ei olwg ag unrhyw gymwynasau iddo ef yn bersonol. Y mae ef o ran ei berson yn awr yn uchel o'n golwg ni, ar ei orsedd, yn nghanol saint ac engyl y nef, yn swn telynau gogoniant. Ond gellir etto ar y ddaear weithio iddo. Gweithio er boddhad a hyfrydwch i'w feddwl pur. Gweithio er llwyddiant ei achos, er lledaeniad ei deyrnas. Gweithio er adeiladaeth ac er cysur ei bobl: ac nid rhyfedd fydd iddo ddweyd wrth y gweithwyr ffyddlawn yn y diwedd—"I *mi* y gwnaethoch." Pe b'ai rhyw un mewn modd caredig yn noddi plentyn mewn perygl, neu yn ei dywys o ddyrysni, dywedai tad y plentyn wrth y cymwynaswr, "I mi y gwnaethost." Ped ymgysegrai dyn i wneuthur gwasanaeth o bwys mewn teyrnas, dywedai y Brenin wrtho yn ngwydd ei holl lys, "I mi y gwnaethost." Pe neidiai un yn mlaen yn mhoethder brwydr i gymorthwyo milwr fyddai mewn perygl o fyned dan draed y gelyn, dywedai y maeslywydd wrth y cyfryw yn nydd rhanu'r yspail, "I mi y gwnaethost." Ac felly y dywed yr Iesu yn y diwedd, wrth holl bleidwyr ei achos, a chymwynaswyr ei bobl, "I mi y gwnaethoch."

3. Fod yr annogaethau cryfaf genym i ymroi i weithio i Grist. Y mae yn un caredig, urddasol, cyfoethog. Y mae ef wedi gweithio yn ffyddlawn yn ein hachos ni—nid yn unig wedi anturio ei fywyd, ond wedi rhoddi ei fywyd i lawr er ein mwyn ni. Y mae yn sylwi ar bawb sy'n gweithio iddo, ac yn cadw cyfrif o'u gweithredoedd. Ac y mae yn sicr o arddel a gwobrwyo eu gweithredoedd; a chânt weled fod gwobr *fawr* ar eu cyfer pan y codir hwy i eistedd ar eu gorseddfeinciau ar ei ddeheulaw, a phan y gwahoddir hwy i feddiannu y deyrnas a barotodd efe iddynt er seiliad y byd.

A oes genym *ni* sail i obeithio y cawn ni glywed y Barnwr yn dywedyd wrthym yn y dydd mawr gogoneddus diweddaf, "Yn gymaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai hyn, fy mrodyr lleiaf, i mi y gwnaethoch."

"Gorfoledda y ffyddloniaid,
A'u llawenydd fydd yn llawn;
Daw eu Prynwr mawr bendigaid,
A'u Gwaredwr anwyl iawn:
Haleluia,
Gwisgant eu coronau hardd."

DERBYN SAITH O FERCHED IEUAINC.

Yr ydych yn cael y fraint o ymroddi yn lled gynnar at achos yr Arglwydd. Yr ydym yn hyderu eich bod am adnabod y gwir; eich bod am ddyfod mewn modd cywir. Gellir ymgadw oddiwrth bechodau gwarthus, a gwrando'r gair yn rheolaidd, a theimlo weithiau dan y gair, a phleidio llawer cangen o achos yr Iesu, ac ennill gair da dynion, ac etto heb fod yn ddilynwyr *cywir* i'r Iesu. Byddai yn lled hawdd i ni ddweyd wrthych chwi rai o nodau y crefyddwyr *cywir*. Y maent yn ofni pob twyll, a thwyll eu calon yn fwy na dim. Y maent fel y publican a'r afradlon, fel Dafydd ac fel Pedr, yn galaru am bechod; ac â chalonau drylliog yn ymbil am faddeuant. Y maent yn caru cynteddau ac ordinhadau a deddfau tŷ yr Arglwydd, ac am wneud eu *cartref* yno, fel aelodau o'r teulu, fel cyd-ddinasyddion â'r saint. Y maent yn foddlon i ymadael â phob gau-blesereau er mwyn pleserau crefydd. Y maent yn caru meddwl am haeddiant croes Crist; a'i Iawn ef ydyw eu holl hyder, a'u holl ymffrost, a'u holl orfoledd. Y maent mor ofalus am grefydd y meddwl o olwg dynion, ag ydynt am grefydd yr ymddygiad yn ngolwg dynion. Y maent yn hiraethu am i eneidiau gael eu hachub, ac i'r Iesu gael teyrnasu dros yr holl fyd.

Clywsoch rai o dadau a mamau yr eglwys neithiwr yn y cyfarfod parotoad yn dweyd eu barn a'u teimlad am eu Meistr mawr a'i dŷ, a'i fwrdd, a'i wasanaeth, a'i wobr. Yr oedd rhai o honynt wedi bod yn ei wasanaeth am dros hanner can' mlynedd. Yr oeddynt yn tystio fod ei enw a'i wasanaeth yn anwylach ganddynt bob mis. Cawsoch gynghorion gwerthfawr ganddynt. Cedwch eu cynghorion yn eich cof ac yn eich calon. Gallai fod yn fuddiol i chwi eu *hysgrifenu mewn llyfr*, er cymhorth i chwi eu cofio a'u cadw. Nid edifarhewch ddyfod at waith yr Iesu, pa un bynag ai oes fèr ai oes faith fydd i chwi, pa un bynag ai dyddiau o gystudd ai dyddiau o iechyd ddaw i'ch rhan. Y mae yr eglwys yn eich croesawu gyda llawenydd i'w chymdeithas. Yr ydym yn hyderu hefyd fod llawenydd yn y nef eich gweled yn cymeryd iau Crist arnoch; a bod eich henwau wedi cael eu hysgrifenu yn y nef yn llyfr bywyd yr Oen. Ni wyddoch pa amgylchiadau all fod o'ch blaen, pa gylchoedd fydd genych i'w llenwi; ond gellwch fod yn benderfynol na wna crefydd, gwir grefydd, ddim drwg i chwi mewn unrhyw sefyllfa nac unrhyw amgylchiad. Gobeithio y cewch fyw a marw â'ch pwys ar yr Iesu, ac y cewch fod ar ei ddeheulaw yn y farn a ddaw, ac yn ei gymdeithas ef a'i holl deulu mawr byth yn y nef.

GWEDDI Y DYN DALL.

Pan ddeallodd y dyn dall yn ymyl Jericho, fod Iesu o Nazareth yn myned heibio, efe a lefodd, gan ddywedyd, "Iesu, Fab Dafydd, trugarha wrthyf. A'r rhai oeddynt yn myned o'r blaen a'i ceryddasant ef i dewi: eithr efe a lefodd yn fwy o lawer, Mab Dafydd, trugarha wrthyf." Ac nid edifarhaodd iddo lefain ar yr Iesu am drugaredd, ac iddo barhau i lefain uwch uwch, er gwaethaf y rhai oeddynt yn ceisio ei rwystro. Ni siomwyd ei weddi. Clybu yr Iesu ei lef, hoffodd daerineb ffyddiog ei gri. Yr oedd yn dda iddo na wrandawodd ar y rhai oeddynt yn ceisio ei geryddu i dewi. Cafodd ei olwg, a ffafr y Gwaredwr. Dilynwch chwithau ei esiampl yn awr wrth ddyfod at grefydd, ac o'hyd wrth fyned yn mlaen drwy eich oes. Y mae eisieu cymhorth yr Iesu arnoch. Nid oes neb arall all eich meddyginiaethu. Yr ydych wedi clywed am ei allu a'i ewyllysgarwch. Y mae yn myned heibio yn eich ymyl. Llefwch arno am iddo drugarhau wrthych. Ac os bydd nwydau calon ddrwg am eich ceryddu i dewi, llefwch yn fwy o lawer. Os bydd cyfeillion llygredig am eich ceryddu i dewi, llefwch yn fwy o lawer. Os bydd angylion drwg, neu hudoliaethau y byd am eich temtio neu eich dychrynu i dewi, llefwch yn fwy o lawer. Llefwch yn uwch ac yn daerach, ac yn amlach; llefwch nes gorchfygu lleisiau y byd; llefwch nes dystewi gogan gelynion; llefwch nes cael y fendith; ac ymwthiwch, fel y dall gynt, ar ol yr Iesu, gan ryfeddu a chanmol ei dosturiaethau. Ond i chwi lynu wrth yr orsedd cewch wrandawiad. Ond i chwi ddiwyd chwilio yr ysgrythyrau cewch eu dyddanwch. Ond i chwi gymeryd atoch holl arfogaeth yr efengyl, a bod yn ffyddlawn yn y filwriaeth, byddwch fwy na choncwerwyr yn y diwedd.

CYNGHOR I FERCH IEUANC AR GYCHWYN ODDICARTREF.

Yr oedd yn dda iawn genym ddeall eich bod mor bryderus am gael eich derbyn i'r eglwys cyn i chwi adael tŷ eich tad: eich bod am fyned i'ch cartref newydd dan y cymeriad o fod yn aelod eglwysig, ac yn ddysgybl i'r Iesu. Ni wna bod dan iau Iesu Grist ddim rhwystr i chwi gydag unrhyw ofal yn eich cylch newydd. Bydd eich sefyllfa yn wahanol iawn i'r hyn oedd pan oeddych gyda'ch rhieni gartref. Os bydd genych grefydd gyson ddirodres, bydd pobl ddigrefydd eich cylch newydd yn sicr o'ch parchu; ond ni ennillwch ddim parch oddiwrth y rhai mwyaf digrefydd drwy i chwi wadu eich crefydd. Y mae pobl mwyaf cellweirus ein hoes yn bur graff. Gwyddant yn dda beth ydyw y ffydd ddiffuant, beth ydyw proffes ddidwyll, beth ydyw bywyd

anrhydeddus a diargyhoedd; ac y mae eu calonau yn gorfod eu parchu pa le bynag y byddont. Gwyr y diafol eich bod yn symud o gyrhaedd gofal eich rhïeni a sylw eich hen gyfeillion, a gwna ei oreu i'ch rhwystro a'ch maglu yn union ar eich symudiad. Bydd sylw mwy na chyffredin ar eich mynediad i'ch cylch newydd. Bydd crefyddwyr dyeithr i chwi yn sylwi arnoch, a dichon y bydd goganwyr crefydd yn sylwi arnoch. Ceisiwch hamdden i ysgrifenu ychydig eiriau yn lled reolaidd at eich rhïeni. Bydd yn dda ganddynt glywed am eich cysur; ac yn enwedig bydd yn llawenydd iddynt ddeall eich bod yn glynu yn eich proffes. Ac os cewch fyw i ddyfod i'w gweled etto, gobeithio y bydd eich crefydd yn gref ac yn loew. Cofiwch mai mewn myfyrdodau crefyddol, y gweddïau dirgel, a defnyddio cymdeithas y saint bob tro y cewch gyfle, y bydd eich nerth a'ch dedwyddwch. Caiff yr eglwys yma glywed eich hanes mewn llawer ffordd o bryd i bryd, a gobeithio y bydd pob hanes a ddaw o natur i beri llawenydd i'ch hen gyfeillion.

LLE AC ENW YN Y TY.

Pan yr oedd credinwyr gynt yn "ymaflyd yn nghyfammod" yr Arglwydd, fel yr ydych chwi yn proffesu eich bod yn gwneud yn awr; pan yr oedd eu ffydd yn gafael yn y doethineb a'r gras a luniodd y cyfammod, ac yn rhagorfreintiau y cyfammod, yn ei nawdd a'i ymgeledd a'i gysur, yn ei olud a'i anrhydedd a'i holl addewidion, ac yn ffyddlondeb Duw i gyflawni ei addewidion; yr oedd yr Arglwydd o'i ras yn dywedyd wrthynt hwythau—"Ië, rhoddaf iddynt yn fy nhŷ, ac o fewn fy magwyrydd, le ac enw gwell na meibion ac na merched: rhoddaf iddynt enw tragwyddol, yr hwn ni thòrir ymaith." Dyma addewid o werth i chwi, ac i ninnau oll ymaflyd ynddi, ac yn ei holl ammodau. Pwy sydd yn ei rhoddi? Y Duw hollgyfoethog a hollalluog, digelwyddog a digyfnewid. Pa fodd y mae yn ei rhoddi? Yn y modd mwyaf eglur a phendant, "*Ië, rhoddaf.*" Y mae'r gair bach cyntaf, *ïe*, yn arwyddo ei fod yn gwystlo ei air, ei lw, a'i girwiredd. I bwy y mae yn ei rhoddi? I'r rhai a gadwant ei Sabbathau, a ymhyfrydant yn ei wasanaeth, ac a ymaflant yn ei gyfammod. Beth mae yn addaw roddi iddynt? Lle ac enw yn ei dŷ. Pa fath dŷ sydd ganddo? Tŷ llawn, trefnus, diogel; tŷ y trefniadau, a'r darpariadau goreu. Pa fath deulu sydd yn ei dŷ? Teulu lluosog, urddasol, gwybodus, caredig, santaidd, ffyddlawn, anfarwol. Beth ydyw cael *lle* yn ei dŷ? Nid cael lletty noson, nid cael lloches am fynyd wrth fyned heibio, nid cael lle yno fel gwestwr, nac fel ymwelydd; ond cael *cartref* yno, cael gwaith

yno, cael trigo yno, cael hawl i ragorfreintiau y tŷ, cael cyfranogi o gysuron y teulu, cael gweled a chlywed a gwybod yr oll sy'n cael ei ddwyn yn mlaen yno, cael eistedd gyda'r plant wrth y bwrdd yn nghymdeithas eu Tad.

Beth ydyw cael *enw* yno? Cael gan y Tad yr enw o fod yn blentyn ac yn etifedd. Cael gan yr Iesu yr enw o fod yn frawd ac yn gydetifedd. Cael gan y dosbarth angylaidd o'r teulu yr enw o fod yn gydwas ac yn gydymaith. Cael gan saint y teulu yr enw o fod yn gyd-ddinesydd, ac yn gydgyfranog o'u gorfoledd; mewn gair, cael arddeliad caredig gan yr holl deulu fel aelod o'u cymdeithas.

A ydyw cael y lle a'r enw yma yn "*well*" na dim geir yn y byd? Ydyw, mae'r lle yn well, ac mae'r enw yn well nag ellir gael ar y ddaear. Y mae enw urddasol weithiau i'w gael mewn llysoedd daearol, ond dyma enw llawer gwell. Y mae lle da i'w gael mewn ambell i balas cyfoethog, ond dyma le gwell na'r lle goreu yn mhalas goreu'r byd. A ffol yw yr enaid a ymfoddlona ar le gwael ac enw isel, pan y bydd rhai myrdd gwell yn ei ymyl.

Ond dichon fod y lle ryw dro i gael ei golli, a bod yr enw i ddarfod; nac ydynt byth. Y mae yr enw yn un tragwyddol, yr hwn ni thòrir ymaith; ac y mae y lle yn un ag y pery ei waith a'i fwyniant a'i ddifyrwch yn oes oesoedd. Yr hyn sy'n andwyo pethau goreu y byd yma yw eu bod i ddarfod. Trwm i'r teimlad ydyw i un ddweyd, Y mae genyf le da, ond byddaf yn fuan yn ei golli. Y mae genyf enw urddasol, ond bydd yn fuan yn cael ei dòri ymaith. Y mae genyf gymdeithion dedwydd, ond bydd raid i ni ymadael. Y mae genyf oludoedd a gwleddoedd, ond y maent yn darfod. Y mae genyf etifeddiaeth fawr, ond y mae yn diflanu; y mae genyf goron ddysglaer, ond y mae yn llygradwy. Yr wyf yn oludog yn awr, ond daw tlodi. Yr wyf yn ddedwydd yn awr, ond daw trallod. Yr wyf yn nghanol digon yn awr, ond daw prinder. Ond ni raid i'r credadyn byth ddweyd cwyn fel hyn. Tra bydd y Duw hollgyfoethog yn cadw tŷ, caiff y Cristion "le" ynddo. Tra bydd ganddo deulu o gylch ei orsedd, bydd gan y Cristion "enw" yn eu mysg. Yr ydych chwi heddyw yn dyfod yn mlaen i geisio lle yn y tŷ, ac enw gyda'r plant. Llawenhewch yn ostyngedig fod rhyddid i chwi gael y fath fraint —y fath le, y fath enw, a'r fath etifeddiaeth. Gwnewch eich goreu i ddenu eich cyfoedion i geisio yr un ragorfraint. Yr ydym am annog eich cyfeillion sy'n aros ar ol yn y galeri i *wneud brys* i geisio y lle "gwell" sydd yn nhŷ Dduw; ac i geisio yr enw tragwyddol, yr hwn ni thòrir ymaith.

CYMUNDEB YN 1843.

ADDUNEDAU.

ADDUNEDU ydyw bwriadu neu benderfynu cyflawni rhyw orchwyl fydd mewn golwg; ac os amlygir y bwriad hwnw, dyna'r adduned oedd o'r blaen yn *ddirgel* wedi dyfod yn adduned gyhoeddus. Y mae yn naturiol i ddyn addunedu, gan ei fod yn greadur rhesymol anfarwol. Gall edrych yn mlaen i'r amser a ddaw. Gwyr ei ddyledswydd, ac nid hawdd iddo beidio addunedu ei chyflawni. Y mae addunedu yn hen arferiad. Y mae genym grybwylliad am rai o addunedau Jacob, Josua, Jephtha, Hannah, Dafydd, Solomon, Asa, Josiah, a llwythau Israel lawer tro yn amser eu hadfyd, neu ar uchelwyliau eu llwyddiant.

Yr ydym ni wedi addunedu lawer o weithiau yn y lle hwn, pan fel hyn o gylch bwrdd y cymundeb, neu dan y bregeth, neu yn y gymdeithas eglwysig: neu pan o gylch allor y teulu, neu yn ein manau dirgel—neu ynte pan mewn gwasgfeuon dan oruchwyliaeth cystudd; neu yn wyneb gweinidogaeth angeu, wrth wely cyfaill lle y bydd angeu yn gweithio, neu wrth edrych ar wedd cyfaill ar ol ei farw, pan wrth ei elor, neu ar fin ei fedd.

Y mae yma rai yn ddiolchgar am y teimladau a'u cynhyrfodd i addunedu, ac hefyd am y nerth a gawsant i gyflawni eu haddunedau. Y mae yma eraill wedi addunedu yn fynych, ond wedi tòri eu haddunedau, a dichon bron wedi eu hanghofio. Hyderwn ein bod oll yn awr, ac yn enwedig y rhai sydd yn cael eu derbyn heddyw i'r eglwys, mewn ysbryd i addunedu: yn meddwl mor fawr am yr Iesu, nes bod yn barod i adnewyddu ein haddunedau i fod yn ffyddlawn yn ei wasanaeth.

Pan ydym yn addunedu, y mae dau beth yn galw am ein hystyriaeth—y modd i wneud yr adduned, a'r pwys o'i chyflawni. Wrth wneud addunedau, yn

1. Dylem ofalu am fod yr hyn a addunedom yn waith da a chyfreithlawn. Gellir addunedu gwneud yr hyn sydd ddrwg. Y mae miloedd wedi gwneud hyny. Addunedodd Israel lawer tro i addoli duwiau gau. Darfu i ieuenctyd lawer cannwaith addunedu i'w gilydd yr hyn fyddai er niwaid iddynt. Gwell tòri adduned ddrwg na'i chyflawni.

2. Dylem ofalu am i'r da a addunedom fod yn ein cyrhaedd—fod o fewn cylch ein galluoedd a'n cyfleusderau. Ni buasai ddim yn briodol i gredinwyr tlodion gynt yn Israel wneud yr addunedau ag oeddynt yn briodol i Dafydd a Solomon. Nid gweddus i'r anllythyrenog wneud adduned nad all ond y dysgedig ei chyflawni. Nid gweddus i'r tlawd wneud adduned nad all

ond y goludog ei chyflawni. Nid gweddus i blentyn wneud adduned nad all ond henuriad ei chyflawni. Ni buasai addunedau Morrison, Williams, Milne, a Moffat, a'u cydgenadon enwog ar y meusydd pell, ddim yn gweddu i ni yn y cylch yma. Dylem edrych am i'r adduned fod yn un ymarferadwy.

3. Dylem addunedu pethau da i'w cyflawni *yn ddioed.* Hoff gan rai addunedu llawer am bethau i'w cyflawni mewn rhyw amserau pell; ar ol iddynt sefydlu yn y byd, ar ol iddynt gyrhaedd dyddiau henaint, a chael rhoddi eu prif ofalon o'r neilldu; ac ar ol iddynt fyned o gyrhaedd profedigaethau ieuenctyd. Ffordd ddrwg iawn i addunedu ydyw hòno, pan y mae dyledswyddau pwysig yn orphwysedig arnynt yn awr; pan y mae ganddynt waith yr wythnos hon, yr awr hon—a phan y dylent ymroi i'w gyflawni. Y mae addunedu byw yn dduwiol yn amser henaint yn burion yn ei le; ond os hyny yn unig a wneir, y mae yn fwy na thebyg yr eir i dragwyddoldeb heb eu cyflawni.

4. Dylem arfer pob moddion yn ein cyrhaedd er ein galluogi i *gofio* ein haddunedau. Ceisio eu gwreiddio yn ein calon wrth eu gwneud; eu hysgrifenu yn ein coflyfr; eu hadrodd wrth ein cyfeillion ffyddlonaf a mwyaf mynwesol; eu cydnabod wrth orsedd gras; eu selio wrth fwrdd y cymundeb.

5. Dylem eu gwneud bob amser mewn ysbryd *gweddi:* gan gofio fod y byd yn llawn o brofedigaethau, fod y galon yn wan ac yn fawr ei thwyll, a'n bod lawer tro wedi colli'r dydd, neu wedi anghofio ein haddunedau. Ac felly dylem addunedu, nid yn ein nerth ein hunain, gan gofio fod nerth i'w gael i gyflawni ein haddunedau, ond i ni ei geisio mewn gweddïau taer a ffyddiog.

Er ein cymhell i gyflawni ein haddunedau, dylem ystyried yn—

1. Fod Duw o'i gariad wedi "addunedu" ein cynnorthwyo. Nid yw ef byth yn anghofio ei adduned, nac byth yn esgeuluso nac yn methu ei chyflawni. Y mae wedi addunedu ein cynnorthwyo yn y geiriau egluraf, wedi addunedu trwy lw, ac y mae yn sicr o gyflawni ei air. Y mae yn craffu ar y galon pan y mae yn toddi, ac yn gwneud yr adduned gyntaf i fyw yn dduwiol; y mae yn gwrando ar y llais crynedig yn amlygu yr adduned; y mae yn clywed yr ochenaid gyntaf, ac yn gweled y deigryn cyntaf; ac y mae yn gwbl barod i'n cynnorthwyo.

2. Fod peidio cyflawni yr addunedau yn golled chwerw i'r enaid yn y byd yma. Y mae yn drygu ei gymeriad hyd yn nod yn ngolwg dynion. Y mae yn terfysgu tawelwch ei gydwybod, ac y mae yn gwanychu ei nerth i fyw yn dduwiol, ac i fod yn ddefnyddiol, bob tro y mae yn tòri ei adduned.

3. Os parheir drwy'r oes i dòri yr addunedau, bydd raid eu cyfarfod oll yn y farn. Y mae Duw yn eu cofnodi yn ei "lyfr coffadwriaeth." Rhoddir y llyfr hwnw yn llaw y Barnwr. Agorir y llyfr yn nydd y cyfrif. Darllenir yr addunedau yn nghlyw angylion a saint; a mwy na'r cwbl, argreffir yr addunedau mewn llythyrenau o dân yn y gydwybod, fel na bydd modd eu hanghofio. Byddant yno byth, mewn gwlad lle na cheir cyfle i'w cyflawni.

4. Fod elw a hyfrydwch annhraethol i'w cael o dalu yr addunedau. Y mae swn uchel hyfryd yn y geiriau, "Talu yr addunedau i'r Arglwydd." I'r Arglwydd tosturiol, maddeugar, a ffyddlawn. Y mae talu i'r Arglwydd yn tybied fod cyfathrach a chyfeillgarwch rhwng yr enaid â Duw. Ni bydd yn anhawdd i gadw y cyfrifon wrth dalu i'r Arglwydd, gan ei fod mor llawn o gariad: a chryfha tawelwch y meddwl bob tro y telir yr addunedau iddo.

5. Fod byd tragwyddol yn ol, lle y bydd Duw, yn ol cyfoeth ei raslonrwydd, yn myned i drysorau ei gariad er talu yn ol i'r ffyddloniaid. Tâl iddynt fyrdd mwy nag a ddychymygasant erioed.

Y mae genym ni yn awr achos i alaru am ein bod wedi treulio rhanau helaeth o'n hoes heb addunedu byw'n dduwiol, ac wedi treulio rhanau helaeth ar ol hyny i addunedu ac heb dalu; ond gallwn lawenhau am fod modd i groesi allan, o lyfr barn, yr addunedau a dòrwyd; ac am fod cyfleusderau ac amser genym etto i adnewyddu ein haddunedau, ac i'w talu i'r Arglwydd.

CYMUNDEB YN 1843.

GALWAD I'R WINLLAN.

Amcan yr Iesu wrth lefaru ar ddammegion oedd gwneud addysg ei efengyl yn fwy eglur, ac yn fwy effeithiol. Y mae yn un o'i ddammegion yn tybied am winllan hardd helaeth ag oedd i gael ei thrin a'i hymgeleddu; ac am farchnadfa fawr yn ymyl lle yr oedd llawer yn sefyll yn segur; ac y mae yn arwyddo fod hyny yn ddrych o ymddygiad dynion yn segura ar faes difyrwch y byd, tra y mae angen am weithwyr ar faes crefydd. Segura ydyw bod dyn heb ddefnyddio ei alluoedd mewn dim gwaith buddiol, ac felly yn camdreulio ei amser, ac yn digio ei Greawdwr.

Y mae dammeg y cyflogi i'r winllan yn dysgu i ni—Fod llaweroedd o bob oed a gradd, o bob sefyllfa, ac yn mhob ardal, yn

sefyll yn segur drwy oriau gwerthfawr y dydd, yn lle troi i winllan Duw i weithio erbyn tragwyddoldeb. Y mae y rhai sydd yn segur felly yn awyddus iawn i ymesgusodi ac i ymgyfiawnhau. Dywed rhai, "Ni chyflogodd neb nyni. Nid oes dim galwad ar ein hol. Nid oes dim gorchymyn na dim cyfarwyddyd i ni i weithio." Y mae esgus felly yn hollol groes i holl rediad gair Duw. Dywed eraill, "Nis gallwn ni ddim gweithio yn y winllan." Y mae hyny etto yn gamgymeriad. Y mae galluoedd gan bob dyn, ac nid ydys yn dysgwyl i neb weithio ond yn ol eu galluoedd. Y mae gwaith yr Iesu yn hawdd, ei iau yn esmwyth, a'i faich yn ysgafn. Dywed eraill, "Nad oes dim gwaith i gael ei wneud." Gwyr Awdwr y winllan yn wahanol i hyny. Y mae ganddo le i bob dyn weithio. Dywed eraill, "Gwaith difwyniant a dielw ydyw." Na, y mae pawb sydd wedi profi y gwaith yn tystio mai gwaith hyfryd, anrhydeddus, ac ennillfawr ydyw. Dywed eraill, "Mai gweithwyr anfedrus sydd yn y winllan, mai nid y rhai mwyaf eu doniau ydynt." Y mae croesaw i'r rhai sydd yn eu beio weithio yn well. Ond os arosant nes i'r gweithwyr gael eu perffeithio, arosant nes i'r tymmor gweithio ddarfod. Dywed eraill, "Y mae yn rhy foreu etto, y mae yr awel yn oer, awn i'r winllan yn fuan pan gynheso y dydd." Cain! y cyfryw brofi mai oriau y *boreu* ydynt y rhai hyfrydaf i weithio: ei bod yn llawer hawddach gweithio ar y dydd awr o'r dydd, nag ar yr unfed awr ar ddeg. Dywed eraill, "Fod pwys y dydd a'r gwres yn ormod i neb allu ei ddal." Nid yw y rhai bywiog a gweithgar ddim yn teimlo hyny. Y mae awelon iachusol o fryniau y nef yn anadlu i'w hwynebau. A dywed rhai, "Y mae yn rhy hwyr yn awr, y mae yr oriau gweithio drosodd." Nac ydyw ddim yn rhy hwyr tra y bydd Iesu yn galw. Y mae ef wedi deribyn rhai ag yr oedd eu dyddiau ar ddarfod. Nid oes dim yn fwy o ddianrhydedd i Grist, nac yn fwy damniol i ddyn, nag ysbryd i lunio esgusodion dros anufudd-hau i orchymynion yr efengyl.

Y mae yn ein hardal ni rai yn sefyll ar hyd y dydd yn segur. Yr ydym am ofyn yn ddifrifol i'r "edrychwyr" ieuainc siriol sydd yn awr o'n deutu yn y galeri—Paham y sefwch chwi allan o'r winllan? Y mae ei phyrth yn agored yn eich ymyl. Y mae lleoedd cyfleus i chwi weithio ar y cwr a fynoch o honi—yn y teulu, yn yr ysgol, yn y cyfarfod gweddi, yn y gymdeithas gref-yddol, ac yn mhob cylch yn yr eglwys.

Mae'r dydd yn deg, ond yn fyr. Mae'n ddydd goleu tawel. Mae'r tymhestloedd wedi dystewi. Mae'n dywydd hyfryd i weithio; ond y mae oriau goreu eich dydd, yn myned heibio yn

gyflym. Y mae yn eich mysg rai wedi cyrhaedd y drydedd awr o'r dydd, a rhai y chweched, ac ychydig y nawfed, ac ambell un yr unfed awr ar ddeg. Mae eu haul bron machludo. Cysgodau yr hwyr a ymestynasant. Mae'r nos yn ymyl; ond nid yw yn rhy ddiweddar. Brysiwch i'r winllan.

Mae'r galwadau sydd ar eich ol yn uchel, yn daer, yn eglur, yn garedig, ac yn ddifrifol. Mae'r Tad trugwyddol o'i orsedd yn eich galw. Mae'r Iesu fu farw o'i uchel lys yn eich galw. Mae'r Ysbryd o hyd wrth ymryson â chwi yn eich galw. Y mae angylion a saint gwasanaethgar y nef yn eich galw, ac yn eich cymhell. Y mae eich athrawon, a'ch cyfeillion, a'ch ceraint ffyddlonaf yn eich galw. Y mae Rhagluniaethau cyfoethog a thrugarog Duw yn eich galw. Mae cystuddiau cerfi a thrallodion y byd yn eich galw. Y mae llais dystaw o'r beddau yn eich galw. Ieuenctyd y drydedd awr o'r dydd! y mae yr efengyl yn cyfeirio ei llais yn y modd tirionaf at'ch *chwi;* ac y mae yn dywedyd ar yr un pryd wrth y rhai hynaf—wrth bobl yr unfed awr ar ddeg—"Ewch chwithau i'r winllan." Gogwyddwch eich clust i wrando ar leferydd Doethineb a Chariad.

Bydd yn hyfryd iawn i neswylio ar ol gweithio yn y winllan. Bydd yn fraint annhraethol i gael cydwybod dawel i wynebu y cyfrif. Bydd y gorphwys yn felus ar ol y llafur ar faes dyledswydd. Bydd y gyflog yn fwy nag y meddyliodd neb erioed; ïe, ceir gwobr dragwyddol yn y nefoedd.

Y GWINLLANWYR ANFFYDDLAWN.

Llefarodd yr Iesu un ddammeg er galw rhai i'r winllan. Llefarodd ddammeg arall er rhybudd i winllanwyr anffyddlawn. Arwydda ei ddammeg fod Duw wedi planu a threfnu gwinllan, ac wedi ei gosod dan ofal llafurwyr. Yr oedd wedi ei harloesi, a'i braenaru, a'i gwrteithio, a chau o'i hamgylch, a'i phlanu o'r winwydden oreu, a chloddio lle i'r gwingafn ynddi o dan y gwinwasgydd; ac adeiladu tŵr cyfleus yn ei chanol i'r llafurwyr fod ynddo wrth ei chadw; ac yr oedd wedi ei gosod ar ammodau teg. Cyhoeddodd, wrth ei gosod, mai ei eiddo ef ydoedd; ei fod wedi cymeryd traul a thrafferth i'w thrin a'i threfnu; ei bod yn werthfawr yn ei olwg; ei fod yn dysgwyl enw ac elw oddiwrthi; ei fod am ei hymddiried i ofal llafurwyr ffyddlawn; y rhoddai iddynt ran dda o'i ffrwyth yn dâl am eu gofal a'u llafur; ond y byddai yntau yn dysgwyl ei ran o'r ffrwyth yn yr amser priodol. Ar ol ei gosod, aeth oddicartref; ac yn ol ei gytundeb, anfonodd i geisio ei ardreth. Anfonodd was, neu oruchwyliwr, i geisio ei ran o'r ffrwyth gan y llafurwyr; ond curasant a baeddasant y

gwas, ac anfonasant ef ymaith yn waglaw. Anfonodd atynt was arall uwch, a thaflasant gèryg at hwnw, ac archollasant ei ben, a gyrasant ef ymaith yn anmharchus. Anfonodd wedi hyny un arall, ond lladdasant hwnw. Anfonodd o'i hir-amynedd amryw eraill, ond darfu i'r llafurwyr faeddu rhai, a lladd y lleill. Yn ddiweddaf oll, anfonodd atynt ei un mab, ei anwylyd, gan ddywedyd, "Hwy a barchant fy mab i:" ond dywedasant yn eu plith eu hunain, "Hwn yw'r etifedd; deuwch, lladdwn ef; a'r etifeddiaeth fydd eiddo i ni. A hwy a'i daliasant ef, ac a'i lladdasant, ac a'i bwriasant allan o'r winllan."

Yr oedd y ddammeg yn ddrych o ymddygiad y genedl Iuddewig, fel rhai oeddynt wedi cael eu dewis a'u gosod i lafurio gwinllan Arglwydd y lluoedd. Buont yn anffyddlawn i'w hymddiried. Esgeulusasant y winllan, gan ei gadael yn ddiamddiffyn, ac yn ddidriniaeth. Gadawsant iddi dyfu yn llawn o bob rhyw chwyn niweidiol. Rhoddasant flaenffrwyth y cynnyrch i estroniaid yn lle i'r Arglwydd. Gwadasant ei hawl i gael dim oddiwrthi. Anmharchasant ei genadon yn y modd creulonaf; ac o'r diwedd codasant yn erbyn yr etifedd, a lladdasant ef. Ond mynodd yr Arglwydd ddyfod i gyfrif â hwy. Daeth ar eu gwarthaf gyda grym anwrthwynebol. Arddelodd ei hawl i'r winllan; dannododd yn gyhoeddus eu hanffyddlondeb; cymerodd ei winllan oddiwrthynt, a gosododd hi i lafurwyr eraill. Dymchwelodd y gwinllanwyr anffyddlawn â dinystr ofnadwy; a mynodd brofi fod eu gwaed yn hollol ar eu penau eu hunain.

Ond gochelwn rhag *cyfyngu* addysg y ddammeg at y genedl Iuddewig. Y mae yr Arglwydd yn awr wedi ymddiried i'n gofal ni y winllan, neu y breintiau crefyddol fu gynt dan ein gofal hwy. Cawsom ni y winllan ar ol iddo gymeryd trawl fawr i'w *hail* drefnu mewn dull gwell na phan oedd ganddynt hwy. Y mae ei ymddygiad tuag atom ni wedi bod yn nodedig o deg ac o garedig. Ond y mae yn dysgwyl ei ardreth yn ei amser. Y mae yn dysgwyl cael ei ran o flaenffrwyth y cynnyrch yn ei dymmor. Os ydym ni, yn lle gwylio ary tŵr, yn gadael i fwystfilod rheibus o'r coed dòri i'r winllan; neu os ydym yn esgeuluso ei thrin, gan adael iddi wylltio a llenwi o chwyn a mieri; neu os ydym yn rhoddi ei chynnyrch goreu i elynion ei pherchenog; ac os ydym yn anfon ei genadon ef ymaith yn waglaw; ac yn enwedig os ydym yn anmharchu ac yn ail groeshoelio ei Fab, ei Un Mab, ei Anwylyd, yr hwn a ddaeth i lawr o'i lys, mewn modd mor dirion ac mor isel, i ymresymu am degwch i orsedd ei Dad; y mae Arglwydd y winllan yn sicr o ddigio wrthym, ac yn sicr o'i

chymeryd oddiarnom; ac i ni yn y diwedd y bydd y gwarth a'r golled: a bydd ein gwaed ar ein pen ein hunain.

Cofiwn, er pob peth, fod yr Arglwydd yn *deg* yn ei holl ymddygiadau; nad yw byth yn dysgwyl oddiwrthym ond yr hyn sydd ddyledus iddo gael, a'r hyn fydd er anrhydedd i ni dalu iddo. Y mae yn ymarhous iawn wrthym. Ei amynedd yw yr achos na buasai wedi cymeryd y winllan oddiarnom. Myn yn y diwedd osod ei gyfraith mewn grym yn erbyn pob gwinllanwr anffyddlawn.

CYMUNDEB YN 1845.

CYFEILLION YR IESU.

Yr anerch lawnaf o gariad a lefarwyd erioed oedd anerch yr Iesu er addysg a dyddanwch ei ddysgyblion ar y swper y nos y bradychwyd ef. Caiff ei darllen gyda hyfrydwch gan bob credadyn hyd oes ddiweddaf y byd; a chaiff ei chofio a'i hadrodd yn y nefoedd dros byth.

Un o'i ddywediadau yn yr anerch ryfedd hòno oedd—"Chwychwi yw fy nghyfeillion, os gwnewch pa bethau bynag yr wyf yn eu gorchymyn i chwi."

Y mae y pethau a orchymynodd i'w gweled yn ei efengyl. Y maent yn bethau *eglur* iawn—caru ac ofni Duw—credu yn Nghrist—pwyso ar ei Iawn—cofio am ei farwolaeth—cymeryd ei iau ef arnom, a dysgu ganddo—chwilio ei air—pleidio ei deyrnas—ymlochesu dan ei groes—glynu wrth ei orsedd—gadael pob ffordd ddrygionus, a rhoddi y serch ar bethau y nefoedd. Nid all fod dim pethau eglurach, hawddach eu dirnad, a hawddach eu cofio. Y maent hefyd yn bethau *teg* iawn, hollol gyfiawn yn eu perthynas â llywodraeth Duw, a hollol angenrheidiol er cysur ac anrhydedd dyn. Daliant eu pwyso yn y glorian fanylaf, a'u chwilio yn y goleuni puraf. Ac y maent hefyd yn bethau *pwysig* iawn, am fod a fynont â Duw, ac â'r enaid, ac â'r byd tragwyddol. Safant byth mewn grym digyfnewid; ac effeithia ein hymddygiad atynt ar ein cyflwr am byth, er ein gofid neu er ein llawenydd.

Os gofynir, Pa fodd y mae i ni wneuthur y pethau y mae yr Iesu yn eu gorchymyn? gellir ateb, yn *uniongyrchol*. Y mae oedi ufuddhau yn brofedigaeth ag sydd yn andwyo myrddiynau. Y mae yn ddirmyg ar awdurdod a gras Crist; ac wedi achosi i lawer ochain a dywedyd, "Y cynhauaf a aeth heibio, darfu yr haf, ac nid ydym ni gadwedig." Yr ydym i'w gwneud *o'r galon*. Edwyn Crist y galon; ac y mae pob ufudd-dod nad yw yn deilliaw o'r galon yn dwyll, ac felly yn anghymeradwy ganddo ef. Y mae yn gofyn i ni roddi ein calon ar ei waith. Y maent hefyd

i gael eu gwneud yn *gyflawn*. Dylid ufuddhau i'w *holl* orchymynion, yn mhob man, yn ddirgel ac yn gyhoedd, a phob amser, drwy yr oes, yn ddifwlch hyd y diwedd.

Beth yw *braint* y rhai sydd yn gweithredu ei orchymynion ef? Y maent yn "gyfeillion" iddo. Cánt fyw ar ei fwrdd, a rhyddid i fyned at ei orsedd. Cânt fod yn ei gyfrinach a than ei nodded. Gwna ef eu harddel, eu hamddiffyn, a'u hanrhydeddu fel ei gyfeillion. Caiff yr holl nefoedd wybod eu bod yn gyfeillion iddo; a chaiff daear ac uffern wybod hyny hefyd. A phwy all byth ddirnad y fraint o gael yr Iesu yn gyfaill? Y mae ei galon yn llawn o gydymdeimlad. Y mae yn gyfaill digyfnewid. Pery o hyd yr un trwy bob cyfnewidiad. Bydd yn tŷddlawn i'w holl ymrwymiadau. Y mae yn gyfaill galluog. Mae ganddo fraich nerthol i amddiffyn, a'r dylanwad uchaf yn y llys, a goludoedd diderfyn i'w rhoddi i'w gyfeillion. Ac y mae yn gyfaill na bydd byth marw. Bu farw dros ei gyfeillion, ond daeth o'r bedd yn fyw, ac wele byw ydyw yn oes oesoedd; ac y mae ganddo agoriadau uffern a marwolaeth: a byw fydd ei gyfeillion hefyd, ac ni welir neb o honynt byth yn eu galarwisgoedd.

Cofiwn mai ofer ydyw i neb ddysgwyl cael cyfeillgarwch yr Iesu heb wneuthur ei orchymynion ef. Y mae llawer oedd, er anufuddhau yn gyhoeddus i'w orchymynion egluraf, yn ceisio eu perswadio eu hunain i obeithio y cânt ef yn gyfaill ac yn Waredwr pan y del eu cyfyngder arnynt; ond nis gall fod yn gyfaill i'r cyfryw heb ei wadu ei hun, heb dòri ei air, heb ddirymu ei lywodraeth, heb wneud cam â'i Dad, ac â holl deulu y nef, a thynu cwmwl ar ei holl gymeriad a'i waith cyfryngol. A thlawd annhraethol fydd cyflwr y bobl fydd heb Grist yn gyfaill. Daw eu gwasgfeuon arnynt, a phalla nodded pawb. Try pob peth yn eu herbyn. Try yntau ei gefn arnynt, a dywed wrthynt, "Ewch oddiwrthyf, — nid adnabum chwi erioed." Ond O! fel y cynnydda dedwyddwch cyfeillion yr Iesu! Caiff pawb weled fod eu cyflwr yn ddiogel, fod eu cymeriad yn anrhydeddus, a'u bod yn etifeddion goludoedd anchwiliadwy, a bri a difyrwch anfarwol.

CYMUNDEB YN 1845.

"CWBL IACHAU."

Yr oedd Paul am roddi "cysur cryf" i'r Hebreaid pan yn dywedyd wrthynt y gallai yr Iesu, yr Archoffeiriad mawr, "gwbl iachâu y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw."

Dylai y geiriau *cwbl iachâu* fod yn rhai anwyl a gwerthfawr genym ninnau. Y maent yn arwyddo pedwar peth. Yn—

1. Y medr yr Iesu iachâu *pob* pechadur. Ni bu neb erioed mor ddrwg fel nad allai ef ei iachâu. Y mae rhai o bob oed, o bob oes, o bob gradd, ac o bob cymeriad, wedi nesâu ato, ac wedi cael eu "cwbl iachâu." Pe byddai i'r gwaethaf sydd ar y ddaear yn awr roddi ei hun dan ei law, gallai ei gwbl iachâu.

2. Y mae y "cwbl iachâu" yn arwyddo y gall iachâu oddiwrth *bob* afiechyd. Y mae llawer meddyg enwog yn gorfod dywedyd am y clafsydd dan ei ofal—Y mae rhyw glefyd dyeithr i mi wedi gafaelyd ynddo, neu y mae gwahanol glefydau wedi cydymosod arno fel nas medraf ei iachâu. Y mae ei achos yn drech na'm holl ddysg a'm synwyr, ac yn gryfach na'm holl foddion. Ond y mae yr Iesu yn medru gwella pob afiechyd; a phe byddai pob math o afiechyd yn cydweithio yn erbyn yr un galon, gallai ei chwbl iachâu.

3. "Cwbl iachâu" ydyw iachâu fel na byddo dim o ôl nac o effaith yr afiechyd yn aros. Y mae llawer meddyg enwog yn gorfod dweyd, Meddyliais unwaith fy mod wedi *cwbl* iachâu y claf, ond y mae rhai o effeithiau ei glefyd yn aros. Y mae rhyw wendid yn glynu wrtho, a rhyw deimlad o boen ynddo yn barhaus. Yr wyf yn ofni fod rhan o wreiddyn ac o wenwyn ei glefyd yn aros yn ei gyfansoddiad, ac na ddaw byth yn gwbl iach: a bydd y creithiau yn sicr o aros. Ond pan y mae yr Iesu yn iachâu, y mae yn "cwbl iachâu." Myn symud holl wreiddiau, a holl wenwyn, a holl effeithiau yr afiechyd. Y mae yn wir y cofia y pechadur am ei glwyfau, ond ni bydd dim o'u hôl arno, —na chraith, na phoen, na gwendid, na dim o'r cyfryw.

4. "Cwbl iachâu" ydyw iachâu fel na byddo i'r afiechyd byth ailgydio yn yr hwn a iachäwyd. Nid all meddygon goreu y ddaear byth wneud hyn. Mae ambell un o honynt wedi dweyd, gyda thôn o ymffrost, Yr wyf wedi cwbl iachâu y claf; mae ei galon mor iach ag erioed, y mae ei gyfansoddiad mor gryf ag erioed; y mae ei holl aelodau mor ystwyth ag erioed; y mae ei ruddiau mor wridog, a'i lygaid mor llon ag erioed: ond dichon cyn iddo brin orphen geiriau ei lawenydd, y byddai y gair yn ei gyrhaedd, fod y clefyd wedi ailafaelyd yn y claf yn fwy llym nag erioed, a'i fod yn debyg yn fuan o ddwyn ymaith ei fywyd. Ond pan y mae yr Iesu yn iachâu, y mae yn cadw y claf dan ei lygaid a than ei law, a than driniaethau ei ymgeledd nes ei gwbl iachâu; ac yna y mae yn ei godi o gyrhaedd pob chwa a gwahanglwyf i awyr bur gwlad o iechyd tragwyddol.

Ond pa *sicrwydd* sydd genym y gall yr Iesu gwbl iachâu. Y

mae wedi cael ei ddewis a'i neillduo a'i urddo gan ei Dad i'r swydd o fod yn Iachawdwr. Y mae wedi cael ei ddwyn i'r swydd. Dyna oedd prif destun ei fyfyrdod er dyddiau tragwyddoldeb. Y mae wedi gwisgo natur dyn, a dyfod yn gyfranog o gig a gwaed, a chymeryd ei demtio yn mhob peth yr un ffunud a ninnau, fel y gallai gyd-ddyoddef â'n gwendid ni, ac fel y byddai yn fwy cymhwys i'n hiachàu. Y mae holl briodoliaethau y Duwdod, a holl deimladau y natur ddynol yn cydgyfarfod ynddo, fel y mae yn Immanuel. Y mae wedi cyflawni yn barod y rhanau sylfaenol o'i swydd, ac wedi eu cyflawni yn y dull perffeithiaf. Rhoddodd ei einioes yn aberth o werth anfeidrol; ac y mae rhinweddau anmherfynol yn ei waed er iachâd pechadur. Symudodd drwy ei Iawn yr holl rwystrau oedd ar ffordd iachawdwriaeth dyn. Enillodd pan ar y groes ei fuddugoliaeth fawr ar uffern ac angeu: ac y mae yr holl waith a gyflawnodd wedi cael cymeradwyaeth ei Dad; a chafodd ei groesawu i eistedd ar ei ddeheulaw, a rhoddwyd iddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear i ddwyn yn mlaen ei waith fel Cyfryngwr ac Iachawdwr; ac y mae, nid fel Aaron wedi rhoddi ei swydd heibio, ond yn aros yn ei swydd yn Iachawdwr tragwyddol.

Pe gofynid, Pwy sydd yn cael eu hiachau ganddo? y mae yr atebiad yn ymyl, ac yn berffaith eglur, "Y rhai sydd yn dyfod at Dduw trwyddo ef." A'r pwnc ymarferol i ni ydyw, A ydym ni yn dyfod at Dduw, trwyddo ef, fel pechaduriaid, fel gweision, ac fel plant? Fel pechaduriaid euog hunanddinystriol i gael cyfiawnhad a maddeuant o'i orsedd? Fel gweision, i ofyn yn ostyngedig oddiar gariad, Arglwydd, beth a fyni di i ni ei wneuthur? Ac fel plant i gael ei addysg, ei driniaethau, ei ymgeledd, ei nodded, ei arweinyddiaeth, a'i gynnaliaeth, i gael ein digoni â brasder ei dŷ ac arlwy ei fwrdd llawn—i gael rhyddid i ddyfod at ei orsedd i fwynhau ei gyfrinach, ac i gael yr etifeddiaeth fawr sydd ganddo yn nghadw i ni yn y goleuni? Ac a ydym ni yn dyfod at Dduw yn mhob un o'r cymeriadau hyn "trwyddo ef?" Am gael y cymmod "trwyddo ef?" Am gael ein gwasanaeth yn gymeradwy "trwyddo ef?" Ac am gael ein teitl i'r etifeddiaeth "trwyddo ef?" Dyma ysbryd ac ymddygiad y rhai sydd yn cael eu cwbl iachâu. Dyma eu nôd, ac y mae yn hawdd eu hadnabod. Yr ydym ni, pan yn eistedd fel hyn o gylch y bwrdd, yn profesu ein bod yn dyfod at Dduw "trwyddo ef;" ac nid oes genym yr un gobaith arall am ein bywyd: mai efe yw ein holl iachawdwriaeth a'n holl ddymuniad.

Y mae yn awr yn ei swydd mor barod ac mor alluog i iachâu ag erioed, a'r pechod mawr damniol ydyw ammheu ei allu neu

ei ewyllysgarwch. Y mae y fath ammheuaeth ar y cyntaf yn gweithio yr enaid i ysbryd deddfol i geisio gweithio allan iachawdwriaeth iddo ei hun: y mae yn ei wthio oddiyno i dir siomedigaeth; ac yn ei daflu yn y diwedd i dir anobaith. Gochelwn er ein bywyd y pechod damniol hwn ag sydd yn taro mor ofnadwy ar unwaith yn erbyn cariad y Tad, a gwaed y cymmod, a gweinidogaeth yr Ysbryd.

Y mae bod yr Iesu yn gallu "cwbl iachâu" yn gymhelliad cryf i ni wneud ein goreu i ddenu ein ceraint, ein cymydogion, a'n cydnabod i ddyfod at Dduw drwyddo ef i gael iachâd—ac i ddyfod yn awr heb oedi dim yn hŵy; ac y mae yn gymhelliad i ni anfon y newyddion da am ei iachawdwriaeth ef at yr holl genedloedd.

Gan mai efe sydd yn "cwbl iachâu," efe ddylai gael yr holl glod; ac efe gaiff yr enw a'r gogoniant. Iddo ef y bydd tyrfa fawr y gwaredigion yn canu byth bythoedd.

CYMUNDEB YN 1845.

GORCHEST-GAMPAU Y CRISTION.

Y MAE safon rhinweddau Cristionogaeth yn un uchel, ond dylem ymdrechu ei chyrhaedd, os am fod yn ddysgyblion i'r Iesu. Y mae rhai rhinweddau nad yw ddim yn gamp uchel eu cyflawni; nid oes dim *rhagoriaeth* ynddynt. Y maent yn rhinweddau ag y gall y publicanod eu dilyn. Nid ydynt yn dyfod i fyny at safon Cristionogaeth. Cyfeiriai yr Iesu atynt yn ei bregeth ar y mynydd, gan arwyddo eu bod yn fyr o bwysau yn ei glorian ef. Dywedai, "Os cerwch y sawl a'ch caro, pa wobr sydd i chwi? Oni wna'r publicanod hefyd yr un peth?"

Y mae caru cyfeillion yn dda. Y mae bod yn gymwynasgar wrth gymwynaswyr—rhoddi gwên am wên, a gair da am air da, a lletty am letty, a chyfarch gwell i frodyr, yn ddaioni a hawdd garwch; ond nid yw ddim yn gamp ag sydd yn dyfod i fyny at nôd uchaf safon crefydd Crist. Gallai y Phariseaid a'r publicanod wneuthur yr un peth.

Y mae cyflawni cyflawnderau masnachol rhwng gwr a gwr—peidio gormesu ar ein cyd-ddynion, talu iddynt yr hyn sydd ddyledus, gochelyd eu drygu mewn dim, ymddwyn tuag atynt yn ol rheolau boneddigeiddrwydd cymdeithasol, ac yn ol deddfau tegwch gwladol, yn dda, ond nid yw hyny ddim yn orchest neu yn rhagoriaeth. Nid yw yn cyrhaedd safon Cristionogaeth. Gallai y Phariseaid a'r publicanod wneuthur felly.

Y mae ymgadw oddiwrth bechodau rhyfygus a gwarthus pan

na byddo profedigaethau i'w cyflawni yn dda; ond nid yw hyny ddim yn orchest yn ol safon Cristionogaeth. Yr oedd y Phariseaid a'r publicanod yn gallu gwneuthur hyny.

Y mae dilyn crefydd drwy oriau tawel yr haulwen, yn nhymmor y tywydd teg, yn amser ei hawddfyd a'i llwyddiant, pan y bydd yn ei dillad esmwyth addurnedig, a'r sandalau arian am ei thraed, yn ymlwybro yn mlaen yn mysg y blodau, a'r byd yn gwenu arni o bob tu, yn dda; ond nid yw hyny ddim yn orchest-gamp fawr: gallai y Phariseaid wneuthur hyny.

Beth ynte yw rhai o orchest-gampau Cristionogaeth? Ond i ni sylwi ar esboniadau yr Iesu, bydd yn hawdd i ni eu hadnabod.

1. Caru ein gelynion, bendithio y rhai a'n melldithiant, gwneud da i'r sawl a'n casânt, a gweddïo dros y rhai a wnant niwaid i ni, ac a'n herlidiant. Peidio ymddial. Porthi ein gelyn os newyna. Rhoddi diod iddo os sycheda. Pentyru marwor cymwynasau cariad ar ei ben. Gorchfygu ei ddrygioni trwy ddaioni. Dyna un o gampau crefydd Crist.

2. Galaru am bechod o herwydd ei ddrygau *anweledig*, yn gymaint ag am ei ddrygau gweledig. Y mae yn hawdd galaru am bechod pan y bydd wedi dwyn anfri ar yr enw a'r cymeriad, neu wedi achosi cystudd a cholled; pan y bydd wedi esgor ar warth a thrallod; ond y gamp yw galaru am bechod pan y bydd yn guddiedig yn y galon, pan y bydd yn dechreu egino yn y ffynwes. Galaru am dano yn fwy am ei fod yn taro yn erbyn Duw a threfn ei lywodraeth, nag am ei fod yn ein hiselu a'n gwarthruddo ni; ei wrthwynebu yn ddiysgog yn amser nerth mwyaf ei brofedigaethau, fel y gwnaeth Joseph yn nhŷ Potiphar, a Moses yn llys yr Aipht, a Daniel a'i gymdeithion yn llys Babilon, a Mordecai yn amser Haman, a Paul a Barnabas pan oedd y dorf yn parotoi i'w haddoli. Y mae casâu y pechodau cuddiedig ac ymroi i wrthsefyll holl hudoliaethau pechod yn un o gampau Cristionogaeth.

3. Ymgais mwy am lesâd y byd nag am lesâd personol ein hunain. Nid yw ddim yn anhawdd i geisio lles craill, os dwg hyny ryw ennill i ni ein hunain; ond y gamp ydyw ceisio llesâd y llaweroedd o flaen ein llesâd ein hunain; ac aberthu cysuron personol, os bydd raid, er llesâd ein cyd-ddynion.

4. Dilyn crefydd trwy anhawsderau; trwy y tymhestloedd, y tywyllwch, a'r tlodi; trwy wawd a dirmyg, trwy beryglon a gwasgfeuon, trwy garcharau a thrwy y fflamau; a gwneud hyny yn llawen, mewn ysbryd boddlawn a diolchgar. Hawdd ydyw bod yn llawen pan na bydd yr un groes i'w chario, bod yn dawel pan na bydd unrhyw ddychryn yn agos. Hawdd ydyw canu

pan y bydd yr haul yn tywynu, a phob peth o'n deutu yn gwenu arnom. Ond yn y byd drwg presenol nid all na ddel rhwystrau; a dyna ydyw y gamp, bod yn llawen mewn gorthrymderau.

5. Priodoli holl fai, a chymeryd holl warth ein colliadau i ni ein hunain, a phriodoli pob dawn a rhinwedd i ras Duw. Y mae hyn yn gamp uchel, anhawdd ei chyrhaedd, ond y mae crefydd Crist yn gofyn i ni ymorchestu ei chyflawni. Y mae llawer o feiau yn nglŷn wrth ein holl gyflawniadau, ac yn ein dilyn trwy ein holl yrfa; ac y mae yn brofedigaeth gref i ddyn syrthiedig geisio ymesgusodi drwy ranu y bai rhwng ei ochr ei hun ac ochr y nef. Y mae yn fynych am fwrw rhan o'r bai ar drefniadau Rhagluniaeth Duw, ac y mae weithiau am fwrw y bai ar ordinhadau ac arfaethau ei ras. Ond pan y bydd wedi dangos rhyw rinwedd, neu arfer rhyw ddawn, neu gyflawni rhyw ddaioni, y mae am gadw iddo ei hun ran o'r clod ag sydd yn perthyn i diriondeb trugaredd Duw. Ond y gamp ydyw gwylio yn erbyn pob ochr i'r brofedigaeth ddyblyg yma, ac ymostwng i gymeryd holl warth y bai arnom ein hunain, a rhoddi holl glod y rhinwedd i ras Duw.

6. Y mae yn gamp uchel i roddi pris uwch ar etifeddiaeth anweledig y nef nag ar unrhyw drysorau gweledig a fedd y ddaear. Y mae y nifer amlaf o bobl y byd yn gwneud yn gwbl groes i hyn. Eu goludoedd daearol, sef eu tai a'u tiroedd, eu dodrefn a'u gwisgoedd, eu haur a'u harian, eu gwleddoedd a'u difyrwch, ydynt y pethau anwylaf yn eu golwg. Y mae pethau myrdd ardderchocach allan o'u golwg, ond yn eu hymyl. Ond y gamp ydyw edrych ar y pethau ni welir: edrych ar bethau gweledig y byd yma fel teganau, ond ar bethau y byd anweledig fel perlau neu drysorau o anfeidrol werth; edrych ar bethau y byd hwn fel cysgodau, ond ar bethau y byd a ddaw fel sylweddau: ar bethau y byd hwn fel mân-ffrydiau yn sychu yn union, ond ar bethau y byd ysbrydol fel moroedd didrai o bob cyflawnder. Edrych ar bethau amser fel pethau i wywo a diflanu, ond ar bethau tragwyddoldeb fel pethau i barhau yn anniflanedig: ac felly rhoddi ein calon ar y pethau sydd uchod; canys lle bydd ein trysor, yno y bydd ein calon hefyd.

Yr ydym wedi cyfarfod yma heddyw, ac yn eistedd o gylch y bwrdd hwn i adnewyddu ein llw o ffyddlondeb i'r Iesu ac i'w deyrnas, trwy estyn llaw at sciau ei gyfammod. Ein proffes a'n hardystiad cyhoeddus yma heddyw ydyw, ein bod yn ddysgyblion iddo, yn ddilynwyr iddo, yn gyfeillion iddo, yn filwyr dan ei faner ac yn ei arfogaeth. Swm ein cyffes ydyw ein bod am fod

dau ei iau, a'n bod am ddysgu ganddo; a nôd uchaf ein crefydd yw bod yn debyg iddo. Ac os ydym ni am lynu yn ein proffes, a llenwi ein cymeriad, a chyrhaedd nôd uchaf crefydd Crist, rhaid i ni ymdrechu cyrhaedd y rhagoriaethau, neu gyflawni y campau a enwyd.

Ac y mae genym bob annogaeth a chymhelliad i ymegnïo. Y mae Duw, o'i anfeidrol gariad, wedi cyflawni gorchestion o dosturiaethau er ein mwyn ni. Y mae wedi meddwl meddyliau o hedd, wedi ein cofio a nyni etto yn bechaduriaid, wedi gosod ein cymhorth ar ei anwyl Fab, ac wedi ei anfon i'r byd, a'i draddodi drosom ni oll. A boddlonodd yr Iesu i adael mynwes ei Dad, a llys gogoniant, a chymdeithas angylion; gwaghaodd ei hun, cymerodd arno agwedd gwas, pabellodd yn mysg dynion, aeth i'r adwy danllyd, safodd yn neddfle pechadur, a bu farw yn ein lle. Dyna oedd cariad—cariad heb ei gyffelyb: dyna oedd gorchest-gampau dwyfol gariad; a bydd canu am danynt tra byddo y nefoedd yn bod. Nid yw yr oll sydd genym ni i'w wneud dros yr Iesu ond ysgafn iawn o'i gymharu â'r hyn a wnaeth efe drosom ni.

Y mae rhai gweiniaid o'r un gyfansoddiad, o'r un sefyllfaoedd, ac o'r un deimladau a ninnau *wedi* cyflawni y gorchest-gampau a enwyd. Os darllenwn hanes ffyddloniaid oesau y patrieirch, ac oesau y prophwydi; ac enwogion yr oes apostolaidd, ac ardderchog lu y merthyron, cawn mai dynion oeddynt yn dyoddef fel ninnau, ac yn yr un byd a ninnau; ond er hyny trwy nerth ffydd, a chariad, ac amynedd, a gweddi, cyflawnasant yr holl orchestion a grybwyllwyd, nes oedd y byd yn synu, a'r angylion yn llawenychu wrth eu gweled; ac nes yr oedd Duw ei hun oddiar ei orsedd yn gwenu arnynt, ac yn ymhyfrydu yn eu cymeriad.

Dylem ymegnïo, oblegid y mae *tystion* lawer i'n hymdrech. Y mae y byd yn sylwi yn graff arnom, ac yn cyhoeddi ei farn am danom, weithiau mewn iaith gref, ac mewn dull effeithiol. Peth trwm ydyw gweled y byd yn estyn ei fys ar ol proffeswr crefydd, gan ddweyd—Dyna Gristion cloff, musgrell, cysglyd, bydol, diymdrech, anghyson, hollol annhebyg i'w Athraw a'i Arglwydd. Y mae yr *eglwys* yn sylwi arnom, ac nid oes neb a wyr pa faint o les y mae un aelod yn wneud mewn eglwys wrth ymegnïo. Y mae *uffern* yn sylwi arnom, ac y mae yn crynu ac yn cilio yn ol wrth weled gorchest-gampau ffydd. Y mae engyl a saint y *nef* yn sylwi arnom; ac y maent yn llawenhau wrth weled gorchest-gampau y credadyn. Y maent yn hoffi taenu y gair am danynt drwy holl froydd gogoniant. Y mae y *Duwdod* yn sylwi arnom, ac yn erchi cofrestru gorchestion pob credadyn yn nghof-lyfrau y llys.

Dylem ymegnio hefyd, oblegid y mae *addewidion* mawr iawn a gwerthfawr i'r gorchest-gampwyr. Y mae nerth yn ol eu dydd, eu ffydd, a'u llafur iddynt gael pan ar eu gyrfa. Y mae digonedd iddynt gael yn nhrysorau gras, ac ni raid iddynt ond ceisio er cael.

Ac y mae addewid am wobr fawr iddynt yn y nef. Y mae yno bob parotoadau er gwobrwyo yr ymdrechgar. Y mae y lle yn llawn o urddas a gogoniant: a chânt oes dragwyddol i fwynhau eu gwobr. Byddai dysgwyl am nefoedd heb orchestu dim yn hollol anghyson: a byddai dysgwyl am y lle uchaf yno, ac am y wobr fwyaf ar ol yr egnïadau lleiaf, yn anghyson. Bydd maint y wobr yn cyfateb i faint yr orchest.

Y mae llawer gan y Cristion i'w wneud er dyfod yn *gampwr* mewn crefydd. Rhaid iddo chwilio yr ysgrythyrau, a myfyrio ynddynt, a chredu yn ddiysgog ac yn ddiegwan, a phenderfynu yn wrol ac yn gryf, a gweddïo yn ddibaid ac yn daer, ac *ymarfer* ei hun i dduwioldeb yn ei holl gampau, gartref ac oddicartref.

Nid hawdd penderfynu i ba ochr y mae rhai yn perthyn; dan fawr pwy y maent yn milwrio. Os ydynt yn ysgol yr Iesu, prin y gellir eu galw yn ddysgyblion, gan mor araf y maent yn dysgu. Os ydynt yn ei fyddin, prin y gellir eu galw yn filwyr, oblegid ni wnaethant ddim gorchestion erioed er cael eu henwau yn uchel yn llyfrau y nef. Nid yw y gelyn ddim yn eu hofni; nis gall yr eglwys ddim ymddiried iddynt; ac nis gall yr Iesu ddim eu hanrhydeddu.

Galarus ydyw meddwl am *gampwyr* yn ngwasanaeth pechod, am gewri yn myddin y diafol; am alluoedd mor ardderchog yn cael eu cysegru i wasanaeth mor warthus a dinystriol. O, na fedrid denu y cyfryw i ymorchestu dros yr Iesu ar faes hyfryd crefydd, er eu cysur eu hunain, ac er lles y byd!

YMARFER DUWIOLDEB.

Wrth dderbyn cyfeillion ieuainc i'r eglwys.—Yr ydym am roddi i chwi heddyw, ar ddechreuad eich gyrfa grefyddol, y cynghor a roddwyd gan Paul i Timotheus ar ddechreuad ei weinidogaeth, "Ymarfer dy hun i dduwioldeb." Duwioldeb ydyw byw yn ol ewyllys Duw, ac ymdebygu iddo. Yr oedd Paul yn edrych ar dduwioldeb fel *celfyddyd* ardderchog, pan yr oedd yn annog ei gyfaill ieuanc i "ymarfer ei hun i dduwioldeb." Y mae *tri* pheth genym i'w wneud cyn y delom i'w hymarferyd yn hwylus ac yn llwyddiannus.

1. Chwilio ac astudio ei hegwyddorion. Y mae llyfr ei hegwyddorion genym. Y mae wedi ei roddi i ni o'r nef i'r dyben

i'w ddysgu. Y mae yn ofynol i ni fyfyrio arnynt er eu deall. Y mae egwyddorion yn perthynu i bob galwedigaeth: a'r peth cyntaf a wneir wrth gychwyn plentyn i unrhyw gelfyddyd ydyw dysgu ei hegwyddorion iddo: a'r rhai sy'n dysgu'r egwyddorion gymaraf a pherffeithaf ydynt yn gyffredin y celfyddydwyr goreu; a'r rhai mwyaf enwog a llwyddiannus yn eu galwedigaeth.

2. Dylem edrych ar eraill yn ymarfer duwioldeb. Y mae yn gynnorthwy gyda phob celfyddyd i sylwi ar eraill yn ei chyflawni. Y mae myrddiynau o rai ffyddlawn a medrus wedi bod yn ymarfer â duwioldeb yn yr oesau aethant heibio; ac y maent wedi gadael i ni esiampl fel y canlynem eu hol. Edrychwn pa fodd yr oeddynt hwy yn teimlo ac yn gweddio, yn galaru ac yn llawenhau, yn ymddyddan ac yn ymarweddu. Y mae rhai o'n hen gymydogion wedi hir ymarfer â duwioldeb. Y maent erbyn hyn yn lled hwylus yn yr alwedigaeth. Bydd yn ennill i chwi fel crefyddwyr ieuainc i fod yn fyw'och yn eu cymdeithas.

3. Rhaid i chwi gymmyg yn bersonol i ymarfer â holl gangheuau y gelfyddyd. Nid ydyw astudio yr egwyddorion ddim yn ddigon; ac nid ydyw edrych arnynt yn casl eu rhestru mewn ymarferiad gau eraill ddim yn ddigon: rhaid i chwi e'ch hunain yn bersonol ddilyn holl ymarferiadau duwioldeb. Cyn y gellwch ddyfod yn weddïwyr cryfion, rhaid i chwi arfer gweddio. Cyn i chwi ddyfod yn dduwinyddion goleu, rhaid i chwi arfer myfyrio. Cyn i chwi ddyfod yn santaidd, rhaid i chwi ymarfer â moddion santeiddio.

Er eich *annogaeth*, i fod yn ddyfal i ymarfer eich hunain i dduwioldeb, dywedwn yn—

1. Ei bod yn hen gelfyddyd ardderchog; yn alwedigaeth uchel, yn un hyfryd, enwog, ac anrhydeddus. Nid yw byth yn darostwng nac yn diraddio ei diliynwyr; nid yw byth yn eu dianrhydeddu nac yn eu tynu i lawr; ond y mae wedi codi myrddiynau i urddas ac enwogrwydd, i'r gymdeithas buraf ac anrhydeddusaf, i gylchoedd pendefigion y nefoedd; ac wedi eu dyrchafu yn y diwedd i fod yn frenhinoedd ac yn offeiriaid, ac i eistedd ar eu gorseddfeinciau yn llys gogoniant.

2. Heblaw bod yn gelfyddyd anrhydeddus, y mae yn un *ennill-fawr*. Y mae yn dwyn golud yn gystal ag enw i'r rhai sydd yn ei harfer. Y mae ganddi addewid o'r bywyd sydd yr awrhon; ac y mae ganddi addewid am lawer mwy yn y byd a ddaw.

3. Y mae yn gelfyddyd addas at eich sefyllfaoedd, ac at eich galluoedd chwi. Ped annogwn chwi yn awr i afaelyd mewn ambell i gelfyddyd, neu alwedigaeth, gallech ateb nad ydyw ddim yn gymhwys i'ch sefyllfa: ond llwyr ofer i neb geisio dweyd fod

duwioldeb yn gelfyddyd rhy ddyrys, rhy dywyll, neu rhy ddofn iddo i'w dysgu. Y mae rhai o bob oed, a gradd, a rhyw, wedi ei dysgu. Y mae rhai o bob sefyllfa, ac o bob doniau, wedi bod yn ei harfer. Y mae rhai uchelradd a rhai iselradd wedi bod yn ei dilyn. Y mae babanod bloesg eu llais, a hen bererinion dan goron eu gwallt gwyn, wedi bod yn arfer duwioldeb. Y mae yn nghyrhaedd eich galluoedd chwithau, ac yn berffaith gyfaddas i'ch sefyllfa. Ni raid i chwi ddim ofni i neb byth eich beio, eich bod wedi ymwthio allan o'ch lle a'ch cylch priodol wrth i chwi ymarfer â duwioldeb. Y mae genych y cyfleusderau goreu i'w harfer.

Gochelwch ymarfer â *phechod*. Celfyddyd andwyol ydyw. Y mae pob ymarferiad pechadurus yn anhwylysu holl serchiadau a holl ddoniau yr enaid i ymarfer duwioldeb. Cofiwch nad ellwch byth *ragori* mewn duwioldeb heb lawer o ymarferiad: a chofiwch hefyd mai y rhai mwyaf cyfarwydd â'r fath gelfyddyd uchel ac enwog ydynt y rhai dedwyddaf ac anrhydeddusaf yn holl ymerodraeth y Duwdod.

CYMUNDEB YN 1846.

MYFYRIO.

Cynghor i gyfeillion ieuainc ar eu derbyniad i'r eglwys.—Yr ydym yn awr am eich cymhell at waith ag sydd yn deilwng iawn o'ch galluoedd, sef *myfyrio*. Pan oedd y Salmydd yn dywedyd, "Tra yr oeddwn yn myfyrio, ennynodd tân, a mi a leferais â'm tafod,"—arwydda fod myfyrio yn gwresogi ac yn goleuo ei galon, ac yn cynhyrfu ei holl ddoniau; ac felly yn helaethu ei ddefnyddioldeb, ac yn dedwyddu ei brofiad.

Myfyrio ydyw gosod y meddwl i weithredu ar ryw bwnc dan ei sylw, fel y gallo wrth ei ystyried a'i chwilio ei adnabod yn well.

Er eich *annog* i fyfyrio, ystyriwch—

1. Ardderchawgrwydd cyfansoddiad y meddwl. Y meddwl ydyw prif waith anfeidrol allu a doethineb. Y mae meddwl yn ysbrydol ac yn anfarwol. Nid all dyfroedd ei foddi, na'r tân ei losgi, na'r cleddyf ei drywanu, na gwasgiad y bydoedd ddim ei lethu. Y mae gan y meddwl alluoedd i adolygu pethau a fu, i gylcholygu pethau sydd, ac i ragolygu pethau a fydd etto; galluoedd i gofio, i deimlo, i garu, a chasâu, i ofni a gobeithio a mwynhau. Y mae gwaith y meddwl yn bwysicach a godidocach na gwaith y llaw. Gall y llaw ysgrifenu ar bapyr, neu gerfio ar ddur, neu baentio ar lian, yn gywrain iawn; ond y mae gwaith y meddwl yn gywreiniach. Y mae y meddwl yn gweithio yn ddiorphwys,

a pharha i weithio am dragwyddoldeb. Y mae cyfansoddiad y meddwl yn annogaeth i fyfyrio. Ystyriwch yn—

2. Amledd y testunau sydd yn gofyn eich ystyriaeth: priodoliacthau a gweithredoedd eich Duw; cyfryngdod yr Iesu; gweinidogaeth yr Ysbryd; cyflwr eich enaid; iachawdwriaeth gras; cysuron bywyd duwiol; amgylchiadau marw; golygfeydd a gwaith y farn; cosbedigaeth dragwyddol yr anufudd; a gwynfyd tragwyddol y credadyn. Ni raid i neb gwyno ei fod yn methu cael gwaith i'r meddwl, tra y mae y fath destunau yn gofyn ei astudiaeth dyfalaf. Ystyriwch yn—

3. Esiamplau duwiolion enwocaf yr oesau a aethant heibio. Abel, Enoch, Noah, Melchisedec, Abraham, Isaac, Jacob, Joseph, Job, a'u cydbrophwydi; Dafydd, Solomon, Hezeciah, Josiah, a'r brenhinoedd penaf; apostolion yr Oen; tadau yr Eglwys Gristionogol; diwygwyr pob oes a gwlad; y gweinidogion mwyaf defnyddiol yn yr eglwysi gartref; a'r cenadon mwyaf defnyddiol ar y maes cenadol; yr oeddynt oll yn rhai enwog am fyfyrio. Ac i goroni pob esiampl, yr oedd yr *Iesu* yn hoffi myned o'r neilldu er cael tawelwch i fyfyrio. Ystyriwch yn—

4. Yr effeithiau dymunol o fyfyrio. Y mae yn gwresogi ac yn ffrwythloni y galon, yn lle ei bod yn oer a diffrwyth. Y mae yn ennyn tân i losgi ymaith y sothach, sef y meddyliau ofer a'r chwantau llygredig, o'r galon. Y mae yn goleuo y meddwl i weled gogoniant pethau ysbrydol. Y mae yn gloewi yr holl rasau, ac yn hwylysu yr holl ddoniau. Y mae yn cyfoethogi y profiad, y mae yn cryfhau galluoedd yr enaid, yn ei debygoli i Grist ac i deulu pur y nef, ac yn llenwi ei deimladau â'r dedwyddwch puraf. Y credadyn mwyaf myfyrgar ydyw yr anwylaf gan Dduw, a'r mwyaf defnyddiol yn ei eglwys.

Er eich *cyfarwyddo* i fyfyrio, dywedwn yn—

1. Dechreuwch yn gynnar. Y mae y meddwl *ieuanc* yn lled rydd oddiwrth ofalon y byd; y mae hefyd yn fywiog ac yn gyflym: ac y mae yn hawdd ei blygu, a'i ddysgyblu, a'i reoleiddio, a'i hwylysu at ei waith, a'i gadw gyda'i waith. Yr ydys wedi profi mai da ydyw dechreu yn gynnar, pan yn ieuanc, ar bob celfyddyd llaw; ond y mae o fwy o bwys i ddechreu yn ieuanc ar waith y meddwl. Os camdreulir blynyddoedd cyntaf yr oes, bydd y golled yn anadferadwy. Gall y meddwl wneud mwy mewn un flwyddyn o dymmor ieuenctyd, nag mewn pedair o amser henaint. Nid wyf yn cofio yn awr am neb ddaethant yn wir enwog fel myfyrwyr heb ddechreu yn ieuanc.

2. Myfyriwch yn *rheolaidd*. Nid yw y myfyrwyr goreu ddim yn ddynion *oriog*, fel rhai yn cael *ffitiau;* yn dwys fyfyrio pan y

bydd rhywbeth yn gwasgu arnynt; neu pan y bydd rhywbeth *rhyfedd* yn y teulu, neu yn yr ardal, yn yr eglwys, neu yn y byd, yn cynhyrfu eu meddyliau. Nid ceisio cadw y meddwl yn or-dyn ar ei holl egni ambell dro y maent, a gadael iddo ddiogi am hir amser ar ol hyny. Y mae rhai felly yn gwneud niwaid i'w cyrff a'u meddyliau. Arferwch fyfyrio yn rheolaidd;—myfyrio ychydig bob dydd, yn enwedig ar adegau y ddyledswydd bersonol, a'r ddyledswydd deuluaidd. A gellir myfyrio yn hwylus pan gyda llawer math o waith, heb fod hyny yn ddim rhwystr na cholled gyda'r gwaith, ond yn hytrach yn fywiocâd ac yn gyfnerthiad i gorff a meddwl.

3. Ymlidiwch destunau diwerth a llygredig allan o'ch meddwl. Y mae testunau llygredig yn dueddol iawn i ymwthio i'r meddwl. Os cânt roesaw, y maent yn sier o niweidio y galon. Nid yw yn anhawdd adnabod y "meddyliau ofer." Wedi adnabod eu hymosodiadau, dylid bod yn benderfynol i'w gwrthwynebu, a'u gorchfygu. Cysur mawr yw cael buddugoliaeth arnynt. Y maent yn gwneud cam â'r enaid. Ar ol eu gorchfygu hwy, bydd yn hawdd gorchfygu gelynion allanol yr enaid; a cheir hamdden a thawelwch yn ol hyny i fyfyrio ar bethau buddiol.

4. Dewiswch *destunau* priodol. Nid yw pob testun da yn briodol bob amser. Dylid dewis y testunau mwyaf ymarferol, mwyaf cymhwys at nerth ac oedran y meddwl; at yr amgylchiad y byddir ynddo, ac at yr amcan fydd mewn golwg. Meddylier am ddrwg pechod pan yn nghyrhaedd profedigaethau; am waged y byd yn amser llwyddiant; am werth yr addewidion pan y byddir yn ofnus a digalon; am rinweddau y gwaed pan dan lwyth o euogrwydd; am bethau i dynu y meddwl i lawr pan y bydd yn rhy uchel, ac am bethau i'w godi pan yn rhy isel.

5. Dilyner dyledswyddau eraill er awchlymu y meddwl, yn enwedig darllen y Beibl, dilyn ordinhadau cymdeithasol crefydd, ymddyddanion crefyddol, a gweddïau. Y mae rhai, dichon, yn ceisio myfyrio, ac yn tybied eu bod yn filwyr da, heb byth ddarllen y gair, heb byth weddïo na chymuno; heb byth ymddyddan am grefydd: ond cânt weled bob yn dipyn eu camgymeriad a'u colled. Y mae dilyn y dyledswyddau eraill yn cyfoethogi ac yn melysu y myfyrdodau.

ANERCHION MEWN ANGLADDAU.

YR ANGLADD CYNTAF WRTH YR HEN GAPEL,
Mehefin 17*eg*, 1843.

Nid oedd dim meddwl, wythnos yn ol, am wasanaeth angladd yn y lle hwn. Fel y rhan fwyaf o amgylchiadau daear, daeth yn lled annysgwyliadwy. Yr oedd rhai o'n cyfeillion, er's llawer o flynyddoedd, yn dymuno cael y cylch bychan sydd wrth y capel yma yn lle beddrod; ond oedwyd y peth gan feddwl y buasai hyny yn dramgwydd gan rai o gyfeillion "mynwent y plwyf." Pan ofynais ddeuddydd yn ol i Mr. Hughes, a fyddai gwrthwynebiad ganddo i ni droi y clwt glas yn fynwent, amlygodd ef a'i deulu yr ewyllysgarwch mwyaf parod, gan arwyddo y buasai yn dda ganddynt pe buasai hyny wedi cael ei wneud er's llawer o flynyddoedd. Yr wyf yn teimlo parch i'm cymydogion am eu caredigrwydd; ac i gofiadwriaeth eu hynafiaid am drosglwyddo tir i godi addoldy i'r eglwys a gyferfydd yma. Yr wyf yn meddwl mai y lleoedd a gysegrwyd i addoli Duw, i ddarllen a phregethu ei air, lleoedd y gân, y weddi, y cofio am farwolaeth yr Iesu, ydynt y lleoedd tlysaf ac anwylaf ar y ddaear, a bod pob lle felly yn ychwanegu at werth yr etifeddiaeth y bydd arni.

Y mae yma le cyfleus i fod yn fynwent, a bydd yn rhaid i ni furio o'i hamgylch, a'i wneud yn lle cryno; a cheir cyfarfod yn ddioed i drefnu gyda golwg ar hyny. Buasai yn dda genym yn awr pe buasai y gwaith hyny wedi cael ei wneud gan ein tadau er's dros gan' mlynedd. Buasai yn gyfleusdra o gryn werth mewn plwyf fel hwn ag sydd yn gryn ddeng milldir o hyd; a buasai yma felly heddyw *hen* fynwent wrth yr "hen gapel:" ond dichon fod rhyw rwystrau ar ffordd ein tadau nas gwyddom ni ddim am danynt.

Y mae mynwent y plwyf, nid yn unig yn bell o rai o'i gonglau, ond y mae wedi myned yn bur llawn. Y mae dyddiau y claddu i'r rhai pellaf oddiwrthi wedi bod yn ddyddiau o lafur ag oedd yn cymeryd bron holl oriau y dydd. Byddai yn gyfleusdra ychwanegol pe ceid mynwent etto yn y Pennant, fel y gallai pob teulu gladdu eu marw yn ol eu cyfleusdra a'u dewisiad; a gallai adeg fynych i rai roddi tro yn mysg beddau eu cyfeillion fod yn

fendithiol; oblegid ymarferiad da ar les y meddwl a'r teimlad ydyw myfyrio yn fynych am y bedd, a chymdeithasu llawer â'r olygfeydd a gwasanaeth y byd tu draw i'r bedd.

Gallwn anturio dywedyd y cysga y meirw yn y fynwent newydd yma mor llonydd ac mor dawel, mor ddystaw ac mor ddiogel ag y cysgant mewn unrhyw hen fynwent: a gallwn ddywedyd hefyd y cânt eu galw i godi foreu y dydd mawr can gynted a neb. Bydd swn udgorn y dydd hwnw yn ddigon cryf i ddeffro marwolion pob mynwent ar yr un foment.

Ni raid i'r tad a'r fam ydynt yn gadael corff bychan eu baban yma yn awr, fel i gynhesu y gwely, ddim ofni na chaiff eraill—hen ac ieuainc—ato yn bur fuan. Y mae yn dawelwch i'w profiad yn awr eu bod wedi cyflwyno eu baban, gorff ac enaid, i ofal yr Iesu fu yn y bedd, ond a adgyfododd. Gwyddant pa le i droi am addysg a dyddanwch. Nid oes hamdden i ni yn awr i'w hanerch. Bydd rhyddid i ni yn y lle hwn i fyrhau neu estyn y gwasanaeth yn ol ein cyfleusdra.

ANGLADD PLENTYN.

Yr oedd meddwl cyflym a theimlad tyner gan y bachgen bychan ydym yn gladdu heddyw. Yr oedd y rhieni wedi meddwl llawer am roddi y manteision addysg goreu fedrent gyrhaedd iddo; ond penderfynodd eu Tad nefol ei gymeryd o'u gofal i ddosbarth ei gyfoedion yn y *brif ysgol* ar unwaith, lle y caiff ddysgu yn llawer cyflymach a dedwyddach nag y gallasai ddysgu yn yr athrofa oreu ar y ddaear. Boed iddynt fyfyrio llawer, er eu cysur, ar y geiriau effeithiol a gerfiasant ar gauad ei arch; daw daioni iddynt o hyny; a bydd yn felus iddynt, yn mheu blynyddoedd, gofio am dristwch a hiraeth y dydd hwn.

Y mae yn bosibl i fagu yn meddyliau y plant, pan y maent yn bur ieuainc, deimladau at yr Iesu a groeshoeliwyd, ac o barch at y Beibl, a gorsedd gras, a'r Sabbath, a thŷ yr Arglwydd: ac ni bydd byth yn edifar gan rieni am eu hymdrech a'u gofal i wneud hyny, am eu pryder i'w magu i'r Arglwydd, a'u hawydd i roddi iddynt y breintiau addysg goreu yn eu cyrhaedd, er i'w plant fod yn ddefnyddiol yn eu hoes a'u cenedlaeth. Tâl hyny yn dda iawn iddynt os estynir dyddiau eu plant, a thâl yn well iddynt os cymerir eu plant yn gynnar oddiwrthynt i fwynhau breintiau a gwynfyd y wlad well.

ANGLADD RICHARD THOMAS, TAFOLWERN,

Gorphenaf 11*eg*, 1843.

Wrth y tŷ.—Yr oedd yr adroddiad byr a ddarllenasom am ymweliad yr Iesu â Martha a Mair, pan yn eu galar ar ol eu brawd, yn dysgu i ni—

1. Fod yr Iesu am i'w ddilynwyr wneud yr hyn a allont i leddfu eu cyfeillion mewn tristwch.
2. Yr ymadroddion ddylem ddefnyddio wrth eu dyddanu.
3. Fod ganddo ef ddigon o nerth a dyddanwch iddynt yn mhob trallod.

Yn yr Ysgoldy.—Gwyddai ein hen gyfaill yn lled lawn am brofiad Dafydd yn y Salm a ddarllenwyd. Yr oedd yn rhyfeddu ymostyngiad Duw yn rhoddi ei hun yn "Fugail" i'r credadyn, er ei dywys, ei oeddi, a'i ddychwelyd o'i holl grwydriadau. Yr oedd wedi hir arddel Duw fel ei Fugail. Yr oedd wedi gwrando ar ei lais a phrofi o'i ymgeledd. Yr oedd yn hoffi gorwedd yn y porfeydd gwelltog, gerllaw y dyfroedd tawel, a chael ei arwain ar hyd llwybrau cyfiawnder. Yr oedd yn awyddus i ddenu eraill i'r un porfeydd ac i'r un llwybrau. Yr oedd yn hoff o gymdeithas y praidd, ac o borthi yr ŵyn, a'u cadw ar dir diogelwch. Gwelid ef yn ei le, bob amser, wrth y "ford," yn mwynhau "arlwy" trugaredd yn nhŷ yr Arglwydd. Yr oedd am fawrygu cyfraith y tŷ, ac am breswylio yno yn dragywydd. Cafodd, yn ei ddiwedd, rodio ar hyd y glyn heb ofni niwaid.

Y mae ei le a'i swydd yn yr Ysgol ac yn y gymdeithas grefyddol yn awr yn wag; ond y mae yma frodyr a chwiorydd yn bryderus am wneud eu rhan i lenwi y bwlch a wnaed drwy ei symudiad oddiwrthym. Mae'r Duw fu'n ei nerthu a'i gynnal ef yn ddigon i'r weddw oedranus ac egwan, yn ddigon i'w gydathrawon, yn ddigon i ni hyd angeu, ac yn ddigon i ni hyd byth, ac hyd byth byth oedd.

Yn y Capel.—Mae'r adnodau canlynol, yn mysg llawer o rai eraill, yn profi i ni fod ysbrydoedd y cyfiawnion yn *byw* ar ol ymadael â'r corff—yn byw yn awr *cyn* yr adgyfodiad—a'u bod yn gallu addoli a chymdeithasu, ac yn eglur ragdybied eu bod yn *adnabod eu gilydd*:—Gen. xv. 15; 2 Sam. xii. 23; Job xix. 25; Preg. xii. 7; Mat. xvii. 4; Mat. xxv. 40; Luc xiii. 28; Luc xvi. 22; Luc xvi. 28; Ioan iv. 36; Ioan xi. 23; Rhuf. viii. 11; 2 Cor. xiii. 12; 1 Cor. xv. 55; 2 Cor. iv. 14; 2 Cor. v. 8; Phil. i. 24; Col. i. 28; 1 Thes. ii. 19; 2 Thes. ii. 1; 1 Thes. iv. 14; 2 Tim. iv. 8; Philemon 15; Heb. xi. 16; Heb. xii. 23;

Heb. xiii. 7; 1 Ioan iii. 2; Dat. v. 9; Dat. iii. 21. Os tybir nad yw y saint yn adwaen eu gilydd yn y nef, tòrir grym yr ysgrythyrau hyn: ond y *maent* yn adwaen eu gilydd yno, ac y mae eu cymdeithas yn felus annhraethadwy. Y mae yn myned yn fwy o hyd, yn fwy o ran nifer ei haelodau, ac yn fwy o ran goleuni a melusder eu cyfeillach. A chan eu bod yn adwaen eu gilydd yno, y mae lle i gasglu y gwyddant gryn lawer am amgylchiadau yr eglwys ar y ddaear. Dichon fod ganddynt *lawer* ffordd i gael newyddion o'r ddaear; ond hawdd i *ni* allu dirnad am *un* ffordd, sef drwy adroddiadau y rhai sydd o bryd i bryd yn cael eu symud yno atynt. Gall Richard Thomas adrodd llawer o'n helyntion diweddar ni wrth ein hen gyfeillion oeddynt yno o'r blaen. Ceisiwn deimlo ac ymarweddu fel rhai sydd yn ngolwg ac yn ymyl y byd arall, fel rhai ag y mae llygaid engyl a saint arnom; ac fel rhai y mae llygaid yr *Iesu* arnom.

Wrth y Bedd.—"Angeu a lyncwyd mewn buddugoliaeth." Pa fodd hyny, pan y mae yn rhwygo cylymau anwylaf ac agosaf, pan y mae yn lladd y corff, ac yn ei fynu dan ei awdurdod i'r bedd? Y mae wedi cael ei lyncu mewn buddugoliaeth, am nad oes i'r saint ddim colyn ganddo all gyrhaedd yr enaid, ddim gwenwyn yn ei gwpan, ddim peryglon yn nglyn ei gysgod, ddim grym i ysgubo ymaith yn llif ei afon; am mai gwas ac nid meistr ydyw, am mai cymwynaswr ac nid gelyn ydyw, ac am fod ei dir oll dan feddiant yr Iesu, ac am y bydd raid iddo roddi i fyny, ar alwad yr Iesu, y cyrff oll fydd yn ei feddiant.

"P'am y dychrynwch mewn un wedd,
Drosglwyddo cyrff y saint i'r bedd?
Yno bu cnawd yr Iesu pur,
A gad'odd arogl peraidd hir.

"Bendithio beddau 'i saint a wnai,
Ac esmwythaodd eu gwel'au;—
P'le gorphwys yr aelodau mân,
Ond gyda'u Pen fu yno o'r blaen?

"P'am y tristawn ar ol y saint?
Nid marw, ond ymado maent:—
'Dyw angau ond cenad Crist o'r nef
I'w galw hwynt i'w freichiau ef.

"Ac onid y'm yn awr o hyd
Am dynu fry tua'r nefol fyd,
Mewn hiraeth am y dydd cawn fyn'd
At Iesu, ein hanwylaf Ffrynd."

Yr ydym wedi ymdroi yn nghylch elor ein hen gyfaill ymadawedig braidd yn hŵy nag arferol ar achlysuron fel hyn. Yr

oedd wedi dymuno am i ychydig eiriau gael eu dweyd yn yr ysgoldy, yn gystal ag yn y capel ac wrth y bedd, er *calondid* i'w hen gyfeillion. Daethant yn brydlawn i'w angladd, fel na bu raid i'r rhai blaenaf ymdroi yn hir i ddysgwyl y rhai olaf. Y mae yr hin yn hyfryd. Y mae yr haul etto yn uchel, ac yn tywynu i'w fedd. Gall pawb gyrhaedd adref yn gynnarol; ac y mae braidd yn anhawdd i'r meddyliau beidio aros ychydig ar goffadwriaeth ein hen gyfaill bywiog, diwyd, llafurus, a ffyddlawn. Y mae yn gorphwys oddiwrth ei lafur, a'i weithredoedd yn ei ganlyn. O hyn allan caiff rai uwch eu hurddas na ni i wylio ei fedd.

CADWEDIGAETH BABANOD.

Y MAE gan y rhieni sydd yma yn hiracthu ar ol eu plentyn y seiliau cryfaf i gredu fod y rhai sy'n meirw yn eu babandod yn cael eu cymeryd at Dduw i ddedwyddwch. Nid ydynt yn wrthod wyr o Grist a'i drefn i gadw, ac ni chânt eu cyfrgolli gyda'r cyfryw. Daeth collfarn trosedd yr Adda cyntaf drostynt, ond daeth hefyd brynedigaeth iddynt, yn llaw yr Ysbryd, trwy haeddiant yr ail Adda. Yr ydym yn credu y ceir eu gweled yn mysg "y rhai a brynwyd oddiwrth ddynion, yn flaenffrwyth i Dduw ac i'r Oen." Yn eu genau ni chaed twyll; a difai ydynt ger bron gorseddfainc Duw.

Yr oedd Dafydd gynt yn credu byn pan yn sychu ei ddagrau ar ol ei "blentyn marw," ac yn dywedyd, "Myfi a âf ato ef." Yr oedd yn dywedyd mewn man arall, "Wele, plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd." Ac nid yw yr Arglwydd byth yn bwrw ymaith ei "etifeddiaeth." Nid yw byth yn gwrthod neb ond y rhai sydd yn gyntaf yn ei wrthod ef. Nid yw yn bwrw neb allan o gylch cyfammod ei drugaredd, ond y rhai sydd yn mynu tynu yn ol i golledigaeth. Nis gall babanod ddim ei wrthod ef, nid ydynt yn diddymu ei gyfammod, nid ydynt yn mathru ei aberth, nid ydynt yn gwrthod ei drugaredd; ac felly byddant yn etifeddiaeth iddo byth, yn eiddo iddo yn dragwyddol. "Ei wobr ef yw ffrwyth y groth;" ac nis gall angeu nac uffern ei dwyn oddiarno.

A dywedodd Iesu Grist ei hun yn y dull tirionaf, pwysicaf, ac eghuraf am "blant bychain"—"Eiddynt yw teyrnas nefoedd." Ac ni cheuir hwynt allan o'r deyrnas, heb iddynt droseddu ei deddfau, a diystyru ei bendithion, a gwrthod ei breintiau.

Gofynir gan rai etto, fel yn yr oesau gynt, "Pa fodd y cyfodir y meirw, ac â pha ryw gorff y deuant?" Ai cyrff *babanaidd* fydd gan y rhai fuont feirw yn eu mabandod? Digon i ni ar hyn ydyw gwybod fod athrawiaeth adgyfodiad y corff yn cael ei

dysgu yn yr iaith egluraf; ac y bydd cyrff yr adgyfodiad yn addas at wasanaeth, a chymundeb, a gogoniant y nefoedd, a bod gallu Duw yn ddigonol i gyflawni holl fwriadau ei drugaredd.

"Nid oes un angel yn y nef ddyrchafa gân â mwynach lef,
Na'r baban gwan a wnaed yn wyn drwy ffynnon rad Calfaria fryn."

"YR ARGLWYDD A GYFODODD YN WIR."

Do; "Cyfododd yn wir," mewn dull tawel, buddugol, a gogoneddus, yn ol ei addewid ei hun, ac yn ol yr ysgrythyrau am dano; ac ymddangosodd i'w ddysgyblion drachefn a thrachefn, trwy lawer o arwyddion sicr, gan fod yn weledig iddynt dros ddeugain niwrnod, a dywedyd y pethau a berthynent i deyrnas Dduw: ac nid oedd yn bosibl fod twyll yn eu hadroddiadau. Yr oedd ei wedd, ei waith, a'i holl eiriau grasol, a myrdd o amgylchiadau yn cyd-daro i brofi y gwirionedd am ei adgyfodiad.

Do; "Cyfododd yn wir;" ac yr un ydoedd ag oedd cyn ei farwolaeth, yr un corff, yr un galon—yr un cariad at ei Dad, yr un tynerwch tuag at ei ddysgyblion, a'r un awyddfryd am achub pechaduriaid.

Do; "Cyfododd yn wir;" ac mor wir a'i fod wedi cyfodi, y mae heddyw yn fyw; nid ar ein daear ni, ond wedi esgyn at ei Dad i'w ogoniant, wedi ei ddyrchafu i'r swydd gyfryngol fry. Daeth cerbydau Duw, yn ugain mil, i'w gyfarfod; ac esgynodd gyda llawen floedd holl deulu'r nef. Ni bu erioed yno orfoledd uwch nag wrth agor y drysau tragwyddol i'w groesawu, ac wrth ei weled yn eistedd ar ei orseddfainc. Y mae yn byw bob amser i eiriol, ac i barotoi lle i'w ganlynwyr. Byw yw ef, a byw fydd ant hwythau hefyd, ac y maent yn sicr o gael myned, yn y man, ato i'r lle mae; ac ni bydd yno byth farwolaeth, nac ymadawiad.

Do; "Cyfododd yn wir;" a chyfododd fel blaenffrwyth y rhai a hunasant ynddo. Aeth i'r bedd i'w gynhesu iddynt; a gadawodd yno arogl peraidd ar ei ol: a bydd i'r hwn a adgyfododd Crist, fywiocâu hefyd gyrff marwol ei saint: cânt hefyd eu cyfnewid i fod yr un ffurf a'i gorff gogoneddus ef. Pe cedwid cyrff ei saint yn llwch y bedd, byddai gwaith ei iachawdwriaeth heb ei berffeithio.

Do; "Cyfododd yn wir." Bydded yn dda genym feddwl a son am ei adgyfodiad. Yr oedd yn dda iawn gan y gwragedd gynt ddywedyd wrth eu gilydd—"Yr Arglwydd a gyfododd yn wir." Pan y daeth Mair Magdalen, a Mair mam Iago, a Salome at y bedd i berarogli y corff, cawsant, er eu syndod, fod y maen "mawr iawn," oedd ar ddrws y bedd, wedi cael ei dreiglo ymaith;

ac wedi iddynt fyned i mewn i'r bedd, hwy a welsant angel, fel mab ieuanc, yn eistedd o'r tu dehau, mewn gwisg wen-llaes; ac a ddychrynasant. Ac efe a ddywedodd wrthynt, Na ddychrynwch. Ceisio yr ydych yr Iesu, yr hwn a groeshoeliwyd, efe a gyfodiodd; nid yw efe yma: wele y man y dodasant ef. Eithr ewch ymaith; dywedwch i'w ddysgyblion ef, ac i Pedr, ei fod yn myned o'ch blaen chwi i Galilea: yno y cewch ei weled ef, fel y dywedodd i chwi. "Mab ieuanc" o wisg hardd, o wedd hawddgar, o foes boneddigaidd, ac o ymadrodd cariadlawn oedd hwnw. Yr oedd yn dda iawn gan Simon adrodd am y modd yr ymddangosai yr Iesu iddo. Yr oedd yn dda gan yr unarddeg, wrth gyfarch ac ateb eu gilydd, ddyblu ac ailddyblu y geiriau, "Yr Arglwydd a gyfodiodd yn wir, ac a ymddangosodd i Simon." Ac yr oedd yn dda gan y ddau ddysgybl adrodd y pethau a wnaethesid ar y ffordd, a pha fodd yr adnabuwyd ef ganddynt wrth dòriad y bara. A dysgodd Thomas, o'r diwedd, ddywedyd gyda llais buddugol a gorfoleddus, "Yr Arglwydd a gyfodiodd yn wir."

Felly dylem ninnau redeg, gyda llawenydd, i son am adgyfodiad yr Iesu wrth gyfeillion claf, pan fyddont yn myned i lawr i'r glyn; wrth gyfeillion galarus pan y byddont mewn hiraeth oddeutu bedd eu ceraint. Ac hefyd wrth drueiniaid anystyriol ydynt heb adnabod yr Iesu, heb weled ei ogoniant, heb gymdeithasu â'i ddyoddefiadau, ac heb ymddiried eu hachos iddo fel yr unig Geidwad a buddugoliaethwr all eu cynnal yn angeu, a'u gwneud yn fwy na choncwerwyr.

Wrth y ceraint sydd yma yn hiraethu am y chwaer ymadawedig, ac yn benaf, wrth ei phriod a'i mab, nid oes genym ddim mwy dyddanol i'w ddweyd nag—"Yr Arglwydd a gyfodiodd yn wir." A dygir hithau hefyd o'r bedd i fyw gydag ef.

Y DDAU GARTREF.

Yr oedd Paul mewn un man yn crybwyll am fod "oddicartref o'r corff, a chartrefu gyda 'r Arglwydd." Tybia ei eiriau yn—

1. Fod ysbryd dyn tra yn y bywyd hwn yn "cartrefu" yn y corff. Gall ei feddwl deithio yn mhell drwy y byd gweledig, ac i'r byd anweledig, at bethau fu, sydd, neu etto a ddaw; ond rhaid i'r ysbryd gartrefu yn y corff tra byddont mewn undeb â'u gilydd. Lle y bydd y corff yn aros, yno bydd yr ysbryd. Nid all un ddim bod yn Nghymru, a'r llall yn America. Pe gallai y corff fyned i weled Gethsemane, âi yr ysbryd gydag ef. Drwy gyfrwng y corff y mae yr ysbryd, yn ei sefyllfa bresenol, yn gallu gweithredu a mwynhau. Drwy lygad y corff y mae yn

gweled, drwy glust y corff y mae yn clywed, drwy dafod y corff y mae yn llefaru, drwy draed y corff y mae yn symud, a thrwy ddwylaw y corff y mae yn gweithio. Ac y mae, tra yn y corff, yn gorfod cyd-deimlo â'r corff. Pan bydd y corff yn cael ei guro gan gystuddiau, mae'r enaid yn teimlo; a phan y bydd heulwen iechyd a chysur yn tywynu ar y corff, y mae yr enaid yn llawenhau.

2. Tybia geiriau Paul fod modd i'r ysbryd gartrefu gyda'r Arglwydd; hyny yw, cartrefu yn y man y mae yr Arglwydd yn awr yn ein natur ni. Gall yr ysbryd felly, pan yn cartrefu gyda'r Arglwydd, wybod pa fath olwg sydd arno yn y nefoedd, pa fath le sydd yno, pa fath waith sydd yno, a pha fath gymdeithion sydd yno; a gall "gartrefu" gyda hwy, eistedd wrth yr un bwrdd, ac uno yn yr un gân, a chyfranogi o'r un llawenydd.

3. Tybia geiriau Paul nad ellir dim cartrefu yn y ddau le ar unwaith; ac nad ellir dim eu newid bob yn ail, pe dewisid hyny. Rhaid bod oddicartref o'r corff cyn y gellir cartrefu gyda'r Arglwydd. Rhaid ymadael â'r corff, a gadael i'r hen gartref adfeilio, a syrthio i lwch y bedd, cyn y ceir cartrefu gyda'r Arglwydd. Ni cheir dim cartrefu yn un man dros yr haf, ac yn y man arall dros y gauaf. Nid ellir, tra yn y corff, ddim cyflawni y gwaith sydd fry, na chynnal y llawenydd sydd fry; ac nid oes neb, ar ol myned i gartrefu gyda'r Arglwydd, yn ymdraflerthu gyda gofalon y ddaear.

4. Tybia geiriau Paul mai cartrefu gyda'r Arglwydd ydyw y goreu o ddigon. Y mwyaf cyflawn o bob cyfoeth a chysur; y mwyaf difyr o ran gwaith a chymdeithion; y mwyaf dìogel o gyrhaedd gelynion, a phob drygau; y mwyaf gogoneddus o ran ei holl addurniadau; y mwyaf anrhydeddus o ran ei holl gymeriad; a'r mwyaf parhaus, oblegid bydd hwnw yn gartref tragwyddol.

Gan hyny, annoeth iawn fyddai dymuno am gael cartrefu byth yn y corff. Rhaid gadael cartref y corff, oblegid â yn fuan yn rhy adfeiliedig i'r ysbryd aros ynddo: a dylai enaid anfarwol ragddarbod am gartref pan y bydd raid iddo ymadael o'r corff.

Gweddus i ddyn anfarwol felly, tra yma yn y corff, ydyw rhodio wrth ffydd, ac nid wrth olwg. Y mae genym ddrych o bethau y byd anweledig; ac er nad all yr ysbryd ddim myned yno i gartrefu tra mewn undeb â'r corff, etto, gall ffydd y creadyn weled y byd gogoneddus hwnw, a gall anfon serchiadau yr enaid i gael eu maeth a'u nerth o fyd arall.

Y pwnc mawr, gan hyny, i ni ydyw—"ymorchestu," pa un bynag ai gartref y byddom ai oddicartref, ein bod yn gymeradwy ganddo ef. Nid oes neb yn cael myned i gartrefu gyda'r Ar-

glwydd, heb fod yn gymeradwy ganddo ef cyn myned oddicartref o'r corff. Dylem "ymorchestu," hyny ydyw, gwneud ein goreu i fod yn gymeradwy ganddo ef, oblegid y mae ein holl ddedwyddwch yn ymddibynu ar hyny.

Dylem fod yn dawel a boddlawn i gartrefu yn y corff tra y bydd ef yn ewyllysio hyn, hyd yn nod drwy'r holl dymhestloedd a'r oerder; a dylem fod yn foddlon i fyned oddicartref o'r corff pan y bydd ef yn galw am danom.

Amser dedwydd a gogoneddus iawn fydd hwnw pan y caiff y corff ei adgyfodi o lwch y bedd, a'i ail uno â'r ysbryd, er iddynt gael cydgartrefu gyda'r Arglwydd yn oes oesoedd.

ANGLADD MERCH IEUANC.

Mae'r byd hwn yn hynod o gyfnewidiol ac o gymysglyd. Weithiau bydd yr heulwen yn gynhes, bryd arall bydd y dymhestl yn erwin: ddoe yr oedd y llwybr yn wastad ac yn esmwyth, heddyw y mae yn serth ac yn arw. Brydnawn y bydd wylofain a galar, erbyn y boreu y bydd cân gorfoledd. Bydd raid cario y groes drwy wres y dydd, ond ceir ar ol hyny orphwys a gwisgo coron. Ceir y melus a'r chwerw bob yn ail; ond cydweithia y cyfan er lles i'r credadyn. Y mae ein cyfeillion ydynt yma heddyw yn cydalaru, wedi bod yn cydlawenhau. Cawsant lawer o felusion yn eu cwpan, ond y mae ynddo heddyw chwerwder chwerw. Cawsant lawer o ddyddiau tawel a heulog, ond y mae y dyddiau diweddaf wedi bod yn rhai cymylog a thywyll iddynt. Peth trwm iawn i deulu o deimladau tyner ydyw colli merch ieuanc brydferch, wylaidd, weithgar, o'r dymher hawddgaraf, ar ol ei magu i fod yn *bump ar hugain oed.* Gweinidogaeth angeu ydyw y ryfeddaf, y chwerwaf, a'r dywyllaf sydd yn cyfarfod teuluoedd yn y byd yma. Y mae yn weinidogaeth *angenrheidiol* yn ol trefn ddoeth y Nef. Rhaid i un genedlaeth fyned ymaith er cael lle i genedlaeth sy'n codi ar ei hol. Pe buasem ni yn cael trefnu goruchwyliaeth angeu, dichon y buasem yn trefnu i bawb gael cyrhaedd rhyw oedran *penodedig* cyn marw, neu i bawb gael oes o'r *un hyd:* ond buasai dynion felly yn anystyriol a dideimlad tra y buasai marw yn *mhell*, ond yn llawn dychryn a gwylltineb pan y buasai marw yn *ymyl.* Y mae trefn Duw yn well er ein cadw yn weithgar ac yn wyliadwrus, gan na wyddom pa mor fuan y gelwir am danom.

Dylem ddiolch am efengyl sy'n esbonio i ni am enaid na bydd marw, am iachawdwriaeth lawn ar ei gyfer, ac am udgorn all ganu yn ddigon cryf i ddeffro y meirw yn eu beddau; ac am fywyd diddarfod yn y nef. Yr oedd yn hyfryd i glywed y

chwaer ieuanc ymadawedig, y nos cyn ei marwolaeth, yn ymddyddan mor dawel am yr Archoffeiriad mawr yn tòri grym y dwfr o'i blaen, ac am y cymdeithion dyddan ga'i yr enaid i'w dywys adref ar ei ymadawiad o'r corff, ac am drefn y gwahanol ddosbarthiadau yn ysgol fawr y nef; ac yn enwedig ei chlywed yn dweyd yr hyder oedd ganddi y ca'i hi ei gosod yn nosbarth ei hen weinidog, ag oedd wedi ei thywys, megys yn ei law, at grefydd; ag oedd hefyd wedi ei chynghori mor dyner, ac wedi ei haddysgu mor ofalus, nid yn unig drwy ei bregethau, ond drwy ei ymddyddanion yn y tŷ, ac ar y ffordd, yn yr ysgol ddyddiol, ac yn y gymdeithas grefyddol.

Saith wythnos i heddyw y bu yma gynnulliad mawr fel hyn o'r blaen ar achlysur claddedigaeth ei chwaer ieuangaf. *Plentyn* oedd hòno yn ei galw ei hun, a phlentyn oeddid yn ei hystyried, ond plentyn wedi ei magu yn yr eglwys ydoedd; a phlentyn na chefnodd erioed ar y gymdeithas grefyddol; yr oedd mor reolaidd yno a'r rhai ffyddlonaf: plentyn ydoedd ag oedd yn hoff iawn o ganiadau a gweddïau yr eglwys; ac yr oedd yn arfer siarad llawer am y byd tu draw i farw. Buasai er's misoedd yn dyfod yn gyflawn aelod eglwysig, pe cawsai yr awgrym lleiaf fod ei chyfeillion crefyddol yn dymuno hyny. Dichon y gall cymdeithas grefyddol gamgymeryd, eisieu dangos yn fwy eglur ei bod am groesawu rhai o'i hoedran, ac o'i hysbryd, ac o'i hymarweddiad hi i gymundeb eglwysig.

Y mae ein mynwent newydd yma yn cyflym fyned yn gladdfa *teuluoedd*. Yr oedd y chwaer fach Elizabeth wedi myned yn mlaen i gynhesu y gwely i'w chwaer Anne, ac yn awr y mae y ddwy chwaer yma i'w gadw yn gynhes i'r gweddill o'r teulu. Y mae yn hyfryd i weled teulu duwiol gyda'u gilydd o gylch bwrdd ac allor y teulu; y mae yn hyfryd i feddwl am danynt yn cydorphwys yn y bedd; ond y mae yn fwy hyfryd fyth i feddwl am danynt yn cydgodi, ac yn cydesgyn i gydfyw yn y nefoedd. Gobeithio y bydd i angladd y chwaer ieuanc yma ag oedd yn ddiweddar mor wridog gyda ni, ddyfnhau yr argraff dwys a wnaed ar feddyliau rhai ieuainc yn yr angladd blaenorol. Nid all y gwrid tecaf, na'r dymher dirionaf, na'r anwyldeb perthynasol cynhesaf ddim cadw angeu draw. Ieuenctyd anwyl! dewiswch i chwi *heddyw*, wrth fedd y ddwy chwaer ieuainc hyn, ochr pobl y nefoedd.

"TRUANAF O'R HOLL DDYNION."

Wrth ymresymu am yr adgyfodiad, dywedai Paul—"Os yn y byd yma yn unig y gobeithiwn yn Nghrist, truanaf o'r holl

ddynion ydym ni." Yr oedd yn tybied mai gwaith mawr oes y credadyn ydyw "gobeithio yn Nghrist:" gobeithio am waredigaeth lawn oddiwrth bechod, oddiwrth ei euogrwydd, ei lywodraeth, a'i effeithiau; gobeithio am oruchafiaeth ar y byd a'i brofedigaethau, a'i orthrymderau; gobeithio am fuddugoliaeth ar angeu a'r bedd, ac am wynfyd a gogoniant diddiwedd yn y nefoedd. Ac y mae yn gobeithio am y pethau mawrion hyn "yn Nghrist," neu drwy Grist, drwy haeddiant ei angeu, drwy rinweddau ei Iawn, a'i awdurdod ar bob peth, a'i ffyddlondeb i'w addewidion.

Wedi hyny, y mae Paul yma yn arwyddo, pe gallai rhyw un brofi i'r credadyn mai yn y byd yma yn unig y mae yn gobeithio yn Nghrist, neu, na bydd dim adgyfodiad i fywyd tragwyddol, y lleddid ar unwaith ei obeithion, y darfyddai grym ei ddyddanwch, ac y byddai yn fwy truan na neb; am ei fod yn dyoddef cymaint o erlidiau oblegid ei obaith: ei fod y truanaf o bawb, os, ar ol iddo bwyso cymaint ar ei obaith, y troai y gobaith hwnw yn siomedig; os, ar ol iddo orfoleddu cymaint yn ei deitl i etifeddiaeth yn y nef, y profai y teitl hwnw yn dwyll. Y mae yn addef fod y Cristion yn druanach na phlant y byd hwn os twyll ydyw ei holl obaith, eu bod hwy wrth fwyta ac yfed a goganu yn gallach nag ef, oedd yn dyoddef pob dirmyg a cholled oblegid ei grefydd, os nad oedd byd ar ol hwn.

Ond yr oedd dwy ochr i "os" ei ymresymiad. Os nad oes byd ar ol hwn, bydd siomedigaeth yr hwn sydd yn gobeithio yn Nghrist yn drwm iawn; bydd ei obaith yn diflanu pan y bydd yn tybied ei fod ar drothwy y nefoedd. Ond os oes byd ar ol hwn, os yw Iesu wedi adgyfodi, os daw yr ail waith i godi y meirw, i farnu y byd, ac i gasglu ei saint ato ei hun i ogoniant, nid yr hwn sydd yn gobeithio ynddo ydyw y truanaf o'r holl ddynion. Ceir gweled ar fyrder pwy yw y "truanaf"—pa un ai y credadyn erlidiedig, ai yr anffyddiwr erlidgar. Yr oedd Paul yn ddigon sicr o'i bwnc mai nid yn y byd yma *yn unig* y mae y Cristion yn gobeithio yn Nghrist. Y mae ganddo obaith yn y byd yma, ac y mae y gobaith hwnw yn ei gynnal mewn gorthrymderau; ac yn ei buro a'i ddyddanu, ond y mae gafael y gobaith hwnw yn yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen, yn y pethau sydd uchod, y tu draw i farw. Y mae tystiolaethau y Beibl yn berffaith eglur fod etifeddiaeth ddihalogedig a diddiflanedig yn nghadw i'r Cristion yn y nefoedd; fod iddo adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd; y caiff dderbyn coron cyfiawnder, coron y bywyd, anniflanedig goron y gogoniant, gan y Barnwr cyfiawn, yn niwedd ei yrfa a'i ymdrech; fod gorphwysfa etto yn ol iddo gyda phobl Dduw ar ol ei lafur a'i orthrymderau; a bod "gwlad well"

yn ei aros ar ol myned allan o'r cystudd mawr; y caiff etifeddu bywyd tragwyddol, a bod yn frenin ac yn offeiriad i Dduw ac i Grist, a theyrnasu yn oes oesoedd.

Y mae egnïadau cynddaredd anffyddwyr i geisio gwrthbrofi y ffeithiau gogoneddus am wyrthiau gweinidogaeth yr Iesu, a'i adgyfodiad oddiwrth y meirw, ac i geisio gwadu yr athrawiaeth fawr am sefyllfa ddyfodol, wedi llwyr fethu. Cynnygiasant ddifrïo cymeriad yr ysgrifenwyr santaidd, a'r arwyddion a'r nerthoedd oeddynt yn cydfyned â'u gweinidogaeth; ceisiasant brofi nad oedd Cristionogaeth ddim ond dyfais twyll; ond y mae eu methiant gwarthus wedi troi yn chwerw iddynt; ac yr oedd y rhai penaf o honynt yn cydnabod hyny yn ngwasgfeuon eu horiau diweddaf, pan y gwysiai angeu eu henaid ger bron ei Farnwr.

Yr oedd ein hanwyl gyfaill W. J., Maesgwian, yn tawel gredu ochr Paul i'r pwnc. Yr oedd yn credu y ffaith fawr o adgyfodiad yr Iesu; ac yr oedd yn edrych arni fel coron ffeithiau gogoneddus ei weinidogaeth a'i angeu. Yr oedd yn credu ei fod yn fyw, a'i fod i fyw yn oes oesoedd, a bod ganddo agoriadau uffern a marwolaeth. Yr oedd yn gobeithio ynddo cyn ei gystudd, ac yn gobeithio ynddo pan oedd yn marw: ac yr oedd yn gwybod mai nid yn y byd yma yn unig yr oedd yn gobeithio ynddo; ond fod byd arall i berffeithio ei iachawdwriaeth, ac i anfarwoli ei orfoledd. Yr oedd ei fyfyrdod wedi aros llawer ar hanes cyfryngdod yr Iesu; ac yr oedd ganddo syniadau eang, uchel, a goleu, am ei berson a'i waith: ac fel effaith o hyny yr oedd llawer o Ysbryd Crist ynddo, ac o ddelw Crist arno: ac yr oedd gafael ei obaith yn myned gryfach gryfach hyd y diwedd. Pe buasai holl anffyddwyr y byd yn uchel haeru yn ei wyneb—"Mai yn y byd yma yn unig yr oedd yn gobeithio yn Nghrist," gallasai dawel wenu yn ol, a dweyd yn eu hwyneb oll—Mi a wn i bwy y credais, ac y mae yn ddiammheu genyf ei fod ef yn abl i gadw yr hyn a roddais ato erbyn y dydd hwnw. Nid oes arnaf gywilydd o'i efengyl, oblegid yr wyf wedi cael llawer prawf o'i dyddanwch; yr wyf wedi cael llawer blaenbrawf o ffrwythau Canaan. Mi welaf yn awr gyrau y wlad tu draw i'r afon; y mae ei pheraroglau yn lloni fy ysbrydoedd; mi glywaf swn y telynorion, a swn olwynion cerbyd fy Mrawd hynaf yn dyfod i'm cyrchu; byddaf yn fuan wedi cyrhaedd y drigfan a baratowyd i mi yn nhŷ fy Nhad.

Yn wir, y mae yr annogaethau cryfaf i'r rhai sydd gyda gwaith Crist i lynu wrtho. Ni siomir eu gobeithion. Y mae eu Harglwydd yn fyw i'w gwobrwyo mewn byd tragwyddol. Ond gresynol ydyw cyflwr y rhai sydd *heb* obeithio yn Nghrist. Y maent yn dychymygu fod ganddynt gysuron gwell nag sydd gan y

credadyn; ond pan fydd y byd hwn yn cefnu arnynt, a'r byd diddarfod yn ymagor i'w derbyn, pan gân yr udgorn, pan gyfyd y meirw, pan ymddengys y Barnwr, a phan yr eistedd y farn, cânt weled a phrofi y pryd hyny mai hwy ac nid y credadyn fydd y "truanaf o'r holl ddynion."

"Y BYR YSGAFN GYSTUDD."

Cafodd ein chwaer ymadawedig gryn lawer o gystudd, yn ol cyfrif cyffredin ein byd ni; ond yr oedd yn gallu dweyd pan yn ei gwendid mwyaf yn ymyl marw—Fod ei "byr ysgafn gystudd yn odidog ragorol." Tri gair hyfryd am y cystudd ydynt, "*Byr—hyfryd—godidog.*" Nid yw ond *byr*, ond megys dros brydnawn, ond megys am enyd fechan, am foment. Pe byddai i ryw un gael cystudd drwy ei holl oes, ni byddai hyny ond byr: eithr anfynych iawn y mae neb mewn cystudd drwy ei oes. Yr ydys yn cael llawer diwrnod heulog, llawer llwybr esmwyth, a llawer cwpan melus; ond pe byddai yn dywyll, ac yn dymhestlog, ac yn arw, ac yn chwerw o hyd drwy'r oes, ni byddai ond byr. Nid yw ychwaith ond *ysgafn*, ac ysgafn iawn o'i gymharu â thragwyddol bwys gogoniant. Ac y mae yn "odidog," yn odidog "ragorol," am ei fod yn cynhyrfu yr enaid i gasâu pechod yn fwy, i garu addewidion ac ordinhadau crefydd yn fwy, ac i bwyso ar Grist yn fwy llwyr ac yn fwy diysgog: ac felly y mae yn gloewi ei rasau, yn cyfoethogi ac yn melysu ei brofiad, ac yn ei addfedu i'r nefoedd.

Ond pa bryd y gallwn ni ddweyd fod ein byr ysgafn gystudd *ni* yn "odidog ragorol?" "Tra na b'om yn edrych ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir." Y mae yr anffyddiwr, weithiau, yn beiddio gwadu y pethau ni welir. Haera nad oes yn y byd anweledig ddim ysbrydoedd wedi ymadael o'r fuchedd hon, er y gall fod yno angylion. Haera bryd arall nad oes yno nac angel nac ysbryd, ond yr Ysbryd mawr tragwyddol. Haera bryd arall yn fwy hyf nad oes yr un byd arall yn bod; ac ymchwydda yn y diwedd i haeru nad oes yr un Duw: ac y mae yn gysonach âg ef ei hun pan y mae yn gwadu y cyfan. Ond y *mae* "pethau ni welir *yn bod.*"

Yr ydym yn barod i gyfarfod yr anffyddiwr ar ben *uchaf* ei resymeg, a dadleu fod Duw yn bod, ac yna dadleu fod nef yn bod, ac angylion yn bod, ac ysbrydion yn bod: neu cyfarfyddwn ef ar ben *isaf* ei resymeg, os bydd yn dewis, i ddadleu fod enaid yn bod, a bod yr enaid hwnw yn anfarwol, ac i fyned i fyd anfarwol, at ysbrydion eraill, ac at angylion, ac at Dduw yr hwn a'i rhoes. Y mae pethau ni welir *yn bod:* ac y maent yn bethau gwir ogoneddus; yn bethau perthynol i ni; yn bethau ag y mae ein hen gyf-

eillion yn eu canol; yn bethau ag y byddwn ninnau yn fuan iawn yn eu canol; ac felly y maent yn bethau teilwng i ni edrych arnynt; y maent yn anfeidrol deilwng o'n sylw ac o'n calon.

Mae *tri* dosbarth o honynt—y pethau a *fu*—Y cyfammod hedd, creadigaeth pob peth, cwymp ein rhïeni cyntaf, yr addewid foreu yn Eden, llygriad yr hen fyd, y diluw, dinystr dinasoedd y gwastadedd, hanesion llafur ffydd patriarchiaid a phrophwydi, genedigaeth, gweinidogaeth, marwolaeth a dyrchafiad yr Iesu, disgyniad yr Ysbryd, cychwyniad Cristionogaeth. Y pethau *sydd*—Y Llywydd mawr ar ei orsedd dragwyddol, Iesu y Cyfryngwr yn ein natur ni, yr Ysbryd yn Argyhoeddydd a Dyddanydd, myrddiynau o angylion, ysbrydoedd y cyfiawnion ar fynydd Seion, cyfiawnder yn cosbi angylion gwrthryfelgar a gwrthodwyr iachawdwriaeth. A phethau a *fydd*—Ein hymadawiad ni â'r bywyd hwn, y mil blynyddoedd, y dydd diweddaf, a dyddiau y nefoedd. Ac felly wrth edrych ar y pethau ni welir, yr ydym i edrych *yn ol* ar y pethau a fu; i edrych o'n *hamgylch* ar y pethau sydd; ac i edrych *yn mlaen* ar y pethau a fydd ar ol hyn.

Yr ydym i edrych ar y pethau gogoneddus a enwyd, nid â golygon y *corff*, oblegid y maent tu draw i len nad all y golygon hyn ddim gweled drwyddi. Nid ychwaith â golygon y meddwl yn ngoleuni *rheswm*, ond â golygon ffydd yn ngoleuni *ysbrydoliaeth*. Y mae y pethau hyn wedi cael eu darlunio yn odidog gan law ysbrydoliaeth ar leni y Beibl; ac yno yr ydym i edrych ac i syllu arnynt. Ac wrth edrych *felly* arnynt drwy ffydd y nerthir ac y dyddenir y galon dan gystuddiau, y codir y serchiadau oddiar deganau a sorod y byd at sylweddau y nefoedd; oddiwrth flodau y ddaear at flodau paradwys Duw; oddiwrth balasau daear at drigfanau y nef; oddiwrth olud darfodedig y byd, at y golud parhaus sydd yno; oddiwrth wagedd y ddaear at wynfyd a gogoniant y nef; a chymhwysa hyn yr enaid i fwynhau y pethau ni welir.

Dylem ni bellach fod wedi dysgu edrych ar y pethau ni welir. Y mae y "drych" mawr cywir genym. Y mae y byd anweledig a'i holl bethau pwysfawr a gogoneddus yn dyfod yn nes-nes atom bob awr. Y mae ein cyfeillion goreu o un i un yn ein gadael i fyned yno. Ac ond i ni *arfer* edrych ar y pethau ni welir, bydd yn hawdd i ni ganu—Fod ein byr ysgafn gystudd yn odidog ragorol; a chanu hefyd wrth farw—O angeu! pa le mae dy golyn? O fedd! pa le mae dy fuddugoliaeth?

BYWYD A MARWOLAETH Y SAINT.

"*Yma* y mae amynedd y saint. *Yma* y mae y rhai sy'n cadw gorchymynion Duw a ffydd yr Iesu." Eu nodwedd a'u gwaith

wrth fyw ydyw "cadw ffydd yr Iesu," cadw ei athrawiaethau yn eu cof, eu calon, eu cyffes, a'u buchedd. "Cadw gorchymynion Duw," sef eu cyflawni yn ddyfal yn ol ei ewyllys. A gwneud hyn gydag "amynedd," hyny yw, yn dawel, gwrol, dianwadal, a diymmod, am fod cynnifer o anhawsderau ar eu ffordd. Ac "*yma*"—yn y byd drwg hwn y mae y saint i gyflawni eu gwaith ac i ddangos eu nodweddiad. Nid yn y nefoedd; ni bydd yno ddim profedigaethau, na dim lle i lafur ac amynedd. Ac nid yn Gehenna; ni bydd yno ddim ordinhadau, dim cynnygion o iachawdwriaeth, na dim cyfle i gadw ffydd yr Iesu. Ond "yma," dyma fyd y cymysg; dyma fyd y moddion; dyma fyd y profi; dyma fyd yr amynedd a'r ymdrech; dyma fyd y rhwystrau; dyma'r byd i gadw ffydd yr Iesu. Dyma yw llafur y saint, "yma," *wrth fyw;* ond pa fodd y bydd arnynt *wrth farw?* Y mae Ioan yn ateb mewn geiriau melus odiaeth—"Ac mi a glywais lef o'r nef yn dywedyd wrthyf, Ysgrifena, gwyn eu byd y meirw, y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Ysbryd, fel y gorphwysont oddiwrth eu llafur; a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt." Dyma fydd eu cyflwr wrth farw, ac ar ol marw.

1. Y maent "yn yr Arglwydd." Yn yr Arglwydd yn byw, yn yr Arglwydd yn marw. Y maent yn awr yn eiddo iddo, a byddant yn eiddo iddo byth.

2. Cânt orphwys oddiwrth eu llafur, llafur corff a meddwl; a gorphwys yn llwyr ac yn berffaith, o "hyn allan" byth.

3. Bydd eu gweithredoedd yn eu canlyn hwynt. Y maent oll ar gof yn llyfr Duw. Cânt eu coffa yn gyhoeddus yn y dydd mawr. Bydd eu dylanwad yn effeithio er lles eu holoeswyr. A bydd eu hadgofion eu hunain yn felus am danynt, a byddant yn gymhelliad tragwyddol iddynt i fawrygu gras eu Duw.

Ond pa *sicrwydd* sydd o hyn? Y mae "llef o'r nef" wedi cyhoeddi hyn; ac yn hysbysu fod "yr Ysbryd" yn dywedyd hyn. Ac y mae llef y nef yn siwr o ddyfod i ben. Oblegid y mae y nef yn sylwi yn fanwl ar nodweddau bywyd plant dynion, ac yn medru barnu yn gyflawn; ac y mae yn alluog i dalu i bawb yn ol eu gweithredoedd. Y mae "yr Ysbryd" yn sicr o gyflawni ei addewid i'r credadyn.

Ond pa les oedd "*ysgrifenu*" hyn? Am fod hyn i gael ei gofio, ei ystyried, a'i gyhoeddi. Er i gymeriad llywodraeth y nef fod yn glir ac yn anrhydeddus. Er rhoddi chwareu teg i'r deiliaid ım eu bywyd, fel y gallont ymegnïo i barotoi erbyn marw. Ac er i'r saint gael defnydd dyddanwch a gorfoledd, a chymhelliad i ymddyddan â'u gilydd ac â'u cyd-ddynion am bethau y byd ysbrydol.

ANGLADD PLENTYN.

Er i rïeni allu cymedroli eu galar a'u hiraeth ar ol eu plant, dylent arfer *moddion* er eu cynnorthwyo: dylent, fel y gwnaeth Dafydd, gyfodi oddiar y ddaear, ac ymolchi, ac ymeneinio, a newid eu dillad, a sychu eu dagrau, a dyfod i dŷ yr Arglwydd ac addoli: ac yna dylent droi i'w tŷ eu hunain i fwyta bara, er eu cryfhau i allu cyflawni eu priodol alwedigaethau. Y moddion goreu, effeithiolaf er cynnal a chryfhau y galon ydyw *addoli;* addoli yn bersonol yn yr ystafell ddirgel; addoli yn deuluaidd gyda'r ceraint galarus, ac addoli yn gyhoeddus gyda'r gynnulleidfa yn nhŷ yr Arglwydd.

Gan fod y fath nifer o *blant* yn meirw, dylid defnyddio y cyfleusderau cyntaf i dyneru eu cydwybodau, ac i gyfoethogi eu meddyliau á phethau ysbrydol: pan y mae eu deall yn ymagor, a'u hamgyffredion yn ymeangu; pan y mae eu cof yn gryf, a'u teimlad yn dyner. Y mae myfyrdodau rhai plant yn hynod o fywiog, a'u hymadroddion yn hynod o effeithiol; ac y mae yn hawddach i wneud argraffiadau ar eu calonau nag ydys yn feddwl. Peth trwm ydyw gadael i galon icuanc dyner gael ei chaledu trwy dwyll pechod, pan y dylid bod yn wyliadwrus i'w chadw o gyrhaedd ei hudoliaethau.

Dylai rhïeni gofio mai *benthyg* iddynt yw eu plant: ac os bydd Duw yn galw am danynt, ac yn eu cymeryd ato ei hun, dylent ddywedyd fel Dafydd—"Myfi a âf ato ef, ond ni ddychwel efe ataf fi." Ac fel y Sunamees—"Pob peth yn dda." Ac fel Job—"Yr Arglwydd a roddodd, a'r Arglwydd a ddygodd ymaith; bendigedig fyddo enw yr Arglwydd."

"MARW SYDD ELW."

Rhaid fod profiad Paul yn ddedwydd pan y dywedodd—"Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw;" fel pe dywedasai —Os wyf i "fyw" ychydig etto, y mae fy nghyflwr yn ddiogel, "Canys byw i mi yw Crist." Y mae Crist yn byw ar fy rhan, yn byw i eiriol drosof, i sylwi arnaf, ac i ofalu am danaf. Efe yw bywyd fy enaid. Efe ddechreuodd fy ffydd, ac y mae yn fyw i nerthu fy ffydd, a bydd byw i fod yn berffeithydd fy ffydd. Y mae ef yn byw i mi yn y nefoedd; a chaf finnau fyw iddo ef ar y ddaear: byw i bregethu ei efengyl, i ddyrchafu ei enw, i ennill eneidiau ato, ac i helaethu ei deyrnas. Ar ol dweyd fel hyn, "Byw i mi yw Crist," yr oedd yn hawdd iddo ddweyd, "A

marw sydd elw." Os yw marw yn fy ymyl, ni raid i mi ddim tristâu nac ofni, oblegid bydd marw yn "*elw*" i mi.

Ar amgylchiad fel hwn y mae yn briodol i ni ystyried yn ddifrifol, i bwy y bydd marw yn elw? Nid yw ddim yn anhawdd i ni ateb—

1. I'r rhai sydd mewn undeb â'r Hwn a lyncodd angeu mewn buddugoliaeth. Pan lithrodd dyn i dir pechod, aeth i feddiant angeu, aeth i afael brenin dychryniadau, aeth i afael gelyn nas gall orchfygu; ond daeth yr Iesu i lawr o'r nef i gymeryd ei blaid; safodd yn ei ymyl yn wyneb ei elyn; ac yn y frwydr fawr ar y groes, concrodd angeu, tynodd ei golyn, cymerodd feddiant o'i diriogaeth, a gwnaeth ef yn oruchwyliwr dano. A gall y Crist a goncrodd angeu fod yn noddwr hollddigonol i'r credadyn gwanaf yn angeu, bod yn Arweinydd iddo drwy'r glyn, ac yn Archoffeiriad i fyned o'i flaen i dòri grym llif yr Iorddonen. Ond rhaid bod mewn undeb âg ef, bod wedi ymroddi iddo, ac yn ymddiried ynddo, cyn y gellir cael ei amddiffyn a'i ddyddanwch. Bydd marw yn elw yn

2. I rai wedi eu diddyfnu oddiwrth fronau amser, i rai wedi eu dad-ddyrysu o rwydau a maglau y ddaear, i rai wedi ymryddhau oddiwrth ddeniadau hudol y byd. Os ydym ni yn ymgylymu yn dynach bob dydd wrth y byd a'i bethau; os ydym yn cylymu ein serchiadau dynach dynach wrth bethau darfodedig, y mae genym sail i ofni y bydd angeu, wrth rwygo y cylymau, yn gwneud clwyfau ysig ac anwelladwy yn y galon. Ond y mae y cwlwm sydd rhwng rhai a'r byd yn llac iawn, yn hawdd iawn ei ddattod, a bydd yr enaid yn rhydd ac yn iach ar ddattodiad y cwlwm.

3. Bydd marw yn elw i'r rhai sy'n medru sugno cynnaliaeth a chysur o bethau y byd anfarwol. Y mae pethau felly i'w cael, i'w cael yn hawdd, i'w cael yn eu mehusder a'u cyflawnder; y maent yn bethau o'r un natur a'r enaid; yn bethau nad all angeu eu drygu, a cheir bod yn fwy yn eu gafael ar ol marw nag wrth fyw.

4. Bydd marw yn elw i'r rhai sydd yn hoffi myfyrio yn ddifrifol ac yn ffyddlog ar ganlyniadau marw: sef, dychweliad y pridd i'r ddaear fel y bu, a dychweliad yr ysbryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef; y rhai sy'n hoffi meddwl am hûn a gorphwysiad y corff yn y bedd, ac am yr enaid yn byw gydag anwyledigion anfarwol; y rhai sy'n hoffi meddwl am udganiad yr udgorn, ac adgyfodiad y meirw, a gwaith y farn, a llawenydd y saint yn y nefoedd.

Gellid gofyn hefyd, Pa elw fydd marw i'r cyfryw?

1. Cânt orphwys oddiwrth eu holl lafur: y llafur o ymladd â gelynion ysbrydol, o farweiddio gwŷniau a gweithredoedd calon

lygredig, o dòri drwy anhawsderau a gorthrymderau taith yr anial; y llafur o oddef gwasgfeuon a gwendidau y corff, ac o geisio ymgodi uwchlaw ammheuon ac ofnau. Y mae llafur y credadyn yn drwm yn y fuchedd hon, ond derfydd yn angeu, a cheir gorphwyso.

2. Ant i mewn i lawenydd eu Harglwydd, i'w weled yn ddilen, fel y mae; i fwynhau o'i gymdeithas, ac i gyfranogi o'r llawenydd anmhraethadwy a gogoneddus sy'n llenwi ei fynwes. Caiff y Cristion ar ol marw yfed yn helaeth o holl ffynnonau llawenydd ei Arglwydd.

3. Wrth farw caiff y credadyn ran o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. Y mae'r saint oll yn etifeddion. Y mae etifeddiaeth fawr ar eu cyfer. Yn angeu y maent yn dyfod i'w cyflawn oed, ac yn cael eu codi i gael *cyd*fwynhad o'u hetifeddiaeth. Byddant yn dyrfa na ddichon neb ei rhifo, ond bydd lle iddynt oll wrth y bwrdd; a bydd digon byth o oludoedd ar eu cyfer.

Er maint y dorf fydd yn yfed o ffynnonau yr iachawdwriaeth, parhant o hyd i lifo yn eu llawnder. Ni wna amledd y gwareddigion ond ychwanegu at werth y golud, ac at felusder y wledd.

4. Ar ol marw caiff y credadyn addoli yn ysbryd, ac yn ol trefn y nefoedd. Gwyddom ni yn awr fod saint yn byw yn y nef, eu bod yn gallu gweithredu yno, a chymdeithasu yno, a'u bod yn adwaen eu gilydd yno; ond y mae uwchlaw cin hamgyffred ni yn awr i allu dirnad *pa fodd* y maent yn gweithredu yno; ond caiff y credadyn ddysgu y drefn yn union ar ol marw. Felly hawdd i ni gasglu, wrth ystyried y pethau hyn, y bydd marw yn elw i'r duwiol.

Dylem gofio bob amser, ac yn enwedig ar amgylchiad fel hwn, y byddai yn fraint o anmhraethol werth i ni ymestyn yn barhaus at brofiad Paul, pan y dywedodd, "Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw." Y mae'n wir nad yw y duwiolion penaf ddim yn gallu cael a chadw y profiad hwn bob amser. Y mae hanes am laweroedd o'r duwiolion enwocaf, megys Moses, a Dafydd, a Hezeciah, a Job, yn *ofni* marw; ac am rai oeddynt, drwy ofn marwolaeth, dros eu holl fywyd dan gaethiwed; ond ni ddylai hyn luddias yr un credadyn i ymgyrhaedd am y profiad o allu dweyd—"Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw."

1. Profiad felly fyddai y cysur puraf a phenaf allai dyn gael yn y fuchedd bresenol. Nid oes gan anrhydedd a chyfoeth y byd ddim mwyniant ag sydd yn haeddu ei gyffelybu i dawelwch a gorfoledd y fath brofiad.

2. Medru cyrhaedd profiad felly, a gallu ei adrodd gyda gwylder efengylaidd, fyddai y dystiolaeth oreu allai y credadyn byth

roddi o blaid crefydd Crist. Gall areithydd hyawdl ddweyd llawer am ogoniant crefydd. Gall awdwr o ddysg ac o brofiad ysgrifenu yn helaeth am gyfiawnder ei chysuron. Gall rhesymydd pwyllog a medrus ddiryna gwirioddadleuon anffyddiaeth; ond y dystiolaeth eithriolaf o'i phlaid, ydyw fod y credadyn gostyngedig yn gallu dywedyd yn wyneb marw, â gwên y nefoedd yn ei wyneb—"Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw." Tystiolaeth felly ydyw y moddion tebycaf i ennill yr anystyriol i chwilio egwyddorion yr efengyl, ac i gofleidio ei haddewidion mawr iawn a gwerthfawr. Y mae tystiolaeth gynhes ddifrifol felly o'r galon, a'r galon hôno ar wely angeu, yn debyg o weithio ei ffordd i galon pwy bynag fydd yn ei gwrando.

3. Tystiolaeth felly yw y dyddanwch penaf all y credadyn adael ar ol i berthynasau a chyfeillion galarus, er lleddfu eu hiraeth a lleihau eu tristwch. Yr ydym wedi clywed rhai o'n hen gyfeillion ymadawedig, pan oedd eu traed yn oeri yn yr afon, yn ceisio bloesg-ganu,

"O fryniau Caersalem ceir gweled
Holl daith yr anialwch i gyd."

"O angeu, pa le mae dy golyn?
O uffern, ti gollaist y dydd.'

"A pob gwahanglwyf ymaith,
Glan fuddugoliaeth mwy."

"Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
A'm prynodd â thaliad mor ddrud."

Beth all fod yn fwy hyfryd, wrth weled cyfaill i ni yn rhodio ar hyd y glyn, na'i glywed yn dywedyd—"Nid ofnaf niwaid, canys yr wyt ti gyda mi;" a'i glywed yn son am gydymdeimlad a ffyddlondeb ei Archoffeiriad; am dŷ nid o waith llaw; am gymdeithas y nef; neu ei glywed yn dweyd, "Mi a wn i bwy y credais;" neu, "Y mae genyf chwant i'm dattod, ac i fod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw;" neu yn tawel ddweyd —"Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw."

YR ADGYFODIAD A'R BYWYD.

Ymweliad tra rhyfedd oedd ymweliad yr Iesu â Bethania y tro cyntaf ar ol marwolaeth Lazarus. Nid hawdd penderfynu pa un ddylem ryfeddu fwyaf, ai ei deimladau tyner drylliog pan yn "*wylo*" wrth weled y chwiorydd yn wylo; ai ynte ei fawredd pan yn dywedyd—"Myfi yw'r adgyfodiad a'r bywyd," a phan y safodd wrth y bedd ac y llefodd â llef uchel, "Lazarus, tyred allan."

Y mae yn gysur annhraethol i'w ganlynwyr, pan mewn unrhyw drallod a thristwch, i feddwl am dosturi a chydymdeimlad eu

Harchoffeiriad; i gofio y medr, nid yn unig gyd-ddyoddef â'u gwendid, ond y gall hefyd eu cynnorthwyo. Y mae yn gysur mawr hefyd iddynt gofio yn eu holl drallodion, ac yn enwedig yn wyneb gweinidogaeth angeu, am ei ddyrchafiad a'i awdurdod, mai efe yw yr Adgyfodiad a'r bywyd, ei fod wedi llyncu angeu mewn buddugoliaeth, a'i fod yn gwisgo agoriadau y bedd a'r byd anweledig, a bod ganddo bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear, a hawl i weithredu yn ei holl deyrnas fel y gwelo yn dda. Y mae ganddo felly hawl i alw ei gyfeillion adref ato ei hun i'w lawenydd a'i orphwysfa yn nhŷ ei Dad, *pan* y gwelo yn dda, ac *fel* y gwelo yn dda; a hyny yn

1. Heb ofyn *cenad* i neb.
2. Heb roddi *rhybudd* manwl o'i fwriad i neb.
3. Heb roddi *esboniad* llawn o'i ymddygiad i neb.

Pe byddai iddo ddyfod i lawr ei hun o'i uchel lys i ofyn *cenad* ceraint a chyfeillion, ni cha'i byth genad i gymeryd neb ato ei hun i'r nefoedd, er uched y breintiau, ac er pured y gorfoledd sydd yno. Pe gofynai am faban bach y fron: na, atebai y fam, nid allaf ollwng fy mhlentyn sugno; byddai ei golli yr un peth a cholli darn o'm calon. Pe gofynai am y plentyn pedair oed: na, atebai yr holl deulu, hwna yn awr yw ein prif ddifyrwch, a gwrthddrych anwylaf ein serch. Pe gofynai am y plentyn deg oed: na, atebai y rhïeni yn gynhyrfus, y mae yn awr yn dysgu ei lyfr, a chaniadau y teulu, a phob peth arall, yn hynod o ddedwydd ac o gyflym. Pe gofynai am y plentyn pymtheg oed: na, atebai'r teulu ar unwaith, y mae yn awr wedi myned trwy ddyddiau ei ysgol yn llwyddiannus, y mae yn ei wrid goreu, ac yn dechreu bod o gynnorthwy i ni gyda phob gofal a gorchwyl. Pe gofynai am y dyn ieuanc neu y ddynes ieuanc un ar hugain oed: na, na, atebai y rhïeni, arbeder i ni er pob peth ein hunwyl blentyn sy'n awr yn un ar hugain, dan goron harddwch a rhinwedd a phob hawddgarwch. Pe gofynai am y tad a'r fam ddeugain oed: na, na, atebai y plant oll dan wylo, nis gallwn fyw heb eu gofal a'u hyfforddiant. Pe gofynai am y taid a'r nain deg a thriugain: O na, nid etto, atebai y plant a'r ŵyrion, y mae yn fraint genym gael talu y pwyth iddynt. Y mae eu profiadau a'u cynghorion yn fwy dyddanol ac adeiladol nag erioed; ac y mae yn hyfryd a bendithiol iawn i ni eu gweled yn addoli â'u pwys ar ben eu ffon. Ac felly ni cha'i yr Iesu, er cymaint a ddywedodd am ogoniant a dedwyddwch y nefoedd, *neb* i ddyfod ato yno, pe byddai iddo aros nes cael *cenad* gan y ceraint a'r cyfeillion: ac felly y mae yn eu cymeryd heb genad, yn ei amser a'i drefn ei hun.

Pe byddai iddo roddi *rhybudd* manwl o'i fwriad, drwy hysbysu yn eglur i ddyn ddydd ac awr ei farwolaeth, terfysgai hyny ei holl deimladau, a dyrysai ei holl gynlluniau, a nychai ei holl gysuron; darfyddai ei flas at bob cymdeithas a gwasanaeth, ac andwyid felly ei ddefnyddioldeb.

A phe byddai iddo gymeryd amser i roddi *rheswm* dros ei ymddygiad, neu i'w *esbonio* yn llawn i berthynasau galarus, ni wnai hyny ond eu cymhell i geisio astudio ar y ddaear bynciau dyfnion ag y bydd yn hawddach ac yn felusach iddynt eu hastudio yn y nefoedd.

Yn ol ei drefn ddoeth, gadawodd i'r chwaer sydd newydd ein gadael, gael tymmor lled hir i fyw, yn ol cyfrifiad dyddiau yn ein byd ni; a chafodd y fraint o dreulio ei dyddiau goreu, dyddiau ei gofalon a'i gweithgarwch penaf, dyddiau ei phrofiad llawnaf a'i dylanwad mwyaf, yn nhŷ yr Arglwydd; a bu yn ddiwyd gyda'i waith yn y mwynhad o'i ordinhadau, ac yn nghymdeithas ei bobl.

Cefais yr hyfrydwch o lettya yn ei thŷ lawer tro wrth fyned drwy y dref yma. Yr oedd yn dda ganddi ymddyddan am bethau gogoneddus y Beibl, ac am hanes dynion duwiol a defnyddiol yr oes yma a'r oesau aethant heibio. Yr oedd llwyddiant crefydd, yn enwedig drwy Gymru, ac yn yr eglwys yma, yn agos at ei chalon; ac yr oedd yn barod bob amser i afaelyd mewn unrhyw gynllun a gynnygid er llwyddiant teyrnas yr Iesu. Yr oedd yn teimlo yn ddiolchgar ei bod yn cael cyfleusderau i lettya gweinidogion yr efengyl; oblegid yr oedd yn hoff iawn o gyfeillach crefyddwyr. Y mae ei phriod tawel, meddylgar, a dirodres, a'r rhan fwyaf o'i *hen* gyfeillion anwylaf, wedi myned adref o'i blaen; ond yr ydym yn credu ei bod yn awr wedi myned atynt i adnewyddu eu cyfeillach; a bod eu cyfeillach yn awr yn burach ac yn fil melusach yn y wlad well nag y bu erioed ar y ddaear. Yr ydym yn credu eu bod yn adwaen eu gilydd yno, oblegid y mae bron holl ddarluniadau y Beibl o farwolaeth y saint, megys eu "casglu at eu tadau," neu "at eu pobl," yn profi hyny; ac y mae darluniadau y Beibl o gymdeithas y nef, sef eistedd gydag Abraham, ac Isaac, a Jacob, a gweled Moses ac Elias, yn arwyddo fod teulu y nef yn adnabod eu gilydd: sonir am y rhai fu'n hau a'r rhai fu yn medi yn cael yno "lawenychu yn nghyd;" ac ni ddaw yno ddim byth i oeri, nac i lygru, nac i fylchu eu cyfeillach; ond parha i fyned felusach felusach am dragwyddoldeb.

Un o destunau ymddyddan y chwaer ymadawedig, y tro diweddaf i mi ei gweled, oedd y drydedd Salm ar hugain, ac yr wyf yn credu ei bod yn gallu dweyd oddiar brofiad go gryf a

dedwydd, "Yr Arglwydd yw fy Mugail, ni bydd eisieu arnaf. Efe a ddychwel fy enaid: efe a'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw. Ïe, pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angeu, nid ofnaf niwaid; canys yr wyt ti gyda mi; dy wialen a'th ffon a'm cysurant. Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd: a phreswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd."

Yr oedd yn anwyl iawn ganddi am ei phlant a'i hŵyrion. Gobeithio y cofiant oll nad oes dim cysuron i'w cael yn y byd gwag a phrofedigaethus hwn yn haeddu eu cyffelybu i gysuron crefydd; a gobeithio hefyd y bydd i bob aelod o'r eglwys yma, sydd yn awr yn galaru am ei cholli, "ddangos yr un diwydrwydd er mwyn llawn siorwydd gobaith hyd y diwedd: fel na byddoch fusgrell, eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy ffydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion."

"BEUNYDD YN MARW."

Dywedai Paul unwaith, wrth ymresymu yn nghylch yr adgyfodiad, "*Yr ydwyf beunydd yn marw.*" Ei feddwl dichon oedd ei fod mewn "perygl bob awr" am ei fywyd oddiwrth gynddaredd ei erlidwyr; ei fod yn dysgwyl bob dydd cael ei ferthyru: ond tystia fod "gorfoledd," er y cyfan, yn llenwi ei fynwes wrth feddwl am wlad dawel bur anllygredigaeth ac anfarwoldeb.

Yr ydym ninnau i farw. Nis gwyddom pa mor fuan. Gall fod marw yn ein hymyl. Yr ydym mewn perygl bob awr: a chan fod gwagedd, a thrafferthion, a therfysgoedd, a siomedigaethau, a llygredigaethau y byd yma yn ei wneud mor anghymhwys i fod yn fythol gartref i'r credadyn; gan y gosodwyd i ddynion farw *unwaith*, ac wedi hyny bod barn, ac na chaiff neb *ail* gynnyg ar sefyllfa o brawf; a chan fod canlyniadau marw felly yn rhai o bwys tragwyddol, byddai yn rhesymol iawn i ni ymgais am allu dweyd gyda Paul, "Yr ydym beunydd yn marw."

Beth ydyw "marw beunydd?" Nid siarad am farw bob mòment, mewn anghof o bob ymddyddan, a phob gofal, a phob gwaith arall. Byddai hyny yn anfuddiol i ddyn yn ei sefyllfa bresenol. Nid ceisio cael gwybod yn mlaen llaw pa *bryd* y byddwn farw, neu yn mha *le* ac yn mha *ddull* y byddwn farw. Ni byddai gwybod hyny ddim o les i'r profiad. Ond marw beunydd ydyw—

1. Cyflwyno yr enaid bob dydd i ofal y Ceidwad cryf a ffyddlawn, yr hwn a fu yn angeu i angeu, ac yn dranc i'r bedd. Y

mae yr enaid o werth anfarwol. Y mae ei gyflwr mewn perygl. Y mae yr Iesu yn ewyllysgar i gymeryd ei ofal, ac y mae yn abl i'w gadw hyd yn nod yn awr marwolaeth.

2. Ymddiddyfnu bob dydd oddiwrth y pethau ag y bydd raid i ni eu gadael ar ol pan y byddwn farw, sef goludoedd, mwynderau, a bri daearol.

3. Sugno cysuron bob dydd o athrawiaethau ac ordinhadau dluwioldeb; ceisio cynnaliaeth i'r ysbryd anfarwol o'r ffynnonau nad all cyfnewidiadau bywyd na gwasgfeuon angeu ddim eu sychu, sef trugaredd faddeuol, a gwybodaeth, a santeiddrwydd, a thangnefedd a llawenydd yn yr Ysbryd Glan.

4. Myfyrio bob dydd ar ryw ddosbarth o ryfeddodau y byd mawr tu draw i farw.

Y mae "marw beunydd" yn yr ystyr ac yn yr ysbryd yma yn sicr o brofi yn lles ac yn elw i ni.

1. Pura deimladau y galon, ac eanga alluoedd y meddwl, ac felly hwylusa a dedwydda eu holl weithrediadau.

2. Tuedda i santeiddio a nefoli yr holl ymarweddiad—yr iaith, yr agwedd, a'r holl fywyd.

3. Tuedda, drwy hyny, at ein defnyddioldeb yn ein gweddïau a'n cyfeillachau, a'n holl gyflawniadau crefyddol.

4. Gweithia ymaith o radd i radd ofn marw, a pharotoa yr enaid i ymadael â'r corff a phethau y byd gweledig; a dwg yr enaid i gyfathrach a marsiandïaeth dedwydd ac ennillfawr â'r byd ysbrydol: a threfnir iddo gael "mynediad helaeth i mewn i dragwyddol deyrnas ei Arglwydd."

Dichon fod yma rai, er pob rhybudd a chynghor, yn cadw marw yn mhell o'r meddwl. Er fod beddau o'u deutu, ac eirch ac elorau yn eu golwg, ac angeu yn gorchfygu ac yn cipio ymaith eu cydnabod a'u cyfeillion o'u hymyl, etto ni osodant ddim o hyn at eu calon; ni wyddant ddim am y profiad dedwydd a diogel a santeiddiol o "farw beunydd." Y maent yn llawen ac ysgafn yn y mwynhad o'u meddiannau a'u difyrwch. Os goddiweddir hwynt yn eu dideimladrwydd presenol gan angeu, bydd yn frenin dychryniadau iddynt, a bydd marw yn golled anadferadwy iddynt. "O na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd!"

"UN GENEDLAETH A A YMAITH."

Dywediad tarawiadol, cynnwysfawr, o eiddo un o'r doethion penaf, dyfnaf ei ddysg a dysgleiriaf ei ddoniau, manylaf ei sylw

a helaethaf ei brofiad, oedd, "Un genedlaeth a â ymaith, a chenedlaeth arall a ddaw; ond y ddaear a saif byth."

Yr oedd, wrth ddywedyd felly, yn edrych ar genedlaethau preswylwyr y ddaear fel un gadwyn hir, pleth mewn pleth, yn cyrhaedd o ddechreu amser hyd ei ddiwedd. Yr oedd yn arwyddo fod cysylltiad rhwng y naill genedlaeth a'r llall, gan eu bod oll yr un gyfansoddiad; gan eu bod oll yn treulio eu tymmor ar yr un maes, a chyda'r un galwedigaethau; gan eu bod oll yn ddarostyngedig i'r un cyfnewidiadau, ac yn gwybod am yr un profiadau; gan fod pob cenedlaeth yn gweithio er da neu er drwg, er ennill neu er colled i'r cenedlaethau dilynol; a chan eu bod oll i derfynu eu gyrfa yn y bedd, ac i gyfarfod o flaen gorsedd fawr y farn.

Yr oedd hefyd yn edrych ar genedlaethau amser yn *myned* o hyd, heb byth aros dim. Un a â, ac un arall a ddaw. Felly yr oedd yn bod yn ei amser ef, a chyn ei amser ef; ac felly y mae yn bod yn ein hoes ni, ac i fod tra pery oesau y ddaear. Ac felly dylem ni gofio ac ystyried mai rhai yn symud ar ein gyrfa ydym; ein bod yn myned yn mlaen o hyd tua'r terfyn. Dylem ystyried tua pha gartref yr ydym yn cyfeirio ein camrau, a pha fath lwybr ydym yn adael ar ein hol. A dylem gofio hefyd nad oes neb yn *dychwelyd* ar ol cyrhaedd pen y daith i *ail* redeg gyrfa bywyd. Sonir am un yn myned, ac un yn dyfod; ond nid oes air o son am neb yn dychwelyd.

Ond ychwanega Solomon—"Y ddaear a saif byth." Nid a saif byth heb ddim cyfnewidiad arni; ond saif ar ol pan y byddwn ni yn myned ymaith. Y mae wedi hebrwng llawer cenedlaeth ymaith; ond wrth hebrwng un ymaith, byddai yn aros ar ol i dderbyn y llall. Canlyna ni, a gweinydda i ni nes y byddwn yn croesi afon marwolaeth; ond ni ddaw yn mhellach: ni rydd i ni ychwaneg o gymhorth, ond saif ar ol i weinyddu i eraill.

"Saif byth"—hyny yw, y mae ei gorchwylion a'i gofalon—yr hau a'r medi, y planu a'r adeiladu, y nyddu a'r gwëu, y gohebu a'r masnachu, y priodi a'r rhoddi i briodas, y geni a'r marw, yn cael eu dwyn yn mlaen yn awr fel yr oeddynt yn yr hen oesoedd: a bydd holl waith y ddaear yn cael ei ddwyn yn mlaen gyda bywiogrwydd pan y byddwn ni wedi myned ymaith. "Y ddaear a saif byth;" gellir cymeryd y geiriau yn eu hystyr llawnaf a helaethaf. "Y ddaear a saif byth." Y mae yn wir yr â ei nefoedd heibio gyda thwrf, ac y caiff ei defnyddiau gan wir wres eu toddi; ond caiff drwy hyny ei phuro a'i hadnewyddu i fod yn ddaear newydd, yn yr hon y bydd cyfiawnder yn cartrefu: a

dichon y bydd yn un o gyrchfanau hoffusaf y cyfiawnion perffaith ar ol y dydd diweddaf, pan y bydd y meirw oll wedi adgyfodi o'i llwch, a phan y bydd holl olion ei llygredigaethau wedi cael eu llosgi ymaith. A chofir *hanes* y pethau rhyfedd a wnaed ar y ddaear am oesoedd tragwyddol.

Y mae ein hamgylchiadau ni yma heddyw yn dwyn dywediadau fel hyn i'n cof, a dylent eu gwasgu at ein hystyriaeth. Y mae un hen gyfaill i ni newydd fyned ymaith; ac y mae cyfaill bychan i ni newydd ddyfod i ddechreu ar ei yrfa fèr ddaearol. Dilynwn ffydd, ac ystyriwn ddiwedd ymarweddiad yr hen gredadyn sydd newydd ein gadael; a chyfammodwn, pan o gylch ei elor, i wneud ein rhan er cyfarwyddo y bychan newydd-anedig i ysgoi profedigaethau y byd drwg presenol, ac i gadw ei gamrau ar ffordd y bywyd; gan ystyried yn benaf oll na wyddom pa mor fuan y bydd raid i ninnau fyned ymaith.

TAD YR AMDDIFAID, A BARNWR Y GWEDDWON.

Cyhoedda y Beibl, mewn iaith gref, mai "Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwon, yw Duw yn ei breswylfa santaidd." Y mae y fath dystiolaeth eglur yn llawn o ddyddanwch; ac y mae *pob* darluniad sydd genym o gymeriad ein Duw yn profi ei fod yn haeddol o'n cariad, ein cred, ein hymddiried, a'n hufudd-dod. Ac y mae yr oll ydym yn wybod am *ddyn* yn profi ei fod yn wan ac yn ddibynol; ac nas gall fod yn ddiogel nac yn ddedwydd heb ddewis yr Arglwydd i fod yn rhan ac yn etifeddiaeth iddo.

Pan sonir am Dduw fel "Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwon," y mae hyny yn dysgu i ni y gallwn ni golli yn y byd hwn ein cyfeillion ffyddlonaf, a'n perthynasau anwylaf. Gall y wraig golli y priod mwyaf cariadlawn. Gall y plant golli y tad mwyaf tyner. Y mae dyn yn greadur cymdeithasgar, wedi ei gyfansoddi i ymserchu yn ei geraint. Y mae cyfeillgarwch yn un o brif elfenau ei ddedwyddwch. Y mae cyfeillion cu a ffyddlawn yn fwy gwerthfawr na dim o gysuron eraill amser; ond gellir eu colli, ac y mae eu colli yn brofedigaeth chwerw iawn i holl deimladau y galon. Byddai yn well gan wraig gariadus golli pob golud na cholli ei phriod. Byddai yn well gan y plant golli cysuron penaf y byd na cholli eu tad. Ond gall "Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwon," wneud pob colled i fyny. Gall dawelu terfysg y meddwl, a lleddfu hiraeth y galon, a llenwi y fynwes â gorfoledd yr iachawdwriaeth, a pheri i bob peth gydweithio er daioni i'r rhai sydd yn ei garu: ac y mae yn

barod i roddi ei *hunan*, yn yr oll ag ydyw, yn ei ddoethineb a'i ffyddlondeb, ei nerth a'i gariad, i fod yn Dduw i'r cyfryw trwy gyfammod disigl: ac y mae ef yn ei nawdd a'i ddyddanwch yn fyrdd gwell na thad na phriod, na brawd na chwaer, nac unrhyw gâr na chyfaill. Y mae yn Dduw cadarn, hollgyfoethog, hollbresenol, a digyfnewid. Y mae ei natur yn llawn o dosturiaethau cariad, ac y mae goludoedd ei ras yn anchwiliadwy.

Y mae geiriau y Beibl yn dysgu i ni hefyd mai "yn ei breswylfa santaidd" y mae y Duw hwn i'w gael fel Tad a Barnwr, fel Noddwr a Dyddanydd: nid ar dir anghof o hono, a gwrthryfel yn ei erbyn, ond wrth geisio cymundeb âg ef "yn ei breswylfa santaidd," hyny yw—

1. Ar *orseddfa* santaidd ei ras, lle y mae yn hoffi eistedd yn wastadol, i wrando gweddïau ei bobl, i gyflawni eu hangenion, ac i roddi iddynt gynnaliaeth a dyddanwch.

2. Yn ei *air* santaidd, ei Feibl gwerthfawr, yr hwn sydd yn llawn o oleuni ac o wres, o wirionedd ac o gariad, o gyfarwyddiadau ac o ddyddanwch; ac yn cynnwys addewidion mawr iawn a gwerthfawr, cyfoethog o bob llawenydd.

3. Yn ei *gysegr* santaidd, neu ei dŷ, yn dyfal ddilyn cymdeithas ei blant, ac ordinhadau ei ras. Y mae i'w gael bob amser "yn ei breswylfa santaidd," oblegid y mae wedi ymrwymo i fod yno. Rhyfeddwn raslonrwydd ei ymostyngiad yn cynnyg ei hun i fod yn gyfaill ac yn rhan i bechadur tlawd yn ei holl drallodion. Nac ammheuwn byth ei ewyllys na'i allu. Peidiwn rhoddi ein hyder ar neb ar y ddaear, nac ar ddim mwyniant daearol; oblegid y mae cyfnewidiad a darfodedigaeth yn argraffedig ar bob peth a welir.

Gall y weddw a'r amddifad ydynt yn galaru yma heddyw, anturio i droi at y Duw hwn i'w breswylfa santaidd. Cânt ef yno yn ei le a'i swydd, yn gyfoethog o dosturi, ac yn gwbl barod i wrando eu cri, ac i'w cynnorthwyo; ac ni chânt byth siomedigaeth ynddo. Ac y mae yn gysur cryf iddynt feddwl fod y priod a'r tad ymadawedig wedi myned ato i'w breswylfa santaidd *fry*: a bod gobaith iddynt gael ei gyfarfod etto yn y breswylfa lonydd bur hòno, lle y mae eu Duw yn gwisgo ei lawn ogoniant; lle na bydd afiechyd na marw, lle y mae digonolrwydd o lawenydd, a phawb yn eu gwyn dan anniflanedig goron y bywyd.

"DYDDIAU MEGYS LLONGAU BUAIN."

Cymhariaeth ddarluniadol iawn oedd gan Job pan y dywedodd am ei ddyddiau, "Aethant heibio megys llongau buain." Mae

y llongau buain yn myned heibio yn gyflym iawn gyda'r llif ac o flaen yr awel, bron yn ddiarwybod i'r morwr sydd ynddynt. Y maent weithiau yn cyfarfod tymhestloedd enbyd yn y nos ddu, pan na bydd seren i'w chanfod, nes ydynt mewn perygl o gael eu dryllio, a chael eu llyncu i'r eigion. Y maent yn cario eu llwyth gyda hwy; ac y maent yn rhwym i ryw borthladd. Cyffelyb i hyny ydyw dyddiau dyn ar fordaith amser. Y maent yn myned heibio yn gyflym, yn barhaus, a bron yn ddiarwybod i ni. Y maent weithiau yn cyfarfod croes-wyntoedd a thymhestloedd enbyd. Nid ydynt yn ei chael yn dawel a heulog o hyd. Y maent yn cario eu llwyth gyda hwy, sef ein meddyliau a'n teimladau, ein geiriau, a'n gweithredoedd. Ac y maent yn rhwym i borthladd tragwyddoldeb, lle y byddwn ni a'r holl lwyth yn cael ein glànio ar derfyn y fordaith.

Beth, gan hyny, sydd i ni ei wneud yn yr olwg yma ar ein mordaith dros dònau chwyddedig y byd? Dylem ddarparu llunlaeth nefol i'r enaid ar gyfer y fath fordaith. Bydd yn gysur annarluniadwy i ni yn ein llongau buain os bydd genym ddarpariaeth o fara'r bywyd, a dwfr y bywyd, a balm, a gwin, a llaeth yr iachawdwriaeth; a'r pasgedigion breision o arlwy doethineb a thrugaredd. Dylem astudio y Beibl, fel yr unig gwmpawd anffaeledig sydd genym i'n dysgu i ochel creigiau a thro-lynoedd peryglus, ac i'n cyfeirio i forio yn mlaen tua'r porthladd dymunol yn nhir y bywyd. Dylai fod gobaith yr efengyl genym fel angor yr enaid, yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen. A dylem erfyn am gael Crist gyda ni yn Llywydd ac Arweinydd ar y cefnfor; oblegid y mae ef yn gyfarwydd â holl lwybrau y fordaith; a gwyr hefyd am nerth y tònau a'r tymhestloedd, a pha fodd i dòri drwyddynt yn ddiogel i dir y bywyd.

Gall y rhai sy'n meddu y pethau a nodwyd, sef y ddarpariaeth, a'r cwmpawd, a'r angor, a'r Llywydd, ganu pan ar frig y dòn, a phan i lawr yn y dyfnder: y mae eu bywyd yn ddiogel: ânt yn fuan, dan lawn hwyliau, dros y *bar* i mewn i'r porthladd, i wledda ac i orphwys gyda'r cyfeillion sydd wedi blaenu, yn nghanol pob llawnder a llawenydd, wrth fwrdd eu Harweinydd cyfoethog yn nhrigfanau gogoniant.

Ond annoeth a rhyfygus iawn ydyw y trueiniaid sydd yn ceisio rhwyfo a hwylio yn mlaen drwy'r holl beryglon heb na llyw na llywydd, na chwmpawd, nac angor, na dim darpariaeth. Y mae yr wybren yn ddu iawn o'u deutu. Y mae'r mellt yn rhwygo a'r taranau yn rhuo yn eu hymyl. Daw tymhestl ofnadwy i guro arnynt. Y maent yn sicr o weled llongddrylliad o'r cyfan oll

sydd ganddynt yn rhyfertbwy arswydus y llif sydd yn ngenau y llyn o dân.

Yr ydym *ni* yn awr yn ein "llongau buain," ar ein mordaith wyllt beryglus dros dònau amser. Tua pha wlad yr ydym yn cyfeirio? Gall fod rhyw dir annherfynol yn ein hymyl. Pa fath angor sydd genym, ac yn mha le y mae ei gafael? Pwy sydd wrth y llyw? Os ydym wedi ymddiried y llong, ei llwyth, a'i llyw i'r "Brawd hynaf," ni raid i ni ofni. Y mae ein bywyd a'n trysor yn ddiogel.

Cafodd ein hanwyl gyfaill sydd yn awr newydd ein gadael, fordaith led faith, a lled dymhestlog: ond cafwyd arwyddion hyfryd fod yr Iesu gydag ef drwy holl rym y stormydd, a gallwn felly fod yn hyderus ei fod wedi cyrhaedd y porthladd yn ddiangol.

"CERDDED YN ARAF."

Daeth Esaiah unwaith at Hezeciah pan oedd yn glaf, a dywedodd wrtho, "Trefna dy dŷ, canys marw fyddi, ac ni byddi byw." A Hezeciah a drodd ei wyneb at y pared, ac a weddïodd at yr Arglwydd, ac a wylodd ág wylofain mawr. A daeth Esaiah ato yr ail waith, a dywedodd wrtho, "Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Dafydd dy dad, Clywais dy weddi di, gwelais dy ddagrau; mi a chwanegaf at dy ddyddiau di bymtheg mlynedd." Penderfynodd Hezeciah yn wyneb hyny i "*gerdded yn araf ei holl flynyddoedd*;" a'u treulio i ryfeddu a chanmol gras ei Dduw, i lynu wrth ei air a'i orsedd, ac i lafurio yn ddiwyd er lles ei wlad.

Dylem ninnau ystyried ein blynyddoedd fel rhoddion gras Duw. Gwyr ef am eu holl amgylchiadau—eu profedigaethau, a'u cysuron, a'u breintiau, a'u nifer. Dylem gofio eu bod yn cyflymu heibio, ac y gall fod eu terfyn yn agos. A dylem ninnau benderfynu "*cerdded yn araf*," hyny yw, cerdded yn ystyriol, yn wyliadwrus, yn ddifrifol, drwy ein holl flynyddoedd. Byddai "cerdded yn araf" felly yn fuddiol i ni i dri dyben.

1. Er i ni gael hamdden i edrych *yn ol* ar ein ffordd yn y glyn, a chofio yr hyn a welsom, ac a wnaethom, ac a deimlasom, ac a addunedasom; a chofio am ein breintiau a'n beiau, fel y gallom fagu ysbryd diolchgar ac edifeiriol. A dylem gymeryd hamdden i edrych yn ol yn mhellach na'n hanes ein hunain, a chofio hanes ein cyd-ddynion yn yr oesau a aethant heibio, a chael rhybudd oddiwrth eu colliadau, ac addysg oddiwrth eu rhinweddau.

2. Dylem "gerdded yn araf" er cael hamdden i edrych *o'n*

deutu a sylwi, er ein haddysg, ar yr hyn sydd yn cymeryd lle yn ein calonau a'n teuluoedd, yn ein cymydogaeth a'n gwlad, yn yr e lwys a thrwy y byd. Y mae holl helyntion y ddaear yn bwysig, am fod perthynas uniongyrchol rhyngddynt âg achos crefydd, ac â'r byd tragwyddol.

3. Dylem "gerdded yn araf" er cael hamdden i edrych *yn mlaen* â golygon myfyrdod a ffydd ar y profedigaethau all fod yn ein haros—y peryglon all fod ar ein gyrfa, ar ddiwedd ein taith, ac ar ryfeddodau gogoneddus tragwyddoldeb. Y mae rhai yn rhedeg mor wyllt fel nad oes ganddynt amser i edrych byth yn ol, nac i edrych dim o'u deutu, nac i edrych dim yn mlaen. Y mae hòno yn ffordd ynfyd, ryfygus, beryglus, i ddyn anfarwol dreulio blynyddoedd ei fywyd.

Deillia manteision gwerthfawr iawn i ni o "gerdded yn araf" drwy ein holl flynyddoedd.

1. Dyna'r ffordd i ni gael cymdeithas anrhydeddus ac adeiladol rhai rhagorol y ddaear, a saint ac angylion y nef, a chael cymdeithas santeiddiol a dyddanol yr Iesu, ei Dad, a'r Ysbryd.

2. Dyna'r ffordd fwyaf diogel i ni er gallu ysgoi y maglau a'r pydewau, y peryglon a'r gelynion all fod ar ein llwybr.

3. Dyna'r ffordd fwyaf dedwydd i ni allu bod er addysg a dyddanwch, a chyfarwyddyd, a chymhorth i'n cydbererinion.

4. Dyna'r ffordd fwyaf difyr ac ennillfawr i ni ein hunain. Bydd genym hamdden felly i gasglu profiad, ac addysg, a nerth wrth deithio yn mlaen.

5. Dyna'r ffordd i ni orphen y daith mewn anrhydedd a llawenydd, a chyfarfod ein Barnwr, heb ddychryn, a rhoddi ein cyfrif i fyny yn llawen, a chael sefyll yn ein rhan, a gorphwys mewn gwynfyd.

Y mae yma rai wedi rhedeg, a dichon wedi rhedeg yn wyllt ac anystyriol, dros y rhan fwyaf o yrfa bywyd. Y mae yn llawn bryd i'r cyfryw arafu, ac edrych yn mlaen, ac ystyried eu diwedd. Byddai yn elw ac yn anrhydedd i ieuenctyd arafu ar *ddechreu* eu gyrfa, a cherdded yn araf drwy eu holl flynyddoedd; casglant felly brofiad cyfoethog erbyn diwedd eu taith. Dylai fod yn gysur i hen gredadyn feddwl fod blynyddoedd ei ofnau, a'i lafur, a'i ofal bron drosodd, ei fod bron gorphen gyrfa ei brofedigaethau a'i wasgfeuon.

Yr ydym yn awr o gylch elor un ettо o'n cyfeillion. Cerddodd ei flynyddoedd i'r pen yn gynt nag oeddym yn ddysgwyl. Yr oedd wedi dysgu "cerdded yn araf," a chafodd y fraint o ymgadw yn lled ofalus ar dir myfyrdod, a gwyliadwriaeth, a gweddi; ac yr oedd ei gyfeillach yn gyffredin yn dra adeiladol i'w gyd-

bererinion. Gobeithio y cawn ei hadnewyddu etto mewn gwlad a chyflwr gwell.

Dylai pob crybwylliad am ein blynyddoedd roddi golwg fawr i ni ar gymeriad ein Duw—canys mil o flynyddoedd ydynt yn ei olwg ef fel un dydd: a rhoddi golwg fawr i ni ar ddydd y farn, lle y byddir yn adolygu cerddediad a gwaith ein holl flynyddoedd: a golwg fawr ar dragwyddoldeb: oblegid nid oes yno ddim dyddiau na misoedd, na thymmorau, na blynyddoedd, i fesur yr oes ddigyfnewid a diddarfod.

"ALLTUD FEL FY HOLL DADAU."

Un o ddywediadau mynych, ac o ddywediadau *olaf* ein cyfaill ymadawedig oedd geiriau Dafydd yn un o'i ganiadau cynnwysfawr ac effeithiol am fyrdra a breuolder oes dyn, ac am wagedd ei drafferthion i geisio tyru golud pan nas gwyr pwy fydd i'w mwynhau; "Ymdeithydd ydwyf gyda thi, ac alltud fel fy holl dadau." Yr oedd yn cydnabod ac yn teimlo mai un ar ei daith ydoedd, a'i fod oddicartref oddiwrth ei deulu. Y mae un ar ei daith felly yn ddarostyngedig i gryn lawer o anghyfleusderau, ac y mae weithiau yn cyfarfod âg anghysuron lled chwerwon; nid yw ddim tra yn yr anial dyrys yn gallu gweled rhyw lawer o'i daith o'i flaen; ac nid yw ddim yn gallu cadw rhyw ddarpariaeth fawr wrth ei gefn; ond y mae yn dysgwyl cael ei gynnaliaeth yn ol ei ddydd; ac nid yw yn gosod ei fryd ar gael llawer yn ychwaneg mewn lle nad yw i aros ond megys un yn llettya dros noswaith.

Gallai fod yn addysgiadol i ni ystyried, Pa ysbryd ddylai lywodraethu "ymdeithydd" felly, pan yn "alltud" o'i wlad ac o'i gartref. Ni ddylai fynwesu dysgwyliadau uchel am esmwythdra a hawddfyd a mwyniant, am foethau ac addurniadau a difyrwch: ni ddylai ymollwng yn ormodol, os bydd siomedigaethau o bryd i bryd yn dyfod i'w ran; nid yw yn werth iddo rwgnach am bob mân-anhawsderau all fod ar ei ffordd. Ni ddylai aros ac ymdroi i edrych ar deganau a blodau all fod o gylch ei lwybr; na rhoddi ei serch ar bethau na pherthynant iddo, ac nad allant fod o ddim lles iddo. Dylai wneuthur defnydd rheolaidd, mewn ysbryd diolchgar, o bob cysuron a chyfarwyddiadau a drefnwyd er ei gynnaliaeth a'i hyfforddiant ar ei daith. Dylai feddwl a son llawer am ben ei daith, ac am ei wlad, ei gartref, a'i deulu. Cyffelyb i hyn ddylai fod nodweddau profiad ffforddolion Seion pan yn tynu yn mlaen tua thir y bywyd.

Ond gellid gofyn hefyd, A oes dim calondid i'r pererin tra ar ei daith drwy'r anial? Oes, y mae: oes, oes, y mae llawer o bethau i'w gysuro. Y mae yn yr un cyflwr a sefyllfa ag y bu ei "holl dadau;" a chyrhaeddasant hwy ben eu taith yn ddiogel ac yn ddedwydd; a gall weled ôl eu traed ar hyd yr holl ffordd. Y mae cymdeithion o'r un anian ac o'r un brofiad ag yntau gydag ef drwy bob rhan o'r daith. Y mae darpariaethau o'i wlad ei hun, arlwyedig yn null ei deulu gartref, wedi cael eu trefnu er ei gynnaliaeth, ac y maent i'w cael heb brinder ac heb arian yn lletty y fforddolion. A mwy na'r cyfan, y mae ganddo Arweinydd anffaeledig, perffaith adnabyddus o'i lesgedd, ei wendid, a'i ofnau, ac o holl anhawsderau y daith; ac y mae yr Arweinydd hwnw yn llawn o dosturiaethau, ac yn alluog i'w gynnorthwyo; ac y mae wedi addaw bod gydag ef bob amser hyd ddiwedd yr yrfa. Ac y mae cartref llawn a dedwydd yn ei aros, a bron yn ymyl. Y mae ei Frawd hynaf yn gofalu am barotoi lle iddo yn nhŷ ei Dad, lle y mae trigfanau lawer, a bydd yn fuan iawn wedi myned adref at ei deulu, a chaiff yno bob croesaw a phob dedwyddwch.

Pe cofiem ninnau yn fwy mynych mai dyeithriaid a phererinion ydym ar y ddaear, rhoddem lai o'n serch ar y pethau sydd isod; a chryfhaai hyny ein chwennychiad am y wlad well.

"MYFI A AF ATO EF."

Dywedai y Salmydd unwaith ar farwolaeth plentyn—"Myfi a âf ato ef, ond ni ddychwel efe ataf fi." Yr oedd yn athrist iawn tra yr oedd ei blentyn yn glaf, ond pan ddeallodd ei farw, ymolchodd, ac ymeneiniodd, a newidiodd ei ddillad, ac aeth i dŷ yr Arglwydd, ac addolodd; ac wedi hyny dychwelodd i'w dŷ ei hun, a gofynodd am luniaeth, a bwytaodd; a dywedodd wrth ei deulu, "Tra yr oedd y plentyn yn fyw, yr ymprydiais, ac yr wylais: canys mi a ddywedais, Pwy a wyr a drugarha yr Arglwydd wrthyf, fel y byddo byw y plentyn? Ond yn awr efe a fu farw, i ba beth yr ymprydiwn? A allaf fi ei ddwyn ef yn ol mwyach? Myfi a âf ato ef, ond ni ddychwel efe ataf fi."

Y mae ei eiriau yn arwyddo yn amlwg ei fod yn credu anfarwoldeb yr enaid—ac iachawdwriaeth babanod—a chymdeithas y saint mewn byd arall; ac yn credu y ca'i gyfarfod ac adnabod ei blentyn mewn sefyllfa ddyfodol; "Myfi a âf ato ef."

Yr oedd yn ystyried marw fel mynedfa o'r byd hwn i'r byd mawr ysbrydol, fel mynedfa sydd o flaen pawb, y tad a'r plentyn, y brenin fel ei ddeiliaid; fel mynedfa ag y *rhaid* i bob un fyned

drwyddi, beth bynag fydd dymuniad ei berthynasau am ei gadw yn ol, neu awydd yr enaid am gilio yn ol; fel mynedfa mor *gul* fel nad all gael neb na dim daearol i fyned gydag ef drwyddi; ond y bydd raid i bob un fyned ei hunan, gan adael y golud, a'r ceraint, a hyd yn nod y corff ar ol: ac fel mynedfa ag sydd yn ymagor i olygfeydd gogoneddus ac annherfynol y byd tragwyddol.

Yr oedd yn ystyried hefyd mai yn y byd yma yn unig y mae parotoi i fyned i'r byd mawr hwnw, am nad oes neb yn dychwelyd yn ol oddiyno. Nid ydys byth yn agor y porth i neb ddychwelyd yn ol. Nid oes neb o deulu y tu draw i'r afon yn ei chroesi i ddyfod yn ol atom ni. Ni chaiff yr annuwiol byth gyfle i ddychwelyd i *ail* gynnyg am ei fywyd: ac ni raid i'r duwiol byth ddyfod yn ol i ail ymladd â'i elynion, i ail wisgo ei alarwisgoedd, ac i ail deithio glyn wylofain; "Ni ddychwel efe ataf fi."

Egwyddor bwysig annhraethol yn nhrefn Duw, a ffaith o bwys tragwyddol yn hanes dyn ydyw, nad oes neb byth yn cael dychwelyd i ail gynnyg ar ei sefyllfa o brawf; a dylai y fath ystyriaeth ddifrifol ein cynhyrfu i wyliadwriaeth, a hunanymholiad, ac ymdrechu er cael ein barn a'n mater yn dda cyn cael ein symud oddiyma.

Ni raid i'r credadyn gwanaf ddim otni y fynedfa ddyeithr i fyd arall. Er mor gul ac er mor dywyll ydyw, gall yr Iesu aros gydag ef, a myned gydag ef pan y bydd pawb eraill yn troi yn ol; caiff olwg hyfryd yn uniongyrchol ar y cyfiawnion dedwydd, ac ar y golygfeydd dymunol yr ochr draw, gydag iddo fyned drwyddi; a dyna yr unig fynedfa dywyll gul y bydd raid iddo fyned drwyddi: caiff fynediadau goleu helaeth o hyny allan byth.

Ni ddylem feddwl am wneud ein cartref ar y ddaear, oblegid y mae y fynedfa i fyd arall o'n blaen, a gall fod porth tragwyddoldeb yn ein hymyl. Ni ddylem alaru yn ormodol ar ol ein cyfeillion a hunasant yn yr Iesu. Y maent yn fyw ac yn ddedwydd, gyda'u gilydd, y tu arall i'r llen. Ac er na ddychwelant hwy atom ni, y mae modd i ni gael ein parotoi i fyned atynt hwy, i gael rhan o'u hetifeddiaeth a'u llawenydd.

"DIDDYMU ANGEU."

Nid rhyfedd fod Paul yn ymffrostio yn nghroes Crist, oblegid y pethau gogoneddus a wnaethpwyd drwy'r groes: ac un o'r pethau hyny oedd, "*diddymu angeu.*" Pan ydym yn clywed, neu yn darllen, neu yn son am ddiddymu angeu, byddai yn fuddiol i ni gofio yn—

1. *Pwy* a ddiddymodd angeu? Nid byddinoedd arfog gorchfygwyr y ddaear. Nid cynnadledd fawr o anianyddion doethaf y byd trwy ddyfnder eu dysg. Nid cyndeithas freiniol o'r prif feddygon drwy rinweddau eu cymysg ddarpariadau meddyginiaethol. Nid llengoedd cyflym a nerthol angylion y nef. Nid neb o saint rhagoraf y ddaear trwy rym eu duwioldeb. Nid galluoedd cyfrwys uffern drwy ddichell eu swynion. Pe buasai holl alluoedd nef a daear ac uffern mewn cynghrair wedi cydymfyddino ac yn cydymorchestu i ddiddymu angeu, buasai y gorchwyl yn ormod iddynt. Pwy ynte a wnaeth yr orchest ardderchog? Yr un fu'n faban yn y preseb, fu'n wr gofidus a chymmefin â dolur, heb le i roi ei ben i lawr, fu'n wylo gyda'r ddwy chwaer yn Bethania, fu'n chwysu yn yr ardd, fu'n gogwyddo ei ben ar y groes, fu'n huno yn medd newydd Joseph, ac a gyfododd ar foreu y trydydd dydd.

Trwy ba *foddion* y darfu iddo ddiddymu angeu? Nid trwy air ei nerth fel Duw hollalluog. Nid trwy rym ei fraich dragwyddol. Nid fel Pentywysog y llengoedd angylaidd. Nid fel Penarglwydd goruchwyliaethau Rhagluniaeth; ond wrth ddibrisio ei hun, a chymeryd arno agwedd gwas; wrth wisgo ein naturiaeth syrthiedig ni, a disgyn i barthau isaf y ddaear; wrth yfed cwpan ein cosbedigaeth ni, a phlygu ei ben i ddyrnod marwolaeth yn ein lle; ac wrth ddisgyn i ystafell oer y bedd i gynhesu y gwely i'w ganlynwyr.

Ar ran *pwy* y diddymodd angeu? Nid ar ran y rhai sy'n anghredu ei dystiolaethau, ac yn gwrthod cynnygion trugaredd; y rhai sy'n diystyru ei ryhuddion, ac yn mathru ei gyfreithiau dan eu traed; ac yn barnu yn allan waed y cyfammod, ac yn difenwi Ysbryd y gras. Nage; daw angeu i gyfarfod y cyfryw rai fel brenin dychryniadau, âg arf angeuol yn ei law, a'i golyn heb ei dynu, ond yn llawn o wenwyn marwol; ac arweinia hwy yn gaethion at borth tywyll yr ail farwolaeth. Ar ran pwy ynte y diddymodd angeu? Ar ran y rhai sydd yn galaru yn y llwch am eu hanogrwydd, gan ymwrthod yn llwyr â phob hunangyfiawnder, a chredu ei holl dystiolaethau, a derbyn yn ddiolchgar gynnygion ei gariad, a hyderu am eu bywyd ar haeddiant ei angeu; y rhai sy'n llafurio yn ddiwyd yn ei winllan, ac yn dyrchafu ei enw a'i ogoniant, ac yn dwyn ei ddelw, ac yn dilyn ei esiampl, ac yn gobeithio cael gorphwys a theyrnasu gydag ef, yn y man lle mae, yn oes oesoedd.

Yn mha *ystyr* y diddymodd Iesu angeu ar eu rhan? Nid fel ag i ryddhau eu *cyrff* tra yn y byd hwn o gyrhaedd cystudd a phoen, a dyrnod angeu, a llygredigaeth y bedd. Ond tynodd ei golyn, a llyncodd ef mewn buddugoliaeth; hyny yw, diddymodd

ofn angeu, fel y mae llawer credadyn yn medru gwenu yn eí wyneb, a chanu pan dan ei law, a gorfoleddu pan yn myned drwy ei borth i wlad oleu anfarwoldeb. Diddymodd *felldith* angeu, fel nad yw mwyach yn elyn, ond yn gyfaill; fel nad yw yn frenin dychryniadau, ond yn genad trugaredd i godi'r Cristion i'r mwynhad o'i etifeddiaeth; fel nad oes mwyach yn ei gwpan ddim o wenwyn marwolaeth, ond balm bywyd. Diddymodd *gaxlyniadau* angeu, sef poenau a dychryniadau angeu tragwyddol. Diddymodd holl *awdurdod* angeu, a chymerodd feddiant o'i agoriadau; ac yn awr y mae holl byrth ei ymerodraeth dan awdurdod Iesu.

Dylem lawenychu gyda theimladau diolchgar am fod hanes buddugoliaeth Iesu ar angeu a'r bedd mor hysbys i ni; a bod bywyd ac anllygredigaeth wedi cael eu dwyn i oleuni drwy'r efengyl; a bod genym y fath dystiolaethau grymus a goleu a gwerthfawr am adgyfodiad y corff, a gwynfyd y nef. Rhoddwn ein holl hyder yn y gwr bendigedig a goncrodd angeu: ac yna cawn ein symud yn fuan at ein cyfeillion ydynt wedi blaenu i orphwys yn nhir y bywyd.

YMADRODDION DYDDANWCH.

Pan oedd y Thessaloniaid yn tristâu ar ol cyfeillion a hunasent yn yr Iesu, yr oedd Paul yn eu cyfeirio at athrawiaethau ag oeddynt yn llawnion o gysur; ac yn dywedyd wrthynt, "Dyddenwch eich gilydd â'r ymadroddion hyn." Y mae ymadroddion yn yr efengyl cyfaddas at bob profiad; a byddai yr apostolion yn ymgais am eu hysgrifenu a'u pregethu mewn dull *cymhwysiadol*. Rhoddent addysg, neu rybudd, neu ganmoliaeth, neu gerydd yn ol yr achos: ac yr oeddynt yn dyner a gofalus iawn i weinyddu dyddanwch lle y byddai eisieu dyddanwch.

Tybir, wrth son am ddyddanu, fod y byd yn llawn o dristwch. Gellid cyfeirio at bedwar achos o dristwch.

1. Pechod yn y galon. Y mae yno fel pla yn nychu; fel gormeswr yn gorthrymu; fel terfysgwr yn dyrysu ei serchiadau ac yn gwylltio ei nwydau; fel baich yn llethu ei nerth; fel cwmwl rhyngddi a heulwen y nef.

2. Blinderau corff yn codi o gystuddiau a thrafferthion; a'r blinderau hyny yn peri poen, ac yn attal mwynhad o bob cysuron dacarol, ac yn lluddias yr enaid i ddilyn ordinhadau crefydd.

3. Rhwystrau ar ffordd llwyddiant Cristionogaeth. Y mae rhwystrau felly yn lluosog ac yn drymion yn mhob oes ac yn mhob lle; ac y maent yn peri tristwch i'r credadyn llafurus.

4. Goruchwyliaeth angeu. Y mae brenin dychryniadau yn

ymdeithio yn ei rwysg drwy'r byd, gan estyn ei gysgodau duoer o'i flaen, ac ysgwyd ei gleddyf, a chyhoeddi ei fuddugoliaeth. Y mae yn hyf ymwthio i holl gylchoedd cymdeithas, i'r palas fel i'r bwthyn, i'r eglwys fel i'r byd; i bob ardal, ac at bob teulu. Ac y mae yn taro i lawr y rhai anwylaf i ni; ac wrth eu taro hwy, y mae yn ein byggwth ninnau; wrth eu cymeryd hwy i'w garchar, y mae yn awgrymu y daw yn fuan i'n cyrchu ninnau.

Ond ceir dyddanwch yn "ymadroddion" yr efengyl ar gyfer pob rhyw dristwch. Pan y mae pla pechod yn tristau yr enaid, y mae yr efengyl yn dangos fod gan Dduw faddeuant, fod ganddo dreſn i faddeu drwy Iawn ei Fab, ei fod yn caru maddeu, ac wedi mad leu i fyrd liyn eu, a'u gwneud yn hollol bur, a'u codi i wlad o fythol wynfyd. Pan y mae blinderau corff yn achosi tristwch, y mae ymadroddion yr efengyl yn dysgu eu bod oll dan oruwchreolaeth Tad, eu bod yn llawer ysgafnach na'r haeddiant, eu bod yn fyr ac i ddarfod yn fuan, a'u bod yn odidog ragorol er gweithredu tragwyddol bwys gogoniant. Pan y mae anhawsderau yn lluosogi ar ffordd llwyddiant crefydd, y mae ymadroddion yr efengyl yn dysgu fod Iesu yn teyrnasu, a bod holl nerthoedd y nef o du Seion; ac nad oes dim yn eisieu ond iddi ymddeffroi ac ymwroli, ac ymarfogi ac ymfyddino, ac ymdaith yn mlaen yn nerth ei Harglwydd, ac y bydd yn sicr o'r fuddugoliaeth. A phan y mae brenin braw yn cyllawni ei rwysg, y mae ymadroddion yr efengyl yn dysgu, fod Iesu wedi ei goncro ar ei dir ei hun, wedi tòri ei gledd, wedi tynu ei golyn, ac wedi dwyn ei holl allweddau, ac nad all mwy wneud dim niwaid i'r credadyn; a bod boreu yn ymyl pan y dryllir ei ymerodraeth, a phan y codir yr holl saint o'i feddiant i fyned i fyw at eu Brawd hynaf i wlad lle na bydd dim cystudd na marw ynddi.

Nid rhyfedd oedd i Paul ddywedyd—"Dyddenwch eich gilydd â'r ymadroddion hyn." Y mae eu dyddanwch yn sicr o ateb y dyben. Mae pob digonedd o hono, a pharha byth yn gyflawnder diball. Y mae o'r un natur a'r enaid. Y mae wedi cynnal a dyddanu myrddiynau, ni siomwyd dysgwyliad neb erioed ynddo. Bu yn ddigon i'n tadau, y mae yn ddigon i ninnau, a bydd yn ddigon i'n holoeswyr. Y mae yn yr "ymadroddion hyn" ddigon i bawb, a digon am byth.

A dym i'r *unig* ddyddanwch all gynnal enaid yn wyneb ei dristwch. Try pob dyddanwch arall yn siomedig. Nid oes ond dyddanwch diflanedig i'w gael yn holl bethau goreu y ddaear. Y mae llawer wedi profi y byd, wedi profi ei barch a'i fri, ei olud a'i wleddoedd, ei gyfeillach a'i ddifyrwch, ei rwysg a'i ogoniant, ac wedi methu cael digon ynddynt oll i symud tristwch enaid.

Ond pa fodd y mae i ni gael y dyddanwch o'r ymadroddion hyn? Rhaid i ni *fyfyrio* arnynt; myfyrio yn fanwl er gallu eu deall a'u cofio; ac yn fynych er cael maeth beunyddiol i'n meddyliau oddiwrthynt; a myfyrio nid ar addewidion yn unig, ond ar holl "ymadroddion" yr efengyl, fel y gallom eu gweled yn eu cysondeb. Ac heblaw myfyrio arnynt, dylem *ymddyddan* am danynt. Oblegid, dyddenwch *eich gilydd*, ac nid dyddenwch eich hunain, yw y cyfarwyddyd a roddir. Ymddyddenwch â'ch gilydd am danynt. Adrodded un wrth y llall am y dyddanwch a gafodd ynddynt; oblegid dyna y ffordd i chwi gryfhau a lluosogi eich cysuron. Y mae gan ddyn alluoedd cymdeithasol, ac y mae holl ordinhadau crefydd yn gymhelliadol i ymddyddanion crefyddol. Gan hyny, dyddenwch eich gilydd ar hyd y ffordd, fel pererinion yn tynu drwy'r anial tua'r un wlad. Fel morwyr yn yr un llong, yn hwylio dros y tònau tua'r un porthladd hyfryd. Fel milwyr yn ymdaith yn mlaen ar ol yr un blaenor, dan yr un faner, yn yr un arfogaeth, yn erbyn yr un gelynion. Fel cymdeithion ar làn afonydd pell yr un caethiwed. Fel cleifion dan yr un triniaethau, yn yr un meddygdy. Fel cydetifeddion dan eu hoed yn dysgwyl am yr un etifeddiaeth.

Y mae rhai yn nghanol tristwch a thrallodion y byd fel ninnau, ond heb wybod dim am ymadroddion yr efengyl; heb eu gweled erioed, na'u clywed erioed. Y maent yn y tymhestloedd, ond heb wybod pa le mae'r cysgod. Y maent ar foroedd geirwon y byd, heb gwmpawd i'w dysgu i hwylio tua'r nefoedd. Y maent dan wahanglwyf pechod, ond heb wybod am y feddyginiaeth drwy waed yr Oen; dan glwyfau angeuol, ond heb y balm sydd yn iachâu; yn newynog, ond heb wybod am wleddoedd trugaredd. Y mae yn alarus meddwl am eu tristwch a'u trueni: ond y mae yn drymach fyth i feddwl am rai agos atom ag ydynt yn fwy eu heuogrwydd a'u trueni; sef y rhai sydd yn ymyl flynnonau dyddanwch yr efengyl, ond heb ddysgu erioed dynu dim cysuron o honynt. Dylem wneud ein goreu i anfon yr "ymadroddion hyn" i'r rhai sydd hebddynt; a gwneud ein goreu hefyd i ennill ein cymydogion i ddyfod i sugno o'u dyddanwch.

Mor fawr ac mor bur ydyw dedwyddwch ein cyfeillion ydynt wedi blaenu i dir y bywyd! Y maent mewn gwlad lle nad oes dim tristwch, na dim i achosi tristwch; yn cael eistedd yn dawel dan gysgod pren y bywyd, ar làn y flynnonau bywiol o ddyddanwch sy'n llifo fel y grisial o orseddfainc Duw a'r Oen. Y mae rhai o'n cyfeillion hoff wedi myned yno yn ddiweddar; wedi myned o'r llafur i'r orphwysfa, o'r llygredd i'r purdeb, o'r galar i'r gân, o'r rhyfel i dawel fro tangnefedd; i wlad lle nad oes neb

yn glaf, lle nad oes na chlwyf na chraith, na brycheuyn, na chrychni, na dim o'r cyfryw: o wlad y drychau aneglur i wlad y gweled wyneb yn wyneb. Y mae yn golled i ni ar eu hol, ac y mae hiraeth arnom am gymdeithas eu gweddïau. Boed i'r hiraeth hyny godi ein serch yn fwy i'r nefoedd; ac os rhoddwn ein calon yno wrth fyw, cawn fyned yno i fyw ar ol marw.

DILYNWYR Y RHAI SY'N ETIFEDDU YR ADDEWIDION.

Yr oedd Paul yn ysgrifenu yn gryf ac yn gynhes at yr Hebreaid, "Fel na byddent fusgrell, eithr yn ddilynwyr i'r rhai trwy ffydd ac amynedd sydd yn etifeddu yr addewidion."

Y mae addewidion mawr iawn a gwerthfawr wedi cael eu rhoddi i ni gan y Duw ffyddlawn, digelwyddog, a hollalluog; we li cael eu rhoddi yn y dull tirionaf ac egluraf i batriarchiaid a phrophwydi, a thrwy Grist a'i apostolion: y maent wedi cael eu rhoddi trwy lw, ac wedi cael eu selio â gwaed y Cyfryngwr: addewidion am wlad well, hyny ydyw, un nefol; gwlad o gyfoeth ac o burdeb, o oleuni a gorphwys, o gymdeithas santaidd, ac o wenau Iesu, ac o fywyd anfarwol.

Y mae rhai wedi blaenu i etifeddu yr addewidion. Darfu iddynt eu derbyn a'u coileidio yn llawen, a'u credu yn ddiysgog tra yma yn myd y gorthrymderau. Pwysasant yn dawel arnynt drwy eu holl yrfa; ac y maent yn awr yn cyfranogi o'u cyfoeth yn ngwlad eu cyflawnder; y maent yn dechreu profi o felusder eu cymmwysiad, ag sydd yn ddiball ac yn ddidrai; y maent yn teimlo fod digon yneddynt i'w gwneuthur byth wrth eu bodd. Ac nid teulu *bychan* sydd yno wedi blaenu i etifeddu yr addewidion. Yr oedd enwogion yr hen oruchwyliaeth yno cyn dyddiau Paul; y mae myrddiynau ar fyrddiynau o ddeiliaid breintiau uwch yr efengyl wedi myned yno ar ol hyny. Yr oedd yno dyrfa nad allai neb ei rhifo yn amser Ioan, ac y mae wedi lluosogi yn fawr ar ol hyny: ac y mae yno rai wedi myned yno yn *ddiweddar* o'n cylchoedd ni. Y mae meddwl fod rhai fuont mor ddiweddar gyda ni yn ein tai clai, ac yn rhodio llwybrau lleidiog y llawr, yn awr wedi esgyn i ganol teulu hardd yr addewidion, bron yn ormod i'n teimlad.

Ond pa fodd yr aethant yno? Dywedir gan Paul mewn dau air:—Trwy *ffydd* ac *amynedd*. Y mae llawer o son am orchestgampau ffydd, ac am ffrwythau ffydd, ac am wobrau ffydd; "Ffydd yn wir yw sail y pethau yr ydys yn eu gobeithio, a sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled." Trwy ffydd y cafodd yr henuriaid air da, a thrwy ffydd yr aethant adref yn ddiogel i

etifeddu yr addewidion. Ond nid heb lafur ac ymdrech; ac felly yr oedd raid wrth *amynedd*. Yr oedd eu gyrfa yn ddyrys drwy leoedd anial; yr oedd y rhyfel yn boeth a'r gelynion yn lluosog: yr oedd y gwaith yn galed yn ngwres y dydd; yr oedd y tylau yn serth a'r baich yn drwm; yr oedd y cystudd yn chwerw; yr oedd gwg y byd yn gas, a'i siomedigaethau yn lluosog, a'i erlidiau yn greulawn; yr oedd raid hau mewn dagrau; ac felly yr oedd raid wrth *amynedd*.

Amcan Paul, wrth gyfeirio ein meddwl mor fynych at y rhai sydd yn "etifeddu yr addewidion," oedd ein cymhell ni i fod yn "ddilynwyr" iddynt. "Fel na byddom *fusgrell*." Bod yn "fusgrell" yw bod yn ddiawch, yn ddiegni, yn ddifywyd, yn ddilun, yn gysglyd a marwaidd. Y mae pob gwaith yn boen i'r dyn musgrell, ac y mae yn boen ei weled gyda phob gwaith. Y mae ôl musgrellni ar bob gorchwyl a wna. Y mae ei esiampl yn niweidiol i'w gymdeithion, ac y mae ei orchwyl yn antri i'r maes lle y byddo: ac os byddwn ni yn fusgrell, nis gallwn byth ddilyn y rhai sy'n etifeddu yr addewidion. Nid yn fusgrell, y mae ein gwaith yn bwysfawr: nid yn fusgrell, y mae tymmor yr ymdrech yn fyr: nid yn fusgrell, y mae sylw mawr arnom, o'r nef, ac o'r ddaear, ac o uffern: nid yn fusgrell, y mae ein hagwedd ni yn effeithio ar eraill o'n deutu: nid yn fusgrell, oblegid nid musgrell oedd yr ardderchog lu sydd wedi blaenu: nid yn fusgrell, oblegid nid yw ein gelynion byth yn fusgrell: nid yn fusgrell, oblegid nid musgrell oedd yr Iesu pan yn agor ffordd i ni ddyfod i afael yr addewidion; ac nid musgrell ydyw yn awr pan yn parotoi lle i ni yñ y nefoedd.

Y mae rhai yn fywiog ac egnïol iawn yn ngwasanaeth pechod. Nid ydynt yn fusgrell wrth ddilyn gelyn eu hiachawdwriaeth. O na fedrid eu denu i wasanaeth Iesu, i wasanaeth ag sydd yn anfeidrol deilwng o'u holl alluoedd a'u holl fywiogrwydd.

Byddai nerth, a llwyddiant, a chynnydd, a chysur yr eglwys yn llawer mwy pe na byddai mor fusgrell gyda gwaith ei Harglwydd. Gan hyny, ysgydwn ymaith bob musgrellni, ac ymegnïwn yn fywiog, fel y trefner i ni fynediad helaeth i mewn at y rhai sydd yn etifeddu yr addewidion.

ETIFEDDIAETH YN NGHADW YN Y NEFOEDD.

Y MAE argraff ar feddwl dyn ei fod yn anfarwol. Y mae yn dymuno am i ddaioni ddyfod i'w ran yn yr amser a ddaw. Y mae yn dysgwyl fod rhywbeth gwell yn ei aros nag sydd ganddo mewn gafael. Y mae yn edrych yn mlaen o hyd yn llawn o

ddysgwyliadau. Mae'r plentyn gwan, cyn prin medru cerdded na siarad, yn dysgwyl byd da pan y daw yn fawr. Mae'r llanc, pan dan ofal y rhieni tirionaf a'r athrawon goreu, yn dysgwyl cael gwell byd pan y bydd wedi ei ollwng yn rhydd i fod yn feistr arno ei hun. Y mae pobl ieuainc yn hyderu y bydd eu cysur yn fwy pan fyddont wedi sefydlu yn y byd. Mae pobl canol oed yn dysgwyl dyddiau gwell pan y cânt roddi eu gofalon heibio. Ac y mae hyd yn nod hen bobl yn byw yn llawen i ddysgwyl a gobeithio. Ychydig iawn yw y mwynhad *presenol* y mae y byd hwn yn roddi. Y cysur mwyaf yw y dysgwyl am y mwynhad dyfodol. A gwerthfawr iawn ydyw cael gobaith da am ddedwyddwch yn y byd a ddaw. Y mae gan y credadyn "obaith bywiol" felly ar sylfaen ddiysgog. Ac nid rhyfedd ydoedd fod Pedr mewn hwyl mor uchel pan yn ysgrifenu at dduwiolion gwasgaredig yr oes hòno, "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn yn ol ei fawr drugaredd a'n hadgenedlodd ni i obaith bywiol trwy adgyfodiad Iesu Grist oddiwrth y meirw, i etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig, a diddiflanedig, ac yn nghadw yn y nefoedd." Y mae ei ddarfuniad o etifeddiaeth y nef yn hynod o gynnwysfawr.

1. Etifeddiaeth eang oludog ydyw. Y mae'r gair "etifeddiaeth" yn arwyddo ei bod o werth annbraethadwy; yn enwedig gan ei bod yn cael ei chadw yn y nefoedd. Nid rhodd fechan o law i law ydyw. Nid pyrsaid o arian ydyw. Nid blychaid o berlau teg ydyw. Nid deg pâr o ddillad ydyw. Nid byrddaid o ddanteithion ydyw. Nid gwroedd o anifeiliaid fel anrheg Jacob i Esau ydyw. Nid ystafell ysgafn ar y mur fel rhodd y Sunamees i Eliseus ydyw. Nid y tŷ wedi ei ddodrefnu fel tŷ coedwig Libanus ydyw. Nid gardd na gwinllan ydyw: ond *etifeddiaeth*, etifeddiaeth o ddarpariad y Duw hollgyfoethog er dangos goludoedd ei gariad; ac y mae o ran ei maint, ei golud, a'i threfn, ac yn mhob ystyr, yn deilwng o'i gariad ac o'i gyfoeth. Etifeddiaeth ddigon llydan i fod yn gartref i'w holl deulu ydyw, yn cynnwys digonedd iddynt oll, digonedd o bob anrrywiaeth, a digonedd am byth i'w cadw yn anrhydeddus, ac i'w gwneud yn gyflawn wrth eu bodd.

2. Etifeddiaeth "*ddihalogedig*" ydyw. Y mae etifeddiaethau godidog wedi bod ac yn bod yn ein byd ni; ond nis gellir dweyd am yr un o honynt ei bod yn "ddihalogedig." Halogwyd etifeddiaeth Eden er hardded ydoedd trwy gwymp galarus ein rhieni cyntaf. Halogwyd etifeddiaethau teg gwastadedd Sinar drwy anffyddiaeth a thrais y cynddiluwiaid. Halogwyd etifeddiaethau ffrwythlawn tir Canaan trwy eulunaddoliaeth y cynbreswylwyr,

a gwrthgiliadau llwythau Israel. Bu etifeddiaethau blodeuog iawn gan frenhinoedd yr Aipht ac Ethiopia yn nyffrynoedd breision y Nile, ond cawsant eu difwyno gan bob math o halogedigaeth. Bu etifeddiaethau ardderchog gan Solomon a'i olynwyr yn Judea, gan Senacherib yn Assyria, gan Nebuchodonozor yn Babilon, gan Ahasferus yn Persia, gan y Cesariaid yn Rhufain, a chan dywysogion tiroedd Groeg, a phendefigion y byd drwy yr oesau ar ol hyny; ond cawsant oll eu halogi drwy bechod. Y mae etifeddiaethau cyfoethog yn awr mewn llawer parth o'r byd, ond y maent oll yn halogedig. Y mae traed halogedig wedi bod yn rhodio eu llwybrau, a dwylaw halogedig wedi bod yn addurno eu hadeiladau, a llygaid halogedig wedi bod yn syllu ar eu gogoniant, a thafodau halogedig wedi bod yn lleisio drwy eu glynoedd a thros eu bryniau, ac anadl halogedig wedi bod yn llygru eu hawelon, ac archwaeth halogedig wedi bod yn profi o'u cynnyrch. Ond y mae etifeddiaeth "*ddihalogedig*" yn nghadw yn y nefoedd i'r credadyn. Nid aeth i mewn yno ddim aflan. Y mae yr oll a berthyn iddi yn ddihalogedig. Y mae ei hawyr, a'i ffrydiau, a'i blodau, a'i ffrwythau, a'i hadeiladau, a'i haddurniadau, a'i golud, a'i gwleddoedd, ei holl gynnyrch, a'i holl adneddau, oll oll yn "ddihalogedig." Y mae ei chyfreithiau yn uniawn, ei holl wasanaeth yn bur, a'i phreswylwyr yn berffaith wynfydedig.

3. Etifeddiaeth mewn sefyllfa ac mewn *cadwraeth* ardderchog Y mae ambell i etifeddiaeth yn fawr, ond mewn sefyllfa anfanteisiol; ac ambell i etifeddiaeth mewn sefyllfa dda, ond mewn *trefn* ddrwg; ond y mae etifeddiaeth y Cristion mewn sefyllfa dda, ac mewn cadwraeth dda. Y mae yn nghadw iddo yn y nefoedd. Dywedir yn fynych am rai o etifeddiaethau goreu y byd yma eu bod mewn cadwraeth ddrwg, eu bod allan o drefn, bod eu hadeiladau a'u muriau yn adfeilio, bod eu ffyrdd bron yn anhygyrch, eu lleoedd lleidiog yn afiach, a'u bod yn anghysurus i fyw arnynt: ond nid felly yr etifeddiaeth ddihalogedig sydd yn cael ei chadw yn y nefoedd. Nid oes yno ddim yn adfeilio, nid oes yno ddim allan o drefn. Nid oes yno ddim lleoedd lleidiog afiach. Y mae dan ofal yr Etifedd mawr ei hun. Y mae yn y gadwraeth oreu. Y mae mewn gwlad dda odiaeth; gwlad oleu, heulog, gynhes, bur, flodeuog, iachus y nefoedd; mewn gwlad ddiogel, dawel, heddychol; mewn gwlad lle na ddaw tymhestloedd cystudd na chwaon afiechyd byth i chwythu yn erbyn y preswylwyr; mewn gwlad lle nad oes na chroes na gelyn, a lle nad yw afon ddu marwolaeth byth yn llifo drwyddi.

4. Etifeddiaeth na dderfydd. Y mae, nid yn unig yn ddihal-

ogedig, ond yn anllygredig a diddiflanedig. Nid oes dim cymaint ag un peth *anllygredig* yn perthynu i etifeddiaethau goreu y ddaear. Y mae y cestyll cadarnaf yn adfeilio. Y mae yr aur puraf yn llygradwy. Y mae y blodau tlysaf yn gwywo. Y mae dysgleirdeb a thegwch pethau godidocaf y byd yma yn diflanu; ond nid felly y mae yn y nef. Y mae holl drysorau yr etifeddiaeth hòno yn anllygredig ac yn anllygradwy. Ni wywa byth y blodau sydd yno; ac y mae pob tegwch sydd yno yn anniflanedig: a bydd gwerth a gogoniant yr etifeddiaeth hòno yn cynnyddu yn barhaus.

Ond dylem ni ystyried cymeriad y bobl allant obeithio cael mwynhau yr etifeddiaeth hòno.

1. Y maent mewn cymmod â Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, awdwr a pherchenog yr etifeddiaeth; ac mewn cymmod a'i holl drefniadau. Buont yn estroniaid, ond y maent yn blant; wedi dysgu llefain, "Abba Dad:" ac y maent yn ymdebygu fwyfwy iddo; yn dawel dan ei nodded, ac yn ddedwydd yn ei gymdeithas.

2. Y maent yn dysgwyl am yr etifeddiaeth drwy gyfryngdod ein Harglwydd Iesu Grist; ac nid ar sail unrhyw deilyngdod ynddynt eu hunain. Y maent yn teimlo eu bod wedi myned yn euog a halogedig, ac felly wedi colli pob teitl i'r fath etifeddiaeth; ac na buasai byth obaith iddynt oni buasai cyfryngdod gogoneddus yr Arglwydd Iesu; oni buasai ei farwolaeth ef, a'i adgyfodiad ef oddiwrth y meirw, a'i wasanaeth caredig ef ar eu rhan yn y nef. Ac y mae y teimlad hwnw yn llenwi eu mynwesau â'r diolchgarwch gwresocaf.

3. Y maent yn magu ysbrydolrwydd meddwl: sef gwybodaeth am bethau anweledig; crediniaeth ddiysgog eu bod yn hanfodi yn ol yr ysgrythyrau, myfyrio arnynt, ac ymhyfrydu ynddynt yn barhaus. Nid yw eu meddyliau ddim yn cartrefu ar bethau gweledig anianol, ond y maent yn codi uwch tymhestloedd a gorthrymderau y byd, ac yn cartrefu ar eu hetifeddiaeth fry.

4. Y maent mewn pryder bywiog i barotoi i'w hetifeddiaeth, yn ymwneud â'r gwaed sy'n glanhau, yn caru cymdeithas eu Tad, a'r Brawd hynaf, a'u cydetifeddion; ac yn astudio egwyddorion, a chyfreithiau, a gwasanaeth, a theimladau, a moesau gwlad eu hetifeddiaeth.

Un o'r profiad yma oedd ein cyfaill ymadawedig. Yr oedd yn dawel blygedig i drefn ac ewyllys ei Dad. Iesu ydoedd unig sylfaen ei obaith am etifeddiaeth yn y nefoedd; ac yr oedd yn hoff iawn o feddwl ac o son am ogoniant yr etifeddiaeth. Yr oedd yn arfer dweyd y byddai yn drwm iawn i neb o'i gymydog-

ion ei cholli ar ol clywed a darllen cymaint am dani; ac yr oedd yn dweyd hefyd ei bod yn annheg ac yn anghyson i obeithio am dani heb ddim llafur am gymhwysder i'w mwynhau.

Bydd golwg ddedwydd iawn ar deulu mawr ffydd pan y byddant wedi cyfarfod oll, yn eu llawn oed, i gydfyw gyda'r Iesu ar eu hetifeddiaeth.

Y DORF AR FYNYDD SEION.

Golwg ardderchog gafodd Ioan ar y dorf brynedig ar fynydd Seion; ac y mae yn crybwyll am eu rhifedi—eu cyflwr—eu sefyllfa—a'u gwaith.

1. Dywed am eu *rhifedi*, eu bod yn bedair mil a saith-ugeinmil; rhif penodol, ond yn arwyddo tyrfa ddirif o bob oes, a gwlad, a llwyth, o bob oed a gradd; a dywed nad oeddynt ond y "*blaenffrwyth.*" Mae myrddiynau wedi esgyn i fynydd Seion ar ol amser Ioan, ond nid yw y dorf etto ond megys ysgub y "blaenffrwyth:" y mae y cynhauaf yn ol, a bydd yn ogoneddus o fawr. Dyna'r pryd y bydd golwg hardd ar fynydd Seion, pan gesglir yr holl gynhauaf i ddiogelwch, heb yr un dywysen ar ol, ac heb un o'r efrau yn eu mysg. Bydd y cynhauaf mawr hwnw yn deilwng o oludoedd doethineb a gras Duw, ac yn ddigon i ddiwallu enaid y Cyfryngwr ar ol ei holl lafur a'i ddyoddefaint.

2. Crybwylla Ioan am eu *cyflwr*, fel rhai wedi eu prynu oddiar y ddaear, ac o fysg dynion, wedi eu gwaredu o fyd yr euogrwydd a'r halogrwydd, wedi eu cyfiawnhau a'u santeiddio, a'u dwyn yn agos drwy waed Crist; rhai wedi eu symud o feddiant Satan, er ei holl lid; ac wedi eu hachub o afaelion y ddraig a'r ddau fwystfil; ac wedi eu rhyddhau oddiwrth bob gwendid ac ammheuon, ac ofnau, ac wedi eu gwneud yn berffaith bur i ymddangos yn "ddifai" ger bron gorseddfainc Duw. Nis gall engyl gwynion y nef weled dim bai ynddynt: ac nid oes gan gyfraith lan yr orsedd ddim un gair yn eu herbyn. "Gwyryfon" dihalog ydynt. Nid ydym i gymeryd y gair "gwyryfon" yn ei ystyr lythyrenol, oblegid y mae gwŷr a gwragedd, o bob oes ac o bob gwlad, yn y nefoedd. Y mae yno "wyryfon" a babanod; y mae yno hefyd dadau a mamau. Dichon fod y rhan fwyaf o ardderchog lu y merthyron yn wŷr a gwragedd, ac yn rhïeni; ond yr oeddynt yn "wyryfon" o ran eu purdeb a'u ffyddlondeb i Grist; ac am eu bod wedi ymgadw yn ddihalog oddiwrth lygredigaethau y butain fawr. Ac yr oedd ganddynt enw ei Dad ef yn ysgrifenedig yn eu talcenau. Y mae hyny yn arwyddo eu bod yn eiddo cysegredig i Dduw. Yr oedd ei nôd ef arnynt, "yn eu talcenau;" yr oeddynt yn hoffi ei wisgo, ac yn hoffi ei *ddangos*.

Yr oedd yno wedi ei "ysgrifenu" mewn llythyrenau na ddilëir byth. O! gyflwr anrhydeddus, a diogel, a dedwydd; eu calon yn bur, eu cydwybod yn dawel, eu gwisg yn lan, a'u hedrychiad yn hardd, ac oll yn "ddifai" ger bron gorseddfainc Duw!

3. Crybwylla Ioan hefyd am eu *sefyllfa*. Yr oeddynt "*gyda'r Oen*," yr Oen a aberthwyd ar Galfaria, y Cyfryngwr a ddyrchafwyd i bob awdurdod ar sail ei Iawn anfeidrol. Yr oeddynt gyda'r Oen ar "fynydd Seion," lle dysglaer, tawel, gogoneddus y dwyfol bresenoldeb; lle cymanfa y rhai perffeithiedig; lle yr addoli pur; lle y gorphwys a'r gorfoledd. Ac yr oeddynt ar fynydd Seion "ger bron yr orseddfainc;" yn y llys uchaf, yn cael y cyfleusderau goreu i weled wyneb eu Harglwydd, ac i wybod a chyflawni ei ewyllys.

4. Crybwylla Ioan am eu *gwaith* yno. Enwir tair cangen o'u gwaith—Dilyn yr Oen, canu y ganiad newydd, a chymdeithasu. Y maent yn dilyn yr Oen pa le bynag yr elo. Ei ddilyn, pan oedd yma yn y byd, oedd myned ar ei ol o le i le i wrando ei addysg, i weled ei weithredoedd, i dderbyn ei gymwynasau, ac ufuddhau i'w eirchion. Ei ddilyn yn awr, pan y mae yn anweledig, ydyw astudio ei eiriau, ymddifyru yn ei ordinhadau, ymgylymu â'i achos, dwyn ei ddelw, ac yfed o'i ysbryd. Ond yn y nef y maent yn dilyn yr Oen yn y ddau ddull a enwyd. Y maent yn ei weled fel y mae, yn clywed ei lais, ac yn myned ar ei ol, o le i le, o ffynnon i ffynnon, o heol i heol, o drigfan i drigfan, o seren i seren, neu o fyd i fyd, yn cangder anniherfynol ei lywodraeth; y maent hefyd yn ei ddilyn mewn ystyr *foesol* trwy dderbyn ei addysg, a gwneud ei ewyllys, a bod yn debyg iddo. Y maent hefyd yn canu y ganiad newydd. Canu ydyw amlygu gorfoledd y galon mewn seiniau peroriaethus â'r llais, neu âg offer cerdd. Testun eu caniad ydyw iachawdwriaeth drwy waed yr Oen. Y mae yn ganiad "newydd" am nad oedd mewn ymarferiad yno nes aeth rhai o deulu byd y cystudd mawr yno; a dichon nad oeddid yn ei deall yn llawn, nac yn medru ei chanu yn hwylus yno, nes i Iesu golli ei waed ar y groes. Nid oedd neb yn medru canu y ganiad newydd yn y cywair mwyaf ond y rhai oeddid wedi brynu oddiar y ddaear. Y mae yn wir fod angylion yn deall syniadau ac egwyddorion y gân, ond nid oedd neb yn medru teimlo ei bywyd, ac yn gallu seinio ei nodau uchaf yn iawn ond y rhai a brynwyd oddiar y ddaear ac a gànwyd drwy'r gwaed. Gall fod llawer o bennillion yn y ganiad newydd—pennill am ras a thrugaredd y drefn; pennill am ei doethineb, pennill am ei chadernid, pennill am ei chyflawnder, a phennill am ei pharhad tragwyddol.

Y maent hefyd yn *cyfeillachu* yno. Yn cyfeillachu â'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc, ac â'r Oen, ac â'r pedwar byw llawn llygaid, cynnrychiolwyr y myrddiynau angylaidd; ac â'r pedwar henuriad ar hugain, cynnrychiolwyr ysbrydoedd y cyfiawnion: ac y maent yn cyfeillachu a'u gilydd, mewn dull addysgiadol, oblegid y maent yn llawn o wybodaeth; ac mewn dull dedwydd, oblegid y maent yn llawn o gariad; ac y maent i gyfeillachu felly yn dragwyddol, oblegid y maent yn anfarwol.

Dyna'r olwg a gafodd Ioan arnynt: ac yr oedd y weledigaeth yn un gysurlawn iawn iddo, ar ol y gweledigaethau dychrynadwy oedd wedi gael am y ddraig goch fawr, sef y Rufain baganaidd yn sychedu am waed yr Eglwys a'i phlant; ac am y ddau fwystfil, sef Pabyddiaeth, ag oeddynt yn cablu Duw a'i dabernacl, ac yn rhyfela â'r saint.

Gall syllu ar weledigaeth y dorf ar fynydd Seion fod yn fuddiol i ninnau.

1. I'n dysgu i ddiolch am dystiolaethau gogoneddus y Beibl; oblegid ni buasem yn gwybod dim am fynydd Seion y nef oni buasai y Beibl.

2. I'n dysgu i farnu'n gywir am y byd hwn, ac i deimlo'n briodol gyda golwg ar ei wg a'i wên.

3. I'n dysgu i barotoi i fyned at dyrfa mynydd Seion i ganu y ganiad newydd ger bron yr orseddfainc, ac yn

4. I gymedroli ein hiraeth a'n galar ar ol ein cyfeillion ydynt wedi ein gadael, a myned yno i gartrefu. Y mae cryn nifer o'n cyfeillion wedi blaenu yno yn ddiweddar. Hawdd i ni gasglu oddiwrth weledigaeth Ioan eu bod mewn llawer gwell byd nag oeddynt yma. Y maent mewn goleuni heb dywyllwch, mewn rhyddid heb gaethiwed, mewn perffaith ddiogelwch heb unrhyw berygl, yn lan oddiwrth bob halogrwydd, yn iach oddiwrth bob pla, yn gwbl bur heb ddim llygredd, gartref yn nhŷ eu Tad gyda'r teulu, ac nid yn yr anial fyd: a phan y mae tystiolaeth genym fod brawd neu chwaer wedi cyrhaedd yno, dylai ein dyddanwch fod yn gryfach na'n hiraeth.

Y mae genym sciliau i hyderu fod ein chwaer ddystaw, wylaidd, ymadawedig, E. J., Maesgwian, wedi bod, er yn wan, yn ceisio dilyn yr Oen drwy anhawsderau taith yr anial; yr oedd ei enw ef, ac enw ei Dad ef yn ysgrifenedig ar ei phroffes ac ar ei hymarweddiad; ac yr oedd wedi dechreu canu y "ganiad newydd" yr ochr hon i'r bedd.

Cofiwn mai *yn awr*, yn y byd yma, y mae i *ni* ddechreu dysgu y gân; ac nid oes modd dechreu yn rhy *gynnar*, na bod gyda'r gwaith yn rhy ddyfal. Os awn ni i fyd arall heb gael ei enw ef,

ac enw ei Dad ef, yn ysgrifenedig ar ein proffes a'n bywyd, ac heb ddechreu dysgu y ganiad newydd, ni bydd dim newid cyflwr yno. Nid oes yr un dramwyfa dros y gagendor o wlad colledigion i fynydd Seion: Ond O! mor bur ac mor fawr fydd ein gorfoledd, os cawn ni ein parotoi yma i fyned i gymanfa fawr mynydd Seion!

"CYFAILL A LYN."

Clywais adroddiad yn ddiweddar am wraig dduwiol wrth farw yn gallu gwenu a gorfoleddu pan oedd ei meddyg yn ei rhoddi i fyny, a phan oedd ei cheraint anwylaf yn cefnu, gan fethu dal wrth weled ei gwasgfeuon, a chan dristwch wrth feddwl am ei cholli.

Gofynodd yn dawel i'w meddyg a fedrai ef wneuthur dim cymhorth iddi, neu ddim er lleddfu ei phoen? Cydnabyddodd yntau na fedrai. Gofynodd wedi hyny i rai o'i cheraint anwylaf, a fedrent hwy weinyddu dim cymhorth iddi? Gan na fedrent ateb, ciliasant allan i wylo; ac wrth eu gweled oll yn cefnu, gwenodd hithau yn wyneb ei meddyg, a dywedodd â llais effeithiol—"Diolch am un a ddichon gwbl iachâu: diolch byth am y cyfaill a lŷn drwy bob gwasgfa; a diolch am y gwaed sydd yn glanhau oddiwrth bob pechod." Yr oedd bod ei hyder mor dawel yn yr Iesu, nid yn unig yn nerth i'w chalon hi yn y wasgfa olaf, ond yr oedd yn ddyddanwch cryf i'w chyfeillion ar ol ei hymadawiad.

Yr oedd gafael ein chwaer, A. H., Bryncoch, pan oedd yn rhodio ar hyd y glyn, yn gryf yn nerth yr Iesu, ac yr oedd yn pwyso yn dawel ar ei fawn mawr; ac yr oedd yn gallu dweyd, os nad oedd yn gallu canu—

"Yn y dyfroedd mawr a'r tònau
Nid oes neb a ddeil fy mhen,
Ond fy ffyddlawn Archoffeiriad
A fu farw ar y pren;
Cyfaill yw yn afon angeu
Ddeil fy mhen yn uwch na'r dòn,
Golwg arno wna i mi ganu
Yn yr afon ddofn hon."

"Y GWAS FFYDDLAWN."

Pan yr ydym fel hyn wedi colli cyfaill ffyddlawn, tueddir ni i feddwl am y ganmoliaeth a roddir i'r gwas ffyddlawn gan ei Arglwydd: "Buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd." Nodweddiadau y gwas ffyddlawn ydynt,

1. Meddwl uchel am ei Arglwydd; am ei awdurdod, a'i ddoethineb, a'i degwch, a'i gyfoeth, a'i ffyddlondeb.

2. Meddwl mawr am werth y talentau a ymddiriedwyd dan ei ofal. Yr oedd pum' talent o aur yn werth dros bymtheg mil ar hugain o bunnau: ond nid ellir prisio gwerth y talentau ysbrydol sydd gan bob credadyn. Y mae y gwas ffyddlawn yn ystyriol o werth y talentau sydd ganddo, sef galluoedd corff a meddwl, breintiau yr efengyl, amserau hyfryd i'w mwynhau a'u defnyddio, golud a chysuron y bywyd hwn, cyfleusderau i fod yn ddefnyddiol. Y mae yn cofio mai eiddo ei Feistr ydyw y talentau sydd ganddo, a'i fod yn gyfrifol iddo am danynt.

3. Y mae yn astudio y ffyrdd goreu i farchnata â'i dalentau. Da ganddo ei fod mewn marchnad mor dda, fod y bwrdd cyfnewid yn ei ymyl; a bod ganddo amser mor oleu ac mor dawel i farchnata.

4. Mae'n meddwl llawer yn fynych am ddydd y cyfrif. Y mae yn cofio fod ei Arglwydd yn fyw, ac yn sylwi arno, ac yn cadw coffadwriaeth; ac y daw yn fuan i alw ei holl weision i gyfrif, ac i roddi iddynt yn ol eu ffyddlondeb.

Yr oedd ein hen frawd ymadawedig yn meddwl ac yn son llawer am y pethau hyn. Yr oedd ganddo feddyliau uchel am ogoniant cymeriad ei Arglwydd, ac am werth ei amser a'i freintiau, ac am bwys ei gyfrifoldeb: a chafodd y fraint o fod yn ffyddlawn yn ei holl gylchoedd hyd y diwedd. Beth fydd *gwobr* y gwas ffyddlawn?

1. Tawelwch cydwybod trwy dymmor ei oruchwyliaeth. Y mae meddwl am ei Arglwydd ac am ei dymmor a'i dalentau, ac am ei anffyddlondeb a'i segurdod, ac am ddydd y cyfrif, yn ddychryn i'r gwas drwg a diog: ond y mae myfyrio ar gymeriad a gwasanaeth ei Arglwydd yn peri gorfoledd i'r gwas ffyddlawn, a bob amser yn ei gynhyrfu i fwy o lafur a diwydrwydd a ffyddlondeb.

2. Canmoliaeth ei Arglwydd. Canmoliaeth gref, gynhes, gyhoeddus o enau ei Arglwydd, a hyny yn ngwydd pawb, yn nydd y cyfrif.

3. Cael myned "i mewn i lawenydd ei Arglwydd." Dichon fod yma gyfeiriadau at y gwyliau o lawenydd fyddai arglwyddi a thywysogion yn gael ar eu dychweliad adref, wedi bod yn hir oddicartref ar genadaethau pwysig, ac mewn peryglon. Byddai eu holl weision ffyddlawn yn cael myned i mewn gyda hwy i'w gwleddoedd o lawenydd a bri. Trefnwyd llawenydd annhraethadwy o ogoneddus i'r Iesu ar ei fynediad adref o'n byd ni, wedi cyflawni ei weinidogaeth, a buddugoliaethu ar ei elynion,

ac agorwyd drwy ei Iawn ffordd iachawdwriaeth: a chaiff ei holl ganlynwyr ffyddlawn fyned i'r man lle mae, i eistedd wrth ei fwrdd, i fyw yn ei balas, i weled ei ogoniant, ac i gyfranogi o'i lawenydd.

4. Caiff ei "osod ar lawer." Bydd y gwas ffyddlawn i arglwyddi daear yn cael ei godi y rhan amlaf o un swydd i swydd uwch, o un cylch i gylch eangach. Bydd gan yr Iesu swyddau uchel, a chylchoedd anrhydeddus iawn i'w weision ffyddlon yn y nefoedd; a chaiff pob un ei ran a'i radd, a'i swydd a'i le, yn ol ei ffyddlondeb yn ei oruchwyliaeth ar y ddaear. Yr ydym yn credu fod llaweroedd o'n hen gyfeillion ni yma, fuont yn ffyddlawn ar ychydig, wedi cael eu gosod ar lawer, eu bod wedi cael eu codi i swyddau uchel yn nheyrnas nef.

Y mae talentau o'r eiddo ein Harglwydd dan ein gofal ninnau, gwyr ef am danynt oll. Y mae genym dymmor hyfryd i'w defnyddio. Dichon ein bod ni wedi cuddio ac wedi anghofio llawer o honynt: ond gofynir am danynt oll. Y maent ar lyfrau'r nef. Y mae dydd y cyfrif yn sier o ddyfod, a dichon ei fod yn ymyl. Daw y gwas anffyddlon i warth ac i gosb. Ysgubir ymaith ei gau-esgusodion, dygir ei dalent oddiarno, cauir ef allan o'r llawenydd, a bwrir ef i'r tywyllwch eithaf, lle y bydd wylofain a rhincian dannedd. Ymdrechwn, gan hyny, am gael ein cyfrif yn deilwng i fyned i mewn i lawenydd ein Harglwydd.

CAN SIMEON.[1]

Yr oedd cân Simeon yn y deml, ychydig amser cyn ei farw, yn un dlws ac effeithiol. Bernir fod Simeon yn un o brif aelodau y Senedd Iuddewig. Yr oedd yn wr o urddas fel gwladwr, ond yr oedd iddo urddas uwch fel crefyddwr. Yr oedd yn wr cyfiawn a duwiol, yn dysgwyl am ddyddanwch yr Israel, a'r Ysbryd Glan oedd arno; ac yr oedd wedi ei hysbysu gan yr Ysbryd Glan, na welai efe angeu, cyn iddo weled Crist yr Arglwydd. Ac efe a ddaeth drwy yr ysbryd i'r deml; a phan ddug ei rieni y dyn bach Iesu i wneuthur drosto, yn ol defod y gyfraith, yna efe a'i cymerodd ef yn ei freichiau, ac a fendithiodd Dduw, ac a ddywedodd—"Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy was mewn tangnefedd, yn ol dy air; canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth." Buasai yn ddarn o nefoedd i unrhyw brofiad i weled yr hen wr duwiol, tirion, boneddigaidd, urddasol, dan goron ei ben gwyn, a'r baban Iesu yn ei freichiau. Yr oedd gorfoledd lon'd ei galon, a llon'd ei wedd, a llon'd ei lais. Yr oedd ganddo yn ei gân—

1. *Enw* cymhwys iawn arno ei hun:—"Dy was." Yr oedd wedi bod yn ymdrechgar i ddeall ewyllys ei Arglwydd, ac yn awyddus i'w chyflawni. Yr oedd wedi ymgysegru i'w wasanaeth yn llawen, yn gywir, ac yn gyhoeddus. Yr oedd wedi glynu yn ddiymmod yn ei waith; wedi preswylio yn ei dŷ, ac eistedd wrth ei fwrdd, a gwledda ar arlwyadau ei drugaredd; ac yr oedd yn hyderus y cai ei gynnal ganddo hyd y diwedd, a'i arddel a'i wobrwyo fel ei was yn nydd y cyfrif. A bydd Duw yn sier o arddel ac o wobrwyo pob un o ysbryd ac o gymeriad Simeon yn y dydd mawr y tala i bawb yn ol eu gweithredoedd.

2. Yr oedd ganddo yn ei gân ddarluniad hyfryd iawn o angeu:—"Gollwng mewn tangnefedd yn ol dy air." "*Gollwng*," fel y mae y milwr yn cael ei ollwng o'r filwriaeth, ar ol iddo sefyll ei dir yn flyddlawn, a gorphen dyddiau ei filwriaeth. "*Gollwng*," fel y mae y morwr yn cael ei ollwng yn rhydd o'i ofalon a'i beryglon, ar ol iddo dòri drwy y tymhestloedd, a chyrhaedd y porthladd. "*Gollwng*," fel y mae y pererin yn cael gollwng ei faich i lawr, ac yn cael ymollwng i orphwys ar ol cyrhaedd pen ei daith. Fel y mae y llafurwr ar ol dyoddef pwys a gwres y dydd yn cael gollwng ei arfau o'i law yn mwedd oriau ei lafurwaith. Fel un dan yr iau yn cael ei ollwng yn rhydd ar ol tynu ei gŵys i'r pen. Ac nid gollwng mewn gwg, a helbul, a therfysg ydyw, ond gollwng "*mewn tangnefedd.*" Er nad yw angeu ynddo ei hun, sef yr ymadael â hŷn gyfeillion, yr ymadael â'r eglwys a'i breintiau, yr ymadael â'r byd, ei olygfeydd, a'i gysuron, yr ysgaru rhwng corff ac enaid, ddim yn hyfryd i'r teimlad; etto yr oedd Simeon yn gallu galw marwolaeth y credadyn yn ollwng "mewn tangnefedd." Y mae hadau tangnefedd tragwyddol wedi gwreiddio yn ei fynwes; y mae ei feiau wedi eu maddeu, a'r gelltarn wedi ei symud, a thangnefedd Duw yn ei gydwybod; ac y mae yn myned i wlad o fythol dangnefedd, at blant tangnefedd, at orsedd ac i gymdeithas Tywysog tangnefedd. Ac y mae yn cael ei ollwng felly, nid o ddanwain, nid trwy ddygwyddiad, ond yn ol trefn Duw, ac "yn ol ei air." Nid dianc y mae, ond cael ei "ollwng." Nid taflu ei eines yn ol y mae, ond ei chadw fel arwydd o gyfammod i fod yn flyddlawn i'w Arglwydd, ac o'i hawl i'r wobr. Nid tòri yr iau y mae, ond cael ei dattod, er iddo gael gorphwys. Y mae yn cael ei ollwng gan ei Arglwydd yn ei drefn ac yn ei amser ef, ac "yn ol ei air ef." Nid yw yr Arglwydd ddim yn rhoddi ei "*air*" yn fanwl i'w wasanaethwyr pa *bryd*, nac yn mha *le*, nac yn mha *ddull* y bydd yn eu gollwng; ond y mae wedi rhoddi ei air y bydd iddo eu gollwng, mai iddo ef y perthyn yr awdurdod i

hyny; mai efe sydd yn cadw'r agoriadau; y gofala am yr amser, y cânt eu gollwng yn ol ei drefn ef; ac y bydd ef gyda hwy ar y pryd i'w harwain ar hyd y glyn, i gynnal eu pen uwch tònau llif yr afon, i'w derbyn i'r orphwysfa, ac i'w gwobrwyo â gwynfyd anfarwol.

3. Cawn yn ei gân yr achos ei fod yn medru canu mor dawel am farw; "Canys fy llygaid a welsant dy iachawdwriaeth." Yr oedd wedi bod yn manwl chwilio am yr iachawdwriaeth, ac wedi adnabod ei hegwyddorion mawrion er's blynyddau. Yr oedd wedi cael *gweled* Awdwr iachawdwriaeth yn natur dyn; ac yr oedd yn teimlo effeithiau yr iachawdwriaeth yn santeiddio ac yn dedwyddu ei galon; ac yr oedd tystiolaeth yn ei fynwes y gwnai yr iachawdwriaeth trwy Iesu Grist y tro i fyd euog.

Os ydym ninnau am gael mwynhau dedwyddwch profiad Simeon pan y delom i farw, rhaid i ni fanwl chwilio am yr iachawdwriaeth, ac ymdrechu deall ei hegwyddorion fel y maent yn cael eu hegluro yn yr efengyl, a dilyn ei herdinhadau er cael mwynhad o'i dyddanwch; a gwneud ein goreu i ledaenu ei chysuron yn mysg ein cyd-ddynion, fel yr unig ymgeledd rhad, llawn, effeithiol, a thragwyddol ar gyfer eu cyflwr fel pechaduriaid.

Cafodd y chwaer oedranus—y fam garuaidd yn Israel, ag yr ydym yn awr o gylch ei helor, ei "gollwng mewn tangnefedd." Ychydig oriau cyn marw yr oedd yn cyfeirio at freintiau ac at brofiad dedwydd Anna wrth ymprydio, a gweddio, a moliannu yn y deml; gan arwyddo ei bod hithau yn awr fel Simeon ac Anna yn foddlon i gael ei gollwng, am fod Crist y Ceidwad ganddi yn mreichiau ei ffydd a'i chariad. Peth hyfryd iawn ydyw gweled hen bererinion felly, ar ol eu dydd o ddiwydrwydd ac o ddefnyddioldeb, yn cael eu gollwng mewn tangnefedd.

Yr ydym yn ddiweddar yma, ac yn Carno, ac yn Beulah, wedi colli brodyr a chwiorydd ag oeddynt yn rhai anwyl a dirodres, a defnyddiol yn eu gwahanol gylchoedd. Pan y mae angeu yn bylchu rhyw gangen o fyddin yr Iesu, dylem wneud ein goreu i fagu craill i lenwi yr adwyau mewn dull teilwng, gan eu cymhell i ddyfod yn mlaen heb oedi. Gall fod awr y "gollwng" yn agos i rai o honom ni sydd yma yn awr yn cofio am ollyngiad ein cyfeillion. Gwyliwn a gweddiwn am i angeu ein cael yn effro, wrth ein gwaith, yn hiraethu am ddyddanwch Israel, a'n calon yn llawn o'r iachawdwriaeth. Nid cael ei "ollwng mewn tangnefedd," ond cael ei "yru ymaith" mewn dychryn y mae yr annuwiol pan y bydd yn marw. Yr unig ffordd i ochel y fath ddiweddd ofnadwy ydyw plygu at draed yr Iesu, a glynu wrth ei groes, ac aros yn ei dŷ, a gorfoleddu yn ei iachawdwriaeth.

RHAGOR RHWNG Y CYFIAWN A'R DRYGIONUS.

Y MAE lle i ofni fod llawer yn awr, fel yn nyddiau Malachi, yn meddwl nad oes dim rhagor rhwng y cyfiawn a'r drygionus, rhwng yr hwn a wasanaetho Dduw a'r hwn nis gwasanaetho ef. Yr ydym yn addef nad yw y cyfiawn ddim yn rhagori o ran cyfansoddiad ei gorff: y mae yr annuwiol mor lluniaidd ac mor wridog, mor dalgryf ac mor heinyf ag ydyw y duwiol. Nid yw yn rhagori o ran galluoedd naturiol y meddwl: y mae yr annuwiol yn fynych mor dreiddiol ei ddychymyg, mor gyflym ei ddeall, ac mor eang ei amgyffredion ag ydyw y duwiol. Nid yw ddim yn rhagori o ran ei ddoniau cymdeithasol: y mae yr annuwiol mor fwyn ei lais, mor lon ei lygad, mor ffraeth ei dafod, mor gref ei awen, mor gynhes ei gân, mor gywrain ei law ag ydyw y duwiol. Nid yw ddim yn rhagori o ran ei amgylchiadau bydol: y mae yr annuwiol yn medru casglu iddo olud, a threfnu iddo gartref, a hulio iddo fwrdd, dichon, yn llawn cystal a'r duwiol. Nid oes dim rhagor rhyngddynt yn y pedwar peth a enwyd. A dichon nad yw y duwiol ddim yn rhagori cymaint o ran rhinweddau ei ymarweddiad, neu ei gymeriad moesol, ag y gellid dysgwyl. Y mae cryn lawer o hawddgarwch weithiau yn nodweddu cymeriad cymdeithasol yr anghredadyn, tra y mae llawer o wendidau yn perthynu i'r credadyn; y mae llawer o rasau yn harddu bywyd yr annuwiol, a llawer o golliadau yn nychu bywyd y duwiol. Ond, er y cyfan, y mae rhagoriaeth rhyngddynt; a daw y rhagor hyny yn fwy i'r golwg yn yr amser a ddaw.

Y mae rhagor *yn awr* yn eu hegwyddorion, eu barnau, a'u teimladau. Y mae calon un heb ddim teimlad o lygredd ac euogrwydd, y mae y llall yn teimlo ei fod yn halogedig ac yn euog. Y mae un yn ymddiried am ei gadwedigaeth i'w hunangyfiawnder, y mae y llall yn ystyried ei gyfiawniadau goreu yn hollol ddiwerth iddo bwyso arnynt. Y mae un yn dibrisio Iawn y groes, ac felly yn gwneud trefn gras yn ofer; y mae y llall yn pwyso ar yr Iawn fel ei unig obaith am ei fywyd. Y mae un yn ceisio sugno ei holl hyfrydwch o'r byd a'i bethau; y mae y llall yn cael ei brif gysuron o addewidion ac ordinhadau crefydd. Y mae un yn meddwl y dylid ei gadw a'i godi ef, er i'r llywodraeth fod dan warth; prif ymffrost a gorfoledd y llall ydyw fod y gyfraith yn cael ei mawrhau, pan y mae yr euog, ar sail yr Iawn, yn cael maddeuant a chyfiawnhad. Felly y mae rhagor hanfodol rhwng profiad a chyflwr y naill a phrofiad a chyflwr y llall yn yr amser presenol hwn.

Ond bydd rhagor mwy rhyngddynt wrth farw. Byddai yn hyfryd pe gallai y credadyn ddweyd yn fwy cryf a diloesgni, "Nid ofnaf niwaid, canys yr wyt ti gyda mi." "Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw." "Mi a wn i bwy y credais." "Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw." "O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi." "Y mae yn ddiogel genyf nad all nac angeu nac einioes fy ysgaru oddiwrth gariad Duw." "O angeu, pa le mae dy golyn?" Ond er fod llawer credadyn gwan yn methu cyrhaedd profiad rhai o enwogion y Beibl; etto y mae yn teimlo yn ddiolchgar ei fod wedi gweled gradd o ogoniant yr Iesu, ac o werth ei aberth; ei fod wedi cael y fraint o'i arddel, a bod dan ei fawr, ac yn ei dŷ, ac wrth ei fwrdd, a chyda'i waith; ac y mae yn gwybod ei fod yn abl i'w gwbl iachâu, ac y mae yn gobeithio ynddo wrth farw; ac y mae am ei ganmol a'i anadl olaf; ac nid oes ganddo ddim i bwyso arno ond ei gyfryngdod ef: a saif yr Archoffeiriad mawr o'i du. Daw yr Ysbryd Glan i'w ddyddanu. Daw angylion i wylio ei wely, ac i ddwyn ei enaid i fynwes teulu y nef. Y mae yn sefyll ar dir y cyfammod, y mae y Llywydd oddiar ei orsedd yn gwenu arno, y mae ei fywyd yn ddiogel, ac y mae hadau didranc wynfyd yn ei enaid. Ond y mae yr annuwiol wrth farw naill ai yn anystyriol, a dideimlad, a rhyfygus, neu yn ymwylitio mewn dychryn ac anobaith, neu yn gafaelyd mewn gobaith a dry yn dwyll ac yn siomedigaeth iddo. Y mae heb Arweinydd yn y glyn, heb Archoffeiriad i ddal ei ben yn yr afon, ac yn cael ei adael ei hunan yn y tònau ac yn y tywyllwch; a gwylliaid uffern a fyddant drech nag ef, ac a'i gyrant i lawr i ddyfnderoedd colledigaeth.

Bydd rhagor mwy eilwaith rhyngddynt yn yr adgyfodiad ac yn y farn. Bydd un yn codi ei ben dan wenu; bydd wyneb y llall gan fraw yn casglu parddu. Bydd un yn gallu sefyll yn ddigryn; bydd rhwymau lwynau y llall yn dattod, a'i liniau yn curo y naill yn y llall. Bydd un mewn gorfoledd yn gallu dywedyd, Dacw'r Gwr y gobeithiais ynddo; bydd y llall yn ei ddychryn yn gwaeddi, Greigiau, syrthiwch arnaf, fynyddoedd, cuddiwch fi o wydd yr Hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd-ddfainc, ac oddiwrth lid yr Oen. Bydd un yn cael ei godi i'r orsedd ar ddeheulaw y Barnwr, i'w wahodd i feddiannu y deyrnas; bydd y llall yn cael ei osod ar yr aswy, i glywed ei gollfarn, ac i gael ei yru ymaith gyda'r diafol a'i angylion, i'r tywyllwch eithaf, lle y bydd wylofain a rhincian dannedd.

Bydd rhagor tragwyddol rhyngddynt yn y byd diddarfod. Bydd y duwiol wedi goddiweddyd llawenydd a hyfrydwch, a chystudd a galar wedi ffoi ymaith. Bydd ar ddeheulaw ei Dduw.

lle y ceir digrifwch yn oes oesoedd. Bydd yn nhŷ ei Dad gyda chymdeithion pur cariadlawn, yn nghanol pob llawnder a gorfoledd. Bydd yr annuwiol mewn bythol wae, gyda chelledigion, lle na bydd dim goleuni na chariad, a lle y bydd pob enaid colledig.

Yr oedd dau beth yn aros ar feddwl ein cyfaill ymadawedig drwy wythnosau ei gystudd. Un peth oedd, y buasai yn dda ganddo pe buasai cretyddwyr yn llafurio mwy i ragori ar y rhai digrefydd; pe buasent yn gallu llefaru yn fwy clir am eu hawl yn Nghrist, ac yn cael profi yn eu calonau fwy o orfoledd duwioldeb, ac yn egluro yn eu bywyd fwy o'i grym ac o'i ddyddanwch. Yr oedd yn diolch yn ostyngedig am yr hyder oedd ganddo, ond arwyddodd y buasai yn gallu rhodio ar hyd y glyn yn fwy hyderus, ac yn fwy gorfoleddus, pe buasai wedi bod yn fwy gwresog ac yn fwy gweithgar dros yr Iesu; ac yr ydoedd yn awyddus am i brofleswyr crefydd ymegnïo i ddangos mwy o ragoriaeth.

Y peth arall ar ei feddwl oedd—Fod yn dda ganddo fod dydd barn i fod, i ddystewi gwawd a gogan gelynion crefydd, y rhai ydynt o hyd yn dirmygu ac yn poeni y credadyn gwan, ac yn troi y cloff allan o'r ffordd, ac yn dianrhydeddu achos yr Iesu, ac yn codi tramgwyddiadau ar ffordd ei llwyddiant, trwy ddadleu yn hyf, ac ymffrostio yn barhaus nad oes dim rhagor rhwng y cyfiawn a'r drygionus, nad oes dim llesiant o wasanaethu yr Arglwydd; ac na bydd dim elw i'r hwn a'i gwasanaetho ef; nad oes dim hyfrydwch yn ei wasanaeth, ac na bydd dim gwobr i'r ffyddloniaid. Yr oedd yn llawenhau wrth feddwl am yr amser y daw Crist gyda'r cymylau, yn ei awdurdod a'i ogoniant, i gyfiawnhau ordinhadau ei deyrnas, ac amddiffyn egwyddorion ei wasanaeth. Pan y daw o'r nef gyda'i angylion nerthol, i dalu cystudd i'r rhai sydd yn cystuddio ei saint, ac i'w ogoneddu ynddynt, ac i roddi esmwythdra iddynt, ac i'w codi o gyrhaedd eu herlidwyr, yn rhydd oddiwrth bob gwendidau, heb arnynt na brycheuyn na chrychni, na dim o'r cyfryw; ac i'w dangos yn gyhoeddus i luoedd nefoedd, daear, ac uffern. Fel y caffo holl ddeiliaid ei lywodraeth weled rhagor rhwng y cyfiawn a'r drygionus, rhwng yr hwn a wasanaetho Dduw a'r hwn nis gwasanaetho ef.

HUNO YN YR IESU.

Darlunir marwolaeth weithiau fel syrthiad pren, neu wywiad blodeuyn, neu ddiflaniad cwmwl, neu ddifloddiad canwyll; weith-

iau fel rhyfel â gelyn ag y bydd raid ei wynebu; weithiau fel rhodio glyn tywyll, neu groesi afon ddofn, neu daro traed wrth y mynyddoedd tywyll, neu daith ddyeithr i wlad anadnabyddus, neu rodio llwybr ar hyd yr hwn ni ddychwelir; ac weithiau fel codiad ysgubol lîel i ddiddosrwydd o gyrhaedd tymhestloedd y gauaf, neu ddygiad y plentyn adref i'w etifeddiaeth o'i ysgol, ar ol iddo ddyfod i'w oed; ac y mae rhyw addysg werthfawr yn mhob darluniad. Ond pan y dywed Paul—"Os ydym yn credu farw yr Iesu a'i adgyfodi, felly y rhai a hunasant yn yr Iesu a ddwg Duw hefyd gydag ef;" y mae yn darlunio marwolaeth y saint fel *hûn* esmwyth ar ol tymmor o lafur, a blinder, a phoen; oblegid pan y mae y lluddedig llesg yn cael huno, y mae yn cael gorphwys oddiwrth ei lafur mewn esmwythyd a thawelwch. Nid yw yn teimlo oddiwrth wres y dydd, na phwys ei waith; ac y mae mewn dystawrwydd alian o gyrhaedd trwst a swn pob terfysg a chynhwrf. Ar ol diluddedu ac ymadfywio ac adnewyddu ei nerth, y mae i ddeffro i fwynhau goleuni a chysur dydd newydd.

Felly y mae y credadyn, pan yn marw, yn cael myned i orphwys a huno mewn tawelwch i wely y bedd, lle na ddaw dim i'w aflonyddu na'i gyffroi, na dyrysu ei hûn; a lle y bydd wedi hollol ddiluddedu oddiwrth ofidiau a gofalon amser, pan y chwythir udgorn Duw i'w ddihuno, ac i'w alw i godi i fwynhau goleuni a gorfoledd dydd tragwyddol.

Cyhoedda Paul hefyd fod y saint yn huno "*yn yr Iesu.*" Huno â phwys eu pen ar fynwes yr Iesu; huno yn mreichiau tragwyddol ei gadernid a'i gariad; huno gan bwyso ar gyfammod ei drugaredd; huno dan nawdd ei groes, yn ei gyfiawnder a'i iachawdwriaeth; huno gan gymeradwyo ei drefn, a derbyn ei gynnygion, a chredu ei dystiolaethau, a chofleidio ei addewidion, ac ymddiried yn ei aberth; huno yn ei dŷ, mewn cyfammod a chymdeithas â'i hobl; huno dan ei faner, yn arfau ei filwriaeth, a chyda'i fyddin; huno gan ymdrechu o blaid ei achos a'i deyrnas.

Ac nid rhyfedd fod Paul yn gorfoleddu wrth fyfyrio ar *fraint* y cyfryw: "Y rhai a hunasant yn yr Iesu a ddwg Duw hefyd gydag ef." Cânt eu dwyn gyda'r Iesu yn osgordd hardd ddydd ei goroniad; yn ei wisgoedd gwynion ef, dan goronau cyfoeth ei ras ef, yn ngherbydau eurog ei ogoniant ef, i gael eu codi i'w orseddfeinciau ef, i'w harddangos ar ei ddeheulaw. Y mae anhraethol gysur yn ei ymadrodd, "A ddwg Duw hefyd gydag ef." Cânt eu dihuno o gwsg marwoldeb, a'u codi o wely y bedd, a'u dwyn i fyny i wlad anfarwoldeb: cânt eu dwyn gan "*Dduw*" yn ol trefn ei ddoethineb, a thrwy awdurdod ei orsedd ef: cânt

oll eu dwyn, heb ewin ar ol; a'u dwyn oll gyda'u gilydd, yn un dorf fawr fuddugol; a chânt eu dwyn "*gydag ef*," Tywysog eu hiachawdwriaeth, i lys ei orphwysfa a'i ogoniant.

Ac y mae pob *sicrwydd* o hyny. Y mae Duw *wedi* adgyfodi yr Iesu, eu Brawd hynaf, a'i ddyrchafu i ddeheulaw ei ogoniant; y mae wedi cymeryd eu heneidiau ato i baradwys, ac wedi cymeryd *cyrff* rhai o honynt: ac y mae y Duw digyfnewid, hollalluog, a digelwyddog, wedi rhoddi ei air a'i lw y bydd iddo eu dwyn oll yn y diwedd gyda'r Iesu i'w lawenydd.

Yr oedd ein cyfeillion ydynt yn ddiweddar wedi huno yn yr Iesu yn teimlo yn ddedwydd wrth feddwl am "*noswylio*," a myned i orphwys. Y mae lle i ofni fod yma rai yn anmharod i "noswylio," am fod gwaith mawr eu dydd heb ei ddechreu. Trwm iawn ydyw meddwl am y digreifydd yn huno a holl bechod au ei oes yn gorwedd gydag ef yn y pridd: a bydd yn drymach meddwl am dano yn deffro o'i gwsg mewn gwylltineb i warth a dirmyg tragwyddol. Buasai yn well ganddo gael cysgu byth dan greigiau trymaf y greadigaeth, na gorfod codi i gael ei yru o wydd ei Farnwr i dân yr ail farwolaeth. Ymroddwn i *fyw* i'r Iesu, ac yna cawn *huno* yn yr Iesu; a chawn ein dihuno ar ei ddelw, a'n dwyn gydag ef i'w lawenydd a'i ogoniant.

DIM GWAITH YN Y BEDD.

Dywedai y Pregethwr gynt wrth goffa am y bedd, "Beth bynag a ymafael dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni: canys nid oes na gwaith, na dychymyg, na gwybodaeth, na doethineb, yn y bedd lle yr wyt ti yn myned." Y mae ei eiriau yn deilwng o'n hystyriaeth ar achlysur fel hwn. Arwyddant yn

1. Fod *pob* dyn yn tynu tua'r bedd—"lle yr wyt *ti* yn myned"—tydi yr hen, a thithau yr ieuanc; tydi y cyfoethog, a thithau y tlawd; tydi y dysgedig, a thithau yr annysgedig; tydi, beth bynag yw dy swydd a dy sefyllfa, dy iaith, dy wlad, dy genedl, neu dy gyflwr; yr wyt ti yn myned tua'r bedd.

2. Nid oes dim gwaith yn y bedd, dim gofal am drin y byd, na dim gofal am ddyledswyddau crefydd: lle nad oes dim gweithio dros Grist, na dim milwrio yn ei erbyn: lle nad oes dim o lafur y maes, nac o ofalon y fasnach, nac o gyflawniadau y cysegr: lle nad oes dim "dychymyg" i ddifyru y meddwl, na "gwybodaeth" am y byd a'i helyntion, na "doethineb" i drin ei achosion ac i lenwi ei alwedigaethau: lle bydd y llygad wedi cau, a'r glust yn fyddar, a'r tafod yn fud, a'r traed, a'r dwylaw

a'r galon wedi llonyddu; a lle y bydd y corff i orphwys nes y clywir bloedd angel yr adgyfodiad.

3. Fod gan ddyn waith pwysfawr i'w wneuthur cyn myned i'r bedd. Dylai ei "law ymaflyd" yn nyledswyddau y bywyd *hwn* er ei gynnaliaeth ei hun a'i deulu; a dylai ei law a'i galon yn mlaenaf ac yn benaf dim ymaflyd yn nyledswyddau crefydd—y grefydd bersonol, y grefydd deuluaidd, a'r grefydd gymdeithasol; er lles ei gymydogion, er adeiladaeth yr eglwys, ac er dwyn y byd dan ddylanwad Cristionogaeth.

4. Fod y gwaith yr ymaflir ynddo i gael ei wneud "â'r holl egni." Y mae hyny yn tybied ein bod i ddechreu arno yn ddioedi. Nid oes yr un oedwr yn ymegnïo. Y mae yr oedi yn lladd yr awch at bob egniad, heblaw camdreulio y rhan oreu o'r tymmor. Y mae yr hwn sydd yn gweithio â'i holl egni yn defnyddio pob adeg; yn astudio y cyfleusderau goreu at bob gorchwyl y bydd yn ymaflyd ynddo; ac y mae yn cysegru galluoedd goreu ei gorff a'i feddwl at y gwaith; ei ddeall, ei fyfyrdod, a'i serch; y tafod a'r llais, y traed a'r dwylaw. Y mae pob dyn yn rhoddi ei oriau goreu, a'i alluoedd goreu, at yr hyn fydd yn wneuthur â'i "holl egni."

5. Ei bod yn briodol iawn i ddyn ymáflyd â'i "holl egni" yn nyledswyddau bywyd, yn enwedig y dyledswyddau perthynol i'r enaid a byd arall; am fod y tymmor gweithio yn fyr ac yn ansier; am fod y gwaith yn bwysig anmirnadwy; am y bydd yn ofnadwy os syrthir i'r bedd a'r gwaith heb ei ddechreu; am mai y rhai mwyaf egnïol sydd yn cael mwyaf o gysur yn eu gwaith; am fod gwaith y nefoedd yn talu yn dda yn y byd hwn; ac am mai y rhai mwyaf egnïol gánt y wobr fwyaf yn niwedd y llafur; tra y bydd yr esgeulus mewn cyfyngder ac enogrwydd a dychryn yn angau, ac yn fud yn y farn, ac yn dlawd ac yn annedwydd am byth.

Pan feddylír ain y pethau hyn y mae yn alarus fod llawer o brofíeswyr crefydd mor ddiofal a diegni. Y mae yn drymach na hyny fod rhai yn cloffi ac yn segura ymaith eu tymmor heb wneud dim gyda golwg ar iachawdwriaeth eu heneidiau. Ac y mae yn drymach byth i feddwl fod rhai yn llafurio â'u "holl egni" i andwyo eu heneidiau. Gafaeled ein llaw, gan hyny, ar unwaith yn nyledswyddau crefydd i'w cyflawni â'n "holl egni," gan ned oes na gwaith, na dychymyg, na gwybodaeth, na doethineb yn y bedd lle yr ydym ni yn myned.

Y mae galwadau uchel arnom yn y dyddiau presenol i afaelyd yn ein gwaith i'w wneud â'n holl egni. Y mae peiriant bywyd yn hawdd ei ddryllio, y mae llinynau ac olwynion ei nerth yn

frau iawn. Y mae heintiau yn tramwyo o'n hamgylch, a llaweroedd yn meirw. Y mae rhai o'n cymydogion wedi meirw yn sydyn; ac y mae amryw yn awr mewn cystudd. Nid oes neb yn tristâu ar wely cystudd, nac yn cwyno wrth farw eu bod wedi ymegnïo gormod gyda dyledswyddau pwysig crefydd. Pa bryd y gwelwyd perthynasau yn gofidio am fod eu cyfeillion ymadawedig wedi byw yn rhy grefyddol, ac yn cwyno eu bod wedi rhoddi gormod o ofal ac o egni wrth ymarfer eu hunain i dduwioldeb? Y mae rhyw lais o bob man yn ein cymhell i weithio â'n holl egni, am y gall fod y bedd yn ein hymyl, ac nad oes dim gwaith yn y bedd.

"CYFRIF EIN DYDDIAU."

Dichon nad oes yr un adnod yn fwy mynych ar ein gwefusau nag adnod gweddi Moses pan yn darlunio breuolder oes dyn: "Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calon i ddoethineb." Hawdd genym gydnabod pedwar o bethau am ein dyddiau. Eu bod yn ychydig; eu bod yn ddiwg, sef yn llawn o lygredd a helbul, ac felly yn ddyddiau tywyll, tymhestlog; eu bod yn myned heibio yn gyflym; ac nad ellir byth eu galw yn ol.

Yr oedd Moses yn daer am gael ei ddysgu i "gyfrif ei ddyddiau." Pe byddai i ryw un yma ofyn pa fodd y mae iddo ddysgu cyfrif ei ddyddiau, gellid egluro iddo, mai trwy gofio ei hanes ei hun, trwy gyfrif dyddiau rhai eraill, trwy wrando ar bregeth anian am gyflymder ein hamser, a thrwy ystyried darluniadau profiad a doethineb am rifedi ein dyddiau.

Byddai yn fuddiol i ni yn gyntaf oll alw i gof ein hanes ein hunain, blwyddyn a mis a dydd ein genedigaeth, a chyfrif pa sawl blwyddyn, a mis, a dydd, a Sabbath a gawsom er hyny. Byddai yn fuddiol i ni hefyd gyfrif dyddiau ein cyd-ddynion; sylwi fel y mae ein cymydogion a'n cyfoedion yn heneiddio: ac os trown i'r mynwentydd, a chraffu ar y ffigyrau gerfiwyd ar y beddfeini, cawn fod llaweroedd o rai ieuangach na ni yn huno mewn dystawrwydd. Ac os edrychwn i hanes-lyfrau, cawn fod yr enwogion a wnaethant fwyaf o argraff ar y byd ac ar yr eglwys wedi terfynu eu gyrfa ar ol "ychydig" o ddyddiau: a gall cofio nifer dyddiau rhai eraill fod yn gymhorth i ninnau gyfrif ein dyddiau ein hunain.

Dylem hefyd wrando ar bregeth effeithiol pethau natur er ein dysgu i gyfrif ein dyddiau. Y mae yr *haul* wrth godi yn y boreu, a dyfod allan o'i ystafell yn y dwyrain, ac wrth fachludo yn yr hwyr a myned i'w wely yn y gorllewin, yn pregethu i ni fod ein

dyddiau o hyd yn myned heibio. Y mae y *lloer* bob tro y dengys ei hamrant fach, neu ei hwyneb llawn, yn cyhoeddi i ni fod ein misoedd yn myned heibio. Y mae cysgod y *deial* wrth symud o radd i radd yn arwyddo i ni fod ein horiau yn myned heibio. Y mae y *cloc* wrth dipian bob moment, ac wrth daro bob awr, yn dysgu i ni fod ein horiau a'n momentau yn myned heibio. Y mae yr adar a'r anifeiliaid yn adwaen eu tymmorau, ac yn eu cadw. Y mae y coed a'r llysiau hefyd yn adwaen ac yn cadw eu tymmorau. Ni bydd y durtur byth yn anghofio Mai, ac yn dechreu canu yn Rhagfyr. Ni bydd yr ardd, na'r maes, na'r goedwig, byth yn anghofio Ebrill, ac yn dechreu blaendarddu, a deilio, a blodeuo yn Tachwedd. Y mae y tymmorau bob amser yn cofio eu cyfammod, ac yn cadw eu cylch a'u lle. Daw'r gauaf yn ei dro, a chilia. Dilynir ef gan y gwanwyn, a chilia yntau, i roddi ei le i'r haf tesog; a phan gilia yr haf, daw y gauaf prudd yn ei fantell oer, ac wedi aros ei dymmor, â yntau heibio. Y mae y pethau hyn oll yn dysgu i ni fod ein dyddiau a'n blynyddoedd yn myned heibio; a byddai gwrando ar eu pregeth yn gymhorth i ni gyfrif ein dyddiau.

Dylem hefyd ystyried er ein haddysg y gwahanol ddarluniadau sydd genym o'n dyddiau, darluniadau ysbrydoliaeth, darluniadau awen y beirdd a'r doethion gynt, darluniadau profiad yr hen bererinion. Y mae pobl oreu y byd, yn eu horiau goreu, wedi gadael i ni ryw dystiolaethau am werth eu dyddiau er ein dysgu ni i gyfrif ein dyddiau. Darluniai un ei ddyddiau fel cysgod yn cilio—un arall, fel gwenol gwehydd—arall, fel llongau buain—arall, fel saeth oddiar y llinyn—arall, fel canwyll yn treulio—arall, fel llinyn brau yn byrhau wrth gael ei ddirwyn i fyny—arall, fel câu, neu chwedl, neu hûn—arall, fel y tywod mân yn llifo i lawr yn yr awr-wydr, neu y gwydr-mynyd—arall, fel y llif—arall, megys cam, dim ond un cam nes cyrhaeld y pen—arall, fel dyrnfedd, neu led llaw—arall, fel gyrfa fer—arall, megys tarth— ac arall, megys "diddym." Byddai ystyried darluniadau profiad a doethineb, a gwrando ar bregeth anian, a chyfrif dyddiau ein cyd-ddynion, a chofio ein hanes ein hunain, yn gymhorth i ni wybod mesur a chyfrif ein dyddiau, a gwybod am ein hoedran ac am ein diwedd.

Pe gofynid etto pa les ydyw i ni gyfrif ein dyddiau, pa gymhelliadau sydd i hyny, a pha bwys ydyw hyny? gellid ateb, fod Duw yn ewyllysio ac yn gorchymyn hyny. Efe ydyw perchen ein dyddiau, y mae yn rhoddi eu benthyg i ni, ac y mae yn cadw cyfrif o'r oll mae'n roddi. Y mae ganddo lyfr coffadwriaeth, a bydd raid i ni gyfarfod cyfrif ei lyfr ef o flaen gorsedd y farn

fawr. Y mae y rhan fwyaf o'r dynion fu'n enwog yn eu hoes wedi bod yn enwog am gyfrif eu dyddiau; am wybod mesur eu hamser, er gwybod o ba oedran yr oeddynt; y brenhinoedd a'r llywiawdwyr eangaf eu defnyddioldeb, y dysgedigion uchaf eu cymeriad, y marsiandwyr mwyaf llwyddiannus, y celfyddydwyr cywreiniaf, yr haneswyr manylaf, y cenadon ffyddlonaf, y duwinyddion dyfnaf, y gweithwyr dedwyddaf ac iachusaf; ac fel coron ar bob esiampl, yr oedd yr Iesu yn arfer cyfrif ei ddyddiau; yr oedd yn ddiwyd gyda'r pethau a berthynent i'w Dad; ac yn gweithio tra yr oedd yn ddydd, gan gofio fod y nos yn dyfod pan nad allai neb weithio.

Y mae cyfrif ein dyddiau yn waith *posibl*. Nid yw y "*sum*" ddim yn un fawr, drom, ddofn, ddyrys. Nid oes dim eisieu meddu galluoedd fel rhai cryfion cyrhaeddgar Newton a Halley, er dysgu cyfrif ein dyddiau. Y mae y rhai a gawsant leiaf o fanteision rhifyddeg wedi dysgu cyfrif eu dyddiau. Y mae hen gredinwyr na fuont erioed yn dysgu "*Numerati n Table*" yn gyfarwydd â rheolau cyfrif eu dyddiau. Y maent wedi gwneud y "*sum*" lawer tro, ac wedi ei gwneud yn gywir wrth reol y nefoedd; pan y mae llawer rhifyddwr dysgedig yn methu ei gwneud. Ofer fyddai i ni geisio gwrthddadleu fod y *sum* yn rhy ddofn i ni fedru ei dysgu.

Os goddefwn ni i'n dyddiau fyned heibio heb i ni ddysgu eu cyfrif, bydd galar trwm yn sicr o'n dal; oblegid y mae yn waith o ganlyniadau diddarfod. Y mae a fyno ein dyddiau á phethau byd arall; ac y mae tragwyddoldeb yn argraffu gwerth arnynt: a thrwm iawn fydd clywed dyn ar ol esgeuluso cyfrif ei ddyddiau yn dweyd, Darfu'r haf, aeth y cynhauaf heibio; caudreuliais fy nyddiau, collais orfoledd yr iachawdwriaeth a gogoniant y nef. A hyfryd fydd clywed y diwyd, ar ol cyfrif ei ddyddiau, yn mawrygu trugaredd, yn gorfoleddu yn ei ran, ac yn gallu dweyd yn dawel, Mi a orphenais fy ngyrfa, ac a gedwais y ffydd: a chlywed ei Farnwr yn dywedyd wrtho, Buost ffyddlawn ar ychydig, mi a'th osodaf ar lawer; dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd.

Wrth y rhai sydd yma yn *nechreu* eu dyddiau, gallwn ddweyd. Dyma'r amser goreu i chwi ddechreu dysgu eu cyfrif. Y mae y weddi, "Dysg i ni felly gyfrif ein dyddiau," yn un werthfawr iawn i bobl ieuainc. Try ei harfer yn gynnar o elw anmhraethol iddynt. Dylai y rhai sydd yma *yn nghanol* eu dyddiau edrych yn ol i adolygu beth a wnaethant, ac edrych yn mlaen, gan gofio fod yr hanner goreu o'u dyddiau wedi cilio, ac y dylent ddyblu eu diwydrwydd drwy y dyddiau a gânt etto. Y mae yma rai

mewn *hen ddyddiau*, a dichon yn ddigalon iawn wrth feddwl fod eu dyddiau goreu wedi myned heibio. Gellid adgoffa i'r cyfryw y gellir gwneud llawer o waith mewn ychydig ddyddiau. Y mae genych ddigon o ddyddiau etto yn ol i gael gafael yn yr iachawdwriaeth, digon i fod o ddefnydd helaeth dros Grist, digon i roddi llawer cynghor da i bobl ieuainc, digon a anfon llawer gweddi daer i'r nef ar ran eich ceraint, ac ar ran yr eglwys, ac ar ran y byd. Na ymollyngwch, na thòrwch eich calon; os yw dyddiau blin wedi dyfod, ni byddant ond ychydig; glynwch yn eich proffes; ymestynwch yn mlaen hyd y diwedd; a chewch sefyll yn eich rhan yn niwedd y dyddiau: ac os yw eich *dyddiau* bron oll wedi cilio, y mae *tragwyddoldeb* yn ol: tragwyddoldeb i gymdeithasu â'ch hen gyfeillion ydynt wedi blaenu, ac â holl deulu enwog y nefoedd; tragwyddoldeb i weled yr Iesu fel y mae, ac i fod yn ei gyfeillach a'i lawenydd; tragwyddoldeb i gadw Sabbath gyda'r gymanfa a'r gymmuleidfa fawr bur yn y nefoedd.

"Os rhaid i'n dyddiau ffoi,
I'n golwg byddo'u terfyn;
Yn ffyrdd doethineb treuliwn hwy,
A brysiont fwyfwy gwed'yn.

Trosglwyddant ni yn gynt,
Dros fôr ein helynt 'stormus;
Cawn dirio'n glau mewn tawel fyd
Tragwyddol fywyd hapus."

"ANGEU I ANGEU."

Clywodd Hosea gynt, pan dan ddylanwad ysbrydoliaeth, lais effeithiol Tywysog tangnefedd yn bygwth brenin dychryniadau, lais awdurdodol Tywysog y bywyd yn rhoddi hèr i dywysog marwolaeth. A hèr arddorchog ydoedd—"*Byddaf angeu i ti, O angeu; byddaf dranc i ti y bedd.* Daeth Crist i lawr o'i uchel lys i dir y gelyn i'w fygwth. Gwisgodd natur dyn, a daeth i babellu i'r byd isod hwn, lle yr oedd y gelyn wedi cael teyrnasu gyda rhwysg cyffredinol, heb fod neb yn beiddio codi arf, nac yngan gair er ei wrthwynebu. Ond daeth yr Iesu i gyfarfod y gelyn. Bygythiodd ef yn ei wyneb. Llefarodd *wrtho*, nid am dano. Hawdd gan rai hèrio eu gelynion oddidraw, a llefaru yn gas am danynt yn eu cefn, a'u bygwth yn eu habsenoldeb: ond nid felly gwnaeth yr Iesu. Daeth yn union i gyfarfod y gelyn: a dywedodd yn hyf yn ei wyneb, "Byddaf angeu i *ti*." Nid dywedodd o bell—"Mi gofiaf iddo *fo*." Ond dywedodd yn ei wyneb, "Byddaf angeu i *ti*, O angeu." A chyhoeddodd ei fygythiad yn yr iaith egluraf, rymusaf. Nid gwasgaf di, nid codymaf di, nid clwyfaf di, nid ysigaf dy sawdl di, nid tynaf dy golyn, a thòraf dy ddannedd di, nid tòraf dy gleddyf a dygaf

ymaith dy arfau di; ond "byddaf angeu i ti, O angeu;" llyncaf di mewn buddugoliaeth. "Byddaf dranc i ti y bedd;" claddaf di o'r golwg, ac o goffadwriaeth.

Yr oedd yn hyfryd ac yn gysurlawn i glywed hèr fel hon yn wyneb y fath elyn rhwysgfawr a dideimlad; oblegid yr oedd angeu o'r dechreu wedi mynu cyrff dynolryw dan ei awdurdod ac i'w feddiant: a meddiannydd dychrynadwy ydyw. Cenadon didosturi y mae yn anfon o'i flaen i rybuddio dyn mai ciddo ef ydyw y corff. Oer a throm yw ei law pan y mae yn cymeryd meddiant o'r corff, pan y mae yn tòri y llinyn arian, a'r cawg aur, a'r piser gerllaw'r ffynnon, a'r olwyn wrth y pydew; a phan y mae yn rhwygo y cysylltiad sydd rhwng corff ac enaid, a rhwng yr enaid a holl fwyniant amser; a gwywawl ydyw ôl ei farwol ddyrnod ar y corff pan y mae yn ei gymhwyso i'r pridd. Y mae yn dyrysu holl beiriant ardderchog ei gyfansoddiad, yn diffodd goleuni y llygad llon, yn dystewi llais mwyn y gerdd, yn crymu y gwŷr cryfion, yn gwelwi y gruddiau gwridog, yn fferu y gwaed cynhes, yn lladd bywyd y galon. Ac i garchar duoer tywyll y mae yn cymeryd y corff ar ol ei farwolaeth; i ystafell llygredigaeth, lle bydd y pryf yn fam a chwaer iddo; a lle nad oes na gwaith, na gwybodaeth, na goleuni.

Y mae yn gysurlawn i feddwl fod bygythiad yr Iesu yn erbyn y fath elyn yn *sicr* o gael ei gyflawni. Y mae yr Iesu wedi gosod ei fryd ar hyny. Y mae wedi cyhoeddi ei benderfyniad yn ddigon eglur, Byddaf yn bla i ti, angeu, nes bod yn angeu i ti. Ni thynaf fy ngair yn ol. Ni newidiaf fy meddwl. "Cuddir edifeirwch o'm golwg." Ac y mae gan yr Iesu bob gallu i gyflawni ei amcan; ac y mae *wedi* cyflawni y rhanau trymaf o'r gorchwyl. Dechreuodd fod yn bla i angeu wrth ddadlenu ei ymerodraeth, wrth ddangos beth oedd colyn angeu, beth oedd min ei gledd, beth oedd pwys ei ddyrnod, beth oedd gwenwyn ei anadl, pa le yr oedd gwaelod ei fedd. Buasai angeu yn hoffi cadw holl ystafelloedd ei ymerodraeth dan leni tywyllwch, dan gysgodau ei nos ddu; ond rhwygodd yr Iesu y lleni, a chwalodd y cysgodau ymaith; tywalltodd oleuni i waelod tir marwolaeth. Gwnaeth hyn drwy lawer o'r gwyrthiau a gyflawnodd, trwy iachâu cleſydau oeddynt yn farwol, ac yn enwedig trwy gyfodi merch llywodraethwr y synagog, a mab y weddw o Nain, a brawd Mair a Martha o feddiant angeu. Bu pob un o'r gweithredoedd hyny yn bla i angeu; ond y pla trymaf i angeu oedd adgyfodiad yr Iesu ei hun. Methodd angeu ei gadw yn ei gaethiwed er cadarned ei byrth, er tyned ei gloion, er cryfed ei gadwynau; daeth yr Iesu i fyny o'r bedd yn fyw, ac agoriadau angeu yn ei

law; a' chymerodd lawer o gyrff y saint gydag ef i'w ddinas santaidd fel cymdeithion ei fuddugoliaeth. Gorchwyl bychan iddo bellach fydd adgyfodi'r meirw yn y dydd diweddaf, a llyncu angeu mewn buddugoliaeth.

Y mae angeu yn ddiweddar wedi cymeryd oddiwrthym *yma*, ac *yn Nyharno*, ac yn *Beulah*, gyfeillion hoff a ffyddlawn, hen grefyddwyr, cariadlawn eu hysbryd, gafaelgar mewn gweddi, parod o'u cynghor, ac addysgiadol eu cymdeithas. Yr oedd eu symudiad yn golled i'r byd ac i'r eglwys; ac yr ydys yn teimlo hiraeth ar eu hol: ond gan fod yr Iesu wedi rhoddi ei air, ac wedi gwystlo ei anrhydedd, y bydd yn angeu i angeu, ac yn dranc i'r bedd, gellir ysgrifenu uwchben eu beddau—"Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd, o hyn allan, medd yr Ysbryd; fel y gorphwysont oddiwrth eu llafur, a'u gweithredoedd sydd yn eu canlyn hwynt." A bydd golwg hardd ar ymerodraeth yr Iesu pan y bydd ei goncwest ar angeu a'r bedd wedi ei pherffeithio. Ni bydd o'u mewn ddim rhwygo cyfeillion oddiwrth eu gilydd: ni bydd yno neb yn eu galarwisgoedd; ni bydd yno neb yn marw; ni bydd yno byth un angladd; ni wna angeu byth un bwlch yn eu cymdeithas, ond bydd angeu wedi cael ei angeu, a bydd y bedd wedi cael ei dranc; ac i'r Iesu yn unig y bydd yr holl enw a'r gogoniant am y fuddugoliaeth.

"O angeu, cofia hyn,
Yr Iesu fu ar y bryn,
A'th lyncodd di—
Ar groesbren un prydnawn,
Mewn buddugoliaeth lawn;
Coffau ei enw cawn;
Mae'n frawd i ni.

Pa'm mwy y teimlaf fraw,
Wrth ganfod ôl dy law,
Ac ôl dy gledd:
Nid wyt ond symud saint,
O gyrhaedd pob rhyw haint,
I'w hyfryd fythol fraint,
Yn ngwlad yr hedd."

GOBEITHIO PAN YN MARW.

Rhaid i'r cyfiawn farw, a rhaid i'r drygionus farw; ac nid hawdd cael geiriau mwy darluniadol o'u diwedd na geiriau Solomon: "Y drygionus a yrir ymaith yn ei ddrygioni, ond y cyfiawn a obeithia pan fyddo yn marw." "Y drygionus," sef yr hwn sydd a'i galon ar ddrwg, a'i draed ar ffordd ddrwg; yr hwn sydd heb wneud ewyllys Duw, ac yn troseddu ei gyfreithiau; yr hwn sydd yn llygru ac yn caledu ei gyd-ddynion, ac yn rhoddi ei ddoniau a'i ddylanwad yn erbyn duwioldeb, ac o blaid drygioni; y drygionus hwnw a "yrir." Y mae yn cael ei yru drwy ei fywyd gan ei nwydau a'i chwantau llygredig, a chan wyntoedd profedigaethau; ond a "yrir" yn ei ddiwedd i farwolaeth, i afael angeu, i'r bedd,

i'r farn, ac i'w gartref bythol. Nid o'i ddewisiad y bydd yn myned. Bydd mewn dychryn wrth fyned. Rhoddai yr oll a fedd am gael peidio myned; ond bydd treigliad olwynion amser, ac olwynion Rhagluniaeth, a chyntafanedigion angeu, ac angylion y nef, a llaw y Llywydd cyfiawn yn ei "yru;" bydd *raid* iddo fyned. "A yrir *ymaith*," oddiwrth ei gyfeillion, o gylch galwedigaethau amser, oddiwrth bob difyrwch daearol, oddiwrth bob moddion o wybodaeth, o gyrhaedd cynnygiadau trugaredd, o wlad y ffynnon, o fyd y maddeu, i'r glyn tywyll, i'r afon ddu, i sefyll ei brawf o flaen brawdle cyfiawnder, i'r tywyllwch eithaf, at rai euog aflan fel ei hunan, i fythol anobaith a gwae. A yrir ymaith felly "*yn ei ddrygioni*," a'i gamweddau heb eu dilëu, a'i bechodau heb eu maddeu, a'i galon heb ei newid, yn caru pechod yn fwy nag erioed; ac yn llawnach nag erioed o elyniaeth yn erbyn Duw a'i drefniadau, yn erbyn ei lywodraeth uniawn, a holl oruchwyliaethau ei Ragluniaeth a'i iachawdwriaeth. Ac yn ei ddrygioni y bydd byth bythoedd, yn suddo ddyfnach ddyfnach, ac yn cael ei yru bellach bellach oddiwrth Dduw a phob dedwyddwch. Y mae genym lawer o esiamplau yn hen hanesion y Beibl, ac mewn hanesion diweddarach am rai yn cael eu "gyru ymaith yn eu drygioni;" a dylai hanes eu colledigaeth effeithio ar ein calonau.

"Ond y cyfiawn a obeithia pan fyddo yn marw." "Y cyfiawn," yr hwn sydd wedi ei gyfiawnhau drwy ffydd, drwy y pryniedigaeth sydd yn Nghrist Iesu. Yr hwn sydd yn caru cyfiawnder, yn dymuno gwneud cyfiawnder, am i bawb gael cyfiawnder, ac yn llawenychu wrth feddwl y bydd i orsedd cyfiawnder sefyll yn dragwyddol. Y cyfiawn "*a obeithia*," hyny yw, ei galon a ddysgwylia ac a ymestyn yn mlaen am y mwynhad o ddaioni yn yr amser a ddaw. Y cyfiawn a obeithia "*pan fyddo yn marw.*" Yr oedd ganddo obaith *cyn* hyny; ac yr oedd ei obaith wedi cael ei feithrin yn ei fynwes gyda gofal: yr oedd yn gobeithio yn amser iechyd; yr oedd yn gobeithio drwy dymmor ei broffes; yn gobeithio wrth ganu ac wrth weddïo; wrth ddarllen y Beibl, ac wrth fwrdd y cymundeb; yn gobeithio pan yn ei ystafell ddirgel, a phan yn nghymdeithas y saint; ac y mae yn gobeithio hefyd pan yn marw. Y mae yn gobeithio er holl wasgfeuon cystudd ei gorff; yn gobeithio er gweled ei gyfeillion anwylaf dan wylo yn troi yn ol; gobeithio pan y mae holl ffynnonau amser yn sychu, a golygfeydd y ddaear yn diflanu; gobeithio pan dan gysgodau y glyn; gobeithio pan yn rhydiau yr Iorddonen; gobeithio pan y mae ei gnawd a'i galon yn pallu; ac y mae gafael ei obaith yn ddiogel ac yn sicr yn yr hyn sydd o'r tu fewn i'r llen. Y mae

yn gobeithio cael golwg lawn ar y Gwr a groeshoeliwyd; yn gobeithio cael deall a dilyn dull y nef o addoli a mwynhau ei Dduw; yn gobeithio cael ei gorff o'r bedd yn yr un ffurf a'i gorff gogoneddus ef; yn gobeithio cael bod yn y gymanfa fawr ar fynydd Seion; ac yn gobeithio cael bod yn ddibechod byth. A gobeithia am y pethau gogoneddus hyn, nid ar sail dim haeddiant yn ei gyfiawnderau ei hun, ond ar sail rhinweddau lawn ei Waredwr; a bod ei enaid yn ymorphwys yn hollol ar drefn ei gyfryngdod ef.

Yr oedd ein cyfaill anwyl ymadawedig yn gobeithio pan oedd yn marw. Yr oedd yn ceisio canu—

"Iesu wedi adgyfodi
Yw fy ngobaith, yw fy nghân;
Wrth wynebu afon angeu,
Af tan ganu hyn yn mlaen:
Tòrodd Iesu—tòrodd Iesu—
Garchar angeu'n chwilfriw mân."

Yr oedd ei obaith yn cadw ei enaid mewn tawelwch a gorfoledd drwy wythnosau ei gystudd; ac y mae hyny yn awr yn ddyddanwch cryf i'r rhai sydd yn hiraethu ar ei ol.

YSTYRIED Y DIWEDD.

Effeithiol iawn oedd llais Anfeidrol gariad uwchben dynion yn amser Moses. "O na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd." Y mae y "diwedd" i'n cyfarfod ninnau; diwedd ein perthynas â chyfeillion daear, a mwyniant daear, a breintiau daear, a gofidiau daear, ac amcanion a holl orchwylion daear; diwedd ein sefyllfa prawf i gael cynnyg am ein bywyd, i ddewis yr einioes, i droi i flordd y nefoedd, i weithio allan ein hiachawdwriaeth trwy ofn a dychryn; diwedd tymmor ein defnyddioldeb, yn ein teuluoedd, yn yr Ysgol Sabbathol, yn yr eglwys a'r ardal, ac er lles ein gwlad a'r byd oll. Y mae diwedd i fod ar ein heinioes yma, ac ar yr oll a berthyn i'r fuchedd hon.

Dyledswydd fawr ein hoes ydyw—"Ystyried ein diwedd;" myfyrio a son am ein diwedd, credu fod ein diwedd yn anochel-adwy, ei fod yn agos, y gall fod yn ymyl, ac y gall ddyfod yn ddisymwth. Wrth ystyried ein diwedd yr ydym yn ystyried y parotoadau angenrheidiol er cyfarfod ein diwedd mewn diogelwch a gwynfyd, sef bod mewn cymmod â Duw, a'n holl bwys ar lawn ei Fab; ystyried ein cyfrifoldeb i orsedd Duw am yr ol o'n rhagorfreintiau a'n hymddygiadau; ac ystyried tragwyddol bwys canlyniadau ein diwedd.

Doethineb penaf bywyd dyn ydyw ystyried ei ddiwedd; addefa pawb mai ystyried y pethau pwysicaf, ceisio y pethau goreu a'u diogelu i'r enaid, a gochel y pethau gwaethaf, a gwneud hyny yn brydlawn ac yn ddifrifol, yn ol addysg gair Duw, ydyw doethineb. Dyna yw gwir ddoethineb, a bod yn ddoeth i iachawdwriaeth.

Y mae "deall hyn," neu gyrhaedd y ddoethineb yma, yn hawdd i ddyn, ond iddo osod meddylfryd ei galon ar hyny: oblegid y mae wedi cael yr esboniadau llawnaf ac eglura'f ar ei ddiwedd. Ein diwedd, a'r modd i ni ystyried ein diwedd, ydyw pwnc mawr yr ysgrythyrau; ac os bydd i ni eu chwilio yn ddiduedd, ni bydd modd i ni fethu "deall hyn."

Ac y mae ein Gwneuthurwr am i ni ddeall hyn. Y mae yn ewyllysio i ni fod yn ddoeth a dedwydd. Y mae sain ei eiriau yn arwyddo fod y cynghor yn dyfod o'i galon—"O na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd." Dyna rediad iaith llyfr ei ddoethineb a'i gariad o'i ddechreu i'w ddiwedd. Dyna iaith addysg ei holl Ragluniaethau.

Y mae lleisiau difrifol yn awr o bob man yn ein cymhell ni i ystyried ein diwedd. Llais awdurdod o orsedd y Goruchaf; llais cariad o fynwes ei dosturiaethau; llais ei ddoethineb anchwiliadwy; llais ein dyddiau, a'n Sabbathau, a'n misoedd, a'n blynyddoedd, wrth fyned heibio; llais profiad a chynghor ein cyfeillion goreu, ein rhieni, a'n hathrawon, a gweinidogion y gair; llais holl oruchwyliaethau gweinidogaeth angeu, ei ragredegwyr, ei gysgodau, ei gyntafanedigion, a holl ergydion ei gledd; y llais dystaw o'r bedd diwaith; llais cwynion alaethus eneidiau colledig; a llais caniadau gorfoledd y cadwedigion o fro bur eu gorphwysfa.

Os goddiwedda y diwedd ni yn anmharod ar ol yr holl rybuddion a'r holl addysg a gawsom, byddwn yn gwbl ddiesgus; a bydd ein dychryn a gwasgfeuon ein heuogrwydd yn annarluniadwy: ond os ystyriwn ein diwedd, gan ddyfal barotoi erbyn yr amgylchiad, try pob peth er ein dyrchafiad a'n dedwyddwch; cawn ado ar ol bob gwendid a llygredd, a bydd ein diwedd i ni yn ddechreuad gwynfyd anfarwol.

Un o ddymuniadau olaf ein cyfaill oedd i ni geisio gwasgu at deimladau pawb y pwys tragwyddol iddynt "ystyried eu diwedd."

RHODIO LLWYBR AR HYD YR HWN NI DDYCHWELIR.

Byddai yn briodol i bob un o honom ni ddywedyd yn ystyriol fel Job—"Pan ddel ychydig flynyddoedd, yna mi a rodiaf lwybr ar hyd yr hwn ni ddychwelaf." Tybia'r geiriau yn—

1. Fod rhai o'n blyneddoedd wedi myned heibio—pan ddel ychydig etto, bydd y rhan fwyaf wedi eu treulio; rhai goreu yr oes, rhai llawnion o drugareddau a rhagorfreintiau. Yr oeddynt oll yn rhai o'r gwerth mwyaf, ond y maent wedi cilio yn ddystaw, yn gyflym, bron yn ddiarwybod i ni, fel cysgodau, fel breuddwydion, fel chwedlau, fel tafliadau gwenol y gwehydd, fel llongau buain; y maent wedi myned o'n cyrhaedd i dragwyddoldeb.

2. Fod rhyw lwybrau wedi cael eu rhodio yn y blyneddoedd aethant heibio, uniawn neu geimion, da neu ddrwg. Y mae rhai wedi rhodio llwybrau *drwg*—llwybrau anystyriaeth, anghrediniaeth, calon-galedwch, a rhyfyg; a'r llwybrau hyny wedi eu harwain i diroedd ysgafnder, i ystafelloedd cyfeddach a maswedd, cydorwedd ac anlladrwydd, i gynghor annuwiolion, i ffordd pechaduriaid, i eisteddfa gwatwarwyr, a bron i borth colledigaeth. Y mae craill wedi rhodio llwybrau *da*, llwybrau pwyll, myfyrdod, a ffydd, a gwyliadwriaeth, a gweddi; a'r cyfryw wedi eu harwain i feusydd llawnion yr ysgrythyrau, yn isel at yr orsedd, ac at y groes, at allor y teulu, i'r gymdeithas grefyddol, i gynteddoedd tŷ yr Arglwydd, ac i gyfarfod âg ef ar y drugareddfa.

3. Fod dynion, tra y bydd eu blyneddoedd heb ddarfod, yn cael cyfle i *ail* rodio eu llwybrau. Gall yr annuwiol sydd wedi rhodio llwybrau drwg gael cyfle i ddychwelyd; ac y mae yn cael pob annogaeth i ddychwelyd. Y mae yn wir ei bod yn myned yn fwy anhawdd iddo droi yn ol bob cam y mae yn roddi y naill flwyddyn ar ol y llall, am fod ei lwybr o hyd yn myned yn llithricach: ond etto gall droi yn ol, a dychwelyd, a chynnyg llwybr gwell. A gall y Cristion sydd wedi rhodio llwybrau crefydd—y grefydd bersonol, a'r grefydd deuluaidd, a'r grefydd gymdeithasol—gael eu hail rodio etto drachefn a thrachefn, er eu rhodio yn fwy gofalus. Os ydyw wedi bod yn rhy anystyriol uwchben y Beibl, yn wamal yn y cysegr, yn ddiawch a diafael wrth yr orsedd, yn ddigariad wrth fwrdd y cymundeb, yn ddisel dros ogoniant yr Iesu, gall gynnyg etto er rhodio ei lwybrau yn well.

4. Fod ar derfyn ein blyneddoedd lwybr rhyfeddach i'w rodio na'r un arall a rodiwyd erioed, sef llwybr marwolaeth, y llwybr o'r byd hwn i fyd arall. Llwybr anocheladwy ydyw. Y mae holl genedlaethau ein hynafiaid wedi ei rodio. Y mae lluoedd o'n cydnabod wedi ei rodio. Yr ydym ninnau bob dydd yn nesu tuag ato. Byddai yn dda gan rai allu ei osgoi, ond nid allant. Y mae arfaethau Duw, ac ordinhadau ei lywodraeth, ac olwynion Rhagluniaeth, a llifeiriant amser, a gwthiad ein holoeswyr, a chenadon angeu, a sugn tragwyddoldeb, yn cydweithio pawb

tuag ato. Nis gall y cryfaf, na'r cyflymaf, na'r cyfrwysaf ddim troi ei wyneb draw oddiwrtho. Llwybr yr holl ddaear ydyw: a bydd raid i *ni*, i ni *oll* ei rodio. A llwybr i'w rodio ar fyrder ydyw. Pe buasai hawl genym i ddywedyd, Pan ddel can' mil o flyneddoedd etto, mi a rodiaf lwybr ar hyd yr hwn ni ddychwelaf; buasai yn addas i edrych dros y can' mil, ac i feddwl am y daith i'r bythol fyd; canys deuai y can' mil i ben. Ond ein hiaith ni ydyw, Pan ddel *ychydig* flyneddoedd. Gall rhai yma ddywedyd yn ol mesur eu dyddiau, Pan ddel pum' mlynedd etto. Gall eraill ddywedyd, Pan ddel deng mlynedd etto. Gall y dosbarth trigain oed ddywedyd, Pan ddel ugain mlynedd etto. Gall dosbarth y deugain oed ddywedyd, Pan ddel deugain etto, mi a rodiaf lwybr ar hyd yr hwn ni ddychwelaf. Nid dichon y rhodiaf, ond bydd *raid* i mi rodio. A pha beth ydyw pump, neu ddeg, neu ugain, neu ddeugain mlynedd? Ebrwydd y darfyddant, a ni a ehedwn ymaith. Llwybr newydd a dyeithr, lled dywyll ac anadnabyddus i ni ydyw. Er fod y Beibl yn ei grybwyll yn fynych, ac yn darlunio yn helaeth y ddwy wlad sydd yn ei ben draw; er ein bod wedi hebrwng llaweroedd i'w ymyl; er ein bod wedi darllen a dychymygu cryn lawer am dano, etto ni wyddom ddim yn brofiadol am ei gulni na'i ddyfnder, na'r cymdeithion gawn arno, na'r golygfeydd fyddant yn ymagor o'n blaen yn ei ben draw. Llwybr na ddychwelwn ar hyd-ddo ydyw. Ni ddeuir byth yn ol ar hyd-ddo i rodio llwybrau daear, i breswylio anneddau daear, i gyflawni galwedigaethau daear, i gymdeithasu â thrigolion daear. Ni ddeuir byth yn ol i'r teulu, nac i'r Ysgol Sabbathol, i'r cyfarfod gweddi, nac at fwrdd y cymundeb. Ni ddaw yr annuwiol byth yn ol i dir gobaith, i swn yr alwad a'r addewid, i gyrhaedd ffynnon Calfaria, at orseddfainc trugaredd: ac ni ddaw y duwiol byth yn ol i faes y rhyfel, i fyd y pla, yr ofn, a'r cystudd, i rodio glyn wylofain. Rhaid felly mai llwybr annhraethol *bwysig* ydyw, gan na cheir ei rodio ond unwaith; gan ei fod yn arwain o'r byd byr hwn i'r byd mawr diderfyn; a'i fod yn arwain ei deithydd i'w gartref tragwyddol.

Dylem ni fod yn ddiolchgar nad ydym ddim wedi rhodio y llwybr rhyfedd hwn dros y geulan i golledigaeth. Dylem fynu hamdden i adolygu helyntion ein blyneddoedd a aethant heibio; y llwybrau a rodiasom, y trugareddau a dderbyniwyd, y breintiau a fwynhawyd, y cystuddiau a welwyd, y cyfeillion a gollwyd, yr addunedau a wnaethpwyd, fel y dysgom fod yn fwy pwyllog, a gwyliadwrus, ac edifeiriol, a gostyngedig, a diolchgar, yr ychydig flyneddoedd all fod etto yn ol i ni. Nid yw o gymaint pwys i ni pa nifer a fyddant, na pha bryd y daw eu diwedd, ond dylem

benderfynu, a chydymgyfammodi i geisio byw yn well. Dylem ymorchestu i fyfyrio yn fwy difrifol, i weddïo yn daerach, i lafurio yn fwy egnïol gyda gwaith yr Arglwydd, ac i ymddiried yn fwy tawel yn ei ras a'i gadernid.

Llwybr tywyll trwm iawn i'r annuwiol fydd llwybr marwolaeth, yn ei arwain gydag ellyllon ac ysbrydion colledig i wlad pob tlodi a phoen: ond llwybr hyfryd i'r duwiol fydd, yr hyfrydaf a rodiodd erioed, wedi ei balmantu gan yr Iesu â chèryg yr addewidion, a haul y nef yn tywynu arno, ac ôl traed ei gyfeillion goreu arno; caiff y cymdeithion hyfrydaf wrth ei rodio, i'w arwain i wlad y goron a'r delyn, y goleuni a'r purdeb, i deml Duw a'r Oen, i drigfanau tawel etifeddiaeth y saint, lle y caiff ddigrifwch yn oes oesoedd ar ddeheulaw ei Arglwydd.

"Mae fy nyddiau yma 'n darfod,
Tynu tua'r beddrod 'rwy';
Buan rhodia'i'r llwybr hwnw
Na ddychwelaf byd-ddo mwy:
Tragwyddoldeb
Fydd fy nghartref cyn bo hir."

ADDFEDRWYDD I FARW.

Yr oedd gan Eliphaz gynt, yn un o'i areithiau, gymhariaeth dra darluniadol o farwolaeth hen gredadyn: "Ti a ddeui mewn henaint i'r bedd, fel y cyfyd ysgafn o ŷd yn ei amser." Dichon mai y prif feddwl yn y gymhariaeth ydyw *addfedrwydd i farw*, fel codiad ysgub o ŷd addfed i ddiogelwch.

Byddai yn briodol i ni yma heddyw ystyried—

1. Marweiddiad y llygredigaethau. Ni addfeda yr ŷd os bydd pryf y rhwd, neu y locust, neu y lindys wrth ei wraidd, neu ar ei gorsen, neu yn mysg ei flodau, yn difa ei nerth; ac ni addfeda ffrwythau crefydd yn yr enaid, os bydd llygredigaethau difaol wrth wraidd y serch, neu yn mysg dail y broffes; ond os marwheir y llygredd, addfeda y ffrwyth.

2. Bod y ffrwyth yn llawn ac yn ei flas. Gair yn perthyn i ffrwyth ydyw addfedu. Ni sonir am addfedu lle na byddo ffrwyth. Lle y mae enaid o dduwioldeb addfed, y mae yno ffrwyth i'w gael o'r grasau a'r doniau a'r holl ymarweddiad, a hyny ar holl ganghenau y grefydd bersonol, deuluaidd, a chymdeithasol, yn y teulu, y dosbarth, ac yn y gymdeithas grefyddol.

3. Rhyddhad gwraidd y serch o'r ddaear. Pan y mae yr ŷd yn addfedu, y mae y gwraidd a'r gorsen yn arwyddo hyny; maent yn dangos fod eu gwaith yn darfod: a phan y mae y credadyn yn addfedu i'r nef, y mae y corff yn crino, ac yn darfod sugno o'r

ddaear; ac y mae y dywysen lawn yn gymhwys i'w chymeryd i ddiogelwch.

Y mae o *bwys* annhraethol i fod yn addfed erbyn marw. Fe effeithia hyny er tawelwch i'r profiad. Peth trwm ydyw fod y gydwybod o hyd, pan y bydd angeu ar y maes a'i gryman ganddo, yn gorfod dywedyd, Yr wyf yn anaddfed i farw; ond os bydd yno deimlad o addfedrwydd, bydd tangnefedd yn y fynwes. Fe effeithia hefyd er dyddanwch ac er addysg i'r ceraint a adewir ar ol. Beth all fod yn fwy dyddanol iddynt yn eu tristwch, na gallu dywedyd, Yr oedd yr un anwyl ymadawedig yn addfed i farw, yn bur addfed, ac wedi addfedu yn hyfryd er's hir amser. Effeithia hyn ar sefyllfa yr enaid am byth. Y mae ambell gredadyn yn fwy addfed i farw na chredinwyr eraill, a hwnw fydd y blaenaf a'r uchaf yn y nefoedd dros byth. Felly, gan fod addfedrwydd i farw yn beth o gymaint pwys, dylem ystyried beth yw y moddion goreu er ei fagu.

1. Llafurio i gyflawni holl ddyledswyddau bywyd yn eu tymmor, gwneud gwaith pob dydd yn ei ddydd. Gwaith y Sabbath ar y Sabbath; gwaith boreu yr oes yn moreu yr oes; gwaith canol oes yn ei chanol; ac felly wrth gynnyddu a chryfhau yn rheolaidd, bydd yr enaid erbyn amser henaint yn addfed i orphwys mewn diogelwch.

2. Dylid ceisio cael meddwl parod, addfed; meddwl sobr, myfyrgar, at bob dyledswydd; fel y galler bod yn wresog yn yr ysbryd, yn gwasanaethu yr Arglwydd mewn hwyl, gyda llawenydd, ac er adeiladaeth i'n cyd-addolwyr.

3. Dylid ymdrechu iawn ddefnyddio holl oruchwyliaethau tymmor yr addfedu—y gwlith, y gwlaw, a'r heulwen. Dylid ceisio cael nodd a maeth o bob peth, ac o bob man—o'r gair, o'r allor deuluaidd, ac o holl ordinhadau crefydd, yn mhob cylch, dirgel a chyhoeddus.

Y mae llawer cnwd o breswylwyr dacar wedi cael eu casglu i'r bedd ac i fyd arall—rhai yn addfed, a rhai yn anaddfed; rhai yn llawn o ffrwyth, a rhai wedi treulio eu tymmor heb ddwyn dim ffrwyth. Cyfyd yr holl gnydau hyny etto o lwch marwolaeth; a chan y codant oll ar unwaith, bydd yr olygfa arnynt yn arderchog.

Y mae gwaith yr Arglwydd yn casglu rhai i'r bedd ac i fyd arall yn moreu eu dydd, neu yn nghanol eu defnyddioldeb, megys Edward VI., a llawer swyddog gwladol gobeithiol—Spencer o Liverpool, a llawer gweinidog ieuanc gobeithiol—Williams y Cenadwr, a llawer crefyddwr ffyddlawn, yn ymddangos i ni yn dywyll: nid oes genym ond ymostwng i drefniadau y nef, gan

gydnabod y gwyr yr Arglwydd pa fodd i drefnu oreu drwy holl gylchoedd ei lywodraeth fawr. Yr ydym ni wedi colli o bryd i bryd o'n Hysgolion Sabbathol ac o'r eglwys feibion a merched tra gobeithiol. Buasai yn dda genym ni i'w doniau gael tymmor hŵy i addfedu; ond nid felly y trefnodd Duw; a gall ef beri i waith tymmor byr ateb dybenion gwerthfawr. Casglwyd oddiyma yn ddiweddar rai lled addfed i ddiogelwch. Yr oedd ein hen gyfaill Ellis Lloyd, ydym yn roddi heddyw i orphwys, yn ysgub addfed. Cafwyd ffrwyth arno nid ychydig. Cafodd ei gasglu adref mewn oedran teg, ac mewn dull pur gysurus; ni chafodd ystormydd y glyn ei niweidio. Yr oedd cael myned i orphwys yn elw iddo, ac y mae coffadwriaeth ei weddïau a'i gynghorion yn beraidd.

Rhydd y gymhariaeth o gynhauafu ŷd yn ei amser olwg hyfryd ar farwolaeth y saint. Y maent yn cael eu casglu i ddiddosrwydd a diogelwch o gyrhaedd tymhestloedd ac oerder y gauaf; yn cael eu casglu gan angylion i drigfanau dedwydd y nefoedd. Y mae yr adeg i'n casglu ninnau i fyd arall yn nesâu bob dydd. Ymorchestwn am addfedrwydd.

"Fy Nuw galluog, rhwyga'r llen,
A dal fy mhen yn angcu;
Dod ffydd i glir olygu'r làn,
Rhag suddo tan y tònau.

Boed llewyrch dy ogoniant di,
Fy Ion, i lenwi f'enaid;
Rho'n llc amnheuaeth, hyder gre',
A chân yn llc ochenaid.

Pan ddel—mae'r amser yn nesâu—
Fy einioes frau i fyny;
Bydd arnaf yn nyfnderau'r glyn,
O Iesu gwyn, yn gwenu.

Gwna fi tra yn y byd y b'wy',
Am farw'n fwy myfyriol;
Gan fyw i'th glod mewn einioes wyw,
A marw i fyw'n dragwyddol."

ANERCHION
AR WAHANOL ACHLYSURON.

YR ACHOS CENADOL.

Bu yn mryd yr awdwr, ugain mlynedd yn ol, i ysgrifenu llyfr ar yr "*Achos mawr cenadol.*" Tynodd gynllun traethawd helaeth. Ysgrifenodd yn lled fanwl ar *ranau* o hono; ond daeth gofalon eraill ar y pryd i'w ran, fel y methodd gael hamdden i gyflawni ei amcan; a chollodd y rhan fwyaf o'r *darnau* a ysgrifenodd. Dygwyddodd iddo daro ei law yn ddiweddar ar ddalen *bras-linellau y cynllun*; a dichon y gallant fod o radd o gymhorth i rywun arall i feddwl neu ysgrifenu ar y pwnc. Yr oedd wedi cynllunio am i'r traethawd fod yn chwech o bennodau.

PENNOD I.

Crybwylliad o amcan mawr y Cymdeithasau Cenadol, sef ennill y byd i Iesu Grist—gydag eglurhad o bwysfawredd yr amcan hwnw, yn—

1. Fel dyledswydd yr eglwys i gydweithio â threfniadau Anfeidrol Ddoethineb er dwyn o amgylch fwriadau grasol cariad Duw.

2. Fel ei dyledswydd i gydweithio âg egwyddorion gogoneddus cyfryngdod yr Iesu yn ei ymgnawdoliad, ei farwolaeth, a'i ddyrchafiad i'w awdurdod yn y nef.

3. Fel ei dyledswydd i gydweithio â dylanwadau goleuol, santeiddiol, a dyddanol yr Ysbryd Glan.

4. Fel ei dyledswydd i gyflawni y gorchymyn mawr o garu ei chymydog.

5. Fel ei dyledswydd i roddi ei holl nerth a'i dawn mewn cydymdrech i ddattod gweithredoedd y diafol; ac i gydlafurio yn arfogaeth y nef, er darostwng y gwrthryfel ofnadwy a gynhyrfwyd ac a gychwynwyd yn y byd gan y diafol a'i angylion.

6. Fel ei dyledswydd i gynhyrfu, a chynnorthwyo, ac eangu, ac enwogi gweinidogaeth angylion.

7. Fel ei dyledswydd i wneud ei goreu i "ryddhau y creadur," neu yr holl greadigaeth, ag sydd y pryd hwn yn cydochenoidio ac yn cydofidio dan gaethiwed llygredigaeth, a'i dyrchafu i ryddid gogoniant plant Duw.

8. Fel ei dyledswydd i geisio dadsylfaenu gorsedd pechod, a nychu a lladd holl sefydliadau llygredd, a gormes, a choelgrefydd yn mhob man.

9. Fel ei dyledswydd i bleidio a chynnal pob sefydliad o rinwedd a buddioldeb cymdeithasol.

10. Fel ei dyledswydd i agor prif-ffordd er rhydd-rediad y gwybodaethau a'r celfyddydau, yn mysg pob cenedl o ddynion, er eu gwareiddiad a'u cysur.

11. Fel y rhan bwysicaf o'i galwedigaeth, a'i phroffes fel Eglwys i Grist ar y ddaear.

12. Fel y ffordd benaf sydd ganddi i ddefnyddio ei thalentau, i gyflawni ei rhwymedigaethau, ac i barotoi gogyfer â'i chyfrifoldeb i'w Harglwydd.

13. Fel ei rhwymedigaeth i wneud pob iawn yn ei gallu am gysgadrwydd ac anystyriaeth, ac esgeulusdra, a diffyg yr oesau ydynt wedi myned heibio.

14. Fel ei dyledswydd i wneud ei goreu er cyfoeth, a chysur, a dyrchafiad, ac anrhydedd ei gwlad a'i chenedl.

15. Fel ei dyledswydd i wared y rhai a lusgir i angeu, neu i achub eneidiau rhag colledigaeth dragwyddol.

PENNOD II.

Nodweddau iawn ysbryd cenadol, neu y dymher ddylai ein llywodraethu gyda gwaith mor bwysfawr :—

1. Cariad gwresog at ein Gwaredwr, ac at ein cyd-ddynion.

2. Haelioni i gyfranu yn llawen o'r hyn sydd genym tuag at ddwyn yn mlaen y gwaith.

3. Hunanymwadiad er bod yn barod i aberthu o'n cysuron, os bydd raid, er llesâd llaweroedd.

4. Gweddi am gyfarwyddyd a bendith Ysbryd yr Arglwydd.

5. Ffydd yn yr addewidion, ac yn nerth a ffyddlondeb Duw i'w cyflawni.

6. Galar am fod cyn lleied wedi cael ei wneud drwy holl oesau Cristionogaeth.

7. Dyfal-barhad—neu beidio blino yn y llafur, na llwfrhau yn wyneb anhawsderau.

8. Diolchgarwch am gael lle a chymhelliad i weithio ar facs mor ardderchog.

9. Gostyngeiddrwydd am nad ydym ond offerynau, am nad allwn wneuthur dim ond yn llaw ein Duw, a bod y llwyddiant oll i ddyfod yn gyfangwbl oddiwrtho ef.

10. Sel—am fod y gwaith mor bwysig yn ei holl gysylltiadau.

11. Gwroldeb—am fod cynnifer o elynion cyfrwys a chryfion am rwystro y gwaith.

12. Doethineb—er dal ar yr adeg oreu, a defnyddio y moddion effeithiolaf yn y dull goreu.

13. Addfwynder—yn ol esiampl ein Harglwydd a'n Hathraw.

14. Santeiddrwydd—am ei fod yn gweddu i holl amcanion, a holl ymarferiadau y fath wasanaeth.

PENNOD III.

Rhai o'r mesurau ddylem astudio a'u mabwysiadu er dwyn yn mlaen yr achos cenadol.

1. Ymdrechu i gryfhau ysbryd, ac i felysu blas ein holl gyflawniadau crefyddol yn ein holl gylchoedd cartrefol yn y teulu, yn yr ysgol, ac yn yr eglwys.

2. Astudio cynlluniau er codi ac addysgu cenadon cymhwys i fyned allan i lafurio ar y maes cenadol.

3. Ymdrechu i ennill ystyriaeth a chefnogiad pendefigion a chyfoethogion ein gwlad at bwys, budd, a gogoniant y gwaith.

4. Ceisio taenu gwybodaeth neu hysbysrwydd yn mysg pawb o'n deutu, am sefyllfa naturiol a moesol y gwledydd ydynt heb ragorfreintiau yr efengyl.

5. Egwyddori ieuenctyd yn fanwl yn elfenau daearyddiaeth, fel y gallont bortreadu o flaen eu meddwl holl ranau y maes cenadol.

6. Deisyf ar awdurdodau ein llywodraeth i beidio rhoddi cefnogaeth, nac estyn cynnaliaeth i egwyddorion a defodau coelgrefydd ac eulunaddoliaeth.

7. Cadw egwyddorion perffaith ryddid cydwybod yn ein golwg yn barhaus yn ein holl gynlluniau a'n hegnïadau er lledaeniad Cristionogaeth.

8. Cofio fod yr hen genedl Iuddewig, had Abraham ac Isaac a Jacob, yn haeddol o'r lle blaenaf yn ein cydymdeimlad a'n gweddïau, ac yn deilwng o lafur goreu ein cariad er eu hennill o'u gwrthgiliadau i astudio a derbyn egwyddorion a chysuron Cristionogaeth.

9. Dyfal chwilio ac astudio athrawiaethau, a gorchymynion, ac addewidion, a ffeithiau hen lyfr ysbrydoliaeth, er ein cyfarwyddyd ac er ein calondid wrth ymegnïo gyda'r gwaith.

PENNOD IV.

Atebiadau i'r prif wrthddadleuon yn erbyn yr achos cenadol.

1. Dadleuir fod ein gwlad yn rhy dlawd i allu fforddio i gynnal sefydliadau er lles ac elw i wledydd eraill. Nid yw ddim yn rhy dlawd i dalu llogau wyth can' miliwn o ddyled rhyfel. Nid yw ddim yn rhy dlawd i gynnal sefydliadau milwraidd trymach ganwaith na'r oll a wneir at ein Cymdeithasau Cenadol. Nid yw ddim yn rhy dlawd i gynnal masnach y diodydd meddwol

yn ei holl ganghenau, er ei bod yn drymach nac hyd yn nod dreuliau ein sefydliadau rhyfel. Nid yw ddim yn rhy dlawd i dalu deg punt at dybaco am bob punt a gysegrir at yr achos cenadol. Nid ydyw ddim yn rhy dlawd i dalu myrddiynau ar fyrddiynau mewn ymgyfreithio, ac mewn llwgrwobrwyo, ac mewn coeg-chwareuyddiaethau. Nid yw ddim yn rhy dlawd i gynnal sefydliadau trymion a lluosog er cosbi y drwgweithredwyr a wasgwyd ganddi i brofedigaethau angen, neu a faethwyd ganddi i afradlonedd. Nid ydyw ddim yn rhy dlawd i gynnal Eglwys Wladol yn ei holl rwysg anefengylaidd a gorthrymus; ac y mae yn hollol waradwyddus i glywed neb o'i phlant yn dweyd ei bod yn rhy dlawd i wneud dim er efengyleiddio y byd.

2. Dadleuir fod digon o faes i holl olud, a holl ddoniau, a holl ddylanwad crefyddwyr i weithio gartref. Y mae yn wir fod digon o waith i'w wneud gartref, ond nid ydys ddim i orphen pob gwaith gartref cyn dechreu gwneud dim er lles y byd. Nid ydys ddim i ddysgwyl gweled Prydain yn berffaith cyn cynnyg anfon yr efengyl i wledydd eraill. Nid felly yr ymddygodd Crist a'i apostolion. Buasai yn golled annhraethol drom i'r cenedloedd pe buasent hwy yn cyfyngu eu gweinidogaeth i faes y genedl Iuddewig; ac nid oes neb yn ei anghymhwyso ei hun i weithio gartref wrth fagu ysbryd cenadol yn ei fynwes. Ac os dilynir yr egwyddor gul o gyfyngu pob dyn i weithio gartref, attelir llafur y dynion goreu a fedd ein gwlad i lesáu eu cynydogion. Ac nid oes un dyn a all wneud lles i'w geraint agosaf ac anwylaf, os rhaid iddo aros nes perffeithio y gwaith da yn ei galon ei hun.

3. Dadleuir ei bod yn drueni mawr i anfon cenadon ieuainc, bywiog a selog, athrylithfawr a dysgedig, i ganol profedigaethau a chlefydau y gwledydd pell i farw cyn hanner eu dyddiau. Y mae ymchwilwyr am hynafiaethau, a marsiandwyr am olud, a milwyr am ogoniant, ac efrydwyr deddfau a rhyfeddodau anian yn anturio allan drwy beryglon, i bob parth o'r byd, ac yr ydys yn canmol a mawrygu gwroldeb eu hanturiaethau. Os yw eu hamcanion hwy yn deilwng o ysbryd anturiaethus, y mae amcanion pwysfawr cenadon yr Iesu yn haeddol o lawer uwch anturiaeth. Ac od oes rhai o'r cenadon yn marw yn lled gynnar ar uchelfanau y maes, y maent yn gallu gweithio mwy mewn oes fèr ar y meusydd pell cenadol, nag y medrent wneud mewn oes hir yn ngwlad eu genedigaeth.

4. Dadleuir fod y paganiaid yn y cyflwr y maent ynddo yn ddedwydd, a'u bod yn llai eu cyfrifoldeb na phe baent yn meddu rhagorfreintiau yr efengyl. Felly byddai plant y gwrthddadleuwr yn llai eu cyfrifoldeb ond iddo gadw oddiwrthynt bob

gwybodaeth am bethau crefyddol, a'u dwyn i fyny yn baganiaid. Y paganiaid yn ddedwydd! Yn ddedwydd pan yn ymddiried mewn twyll a gwagedd! Yn ddedwydd pan yn aberthu eu plant, eu gweddwon, a'u hen rïeni, i'w duwiau gau! Yn ddedwydd pan yn eu poenydio eu hunain i gyflawni defodau barbaraidd a diles! Yn ddedwydd pan yn suddo is is, oes ar ol oes, i lygredigaethau coelgrefydd! Na, nid ydynt yn ddedwydd, ac nis gallant fod yn ddedwydd yn y cyflwr y maent ynddo.

5. Dadleuir fod crefydd natur ganddynt, a bod goleuni hòno yn ddigon i ddysgu iddynt y ffordd i wynfyd. Goleuni gwan iawn y mae crefydd natur yn roddi ar wrthddrychau ysbrydol, ar gymeriad y gwir Dduw, ar gyflwr yr enaid, ac ar ryfeddodau tragwyddoldeb: ac nid yw yn rhoddi dim goleuni ar gyfryngdod yr Iesu, ar rinweddau ei aberth i buro cydwybod euog, ar haeddiant ei Iawn i gyfiawnhau yr hwn a gredo ynddo, ac ar adgyfodiad y corff i fuchedd dragwyddol. Dichon fod ambell bagan, drwy lewyrchiad gwan rhyw hen draddodiad pell am ryw gangen o wasanaeth crefydd ddatguddiedig, yn dyfod, dan ymbalfalu, at orseddfainc trugaredd, ac i afael cadwedigaeth; ond ni cheir dim goleuni ar drefn iachawdwriaeth o grefydd natur.

6. Dadleuir fod y paganiaid yn rhy wylltion ac anwaraidd, yn rhy lygredig a choelgrefyddol, i gael eu gwareiddio drwy ddim moddion moesol, ac i gael eu hennill i astudio egwyddorion, ac i blygu dan iau Cristionogaeth. Y mae miloedd o honynt *wedi* cael eu hennill, miloedd lawer o'r rhai gwylltaf a gwaethaf—Affricaniaid, Chineaid, Malagasiaid, ac Indiaid o gonglau pellaf y dwyrain, ac Indiaid o gyrau pellaf y gorllewin, ac anwariaid o Ynysoedd Môr y De, ac o gylchoedd y pegynau. Y mae miloedd lawer o honynt wedi cael eu hennill i chwennychu didwyll laeth y gair; ac y maent wedi cynnyddu drwyddo, a dyfod yn enwog am eu duwioldeb. Y mae yn eu mysg yn awr eglwysi blodeuog, a llawn o ffrwythau crefydd Iesu.

7. Dadleuir fod yr achos cenadol yn beth *newydd*, yn beth heb ei brofi, ac nad oes dim sicrwydd yr etyb unrhyw ddyben daionus. Na, nid ydyw ddim yn beth newydd. Y mae mor hen a dyddiau Paul a'i gydlafurwyr, mor hen a dyddiau teulu Bran Fendigaid, mor hen a dyddiau Gwladus Ruffydd, mor hen a dyddiau Ilyd ac Arwystli Hen, mor hen ag amserau y saint cyntaf fu'n llafurio yn mysg ein hynafiaid. Yr oedd hen seintiau penaf Ynys Prydain yn enwog o ran eu hysbryd a'u llafur cenadol. Y mae Cymdeithas Genadol, neu "*Propaganda Society*," gan Eglwys Rhufain er's llawer o oesau. Y mae Cymdeithasau Cenadol y Morafiaid yn rhai o gryn hynafiaeth. Y mae yr

achos cenadol yn hen ac yn brofedig, ac wedi ateb dybenion gogoneddus er oesau boreuaf Cristionogaeth.

8. Dadleuir fod y Cymdeithasau Cenadol yn gweithio yn erbyn hen ddefodau, a hen ddeddfau, a hen *charters* ymerodraethau coelgrefydd, ac felly yn tueddu i effeithio cynhwrf a chwyldroad. Nid yw efengyl yr Iesu yn taro yn erbyn dim ond yr hyn sydd yn ddrwg; yr hyn sydd yn niweidio cymdeithas; nid yw yn gwneud dim ond adrodd ei ffeithiau a'i gwirioneddau gogoneddus, gan adael i bawb berffaith ryddid i farnu drostynt eu hunain. Nid yw yn gwneud dim ond goleuo ei lamp yn nghanol y tywyllwch, fel y gallo dynion weled y peryglon y maent ynddynt. Nid yw yn gwneud dim ond hulio ei bwrdd ger bron y rhai newynog, a chyhoeddi fod pob croesaw iddynt gyfranogi o'i gwledd. Nid yw yn gwneud dim ond cyhoeddi *charter* mawr trugaredd, fel y deallo yr euog fod iddo obaith am ei fywyd.

9. Nad oes ond ychydig o weiniaid penboeth, llawn o sel heb wybodaeth, yn pleidio y Cymdeithasau Cenadol. Oes, y mae duwinyddion, ac athronyddion, a gwladgarwyr, a dyngarwyr penaf yr oesau yn eu pleidio. Y mae cyfeillion yr achos cenadol yn gwybod llawer mwy am bethau pwysig y Beibl a'r byd ysbrydol, nag a wyr y bobl sydd yn eu beio.

10. Fod anmherffeithrwydd yn y cynlluniau a ddilynir, ac yn y moddion a ddefnyddir, wrth ddwyn yn mlaen yr amcan cenadol. Addefwn hyny. Ac y mae anmherffeithrwydd yn gysylltiedig á *phob* offerynoliaeth dynol yn mhob celfyddyd, ac yn mhob galwedigaeth, a chyda phob diwygiad gwladol a chrefyddol: a rhaid i ddynion fod heb wneud dim da trwy eu hoes os rhaid iddynt aros heb gynnyg nes gallu ei wneud mewn dull perffaith.

11. Dadleuir fod llawer o ysbryd *proselytio* yn y gwahanol Gymdeithasau Cenadol. Y mae llawer mwy o ysbryd cenfigen a rhagfarn, ac o elfenau proselytiaeth yn y rhai sydd yn eu condemnio. Y maent yn llawer mwy unol eu hysbryd nag y mae eu gwrthwynebwyr eulion yn dychymygu. Dyrchafiad enw y Gwaredwr mewn achubiaeth eneidiau ydyw eu prif lawenydd.

12. Dadleuir fod Duw yn ewyllysio i'r paganiaid fod yn y cyflwr y maent ynddo, oblegid y gallasai ef yn hawdd wneud rhes o wyrthiau er eu hargyhoeddi, eu goleuo, a'u dychwelyd. Y mae yn wir y gallasai gyflawni rhes o wyrthiau, ond nid dyna ei drefn, nid dyna y ffordd gysonaf âg egwyddorion ei lywodraeth ac anrhydedd ei deyrnas: nid dyna y ffordd oreu er lles ei eglwys, oblegid y mae wedi ymddiried y gwaith i'w ffyddlondeb. Ac y mae yn rhyfyg i feddwl, ac yn gabledd i ddweyd fod y

Duw da yn ewyllysio i'r paganiaid farw yn eu tywyllwch, ac yn llygredd eu heulunaddoliaeth.

13. Dadleuir fod yr amser heb ddyfod etto i anfon yr efengyl i'r paganiaid, pan y mae holl lais hen lyfr ysbrydoliaeth, a llais doethineb a phrofiad pob meddwl ystyriol, yn cydgyhoeddi mai yr *amser presenol* ydyw yr amser goreu i bob dyn gyflawni pob gwaith da y gallo ymaflyd ynddo.

PENNOD V.

Annogaethau.

1. Cristionogaeth yn anorchfygol ac anfarwol.
2. Y prophwydoliaethau a'r addewidion am ei llwyddiant.
3. Ei buddugoliaethau yn yr oesau a aethant heibio.
4. Gwrthwynebiadau yn achlysuron i gyflymu ei hymdaith, ac i helaethu ei chylchrediad.
5. Y dylanwad dymunol y mae ei buddugoliaethau tramor yn gael ar yr eglwys gartref.
6. Y golygfeydd hyfryd, naturiol a moesol, welir drwy'r byd, pan y bydd ei llywodraeth yn gyffredinol:—Rhyddid, Heddwch, a phob cyfoeth.
7. Esiampl a phrofiadau hen ffyddloniaid.
8. Yr adeiladaeth i'r meddwl, a'r hyfrydwch i'r galon a geir wrth lafurio er llesâu eraill.
9. Taledigaeth y gwobrwy.
10. Ein hymddygiad ni i fyw ac effeithio ar y byd pan y byddwn ni wedi ein symud i fyd arall.
11. Sefyllfa, a threfn, ac ymdaith, ac ymroad presenol byddinoedd yr Oen.
12. Y terfysg cynhyrfus sydd drwy wersylloedd y gelyn.
13. Lluosogiad cyflym y cyfleusderau i gymniwair drwy bob parth o'r byd, ac o gyfeillachu a chyfathrachu â phob cenedl o ddynion.
14. Yr effaith y mae hyny yn gael ar dafodieithoedd y byd, sef gweithio y rhai mwyaf dibwys o ymarferiad ac o'r ffordd.
15. Yr ysbryd ymchwilio sydd yn ymweithio drwy bron bob parth o'r byd.
16. Y gelfyddyd o argraffu yn cael ei pherffeithio fwyfwy, ac yn trymhau ei dylanwad.
17. Arferion llygredig, a defodau coelgrefydd, a sefydliadau gormes yn siglo ac yn adfeilio.
18. Cynnorthwyon annogaethol i'w cael yn awr yn amryw o'r taleithiau paganaidd, sef cymdeithasau gweithgar, eglwysi ieuainc haelionus, ac athrawon brodorol llafurus a ffyddlawn.

19. Llwyddiant mawr wedi cymeryd lle yn wyneb pob dosbarth o anhawsderau.

20. Y moddion gofynedig yn rhai rhadlawn mewn cymhariaeth i'r hyn a ofynir at gynnaliaeth y fyddin a'r llynges, ac at bron bob math o wasanaeth a gwelliant.

21. Y byd yn deffro o gysgu ac yn llawn bywyd am dynu yn mlaen at ryw bethau gwell.

PENNOD VI.

Cynghorion i wahanol Bleidiau.

1. I Lywyddion wylio rhag sefyll ar ffordd yr achos mawr cenadol.

2. I gyfoethogion ddwyn eu harian a'u baur i'w drysorfa.

3. I ieithwyr dysgedig gyhoeddi ffeithiau Cristionogaeth mewn gwahanol ieithoedd.

4. I weinidogion a chyfarwyddwyr fyfyrio ar eu cyfrifoldeb.

5. I famau, a chwiorydd, a merched, fynu rhan yn y gwaith.

6. I blant ymroi i'w gynnorthwyo o'u mebyd.

7. I breswylwyr Meroz ofni eu melldith.

8. I wrthwynebwyr roddi eu harfau i lawr.

9. I'r eglwysi brodorol fagu ysbryd myfyrdod, a gweddi, a gweithgarwch.

10. I'r athrawon brodorol fod yn sclog a hunanymwadol.

11. I ymofynwyr am iachawdwriaeth, o bob gwlad a chenedl, frysio ar unwaith at y groes.

12. I deithwyr gario perarogl Crist gyda hwy i bob man.

13. I farsiandwyr ochelyd gwenwyno meddyliau paganaidd yn erbyn yr efengyl.

14. I'r cenadon fawrhau eu braint, a bod yn ffyddlawn yn eu holl swydd.

OUTLINES OF AN ADDRESS AT THE UNITED MISSIONARY MEETING IN BIRMINGHAM, FEB., 1835.

My Christian Friends—Coming as I do from a distant part of the country, I deem it a privilege to attend a Missionary Prayer Meeting in this large Birmingham Sanctuary. The Gospel and its Sabbaths and ordinances have done much for my native Principality; and I can testify here that our churches and schools of all denominations, feel the deepest interest in the cause of Christian Missions. At this very hour tens of thousands of our people, after listening with delight to gleanings made by their ministers from the Reports of the past month, are tuning

their sweet millennium-hymns, and uniting in ardent and expansive prayers for the success of the Redeemer's kingdom: and the churches that feel and pray and sacrifice most for the cause of Missions, are those that prosper best as to their own interests.

The Gospel of Jesus is the glory and strength and happiness of every province, and of every country. Much might perhaps be said as to the scenery and climate and resources of many a *heathen* country, but nature's choicest blessings are misimproved in the richest and loveliest lands where the way of salvation is not known. Gardens and orchards, and vineyards, and olive-yards, crowned with fruit, are beautiful. Flowery pastures, and fields of waving corn on the side of the smooth glassy majestic river, are beautiful. Shady groves and tall forests on the brow of the high hill are beautiful. Lofty mountains and deep glens between the ridges are beautiful. Crystal streams and balmy gales are refreshing. Veins of rich ore and of fine marble are valuable; but they become a hundred times more so when sanctified by Christianity for the glory of God and for the good of man.

How awfully has sin marred the loveliness and beauty, and dried up the comforts and joys, of our fallen world! It would have been a delightful paradise had it not been for the cruel and wide-spread ravages of sin. The selfishness and superstition, and all the wild mad passions of the human heart, have made it a moral wilderness, dreary and almost barren; but your Missionary Institutions are opening, in all directions, deep and wide channels, that streams of salvation may flow to fertilize and gladden its wild desolate wastes. Throughout all past ages, ever since the fall of man, fierce flames of moral evil have raged over all the countries of the world; and it is a matter of astonishment that there is any thing green and lovely left undestroyed; but Missionary Societies, and indeed, all religious Institutions, may be regarded as the bush which Moses saw on mount Horeb, alive and green and growing in the midst of the flames. This is owing entirely to the good will of Him that dwelt in the bush. We are called upon to strive together, and to do all we can to quench the flames of evil which are rapidly blackening and devouring around us all that is beautiful and valuable pertaining to man. Our work is great, requiring all our exertions, for the awful conflagration is fierce and general.

No time is to be lost. Your Missionary Societies are engines of mercy constructed for the benevolent purpose of subduing the devouring flames. Let us gird up our loins, and make bare

our arms, and fill their reservoirs, that we may aid those devoted men and women, who in the midst of temptations and perils, and bearing the burden and heat of the day, work them in distant and dismal parts of the world.

It gladdens us in the remotest corners of the hill districts of our land, to learn how full your active and wealthy Birmingham churches are of the Missionary spirit. It is good to be zealously affected in such a good cause. We rejoice to see how devotedly your eloquent pastors labour for the Missionary cause. We have not the means nor the influence which you have; but I trust that we have much of the same spirit; that we love the blessed Bible, and its eternal truths, and glorious institutions; that we ardently long for the prosperity of Zion—that it is our constant prayer that she may enlarge the place of her tent, and stretch forth the curtains of her habitation, and lengthen her cords, and strengthen her stakes; and that she may break forth on the right hand, and on the left; and that her seed may inherit the Gentiles, and make the desolate cities to be inhabited: and I trust that we will not hold our peace until her righteousness go forth as brightness, and her salvation as a lamp that burneth. We greatly love to hear of the efforts that are being made to spread the light of truth among the benighted nations that grope in darkness on the brink of eternity; and gladly contribute the little assistance we can to send the bread of life to those that are perishing. We love to watch the movements now making by the armies of the cross to destroy the gates of hell, and to pull down the strongholds of sin. We love to read or to hear of the self-denying labours of those holy Missionaries who constantly look to heaven for wisdom to win souls to Christ.

I will not attempt *here*, in the midst of this large busy town, so abundant its conveniences and privileges—*here*, in one of the chief thoroughfares of Christian benevolence—*here*, where you have the freshest intelligence from the lips and hearts of the leading agents and most eminent Missionaries of your Societies, and where the cause of Missions is so regularly laid before you by your able and beloved ministers; and it would be presumption in me to attempt to open before *you* any considerations for your encouragement.

You know how to travel over every part of the great Missionary field, and how to observe the signs of the times, and to mark every indication of prosperity; and there is much to cheer you in almost every part of the field.

You also know how to peruse the bright pages of inspiration

for your guidance and strength; and how to study and apply the testimonies, and prophecies, and promises of the Bible as to the prosperity of the kingdom of Christ: and there is in that Holy Book still more to encourage you than there is as yet in any portion of the Missionary field.

And what is still more, you know how to look up to heaven with the eye of faith, and can see the great cloud of witnesses, even the general assembly and church of the first-born, the spirits of the just made perfect, looking down smilingly over the battlements of their city, to encourage your efforts: and you can see an innumerable company of angels on the wing, ready to minister for your help and encouragement; and you can see JESUS, the Mediator of the new covenant, on his great white throne at the right hand of God, the Judge of all, holding the crown of life to reward the faithful.

Our time to work is very short. Our day is passing, the night is at hand when no man can work. I read, as coming to this meeting, in an evening impression of one of your papers, that intelligence had just reached that office, of the death of the learned and indefatigable Dr. Morrison, the translator of the Bible into the wonderful language of the millions of China. He rests from his labours, and has gone to his reward at a comparatively early age, when his friends fondly hoped that he might see many years of extended usefulness to the cause of Christ among the millions of China. Your countenances indicate how deeply you feel the loss of such a Missionary, undoubtedly the first Chinese scholar of the age; but I would repeat for your comfort just one verse from an elegant and spirit-stirring elegiac poem, by a Welsh Bard, on the Death of Bishop Heber, implying that though a star of the first magnitude had set, the *sun* is in the meridian—that though a rivulet had dried up, the ocean is full; and that, therefore, there should be no despondency, as the promises of the everlasting covenant are firm and full and sure.

"Yn araf, fy mrawd, paid, paid anobeithio,
Gwnei gam âg addewid gyfoethog yr Ior;
A ddiffydd yr haul am i seren fachludo?
Os pallodd yr aber, a sychodd y môr?
Na, na, fe ddaw boreu bydd un haleluia,
Yn ennyn o'r Gauts hyd gopäau Himalaya,
Bydd baner yr Oen ar bob clogwyn trwy India,
O aelgerth Cashgur hyd i garth Travancore."

PENAU ANERCH

MEWN

CYFARFOD GWEDDI CENADOL, ODDIAR ESA. LX.

Y MAE prophwydoliaethau cysurlawn y bennod a ddarllenasom yn arddangos y lles mawr a wna crefydd mewn gwlad a thrwy y byd, pan yr ennillir dynion i fyw dan ddylanwad ei hegwyddorion.

1. Gwasgerir y "tywyllwch a'r fagddu," a llewyrcha goleuni nefol gogoniant yr Arglwydd yn eu lle.

2. Gyrir ymaith bob trais a gorthrwm, a dygir i mewn dawelwch, a thirioneb, a thangnefedd yn eu lle.

3. Derfydd pob twyll, a dichell, a chribddeilio, a cheir gonestrwydd, a gwirionedd, a boneddigeiddrwydd yn eu lle.

4. Mygir pob cynhen, a chenfigen, ac anghariadoldeb, a daw cariad, a chydymdeimlad, a chydweithrediad i deyrnasu yn eu lle.

5. Ymlidir angen a thlodi, a'r wisg garpiog o'r golwg, a cheir bwrdd llawn, a gwisgoedd cynhes, a chyflawnder o bob cysuron yn eu lle.

6. Derfydd ocheneidiau, y galar, a'r gruddfan, a'r tristwch, a'r gwae, a cheir clywed swn gorfoledd, a llawenydd, a llais cân yn eu lle.

7. Derfydd ymffrost, hunanoldeb, a balchder, a rhyfyg, a cheir clywed yn lle hyny lais mwyn gwylaidd hunanymwadiad, a gostyngeiddrwydd, a diolchgarwch.

Y mae dyddiau dedwydd felly yn sier o wawrio, canys genau yr Arglwydd a'i llefarodd; ac efe a brysura hyny yn ei amser. Daw dynion i weled gogoniant yr Arglwydd, ac i alw arno, ac i ymddiried ynddo; ac i wneud achos crefydd eu prif ofal, ac yn ben eu moliant; a chorona crefydd eu holl gylchoedd hwythau â phob digonoldeb.

Er cael boddhad i'n meddwl am hyn, gallwn gofio yn—

1. Bod addewidion gras y nefoedd am amserau fel hyn yn lluosog ac yn eglur.

2. Fod yr eglwys yn ei horiau goreu yn hiracthu ac yn gweddïo am y fath amserau dedwydd.

3. Fod yr Arglwydd yn ffyddlawn i'w addewidion, ac yn drugarog i wrando gweddïau ei bobl.

4. Fod ei Ragluniaeth yn hollalluog gref, ac yn anffaeledig ddoeth er dwyn i ben amcanion ei raslonrwydd.

ANERCH MEWN GWYL DDIRWESTOL YN 1836.

"A'r rhai a feddwant, y nos y meddwant."

Y MAE y Beibl yn mynych gyfeirio at ddau fath o weithredoedd —gweithredoedd rhinweddol a buddiol, sef gweithredoedd anrhydeddus y *goleuni;* a gweithredoedd gwarthus a dinystriol, sef gweithredoedd anffrwythlawn y *tywyllwch.* Un o weithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch ydyw *meddwi*—"y *nos* y meddwant."

Byddai yn naturiol i ni ar yr achlysur yma ymofyn yn—

I. Beth yw meddwi? Meddwi ydyw bod dyn, yn rhyw ddull neu gilydd, yn darostwng ei gyfansoddiad i fod dan effeithiau defnyddiau meddwol, nes dyrysu gweithrediad naturiol a rheolaidd ei holl alluoedd.

II. Pa fodd yr ydys yn meddwi? Weithiau trwy *gnoi* pethau meddwol. Weithiau drwy *fygu* pethau meddwol. Weithiau trwy *arogli* pethau meddwol. Weithiau trwy flasu y bwyd â phethau meddwol: ond y rhan amlaf trwy *yfed* diodydd meddwol.

Y mae llawer math o ddiodydd meddwol yn cael eu parotoi a'u defnyddio. Nid ydynt o'r un nerth, nac felly yn achosi yr un faint o niweidiau. Y mae tuag un rhan o bump o'r cwrw a'r porter a ddarllawir, ac o'r *cider* a weithir, yn ddefnydd meddwol. Y mae un rhan o bedair o'r gwinoedd a yfir yn ddefnydd meddwol; ac y mae hanner y gwirod cryfaf yn ddefnydd meddwol. Y mae modd i droi bron holl gynnyrch y ddaear yn ddiodydd meddwol trwy ddarllawiad neu weithiad, neu gymysgiad neu ddistylliad.

III. Beth ydyw effeithiau meddwi? Y maent yn niweidiol yn mhob ystyr.

1. Yn niweidiol i *gymdeithas,* drwy achosi gwastraff a difrod, cynhenau a therfysgoedd, trachwant a thrais, segurdod a thlodi. Cyfrifir fod Lloegr yn gwastraffu bob blwyddyn ar ei diodydd meddwol driugain miliwn o bunnau; a dichon fod gwastraff Unol Daleithiau America yn ogymaint. Y mae arferion drwg y naill wlad yn effeithio yn niweidiol ar wledydd craill. Gwastreffir yn Lloegr ac America bob blwyddyn ar ddiodydd meddwol yn unig lawer mwy na digon i roddi Beibl yn llaw pob un o bobl y byd.

2. Y maent yn niweidiol i'r *corff*—yn ei ddadhwylio a'i wanychu, yn ei wneud yn agored i lawer o wahanol anhwylderau a chlefydau, ac yn sicr o fyrhau ei ddyddiau.

3. Y maent yn nychu ac yn dyrysu galluoedd y *meddwl*—y cof, y deall, y serch, a'r ewyllys.

4. Y maent, trwy serio y gydwybod a phylu awch y meddwl, yn caledu y *galon*, nes ydyw yn anhawdd ei deffroi a'i hymgeleddu, na gwneuthur unrhyw argraff arni er daioni.

5. Y maent yn arwain i anfodau colledfawr ac enbydus, megys llongddrylliadau, llosgiad adeiladau, drylliad peiriannau a cherbydau.

6. Y maent yn achosi llawer o droseddau gwladol, megys cullibiau, ymladdau, lladradau, llofruddiaethau, a phob math o aflendid a chreulondeb, na buasid byth yn eu cyflawni ond dan ddylanwad meddwdod; ac y mae y fath droseddau yn achosi trafferth a thraul i lysoedd barn a threfn.

7. Y maent yn llygru yr *enaid*, ac felly o radd i radd yn achosi ei ddamnedigaeth. Y maent yn serio ei deimladau, ac yn ei gau a'i selio i fyny yn erbyn dylanwad yr efengyl, yn ei ddifadu o'i holl gysuron, ac yn ei gau allan o'r nefoedd.

IV. Beth ydyw rhediad tystiolaethau y Beibl gyda golwg ar feddwi? Cawn wrth ddarllen ei hanesion a'i orchymynion, ei rybuddion a'i fygythion, eu bod yn taro yn uniongyrchol yn ei erbyn, ac yn taro yn drwm ofnadwy. Os ystyriwn ei adroddiadau am feddwdod Noah, ac am felldith Cham a'i hiliogaeth; ac am gydlosgach Lot a'i ddwy ferch, a'r effeithiau melldithiol ar y Moabiaid a'r Ammoniaid; am farwolaeth ddychrynllyd Nadab ac Abihu, meibion Aaron, am offrymu, yn eu gwin, dan dyeithr ger bron yr Arglwydd; am daeogrwydd ysbryd Nabal yn ei feddwdod; am ddichell Dafydd yn meddwi Urias, a'r farn drom a ddygodd i'w dŷ ac i'w deyrnas trwy ei greulondeb; ac am gyfeddach fel un o ffynnonellau ymlygriad Solomon; am ynfydrwydd Ahasferus a'i ddoethion pan yr oedd eu calonau yn llawen gan win; am Haman yn eistedd i yfed ar ol cael y llythyrau brenhinol i ladd a dystrywio yr Iuddewon; am falchder ac ymffrost Nebuchodonosor, ac am ryfyg Belsassar, pan oeddynt yn yfed eu gwin o lestri teml yr Arglwydd. Wrth fias y gwin y dywedodd Belsassar am ddwyn y llestri aur ac arian a ddygasai Nebuchodonosor ei dad ef o'r deml, fel yr yfai y brenin a'i dywysogion, ei wragedd a'i ordderchadon ynddynt: ac wrth yfed eu gwin felly y moliannasant y duwiau o aur ac arian, o bres, o haiarn, o goed, ac o faen. Y mae cyfraith Moses yn llym iawn yn erbyn yr *hen* lygredigaeth o feddwi. Os byddai gan rieni fab anufudd yn "lwth a meddwyn," yr oedd pobl ei ddinas i'w labyddio wrth borth ei drigfan. Iaith drom y ddeddf yn erbyn yr hwn "a chwanegai feddwdod at syched" oedd, "Ni fyn yr Arglwydd faddeu iddo; ond dilea ei enw ef odditan y nefoedd." Y gorchymyn i Aaron oedd—"Gwin a diod gadarn, nac yf di, na'th

feibion gyda thi, pan ddelych i babell y cyfarfod; fel na byddoch feirw. Deddf dragwyddol drwy eich cenedlaethau fydd hyn."

Un o ddywediadau doethineb Solomon oedd—"Y meddw a'r glwth a ddaw i dlodi:" ac y mae ei ddarluniad o flys ac o wallgofrwydd y meddwyn yn anghymharol o gryf ac effeithiol—"I bwy y mae gwae? i bwy y mae ochain? i bwy y mae cynhen? i bwy y mae dadwrdd? ac i bwy y mae gweliau heb achos? i bwy y mae llygaid cochion? I'r neb sydd yn aros wrth y gwin: i'r neb sydd yn myned i ymofyn am win cymysgedig. Nac edrych ar y gwin pan fyddo coch, pan ddangoso ei liw yn y cwpan, pan ymgynhyrfo yn iawn. Yn y diwedd efe a frath fel sarph, ac a biga fel neidr. Dy lygaid a edrychant ar wragedd dyeithr, a'th galon a dractha drawsedd. Ti a fyddi megys un yn cysgu yn nghanol y môr, ac fel un yn cysgu yn mhen yr hwylbren. Curent fi, meddi, ac ni chlafychais; dulient fi, ac nis gwybum: pan ddeffrowyf, mi a âf rhagof; mi a'i ceisiaf drachefn." Dywed mewn man arall—"Nid gweddaidd i frenhinoedd, O Lemuel, nid gweddaidd i frenhinoedd yfed gwin; nac i benaduriaid ddiod gadarn: rhag iddynt yfed, ac ebargofi'r ddeddf, a newidio barn yr un o'r rhai gorthrymedig." Dywed hefyd—"Gwyn dy fyd di y wlad sydd a'th frenin yn fab i bendefigion, a'th dywysogion yn bwyta eu bwyd yn eu hamser, er cryfder, ac nid er meddwdod."

Fel hyn y mae Esaiah efengylaidd yn cyhoeddi gwaeau y meddwon—"Gwae y rhai a gyfodant yn foreu i ddilyn diod gadarn, a arosant hyd yr hwyr hyd oni ennyno y gwin hwynt. Ac yn eu gwleddoedd hwynt y mae y delyn, a'r nabl, y dympan, y bibell, a'r gwin: ond am waith yr Arglwydd nid edrychant, a gweithred ei ddwylaw ef nid ystyriant. Am hyny y caethgludwyd fy mhobl, am nad oes ganddynt wybodaeth; a'u gwŷr anrhydeddus sydd newynog, a'u lluaws a wywodd gan syched. Herwydd hyny ymeangodd uffern, ac yr agorodd ei safn yn anferth; ac yno y disgyn eu gogoniant, a'u lluaws, a'u rhwysg, a'r hwn a lawenycha ynddi." Dywed mewn man arall—"Gwae goron balchder meddwon Ephraim; yr hwn y mae ardderchawgrwydd ei ogoniant yn flodeuyn diflanedig, yr hwn sydd ar ben y dyffrynoedd breision; y rhai a orchfygwyd gan win. Dan draed y sethrir coron balchder meddwon Ephraim."

A dywed yr un prophwyd mewn man arall—"Hwy a gyfeiliornasant trwy win, ac a amryfusasant trwy ddiod gadarn: yr offeiriad a'r prophwyd a gyfeiliornasant trwy ddiod gadarn; difawyd hwy gan win; cyfeiliornasant trwy ddiod gadarn; amryfusasant mewn gweledigaeth, tramgwyddasant mewn barn. Canys y byrddau oll sydd lawn o chwydfa a budreddi, heb le

glan." Hosea a ddywed, "Godineb, a gwin, a gwin newydd, a ddwg y galon ymaith." Ac fel hyn y gwaeddai Joel yn erbyn y meddwon, "Deffrowch, feddwyr, ac wylwch; ac udwch, holl yfwyr gwin, am y gwin newydd, canys tòrwyd ef oddiwrth eich min." Dywed Nahum, "Tra y meddwont fel meddwyn, ysir hwynt fel sofl wedi llawn wywo." Dywed Habacuc, "Gwae a roddo ddiod i'w gymydog; yr hwn wyt yn rhoddi iddo dy gostrel, ac yn ei feddwi hefyd, er cael gweled eu noethni hwynt. Llanwyd di o warth yn lle gogoniant; ŷf dithau hefyd, a noethir dy flaengroen; ymchwel cwpan deheulaw yr Arglwydd atat ti, a chwydiad gwarthus fydd ar dy ogoniant."

Nôd duaf yr Iesu ar gymeriad y gwas anffyddlawn yw, "bwyta ac yfed gyda'r meddwon." Y mae felly yn gwario amser ei Arglwydd, yn esgeuluso ac yn dyfetha eiddo ei Arglwydd, ac yn ei galedu ei hun i ladrata ei eiddo; ac i guro ei gydweision, ac i feddwl ei fod allan o gyrhaedd pob cyfrifoldeb. Un o'i rybuddion pwysfawr i'w ddysgyblion ydyw, "Edrychwch arnoch eich hunain, rhag i'ch calonau un amser drymhau trwy lythineb a meddwdod, a gofalon y bywyd hwn; a dyfod y dydd hwnw arnoch yn ddisymwth. Gwyliwch, gan hyny, a gweddïwch bob amser ar gael eich cyfrif yn deilwng i ddianc rhag y pethau hyn oll sydd ar ddyfod, ac i sefyll ger bron Mab y dyn." Un o gynghorion Paul i'r eglwys yn Rhufain oedd, "Rhodiwn yn weddus, megys wrth liw dydd; nid mewn cyfeddach a meddwdod, nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynhen a chenfigen." Yr oedd yn ystyried fod chwantau eraill y cnawd yn cael eu porthi a'u cryfhau trwy gyfeddach a meddwdod. Wrth ysgrifenu at y Corinthiaid, yr oedd yn rhesu y meddwon gyda'r masweddwyr, a'r gwrrywgydwyr, a'r lladron, a'r cybyddion, a'r cribddeilwyr; ac yr oedd yn cyhoeddi yn hyf na chânt etifeddu teyrnas Dduw. A dywed Pedr wrth ysgrifenu at y credinwyr oeddynt ar wasgar trwy y gwledydd—mai "digon oedd yr amser a aeth heibio o'r einioes i weithredu ewyllys y Cenedloedd, gan rodio mewn trythyllwch, trachwantau, meddwdod, cyfeddach, diota, a ffiaidd eulunaddoliad." Yr oedd yn annog "llwyrymataliad" oddiwrth y fath bechodau.

V. Beth yw ein dyledswydd *ni* yn wyneb y drwg ofnadwy o feddwdod? Dylem ddefnyddio ein holl ddylanwad moesol yn ei erbyn. Dylem arfer pob serch a dawn sydd genym i ddenu ac addysgu, a chynghori a rhybuddio, ein cyfeillion a'n cydnabod i ymgadw o gyrhaedd y fath brofedigaeth. Dylem arfer pob moddion moesol mewn ysbryd boneddigaidd ac addfwyn, gyda'r teimladau tyneraf, a chyda gweddïau taerion, am i ddylanwad

Ysbryd y gras gydweithio â'r moddion. Y mae genym hyder cryf yn effeithioldeb moddion moesol, ond iddynt gael eu defnyddio mewn dull ac mewn ysbryd priodol: ond os bydd rhyw gar neu gyfaill i ni yn glynu yn ei lygredd, yn ymgyndynu yn ei wallgofrwydd, ac yn mynu porthi ei flys llofruddiog, er pob rhybudd, a chynghor, a chymhelliad; a thrwy hyny yn gwneud cam, nid yn unig â'i gorff a'i enaid ei hun, ond â'i deulu, ac â'i gymydogion, ac â'i wlad, yr ydym am i'r cyfryw gael ei ddwyn i'r porth o flaen henuriaid ei ddinas, neu, mewn geiriau eraill, i lys barn, o flaen mainc ynadon ei gymydogaeth, i gael ei brofi gan ddeuddeg o reithwyr; ac yr ydym am i hanes ei droseddau, ar ol cael ei chwilio yn deg, gael ei wneud yn gyhoeddus. Ni byddem dros ei gloi yn y cyffion yn y groesffordd yn ngolwg y byd, nac am ei gloi mewn daeargell oer allan o olwg y byd: ni byddwn dros ei labyddio, na thros ei ddarn newynu; ac ni byddwn dros ei ddirwyo, oblegid ni wna hyny fawr o les, ond tlodai ei deulu. Byddwn am iddo gael ymborth ac ymarferiad iachus i'w gorff ac i'w feddwl; ond byddwn am ei gadw yn dyn *dan iau* i gyflawni rhyw waith buddiol er iechyd i'w gorff, er cysur i'w feddwl, ac er ennill i'w deulu. Byddwn yn foddlon iddo gael ail gynnyg ar ei ryddid, ar ol ychydig wythnosau o ddysgyblaeth yr iau; ond cymerwn ef eilwaith i'r ddalfa yn uniongyrchol ar ol ei drosedd cyntaf; a mynwn ei dori oddiwrth ei ddrwg-arferiad, neu byddwn dros ei gadw mewn caethiwed dros ei holl ddyddiau. Byddwn am iddo gael gwaith iachus er lles ei gorff, a manteision addysg i'w feddwl, a moddion gras er lles ei enaid; ond ni chai fod mewn rhyddid i ddystrywio ei amgylchiadau, ac i ladd ei ddefnyddioldeb, ac i andwyo cysuron ei deulu, ac i ddamnio ei enaid trwy ddilyn ei feddwdod.

Yr wyf yn credu mai ychydig iawn o ddysgyblaeth yr iau fyddai yn angenrheidiol, pe byddai i bawb ymgodi i gydarfer eu dylanwad *moesol* yn erbyn y fath arferiad andwyol. Dylai gweinidogion yr efengyl, ac athrawon crefyddol, gyhoeddi tystiolaethau y Beibl heb ddim bloesgni yn erbyn y drwg.. Dylai meddygon ddefnyddio eu gwybodaeth, eu doniau, a'u cyfleusderau swyddol, fel esbonwyr anhwylderau y corff, i annog eu cyddynion i ochel y drwg. Dylai rhieni rybuddio eu plant o'r cryd yn ei erbyn, a defnyddio eu hawdurdod i'w cadw o gyrhaedd y brofedigaeth. Dylai mamau, a gwragedd, a chwiorydd, a merched ieuainc, osod eu hwynebau teg yn ddiysgog yn ei erbyn. ac arfer eu doniau effeithiolaf, eu llais, a'u llygaid, a'u gwenau, a'u dagrau, i weithio yn ddiorphwys yn ei erbyn yn mhob cylch lle byddont. Dylai penau teuluoedd ofalu na byddo i neb sydd

dan eu gofal ymollwng i'r brofedigaeth tra byddont yn eu gwasanaeth. Dylai eglwysi Crist weinyddu cyfraith ei dŷ yn ddiarbed ac yn ddiduedd yn ei erbyn. Dylai awdwyr ysgrifenu mwy yn ei erbyn. Dylai beirdd ganu mwy yn ei erbyn. Dylai yr arliwydd ddefnyddio ei liwiau cryfaf i ddarlunio ei wrthuni ar ei gynfas fwyaf. Dylai tafarnwyr barotoi bwyd a diod maethol ac iachus i'w gosod ger bron y teithwyr fyddont yn galw heibio iddynt. Dylai y rhai a lithiwyd i fin ceulan dinystr gan hudoliaethau cyfeddach a diota, rybuddio eu cyfeillion o'r perygl yn y dull mwyaf sobr; ac ond cael y pleidiau hyn oll i gydarfer eu dylanwad moesol yn erbyn y drwg, ni byddai dim llawer o waith i ynadon a rheithwyr. Ond os methir attal y meddwyn i ymgyndynu yn ei wallgofrwydd drwy unrhyw foddion *moesol*, yr wyf yn meddwl y dylai swyddogion cyfraith, fel gweinyddwyr cyfiawnder gwladol, ac amddiffynwyr iawnderau cymdeithas, ddyfod yn mlaen yn ddioed a'i gipio megys o'r tân, a'i achub o grafangau dinystr; nid i'w boeni a'i gosbi, ond o drugaredd ato, i'w gadw yn ddiogel allan o swynion hudol ei ddamnedigaeth.

VI. Beth yw yr annogaethau sydd genym *ni* i gydymdrechu yn erbyn y drwg ofnadwy o feddwi?

1. Y mae yr hyn a allwyd wneud yn y deng mlynedd diweddaf yn dra annogaethol i ni. Yr ydys wedi sefydlu dros fil o Gymdeithasau Dirwest, yn cynnwys tua dwy filiwn o aelodau. Y mae dros saith mil o fasnachwyr gwirod wedi cau i fyny eu masnach. Y mae dros fil o longau yn hwylio dros y tònau heb ddim gwirod ynddynt. Y mae gofynion yr *Insurance Offices* yn llai ar y masnachdai, a'r gweithdai, a'r llongau lle y mae dirwest yn cael teyrnasu, nag ar y rhai lle nad yw yn cael dylanwadu. Y mae cannoedd o filoedd o'n cyd-ddynion o bob oed, ac o bob galwedigaeth, wedi rhoddi heibio yfed y diodydd meddwol, ac y maent yn teimlo yn iachach ac yn gryfach, ac yn llawer dedwyddach i weithio nag o'r blaen. Y mae cannoedd o feddygon enwocaf y gwledydd wedi cyhoeddi tystiolaethau yn erbyn y diodydd meddwol fel diodydd cyffredin. Y mae nifer mawr o bendefigion y deyrnas yn dyfod yn mlaen mewn ysbryd boneddigaidd i bleidio diwygiadau dirwestol. Y mae cyfarfodydd y gwahanol Gymdeithasau Dirwestol yn amlhau, ac yn trymhau o ran eu heffeithioldeb; ac y mae amddiffynwyr egwyddorion dirwest, nid yn unig yn lluosogi yn feunyddiol, ond yn dyfod yn fwyfwy penderfynol. Ac y mae yr argraffwasg yn troi allan, o bryd i bryd, draethodau grymus ac emynau cynhes yn erbyn yr yfed a'r meddwi sy'n bod yn y byd. Y mae y pwnc pwysfawr yn cael ei ddeall yn llawer gwell yn awr nag ydoedd ddeng mlynedd yn ol.

2. Byddai buddugoliaeth gyffredinol achos dirwest yn elw annhraethol i hoff wlad ein genedigaeth. Nid hawdd dirnad fel yr ysgafnheid gofalon a threuliau ei llysoedd gwladol a'i heddgeidwaid, a'i sefydliadau cosb. Ysgafnheid befyd ei threthoedd at gynnaliaeth y tlawd a'r anghenus, oblegid darfyddai tlodi o'r tir. Rhoddid cyfnerthiad newydd a hwylusdod cynnyddol i bob gwelliantau gwladol, ac i bob sefydliadau buddiol. Pe gellid troi y triugain miliwn o bunnau sydd yn awr yn cael eu gwario i ddyrysu a thlodi ein gwlad, i'w chyfoethogi a'i threfnu, nid oes neb fedrai gyfrif na darlunio maint y cyfnewidiad er daioni. Effeithiai hyny yn ddymunol, nid yn unig ar ei masnach a'i chelfyddyd, ar ei hamaethyddiaeth, a'i ffyrdd, a'i hadeiladau, ond ar ei threfn a nerth ei hiechyd, ac ar ei dysg a'i moesau; ac y mae y fath ragolwg yn gymhelliadol i ni ymorchestu gyda'r gwaith.

3. Effeithiai buddugoliaeth dirwest er cynnydd a llwyddiant yr eglwysi, a'r gwahanol gymdeithasau crefyddol. Byddai degwm gwastraff y diodydd meddwol yn ychwanegiad ardderchog a gwerthfawr at drysorau tŷ yr Arglwydd, ac yn llif byw nerthol i droi olwynion ein Cymdeithasau Beiblaidd a Chenadol, a'n sefydliadau addysg ac elusen, yn llawer cyflymach nag y maent yn troi yn bresenol; a dylai hyny ein cymhell i ymorchestu gyda gwaith mor bwysig ac ennillfawr.

4. Pe llenwid ein gwlad â dirwest, effeithiai hyny fel esiampl yn ddymunol iawn ar wledydd eraill. Y mae yn alarus i ni feddwl fod morwyr a milwyr Prydain Fawr wedi cludo diodydd meddwol gyda hwy i holl wledydd eu hymdaith; a'u bod wedi dysgu brodorion anwaraidd ei thaleithau pellenig i gymysgu diodydd gwallgofrwydd a marwolaeth, ac wedi eu cynhyrfu i'r arferiad o yfed a meddwi. Y mae yn llawn bryd i blant dirwest ymorchestu i ddattod eu gweithredoedd creulawn, ac i geisio dadwneud y drygau ofnadwy a gyflawnwyd felly.

Mae nifer mawr o ffyddloniaid selog achos dirwest yn yr ardal yma. Y maent wedi bod yn ddiwyd a defnyddiol y misoedd diweddaf; a gobeithio y cânt y fraint o barhau yn ffyddlon nes ennill tir lawer etto, ac nes cael gorphen eu gyrfa mewn anrhydedd a gorfoledd.

CRYBWYLLIADAU MEWN CYFARFOD DIRWEST YN 1836.

Y mae rhai yn gofyn i ni—Pa raid y drafferth o ymgymdeithasu, ac o gynniwair i gyfarfodydd, er pleidio dirwest? Oni byddai

yn well i bob un wneud ei oreu mewn modd dystaw, personol, a dirodres? I hyn gellir ateb, yn

1. Nad yw y cymdeithasu a'r cyfarfod ddim yn attaliol i neb wneud ei oreu mewn modd personol.

2. Ei bod yn *hen* arferiad ragorol i ymgymdeithasu er pleidio achosion da, yn wladol ac yn eglwysig.

3. Fod dawn a phrofiad y naill mewn cymdeithas yn galondid ac yn gefnogiad, ac yn addysg i'r llall.

4. Fod anghymedroldeb wedi cynnyddu i fod yn ddrwg mor eang, a'i fod yn effeithio mor niweidiol ar gymdeithas, fel y mae yn angenrheidiol *ymfyddino* yn ei erbyn. A rhaid i bob cymdeithas *gyfarfod* ryw bryd, onide ni bydd yn gymdeithas; a dichon mai esboniadau mewn cyfarfodydd cyhoeddus fel hyn ydyw y fiordd gyflymaf ac effeithiolaf i gynhyrfu ymchwiliad i ledaenu gwybodaeth, ac i ennyn teimlad gyda golwg ar y pwnc.

Y mae rhai ag ydynt yn condemnio gwinoedd a gwirod fel diodydd afiach a niweidiol, yn cyfiawnhau cwrw fel diod faethol ac iachus. Mewn atebiad i'r cyfryw, gellir sylwi—Fod dros ddeugain mil o filoedd o fesurau o frag yn cael eu gwneuthur bob blwyddyn yn y deyrnas yma. Y mae hyny, yn ol saith swllt y mesur, yn werth pedair miliwn ar ddeg o bunnau. Bernir gan y rhai sydd wedi chwilio fanylaf i'r mater, mai gwerth deg ceiniog o faeth sydd mewn gwerth punt o gwrw. Y mae felly dros bedwar swllt ar bymtheg o bob punt yn cael eu gwastraffu yn ddiles; a pha fodd y gall y fath *wastraff* fod yn amddiffynadwy? Y mae meddygon penaf y byd wedi cyhoeddi fod *pob* diodydd alcoholaidd yn niweidiol i'r cyfansoddiad. Ac y mae y dynion sydd heb byth brofi cwrw, mor iach, mor gryf, mor fywiog, ac mor weithgar, ïe, ac yn fwy felly, na'r rhai sy'n arfer yfed y fath ddiodydd.

Y mae *cynnydd* y fasnach mewn gwirod yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf wedi bod yn ddychrynadwy. Lle yr oeddid ugain mlynedd yn ol yn yfed galwyn, yr ydys yn awr yn yfed dros dri: y mae y naw miliwn wedi chwyddo i naw miliwn ar hugain; y mae y wlad yn cael ei handwyo yn gyflym; ac os nad all ein *llywodraeth* gref wneuthur rhywbeth i attal y dinystr, ni waeth heb son byth am ei henwogrwydd, nac am nerth ei dylanwad. Traddodwyd i garchar am feddwdod mewn un flwyddyn yn Llundain tua deng mil ar hugain, ac yn Liverpool tua deng mil: ond nid yw o nemawr ddyben i fyned i'r draul o garcharu ac o gosbi tra y mae tai *trwyddedig* y brofedigaeth yn cael eu goddef i luosogi ar bob llaw.

Yr ydys wedi cyfrif fod tair mil o filoedd o bunnau (£3,000,000)

yn cael eu gwario yn Llundain bob blwyddyn am *gin*, a hyny yn benaf gan y tlodion mwyaf anghenus. Y mae eu gwisgoedd carpiog, a'u seleri, anneddau gweigion, a'u crwyn budron yn ddianrhydedd i ddinas Llundain. Buasai golwg wahanol iawn arnynt pe buasent yn gwario y tair miliwn i brynu bwydydd maethol a dillad cynhes, a moddion glanhad eu cyrff, eu dillad, a'u hystafelloedd. Estynent felly eu dyddiau, a dyddiau eu plant ar eu hol; a byddent yn iachach, ac yn gryfach, ac yn llawer iawn dedwyddach. Y mae bai echrydus ar awdurdodau y ddinas am eu gadael yn nghanol y profedigaethau sy'n arwain yn anocheladwy i'r fath warth a thrueni.

Yr ydys yn ol y cyfrifon iselaf (oblegid y mae yn rhy anhawdd cael cyfrifon llawnion), yn yfed yn y deyrnas yma, bob blwyddyn, bum' miliwn ar hugain o alwyni o wirod, saith miliwn o alwyni o winoedd, a deuddeg miliwn o farilau o gwrw ac o borter; y cyfan yn werth *llawer* dros driugain miliwn o bunnau. Wrth gymharu cyllidau ein cymdeithasau crefyddol â'r gwastraff dirfawr yma, y mae yn wir alarus i feddwl am iselder eu tlodi. Y mae amryw o'r prif farnwyr wedi cyhoeddi yn ddiweddar mai yfed diodydd meddwol oedd yr achos o gyflawniad 99 o bob cant o droseddau ein gwlad. Nid anamserol fyddai crybwyll yma fod dros bum' miliwn o bunnau yn cael eu gwastraffu yn ein gwlad bob blwyddyn am *dybaco;* fod dros bum' mil yn cael eu gwario yn nghylch bychan gweithiau Beaufort, dros ddeugain mil yn Merthyr, a thros hanner can' mil yn Nghaerdydd. Byddai yr hyn a warir yn y tri lle *Cymreig* a enwyd yn ddigon i adeiladu cant o gapeli da, yn ddigon i brynu mil o filoedd o Feiblau, neu i gynnal cryn fil o ysgolfeistri. O na fedrid llwyddo i alltudio y diodydd meddwol a'r tybaco o gylchoedd enwog Mynwy a Morganwg. Y mae plwyfydd bychain yn y Gogledd yn gwario pum' cant y flwyddyn am dybaco; a phlwyfydd eraill yn gwario mil; a rhai yn gwario dros dair mil. Y mae yn drueni arswydus i dreulio y fath symiau o arian, nid yn unig heb wneud dim lles, ond i wneud drwg mawr i gyrff a meddyliau; ac i fod yn attalfa ar ffordd addysg a chrefydd. Bydd yr adgofion am gyfrifon y diodydd meddwol a'r tybaco yn destun syndod i'n holoeswyr yn amser iechyd a llwyddiant y mil blynyddoedd. Y mae y fath arferion niweidiol yn digio Duw, yn dianrhydeddu Crist, yn tristâu yr Ysbryd; ac y mae llywodraeth y nef yn galw am i ni gydymorchestu i'w diwreiddio o'n gwlad ac o'r byd.

Clywais gyfaill yn ddiweddar yn cymharu y Gymdeithas Ddirwestol i'r "Wraig dda" yn Llyfr y Diarhebion—"Gwerthfawrocach yw hi na'r carbwncl. Calon ei gwr a ymddiried ynddi, fel

na bydd arno eisieu anrhaith. Hi a wna iddo les holl ddyddiau ei bywyd. Hi a gais wlan a llin, ac a'i gweithia â'i dwylaw yn ewyllysgar. Tebyg yw hi i long marsiandwr; hi a ddwg ei hymborth o bell. Hi a gyfyd liw nos, ac a rydd fwyd i'w thylwyth, a'u dogn i'w llancesau. Hi a feddwl am faes ac a'i prŷn, ac a'i gwna yn ffrwythlawn drwy waith ei dwylaw. Hi a wregysa ei lwynau â nerth, ac a gryfha ei breichiau. Hi a egyr ei llaw i'r tlawd, ac a estyn ei dwylaw i'r anghenus. Nid ofna hi am ei thylwyth rhag yr eira; canys ei holl dŷ hi a ddilledir âg ysgarlad. Nerth ac anrhydedd yw ei gwisg; ac yn yr amser a ddaw hi a chwardd. Hi a graffa ar ffyrdd tylwyth ei thŷ; ac ni fwyty hi fara seguryd. Ei phlant a godant ac a'i galwant yn ddedwydd, ei gwr hefyd, ac a'i canmol hi. Rhoddwch iddi o ffrwyth ei dwylaw; a chanmoled ei gweithredoedd hi yn y pyrth." Cymharai brawd arall y gymdeithas i feddyges dyner, rad, ymgeleddgar, yn gwella clwyfau eu meddwdod ar bawb ddeuant ati. Cymharai arall hi i drysorydd gofalus yn talu llog da am yr hyn a roddir dan ei gofal. Cymharai arall hi i arolygwr doeth yn darparu bwyd a dillad a phob cysuron i'r rhai sydd dan ei gofal. Y mae y diwygiad mawr dirwestol wedi tòri i lawr lawer o hen arferion a defodau tra niweidiol, ac y mae wedi gwneud llawer o les, mewn llawer ffordd. Bydd ein tymmor ni i'w bleidio yn fuan wedi myned heibio; gan hyny, ymegnïwn yn awr er mwyn lles ein gwlad, ac er mwyn enw ein Duw.

ADDRESS AT A TEMPERANCE FESTIVAL, AUG., 1837.

It is one of the first articles of my political creed, that the earth can comfortably support its inhabitants, that it can richly sustain all its children; and that it could support them *multiplied* a hundred fold; and support them *well*, as "Independent Gentlemen."

I see by the shake of your head and the expression of your countenance, that you do not receive my creed. But listen for a few moments. My definition for an independent gentleman is: a man that has a full home, that has plenty to *eat*, and plenty to *wear*, and plenty to *do;* that has wholesome *food*, and comfortable *clothing*, and useful employment. If a man be without *either* of these blessings, he is not an independent gentleman. If he has no *food*, he is not an independent gentleman. If he has no *clothes*, he is not an independent gentleman. And if he has nothing to *do*, he is not an independent gentleman; but every man

that has food, and raiment, and work, is a gentleman in the best sense of the term; and may walk erect, and speak his mind at all times and on all occasions.

I wish all my countrymen, and especially all my neighbours, to become "*Independent Gentlemen.*" And I maintain that the EARTH, if rightly treated, and properly managed, could nobly support them as such; that she could give them plenty to *eat*, and plenty to *wear*, and plenty to *do*. But the question is—Are all the inhabitants of the earth, are all our countrymen, are even all our neighbours, independent gentlemen? The answer must be, No. What then is the cause? Where lies the blame? Is it the fault of Providence? Has its wonderful machinery become deranged so as to be useless, or so as to work against its established ordinances? Oh, no. Is it the fault of the elements, or laws of nature, of the sun, or the moon, or the stars, of the sea or the soil, of the air or the clouds, of the morning dew or the genial shower, of the purling rippling stream or the calm majestic river, of the trees of the forest or the grass of the field, of the flowery mead or the waving corn? Oh, no. Is it then the fault of the *animal* creation, of the noble horse, or the milch cow, or the innocent sheep? No, sir; no, gentlemen. Is it then the fault of unseen spiritual agencies, the fault of angels, or devils, or magicians? No, no, my hearers. Where then lies the blame? Whose is the fault? We are forced to confess that it is the fault of *man*, the folly and error of man, the reckless extravagance and woful mismanagements of *man;* and one of the principal causes has been *the use of intoxicating drinks.*

I admit that there have been *other* causes, but strong drink has been one of the chief. *War* has been a fruitful source of disorder and devastation, of distress and wretchedness. It cost this country, in the short space of twenty years, seven hundred millions, and we must toil and groan for many a long year under the cruel burdens it has imposed upon us. *Litigation* has been another source of distress, and has destroyed the peace and swallowed up the comfort of many a once happy family. *Idleness* has also led thousands to poverty and temptation, to wretchedness and disgrace and death. *Pride*, too, has destroyed the character and usefulness and honour and happiness of tens of thousands. *Gambling* has disgraced and ruined thousands. *Tobacco* has injured the health, and robbed the purse, and spoiled the comfort of many an individual and many a family; but I repeat that THE USE OF INTOXICATING LIQUORS is one of the chief sources of evil to this country. Plain statements of their direful

effects on both mind and body, on the comforts of families and the morals of communities, have again and again been placed before you. They occasion to our country an annual loss of more than eighty thousand millions; and if we knew how to include fully in our calculations the losses and expenses which they occasion as a prolific cause of disasters and crimes, the amount would be much more than one hundred millions. And might not such a vast sum be more beneficially employed in improving the condition of the labouring poor—in promoting the cause of universal education—in accomplishing public works of general utility—in encouraging the cultivation of all useful arts—and in diffusing the heavenly light and invaluable blessings of the Gospel of Jesus Christ?

But though the earth has been long subject to vanity, though the "creature" has been long kept as an unwilling and unhappy captive in the bondage of this corruption, it is to be delivered; and I believe that the time of its redemption is drawing near; and I believe that it is to be delivered, or redeemed, not so much by legislation, not so much by the discipline of penitentiaries, not by the lash or the edge of the sword—but by the voluntary use of moral means, by the instrumentality of such means as the discussions, and arguments, and appeals of such meetings as these, by such agencies as those of these Temperance Societies: I regard this Total Abstinence Society as an important branch of that system of moral means that much be used for the reformation of the world.

I admire the principles of the Society, and rejoice in the great and wide success of the operations. It uses no compulsion. It violates no conscience. It inflicts no pains or penalties. It candidly and manfully states its case and its aim. It invites attention and examination, and allows all to judge for themselves, and to act according to their convictions. It appeals to the laws of reason and religion. If any approve of its designs, and are ready to enlist under its banner, it receives them smilingly, and with open arms. To those who stand aloof and decline to join the bands that follow its standard, its says affectionately—I think you are not on the safest ground, that you are not on the high road to usefulness and honour. To those who insultingly and most unfairly oppose its progress, it calmly says—Let my claims and deeds be fairly examined in the light of both reason and revelation. Let them be tested by the laws of both physical and moral science. Let them be considered in the prospect of death and judgment, and let conscience pronounce its verdict.

To those who, tired of its fare and fellowship, wish to withdraw from its guidance and protection, it feelingly says—If I have in any way injured you—if I have emptied your pockets, if I have corrupted your appetites—if I have devoured your strength, if I have weakened your mental powers, if I have blunted your moral perceptions, if I have burdened your conscience, or disturbed your domestic peace, if I have curtailed the inheritance of your children, if I have entangled you in any embroils with your neighbours, if I have in any way impoverished or dishonoured your country, and have lowered your standing in the church or world—withdraw: but if not, pause and consider before you desert and betray me.

Indeed, I like this Society on personal grounds. It has done me good. Ninety-nine out of every hundred of my days were spent without tasting any strong drink; but I should have been glad if I could have said one hundred out of every hundred. I wish I had been a teetotaler from my birth. I have had several heavy journeys this summer, and some long days of travelling through heat and dust; and am sure I was able to bear the toil and to manage better in every respect on the total abstinence principle, than in the old way of taking a glass to help my spirits at starting, and another to relieve my fatigue at the end of the day: and my own experience in the case has been confirmed by the testimony of hundreds that might have been named—not only men of active labour, and diligence in business, but men of the very highest standing as philosophers and legislators, and moralists, and divines—by philosophers of the Franklin school—by parliament men of the Manners Sutton school—by preachers of the Angel James school—by divines and scholars of the Pye Smith school—by travellers of the Silk Buckingham school—and by a host of physicians of the widest reputation and most eminent character. And thousands of our friends around us are ready to testify that they can eat and sleep, and walk and work, and buy and sell, and think and speak, and read and write, that they can plow, and sow, and reap, and spin, and weave, and chop, and hammer, and cast a sum, and solve a problem, and mourn with those that mourn, and smile with those that smile, better without these alcoholic drinks than for their assistance.

I hope that our good friends here who have joined this Society will keep their pledge most sacredly, both at home and abroad; that they will stand firm to their banner and their profession, and defend their principles and their conduct in a *mild Christian spirit*. The "meekness of wisdom" ought to characterize

all our pleadings in behalf of so good a cause. I am persuaded that moral means, carried out in a meek spirit, is the most effectual way to remedy the mighty evil of intemperance that had well nigh ruined our beloved country; and which, if allowed to *grow* during the next thirty years, as it *did* grow during the past thirty years, will inevitably work its ruin.

I would respectfully entreat the inhabitants of this place to arm themselves against all sinful habits and indulgences: against all extravagance and idleness; and especially against tobacco and intoxicating drinks; and then you need fear neither rent-man nor tax-man, nor tythe-man, nor poor-law commissioner, nor bankruptcy commissioner, nor crib, nor workhouse, nor prison: you will become "*Independent Gentlemen.*" * * And flee to the Saviour and rely on his great atonement, and you will be made heirs of eternal riches, and glory and joy; and need fear neither the powers of the world, nor the powers of the grave, nor the powers of hell; but will rise in the end to be of the number of the noblemen of heaven.

ANERCHIAD MEWN CYFARFOD BEIBLAU YN 1829.

Pan bechodd dyn, ymdaenodd nos ddu oer dymhestlog dros y byd. Nid oedd seren i'w gweled, nac arwydd gwawr o un cwr. Nid oedd unrhyw swn i'w glywed, ond adswn ochenaid dyn dan glwyf angeuol, yn ymdrybaeddu yn ei waed, ac yn ymlusgo yn y tywyllwch tua cheulan dinystr; a seirph uffern yn ymlusgo ac yn chwythu eu gwenwyn o'i ddeutu. Ond deallodd trugaredd am ei gyflwr poenus ac enbyd, a rhedodd at orsedd nef, i estyn un o lampau llys gogoniant, ac chedodd i lawr yn gyflym ar edyn tosturi, a chanwyll fawr ysbrydoliaeth yn ei llaw, er rhoddi goleuni i ddyn truenus i adnabod ei gyflwr ofnadwy, ac i ddeall y ffordd iddo gael meddyginiaeth a dihangfa. A'r lamp oleu ddysglaer hono a ddygwyd i'r byd gan drugaredd ydyw y Beibl —llusern fawr y nefoedd, a seren ddydd tragwyddoldeb. Y mae lamp y Beibl yn gwasgaru goleuni dysglaer dros donau geirwon môr tymhestlog twyllodrus y byd, ac yn dangos porthladd dymunol gwlad y gwynfyd. Y mae yn taflu goleuni ar waelodion glyn cysgod angeu, ac yn dangos porth dysglaer tir y bywyd. Y mae yn chwalu y niwl dudew sy'n toi bro marwolaeth, yn taflu goleuni tawel i ystafelloedd y bedd, ac y mae yn llewyrchu ar olygfeydd gogoneddus yr adgyfodiad, ac ar feusydd gwyrddion

a gerddi blodeuog paradwys, a bryniau heulog iachus gwlad anfarwoldeb.

Y mae pob dyn sydd heb y goleuni nefol hwn fel morwr heb gwmpawd na seren, heb lyw, nac angor, na gobaith, yn ei gwch-yn bychan brau, yn cael ei luchio gan dònau llygredd yn ol ac yn mlaen, rhwng creigiau a llwnclynoedd, ac mewn perygl bob moment o golli ei fywyd. Y mae fel pererin blinedig, unig, afiach, mewn lle anial, dyrys, yn ymyl maglau a phydewau, ac yn nghanol dreigiau a llewod, ac heb wybod pa fodd i hwylio ei gerddediad i unrhyw le o ddedwyddwch. Y mae fel claf egwan mewn awyr heintus, heb neb i'w ymgeleddu, ac heb wybod dim am na meddyg na meddyginiaeth.

Golwg dywyll iawn oedd ar Brydain, gwlad hoff ein genedigaeth, cyn cael goleuni y Beibl. Yr oedd ynddi lwyni ac uchelfeydd, a chylchoedd, a chromlechau cysegredig i dduwiau gau; a byddai gwaed dynol, ar brydiau, yn lliwio eu hallorau. Yr oedd meibion a merched i'r hen wraig o Endor, a nifer mawr o geraint Simon Magus, a meibion Scefa, yn gwibio yma a thraw dros ei moelydd iachus, a thrwy ei glynoedd cauadfrig, ac yn eistedd ar ei ffynnonau a'i ffrydiau, i'w llenwi âg ofergoelion o ymyl i ymyl; ond y mae goleuni y Beibl wedi eu hymlid i'w llochesau, ac wedi tòri nerth eu swynion.

Dywedai Cicero, gynt, fod y Brythoniaid yn rhy bendew a diymenydd i wneud hyd yn nod y dosbarth isaf o gaethweision: ond magwyd wedi hyny yn Mhrydain, dan addysg y Beibl, ddynion dyfnach ac eangach eu gwybodaeth, dysgleiriach a grymusach eu doniau, a hawddgarach a phurach eu moesau na neb o bobl Cicero. Y mae heddyw yn ein hamser ni, rai Europiaid culion ac uchelfrydig, sef y rhai a wyddant leiaf am egwyddorion y Beibl, yn ystyried rhai o'r Paganiaid, ac yn enwedig llwythau canolbarth a Deheubarth Affrica, yn frodyr i'r eppaod; ond ceir gweled cyn hir y codir oddiyno, yn ngoleuni lamp y Beibl, berlau dysgleiriach nag a godwyd erioed etto o gloddfa dynoliaeth.

Bu pobl Prydain, ac yn wir *eglwysi* Prydain, yn hir iawn heb feddwl na theimlo bron ddim dros eu "chwaer fechan" oedd heb fronau iddi; ond yn ei gadael ar wyneb y maes, naill ai i sugno gwenwyn dreigiau, neu i farw o syched a newyn. Ond o'r diwedd dechreuodd rhai dyngarwyr, llawn o oleuni a thosturi yr efengyl, fyfyrio ar gyflwr tlawd a digysur y rhai sydd heb y Beibl, a thra yr oeddynt yn myfyrio, ennynodd tân yn eu mynwesau, a llefarasant â'u tafodau wrth eu Duw, ac wrth eu gilydd; a dechreuwyd cynllunio mesurau a moddion i anfon gair y bywyd

i'r rhai sydd hebddo; ac yn mysg y gwahanol gynlluniau, un o'r rhai penaf oedd sefydliad y Feibl Gymdeithas i ledaenu y Beibl, a dim ond y Beibl—y Beibl heb sylw, nôd, nac esboniad, drwy yr holl wledydd; i anfon goleuni pur ysbrydoliaeth i'r rhai sy'n eistedd mewn tywyllwch; i anfon bara y bywyd i'r encidiau sy'n marw o newyn; i agor llwybrau i ffrydiau dyfroedd yr iachawdwriaeth lifo i gras-diroedd anial diffaeth coelgrefydd a marwolaeth.

Nid oedd y Gymdeithas ar ei chychwyniad ond egwan, nid oedd ond cwmwl bychan fel cledr llaw gwr yn dyrchafu o fôr trugaredd, uwch bryniau *Cymru;* ond y mae yn awr wedi ymledu dros y rhan fwyaf o'r wybren, ac yn dechreu tywallt ei gawodydd ireiddiol i gyrau llawer o wledydd. Nid oedd ar y cyntaf ond fel ffynnon fechan a darddodd rhwng bryniau Cymru, yrw bum' mlynedd ar hugain yn ol, ond chwyddodd wrth lifo yn mlaen, ac aeth yn afon fawr, gref, lydan, nofiadwy, i ddyfrhau gwastadedd mawr diffrwyth y byd; ac y mae, yn ol yr adroddiad diweddaf, wedi rhanu yn gryn dair mil o ffrydiau, o ba rai y mae miliynau lawer o'n cydanfarwolion yn cael tòri eu syched. Nid oedd ar ei dechreuad ond megys mesen fechan a gludwyd o Gymru, ac a blanwyd mewn braenar bras, draw yn y brifddinas; ond wrth ei dyfrhau gyda gofal dyfal, daeth yn blanhigyn uchel, iraidd; ac er i ystormydd oerion o'r gogledd, a phoethwyntoedd gwywawl o'r de, chwythu arno, lledodd ei wraidd gerllaw pob dyfroedd iachus, ac y mae yn awr wedi dyfod yn bren cysgodfawr, yr hwn sydd yn cyflym estyn ei ganghenau dros yr holl wledydd. Nid oedd ar y cyntaf ond megys càreg a dorwyd o'r mynydd, heb drwst na nerth llaw ddynol, ond y mae wedi treiglo yn barod, a myned yn fynydd mawr; ac y mae yn parhau i dreiglo rhagddo, gan gasglu nerth newydd bob blwyddyn, a malurio pob rhwystrau oddiar ei ffordd; a bydd yn fuan wedi llenwi y ddaear.

Y mae y Gymdeithas wedi cynnorthwyo eisoes i daenu y Beibl mewn cant a saith a deugain o ieithoedd, a'r rhan fwyaf o'r rhai hyny yn brif ieithoedd y byd. Y mae yn barod wedi dwyn can' mil o Feiblau, a dau can' mil o Destamentau i *Gymru;* ac y mae yn diwyd barotoi er i ni gael mwy o lawnder etto. Y mae yn gweithio yn egniol, fel y clywsom heddyw, mewn gwahanol barthau o'r byd; ond y mae ganddi lawer iawn o waith i'w wneud cyn dwyn i ben ei hamcan gogoneddus. Y mae yn anhawdd i ni yn awr ddirnad am y prinder Beiblau oedd ar ei chychwyniad, nid yn unig mewn gwledydd paganaidd, ond trwy deyrnasoedd Europ a Thaleithiau America. Y mae ugeiniau o filoedd o deuluoedd yn ein gwlad ein hunain heb y Beibl.

Cafwyd wrth chwilio yn y misoedd diweddaf, fod yn Birmingham *ddwy fil* o deuluoedd heb air Duw ganddynt; ac os cymerir tref Birmingham, yr hon sydd yn nghanol y wlad, ac yn lluosog ei chyfleusderau ac uchel ei breintiau, fel enghraifft o'r deyrnas, y mae heddyw dros gant a hanner o filoedd o dai cin gwlad ni, heb gyfrif yr Iwerddon, heb Feibl ynddynt! Y mae y cenadon enwog, o bob enwad, sy'n llafurio yn India, yn anfon adref fod y meusydd yno yn wynion i'r cynhauaf. Y mae yno ddrws agored a ffordd rydd i'r Beibl "redeg a chael gogonedd" yn mysg dros *gan' miliwn* o ddeiliaid Prydain, a miliynau lawer heblaw hyny o breswylwyr y Taleithiau Annibynol. Gan fod cymaint ag un ran o chwech o'r byd dan lywodraeth Prydain, byddai yn drwm alacthus i feddwl am i dreis a thwyll, a chybydd-dod a chribddeiliaeth cymdeithasau ei masnachwyr a'i milwyr, ladd dylanwad ei chymdeithasau crefyddol. Byddai buddugoliaethau Cristionogaeth yn llawer mwy cyflym, ac eang, ac effeithiol, pe ca'i hanner chwareu teg gan lywodraethau gormesol a chymdeithasau gorfaeliaeth. Dywedir fod ffydd Hindwaid India yn nefodau eu cyfundrefn o eulunaddoliaeth yn siglo hyd ei sylfaen: a bod hyd yn nod y Brahminiaid, yn gystal a'r miliynau Mahometaniaid sydd yno, yn barod i astudio ffeithiau ac athrawiaethau yr efengyl. Y maent oll yn addfedu am ryw gyfnewidiad. Y mae yn wir alarus i feddwl fel y mae cleddyf Lloegr, mewn rhai cylchoedd, yn gweithio yn erbyn cleddyf yr Ysbryd.

Cyfarfu y Feibl Gymdeithas â llawer o *wrthwynebiadau*. Y mae rhai llywodraethau cryfion yn gosod eu hwynebau yn ei herbyn; a hawdd dirnad eu rheswm am hyny, sef am fod ganddynt sefydliadau croes i ysbryd ac i gyfraith y Beibl. Y mae gwrdd-deirw Rhufain yn rhuo yn ei herbyn, ac y mae y mândeirw oll yn bugunad, ac yn taflu pridd i'r awyr a'u cyrn ac â'u traed, ac yn gwneud cilwg ofnadwy ar ei llwyddiant. Y mae yr Eglwys Babaidd drwyddi oll, o'i phen i'w thraed, yn gynhyrfus yn erbyn ei gweithrediadau. Y mae yr *hen* "Gymdeithas er lledaenu gwybodaeth Gristionogol," pan y buasid yn dysgwyl pethau gwell oddiwrthi, yn edrych yn ciddigeddus iawn ar ei llafur a'i llwyddiant. Y mae anffyddwyr am fwrw y Beibl allan o holl demlau y byd, ac am goroni duwies Rheswm yn ei le. Y maent am ladd dylanwad, purdeb, ac addfwynder yr efengyl drwy holl gylchoedd cymdeithas, ac am sefydlu teyrnasiad dychryn ac aflendid yn eu lle. Y maent yn ceisio suo encidiau i gwsg tragwyddol, yn lle ceisio eu deffroi i ymgyrhaedd am wynfyd anfarwol. Y mae niferoedd lluosog o'r rhai sy'n eu galw eu hunain yn Gristionogion, yn sefyll draw yn oeraidd heb estyn

dim cymhorth i'r Gymdeithas, yr hyn sydd yn arwyddo mwy na'u bod yn ddiawydd ac yn ddiweddi am ei llwyddiant; oblegid dywed Awdwr y Beibl, "Y neb nid yw gyda mi, sydd yn fy erbyn; a'r neb nid yw yn casglu gyda mi, sydd yn gwasgaru."

Ond er yr holl rwystrau, y mae y Gymdeithas, nid yn unig yn dal ei ffordd, ond yn ychwanegu cryfdwr. Y mae fel perth gweledigaeth Moses yn nghanol y fflam dân, ond heb ei difa. Y mae yn un o ganghenau *blaen* byddin fawr Tywysog coronog y march gwyn, ac wedi myned allan ar ei alwad ef, "*yn* gorchfygu ac *i* orchfygu." Y mae wedi ymaflyd yn nwy golofn ganol tŷ yr eulunod, ac y mae yn sicr o'i dynu i lawr. Arfau ei milwriaeth nid ydynt gnawdol, ond nerthol drwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr. Y mae gorseddau y bwystfil a'r gau-brophwyd yn crynu o flaen nerth ei harfau. Ei meibion a ddeuant o bell, a merched a fegir wrth ei hystlys. Troir ati luosogrwydd y môr, a golud y Cenedloedd a ddaw iddi: aur a thus a ddygant, a moliant yr Arglwydd a fynegant. Cenedloedd lawer a rodiant at ei goleuni, a brenhinoedd a brenhinesau at ddysgleirdeb ei chyfodiad. Y mae heddwch a gwareiddiad yn gwenu o gylch ei baner, ac y mae y celfyddydau a'r gwybodaethau buddiol yn dilyn ei hymdaith i bob man. Y mae yn anrhydedd i'r *Cymry* eu bod wedi cael y fraint o ymuno yn mysg y rhai *blaenaf* o'i phleidwyr. Boed i ni fel cenedl barhau yn ffyddlawn iddi, oblegid y mae yn sicr o lwyddo. Y mae dynion o urddas ac o gyfoeth—dynion o ddysg a doniau—dynion o sel ac ofn yr Arglwydd—dynion o gariad ac o ysbryd gweddi, yn ei phleidio; a'r hyn sydd well na'r cyfan, *mae Duw o'i phlaid.*

ANERCH O BLAID Y FEIBL GYMDEITHAS YN 1834.

"Gwyn ei fyd y gwr sydd a'i ewyllys yn nghyfraith yr Arglwydd; ac yn myfyrio yn ei gyfraith ef ddydd a nos. Efe a fydd fel pren wedi ei blanu ar làn afonydd dyfroedd, yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd; a'i ddalen ni wywa, a pha beth bynag a wnel, efe a lwydda."

Gwyn ein byd ninnau os ydym yn ymhyfrydu i chwilio ac i astudio y Beibl. Cawn y Beibl yn ddrych mawr, cywir, eglur, i adlewyrchu i ni ogoniant pethau ysbrydol. Y mae yn ddrych ardderchog o briodoliaethau y Duwdod, o drefn ei lywodraeth, o ofal ei ragluniaeth, o gyflwr dyn fel pechadur, o gyfoeth iachawdwriaeth gras ar ei gyfer, ac o ogoniant y byd a ddaw. Ac os

ydym ni yn gwerthfawrogi ac yn defnyddio y Beibl, yr ydym yn mynych edrych i'r drych gogoneddus hwn; ac os ydym yn edrych felly iddo "âg wyneb agored," dilen, diorchudd, mewn ysbryd myfyriol, yr ydym yn cael addysg a hyfrydwch; ac wrth edrych yn wylaidd felly ar ogoniant yr Arglwydd yn y drych godidog a roddwyd i ni gan Ysbryd Duw, yr ydym yn cael ein newid i'r unrhyw ddelw, o ras i ras, o rinwedd i rinwedd, o wybodaeth i wybodaeth, ac o ogoniant i ogoniant—nes bod yn debyg i Awdwr ein ffydd, i Dywysog ein hiachawdwriaeth; nes bod yn debyg i foneddigion y nefoedd—yn hynaws, yn addfwyn, yn dangnefeddgar, yn haelfrydig, yn hawdd ein trin, yn llawn trugaredd a ffrwythau da; ac nes bod o'r diwedd yn gymhwys i fyned i mewn i lys gogoniant, i rodio heolydd y ddinas nefol, a llwybrau blodeuog y baradwys fry, ac i ganu y delyn gyda'r telynorion, ac i eistedd gyda'r teulu mawr wrth fwrdd y wledd; ac i gadw Sabbath yn y deml fawr dragwyddol. Os ydym ni yn caru y Beibl, y mae ei wirioneddau yn fwy dymunol i ni nag aur; ïe, nag aur coeth lawer; yn felusach hefyd na'r mel, ac na dyferiad diliau mel. Os ydym yn caru y Beibl, yr ydym yn ei gymeryd i fod yn llusern i'n traed, ac yn llewyrch i'n llwybrau: yr ydym yn ei gymeryd i fod yn gyfaill, ac yn gydymaith, ac yn gynghorwr i ni; ac ni chawn byth gydymaith mwy dyddan na mwy ffyddlawn, mwy goleu na mwy adfywiol. Gallwn gael y cyfaill gwerthfawr yma gyda ni bob amser ar bob rhan o daith ein pererindod drwy y byd anial, dyrys, a pheryglus hwn. Y mae y Beibl yn gyfaill gwerthfawr i icuenctyd, er eu cyfarwyddo pa fodd i ochelyd rhwydau, a maglau, a phydewau a chroeslwybrau yr anialwch: y mae yn gyfaill gwerthfawr i'r canol oed, er eu denu i ymneillduo weithiau o swn a dwndwr y byd, ac o ganol ei ofalon a'i drafferthion, i ddal cymundeb â gwaith ac â golygfeydd y wlad sydd well; ac y mae yn gyfaill gwerthfawr iawn i hen bobl, i'w goleuo a'u gwroli, eu cynnal a'u lloni wrth ddisgyn i lawr tua phyrth y bedd, wrth rodio ar hyd glyn cysgod angeu, ac wrth rydio dyfroedd oerion yr Iorddonen. Os yw y Beibl yn gyfaill ein calon, y mae genym bob amser wrth law esboniwr anfaeledig o ddirgeledigaethau gogoneddus trefn achub trwy Iawn y Cyfryngwr, o anfarwoldeb yr enaid, o adgyfodiad y corff o lwch marwolaeth, o olygfeydd pwysfawr dydd y farn ddiweddaf, ac o nyfeddodau diderfyn tragwyddoldeb.

Ac unwaith etto, os ydym ni felly yn ystyriol o werth y Beibl, ac os yw ein calon yn ei garu, ac os ydym yn ei ddyfal ddefnyddio er ein haddysg a'n cysur, yr ydym am wasgaru yn mysg eraill ei oludoedd a'i gysuron; yr ydym am daenu o'n hamgylch,

yn mhell ac yn agos, ei oleuni a'i berarogl, fel y gallo ein cydddynion o bob iaith a chenedl, o bob lliw a hinsawdd, ddyfod i gyfranogi o faeth a melusder ei fendithion. Ac os ydym ni am fod o ryw gymhorth gyda'r gwaith mawr bendigedig o ledaenu y Beibl, nis gallwn byth gael cyfle na threfn well i wneuthur hyny na thrwy gyfrwng y Feibl Gymdeithas: a chymeraf genad i grybwyll rhai ystyriaethau er ein cymhell a'n calonogi i gydbarhau i weithio yn ddiwyd ac yn egnïol, ac yn haelionus o'i phlaid.

Clywsom yn effeithiol yn barod, yn nechreu y cyfarfod hwn, am yr angen trwm sydd am Feiblau yn Ymerodraethau pell poblog y Dwyrain; yn Ynysoedd lluosog Môr mawr y De; a thrwy bob rhan o Gyfandir Europ; ac felly ni chaf fi yn awr ond enwi rhai o'r cymhelliadau cryfion sydd genym i gydymegnïo yn ffyddlawn er gwneud ein rhan tuag at ddiwallu yr angen hyny:—

1. Y mae ardderchawgrwydd cyfansoddiad y Gymdeithas yn dra annogaethol i ni. Y mae ei hamcan mor unplyg fel y gall pawb ei deall; a gall pawb o bob oed a gradd a sefyllfa ddyfod yn mlaen i'w chefnogi. Y mae ei hegwyddor mor rydd fel y mae yn croesawu pawb i ymfyddino dan ei baner. Y mae yn hyfryd i ddarllen ysgrifau grymus gwŷr y meitrau a'r coronetau yn amddiffyn ei hachos; y mae yn hyfryd eu clywed yn areithio yn gynhes o'i phlaid yn uchel-fanau y deyrnas; ac y mae yn hyfryd eu gweled yn myned allan i fysg eu cyfeillion i gasglu i'w thrysorfa: ond y mae yn fwy hyfryd, od oes modd, i glywed plant bychain bloesg eu llef, bron newydd eu diddyfnu, yn dadlcu ei hachos, a'u gweled yn dwyn eu hanrhegion iddi. Yr oedd yn effeithiol i weled geneth fechan yn estyn iddi saith swllt a chwecheiniog a dimai ag oedd wedi gynnilo yn ofalus i'r dyben; ac yr oedd yn fwy hyfryd fyth i feddwl ei bod wedi ennill yr arian hyny drwy drysori yn ei chof chwe' chant a deg ar hugain o adnodau o'r Beibl. Ac yr oedd yn hyfryd iawn i weled tri bachgenyn bychain yn anfon llythyr i'w thŷ yn cynnwys un swllt ar ddeg o ffirwyth eu cynnildeb am fisoedd: a dichon yr un *mail* yn dwyn iddi lythyr y boneddwr hael-galon yn cynnwys ei *cheque* am fil o bunnau. Y mae teuluoedd y bythod a'r dillad llwydion mor ffyddlawn iddi ag ydyw neb o deuluoedd y palasau a'r sidanau.

2. Y mae hanes llwyddiant ei gweithrediadau yn annogaethol iawn i ni. Y mae wedi dosbarthu yn barod dros wyth miliwn o lyfrau y nef. Y mae wedi gwario yn barod yn ei gwaith mawr dros ddwy filiwn o bunnau. Y mae wedi cynnorthwyo i ledaenu y Beibl mewn cant a dwyarbymtheg a deugain o ieith-

oedd. Y mae wedi sefydlu miloedd o gangen-gymdeithasau; ac y mae y rhai hyny oll yn cydweithio i wasgaru yr holl had santaidd, ac y mae gobaith am gnwd toreithiog. Y maent oll yn anfon allan ffrydiau pur grisialaidd o ddwfr y bywyd i ireiddio a ffrwythloni anial gwyllt y byd. Y maent yn gweithio yn ddystaw, ond yn dra effeithiol—fel y surdoes a guddiwyd yn y mesurau blawd, yn ymweithio yno nes troi y cyfan i'r un ansawdd.

3. Y mae y newyddion sydd yn ein cyrhaedd y *dyddiau hyn* yn hynod o annogaethol. Y mae llaweroedd o'r bobl fwyaf eu dylanwad yn y deyrnas yn ymresu o fis i fis yn myddinoedd y Gymdeithas. Y mae Dr. Pinkerton yn cael drysau newyddion yn agored yn barhaus ar Gyfandir Europ. Y mae Dr. Morrison a'i ysgrifenydd Leang-afa, a Gutzlaff ac eraill, yn parhau i gydymegnïo yn China. Y mae drws helaeth yn agored i Ymerodraeth boblog Burmah. Y mae Mr. Kincaid yn ddiweddar wedi teithio dros saith gant o filldiroedd mewn parthau pell o'r Dwyrain, ac wedi cael cyfleusderau i ddosbarthu llawer o Feiblau mewn cylchoedd tra phwysig. Y mae llawer o'r "caethion" ydys newydd ryddhau yn medru darllen, ac y maent wedi cael Beiblau; ac y mae cannoedd o honynt am fyned i Affrica i ddarllen am bethau mawrion y Beibl i'w ceraint a'u cydwladwyr, er dysgu iddynt ffordd yr iachawdwriaeth.

4. Y mae llawer o Gymdeithasau eraill yn cydweithio ar y maes, ac oll yn ddefnyddiol, ac oll hefyd yn gynnorthwyol i'r Feibl Gymdeithas. Y mae Cymdeithasau Cenadol yn codi ac yn cynnal Cenadon enwog i gyfieithu y Beibl i wahanol ieithoedd, ac i'w dosbarthu mewn gwahanol wledydd. Y mae Cymdeithasau yn cyhoeddi ac yn tacnu traethodau byrion effengylaidd er ennill mwy o sylw at wirioneddau gair Duw. Y mae Cymdeithasau Dirwest yn ymegnïo i ennill i achos gwybodaeth a rhinwedd beth o'r gwastraff ofnadwy o arian, ac amser, a nerth corff a meddwl sy'n cael eu gwario ar ddiodydd meddwol. Y mae Cymdeithasau Heddwch yn ymresymu yn gryf er ceisio gwrthweithio y dylanwad damniol y mae rhyfeloedd Cristionogion yn gael ar y paganiaid. Y mae Cymdeithasau Rhyddid yn ymegnïo i ddattod a dryllio ieuau pob gormes gwladol, masnachol, a chrefyddol. A gwelais grybwylliad yn ddiweddar fod amryw o brif farsiandwyr yr Unol Daleithiau wedi cydymgyfammodi i gynnorthwyo yn nygiad yn mlaen amcanion pwysig y Cymdeithasau Crefyddol, drwy gludo yn *ddidraul* eu Cenadon i'r manau y byddis yn eu hanfon.

5. Y mae gwastraff ofnadwy y byd ar bethau gwaeth na diles

yn gymhelliad cryf i fwy o ymdrech i ddosbarthu gair Duw. Nid yw yr aberth a wneir at gynnal y Cymdeithasau Crefyddol yn haeddu ei gyffelybu i'r aberth a wneir at gynnal defodau creulawn llygredigaethau a choelgrefydd y byd. Y mae gwyliau yr eulunod yn India yn cael llawer mwy o gyllid blynyddol nag ydys yn gasglu i'r *holl* Gymdeithasau Crefyddol yn Lloegr. Dylai haelioni eulunaddolwyr godi gwrid i wynebau dysgyblion yr Iesu; yr hwn, ac efe yn gyfoethog, a ddaeth er ein mwyn ni yn dlawd, fel y cyfoethogid ni drwy ei dlodi ef. Y mae Lloegr ac America yn gwario digon bob blwyddyn ar ddiodydd meddwol i roddi Beibl yn llaw pob un o bobl y byd. Costiodd rhyfeloedd Europ o 1793 hyd 1815 £2,600,000,000—sef dwy fil a chwe' chant o filiynau o bunnau! Yr oedd hyny yn wastraff a difrod echrydus o fewn cylch dwy flynedd ar hugain, a hyny yn amser llawer sydd yma yn awr. Dywedodd Mr. James, Birmingham, yn ddiweddar, y byddai degwm gwastraff proffeswyr crefydd yn fwy na digon i wneud ein Cymdeithasau Crefyddol yn ddeg mwy effeithiol nag ydynt.

6. Y mae y byd yn *hael* iawn ar brydiau at elusenau *tymmorol*. Pan oedd newyn, rai blynyddoedd yn ol, yn Germany, cyfranwyd cannoedd o filoedd mewn ychydig o ddyddiau er anfon y bara a dderfydd i'r rhai oedd ar farw o eisieu. Yr oedd hyny yn ddyngarwch ac yn elusengarwch; ond y mae anfon "bara'r bywyd" i draeiniaid y gwledydd paganaidd yn ddyngarwch o natur uwch. Cyfranwyd cannoedd o filoedd mewn ychydig o ddyddiau er lloni a chynnal gweddwon ac amddifaid y milwyr a syrthiasant ar faes gwaedlyd Waterloo; yr oedd hyny yn wladgarwch ac yn elusengarwch; ond y mae anfon balm yr iachawd wriaeth i'r traeiniaid sydd heb neb i'w hymgeleddu, yn ymdrybaeddu yn eu gwaed, dan glwyfau dyfnion pechod, yn elusengarwch o natur llawer uwch.

7. Y mae wybren yr ysgrythyrau yn llawn o addewidion, ac mae'r addewidion gwerthfawr hyny yn llwythog o fendithion uwchben ein Cymdeithasau Crefyddol: ac wrth y cynyliau hyny y mae angylion a saint ar eu hedyn yn syllu i lawr er gwylio cynnydd teyrnas y Gwaredwr; a goruwch hyny, ar ei orsedd wen fawr, y mae yr Iesu yn gwenu ar ei ganlynwyr ymdrechgar a haelionus, gan ddywedyd yn rasol wrthynt—"Wele, yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd."

8. Bydd golwg ddymunol iawn ar y byd pan y bydd egwyddorion y Beibl yn ei lywodraethu, a chysuron y Beibl yn ei lenwi. Bydd nwydau drwg y galon, nid yn unig yn cael eu ffrwyno a'u llyffetheirio, ond byddant wedi cael eu newynu neu eu croeshoelio:

a bydd y byd yn dawel a dedwydd iawn pan na byddo ynddo genfigen, na chasineb, na dialgarwch, na brad, na dichell, na chelwydd, na balchder, na thrachwant, na chybydd-dod, na chribddeiliaeth, na dim o'r cyfryw. Bydd yn nefoedd y pryd hyny ar y ddaear. Bydd y carchardai wedi cael eu troi i fod yn golegdai. Bydd palasau gwirod wedi cael eu gwneud yn dai masnach buddiol. Bydd ystafelloedd anlladrwydd wedi cael eu santeiddio trwy ddagrau edifeirwch i fod yn ystafelloedd gweddïau dirgel. Bydd chwareudai llygredd wedi cael eu gwneud yn demlau moliant. Bydd gwersyllfanau rhyfel wedi cael eu gwneud yn llysoedd marchnadaeth: a bydd cylchoedd yr hen ofergampau wedi cael eu gwneud yn feusydd cymanfaoedd Scion. Bydd fflangell y gaethes ddu wedi troi yn bregethwr tosturiaethus dyngarwch. Ni ddysgant ryfel mwyach. Rhwymir y march coch â chadwyn bres. Cauir temlau Mars a Janus. Ni ddrygant ac ni ddyfethant yn holl fynydd fy santeiddrwydd. Hwy a gurant eu cleddyfau yn sychau, a'u gwaewffyn yn bladuriau; a gwaith cyfiawnder fydd heddwch, a llonyddwch, a diogelwch hyd byth.

"Pladuriau wneir o'r diles waewffyn,
A swch fu'n gledd braenarir godre'r bryn:
Y blaidd a'r oen gydborant gylch y gail,
Tywysa plentyn lew wrth denyn dail:
Yr arth gydieua â'r ŷch mewn dinyeh dang,
A llyfa seirph dilid y troed a'u sang:
Y baban nwyfus red oddiwrth y frŵn,
I chwareu â gwiber hyd y barth yn llŵn,
A rhifa frychau'r cèn symudliw hardd,
Try'r colyn fforchog gylch ei fys—a chwardd."

Y dryw bach a'r hebog mawr a gydorphwysant ar yr un gangen. Yr eos fwynlais a ymgyfyd ar edyn yr eryr i fro iach oleu y cymylau gwynion. Bydd cariad yn llenwi ac yn cynhesu y cylch teuluaidd, ac yn perarogli y cyfan yno, fel yr olew dyferol ar ben a gwisgoedd Aaron. Bydd rhïeni yn tyner-dywys eu plant i ffyrdd doethineb, ac yn eu macthu yn addysg ac yn athrawiaeth yr Arglwydd. Bydd y forwyn brydweddol, yn llemàlu meddyliau drwg, yn dwys weddïo dros ei chariad; a bydd yntau o'r tu arall yn ymddedwyddu wrth feddwl am burdeb ei serch, a hawddgarwch ei rhinweddau. Bydd yr "hen ŵr Llwyd o'r cornel," yn lle adrodd wrth ei ŵyrion a'i orŵyrion o foreu hyd hwyr am orchestion ffol blynyddoedd ei febyd, yn siarad wrthynt am Faban Bethlehem, am ei fywyd llawn o gariad a gwirioneddam ei ing yn yr ardd, a'i angeu ar y groes yn lle yr euog, ac am fodd i gael bywyd, a mwy na bywyd, drwy haeddiant ei lawn-

a bydd ei galon a'i lygaid yn llawn wrth eu hannog i ddilyn Crist; ac wrth droi ar ol hyny i weddïo ac addoli â'i bwys ar ben ei ffon.

Llwydded y Gymdeithas enwog hon, a'i holl chwaer-gymdeithasau daionus a gwerthfawr, nes gorchfygu draig goch fawr y saith ben a'r deg corn, ac nes bwrw y bwystfil a'r gau-brophwyd i'r llyn o dân; ac nes gwelir y briodasferch, gwraig yr Oen, yn dyfod i fyny o'r anialwch, gan bwyso ar ei Hanwylyd; a'i choron ar ei phen, a'i gwisg frenhinol am dani; yn hardd fel y wawr, yn deg fel y lleuad, yn bur fel yr haul, yn ofnadwy fel llu banerog.

Fel hyn y canodd un yn ddiweddar wrth fyfyrio ar lwyddiant y cymdeithasau gwerthfawr hyn:—

"Efengyl oludog! angyles trugaredd!
Mae cyrau y ddaear am weled dy wedd;
Yn mantell dy harddwch, ar gerbyd dy haeledd,
Dos rhagot nes llenwi y byd â dy hedd:
Mae genyt ti 'n barod wledd lawn i'r newynog,
A chymmod i'r euog, a harddwisg i'r noeth,
A thrysor i'w ranu rhwng tlodion anghenog,
Sydd fyrdd mwy ei werth na mil myrdd o aur coeth.

Mae 'r byd yn ymysgwyd o gwsg mil o oesau,
Gan ddirif dylwythau cei roesaw i'w mysg,
A gwastad balmantwyd ffyrdd rhyddion i'th gerbyd
Gan feibion celfyddyd, masnachaeth, a dysg:
Peiriannau tân cariad i droi dy olwynion
Yw 'r llon Gymdeithasau addurnant ein gwlad;
A chwareu drwy 'r nef mae holl daenau gorfoledd,
Fod gobaith i ddyn gael ymgeledd yn rhad.

Cyhoeddwyd o'r cynfyd gan lais ysbrydoliaeth
Am bur effeithioldeb diattal dy ras—
Llwyr ofer i'r bobloedd i'th erbyn derfysgu,
I lengoedd y fagddu âmlygu eu cas:
I'th ddilyn wrth d'alwad cwyd dorf o genadon
A'u calon yn fflamio dan fedydd o dân;
Ymdaenu trwy wersyll y gelyn mae cyffro,
Mae 'r delwau 'n malurio yn fawrion a mân.

Mae'th weision yn barod i gludo 'th drysorau
Trwy 'stormydd, tros dònau trochionog y môr;
Wynebant yn llon ar dros fil o ynysoedd,
I ddweyd am oludoedd trugaredd yr Ior:
Dilynant afonydd, ânt trwy anialdiroedd,
A dringant fynyddoedd clogwynog yr iâ,
I ddangos i adyn ar suddo mewn adfyd
Fodd i achub ei fywyd a symud ei bla.

Mae llwythau yr Oen, wrth dy wel'd, yn gwroli,
Llawenydd a chân sy'n coroni eu pen;

Mae gwresog bêr anadl eu cariad a'u gweddi
Yn chw. lu 'r cymylau fu rhyngddynt a'r nen:
A gwelir ysbrydoedd y perffaith gyfiawnion,
Fel cwmwl o dystion ar furiau y nef,
Yn plygu i wrando'u plethedig ganiadau,
Gan hwylio 'u telynau i ateb eu llef.

Daeth Iesu o Bosrah à'i ddillad yn gochion,
Gan ymdaith yn eon yn amlder ei rym;
Ennillodd holl yspail y tywysogaethau,
Gall ddial neu faddeu—ei gledd sydd yn llym.
O'i orsedd llefara mewn iawnder a chariad,
Mae 'n gwisgo agoriad awdurdod a bri;
Gan hyny ni lwydda dy elyn na'i luoedd,
Mae Brenin y nefoedd yn Noddwr i ti.

Wrth wrando dy gais dros y Gwr a groeshoeliwyd,
Dwysbigwyd calonau myrddiynau cyn hyn,
A denwyd trueiniaid i droi eu hwynebau
O swynol lwyn Daphne i Galfari fryn:
Dadblygaist dy faner ar brifddinas Rhufain,
Ce'st luoedd yn Athen i ganmol y gwaed;
A golchaist yn Nghorinth dorf fawr o'r rhai duaf,
Gan wisgo mewn gwyn yr aflanaf a gaed.

Dy lais yn oes Luther ddychrynodd y bwystfil,
Dy wên doddodd galon y Greenlander draw,
A dofwyd cynddaredd y Bushman trwy 'th ciriau,
Nes gollwng ei saethau gwenwynig o'i law:
Dy felus beroriaeth trwy helaeth goedwigoedd
America fras, ac Ynysoedd y De,
A ddenodd farbariaid o'u dawns yn y llwyni,
I wrando a chanu am gariad y ne'.

Dihunodd dy udgyrn gydwybod Brutania
I ollwng wyth-ganmil o'i chaethion yn rhydd;
A gyraist gyflawnder o bêr falm Calfaria
I wella archollion y galon fu 'n brudd:
O gylch elor gormes mae myrdd o gadwynau
Ar wasgar yn ddarnau drylliedig dan draed;
A'r fammaeth a'i maban sy'n llon gadw jubil
Uwch bedd yr anghenfil fu 'n meddwi ar waed.

Gorchfygodd yr Oen i agoryd y seliau,
A llawn yw'r phiolau ar allor y nef;
Hardd sefyll o'u cylch mae eneidiau'r merthyron,
Mewn gynau claerwynion yn llawen eu llef:
O'u llwch cododd ysbryd a ddryllia'r cadwynau
Fu 'n dal cydwybodau am oesoedd yn gaeth;
Pinaclau coelgrefydd yn chwilfriw a chwelir,
A'r gelyn ymlidir i'r llyn o'r lle daeth.

Bu anghymedroldeb yn llifo am oesau,
Bu 'n lledu ei dònau fel dylif o dân;
A chyfoeth, a chysur, a bywyd myrddiynau,
Er pob attal-furiau, ysgubid o'i flaen:

Ond codaist dy faner er attal ei ymchwydd,
A safodd yn ebrwydd, a chiliodd mewn brys;
Ac 'nawr lle bu 'r gelyn yn creulawn deyrnasu,
Mae rhinwedd yn codi hardd orsedd ei lys.

Bu erchyll olwynion *Car Moloch* Hindostan
Yn treiglo dros balmant o esgyrn a gwaed,
A myrdd o rai gwallgof dan floeddio 'n ei dynu,
Gan fathru eu plant a'u rhieni dan draed!
Ond safodd er's dyddiau, ni faidd dy gyfarfod,
Mae 'n suddo i'r tywod, a'i lu 'n cilio draw;
Mae blodau sidanaidd ei dŵr wedi gwywo,
A'i gêr yn malurio trwy'r tês a thrwy'r gwlaw.

Heb ddim o ffydd Abra'm, bu myrdd o'i hiliogaeth
Dan iau anghrediniaeth yn gaeth lawer oes;
Ond troant i'th ddilyn, dan gerdded ac wylo,
Nes tawel ymffrostio yn Aberth y groes:
Ail hwylir y delyn fu 'n hir ar yr helyg,
Daw 'r llwythau crwydredig i Seion mewn hedd;
Am ryfedd rinweddau y gwaed y cydganant,
A melus ganmolant gyflawnder y wledd.

Trwy 'r fro lle bu Israel yn lledu ei babell,
Bro cafell y dysglaer Shecina cyn hyn,
Bro melus beroriaeth telynau 'r prophwydi,
Bro 'r ardd lle bu 'r chwysu, bro Calfari fryn:
Trwy hòno mae 'r wawr 'n awr yn gwasgar ei goleu
I ymlid cysgodau coelgrefydd ar ffo;
Trwy hòno tyr etto sain tannau gorfoledd,
A blodau tangnefedd goronant y fro.

Hardd Rosyn Glyn Saron a siriol flodeua
Ar foelydd Siberia a gwledydd yr ià,
A'r awel wasgara ei iraidd aroglau
Nes gwella tylwythau y Tartar o'u pla:
I wlad y saith eglwys fu gynt yn flodeuog
Estynir yr eurog ganhwyllbren yn ol,
Ceir etto fflam fywiol o'r allor i danio
Lamp gras i oleuo pob bryn a phob dôl.

Dan iau tri chan' miliwn o eulunaddolwyr
Mae China mewn gwewyr yn gruddfan yn awr;
Ond siglwyd ei mur, er cadarned ei seiliau—
Mae eisoes yn fylchau, daw 'n ddarnau i lawr:
Llongyrcha minteioedd i gysgod ei llwyni
I ddarllen a chanu am Aberth y bryn,
Trwy demlau Fôhi mae'r cerf-ddelwau yn crynu,
A'u crefftwyr yn gwelwi gan edrych yn syn.

Mae awel adfywiol yn awr yn ymsymud
Ar wyneb du-ddyfnder cymysglyd y byd;
Ar dymmor dymunol mae 'r nefol addewid
Bron esgor—mae gwewyr drwy natur i gyd:

Llawn bywyd yw heinif forwynion Rhagluniaeth,
Mae tannau mwyn odiaeth pob telyn mewn hwyl,
Mae arlwy freninol yn rhad i'r holl bobloedd,
A mil o flyneddoedd fydd yspaid yr wyl."

PENAU ANERCH

MEWN

CYFARFOD GWEDDI AR DDYDD O YMOSTYNGIAD, ODDIWRTH ESAIAH LXIV.

Cawn yn y bennod fèr yma un o weddïau Esaiah ar ran Judah a Jerusalem mewn amser o wasgfeuon gwladol. Yr oedd yn erfyn am drugaredd *faddeuol* yr Arglwydd i'w wlad yn wyneb ei llygredigaethau, ac am nawdd ei nerth iddi yn wyneb ei pheryglon. Yr oedd, yn ei weddi, yn defnyddio *pump* o resymau:—

1. Mawr allu yr Arglwydd. Yr oedd yn cydnabod y medrai rwygo y nefoedd, a disgyn, a thoddi y mynyddoedd o'i flaen, gan hollti y creigiau, fel pan losgo'r tân greision; a chynhyrfu y môr fel y pair y tân i'r dwfr ferwi, a gwneuthur pethau ofnadwy, na ddysgwyliodd ei bobl am danynt, er amddiffyniad iddynt, ac fel yr ofno y cenedloedd rhagddo.

2. Goludoedd anchwiliadwy ei drugaredd. Fod ei gariad crioed yn ddigyfnewid, fod ei ffyddlondeb a'i amynedd yn ddiball, fod mawr amryw dosturiaethau ei ras yn annherfynol, a'i bod yn hyfrydwch i'w natur i ymgeleddu y truan yn y llwch; ac na chlywodd clust, ac na welodd llygad, ac na ddychymygodd calon, am gyflawnder didrai ei ddarpariadau ar gyfer y rhai a ddysgwyliant wrtho.

3. Ei fod wedi *hen* arfer tosturio wrth bob truan oedd yn plygu yn isel wrth ei draed i ymbil am faddeuant ac ymgeledd. Nad oedd neb yn cael dysgwyl wrtho yn ofer. Fod eu tadau bob amser wedi cael eu colledu wrth ei adael a'i anghofio, a throseddu ei gyfammod; ond ei fod ef, o'i anfeidrol ras, yn tosturio i wrando eu cwyn, a'u cadw ar eu dychweliad ato mewn ysbryd edifeiriol, gan gyffesu eu hanwireddau, a galaru o'u plegid, a gadael eu ffyrdd drygionus.

4. Yr oedd yn dadleu perthynas Duw â'r genedl, a'i hen gyfammod â'u tadau: "Ond yn awr, O Arglwydd, ein tad ni wyt ti: nyni ydym glai, a thithau yw ein lluniwr ni; ïe, gwaith dy law ydym ni oll. Na ddigia, Arglwydd, yn ddirfawr, ac na chofia anwiredd yn dragywydd. Wele, edrych, attolwg, dy bobl di ydym ni oll." Yr oedd yn ymresymu mai efe oedd eu Tad a'u

Duw; ei fod, nid yn unig wedi eu llunio a'u cynnal, ond ei fod wedi eu mabwysiadu i'w deulu i fod yn *blant* iddo, ac i gyfranogi o'i holl driniaethau a'i ofal; ac wedi eu dewis i fod yn *bobl* iddo, i gael ei amddiffyn dwyfol, ac i roddi iddo eu haddoliad.

5. Fod gogoniant ei enw mawr yn ymddibynu ar ei waith yn tosturio wrthynt, ac yn eu harbed, ac yn eu hadferu i'w ffafr. Yr oedd Esaiah yn dadleu, os gadawai eu Duw hwynt i gael eu llwyr ddyfetha, yn ol drwg haeddiant eu pechodau, y byddai santaidd ddinasoedd Judah yn anialwch, a Seion yn ddiffaethwch, a Jerusalem yn anghyfannedd; ac y byddai tŷ eu santeiddrwydd a'u harddwch, lle y moliannai eu tadau eu Duw, yn cael ei lwyr losgi, ac y byddai eu holl bethau dymunol yn myned yn anrhaith; ac y byddai enw mawr eu Duw, oblegid hyny, yn cael ei gablu yn mysg y cenedloedd.

Y mae hen resymau Esaiah genym ninnau heddyw i'w defnyddio, pan yn anerch gorsedd y nef ar ran ein gwlad yn ei sefyllfa wasgedig, derfysglyd, lygredig bresenol. Gallwn ddadleu anfeidrol allu ein Duw, a golud anchwiliadwy ei drugaredd, a'i hen arferiad o dosturio, a'i berthynas rasol â ni, a gogoniant ei enw mawr. A dylem fedru eu dadleu mewn modd mwy cryf a mwy cyson nag y medrid eu dadleu yn amser Esaiah, am ein bod ni yn byw dan oruchwyliaeth oleuach, ac yn enwedig am fod y *ddadl fawr* genym—dadl Iawn anfeidrol y groes—y ddadl ag sydd yn sylfaen i bob dadl arall. Ymbiliwn am ras i ymostwng yn isel i ddefnyddio yr hen resymau hyn, ac i ddal gafael ffyddlog yn addewidion trefn fawr trugaredd am arbediad, a diwygiad, a dyrchafiad ein gwlad.

ANERCH MEWN CYFARFOD DIOLCHGARWCH.

Ar ddydd fel hwn y mae araeth gynhes gymwysfawr Moses wrth gynnulleidfa Israel, yn flaenorol i *ail* roddiad y ddeddf iddynt, yn deilwng o'n hystyriaeth ni yn yr oes hon. Y mae mewn iaith ardderchog yn cyfeirio eu meddyliau—

1. At fawredd yr Arglwydd eu Duw fel meddiannydd y nefoedd a'i holl ogoniant, a'r ddaear a'i holl gyflawnder.

2. At y rhyfeddodau mawrion oeddynt wedi weled yn nhir yr Aipht, a dymchweliad byddinoedd y gelyn yn y môr, y ddarpariaeth at eu cynnal ar eu teithiau, y manna, y dwfr o'r graig, eu dillad heb heneiddio, y cwmwl i'w harwain, a dinystr Dathan ac Abiram yn eu gwrthryfel.

3. At uniondeb a thegwch gorchymynion yr Arglwydd, a'r wobr o'u cadw, a'r perygl o'u troseddu—mai y canlyniad o'u troseddu fyddai colli ffafr eu Duw, ac mai gwobr eu hufudd-dod fyddai cael ei nodded a'i ymgeledd. Ac wrth eu cymhell i ufudd-dod, y mae yn dywedyd wrthynt y geiriau a ganlyn:—"O herwydd y tir yr wyt yn myned iddo i'w feddiannu, nid fel tir yr Aipht *y mae*, yr hwn y daethoch allan o hono, lle yr heuaist dy had, ac y dyfrheaist â'th droed, fel gardd lysiau: ond y tir yr ydych yn myned trosodd iddo i'w feddiannu, *sydd* fynydd-dir a dyffryndir, yn yfed dwfr o wlaw y nefoedd; tir *yw*, yr hwn y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei ymgeleddu; llygaid yr Arglwydd dy Dduw *sydd* bob amser arno, o ddechreuad y flwyddyn hyd ddiwedd y flwyddyn hefyd. A bydd, os gan wrando y gwrandewch ar fy ngorchymynion, y rhai yr ydwyf yn eu gorchymyn i chwi heddyw, i garu yr Arglwydd eich Duw, ac i'w wasanaethu... â'ch holl enaid: yna y rhoddaf wlaw i'ch tir yn ei amser, *sef* y cynnar wlaw, a'r diweddar-wlaw; fel y casglech dy ŷd, a'th win, a'th olew: a rhoddaf laswellt yn dy faes i'th anifeiliaid, fel y bwytäech ac y'th ddigoner. Gwyliwch arnoch rhag twyllo eich calon, a chilio o honoch, a gwasanaethu duwiau dyeithr, ac ymgrymu iddynt; ac ennynu digllonedd yr Arglwydd i'ch erbyn, a chau o hono ef y nefoedd, fel na byddo gwlaw, ac na roddo y ddaear ei chnwd, a'ch dyfetha yn fuan o'r tir yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei roddi i chwi. Am hyny, gosodwch fy ngeiriau hyn yn eich calon, ac yn eich meddwl, a rhwymwch hwynt yn arwydd ar eich dwylaw, a byddant yn rhagtalau rhwng eich llygaid: a dysgwch hwynt i'ch plant, gan grybwyll am danynt pan eisteddych yn dy dŷ, a phan rodiech ar y ffordd, pan orweddych *hefyd*, a phan godych. Ac ysgrifena hwynt ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth; fel yr amlhao eich dyddiau chwi, a dyddiau eich plant chwi, ar y ddaear yr hon a dyngodd yr Arglwydd wrth eich tadau am ei rhoddi iddynt, fel dyddiau y nefoedd ar y ddaear."

Y mae y geiriau gwerthfawr ac effeithiol hyn yn dysgu i ni bedwar o bethau:—

I. Fod cael "ymgeledd" yr Arglwydd ar ein "tir," ac ar ein holl bethau tymmorol, yn fendith o werth annhraethadwy. Heb ei ymgeledd ef, â pob gofal a llafur yn ofer; llafur a gofal yr amaethydd, a'r bugail, a'r masnachydd, a'r celfyddydwr, a'r athraw; ni lwydda dim yn y tŷ, nac yn y maes. Heb ei ymgeledd ef, siomir pob dysgwyliad am fwynhad, ac am bob enill ac elw. Heb ei ymgeledd ef, sychir i fyny bob cysur a dyddanwch; diflana y cyfan o'r gobeithion a'r dysgwyliadau.

II. Mai i'r rhai sy'n ei garu a'i ofni, ac yn ymhyfrydu yn ei wasanaeth, y mae Duw yn rhoddi ei wên a'i ymgeledd. Y mae hyny yn gyson â'i holl addewidion grasol. "Os gan wrando y gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw i gadw ac i wneuthur ei holl orchymynion ef, yna yr Arglwydd dy Duw a'th esyd yn uwch na holl genedloedd y ddaear; a'r holl fendithion hyn a ddaw arnat, ac a'th oddiweddant, os gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw. Bendigedig fyddi di yn y ddinas, a bendigedig yn y maes. Bendigedig fydd ffrwyth dy fru, a ffrwyth dy dir, a ffrwyth dy anifail di, cynnydd dy wartheg, a deadellau dy ddefaid. Bendigedig fydd dy gawell a'th ~~doeadi~~. Yr Arglwydd a orchymyn ei fendith arnat ti yn dy drysordai, ac yn yr hyn oll y dodech dy law arno; ac a'th fendithia yn y tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti." "Anrhydedda yr Arglwydd â'th gyfoeth, ac â'r peth penaf o'th holl ffrwyth; felly y llenwir dy ysgaboriau â digonoldeb, a th winwryfoedd a dòrant gan win newydd."

Y mae hyn hefyd yn gyson â holl egwyddorion llywodraeth yr Arglwydd. Y mae yn wir ei fod yn peri i'w haul godi ar y drwg a'r da, a'i fod yn gwlawio ar y cyfiawn a'r anghyfiawn. Y mae yn wir ei fod yn rhoddi tymmorau ffrwythlawn i'r anniolchgar a'r anghyfiawn, a'i fod yn rhoddi iddo gartref, a gwisgoedd, a chymdeithion, a gwrid, a nerth, ac iechyd, ac yn llenwi ei galon â lluniaeth ac â llawenydd, er mwyn rhoddi cyfle ac amser i edifarhau ac ufuddhau o galon gariadlawn, ostyngedig, a diolchgar; ond nis gall yr Arglwydd *barhau* i roddi ei wên a'i ymgeledd i'r cyndyn a'r annuwiol, heb ei wadu ei hun a'i lywodraeth, a rhoddi lle i'w ddeiliaid gasglu nad oes dim gwahaniaeth rhwng y cyfiawn a'r drygionus, rhwng yr hwn a wasanaetho Dduw a'r hwn nis gwasanaetho ef. Er nad yw yr Arglwydd ddim bob amser yn gwneuthur barn yn erbyn gweithred ddrwg yn fuan, ac er fod ei anwyliaid ffyddlonaf yn cael eu profi á thrallodion, etto, ceir gweled y tâl efe i bawb yn y *diwedd* yn ol eu gweithredoedd. Geiriau ei gyfraith gynt i Israel oedd—"Dwg i dŷ yr Arglwydd dy Dduw y cyntaf o flaenffrwyth dy dir. Tair gwaith yn y flwyddyn y cedwi wyl i mi. Gwyl y bara croew a gedwi; ac nac ymddangosed neb ger fy mron yn waglaw. A gwyl cynhauaf blaenffrwyth dy lafur yr hwn a heuaist yn y maes: a gwyl y cynnull yn niwedd y flwyddyn, pan gynnullech dy lafur o'r maes." "Cymer o bob blaenffrwyth y ddaear, yr hwn a ddygi o'th dir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti, a gosod mewn cawell, a dos i'r lle a ddewiso'r Arglwydd dy Dduw i drigo o'i enw ef ynddo: ..... a gosod ef ger bron yr Arglwydd

dy Dduw, ac addola ger bron yr Arglwydd dy Dduw." Y mae yr Arglwydd yn dysgwyl i dderbynwyr ei gymwynasau tymmorol ei gydnabod mewn ysbryd diolchgar, a'i addoli yn ol ei osodiadau cymdeithasol.

Ac y mae ei *ymddygiadau* yn gystal a'i addewidion a'i ddeddfau yn profi ein gosodiad—mai i'r diolchgar a'r ufudd y mae yn addaw ei ymgeledd. Ceir enghraifft nodedig o hyn yn hanes Hezeciah:—"A phan ddaeth Hezeciah a'r tywysogion a gweled pentyrau y pethau a gysegrasid i'r Arglwydd, hwy a fendithiasant yr Arglwydd a'i bobl Israel. A Hezeciah a ymofynodd â'r offeiriaid a'r Lefiaid o herwydd y pentyrau. Ac Azaria, yr offeiriad penaf o dŷ Zadoc, a ddywedodd wrtho, ac a lefarodd, Er pan ddechreuwyd dwyn offrymau i dŷ yr Arglwydd, bwytasom a digonwyd ni, gweddillasom hefyd lawer iawn, canys yr Arglwydd a fendithiodd ei bobl; a'r gweddill yw'r amldra hyn." Yr ydym yn cael yn holl hanes llwythau Israel fod eu cysuron amserol yn amlhau pan y byddent hwy yn ymroddi yn ffyddlawn i gynnal ordinhadau gwasanaeth yr Arglwydd: ac y mae yr un egwyddor bwysfawr yn cael ei dysgu i ni yn holl hanes ymddygiadau yr Arglwydd at deuluoedd a llwythau cenedloedd eraill, nid yn unig yn yr hen oesoedd, ond yn yr amserau diweddaf hyn.

III. Mai peth gweddus ydyw bod yn ddiolchgar i'r Arglwydd am ei ymgeledd. Oblegid y mae ymgeledd ei drugaredd wedi bod yn fawr iawn i ni mewn cysuron personol, a bendithion teuluaidd, a rhagorfreintiau crefyddol: ac oblegid bod ei ymgeledd a'i gymwynasau wedi cael eu hestyn i rai tra annheilwng; i rai wedi bod yn anniolchgar ac anufudd, gwrthnysig, a gwrthryfelgar; ac oblegid mai un o brif elfenau profiad dedwydd, ac un o brif nodweddau cymeriad hawddgar, ydyw ysbryd *diolchgar:* ac mai y nôd duaf a gwaethaf ar ddyn sy'n ymddibynu yn barhaus ar Dduw, ac yn derbyn cymwynasau bob moment o'i law, ydyw byw yn anniolchgar.

IV. Ei fod yn addas i ni heddyw, fel ag yr ydoedd i Israel gynt, i alw i gof ryfeddodau daioni yr Arglwydd tuag atom; ac y dylem hefyd eu *coffhau* i eraill, er magu ysbryd diolchgar ynom ein hunain ac yn ein teuluoedd, ac yn mhawb o'n hamgylch. Yr oedd llwythau a theuluoedd Israel gynt i osod geiriau gorchymynion eu Duw, a'r geiriau o goffadwriaeth am ei drugareddau yn eu calon, ac yn eu meddwl; a'u rhwymo yn arwydd ar eu dwylaw, ac yn rhagtalau rhwng eu llygaid; ac yr oeddynt i'w dysgu i'w plant, gan grybwyll am danynt pan eisteddent yn y tŷ, a phan rodient ar y ffordd, pan orweddent hefyd, a phan gyfodent: ac yr oeddynt i'w hysgrifenu ar byst eu tai, ac ar eu

pyrth; er dangos i bawb elent heibio mai pobl trugareddau yr Arglwydd oeddynt, a'u bod am ei garu a'i wasanaethu. Ac yr oedd addewid gref rasol iddynt, os gwnelent hyn, yr amlheid eu dyddiau, a dyddiau eu plant, fel dyddiau'r nefoedd ar y ddaear.

Y mae rhwymedigaethau pwysfawr o'r un natur yn orphwysedig arnom ninnau. Dylem gofio cymwynasau yr Arglwydd, eu gosod yn ein calon, a myfyrio am danynt, a *son* am danynt, a gwneud ein goreu i fagu ysbryd ufudd a diolchgar yn mhawb o'n deutu, ac yn enwedig yn ein teuluoedd, ac yn y genedl ieuanc sydd yn cyfodi ar ein hol, fel y caffont fwynhau oes hir o ddyddiau dedwydd; neu fel y caffont, yn ol iaith Moses, fwynhau "dyddiau y nefoedd ar y ddaear."

Yr hyn sydd yn benaf dan ein hystyriaeth yma heddyw ydyw, y pwys mawr o gael ymgeledd yr Arglwydd ar ein pethau tymmorol; ac y gweddai i ni ymbil am ei ymgeledd i'n *cyrff*, a bod yn ddiolchgar am ei holl gymwynasau amserol i ni: ond dylem ar yr un pryd gofio fod cael ymgeledd ei iachawdwriaeth i'n *heneidiau* yn anhraethol fwy pwysig na chael ymgeledd ei ragluniaeth i'n *cyrff*.

Dylem ystyried hefyd y byddwn ni yn fuan iawn wedi ein symud o fyd cysuron a breintiau amser i fyd o gyfiawnder manwl digymysg, lle na chaiff yr anniolchgar byth yr un dafn o gysur; a lle na chaiff y diolchgar a'r duwiol ddim poen, na siom, na gofid i'w flino byth. A oes genym ni sail dda i obeithio am gael cartref trag wyddol yn ngwlad y llawnder, i seinio y ganiad newydd o lawenydd a diolchgarwch?

JUBILI LIVERPOOL, IONAWR 3, 1854.

Daw diwedd ar bob peth dan haul—ar bob gwaith ac ar bob amcan. Daw diwedd ar y brwydro tost sydd gyda glènydd y Danube ac ymylau y Môr Du. Daw diwedd ar y chwyldroad gwaedlyd sy'n cael ei ddwyn yn mlaen yn China. Daw diwedd ar yr erlid barbaraidd yn Madagascar. Daw diwedd, gobeithio, ar bob gwrthryfel yn India. Daw diwedd ar gaethiwed yn America. Daw diwedd rywbryd ar adeiladu dau Dŷ y Senedd. Daw diwedd ar jubilïau hyfryd ein cymdeithasau crefyddol. Daw diwedd ar y mil blynyddoedd, *ond nid yn fuan*. A daw diwedd ar Jubili yr Eglwysi Cynnulleidfaol yn Liverpool. Ond y mae blwyddyn eu jubili yn un llcd *faith*. Deuddeg mis sydd yn y flwyddyn, yn gyffredin o leiaf, yn y cymau oddeutu godre y Wyddfa, a'r Foel-famau, a Chader Idris; a chlywais mai deuddeg mis sydd yn y flwyddyn o gylch mynachlogydd West-

minster a Sant Paul; ond y mae pedwar mis ar hugain yn mlwydd-yn Jubili Eglwysi Cynnulleidfaol Liverpool. Casglasoch bron *gan' punt* y mis at symud dyledion eich addoldai yn y pedwar mis ar hugain diweddaf; a byddwn i yn foddlon i chwi gael pedwar ar hugain etto o fisoedd newyddion yn mlwyddyn eich jubili, os gweithiwch ynddynt fel y gweithiasoch drwy y misoedd diweddaf.

Yr wyf yn teimlo dyddordeb neillduol yn llwyddiant cynnydd-ol egnïadau eich jubili. Dyma'r trydydd cyfarfod i mi gael y fraint o fod gyda chwi er adeg ei chychwyniad. Yr oedd y cyf-arfod cyntaf yn yr Hall yma; ac yr oedd yn un llawn o ysbryd cariad a haelioni. Yr ail yn addoldy Dr. Raffles, pan yr oedd Mr. James o Birmingham yn canmol eich egnïadau i ysgafnhau a symud baich dyledion eich addoldai: ac mi glywais y Dr. foreu Sabbath cyn hyny, wrth gyhoeddi Mr. James, yn gwresog ganmol eich trefn a'ch haelioni. A dyma yn awr y trydydd cyfarfod yn y Concert Hall, Liverpool, y porthladd penaf yn y byd; ac yn nghanol y bobl oreu yn y byd. Dyma un o gyfeillion hynaf a blaenaf y *Cymry*, trysorydd y cyfraniadau at eich capel cyntaf, yn y gadair heno. Nid oedd yr un blewyn gwyn yn mhen Dr. Blackburn pan yr oedd yn cynnorthwyo fy niweddar hoff gyfaill Breese a'i eglwys fechan ieuanc ar adeg sylfaeniad addoldy Great Cross Hall Street. Y mae hen ysgrifenydd cyfrifon y dyddiau hyny yn aros hyd heddyw, a'i galon yn ieuanc ac yn gynhes yn y gwaith, er ei fod yn awr dan goron y pen gwyn. Y mae yn "deilwng o barch dau ddyblyg" am ei ffyddlondeb boneddigaidd a difwlch yn ei ddiaconiaeth. A dacw wyneb llon caruaidd yr hen weinidog llafurus a wisgodd fantell Spencer: a dyma weini-dog ieuanc o waed coch cyfa Cymreig, ag sydd newydd ddechreu ei weinidogaeth yn Newington: a dyma, o'n deutu, weinidogion parchedig a brawdol o wahanol enwadau, yn Gymry a Saeson, wedi dyfod i glywed "Report eich Progress;" ac yr wyf yn ei theimlo yn fraint uchel i gael bod yma ar y fath adeg.

Nid llafur bychan i chwi oedd casglu dwy fil o bunnau yn ystod eich jubili; gwn ychydig am ranau o'r llafur gofynol gyda'r fath ofal. Cyfarfum un o'ch cenadau parchus yn Llundain, a chyfarfum ef wedi hyny yn Maldwyn hen; ac yr oedd yn llawen genyf iddo gael casgliadau mor dda yn Maldwyn, casgliadau gwell o lawer nag a gawsai neb erioed o'i flaen; a gwell nag a geir yno etto cyn gwyliau Mai y mil blynyddoedd. Nid oeddwn yn rhyfeddu cymaint at ei lwyddiant, am fod y fath awen wres-og yn llifo drwy ei bregethau, ac yn enwedig am fod y fath eneiniad yn eu perarogli. Cafodd gasgliad gwell gyda ni nag a gawsai ein hen gyfaill anwyl Williams o'r Wern. Yr oedd

wyneb Williams yn bur llon a hawddgar pan oedd yn rhwymo y casgliad yn ei bwrs: a gofynodd un o'r hen bobl iddo pa bryd y gallem ei ddysgwyl heibio i dalu diolch. Atebodd, gan wthio ei bwrs i waelod ei logell, a botymu yn dyn arno: "Gallaf rwbio gefn yn nghefn â chwi yn awr." Ond bu yr hen seraph yn well na'i air: daeth heibio yn lled fuan i dalu diolch. Ni ynganodd eich cenadwr chwi ddim hanner gair am "rwbio gefn yn nghefn," ond addawodd yn foneddigaidd i chwilio am gyfle buan i dalu diolch. Yr oedd y casglwr cyntaf yn debyg i'r bachgen a ddywedodd, "Nid âf; ond wedi hyny a aeth." Gobeithio na bydd yr ail gasglwr doniol ddim yn debyg i'r bachgen a ddywedodd, Myfi a âf, ac nid aeth.

Ond nid anfon cenadwyr ddarfu i chwi yma a thraw heb i chwi weithio *gartref*. Nid oedd yr oll a gawsoch o bob man ond bach, o'i gymharu â'r hyn a gasglasoch wrth weithio mor reolaidd gartref. Coron pob gwaith fel hyn ydyw y gweithio wrth reol gartref. Y mae rhai cynnulleidfaoedd mewn parthau o Gymru wedi bod yn rhy esgeulus gyda dyledion eu haddoldai. Derbyniasant lawer o gymhorth o Loegr a Chymru, ond casglasant lawer rhy fach gartref ar gyfer hyny. Yr wyf yn argyhoeddedig na ddylid byth roddi arian o unrhyw drysorfa gyffredinol i unrhyw gynnulleidfa heb wasgu arni i gyfranu rhyw swm penodedig ar gyfer hyny at symud ei dyled. Pe cawn i byth etto hanner can' punt yn fy llaw i'w gynnyg i unrhyw eglwys, dangoswn y pwrs iddi, gan ddweyd ei bod hi i'w gael tuag at ei dyled, ar yr *ammod* iddi gyfranu can' punt ato, ond nid heb hyny. Pe buasai mwy o gynnorthwyon *ammodol* felly yn cael eu cynnyg yn yr hanner can' mlynedd diweddaf, buasai llawer mwy o waith wedi cael ei wneud, a buasai wedi cael ei wneud mewn dull llawer mwy anrhydeddus ac effeithiol. Gwn am gynnull eidfa fechan ag yr oedd arni gan' punt o ddyled yn aros er's llawer o flynyddoedd, ac yr oedd yn meddwl o hyd nad allai byth symud y baich. Annogais hen gyfaill i gynnyg ugain punt, ar yr ammod i'r gynnulleidfa gasglu y gweddill. Cynhyrfodd y cynnyg hwy i wneud cydymegnïad, a thalwyd y ddyled ar unwaith.

Os ydych chwi yma am derfynu eich jubili heno, yr wyf yn hyderus y bydd i chwi ei therfynu mewn modd anrhydeddus; ond os ydych am estyn eich blwyddyn, ac os ydych am gasglu *mil* o bunnau at eich Trysorfa, erfyniwch ar Raphael roddi deuddeg o fisoedd newyddion yn yr Almanac ar gyfer eglwysi Cymreig Annibynol Liverpool.

Yr oedd rhai o *ffeithiau* eich adroddiad yn dra effeithiol i'm teimlad.

1. Mai dyrnaid o ymfudwyr o Lanbrynmair, wedi gorfod troi yn ol ar ol cychwyn mewn llong *fregus* tuag America, ddarfu ddechreu yr achos yma.

2. Nad oedd yr aelodau ond pymtheg o nifer pan y rhoddasant alwad i weinidog.

3. Fod tair cangen wedi tyfu allan o'r fam eglwys, a hyny *mewn cariad;* a bod y tair, yn awr, mor iraidd a ffrwythlawn, bod eu chwaergarwch mor gynhes ag erioed.

4. Fod cymydogaeth mor hyfryd rhwng y gwahanol enwadau yn Liverpool.

5. Fod yr Eglwysi Cynnulleidfaol yma wedi cyfranu, yn yr hanner can' mlynedd diweddaf, *bron naw mil ar hugain o bunnau.*

6. Fod y diaconiaid wedi cadw cyfrifon mor gryno o'u holl weithrediadau. Yr wyf yn gobeithio y bydd i swyddwyr enwadau eraill, ag ydynt yn gweithio mor enwog yma, fynu cyfle buan i gyhoeddi eu cyfrifon, oblegid bydd hyny yn dystiolaeth gref o blaid yr egwyddor *wirfoddol.*

7. Yr oedd y cyfeiriadau at lafur y gweinidogion ymadawedig, Jones, a Breese, a Williams, yn hynod o effeithiol. Gobeithio yr anfonwch gopi o'ch adroddiad i holl eglwysi y Dywysogaeth, a bydd llwyddiant eich egniad yn esiampl dra annogaethol i eglwysi eraill. Parhaed eich ffyddlondeb a'ch brawdgarwch. Dyweded teulu y Tabernacl—Os anghofiaf wasanaeth y Tabernacl, anghofied fy neheulaw ganu. Dyweded teulu Bethel—Os anghofiaf allor Duw Bethel, anghofied fy llaw ei chelfyddyd. Dyweded teulu Salem—Glyned fy nhafod wrth daflod fy ngenau, oni chodaf Salem goruwch fy llawenydd penaf. A dyweded mintai ieuanc Seion—"Tydi a gyfodi ac a drugarhei wrth Seion: canys yr amser i drugarhau wrth, ïe, yr amser nodedig a ddaeth." A dywedaf finnau o'm calon wrth bob un o'ch llwythau—"Heddwch fyddo o fewn dy ragfur, a ffyniant yn dy balasau. Er mwyn fy mrodyr a'm cyfeillion y dywedaf yn awr, Heddwch fyddo i ti: er mwyn tŷ yr Arglwydd ein Duw y ceisiaf i ti ddaioni."

OUTLINES OF AN ADDRESS

At Newtown, Montgomeryshire, Feb. 22, 1843, *on occasion of the presentation of the Portraits of "Williams and Moffat," to the Rev. Aaron Francis.*

My Christian Friends—You have done me the honour to ask me to attend your meeting to-day, and the still higher honour of

presiding, and of presenting your gift to my esteemed friend, your Pastor.

I admire your gift. These fine pictures are portraits of great and good men, of holy and devoted men, of men that have been eminently useful to the cause of civilization and humanity in the high service of their Divine Master, in high places on the Missionary field: John Williams, the martyr of Erromanga, now enjoying his rest and reward. There he sits at his table writing his "Missionary Enterprises." And Robert Moffat, the eloquent and enterprising African Missionary, now on the mighty ocean, returning from England to the sphere of his labours. May the God who rules the winds and the waves protect him on his voyage, and bless and prosper him through the remainder of his life. These portraits of Williams and Moffat are considered striking likenesses. The style is characteristic, and the execution beautiful. The artist deserves praise and patronage.

I regard the presentation of these portraits to your minister—

1. As an evidence of cordial affection and love existing between Pastor and People. Such a happy feeling is essential to their co-operation and mutual comfort. Without it no Pastor can be useful, no church can prosper.

2. As an intimation that you wish your minister to study the example of these eminent men, that you wish him to be of the same spirit as these self-denying servants of Christ; that it is your heart's desire that he may be devoted and faithful in the service of his great Master; and that you delight to aid and encourage him in the arduous work of the ministry.

3. As an indication that you take a deep interest in the success of the Missionary cause; and as a pledge that you as a church are resolved to be active in promoting the glory of God, and the welfare of immortal souls: and especially that you wish to cherish a prayerful and liberal Missionary spirit in your thriving town and neighbourhood; and that you desire the good of your country and of the world in the highest sense of that term. No church can be in a healthful prosperous state, unless actuated by an enlightened and expansive Missionary spirit.

I now, with much pleasure, turn to you, my dear friend and brother, Mr. Francis; and I have the honour and gratification to present to you, at the desire and in the name of your people, these striking and beautiful portraits. I understand that you intend to put them up in your study. Such adornments have a happy effect in a minister's library. Those fine countenances will speak to you and smile upon you. The expression of those

lovely eyes will stir up your pure mind by way of remembrance; and will also, I trust, stir up the gift of God which is in you, and strengthen your meditations and prayers, and your holy anxieties for the salvation of immortal souls; and so stimulate and encourage you in your preparations for the public duties of your high and sacred calling.

May they also stir up in your little children a desire to be great, and good, and useful. May your little son, that now smiles on your knee, become a pillar in the temple of our God. May the happy spirit that now warms and animates this large congregation continue; and may it prevail through all our churches; that God may be merciful unto us, and bless us, and cause his face to shine upon us: that his way may be known upon earth; and his saving health among all nations. Then shall the earth yield her increase; and God, even our own God, shall bless us.

AR AGORIAD YSGOLDY.

Hoff genyf weled adeiladau o'r fath yma yn amlhau yn ein hardaloedd a thrwy ein gwlad, drwy gyfraniadau *gwirfoddol*, i ddybenion crefyddol, er gogoniant Duw, ac er lles eneidiau. Y maent yn anrhydedd i'n gwlad a'n cenedl, a byddant yn gysur ac yn lles i'n holoeswyr, ac yn enw i Grist ein Ceidwad.

Codwyd y tŷ hwn, *nid* i fod yn weithdy pethau amser; nid er cyfleusdra i'r cywrain weithio mewn aur, nac arian, na phres, na haiarn, nac mewn gwlan, na llin, na sidan; ond gobeithio y bydd yma fyfyrdodau a serchiadau, yn diwyd weithio ar bethau ysbrydol, ac eneidiau drwy hyny yn cael eu cyfoethogi â thrysorau croes Crist, ac yn cael eu gwisgo yn y llian main cyfiawnder y saint; yn y gwaith edef a nodwydd, mor hardd, nes bod yn gymhwys i fyned i mewn at y Brenin i lys y nef.

Codwyd y tŷ hwn, *nid* i fod yn dŷ marsiandïaeth daearol—nid i newid nwyddau masnach gyda marsiandwyr o'r gwledydd pell—o America, na China, nac India, nac Ynysoedd y De; ond gobeithio y bydd yma gyfathrachu cyflym a dedwydd â gwlad sydd uwch y ser; y bydd yma farsiandïo â gwlad sydd tu draw i derfyn amser, a thu draw i afon marw; sef gwlad y golud parhaus, a'r trysorau na ddiflanant; gwlad y gwisgoedd na heneiddiant, a'r blodau na wywant.

Codwyd y tŷ hwn, *nid* i arlwyo gwleddoedd i'r corff, ond hyderwn y bydd yma wledda ar y manna cuddiedig, ar y pasgedigion breision, a'r gloew-win puredig a geir o fynydd Seion;

hyderwn y bydd yma rai fel rhai bychain newydd eni, yn chwennychu didwyll laeth y gair, fel y cynnyddont trwyddo; y bydd yma rai yn cael o frasder tŷ Dduw, ac o'r bwyd cryf, fel y byddont yn gryfion yn ngwasanaeth eu Brenin.

Codwyd y tŷ hwn er rhoddi addoliad i'r unig wir a'r bywiol Dduw; er magu ei ofn a'i gariad yn y fynwes; er helaethu ein hadnabyddiaeth o hono, a chryfhau ein hymddiried ynddo, a mwynhau ein hyfrydwch yn ei wasanaeth. Ac y mae yn lle, nid i addoli yn *ddirgel* yn unig, ond i addoli trwy ordinhadau cyhoeddus cymdeithasol—trwy gydgynnulliad i ddarllen ei air, a chanu ei fawl, a gweddïo arno, ac ymddyddan am ei gyfreithiau, a'i addewidion, a'i drefn fawr i achub pechadur.

Codwyd y tŷ hwn hefyd i ymladd yn erbyn llygredd; yn erbyn y byd, a'r cnawd, a'r diafol, a'i holl luoedd. Bydd yma gyrchfan i Gristionogion ieuainc a hen o'r cylch yma er trefnu eu byddin a gloewi a gwisgo arfau yr efengyl, er gwrthsefyll a gorchfygu pob gelynion ysbrydol.

A chodwyd y tŷ hwn er parotoi eneidiau i'r nefoedd; er hyfforddi rhai o'u mebyd i deithio tuag yno, i ddysgu iddynt iaith a gwaith y cyfiawnion perffaith sydd yno. Y mae yma ysgol fechan i fod, er parotoi i fyned i'r athrofa fawr fry. Y mae yma deml fechan isod, er parotoi i addoli yn y deml fawr freiniol fry.

Os cedwir at y dybenion hyn ag oeddynt mewn golwg wrth adeiladu a dodrefnu y tŷ ysgafn cyfleus hwn, ac os dilynir hwynt yn syml ac yn gydwybodol, ceir presenoldeb a bendith Duw ynddo. Bydd ei lygad a'i galon tua'r lle hwn. Bydd gwenau ei rasol bresenoldeb yma. Bydd dylanwadau ei ras yn gweithio yma. Bydd nerthoedd ei Ysbryd yn cael eu hamlygu yma. Bydd yma breswylfod i rymus Dduw Jacob. Bydd ef yma ar ei orsedd yn gwrando gweddïau. Bydd yma fel Brenin yn llywodraethu yn ei dŷ. Bydd yma fel Tad ar ben y bwrdd yn rhanu lluniaeth i'w blant. Bydd yma fel Athraw mawr yn addysgu ei ddysgyblion. Bydd yma fel Meddyg tyner yn iachâu calonau drylliog.

Ac os ceir presenoldeb Duw yma, bydd yma le da i eneidiau, caiff y gwan yma ei nerthu. Caiff yr halogedig ei santeiddio. Caiff yr athrist ei ddyddanu. Bydd yma hyfrydwch a budd gyda phob rhan o wasanaeth y tŷ. Bydd yma ganu cynhes o'r galon, a gweddïo taer o'r galon, a darllen yn fyfyriol, a gwrando yn astud. Bydd pob addolwr yma yn *cael* lles ac yn *gwneud* lles.

Nid da na theg ydyw i'n llywodraeth ni, nac unrhyw lywodraeth arall, nac unrhyw lysoedd danynt—gwladol nac eglwysig—

ac nid da na theg ydyw i bendefigion na neb o'u goruchwylwyr geisio lluddias na digaloni neb o'u deiliaid i ymgysegru yn wirfoddol i godi adeiladau o'r fath yma at Ysgolion Sabbathol, ac ymarferiadau ac ordinhadau crefyddol. Dylent, o'r tu arall, er lles eu gwlad, gefnogi pob ymdrechiadau gwirfoddol er taenu breintiau addysg grefyddol drwy yr holl wlad. Hoffwn i'r egwyddor ardderchog o weithredu yn rhydd wirfoddol mewn pob peth crefyddol ddyfod yn egwyddor gyffredinol: ac yr wyf yn dysgwyl y daw felly, ac y llenwir ein gwlad drwy ei hofferynoliaeth â sefydliadau buddiol. Er bod llawer iawn o ddadleu wedi bod mewn llysoedd seneddol ac eglwysig yn erbyn yr egwyddor wirfoddol; ac er ei bod wedi cael llawer iawn o wrthwynebiad ac o gam yn mhob dull a modd, a hyny oddiwrth bobl o gyfoeth ac o awdurdod, etto y mae wedi gweithio yn dra rhagorol drwy yr hanner can' mlynedd diweddaf, ac y mae yn debyg o wneud llawer iawn mwy drwy yr hanner can' mlynedd nesaf. Y mae ei hysbryd wedi disgyn ar hyd yn nod lawer o'r pendefigion fuont yn milwrio yn ei herbyn: a hyderwn na bydd iddynt erlid ei hen ddilynwyr, ar ol iddynt hwy eu hunain gael blas ar y drefn wirfoddol.

Dylem fod yn ddiolchgar am fod y gwaith o adeiladu y tŷ hwn wedi cael ei ddwyn i ben mewn dull mor ddedwydd; am fod y cymydogion wedi cydweithredu mor garedig a ffyddlawn; am na chafodd neb o'r cludwyr na'r adeiladwyr unrhyw niwaid nac anaf gyda'u gwaith. Gobeithio y bydd i oleuni, a chariad, a phurdeb nodweddu yr addoli fydd yma, ac y bydd y cyfan er lles i'r Ysgol Sabbathol yma, a'r ysgolion cymydogaethol. Gobeithio y bydd er lles i frodyr a chwiorydd caredig o enwadau eraill yn yr ardal; ac felly y bydd, os ceisir presenoldeb a bendith Ysbryd yr Arglwydd.

ANERCH EGLWYS.

"Am hyny y cawsom gysur, frodyr, am danoch chwi, yn ein holl orthrymder a'n hangenoctyd, trwy eich ffydd chwi. Oblegid yr awrhon byw ydym ni, os ydych chwi yn sefyll yn yr Arglwydd."—1 Thes. iii. 7, 8.

Y mae o'r pwys mwyaf i weinidogion yr efengyl allu dywedyd gyda hyfdra a chysur, "*Byw ydym ni.*" Heb hyny, bydd eu holl waith yn drwm, a'u holl fywyd yn annedwydd. Heb hyny, ni wnant ddim rhwyg yn nheyrnas y gelyn. Ond bydd y byd, y cnawd, a'r diafol, yn gallu sefyll eu tir yn erbyn eu gweinidogaeth. Heb hyny, ni byddant o nemawr adeiladaeth i'r eglwys, i'w grasau, nac i'w doniau, nac i'w defnyddioldeb, nac i'w chysur,

nac i'w rhifedi, na'i dylanwad. Heb hyny, ni achosant nemawr o lawenydd yn y nef yn ngwydd saint ac angylion. Heb hyny. ni byddant o ddim enw i'r Iesu, ac ni ddygant nemawr o ffrwyth i'r Tad ac i'r Ysbryd.

I. Pa bryd y gall gweinidogion ddywedyd—"Byw ydym ni." Pan fyddont—

1. Yn *fywiog* yn eu gwaith, yn cysegru eu doniau a'u teimladau, a'u holl amser, a holl alluoedd eu cyrff a'u meddyliau ato.

2. Pan fyddont yn *ddedwydd* yn eu gwaith. Pan y bydd eu calon ynddo, pan y bydd ei ddyledswyddau yn fwyd ac yn ddiod i'w heneidiau. Pan y byddont wrth eu bodd yn y fyfyrgell, ac yn yr areithfa, ac yn mhob cyfeillach grefyddol.

3. Pan fyddont yn *llwyddiannus* yn eu gwaith. Pan fyddont yn gwella eu gafael, yn chwanegu cryfdwr, yn myned rhagddynt at fwy o berffeithrwydd, yn ennill tir newydd, yn gwneud eu hôl yn mhob cylch lle byddont; a phawb o'u deutu yn cael gwybod eu bod yn "fyw;" pan fydd yr eglwys yn cael gwybod hyny, a'r byd yn cael gwybod hyny, a phyrth uffern yn cael gwybod hyny.

4. Pan fyddont yn cael eu *cynnal* yn eu gwaith gan bobl eu gofal: fel y gallont fod yn rhydd oddiwrth ofalon a thrafferthion y bywyd hwn, a chael amser tawel i ymroddi i fyfyrdod a gweddi. "Byw ydynt" pan y mae eu heglwysi yn eu cynnal a'u cadw hwy a'u teuluoedd rhag pob "angenoctyd," a hyny mewn ysbryd cariadlawn, ac mewn dull anrhydeddus.

II. Beth sydd gan eglwysi i'w wneud er i'w gweinidogion fod yn "fyw" yn eu gweinidogaeth? Ateb Paul yn y testun ydyw—"Byw ydym ni, os ydych chwi yn sefyll yn yr Arglwydd." Sefyll yn yr Arglwydd ydyw yn

1. Sefyll yn yr athrawiaethau a ddysgodd yr Arglwydd; hyny yw, credu, a charu, a chyffesu, athrawiaethau mawrion sylfaenol y grefydd Gristionogol, am dragwyddol gariad y Duwdod, am rinweddau cyfryngdod yr Iesu, am anchwiliadwy olud gras, am waith yr Ysbryd Glan, am gyflwr colledig dyn wrth natur, am fywyd i'r euog edifeiriol drwy haeddiant yr Iawn mawr, am uniondeb goruchwyliaeth barn; a gogoniant sefyllfa ddyfodol.

2. Sefyll yn yr ysbryd a ddysgodd yr Iesu. Ysbryd ffydd gref mewn gwrthddrychau anweledig; ysbryd haelioni rhydd a llawen wrth gynnal achos yr Iesu yn ei holl gysylltiadau; ysbryd addfwyn, maddeugar, cariadlawn, tuag at ein holl gyd-ddynion; ysbryd gweddi ddyfal, daer, wrth orsedd Duw am y fendith; ysbryd gwrol a llawen mewn gorthrymderau; ac ysbryd i barhau hyd y diwedd.

3. Sefyll gyda'r holl foddion a ordeiniodd yr Iesu—sef y myfyrio a'r gweddïo yn yr ystafell ddirgel; y darllen, a'r gweddïo, a'r canu, a'r cynghori yn y teulu; ymddyddan yn gariadlawn a bywiog yn y gyfeillach grefyddol, fel y byddo ffrwyth myfyrdod a phrofiad y naill yn adeiladol i'r llall; bod yn astud a theimladwy dan y gair, ac yn rheolaidd yn ein lle with y bwrdd, a bod yn llafurus er lledaeniad achos gwerthfawr crefydd drwy ein gwlad a thrwy'r byd. Sefyll fel y milwr da yn sefyll yn ffyddlawn yn ei arfogaeth, ac yn dal ei dir ar y maes drwy holl boethder y frwydr. Sefyll fel llafurwr ffyddlawn yn y winllan, heb gefnu ar ei waith drwy holl wres y dydd. Sefyll fel y gwyliedydd effro drwy holl oriau ei wyliadwriaeth.

Yr ydym yn gobeithio y bydd i'n hanwyl frawd sydd yn cael ei sefydlu yma heddyw yn weinidog Crist i'r Eglwys hon, fod yn un "byw" iawn yn holl ranau y weinidogaeth. Yr ydym yn credu y gwyr drwy brofiad am fywyd crefydd, a bod ei helfenau yn fyw yn ei galon, ac y byddant yn fywyd ei weddïau a'i bregethau, a'i holl ymddyddanion. Ac er ei gadw yn fywiog ac yn galonog yn ei waith pwysig, gobeithio y bydd i'r eglwys yma ymroi i "sefyll yn yr Arglwydd," i sefyll yn ddiysgog dros Iesu a'i deyrnas, er cynnaliaeth breichiau eu gweinidog, ac er llwyddiant ac anrhydedd i achos crefydd. Hyfryd iawn ydyw gweled eglwys a gweinidog yn ffyddlawn i'w gilydd, ac yn dylanwadu beunydd er lles eu gilydd; y gweinidog yn myned yn fwyfwy "byw" o hyd wrth weled ei eglwys yn "sefyll yn yr Arglwydd." Lle y mae eglwys a gweinidog yn cydweithio felly, cânt eu codi ar fyrder i fyw gyda'u gilydd yn y "wlad well" tu draw i'r Iorddonen; a sefyll yn yr Arglwydd yn bur a dedwydd, ar faes blodeuog y nef, ar diroedd hyfryd anfarwoldeb.

CYNGHOR I EGLWYS.

"Mi a adwaen dy weithredoedd di, a'th gariad, a'th wasanaeth, a'th ffydd, a'th amynedd di, a'th weithredoedd; a bod y rhai diweddaf yn fwy na'r rhai cyntaf."—Dat. ii. 19.

Y mae ein testun yn rhan o lythyr a anfonwyd yn moreu Cristionogaeth at eglwys oedd yn ninas Thyatira. Mae'r adnod yn crybwyll yn—

I. Yr ysbryd gwerthfawr y mae yr Iesu yn ei gymeradwyo.

1. Ysbryd *cariad*. Cariad yw Duw, yn Dad, Mab, ac Ysbryd. Cyfundrefn o gariad yw yr efengyl. Cariad ydyw prif elfen crefydd Crist. Cartrefle cariad ydyw y nefoedd. A dedwydd ydyw pob calon, teulu, ardal, ac eglwys sydd yn llawn o gariad

2. Ysbryd *ffydd.* Enaid yn troi ei holl alluoedd i weithredu ar bethau anweledig ydyw ffydd. Y mae a fynom ni â gwrthddrychau anweledig; pethau fu, pethau sydd, a phethau fydd etto. Pethau a fu yn Eden, ac yn nyddiau y diluw, ac wrth y Môr Coch, ac yn y ffwrn dân; ac yn enwedig y pethau rhyfedd fu yn Bethlehem, ac yn Bethania, ac yn Gethsemane, ac ar Galfaria: a'r pethau *sydd* yn y byd mawr tu draw i'r llen—eneidiau y colledigion yn galaru, eneidiau y cyfiawnion yn llawenhau: a'r pethau a *fydd* yn moreu yr adgyfodiad, yn nydd y farn, ac yn ngwynfyd gwlad yr orphwysfa. Ffydd ydyw gwaith y meddwl yn aros ar y pethau hyn, ac yn tynu lles oddiwrthynt.

3. Ysbryd *amyneddgar.* Y mae y gair "amynedd" yn tybied fod rhwystrau i dòri trwyddynt; fod beichiau a chroesau i'w cario, fod cymylau tewion weithiau yn duo yr wybren, fod rhiwiau serth i'w dringo, fod dafnau chwerwon yn nghwpan bywyd, fod siomedigaethau i'w cyfarfod, a bod gelynion i'w gwrthwynebu. "Amynedd" ydyw bod yn wrol, yn ddyoddefgar, yn ddirwgnach, yn ddidroi yn ol yn wyneb anhawsderau ac yn nghanol gorthrymderau.

4. Ysbryd *gweddi.* Tybia hyny fod ar ddyn eisieu cymhorth; fod cymhorth i'w gael yn Nuw; fod Duw yn barod i roddi cymhorth, ac mai y ffordd i gael o'r cyflawnder sydd yn Nuw ydyw trwy *weddio.* Dyma rai o nodweddau yr ysbryd gwerthfawr oedd yn Eglwys Thyatira, yr ysbryd efengylaidd ag y mae yr Iesu yn ei hoffi ac yn ei ganmol.

II. Cyfeiria ein testun at "wasanaeth" a "gweithredoedd" yr eglwys hòno; sef y gweithredoedd ag oeddynt yn ffrwythau yr Ysbryd a grybwyllwyd.

1. Diwydrwydd yn ei chydgynnulliadau. Lle y mae eglwys, neu gymdeithas grefyddol, y mae yn ofynol fod ganddi ei phabell cyfarfod, a bod ganddi ei moddion neu ei hordinhadau cymdeithasol, a'i hamserau penodedig i ddilyn ei hordinhadau. Y mae Pen yr eglwys wedi trefnu i'w bobl ymffurfio yn "Eglwysi;" y mae wedi rhoddi ordinhadau *cymdeithasol* iddynt; ac y mae wedi addaw bod gyda hwy yn eu cynnulliadau: ac un o'u prif rwymedigaethau hwy yw bod yn ddyfal yn eu cydgynnulliadau. Y mae rhai eglwysi yn ddyfal iawn, ac y maent yn cael eu gwobr; y mae eraill yn "arfer" esgeuluso, ac y maent yn cael colledion na wyddir eu maint.

2. Ymarfogi ac ymfyddino yn milwriaeth y nef yn erbyn pob drygau ysbrydol. Y mae cyfeiriadau yn bron bob un o'r llythyrau hyn at yr eglwysi oedd yn Asia, at y saint fel *ymdrechwyr* ac

fel *gorchfygwyr*. Y mae hyny yn tybied fod gelynion iddynt—fod drygau a rhwystrau ar eu ffordd—fod pyrth uffern yn eu herbyn—fod y byd yn llawn o dwyll ac o ddrwg-arferion—a bod meddyliau ofer a nwydau drwg yn eu calonau eu hunain— a bod yr holl ddrygau hyny yn taro yn erbyn ewyllys ac anrhydedd eu Brenin, ac yn erbyn eu llwyddiant a'u dedwyddwch fel cymdeithas; a bod eisieu iddynt ymarfogi ac ymfyddino yn eu herbyn; ac os gwnant hyny mewn modd unol a gwrol, ac yn nerth eu Tywysog, y byddant yn sicr o'r oruchafiaeth.

3. Gofal am weinidogaeth yr efengyl, neu am "gynnal gair y bywyd," er cysur i'r gweinidog yn ei lafur, ac er gorfoledd iddo yn nydd Crist. Gweinidogaeth yr efengyl, sef pregethiad ei gwirioneddau, a gweinyddiad ei hordinhadau, ydyw y prif foddion a drefnodd yr Arglwydd er adeiladaeth a santeiddiad ei eglwys—er argyhoeddi y byd, ac er dyrchafu ei enw. Mae'r gwaith, o ganlyniad, yn annhraethol bwysfawr. Ewyllys yr Arglwydd, yn ol barn bron bawb sydd yn astudio ac yn credu y Beibl, ydyw i eglwysi y saint alw, a dewis, a neilluo rhai o'u mysg i'r swydd bwysfawr o bregethu yr efengyl a gweinyddu ei hordinhadau. Yr ydych chwi yma fel eglwys yn credu hyn, ac yr ydych wedi gweithredu yn ol eich cred, trwy ddewis ein cyfaill a urddwyd yma heddyw i lafurio yn eich mysg yn y swydd bwysicaf ar y ddaear; a'ch braint a'ch dyledswydd chwi fel eglwys fydd gwneud eich goreu i gynnal ei freichiau yn mhob ystyr, fel y gallo gysegru ei feddwl a'i amser, heb faich na gofal bydol, at ei waith mawr. Bydd hyny yn sicr o droi er ennill i chwi. Y mae *dau* gymhorth gan eglwys i'w roddi i'r gweinidog—sef cymhorth i'w *gorff*, a chymhorth i'w *feddwl*—cymhorth mewn pethau tymmorol, ac mewn pethau ysbrydol. Cymhorth iddo gael cartref, ac ymborth, a dillad, a llyfrau; a chymhorth i'w feddwl gael nerth ac ymgeledd, ac adeiladaeth a dyddanwch. Y mae y cymhorth cyntaf i'w estyn iddo drwy gyfrwng *arian*, neu unrhyw anrhegion o lyfrau neu ryw bethau eraill; ac y mae yr ail gymhorth i'w roddi drwy wrandawiad astud a rheolaidd ar ei weinidogaeth—drwy ymddyddanion crefyddol—drwy ymarweddiad duwiol—drwy ysbryd unol a gweithgar—a thrwy weddïo drosto.

4. Ymdrechiadau cyson o blaid lledaeniad achos crefydd yn y byd. Y mae perthynas rhwng eglwys â'r ardal o'i deutu, ac âg eglwysi cymydogaethol, ac â'r byd yn gyffredinol; ac y mae perthynas rhyngddi hefyd â'r holl oesau a ddaw. Y mae felly i fod yn halen y ddaear, ac yn oleuni y byd. Y mae i drosglwyddo goleuni y Beibl, a thrysorau crefydd, nid yn unig i'r cylchoedd

o'i deutu, ond i'r oesoedd a ddelont ar ol. Y mae moddion neu gyfryngau yn nghyrhaedd pob eglwys er llesâu y byd, drwy fywyd a llafur ei haelodau—drwy bregethiad ei gweinidog—drwy bleidio cymdeithasau buddiol ei hoes—drwy daenu llyfrau ac addysg—a thrwy fagu plant tebyg i fod yn athrawon effeithiol ac enwog pan y bydd eu rhïeni wedi gorphen eu gyrfa.

III. Arwydda y testun fod cynnyddu, neu weila y gafael, ac ymestyn yn mlaen yn y "gwasanaeth" a nodwyd, yn boldhau yr Iesu; oblegid y mae yn canmol eglwys Thyatira am fod ei "gweithredoedd diweddaf yn fwy na'r rhai cyntaf." Y mae modd aros yn yr un man, fel nad ellir dweyd yn sier fod eglwys yn cnnill tir nac yn colli tir. Nid argoel dda ydyw bod mewn sefyllfa felly, ac nid yw aros heb gynnydd ddim wrth fodd yr Iesu. Y mae modd *colli* tir—modd ymadael â'r cariad cyntaf—oeri, a gwanychu, a marweiddio. Y mae sefyllfa felly yn un beryglus ac annedwydd, ac yn tristâu Ysbryd Duw. Gan hyny, dylai pob eglwys ymestyn am *gynnydd*—am i'w "gweithredoedd diweddaf fod yn fwy na'r rhai cyntaf." Oblegid yn—

1. Y mae pob peth o'i deutu yn symud yn mlaen—pob ceiffyddyd a phob gwybodaeth.

2. Y mae tir lawer etto iddi i'w feddiannu—tir prydferth, ffrwythlawn, ar feusydd gwybodaeth, santeiddrwydd, haelioni, a chariad.

3. Y mae y nefoedd yn dysgwyl i eglwysi fod yn fywiog a gweithgar, yn gryfion ac yn llawnllaw, a chyrhaedd tir uchel mewn llafur, a gwybodaeth, a santeiddrwydd, a defnyddioldeb.

4. Hyfrydwch mawr i enaid ac i eglwys ydyw *cynnyddu* gyda gwaith yr Arglwydd.

IV. Y mae yma air o annogaeth gref i'r rhai sydd yn cynnyddu felly: "Mi a adwaen dy weithredoedd di." Meddyliwn yn—

1. Pwy sydd yn dywedyd hyn? Cawn grybwylliad o'i deitlau a'i gymeriadau yn y llythyrau hyn at yr eglwysi.

2. Ystyriwn beth yw ei feddwl pan y mae yn dywedyd hyn. Y mae ei eiriau yn arwyddo nad oes dim yn cymeryd lle mewn eglwys nad yw ef yn "adwaen" y cyfan; ac felly ei fod yn gwybod pa fodd i wobrwyo pawb yn ol eu gwasanaeth a'u gweithredoedd. Y mae yn cadw llyfr coffadwriaeth o'u holl weithredoedd, ac y mae ganddo ddigon o fodd i'w gwobrwyo. Myn gasglu ei holl eglwysi yn nghyd i le gwell, at wasanaeth gwell, i gyfeillach burach, ac i gyflwr dedwyddach—mil dedwyddach nag a allant gael tra yma yn myd y profedigaethau, yn nglyn wylofain; a myn eu gwobrwyo oll yn ol eu llafur a'u ffyddlondeb.

CYNGHOR I WEINIDOG.

"Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd; Os rhodi di yn fy ffyrdd, ac os cedwi fy nghadwraeth, tithau hefyd a ferni fy nhŷ, ac a gedwi fy nghynteddoedd; rhoddaf i ti hefyd leoedd i rodio yn mysg y rhai hyn sydd yn sefyll yma."—Zech. iii. 7.

Llefarwyd y geiriau hyn er cyfarwyddyd ac annogaeth i ryw un o weinidogion y cysegr gynt, ond y maent mor gymhwysiadol i ni yn awr ag oeddynt iddynt hwy y pryd hyny; ac felly gallant fod yn deilwng o ystyriaeth ein brawd ieuanc a neilldnwyd yma heddyw i waith y weinidogaeth. Nodwn yn—

I. Brif ranau dyledswydd gweinidog.

1. Rhodio yn bersonol yn "ffyrdd yr Arglwydd." Ffyrdd myfyrdod a gweddi, ffyrdd ffydd a chariad, ffyrdd edifeirwch, a hunanymwadiad, a llafur: aros ar y ffyrdd hyn heb gilio o honynt, a chynnyddu ynddynt. Y mae modd i ddyfod, nid yn unig i'r cysegr ac at fwrdd y cymundeb, ond i'r weinidogaeth, heb gywir rodio yn ffyrdd yr Arglwydd. Y mae hyny yn wir ofnadwy, oblegid ei fod yn esgeulusiad o'r eam cyntaf o yrfa ddefnyddiol, ac am ei fod yn rhyfyg ofnadwy yn erbyn yr Arglwydd.

2. "Cadw cadwraeth yr Arglwydd," sef cadw athrawiaethau yr efengyl yn bur ac yn eglur yn y weinidogaeth; ac ymdrechu cadw yr eneidiau fydd yn ei gwrando o gyrhaedd colledigaeth, a'u denu i afael bywyd tragwyddol.

3. "Barnu tŷ" yr Arglwydd. Nid llunio cyfreithiau, na gosod ordinhadau newyddion yn ei dŷ, ond egluro pwys, ac uniondeb, a gogoniant y cyfreithiau sydd *wedi* cael eu gosod, yn y bregeth ac yn y gymdeithas grefyddol, a chynnorthwyo yr eglwys i weinyddu y cyfreithiau hyny yn ofn yr Arglwydd wrth dderbyn aelodau, wrth rybuddio yr afreolus, wrth ddiarddel y troseddwr cyndyn, ac wrth gydbenderfynu pa fodd i ddwyn yn mlaen wahanol ranau gwaith yr eglwys yn ol ewyllys Duw.

4. Cadw neu ofalu am "gynteddoedd" yr Arglwydd. Gellir ystyried y cymdeithasau buddiol sydd yn llesâu ac yn enwogi ein gwlad, megys yr Ysgolion Sabbathol, a'r Cymdeithasau Cenadol, a Beiblaidd, a Dirwest, a'r Traethodau, a gwasanaeth yr allorau teuluaidd, fel "cynteddoedd" tŷ yr Arglwydd, ac y mae llwyddiant, a chysur, ac anrhydedd gweinidog yn troi i raddau helaeth ar ei ymdrech a'i ofal yn y "cynteddoedd" hyn; a dylai gael ei gefnogi, nid yn unig i "farnu y tŷ" pan yn blaenori yn ol ei swydd, ond hefyd i ofalu hyd y gallo am gadw ei holl "gynteddoedd" mewn trefn ac effeithioldeb.

II. Yr annogaethau sydd yma i weinidog i fod yn llafurus a ffyddlawn gyda'r gofalon pwysig a enwyd.

1. Y mae yn gwasanaethu Meistr gogoneddus—"Arglwydd y lluoedd." Yr hwn y mae teulu mawr y nef yn ei wasanaethu gyda phob hyfrydwch. Yr hwn y bu enwogion yr hen oesoedd wrth eu bodd yn ei wasanaethu. Yr hwn sydd a'i lygad bob amser ar ei holl weision. Yr hwn sydd yn barod i'w cynnorthwyo, ac yn abl i'w gwobrwyo.

2. Y mae ei wasanaeth yn anrhydeddus. Bod yn genadwr dros Grist—yn oruchwyliwr ar ei drysorau—yn swyddog yn ei fyddin—yn athraw yn ei ysgol—yn gyhoeddwr ei efengyl—yn flaenor yn ei eglwys—yn farnwr yn ei dŷ. Rhaid fod y fath wasanaeth, nid yn unig yn bwysfawr, ond yn wir anrhydeddus.

3. Y mae ei wasanaeth yn un hyfryd. Er fod gofalon ei swydd yn lluosog ac yn drymion, ac yn gofyn llafur corff, a llafur dyfalaf y meddwl, etto y mae gwir hyfrydwch i'w gael yn y gwaith; weithiau yn y fyfyrgell gyda'r Beibl; weithiau wrth yr orsedd yn gweddio drosto ei hun a thros eraill: weithiau yn y cyfeillachau eglwysig gyda'r brodyr a'r chwiorydd; weithiau wrth fwrdd y cymundeb, pan y gwelir yr Iesu ar dòriad y bara; weithiau wrth egwyddori plant yr eglwys; ac weithiau gyda gofalon y "cynteddoedd."

4. Y mae gwobr fawr i'r gwaith. Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd wrth bob un llafurus a ffyddlawn—"Rhoddaf i ti *leoedd* i rodio." Cei drigfan dawel i breswylio ynddi; cei lwybrau hyfryd i'w rhodio; cei swydd uchel i'w llenwi yn nheml fy llys, a rhoddaf i ti leoedd "*yn mysg y rhai hyn sydd yn sefyll yma.*" Yn mysg angylion fy llys—yn mysg patriarchiaid a phrophwydi, ac apostolion yr hen oesoedd—yn mysg ardderchog lu y merthyron, a duwiolion yr oesau diweddaraf—yn mysg y duwiolion ydynt yn awr yn wasgaredig drwy'r byd—yn mysg ffyddloniaid yr eglwys dan dy ofal; a bydd yn annbraethol felus i'r rhai fu'n wasanaethgar i'w gilydd ar y ddaear gydgyfarfod yn y nefoedd, yn mysg yr holl rai gwaredol sydd yn sefyll "*yma.*" Yma yn fy llys, yn fy nheml; yn y nefoedd newydd a'r ddaear newydd; yma dan oruchwyliaethau diweddaf fy ngras a'm gogoniant; *yma* yn ngwedd fy wyneb, lle y mae yr Iesu yn teyrnasu yn ein natur ni; a sefyll yma *byth* bythoedd ar diroedd hyfryd anfarwoldeb.

Y mae gwaith y weinidogaeth wedi bod yn bwysig iawn yn mhob oes, a than bob goruchwyliaeth; ac yr wyf yn ystyried ei bod o gymaint pwys yn ein dyddiau ni ag y bu erioed. Yr ydym yn byw mewn oes o gynniwair ac o gynhwrf, o ymchwilio ac o lafur, ac o gydweithrediad gyda phob achos; ac yr wyf yn ystyried y dylai gweinidogion yr efengyl fod yn ddynion myfyr

gar, a darllengar, a gwrol; yn ddynion o ysbrydolrwydd meddwl, o hunanymwadiad, a chariad, ac addfwynder; yn ddynion nerthol mewn gweddi, llawn o ffydd ac o'r Ysbryd Glan, yn hoff o'u gwaith, ac yn foddlon i dreulio ac ymdreulio ynddo. Ac yr wyf yn credu, pe gallai gweinidogion gyrhaedd mwy o'r ysbryd yma, mwy o ysbryd Paul ac Elias, ac o ysbryd eu Hathraw mawr, yr ennillent y byd yn llawer cyflymach i ufuddhau i efengyl Crist.

Gobeithio y bydd ein brawd ieuanc, bywiog hwn, yn enwog mewn duwioldeb ac mewn defnyddioldeb am oes hir, ddedwydd, anrhydeddus; ac y caiff yr eglwys yma, a llaweroedd sydd etto heb eu geni, adeiladaeth a chysur yn ei gymdeithas a than ei weinidogaeth.

TESTIMONIAL TO THE REV. S. ROBERTS, M.A., OF LLANBRYNMAIR.

On Monday evening, June 18th, 1855, the Congregational Church, meeting at the Old Chapel, Llanbrynmair, had a very crowded meeting to present a testimonial to their Minister, the Rev. Samuel Roberts. G. Williams, Esq., of Pentremawr, one of the deacons, presided: and after intimating that Mr. Roberts had been brought up in the neighbourhood, and had continued among them as their counsellor and their friend, he expressed in brief affectionate words, the gratitude of his neighbours to Mr. Roberts for his various efforts to benefit them, and handed to him in the name and on behalf of the Congregation, a Purse of Fifty Pounds.

Mr. Roberts, as receiving the Purse, acknowledged the kindness of his neighbours in a lengthened address of much point and feeling:—in which he intimated that he had been born within twenty yards of that platform—that he had never had, or sought to have, any name but "*Samuel Roberts, of Llanbrynmair*"—that other doors had been open to him, but that he had clung to that congregation throughout all its vicissitudes, and had never repented of his purpose. He stated that Dr. Abraham Rees, who had been born in their Old-Chapel-House, had kindly offered his meditation to obtain a London Education for him, but that his father's attachment to Welsh Language, and to the sphere of his labours, had influenced him respectfully to decline the proposal of Dr. Rees. Mr. Roberts then made some touching allusions to the removal by death of most of his Father's

companions, and many of the companions of his own early day in the bloom of their usefulness. He then observed that hundreds of his neighbours had removed in his time to reside in other localities. He recollected eighty starting on the same morning for the United States; and nearly the whole of them were members of his congregation. These oft-recurring recollections of departed and absent friends made him at times very much depressed; but the hope of meeting them again on the flowery hills of a "better country" recheered him: and he recited some Welsh lines of great force and beauty, on the fellowship and worship of heaven. He then feelingly alluded to the uniform kindness of his congregation towards him;—to their punctual attendance (especially as many of them have to come such a distance) on Sabbath mornings. He specified several instances of their kindness, especially when they sent him to College—when they welcomed his return—and appointed him to succeed his father in the pastorate—and when they gave him and his brother a purse each at the time they erected the tablet to the memory of Lewis Rees, and Richard Tibbot, and John Roberts—and the very handsome manner in which they assisted him and his brother when, a few years ago, a panic in the money market had caused them a trying loss.

Mr. Roberts then expressed great joy at what the voluntary efforts of that congregation had effected in his time. They had erected three Chapels, and three Chapel-houses, and seven commodious substantial Sabbath School Rooms,—and all at their own cost. He had begged much at various times from liberal friends in England, but had never had any occasion to beg for Llanbrynmair. They had also contributed their full share to aid weaker churches to pay for their chapels; and had been very regular in their subscriptions to their colleges, and in their Bible and Missionary collections; and he sincerely rejoiced in what they had done. Mr. Roberts then, in a bolder tone, echoed the sentiments of the Chairman's Address: and admitted that it would be *mock*-modesty in him to bow, and to say that he had done nothing to deserve their favour; for he *had*, in his humble way, endeavoured to repay their kindness by *working* with them in the church, and in the Sabbath School, and other institutions: and it had also been his desire to *multiply* the temporal conveniences and comforts of the neighbourhood.

Twenty years back they had no Post Office at Llanbrynmair, but had to get their papers and letters by chance hands from Newtown or Machynlleth—an average distance of fourteen

miles; and their letters were generally more than a week old when they received them. He recollected memorializing the General Post Office on the subject; and the office gave them a foot-post from Newtown three times a week, as an *experiment*. That experiment was made at a most unfavourable season; and soon an intimation came that it did not answer, and would be discontinued. After submitting for a short time to that disappointment, Mr. Roberts recollected writing four memorials which he sent on the same day—one to the Postmaster General, one to Charles W. W. Wynne, M.P., one to Sir John Conroy, and one to Sir John Edwards—three true Montgomeryshire men, now gone from the field. In those memorials he complained in strong terms of the vexatious inconvenience of their not having a Post Office in such a district, and that the former experiment had not had a *fair* trial. The three honourable gentlemen just named, made their representations all at once at the General Post Office; and a second experiment was made, and it answered *well*. It was sweet, said he, to have a foot-post three times a week; but he knew that it would be sweeter still to hear the music of the brass bugle of the Royal Mail send its shrill echoes through their glyns, on the right and on the left, every morning and every evening: and he addressed a brief argument to the authorities of the Post Office and of the county, at first privately, and afterwards more publicly, in favour of the *middle* line across Montgomeryshire as being much better for the mail route than either of the *border* lines; and they, after very considerable opposition, were at length persuaded to adopt the *middle* line; and the Royal Mail wheels now thunder away through Llanbrynmair, along the Iaen and the Twymyn, down to the Dovey valley.

Mr. Roberts then briefly stated that he had, during the past ten years, done all the little he could to stir up a Railway spirit in the old county of Montgomery; and he very greatly rejoiced that there was a prospect now of the speedy accomplishment of the most important portion of the communication so much required. He observed that the Bill had passed the Commons, and was now on the eve of its third reading in the Lords; and if any party should at this stage of its progress plot to obstruct it, the character of that dog-in-manger-party ought to go down, down, down, from generation to generation, as a bye-word and curse.

Mr. Roberts then referred to correspondence which he had three years back with the patriotic father of the present penny-

postage-system, on the subject of a lower charge for the transmission of "printed matter" through the Post Office; and also to a correspondence he had some three months back with Sir George Cornwell Lewis and Mr. Cobden and others, on the same subject; and he was happy to announce, that a new regulation as to the "postage of printed matter" had been adopted, and had just come into operation, which he believed would greatly facilitate the extension of knowledge.

He had also repeatedly memorialized the Post Office, and petitioned the legislature, for "cheap-ocean-postage." That boon has not yet been granted: but it *must* come, and must come *soon*. Governments are sometimes very *slow* to pass measures of the purest benefit to themselves and to mankind.

He had also some half-a-dozen years back, most humbly begged Lord John Russell to "give him a vote;" and his lordship had virtually more than once promised to "give him a vote;" but as his lordship and his colleagues are now so very busy with *foreign* matters, he had not yet been able to perform his promise.

Mr. Roberts then just intimated that he had assisted in establishing the new Fairs by the Wynnstay Arms, and in drawing up the Rules of their Friendly Societies; and he anxiously hoped that their Fairs and Clubs would continue to prove *useful*.

He was a warm advocate of steady, well-considered efforts for *agricultural improvements;* and he would have done more to spur on the improvements of Roads and Farms and Farm-buildings, but he felt that his position was too humble, and his influence too light for such duties; and he would leave them to others.

He then observed that he occasionally crossed the boundary of his profession to write "*Wills*." He did not covet such services. They did not pertain exactly to his 'cloth;' but he referred to them just for the purpose of saying thus publicly,—that he always did warmly approve of *timely* arrangements, to "order" such matters in the season of health, and in the calmness of a leisure hour.

He had also lately in his little Welsh "*Cronicl*," shown the Red-Tape-Officials of the Income Tax, a simpler and much less expensive mode of collecting its revenue. He had given them his opinion *gratis*, and he humbly hoped that his advice would be adopted.

Had it not been for the handsome *purse* which they had just given him, he should not have thus *boastingly* referred to these services: but as they had so publicly given him such a testimo-

nial, it was meet for him to acknowledge that *they*, on their part, had been very kind to him, and that *he*, on his part, had on some occasion at least, done his best to serve them. He could not at all approve of the old fashion too commonly followed on such *testimonial-occasions*, for the party rewarded to demean himself and his friends so far as to say that he had done nothing to deserve the reward given him.

He then, with solemn emphasis, intimated his conviction that it was the highest privilege of man *to do good*, and that men and women of all classes, high and low, rich and poor, old and young, professional or non-professional, might do *more* good. He grieved that he had not done more good; and expressed a humble hope that after being thus honoured by his congregation, he should not be cast away by his *Master;* and a fervent prayer that none of those who had so kindly brought their gifts to the servant, should keep the meek and gracious Master out at the door.

When Mr. Roberts sat down, the Rev. William Rees, of Liverpool, stood up and said, that he was very glad to come, at the request of his Llanbrynmair friends—even through pressing difficulties—to witness their love and joy on that happy occasion. He sincerely rejoiced that his friend Mr. Roberts had been enabled to do so much for them, and for Wales—that he had been honoured to raise Llanbrynmair higher than it had been even in the days of his faithful and labourious predecessors—that he had long known him as a meek and steady friend, and that he esteemed him very highly as the Editor of a Periodical, and as a Minister of Christ: and he hoped that he might be spared to see his *Jubilee* year at Llanbrynmair, when (if he continued to do well) he would be sure to receive a still *larger* purse than that now on the table. Before sitting down, Mr. Rees read a very kind letter from an *English* gentleman, who had just *incidentally* heard of their meeting; and who after a most friendly allusion to Mr. Roberts's "services in the Church of Christ" thus concluded his letter:—

"I should delight to be present with you on Monday evening. Though I should not understand your Welsh addresses, I should be happy in seeing you all happy. You will not, I trust, object to receive the inclosed order for fifty shillings, and so make your Testimonial fifty *guineas* instead of fifty pounds.—W. F."

"*June* 16*th*, 1855."

After an appropriate stanza had been sung, the Rev. W. Rees delivered his "LECTURE ON THE PRESENT WAR." A lecture full

of thrilling interest, and of overwhelming power,—containing a lucid sketch of the origin of the War—of the burning jealousies of rival churches in the East—the failure of diplomatic mediation to extinguish or smother the flames—the fearful outburst and spread of the conflagration—the ruinous losses thereby occasioned to the countries of Europe—its still threatening dangers—the awfully heavy blame which, in his opinion, lies at the door of all the powers engaged in the contest—some of the mighty evils which it would entail—the light in which it would be viewed by posterity, and the good which he hoped a gracious over-ruling Providence would educe from it.

On the motion of Mr. Davies of Dolcaradog, seconded by Mr. Williams of Bont, a vote of thanks to the Lecturer was carried by acclamation: and it was evidently the impression of the meeting, that if SUCH Lectures had been delivered throughout the country at the commencement of the War, its dreadful horrors and countless losses might have been avoided.

ANRHEG I'R PARCH. SAMUEL ROBERTS, A.C., LLANBRYNMAIR.

(O'r Faner.)

Nos Fercher, y 29ain o Ebrill, 1857, cynnaliwyd cyfarfod lluosog yn Neuadd Drefnewydd, i gyflwyno anrheg i Mr. Roberts, ar ei ymfudiad o Gymru i Tennessee. Cymerwyd y gadair gan y Parch. J. Edwards, A.C., *rector* y dref, yr hwn a anerchodd y gynnulleidfa luosog mewn dull effeithiol a boneddigaidd; a gellir dweyd fod y cyfarfod hwn yn un o'r rhai rhyfeddaf ac effeithiolaf a gynnaliwyd erioed yn Nghymru. Yr oedd ar yr esgynlawr, y Parchedigion C. H. Derby, J. Pugh, J. Owen, E. Roberts, J. Williams, H. Morgan; A. a D. Howell, a C. R. Jones, Yswd.

Agorwyd y cyfarfod gan y cadeirydd, trwy ddweyd ei resymau dros lywyddu y cyfarfod; ac yna ychwanegai:—

"Pe byddai angenrhaid i gyfiawnhau fy ngweithred o lywyddu yma heno, gallwn nodi esiampl uchel a'm hamddiffyn rhag bai dan adenydd esgobawl. Clywsoch yn ddiweddar am esgob yn dilyn gweddillion marwol gweinidog Ymneillduol. Os wyf, gan hyny, yn camfarnu trwy fod yma heno, caf y boddlonrwydd o gyfeiliorni yn nghwmpeini y duwiol a'r dysgedig Dr. Graham, esgob Caerlleon. Ond nid ydym ni ar ddilyn Mr. Roberts i'w fedd, er ein bod yn gwneud y peth nesaf at y gwaith galarus

hwnw. Yr ydym yn ei ddilyn i làn y môr, o ba le, mewn ychydig ddyddiau, y mae ar hwylio i randiroedd pellenig y byd; a sicr genyf y bydd llawer calon yn llawn o alar, a llawer llygad yn llawn o ddagrau, ar ddydd ei ymadawiad, gan ofidio yn benaf na chânt weled ei wyneb ef mwy. Ond arbedwn ein dagrau; ni ddaethom yn nghyd i alaru am y marw, ond i barchu y byw, ac yntau, er heibio canol oedran, mewn cyflawn fwyniant yn ol pob argoel, o'i holl gynneddfau—corff a meddwl. Ein gwaith yw cydnabod gwasanaeth mewn amser a aeth heibio, yn hytrach nag ystyried tynged ddyfodol ein cyfaill, yr hon sydd mewn gwell dwylaw na'r eiddom ni. Beth, gan hyny, a'n dygodd yn nghyd? Diammheu y gall pobl Cymru roddi rheswm paham y darfu iddynt gyfranu o'u heiddo mor haelfrydig tuag at y dystiolaeth o barch ag yr wyf am ei chyflwyno i'w ddwylaw. Y mae pawb yn gyffredin yn cyfaddef mai nid dyn cyffredin yw ein cyfaill Mr. Roberts. Rhaid fod rhywbeth mewn dyn, yr hwn, heb gyfoeth na sefyllfa uchel, na chyfathrach alluog, a allai alw allan y fath ymddangosiad o barch a welir yma heno. Yn yr ystafell orlawn hon, a'r rhestr hir o danysgrifwyr, ceir arwydd bywiol o gymeriad ein cyfaill yn meddyliau ei gydwladwyr. Nid peth newydd iddynt hwy yw ei lafur a'i ddiwydrwydd yn llodaeniad yr efengyl, yn y ffurf a dybiai efe yn bur, os nid y puraf o honi. Gymaint a lafuriodd fel hyn yn ystod 35 o flynyddoedd, a fyddai yn bwnc o ryfeddod i rai dynion a eisteddant yn dawel gartref, gan dybied mai pregethu a gwaith y weinidogaeth yw y peth hawddaf dan wyneb haul. Pe gallem alw yn dyst y ferlen fechan hòno, ar ba un y gwelsom ef mor aml yn marchogaeth ar draws y wlad, gallai hi roddi hanes lled deimladwy o deithiau yn fynych a wnaeth ei meistr ar ei chefn. A'r tâl a gafodd oedd, heblaw ei gynnaliaeth, y teimlad fod ei lafur yn llafur o gariad, ac hwyrach nid yn ofer yn yr Arglwydd. Bydded tystiolaeth y dydd heddyw yn rhyw gydnabyddiaeth o anghof o'r blaen. A diammheu genyf mai prif ddyben Mr. Roberts, heb anghofio lles ei enwad priodol, oedd ennill eneidiau at Grist. A chan fy mod yn credu mai prif destun Mr. Roberts, yn ei holl athrawiaeth, oedd Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, gallaf fi ar y maes llydan catholig hwn, wrth drocd y groes, gynnyg fy llaw fel brawd yn efengyl y bendigedig Dduw. Ond fy ngwaith i ydyw, nid dadgan fy syniadau fy hun, ond teimladau y cyfranwyr tuag at y dystiolaeth o barch i'n brawd. Y mae rhai yn ddiolchgar am 'air y bywyd' a glywsant o'ch genau, ac ni chlywant mwy; eraill yn chwennych dangos eu parch i'ch cymeriad gonest ac annibynol fel dyn a gwladwr; eraill a'ch hoffant am eich sel dros iawnderau Cymreig

yn nglŷn â hen iaith eu mamau, yr hon sydd yn gomedd marw, er mwyn boddio rheolwyr Seisnig a Chymry hanner-calon; eraill sydd yn ddiolchgar i chwi am oleuo y ffarmwr mewn perthynas i ffosydd, a thrin tir; eraill am i chwi ymdrechu at gael ffordd haiarn i'r rhan hon o Gymru. Yn wir, bu genych 'bin ysgrifenydd buan' ar bob testun, o gyfansoddiad eglwys at wneuthuriad ffordd; ac er i chwi ysgrifenu amryw bethau nas gallwn ni, Eglwyswyr Cymru, eu cymeradwyo, ac efallai y dymunech eich hun, fel yr eloch yn hynach ac yn ddoethach, pe nad ysgrifenasid hwynt; etto, parchwn eich sel at eich achos. Ond fe'm coffëir fod Cymru ar golli un o'i ffyddlonaf feibion. Barnwn na churodd calon fwy cywir at wlad ei enedigaeth erioed yn mynwes Cymro; a thebygol yw y gwna y galon hon, yn awr ac eilwaith, droi o wastadedd Tennessee at y tŷ ar ochr y bryn, yn mhlwyf Llanbrynmair, lle y teimlodd fywyd yn curo gyntaf yn ei gwythïenau.

'Try dy galon glaf gan hiraeth,
At wlad a bro dy enedigaeth.'

"Ewch, gan hyny, garedig Syr, yn ol eich penderfyniad, ar ol hir a dwys ystyriaeth; ewch mewn ffydd a gobaith, a llawn ymddiried yn rhagluniaeth Duw, bod blynyddoedd lawer o anrhydedd a defnyddioldeb, ac os caniateir, o lwyddiant daearol, o'ch blaen. Bydded i'r llong a'ch cyflwyna dros yr *Atlantic* maith, gael ei chludo gan wyntoedd ffafriol, megys ag y dilyner hi â gweddïau a dymuniadau eich cyfeillion gartref. Ië, bydded i'r Bod anfeidrol, yr hwn sydd yn dwyn y gwynt allan o'i drysorau, ac a fesur y dyfroedd yn ei ddwrn, orchymyn i'r gwyntoedd a'r dyfroedd eich dwyn yn ddiogel i'r porthladd lle y dymunech fod. A phan ddel amser eich gyrfa i ben, (a rhaid i chwi dalu y ddyled y mae natur yn ei gofyn), bydded i chwi y pryd hwnw gael mynediad drwy haeddedigaethau eich Prynwr yn unig i'r orphwysfa sydd etto yn ol i bobl Dduw. Yno, fy nghyfeillion, a fydd i ni oll yn orphwysfa dawel, pan fo pob gwahaniaeth, ac ymryson, ac eiddigedd, ac ymraniad, wedi darfod byth, ac oll yn un a chytun.

"Nid oes genyf yn awr ond eich anrhegu â *watch a chadwyn aur, writing case*, a phwrs yn cynnwys £160, fel rhodd ymadawol eich cyfeillion."

Ar dderbyniad yr anrhegion, cyfododd Mr. S. Roberts i anerch y cyfarfod yn nghanol dagrau ac arwyddion o gymeradwyaeth y gynnulleidfa; ond cyn iddo bron ddechreu siarad, cyfododd y Parch. D. Evans i roddi y gadwen aur am ei wddf, yr hyn a effeithiodd gymaint ar ei deimladau, fel nas gwyddai yn iawn pa fodd

i ail ddechreu. Gallesid yn hawdd ddarllen ar ei wyneb ei fod yn debyg iawn i Dafydd pan y gwisgwyd ef yn arfau Saul, ac y dywedai, "Nis gallaf fi gerdded yn y rhai hyn;" ond, ar ol rhoddi y gadwen aur fawr hardd ychydig o'r golwg, ail ymwrolodd ac ail ddechreuodd trwy ddywedyd:—

"Nis gellir byth ddilëu gweithrediadau y prydnawn heddyw oddiar fy meddwl; yr wyf newydd ffarwelio â'm hen gyfeillion anwyl yn Llanbrynmair, a chefnu ar y lle y cefais fy ngeni ac y chwareuais ddyddiau fy ieuenctyd; ac y mae hyny wedi effeithio mor fawr arnaf fel yr wyf yn teimlo fy hun yn analluog braidd i ddywedyd dim. Ond heblaw hyny, y mae y llafur a'r trafferthion a gefais yn ddiweddar, yn nghyda'r araeth rymus a glywsom o enau y cadeirydd, wedi fy ngwneud yn fwy felly; ac yn wir, y mae derbyn y fath anrhegion, fel amlygiad o barch tuag ataf, gan fy nghydwladwyr, ar fy noswaith olaf yn Nghymru, wedi fy ngorchfygu i'r fath raddau fel yr wyf yn hollol analluog i'ch anerch fel y dymunwn. Ond gallaf sicrhau i chwi fy mod yn teimlo y diolchgarwch mwyaf, nid yn unig am yr anrhegion presenol, ond hefyd am y caredigrwydd a dderbyniais oddiar eich llaw yr amseroedd a aethant heibio. I'r pwyllgor yr wyf yn ddiolchgar am eu ffyddlondeb a'u llafur; i'r ysgrifenydd parchedig, nis gallaf gael allan iaith i ddangos teimladau fy nghalon am ei lafur llwyddiannus yn dwyn hyn oddiamgylch; ac hefyd i'r *rector* am ei lyfr, am gymeryd y gadair, ac am ei araeth alluog ac ysplenydd—yr unig beth yr wyf yn ei ofni yw ei fod wedi fy nghodi yn rhy uchel o lawer iawn. Y mae rhai o'm cyfeillion yn fy meio am i mi adael Cymru; ond nis gallaf ddywedyd pa un a ydynt yn iawn ai peidio; fodd bynag, gallaf sicrhau na ddarfu i mi feddwl am fyned er mwyn cael prawf fel hyn o'ch teimladau tuag ataf, oblegid yr wyf bob amser wedi cael tiriondeb oddiar eich llaw. A gallaf ddywedyd i mi wneud ymdrech er rhoddi attalfa ar ddygiad yn mlaen y *testimonial* presenol, hyd nes y deallais fod cyfeillion yn benderfynol ar weithio y peth yn mlaen. Yr wyf yn caru fy ngwlad er cymaint ei beiau, ac yn dymuno ei llwyddiant a'i lles yn mhob peth da. Y mae y Diefnewydd yn anwyl i mi, am ei bod yn dwyn i'm cof y pum' mlynedd y bum yn byw yn fyfyriwr ynddi; ac yr wyf yn gwybod fod ynddi ddynion o feddwl ac o gyfoeth, ac yr wyf yn credu y bydd i'r *Montgomeryshire Railways* fod yn foddion i ddwyn yn mlaen lawer iawn o welliantau, ac yn enwedig y *line* i Milford Haven; ac wrth derfynu, yr wyf etto yn cyflwyno i chwi oll fy niolchgarwch gwresocaf am eich anrhegion."

Wedi hyny, galwyd ar yr ysgrifenydd, y Parch. D. Evans, i

anerch y cyfarfod. Dywedai ei fod wedi edrych yn mlaen gyda gradd o ofid oblegid fod llwyddiant neu aflwyddiant y cyfarfod a'r anrheg hwn yn ymddibynu i raddau helaeth ar ei law ef: yr oedd ganddo amryw orchwylion pwysig eraill mewn llaw, a buasai yn dda ganddo pe gallasai roddi rhagor o'i amser at yr achos teilwng hwn, ond gwnaeth ei oreu. Dywedodd ei fod wedi derbyn llythyrau o bob parth o Gymru, yn hysbysu y cyfranent gyda'r parodrwydd mwyaf *unrhyw swm* pe b'ai Mr. R. yn aros yn ei hen wlad. Y mae y cyfraniadau wedi dyfod oddiwrth wahanol Gristionogion o bob enwad heb wahaniaeth; ïe, oddiwrth *rai* y bu Mr. R. yn eu *fflangellu yn dost*, yr hyn a ddengys eu bod yn barnu mai eu lles oedd ganddo mewn golwg, yn nghyda'u tymher faddeugar hwythau.

Cafwyd anerchion byrion a chynnwysfawr gan y cyfeillion eraill oedd ar yr esgynlawr.

Ar ol y cyfarfod, eisteddodd tua deugain o gyfeillion Mr. Roberts i swpera yn yr *Elephant and Castle*.—GOHEBYDD.

CYFFES S. R. DDYDD EI URDDIAD, AWST 15, 1827.

PA beth yw eich golygiadau am waith y weinidogaeth?

Yr wyf yn ei olygu yn waith pwysig iawn yn ei natur a'i ganlyniadau. Ei fod yn gofyn yr holl feddwl a'r holl galon. Mai y rhyfyg mwyaf ydyw ymosod arno yn anystyriol, neu ymwneud âg ef mewn modd rhagrithiol ac anffyddlawn. Fod y cyfryw yn digio eu Creawdwr, yn halogi ei gysegr, yn cymylu ei ogoniant, yn debyg o beri blinder i'w eglwys, o fod yn attalfa i lwyddiant ei achos, ac y bydd eu cyfiwr yn alaethus drwm yn y dydd mawr, pan y bydd Crist, yn ngwydd y bydoedd, yn diarddel yr anffyddloniaid. Ond, o'r tu arall, yr wyf yn credu mai y fraint fwyaf i ddyn ydyw cael ymroddi i'r gwaith o lwyrfryd calon, gan ymnerthu yn y gras sydd yn Nghrist Iesu; mai anrhydedd mwy nag a fedd y byd yw cael bod o ddefnydd yn eglwys Dduw, ac yn offerynol i ennill eneidiau; ac mai mawr fydd gorfoledd y gwas ffyddlawn yn ail ddyfodiad ei Arglwydd.

Pa beth a'ch tueddodd i ymroddi i'r gwaith pwysig hwn?

Gobeithiaf mai cariad diragrith at waith y cysegr, a dymuniad cywir i fod o ryw ddefnydd dros Grist yn ei eglwys, yn nghyda pharodrwydd ewyllysgar i gydsynio âg annogaeth y cyfeillion crefyddol sydd heddyw yn bresenol.

Pa beth sydd yn eich tueddu i arfer eich gweinidogaeth yn mysg yr Ymneillduwyr, ac yn ol y drefn Gynnulleidfaol?

Yr wyf yn credu fod dynion duwiol, a dysgedig, a llafurus, a defnyddiol yn yr Eglwys Sefydledig, ac yn mysg gwahanol enwadau o Ymneillduwyr. Gallaf gydlawenhau â'r cyfryw yn eu llwyddiant, a phrofi melusder yn eu cymdeithas. Hoffwn gael y fraint o gydweithredu â hwy yn eu hymdrechiadau canmoladwy i wella'r byd. Dymunwn i undeb deyrnasu fwyfwy yn y byd crefyddol, ac i faner cariad gael ei thaenu dros yr holl eglwys, nes gwneuthur holl amgylchoedd bryn Seion yn ogoniant ac yn fendith. Etto, yr wyf yn gostyngedig feddwl fod y drefn Gynnulleidfaol yn fwy cyson â rheolau y Testament Newydd—â chyfansoddiad yr eglwysi a blanwyd yn yr oes apostolaidd—â iawnderau moesol dynion fel deiliaid tragwyddoldeb, ac âg egwyddorion cyffredinol teyrnas y Cyfryngwr, nag unrhyw drefn eglwysig arall; ac, o ganlyniad, mai y drefn hòno ydyw y fwyaf cydfynedol âg ewyllys a gogoniant Crist fel Pen yr eglwys, ac â chysur ac adeiladaeth cymdeithas grefyddol.

Adroddwch yn fyr eich golygiadau ar brif ganghenau yr athrawiaeth yn ol duwioldeb.

Y mae yr hyn a ganlyn yn grynodeb o'm syniadau *presenol*, ond yr wyf yn ystyried fod hawl genyf i newid fy marn os caf oleuni gwahanol wrth chwilio y Beibl.

Cyhoedda natur oll fod iddi Awdwr anfeidrol, a rhaid, o ganlyniad, mai *un* Duw sydd, ac mai y Duw hwnw ydyw Llywydd dynion. Ar sail hyn rhwymir fi i gredu i'r Llywydd mawr roddi dadguddiad o'i ewyllys i ddynion—y cynnwysir y dadguddiad hwn yn ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd—y dylem gymeryd y Beibl i fod yn sylfaen ein ffydd a rheol ein hymarferiad; ac nad oes berygl i neb gyfeiliorni mewn barn na bywyd wrth ddilyn ei nefol gyfarwyddiadau.

Ar dystiolaeth gair Duw yr wyf yn credu i'r Arglwydd grëu y dyn cyntaf mewn santeiddrwydd, gan ei osod yn ben i gynnrychioli ei holl had, a bod eu dedwyddwch hwy, yn ol y gosodiad hwnw, yn ymddibynu ar ei ufudd-dod ef—i Adda trwy ei anufudd-dod golli pob bendith berthynol i'r cyfansoddiad hwnw; ac yn ganlynol, fod pob dyn yn dyfod i'r byd yn llwyr amddifad o dueddiadau santaidd, yn agored i gosb dragwyddol, ac na fuasai gwawr trugaredd byth yn tòri ar fyd colledig, oni buasai i ddwyfol ddoethineb agor ffordd *newydd* i amlygu goludoedd anchwiliadwy dwyfol ras.

Yr wyf yn credu i'r unig ddoeth Dduw, o'i anfeidrol gariad, drefnu a dadguddio ei ogyfuwch briod Fab i fod yn Waredwr holl-ddigonol i fyd colledig—i'r Mab, mewn amser, ymgnawdoli ac offrymu ei hun i Dduw dros bechaduriaid, yn aberth o anfeidrol

werth—mai yr aberth hwnw ydyw unig sylfaen gweinyddiad pob trugaredd—a bod Duw, trwy y cyfrwng gogoneddus yma, yn gwneuthur yn yr efengyl gyhoeddiad brenhinol o faddeuant pechodau a bywyd tragwyddol i bob dyn, yn mhob oes, ac yn mhob gwlad, a gredo yn y Mab, ac a'i derbynio i fod yn Geidwad—mai dyledswydd pob dyn sy'n clywed y cyhoeddiad grasol hwn yw derbyn y Gwaredwr—nad oes dim ond gelyniaeth ei galon yn analluogi dyn i gofleidio trefn y cadw—ac yn ganlynol, na fydd neb o wlad efengyl yn goiledig, ond gwrthodwyr gwirfoddol o gymmygiadau grasol y nef. *

Yr wyf yn credu fod syniad calon dyn wrth natur mor elyniaethol i Dduw, fel na fyn ddyfod at y Mab i gael bywyd nes ei grëu o newydd yn Nghrist Iesu, drwy anfeidrol weithrediad yr Ysbryd Glan. I Dduw, o'i anfeidrol ras, yn wyneb y truenus bechadurusrwydd hwn, dragwyddol arfaethu achub tyrfa ddirif o ddynolryw. Fod y personau hyny, a'u holl amgylchiadau, yn adnabyddus iddo er tragwyddoldeb—iddynt gael eu rhoddi ganddo i Grist, fel y rhoddai efe iddynt fywyd tragwyddol—fod gan Grist, wrth farw ar y groes, (er nad ymddengys fod ei lawn ynddo ei hun yn sicrhau iachawdwriaeth neb yn fwy na'i gilydd), olwg neilltuol ar y rhai a rad roddwyd iddo gan y Tad—iddo roddi ei einioes dros y defaid—y bydd iddo, mewn amser, eu galw yn ol effeithiolgaeth gras, eu bywhau trwy nerthol weithrediad ei Ysbryd tragwyddol—eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei waed—eu dyddanu a'u diogelu mewn ystad o ras, trwy breswyliad ei Ysbryd ynddynt, ac eirioliaeth effeithiol drostynt—eu cynnal yn angeu, gan gymeryd eu henaidiau i'w fynwes ei hun—adgyfodi eu cyrff yn y dydd diweddaf—ac yna eu gosod oll ger bron gogoniant y Tad yn ddifeius mewn gorfoledd.

Yr wyf yn credu mai yr ordinhadau sefydledig yn yr eglwys dan y Testament Newydd ydynt, Bedydd a Swper yr Arglwydd; ac mai ewyllys Pen yr eglwys ydyw i fabanod, trwy eu bedyddio yn enw y Drindod, gael eu harddel yn gyhoeddus fel deiliaid o'i deyrnas weledig yn y byd.

Yr wyf yn credu yr adgyfodir y meirw yn anllygredig—y newidir y rhai a adawyd, ac y bydd barn gyffredinol yn y dydd diweddaf—y daw yr Iesu yr ail waith, ar gymylau y nef, gyda miloedd o'i angylion, mewn gogoniant ac awdurdod mawr—yr eistedd efe yn ei wisgoedd barnol ar orsedd ei ogoniant—y cydgesglir ger ei fron ef yr holl genedloedd—yr agorir y llyfrau, ac y derbyn pob un yn ol yr hyn a wnaeth yn y corff—nad ymddengys y bydd i'r Barnwr cyfiawn, yn y dydd hwnw, wneuthur un sylw cyhoeddus o'r gras penarglwyddiaethol a dueddasai

ddynion i dderbyn Crist ac ufuddhau iddo—mai ei unig ymofyniad fydd, Pwy a barchodd y Mab, a phwy a'i mathrodd dan draed—y bernir pob un yn ol ei fanteision fel deiliad llywodraeth gyfiawn, ac nid fel derbynydd gras penarglwyddiaethol—na bydd yno dderbyn wyneb neb—y telir i bawb yn ol eu gweithredoedd—y bydd i'r anufuddion lid a digofaint, a thrallod ac ing—y cyhoeddir eu dedfryd ofnadwy mewn cyfiawnder, ac y gyrir hwynt ymaith i gosbedigaeth dragwyddol, lle nad yw eu pryf yn marw na'u tân yn diffodd—y bydd, o'r tu arall, i'r rhai a wnaethant dda, ogoniant ac anrhydedd, a thangnefedd ac anllygredigaeth, a bywyd tragwyddol—yr arddelir hwynt mewn modd cyhoeddus gan y Barnydd fel ffyddloniaid—y meddiannant y deyrnas addawedig, ac y gorphwysant oddiwrth eu llafur mewn gwynfyd tragwyddol. Yna y bydd y Drindod santaidd oll yn oll—y gwelir ef yn ei ogoniant—y canfyddir yn amlwg, ac yr addefir gan bawb, mai pechod dyn yw yr unig achos o bob drwg, ac mai gras Duw yw yr unig achos o bob da—y priodolir yr holl fai i ddrwg dyn, a'r holl glod i ras Duw—y dystewir am byth wrthddadleuon ffolion yr hunangyfiawn—yr arddangosir ar unwaith, yn ngwydd y bydoedd, uniondeb egwyddorion llywodraeth y Goruchaf—ac mai difyrwch diddarfod angylion a seintiau fydd edrych i mewn i ryfeddodau yr iachawdwriaeth, mawrygu y drefn ogoneddus, a moli mewn caniadau tragwyddol oludoedd anchwiliadwy trysorau dwyfol ras.

A ydych chwi yn cydsynio â galwad y gynnulleidfa hon gyda'r bwriad i fod yn ffyddlon yn eich gweinidogaeth?

Dylwn addef fy mod bob amser yn mynwesu yr anwyldeb mwyaf tuag at fy nghyfeillion crefyddol yn Llanbrynmair. Cefais lawer prawf o'u cariad a'u ffyddlondeb cyn heddyw. Ar fronau yr eglwys hon y magwyd fi ar y cyntaf, ac nid allaf lai na chofio, gyda hyfrydwch neillduol, yr hoffider mawr oedd genyf, pan yn blentyn, i'w dilyn i foddion gras, yn nghyda'r gofal dwys a gymerodd rhai o honynt, sy'n gwisgo blodau'r bedd, i'm hyfforddi i ac eraill o blant yr eglwys yn egwyddorion cyntaf crefydd Crist. I'w cymdeithas hwy y derbyniwyd fi ar y cyntaf fel aelod eglwysig; yn eu mysg hwy y dechreuais ymarferyd â dyledswyddau crefyddol, a gallaf dystio i mi brofi hyfrydwch lawer yn eu cymdeithas. Ar eu hannogaeth hwy yr ymroddais i waith pwysig y cysegr, ac y derbyniwyd fi i Athrofa Gwynedd, dan nawdd y diweddar Barchedig Dr. Lewis; a bu yn gysur genyf feddwl lawer tro eu bod yn cofio am danaf wrth orsedd gras. Ar eu cais hwy yr wyf yn sefyll yma heddyw ger bron y gynnulleidfa hon; ac wrth weled fod undeb a chariad yn teyrn-

asu yn eu mysg, a meddwl am eu parodrwydd bob amser i gyd-ymdeimlo â'r gwan, i gynnal breichiau y llesg, ac i annog y digalon yn y blaen, yr wyf heddyw, mewn hyder eu bod dan gyfarwyddyd Pen yr eglwys, yn ewyllysgar ymroddi i'w gwasanaeth a'u cymdeithas. Dymunwn wneuthur hyn gan ymnerthu yn y gras sydd yn Nghrist Iesu; a gobeithiaf fy mod yn yr amgylchiad pwysig presenol, wedi adnewyddu fy nghyfammod âg ef, gan ail ymroddi iddo o lwyrfryd calon, gyda bwriad i lynu wrth ei achos hyd fy medd.

Dymunwn gydbwyll fy mod bob amser yn teimlo anwyldeb mawr tuag at *blant yr eglwys* sy'n awr dan fagwraeth yn yr Ysgolion Sabbathol. Gobeithio y cawn fod o annogaeth a chyfarwyddyd i'n gilydd gyda gwaith yr Arglwydd, ac y cawn y fraint o rodio llwybrau'r bywyd law yn llaw, gan ddilyn camrau ein rhagflaenor gogoneddus trwy glod ac anghlod hyd y bedd. Hoff fyddai genyf weled fy nghyfoedion yn ymgysegru at wasanaeth yr Arglwydd. Hyfryd ydyw clywed perleisiau plant yn seinio ei fawl; ond clywir yn hyn ryw alarus lais dystaw yn dywedyd fod yr *hen* filwyr yn cilio ymaith, gan roddi eu harfau heibio, a gadael y maes o un i un. Er nad allaf fi weled ond ychydig yn ol, etto yr wyf yn cofio hebrwng llawer o dadau a mamau yr eglwys hon i "dŷ eu hir gartref." Er dichon eu bod wedi disgyn heddyw, ar edyn angylaidd, i fod yn dystion dystaw o bwysig waith y dydd hwn; etto mae eu lleoedd yn weigion yn yr eglwys isod: ac nid oes modd i un fynwes ystyriol lai nag ymlenwi o alar wrth weled cysgodau'r hwyr yn ymestyn dros eraill, a chanfod arwyddion y bydd yr eglwys filwriaethus cyn hir yn gorfod colli eu cymdeithas a'u cynnorthwy; etto, gobeithio na symuda y "canwyllbren" o'i le, ond y bydd i'r "gogoniant" aros, ac y bydd i'r ieuenctyd sydd yma heddyw wisgo mentyll eu hynafiaid, a chadw tân duwioldeb, a lamp yr efengyl, i ddysglaer gynneu yn yr eglwys, yn yr Ysgolion Sabbathol, ac ar yr allorau teuluaidd, pan y bydd eu tadau a'u mamau wedi myned i ffordd yr holl ddaear, ac yn tawel huno yn llwch y bedd.

GAIR O ANNOGAETH I YSGOLION SABBATHOL, YN 1835.

1. Y maent *o Ddduw*. Y mae ef yn ei gariad wedi gorchymyn y gwasanaeth a gyflawnir ynddynt, sef addysgiad y meddwl, ac yn enwedig y meddwl ieuanc, yn mhethau mawrion y Beibl; ac y mae wedi rhoddi ei wenau a'i gymdeithas i'r rhai fu'n llafurio ar eu maes, ac wedi helaeth fendithio eu llafur.

2. Y maent yn foddion *o addoliad:* oblegid y mae darllen y Beibl, a chanu mawl, a gweddïo, a magu teimladau duwiol, ac ysbryd addoli ynddynt.

3. Y maent wedi effeithio er daioni helaeth yn ein gwlad ni, ac mewn gwledydd eraill: wedi lledaenu goleuni a gwybodaeth ac ysbryd yr efengyl, wedi gwanychu daliadau a defodau coelgrefyddol, wedi ymlid o'r ffordd lawer o arferion llygredig, wedi magu planhigion iraidd i winllan Iesu, neu godi aelodau defnyddiol i'r eglwys, a llafurwyr ffyddlawn a difefl i'r weinidogaeth, ac i faes eang y genadaeth: y maent drwy hyny wedi dylanwadu yn fuddiol ar holl gylchoedd cymdeithas. Y maent yn dylanwadu i *lawr* i gylchoedd y rhai mwyaf anwybodus; ac yn dylanwadu i *fyny* i'r cylchoedd uchaf; ac yn dylanwadu ar *led* i wledydd tramor: ac y maent yn agor maes hyfryd helaeth o flaen yr eglwys, lle y gallo ei holl ddoniau weithio, a lle y gallo ei holl rasau flodeuo a ffrwytho.

Gan hyny, nid dieuog y bernir ymddygiadau y rhai sydd yn eu hesgeuluso, ac yn eu dibrisio; y rhai sydd unwaith wedi bod yn lled ddiwyd ynddynt, ond ydynt yn awr wedi oeri a diflasu, a gwrthgilio: a'r rhïeni sy'n cadw eu plant i segura ac ymlygru gartref, yn lle eu hanfon i dderbyn addysg yr Ysgol Sabbathol. Y mae'r cyfryw yn cael colled iddynt eu hunain, yn dwyn culni i'w henaid, ac euogrwydd ar eu cydwybod. Y maent hefyd yn digaloni eraill, ac yn gwneud yr hyn a allant i ladd eu dylanwad. Nid oes ganddynt yr un math o esgus dros eu hymddygiad. Teimlant alar a dychryn yn yr amser a ddaw wrth adgofio am eu hesgeulusdra o waith mor hyfryd ac mor bwysig; a bydd yn drwm ofnadwy iddynt gyfarfod ar yr aswy law yn y farn, y plant ag y bu eu hesiampl hwy yn foddion i'w caledu a'u handwyo. Ond dedwydd iawn fydd y cyfarfod rhwng y rhïeni duwiol a'r plant a fagasant i'r Arglwydd yn eu teuluoedd, a rhwng yr athrawon ymdrechgar a ffyddlawn a'r dosbarthiadau fuont dan eu gofal yn yr Ysgolion Sabbathol.

DIWEDD BLWYDDYN.

Bydd gyrfa y flwyddyn 1835 ar ben heno. Mewn cyfarfod fel hwn y mae'n addas i ni *ad*-olygu a *rhag*-olygu. Byddai yn gylch rhy helaeth i ni yn awr i adolygu helyntion y byd, nac amgylchiadau ein gwlad drwy y flwyddyn ddiweddaf; ond gallwn edrych yn ol am fynyd i addeddwl am ein hanes ein hunain. A dylem yn—

1. Geisio galw i gof ddaioni tyner Duw tuag atom, ei ofal parhaus am danom, a'i gymwynasau lluosog i ni. Y mae wedi cadw newyn a heintiau, a difrod arswydus y march coch draw oddiwrthym. Y mae wedi estyn i ni luaws o drugareddau amser, sef tymmorau ffrwythlawn, ac iechyd i'w defnyddio a'u mwynhau; ac y mae wedi llenwi ein calonau â lluniaeth, ac â llawenydd. Y mae wedi ein cynnysgaeddu â rhagorfreintiau crefyddol o'r gwerth mwyaf, sef ein Sabbathau a'u holl foddion, a chyfleusderau eraill i ddarllen a gweddïo, a myfyrio ac ymddyddan am bethau mawrion a gogoneddus duwioldeb.

2. Dylem ymostwng a galaru am fod ein teimladau, trwy dymmor y fath freintiau, wedi bod mor ddiaearol ac anianol; mor anystyriol ac anniolchgar, ac mor anghofus o Awdwr pur, trugarog, a hollbresenol ein holl gysuron a'n breintiau; am fod ein hymddyddanion wedi bod mor segur a diles, a gwaeth na hyny, wedi bod mor anrasol nes dianrhydeddu ein Duw, a drygu ein cyd-ddynion; ac am fod ein hymddygiadau yn fynych wedi bod mor gellweirus a rhyfygus, mor groes i ysbryd ac egwyddorion yr efengyl; ac am anffrwythlondeb a marweidd-dra ein cyflawniadau crefyddol, ein darlleniadau, a'n gweddïau, a'n cyfeillachau goreu, yn y cysegr a'r teulu, ac yn mhob man arall.

3. Dylem ystyried mor gyflym y mae ein blynyddoedd yn myned heibio, ac y mae ein diwedd yn agosâu. Y mae marwolaethau y flwyddyn ddiweddaf wedi cyrhaedd i dros ddeng miliwn ar hugain. Rhai hŷn na ni, a rhai ieuangach; rhai yn barod i fyd arall, a rhai yn anmharod. Ganwyd eraill i'r byd yn eu lle. Bydd raid i ninnau, yn fuan, gilio o'r ffordd er rhoddi lle i'n dilynwyr.

4. Dylem ystyried mor werthfawr yw ein dyddiau a'n breintiau, ac mor bwysfawr yw ein holl ymddygiadau, am fod perthynas uniongyrchol rhyngddynt â thragwyddoldeb. Y mae yr adeg yn ymyl pan y byddwn o flaen ein Barnwr cyfiawn yn clywed ein dedfryd dragwyddol, ac yn byw gydag ysbrydion yn ein cartref digyfnewid.

Prif ddyben y *rhag*-olygu, neu yr edrych yn mlaen, ydyw er ein galluogi i drefnu rhyw gynlluniau o ddefnyddioldeb, ac er penderfynu bod yn fwy duwiol a gweithgar drwy hyny o amser all fod yn ol i ni. Dylem *ôl* addunedu byw yn well, a gweithio yn ffyddlonach.

Dylai *ieuenctyd* benderfynu yn ddifrifol; yn nerth gras, i ochel y cyfeillachau llygredig sy'n twyllo ac yn caledu y galon, ac yn arwain bob amser i ofidiau, a gwarth, a thlodi; a gochel hudoliaethau andwyol y clofii rhwng dau feddwl ag ydynt yn

lladd eu hamser goreu, ac yn annedwyddu eu meddyliau, gan eu gweithio bellach bellach o hyd oddiwrth bob daioni; a thrwy hyny dianrhydeddu Crist, a digaloni ei ganlynwyr. Dylent hefyd ymroddi i chwilio y Beibl, a gallent ei ddarllen drwyddo mewn cylch blwyddyn, ond iddynt gysegru deng mynyd y dydd at hyny. Ni byddai ddim yn anhawdd i unrhyw fab neu ferch ieuanc gael hamdden i dreulio o'r neilldu bum' mynyd bob boreu, a phum' mynyd bob hwyr i ddarllen y Beibl Ond i'n cyfeillion ieuainc ymroi i wneud hyny yn rheolaidd, ac yn ystyriol, byddai yn ymarferiad o ddysgyblaeth ardderchog i'r meddwl, a phrofai yn gyfoeth, ac yn rym, ac yn gysur i'r profiad, ac yn sail dda am ddefnyddioldeb yn yr amser a ddaw; a dylent hefyd lafurio gyda phob cangen o wybodaeth fuddiol, fel y gallont lenwi yn anrhydeddus eu sefyllfaoedd cymdeithasol.

Dylai *hen bobl* roddi eu serch yn fwy llwyr nag erioed ar bethau gogoneddus y byd anweledig, gan fod y byd mawr hwnw yn eu hymyl: a dylent gario perarogl Crist ac awelon y nefoedd gyda hwy i bob man, fel y gallont fynegu i'r oes a ddel foliant yr Arglwydd, a'i nerth a'i ryfeddodau y rhai a wnaeth efe; ac fel y mynego eu plant hwy i'w plant hwythau, fel y dysgo y cenedlaethau dyfodol osod eu gobaith ar Dduw, gan gadw ei orchymynion ef.

A dylai *proffeswyr crefydd* ddyfal ddilyn holl ordinhadau duwioldeb; oblegid dyna dir yr addewid iddynt am nawdd a nerth eu Duw, ac am gysuron a gorfoledd ei iachawdwriaeth: a dylent ymdrechu yn fwy pryderus nag erioed i ennill eu ceraint a'u cyfeillion, a'u holl gymydogion, i dir cadwedigaeth; a dylent gydymdrechu mwy mewn gweddïau am lwyddiant teyrnas y Gwaredwr, ac achubiaeth eu cydanfarwolion. Y mae cariad Crist, a'u proffes eu bod yn gyfeillion iddo, a'u cysur fel crefyddwyr, a thrueni y byd, ac arwyddion yr amserau, ac addewidion mawr a gwerthfawr yr efengyl, yn gymhelliadol iddynt ddyblu eu hymdrechiadau.

Dylem oll, fel *cymydogion*, ar ddechreu blwyddyn newydd, er llwyddiant ac anrhydedd ein hardal, gydymgyfammodi i ymlid o'n mysg bob ofergoelion ffol am ysbrydoliaeth breuddwydion, ac ymddangosiad ysbrydion, a "gwyrthiau" dewiniaeth a swyngyfaredd, gan fod pob peth felly mor groes i ysbryd yr efengyl, ac mor niweidiol i ddedwyddwch eneidiau; a chan eu bod yn nhob oes wedi gwneud cymaint o ddrwg yn y byd, ac wedi bod yn achos i'r Arglwydd symud canwyllbren ei efengyl o lawer ardal fu unwaith yn oleu ac yn flodeuog. Dylem hefyd wylio yn ddyfal yn erbyn pob afradlonedd ac anghymedroldeb mewn

bwyta ac yfed, a gwisgo, a phob gwastraff a rhodres, a phob hen ddefodau ac arferiadau diles a llygredig. Ac i goroni y cyfan, dylem wisgo cariad, sef ysbryd addfwyn, maddeugar, cymwynasgar, ysbryd ffyddlawn caredigrwydd brawdol. Dyna ydyw ysbryd yr efengyl, ac ysbryd Awdwr yr efengyl, ein Hathraw mawr, Pentywysog a Pherffeithydd ein ffydd; a dyna ydyw ysbryd teulu dedwydd cyfiawnion y nefoedd: a'r ardal fwyaf llawn o gariad ar y ddaear ydyw yr agosaf i'r nefoedd, a'r debycaf i'r nefoedd.

"A GREDODD NEB O'R PENAETHIAID?"

Y MAE yn wir nad llawer o rai doethion yn ol y cnawd—nad llawer o rai galluog—nad llawer o rai bonedd'gion a alwyd: eithr Duw a etholodd ffol-bethau y byd, fel y gwaradwyddai y doethion, a gwan bethau y byd a etholodd efe, fel y gwaradwyddai y pethau cedyrn. Ond credodd *rhai* o'r penaethiad yn mhob gwlad, ac yn mhob oes; rhai dan weinidogaeth ei apostolion; a rhai, o bryd i bryd, mewn oesoedd ar ol hyny. Ac y mae yn galondid cryf i'r eglwys fod dynion o awdurdod a doniau, dynion o gyfoeth a dylanwad, yn troi, o bryd i bryd, i fod yn bleidiol i grefydd, ac yn ffyddlon i'r Iesu. Y mae rhai *yn awr* felly yn ein gwlad ni, ac mewn gwledydd eraill. Y mae ein brenin, a'n brenhines, a rhai o'u ceraint, yn gwrando yr efengyl yn lled reolaidd ar ddydd yr Arglwydd; a dywedir fod Llywydd Unol Daleithiau America, a rhai o brif swyddwyr ei gynghor, yn wrandawyr astud a chyson. Y mae amryw o bendefigion mwyaf urddasol Tŷ yr Arglwyddi, a llawer o gynrychiolwyr anrhydeddusaf y wlad yn y Senedd, yn gwresog bleidio ein Cymdeithasau Crefyddol; rhai yn weithgar o blaid y Feibl Gymdeithas, eraill o blaid ein Cymdeithasau Cenadol, eraill o blaid Ysgolion Sabbathol, a phob sefydliad er addysgu ieuenctyd; ac y maent yn amlygu llawer o elusengarwch er cynnorthwyo pob truan. Y mae Teighmouth a Bexley, a Cambier, a Wilberforce, a Mackintosh, a Buxton, a lluaws eraill allesid enwi, yn hen ymresymwyr cyson a chryfion o blaid egwyddorion ac ordinhadau Cristionogaeth. Y mae yr athronydd llafurus ac enwog, Lord Brougham, newydd gyhoeddi llyfr er egluro ac amddiffyn athrawiaethau crefydd; a chyfansoddodd y llyfr hwnw ar gais amryw o bendefigion penaf y deyrnas, a diau y caiff ei lyfr rediad a derbyniad drwy gylchoedd uchaf y wlad. Ac ymddengys fod gweinidogion y goron yn awyddus i gefnogi a chynnorthwyo llafur y cenadon yn India y Gorllewin i addysgu plant y Negroaid ydynt newydd gael eu

rhyddhau, a'u bod am wneud hyny ar egwyddorion teg, ansectaidd; a gobeithio y megir yno, cyn hir, lawer o'r Negroaid ac o'u plant, i fod yn weinidogion cymhwys i efengylu anchwiliadwy olud Crist i'w cydgenedl yn Affrica. Byddai yn hyfryd iawn i weled dynion fel Joseph, a Moses, ac Obadia, a Daniel, a Mordecai, a Nehemia, yn codi i bleidio crefydd bur mewn seneddau a llysoedd gwladol. Pe byddai i'n mawrion pendefigaidd a galluog ymroi i weithio yn fwy egnïol o blaid teyrnas y Gwaredwr, ar ryw gŵr o faes crefydd, yn lle gwastraffu eu nerth, a'u dysg, a'u doniau, i groes-ymdynu ar feusydd dadleuon y croes-bleidiau gwladwriaethol, gwnaent fwy o les, a chaent fwy o hyfrydwch nag y maent erioed etto wedi ddychymygu; a gwnaent lawer mwy tuag at gyfoethogi, a dyrchafu, a diogelu eu gwlad nag y maent yn fedru wneud drwy chwerwder ysbryd eu dadleuon seneddol.

RAILROADS AGAINST SEWERS.

TO THE DIRECTORS OF RAILROAD COMPANIES.

GENTLEMEN:—I submit to your consideration a project of the most practical character; and which, if carried out, will prove of progressive profit to you, and of vast benefit to the public. But before stating my project, I would lay before you the following weighty *facts* as preliminary propositions.

1. That the population of the older cities of Europe has been increasing for more than a thousand years, and that their progress would have been much more rapid, and more regular, had it not been for the desolations of war, and the baneful influences of intemperance and other vices.

2. That the population of the younger cities of the United States has, within the past century, increased much faster than the population of the older cities of Europe.

3. That the population of cities increases more rapidly than the population of rural districts; and the prevailing tendencies of the times show that it will continue to gain in a still greater ratio.

4. That, as a consequence, a growingly large proportion of the produce of the soil must be consumed in the cities.

5. That *sewerage*, or the manures of cities, where so much of the riches of the land is consumed, must be valuable as fertilizers.

6. That the present expensive and noxious system of *draining* away, or *half* burying in pits, or sinks, manures of such great

value, progressively impoverishes the land; and will, if persisted in, exhaust its strength, and effect its ruin.

7. That the present rapid physical degeneracy of the population of cities is mainly attributable to the existing pestilential system of sinks and sewers. It is notorious that city families are neither so healthy nor so blooming, are neither so strong nor so hardy as their country kindred. The mortality among their children is fearful, amounting to very nearly two-thirds of their number; and the degeneracy progresses so rapidly, that in some cities, most families die out in three generations. A change must be effected, or *close* city classes will soon run their downward course, first to universal effeminacy, and then to utter extinction.

8. That as all the beautiful species of the salmonidæ delight to gambol in bright crystal waters, it is cruel that the sewage, so much needed by the land, should be drained away to poison the pellucid streams of their rightful domain: and that the effluvia from thickening deposits of putrefaction should tempt the grim spirits of death to hunt around so many of our loveliest suburban walks and playgrounds.

9. That governments and corporations could never direct their energies to any improvement of greater importance to the interests of mankind, than to the adoption of effective measures for preventing the waste of city manures, and the pestilential pollutions of the sink and sewer system.

10. That such masses of strong manures, liquid and solid, can never be saved by petty systems of poudretting and deodorizing.

11. That, therefore, manures of such value ought to be conveyed, *as they are*, in safe suitable vessels, from the closet to the farm, to be given to the soil, *in their native strength*, unadulterated, for deodorizing will never overcome the difficulty.

12. That the authorities of any country, or state, or city; or the proprietors of any iron, copper, lead, or stone works; or the directors of any railway, or hotel, or college, or dockyard, or factory, or warehouse, or any other establishment, public or private, especially such as barracks, garrisons, and penitentiaries, might easily provide suitable *sewage vessels;* and make regulations for their removal, at *fixed* times, from the closet to the farm: each establishment to have *two* sets, that one set may be left on the premises, while the other is being removed to the field.

The writer has had these plain propositions before his mind for the last eighteen years; and has submitted them to the consideration of many scientific gentlemen of extensive observation and experience, who pronounced them demonstrable and prac-

ticable. He memorialized several city corporations on the subject; but they were at the time so intent on their *political* studies, or so closely wedded to their systems of *drainage*, as to have no leisure to consider the feasibility of any other system. And Agricultural Societies looked too lingeringly over puny processes of deodorizing to attempt any trial of the plan now proposed. A fair trial, even on a small scale, would soon not only demonstrate its practicability; but would also establish its *utility:* and any company taking the initiatory in the matter would secure to itself a large gain, and would render the city as well as the country a most important service.

The writer would be happy to confer with any company pledged to make an experiment; and would submit to its examination the model of a portable sewage-vessel, which he thinks would be most safe and convenient.

When recommending his plan in England some twelve years ago, he coined a tiny word of two letters, and wished to substitute that little word—the soft monosyllable GU—for the meaningless compound "nightsoil," and some other ugly *semi*-classic expressions, such as fecal matter, human excreta, &c., and he hoped that his new little word "GU," coming in the wake of its foreign friend "guano," would not only sound well, but would be of service in a variety of combinations, such as gu-closets, gu-vessels, gu-cars, gu-depots, gu-companies, gu-traffic, gu-heaps, London-gu, New York-gu, &c.

It really is a loss and a folly to sweep the wide seas, and hunt around the unsavoury rocks of far distant islets for guano, while *gu* of a higher value can be had at home, on the very margin of a railway station. The fearful waste of the gu of our cities *must* come to an end. A system fraught with such dangers, calling for such outlays, and involving such losses, cannot be allowed to continue in this progressing age of untiring contrivance to turn every service to some good advantage. No country under the sun can long stand the evergrowing drain of such a loss.

The way in which "Father Thames" has been treated is a scandal to the City of London. He has had for centuries to carry the sewerage of that rich old city out of the reach of the fields, to plague the fish of the German Ocean. But through the mercy and wisdom of Providence, he is not doomed *for life* to a service so disgraceful, and so pernicious. The day is at hand when his noble name and kind heart and fair bosom shall be cleared from so foul a burden; and when he, and all his kindred, shall be freed from such a "bondage of corruption;" and from a drudgery so wasteful, so dishonest, and so degrading.

The wonderful mechanism of the human frame is a gu-manufactory of the most beautiful construction. Man loves to be richly *fed*, but is woefully wasteful of the gu which he manufactures. He delights to enjoy the fatness of his mother-earth, and to be satisfied with the breasts of her consolation; and he thoughtlessly sucks away the bloom of her beauty, and the strength of her life; but cruelly neglects to return to his kind and lovely mother the nouri-hment which she requires. The consequence is that she shows signs of poverty and sickness; and if *she* continue to decay, *he* must suffer and starve. The present tenants of the earth have no right to waste wantonly the elements necessary to its productiveness, and thereby rob coming generations of their rightful inheritance. They have no right to restrict, by their *waste* and mismanagement, the capacity of the earth to support its rapidly multiplying family. They have no right to mar their Maker's handiwork, by impoverishing that earth which he had so graciously and so wisely enriched with the elements necessary for the sustenance and comfort of its inhabitants. The existing waste is a direct violation of a divine ordinance, and can not escape the penalty. The ancient fertility of some of the countries of the East has been lost through ignorance and idleness; and it will prove a costly and tedious task to coming generations to renovate the fair lands that have been exhausted by their fathers.

The inclinations of mankind are strongly in favour of *great cities*. The tendencies of all their studies of science, and of all their exhibitions of art, and of all the conveniencies of their commerce, and of all the advantages of their educational and religious institutions, go tog ther to promote the growth of great cities. Nothing can stop the ever-growing progression of such centres of attraction. Their consumption of the produce of the soil is daily increasing. The gu thrown away, at such a heavy cost, could unquestionably be made a source of exhaustless wealth. Nothing is needed to render it available but the right system to save it, and the right way to apply it to the field. Who can calculate the value of ten millions of cubic feet of concentrated gu thrown away every day in England, and an equal amount thrown away every day in the United States? England and America could never direct their attention to a more legitimate, or more sure, or more lasting source of riches than to the wasted gu of their towns and cities and public offices. The right application of such powerful manures would soon more than double the fertility of their lands. The gu-scheme here suggested has

been in operation in China and Japan for hundreds of years; and is the most beneficial regulation of their whole social economy. It is lamentable to reflect how a simple law of such vast importance has been overlooked by more civilized communities. If the Agricultural Department at Washington, or the Royal Agricultural Society of England, or any other influential Board of Agriculture, or any City Improvement Committee, or any Railroad Company, were to originate an earnest movement for its adoption, it would render the world a service that would gain the approval, and secure the gratitude not only of this age, but of all coming ages.

These are my preliminary facts and conclusions. I now look to your

RAILROAD ORGANIZATIONS

As the agencies most likely to effect advantageously the important change which I suggest. I will now give you the outlines of my project:—

1. Purchase land for a model farm, in some convenient spot, contiguous to your line of railway.

2. Engage a good husbandman, or tenant, to cultivate your farm.

3. Provide safe, portable gu-vessels for the closets of your cars, and stations, and all your offices.

4. Contract with the proper authorities for carrying off the gu of a given division of the city, or of a given number of dwellings, around your chief stations: and provide two sets of gu-vessels for such dwellings.

5. Employ two strong hands to collect, at *fixed* times, the full vessels, to be conveyed to your farm, on one of your platform cars; and let those two men assist your tenant to empty those vessels into his compost-heaps.

6. The emptied vessels could be cleaned either in the stream that irrigates your meadows, or with a few shovels of the dry surface of your fallow-field; and could then, after a day's airing in the sun, be returned for fresh supplies.

7. Your farm might be apportioned for cereals, pastures, roots, and fruit trees; and the gu applied by irrigation, or composting, as might best suit its position and capabilities.

8. Instruct your tenant explicitly as to the *timely* admixture of his compost-heaps, so as to neutralize all organic matter that may be in such powerful manures; and also to guard against the possibility of any vegetable growth that may be too rank for sound yield.

9. Keep an account of your farm; and balance your accounts after a fair test of four or five years. Or

10. If you prefer to make the experiment on a still smaller scale, and to secure only as much land as will make a meadow, or a garden, or an orchard, be it so; but let your meadows, or your garden, or your orchard, or your farm, be a credit to you, and to your country; and let it have a name and a place in the first premium lists of your State Fairs.

You have it in your power to carry out a project of this character *at less cost* than perhaps any other organization. Your principal station are within reach of the needed supplies of gu. The appendage of an occasional gu-car to a luggage train would be but a very trifling addition to your expenses. The gu-branch of your traffic would steadily increase; and the costs would become lighter as you would extend your operation, and perfect your system. Your example would exert a happy influence on farmers along your line of railway. You would soon find customers for any surplus gu you might have to sell. A higher cultivation of the farms along your line would increase its traffic; and you would have the blessed privilege of creating an instrumentality that would convert waste into wealth, and transmute malaria into health, poison into food, stench into fragrance, and the most loathsome substances into the freshest flowers, and herbage of living green, or into the finest wheat, or most delicious fruit. You would even make the noisome pestilence an occasion of health and beauty, of sweet perfume, and of rich abundance.

You will perhaps say that City Corporations ought long ago to have converted so much valuable manure into some improvement-fund, and so purify the streams and fertilize the fields, and replenish their funds by the same operation; and thereby enrich and beautify the city and country at the same time. They *ought* to have done so; and it grieves one to reflect how their wasteful drainage of manure has drained away their funds, instead of replenishing them. I admit that it is as much the province of City Boards, and agricultural Societies to remedy the evil as it is your province; and they *will* most assuredly step forward to assist you as soon as you show them the way; but you ought to take the *lead*, for you are sure of your full share of the profits as the *middle* party, or the medium of conveyance between the city and country. Who knoweth but that it was for such a time as this that you came into existence; and that it was for such a noble service as this that you have

grown into such power? I ask you to take up the project not so much in obedience to the higher law of benevolence, as in obedience to the lower law of self-interest. Take it up for your own gain, and the good of others will follow; or, if you choose, take it up for the public good, and your own interest will follow. You have a heavy stake in the matter. The general good in such a case is your own gain. You will not only save the beautiful buds and blossoms of the field from sickness, but you will also save the still lovelier buds and blossoms of city families from decay. You will not only refresh and invigorate the languishing gardens, and vineyards and cornfields, but you will also infuse fresh life and vigour into the tender plants of the nursery, and the school, and the college. You will cause wasted fields and wasted families to bloom simultaneously. You will cause mourning lands and mourning households to wear garments of praise and beauty. You will cause the dried up land and the dried up city to see times of refreshing and fruitfulness; and in the general prosperity you will not loose your reward; but will have the right hand share of the honour, and the right hand share of the profit. Do not, at this time of day, condescend to argue with those who will tell you that gu is no fertilizer; nor stop to argue with other who readily admit its fertilizing power, but will tell you that it can never be saved, and applied to the soil. There has been more than enough of parleying with such delicate, double-refined, unphilosophic objectors. They will domicile in an atmosphere that would poison skunks, but are too delicate to discuss the mode of remedying the evil. Pass them by, and make your politest bow to them as you pass on to your work; and just *show* them that the gu which is now left to soak the foundations of city dwellings and store-rooms, and to poison the air and water around them, *can* be saved, and can be made a source of yet unexampled fertility. The great value of gu as a powerful fertilizer is well known to many suburban gardeners, but their method of removing it from the sink to the garden, and of applying it to their vegetables, has been very objectionable; and their *dribblet* way of management has been as yet but of little service to either city or country.

The time will come, and will *soon* come, when families will gladly provide gu-vessels for their closets. Such vessels are as essential a part of the furniture of a well ordered house as are its cooking vessels. But as families have been so long trained to the sink system, and as they have been so heavily taxed to keep it in some sort of operation, they may perhaps at first feel some-

what reluctant to abandon it; but when you *show* them that the gu-vessel system is so much cheaper, and so much better in every way for the interests of their house, and city, and country, they will give up the old, expensive, and slovenly system that has caused so much trouble and loss, and sickness and sorrow, for a more salutary system; especially for one of *growing gain* to both town and country. The sewer tax of city families would have sufficed to *vessel* safely and neatly the gu of their households, and also to carry it into the field, where it would certainly have been of large wealth to somebody, but neither man nor fish is profited by the heavy costs of *sewering* it away to poison the streams and the rivers.

I am no prophet, but will venture to record four predictions:—

First, That the time is at hand when you will have gu-depots, for the convenience of farmers, at all your rural stations.

Secondly, That gu will become a very important article of your traffic.

Thirdly, That the farmers who will take the lead in patronising your gu-traffic, will also take the lead in all the premium lists of the country. And

Fourthly, That your gu-traffic will tell a tale of wide bearing on the prosperity of your country.

One peculiar advantage which America has to put the gu-system in immediate operation is, that it has abundance of the finest timber for the manufacture of gu-vessels, not only for its own use, but also to supply the large orders that must come from some other countries.

The great Reform Battle of the coming age will be against the wastage of city manures. It will become a *general* engagement extending over all the countries of the globe. It will be the battle of the *soil* against the *sea*, the important campaign of the claims of the *land* against the encroachments of the *water*. The sea has for ages, like some other restless, boisterous powers, been robbing the soil of its just dues, to the damage of both soil and sea. It has a huge, expensive, marauding army, a badly equipped, unmanageable, mutinous army of *sinks* and *sewers* pushing onward stealthily, like sappers and miners, ramifying right and left, not only under nurseries and playgrounds, but under larders and parlours, and bedrooms and ball-rooms, and even under houses of commerce and halls of science, and courts of equity and sanctuaries of religion, committing dreadful and most daring depredations, and causing incessant noisome explosions of the most murderous character: and the sea,

like all other grasping powers, by despoiling his neighbour, oppresses his own pretty playful inhabitants. Such barbarities must be stopped; and it is high time to stop them. The land has *complained* long enough. It is now prepared for *battle.* It has, ready for the attack, a strong, swift, well organized army of RAILROADS having their headquarters in the city, and their field encampments spread over all the country. It may venture to dash at once on the strongholds of the enemy. It can stop his supplies. It is sure of victory; for the armies of the foe have been awfully demoralized, and their prestige is completely gone. It *can* overcome the spoiler, and *will* retake his spoils; and will then return in triumph to use the recovered spoils for its own enrichment and beauty: and its glorious conquest will, in the end, work well even for the wide empire of the enemy; because the enrichment of the soil will increase the traffic of the sea. There need be no apprehension as to the result of the conflict. Science must progress; system and skill must prevail; victory will crown the cause of right and goodness; the sea must give up its unlawful sewer spoils; the land must recover its long lost rights; and its life-saving victories are to be obtained through the prowess and discipline of its noble army of railroads.

CANIADAU BYRION.

YR WYTHFED ARGRAFFIAD.

RHAGYMADRODD I'R ARGRAFFIAD CYNTAF.

Othoeddir y Caniadau canlynol ar ddymuniad ychydig gyfeillion a garent ddyddanwch a lles y genedl sy'n cyfodi. Gwyr y cyfryw nad yw rhai o honynt ond cyfieithiadau, a'u bod weli ymddangos yn barod yn y Dysgedydd Crefyddol neu y Seren Gomer.

Llanbrynmair, Gor. 22ain, 1830.

RHAGYMADRODD I'R AIL ARGRAFFIAD.

Chwanegir yma, at yr hyn a gynnwysai yr argraffiad blaenorol, y gân ar "Ddarostyngiad a Dyrchafiad Crist," yn nghyda'r gân ar "Fuddugoliaethau yr Efengyl yn y Mil Blynyddoedd,"

Medi 30ain, 1836.

Chwanegir yn yr argraffiad yma y pennillion ar "Fynnon Calfaria," ac ar "Farwolaeth Mam yr Awdwr."

Y TEULU DEDWYDD.

Wrth ddringo bryn ar fore teg,
Wrth hedeg o'm golygon,
Gan syllu ar afonig hardd,
A gardd, a dolydd gwyrddion;

Mewn hyfryd fan ar ael y bryn
Mi welwn fwthyn bychan,
A'i furiau yn galchedig wyn
Bob mymryn, mewn ac allan.

Canghenau tewfrig gwinwydd îr
Addurnant fur y talcen,
A than y tô yn ddôf a gwâr
Y trydar y golomen.

O flaen y drws, o fewn yr ardd,
Tardd lili a briallu;
Ac O mor hyfryd ar y ffridd
Mae blodau 'r dydd yn tyfu!

Wrth glawdd yr ardd, yn ngwyneb haul,
Ac hyd y dail, mae'r gwenyn,
Yn diwyd gasglu mêl bob awr
I'w diliau cyn daw'r dryc-hin.

Ar bwys y tŷ, mewn diogel bant,
Mae lle i'r plant i chwareu;
Ac yno'n fwyn, ar fin y nant,
Y trefnant eu teganau.

O fewn y tŷ mae'r dodrefn oll,
Heb goll, yn lan a threfnus;
A lle i eistedd wrth y tân
Ar ælwyd lan gysurus.

Y Teulu Dedwydd yno sy'
Yn byw yn gu ac anwyl;
A phob un hefyd sydd o hyd
Yn ddiwyd wrth ei orchwyl.

Ychwaith ni chlywir yn eu plith
Neb byth yn trin na grwgnach,
Ond pawb yn gwneud eu goraf i
Felysu y gyfeillach.

Mae golwg iachus, liwus, lon,
A thirion ar bob wyneb;
A than bob bron y gorphwys hedd,
Tangnefedd, a sirioldeb.

Pan ddel yr hwyr, ac iddynt gwrdd,
Oddeutu'r bwrdd eisteddant;

Ac am y bwyd, o hyd nes daw,
Yn ddystaw y dysgwyliant.

Pan ddyd y fam y bwyd ger bron,
Gwnant gyson geisio bendith;
Ac wed'yn, pan eu porthi gânt,
Diolchant yn ddiragrith.

Ar air y tad, â siriol wên,
A'r mab i ddarllen pennod;
Ac yna oll, mewn pwysig fodd,
Codant i adrodd adnod.

Yr emyn hwyrol yn y fan
Ro'ir allan gan yr i'angaf,
Ac unant oll i seinio mawl
Cysonawl i'r Gorucha'.

Y tad a dd'wed ddwys air mewn pryd
Am bethau byd tragwyddol;
Y fam rydd ei Hamen, a'r plant
Wrandawant yn ddifrifol.

Wrth orsedd gras o flaen yr Ior,
Y bychan gôr gydblygant;
A'u holl achosion o bob rhyw,
I ofal Duw gyflwynant.

Am ras a hedd, a nawdd y Nef,
Y codant lef ddiffuant;
A Duw a ystyr yn gu-fwyn
Eu cwyn a'u holl ddymuniant.

Ac O! na fedrwn adrodd fel
Mae'r tawel Deulu Dedwydd,
Mewn gwylaidd barch, ond nid yn brudd,
Yn cadw dydd yr Arglwydd.

Yn fore iawn, mewn nefol hwyl,
I gadw'r wyl cyfodant;
Ac wedi ceisio Duw a'i wedd,
I'w dŷ mewn hedd cydgerddant.

Fe'u gwelir gyda'r fintai gu
Sy'n cyrchu i'r addoliad;
Ac yn eu côr yn mhabell Ion,
Yn gyson ceir hwy'n wastad.

Ceir clywed mwynber leisiau'r plant
Mewn moliant yn cyfodi,
A'u gwel'd yn ddifrif-ddwys o hyd
Ac astud, wrth addoli.

Ni wag ymrodiant i un man
I hepian na gloddesta;
Ond bydd eu calon gyda gwaith
A chyfraith y Gorucha'.

Pob un â'i Feibl yn ei law,
I'r Ysgol ddaw'n amserol;
Ac yn eu cylch fe'u ceir bob pryd
Yn ddiwyd a defnyddiol.

Pan ddeuant adre'r nos yn nghyd
I gyd, a'r drws yn nghauad,
Dechreuant ddweyd yn bwysig rydd
Am waith y dydd, a'u profiad.

Mor fwyn eu cân! mor ddwys bob gair!
Ac O mor daer eu gweddi!
A Duw yn siriol wenu ar
Y duwiol hawddgar deulu!

Gwir nad oes ganddynt ddodrefn aur,
Na dysglaer lestri arian,
Na llawrlen ddrudfawr yn y tŷ,
Na gwely-leni sidan.

Ni feddant seigiau mawr eu rhin,
Na melus win na moethau,
Na thuedd byth i flysio'n ffol
Frenhinol arlwyadau.

Ond mae rhinweddol win a llaeth
Yr iechydwriaeth ganddynt;
A Christ yn frawd a Duw yn Dad,
A thirion Geidwad iddynt.

Fe'u ceidw'n ddiogel rhag pob braw,
Ac yn ei law fe'u harwain,
Nes dwyn pob un i ben ei daith
Trwy hirfaith dir wylofain.

Pob un a gyrhaedd yn ei dro
Hyfrydawl fro paradwys;
Ac yno'n dawel berffaith rydd
Y cânt dragwyddol orphwys.

MARWOLAETH Y CRISTION.

Gristion hawddgar! daeth yr adeg
It' ehedeg at dy Dad;
Gad dy lesgedd, hwylia'th edyn,
Cyfod, cychwyn tua'th wlad;
Sych dy ddagrau, dechreu ganu,
Darfu'th bechu, darfu'th boen;
Ti gei bellach dawel orphwys
Yn mharadwys gyda'r Oen.

Er fod afon angeu'n dònog,
A llen niwlog dros y glyn,
Gwel dy Briod cu yn dyfod
I'th gyfarfod y pryd hyn:
Dacw'r gelyn wrth ei gadwyn,
Heb ei golyn, dan ei glwy';
Dacw uffern wedi'i maeddu:—
Gristion! pa'm yr ofni mwy?

Yn y dyffryn, er mor dywyll,
Gwelaf ganwyll ddysglaer draw,
Wedi'i chynneu i'th oleuo,
Rhag it' lithro ar un llaw:
Mae dy Iesu wedi blaenu,
Wedi tòri grym y dòn;
Pa'm yr ofni groesi'r dyffryn?
Pa'm mae dychryn dan dy fron?

Eilia'th gân, mae'r nos yn cilio,
Gwel, mae gwawl yn hulio'r glyn;
Edrych drwy y niwlen deneu,
Gwel drigfanau Seion fryn:
Gwel, mae hyfryd wèn drugwyddol,
Heulwen nefol ar y wlad;
Gwel mor ddysglaer deg danbeidiol
Yw brenhinol lys dy Dad.

Gwel y dirif seirian berlau
Wisgant furiau'r nefol gaer;
Gwel ei huchel byrth dysgleirdeg,
A'i llydain deg heolydd aur:
Gwel yr afon bur redegog,
Gwel y deiliog ffrwythlawn bren;
Gwel y llwybrau a'r trigfanau
Sydd i'r seintiau uwch y nen.

Gwel y dedwydd brynedigion
Yn eu gynau gwynion draw,
Wedi gwisgo eu coronau,
A'u telynau yn eu llaw;
Yno'n gorphwys gyda'u gilydd,
Mewn llawenydd pur dilyth,
Heb na loes na chroes, na phechod,
Mwyach i'w cyfarfod byth.

Gwel y gosgordd-lu yn cychwyn
I'th ymofyn idd eu mysg;
Gwel dy Brynwr, mewn gwèn siriol,
Yn ei hardd gyfryngol wisg:
Clyw, mae'r clychau oll yn canu,
I'th groesawu tua thref;
Clyw bereiddlawn seingar donau
Aur delynau côr y nef,

Gwel dy gerbyd wrth yr afon,
Gwel dy goron—gad dy gledd;
Cymer bellach dawel feddiant
O ogoniant gwlad yr hedd;
Ffarwel iti, collaf bellach
Dy gyfeillach a dy weld,
Hyd nes cawn gyfarfod etto
Yn y fro tu draw i'r bedd.

"Y LILI GWYWEDIG."

GALARGAN MAM AR FARWOLAETH MABAN MYNWESOL.

Caed Lili teg, mewn hyfryd fan,
Ar gorsen wan yn tyfu;
Ei hawddgar liw, a'i gywrain lun,
Wnai i bob un ei garu.

Ei berchen o anwyldeb âi,
A siriol syllai arno,
Mewn gobaith hoff o'i gadw'n îr
Am dymmor hir heb wywo.

Ond ar ddiwrnod tywyll du,
Y gobaith cu ddiflanodd;
Daeth awel oer 'nol hel lwen haf,
A'r Lili braf a wywodd!

Mae'n awr yn gorwedd yn y llwch,
Heb degwch yn wywedig;
A'i berchen deimla dan ei bron
Ei chalon yn glwyfedig.

Ochenaid ddwys o'i mynwes wan,
Ac egwan lef sy'n codi—
"A rai l im' golli'r olwg ar
Fy hawddgar wiwber Lili!

Flodeuyn hardd! dy golli raid,
Er dibaid dywallt dagrau!
Llwyr ddiflanedig 'nawr yw drych
Dy unwaith harddwych liwiau.

Dy addurnedig wisgoedd braf,
Eu gweled ni chaf mwyach!
Wrth syllu ar dy le, nid wyf
Ond gwneud y clwyf yn ddyfnach."

Ar hyn, pan ydoedd natur wan
O dan y groes yn suddo,
I arllwys balm i'r galon brudd
Daeth gwiw Ddyddanydd heibio.

Yn dirion (nid i beri braw)
Ei ddeheu-law estynai;
Cyd-deimlo wnai wrth wrando'i chŵyn,
Ac mewn iaith fwyn dywedai—

"Na wyla mwy—dy Lili hardd
Sy'n awr yn ngardd paradwys,
Mewn tawel gynhes nefol fro
Yn ail-flodeuo'n wiwlwys.

Ei nôdd, ei ddail, ei arogl pêr,
Ei liwiau têr a hawddgar,
Rhagorach fyrdd o weithiau y'nt
Nag oeddynt ar y ddaear.

Ei weled gei ar fyr o dro
Yn gwisgo harddwch nefol:
I'r ddedwydd wlad dy gyrchu wnaf,
Lle t'wyna haf tragwyddol.

CAN Y NEFOEDD.

Fy enaid blinedig! cwyd d'edyn yn awr,
Ehed trwy'r wybrenau uwch gofid y llawr,
I glywed nefolion yn seinio trwy'r nen,
Fawl ganiad i'r Iesu, dy Briod a'th Ben.

Mor hardd ei frenhinwisg! mor uchel ei sedd!
Mor ddysglaer ei goron! mor siriol ei wedd!
Aur-seren awdurdod sy'n awr ar y fron
Fu gynt yn llif-waedu o glwy'r waewffon!

Angylaidd gantorion gydunant mewn cân
A seintiau fil miloedd, a'u gwisgoedd yn lan;
A broydd a bryniau tragwyddol y nef
Trwy'r dedwydd ororau adseiniant eu llef.

Y llu archangylaidd ddechreuant y gainc,
Gan barchus gydblygu o amgylch ei fainc:
Y saint â'u coronau wnant balmant i'w draed,
Gan felus gydganu am rinwedd ei waed.

Pan daniodd ei fynwes, pan gododd mewn brys,
Gan adael ei orsedd, a'i goron, a'i lys,
A 'hedeg heb oedi o fynwes ei Dad,
Ar edyn trugaredd, at ddyn yn ei waed;

Pan welwyd E'n faban mewn gwael egwan gnawd,
Etifedd y nefoedd o'i wirfodd yn dlawd!
Angylion a seintiau a floeddient yn nghyd,
"Gogoniant trwy'r nefoedd, Tangnefedd trwy'r byd."

Pan rodiai o amgylch, gan wneuthur llesâd
I gloffion, a deillion, a chleifion, yn rhad,
Gan alw'r blinderog, yn serchog a llon,
I orphwys yn dawel eu pwys ar ei fron—

Pan godai yn erbyn pyrth uffern ei gledd,
Gan siglo sylfeini hen garchar y bedd—
Dyrchafu yn hyfryd berseiniawl wnai'r gân
A bywiol orfoledd wnai'r nefoedd yn dân.

Ond sydyn!—pan ydoedd pob telyn mewn hwyl,
A'r udgyrn yn seinio fel ar uchel wyl,—
Wrth daro'r nôd uwchaf cydsyniai'r dorf hardd
Ei weled E'n chwysu mewn ing yn yr ardd!

Pan welwyd E'n gwaedu dan hoelion ar bren,
Pan wanwyd ei fynwes, pan glwyfwyd ei ben,
Pan yfodd E'r cwpan, pan gollodd fwynhad
Dyddanol gysuron gwedd wyneb ei Dad;

Pan gododd cyfiawnder i'w erbyn ei gledd,
Pan welwyd E'n gorwedd yn ngharchar y bedd,
Dyrysodd telynau cantorion y nef!
Ymlaesodd pob aden! dystawodd pob llef!

Ar unwaith ymdaenodd tywyllwch fel llen
Dros harddwych drigfanau dedwyddawl y nen!
Cydwywodd y blodau! dadhwyliodd pob tant!
Llesgaodd pob seraph—pob angel—pob sant!

Ond bore'r adgyfodiad, ar dòriad y dydd,
Pan neidiodd y Cadarn o'i gadwyn yn rhydd,
Gan ymdaith o Edom yn amlder ei rym,
Mewn harddwisg borphoraidd, a'i gleddyf yn llym;

Pan gododd hardd-faner trugaredd a hedd,
Ac yn ei law waedlyd agoriad y bedd,
Gan floeddio'n fuddugol, "Ennillais y dydd—
Gorchfygais bob gelyn—daw'r caethion yn rhydd"—

Mil myrdd o gantorion, yn gydsain eu llef,
Ail-seinient yr anthem, hwyl lawen trwy'r nef;
Gan floeddio caniadau, mewn tonau mor bêr,
Nes siglo y bydoedd gan adsain y ser.

Angylaidd osgorddion ehedent mewn brys
I dywys eu Brenin i orsedd ei lys;
Ar balmant o berlau olwyniai i'r nen,
A'r seirian byrth oesawl ddyrchafent eu pen.

'Nol disgyn o'i gerbyd, ac esgyn ei sedd,
Ei euraidd deyrnwialen estynai mewn hedd,
Gan ddwyn agoriadau llywodraeth ei Dad,
Ac anfon i ddynion ei roddion yn rhad.

Rho heibio 'nawr, f'awen, cyn gorphen dy gân,
Rhag boddi ar unwaith mewn syndod yn lan;
Nid da cynnyg nofio—'rwyt etto'n rhy wan—
Mewn môr o ryfeddod heb waelod na glàn.

I erfyn maddeuant, plyg 'nawr wrth ei draed,
Ymorphwys am fywyd ar rinwedd ei waed;

Cei ddianc ar fyrder o'th garchar o gnawd,
I orphwys yn mynwes dy fwyn hynaf Frawd.

Ei wyneb cu hardd-deg gei weled heb len;
Ac yna, dan ganu, coroni ei ben:
Pan welir y ddaear yn wenfflam o dân,
Mawr fydd dy orfoledd, a melus dy gân!

AR FARWOLAETH MABAN.

Daeth yma i'r byd i wel'd ein gwae,
Lle mae gorthrymder garw;
Ond trodd ei egwein tygaid draw,
Gan godi'i law a marw.

Er d'od am dro i'n daear ni
I brofi'r cwpan chwerw;
Ni fynai aros is y nen,
Trodd draw ei ben i farw.

Dros enyd fèr fe rodd ei glust
I wrando'n trist ruddfanau;
Ond buan, buan, blino wnaeth,
A hedodd ymaith adre'.

Ni chawn ei weled yma mwy
Dan unrhyw glwy'n galaru;
Mae wrth ei fodd ar Scion fryn,
A'i dannau'n dŷn yn canu.

Ni welir deigryn ar ei rudd,
Na'i wedd yn brudd wylofus;
Ni chlywir mwy o'i enau ef
Un egwan lef gwynfanus.

Ni chaiff y fam byth, mae'n ddilys,
Waith sychu'i chwys a'i ddagrau,
Na chwaith ei gynnal, pan yn wan,
I gwynfan yn ei breichiau.

Ni rydd un gelyn iddo glwy',
Nis gellir mwy ei faglu;
Ni welir ef yn dewis rhan
Gyda'r annuwiol deulu.

Ni chaiff y tad na'r fam byth mwy
Boen trwy ei wel'd yn pechu;
Nid ofnant iddo yn ei oes
Ddwyn croes ar achos Iesu.

Fe darddodd ffynnon ar y bryn
I'w gànu'n wyn, a chymhwys
I lanw lle yn mhlith y llu
Sy'n canu yn mharadwys.

Diangodd draw i wlad yr hedd
O gyrhaedd pob rhyw ddrygfyd,
Ac uno wnaeth â'r nefol lu
I ganu fry mewn gwynfyd.

Mewn teulu duwiol yn y byd,
Tra hyfryd y gyfeillach;
Ond fry yn mhlith y nefol hil
Y bydd yn fil melusach.

Heb unrhyw boen o dan y fron,
Mae'n awr yn llon a dedwydd:
A'r pur orfoledd yno sy'
A bery yn dragywydd.

Er rhoi ei gorff yn ngwaelod bedd
I orwedd a malurio,
Daw bore hyfryd yn y man
Y cwyd i'r làn oddiyno.

Cawn gydgyfarfod fry mewn hedd,
Tu draw i'r bedd yn dawel;
Ac uno i ganu yn ddilyth,
Heb achos byth ymadael.

Y CRISTION YN HWYLIO I FOR GWYNFYD.

Fel morwr cyfarwydd wrth ddedwydd fordwyaw,
Yn troi yn dra medrus ei lyw â'i ddeheulaw,
Gan ganu wrth ledu ei hwyliau claerwynion
I farchog y cenllif o flaen yr awelon—
Mae'r Cristion yn gadael anialdir marwoldeb,
Gan hwylio yn dawel i fôr bythol burdeb.

Pan ddel y gorchymyn mae'n lledu ei hwyliau,
Heb ofni'r Iorddonen, nac ymchwydd ei thònau;
Gan wenu heb ddychryn, wrth gychwyn, mae'n canu,
"O'm golwg yn gyflym mae'r byd yn diflanu,
Diangaf yn fuan o gyrhaedd gofidiau,
Tawelu mae'r gwyntoedd, llonyddu mae'r tònau,
Mae'r heulwen yn gwenu, a'r wybren yn siriol,
Caf nofio mewn moroedd o wynfyd tragwyddol."

CWYN A CHYSUR HENAINT.

Ymgliodd y gauaf, mae'r gwanwyn yn gwenu,
Mae'r oenig yn neidio, a'r durtur yn canu;
Mae'r coedydd, a'r dolydd, a'r gerddi'n blodeuo;
A minnau gan nychdod a henaint yn gwywo!
Mae f'einioes yn cilio, a'm dyddiau bron darfod,
Caf fyned i orphwys yn fuan i'r beddrod!

Mae'r i'enctyd o'm hamgylch yn heinyf a chryfion,
Yn wridog eu gruddiau, yn llawen eu calon,
Yn sirio: gydrodio'n finteioedd dyddanus,
A minnau fy hunan yn llesg a methiannus!
Mae f'einioes yn cilio, a'm dyddiau yn darfod,
Caf fyned i orphwys yn fuan i'r beddrod!

Bu amser, 'rwy'n cofio, pan gynt 'roeddwn innau
Mor heinif, a bywiog, a gwridog a hwythau,
A'm dwyfron yn llawen, a'm cân yn soniarus;
Ond ciliodd fel cysgod fy hafddydd dyddanus!
Mae f'einioes yn cilio, a'm dyddiau bron darfod,
Caf fyned i orphwys yn fuan i'r beddrod!

Diangodd holl dirion gymdeithion fy mebyd,
O gyrhaedd marwoldeb, i dawel fro gwynfyd;
A minnau, heb gymhar, adawyd fy hunan!
Mae'm calon, gan hiraeth, yn rhy lesg i gwynfan!
Mae f'einioes yn cilio, a'm dyddiau yn darfod,
Caf fyned i orphwys yn fuan i'r beddrod!

Mae ceidwad y babell gan wendid yn crynu,
A'r heinif wŷr cryfion yn awr yn cydgrymu;
Swn isel wrth falu wna'r felin fethedig,
Ychydig yw'r meini, ac oll yn sigledig!
Mae f'einioes yn cilio, a'm dyddiau bron darfod,
Caf fyned i orphwys yn fuan i'r beddrod!

Y gloewon ffenestri gan leni dywyllwyd,
A llydain byrth mwyniant gan henaint a gauwyd!
Y cwsg a lwyr gilia wrth lais yr aderyn,
A baich ar yr ysgwydd fydd ceiliog y rhedyn!
Mae f'einioes yn cilio, a'm dyddiau bron darfod,
Caf fyned i orphwys yn fuan i'r beddrod!

Holl ferched cerddoriaeth ar unwaith ostyngir,
A phobpeth, wrth araf ymlwybro, a ofnir;

Mae chwant wedi pallu, 'does dim rydd ddyddanwch,
Diflanodd pob seren dan ddulen tywyllwch!
Mae f'einioes yn cilio, a'm dyddiau bron darfod,
Caf fyned i orphwys yn fuan i'r beddrod!

Y cawg aur a'r piser yn fuan a ddryllir,
Y llinyn arianaidd a'r olwyn a dòrir;
Ychydig sy'n aros o flodau'r pren almon;
Dadfeilio mae'r babell, llewygu mae'r galon!
Mae f'einioes yn cilio, a'm dyddiau bron darfod,
Caf fyned i orphwys yn fuan i'r beddrod!

Hosanna!—'rwy'n teimlo fy llesg gorff yn dattod,
Mae'n addfed o'r diwedd i fyned i'w feddrod;
Caiff gysgu heb ddychryn, dros ronyn, yn dawel,
Nes hyfryd ddihuno wrth floedd yr archangel;
Ac yno, heb lygredd, caiff godi'n dra siriol,
I ddedwydd deyrnasu mewn i'enctyd tragwyddol.

Ar edyn angylaidd, heb lesgedd na methiant,
Caf esgyn i dawel ororau gogoniant,
I dderbyn y palmwydd, y delyn, a'r goron,
A chlywed peroriaeth nefolaidd gantorion;
Ac yna caf brofi'r gymdeithas a'r gwleddoedd
Sy'n bythol goroni dedwyddwch y nefoedd!

"MAE NHAD WRTH Y LLYW."

Draw, draw ar y cefnfor, ar noson ddu oer,
'Roedd cwch bach yn hwylio heb seren na lloer;
A rhuad y tònau, a'r gwyntoedd, a'r gwlaw,
A lanwai fynwesau y morwyr o fraw.

Ond bachgen y cadben, yn llawen a llon,
A dd'wedai dan wenu, heb ddychryn i'w fron,
"Er gwaethaf y tònau awn adref yn fyw;
Pa raid i ni ofni?—*Mae Nhad wrth y Llyw.*"

O blentyn y nefoedd! paham mae dy fron
Mor ofnus wrth weled gwyllt ymchwydd y dòn?
Mae'r dyfnder du tywyll yn rhuo, gwir yw;
Ond diogel yw'th fywyd—*Mae'th Dad wrth y Llyw.*

Daw'n fuan orfoledd diddiwedd i'th ran;
Draw'n dysgwyl mae'th geraint oddeutu y làn;
Y dysglaer lys acw, dy hoff gartref yw;
Mae Canaan yn ymyl, *a'th Dad wrth y Llyw.*

Cwyd bellach dy hwyliau, mae'r awel o'th du,
'Rwyt bron myn'd i fynwes dy fwyn Brynwr cu;
Mae'th angor yn ddiogel, a'th Gadben yn fyw,
Mae'th gwch *yn* y porthladd, *a'th Dad wrth y Llyw.*

Y DDAU BLENTYN AMDDIFAD.

Fy ngherbyd safai, ar fy nhaith,
Unwaith wrth westty bychan,
Pan oedd gwên oleu'r heulwen glaer
Yn euro caer y dreflan.

Wrth weled pawb o'm cylch â'u bryd
Ar dawel gydnoswylio,
Aethym i gladdfa oedd gerllaw
I ddystaw ddwys fyfyrio.

Dan briddell las, y *tlawd* yn llon
Ro'i hûn i'w fron glwyfedig;
Ond meini cerf o farmor trwch
A guddient lwch *pendefig*.

Wrth fedd, dan gysgod ywen grin,
Dau blentyn oedd yn wylo,
Mewn ing a hiraeth ar y pridd,
Lle'r oedd eu *mam* yn huno.

Er fod y ddau mewn newyn mawr,
Ar lawr 'roedd darn o fara;
Edrychent arno weithiau'n sy'n,
Er hyn ni wnaent ei fwyta.

"Fy anwyl blant! gwnewch ddweyd i mi
P'am 'rych chwi mewn cyfyngder,
Ac yn gwastraffu'r bwyd eich dau,
A chwithau mewn fath brinder?"

Atebai'r bach, mewn gwylaidd dôn,
A'i heilltion ddagrau'n llifo,
"Yn wir yr y'm mewn eisieu llym,
Heb ddim i'w ofer-dreulio.

Troi'n eneth ddrwg mae Mair fy chwaer,
'Rwy'n daer am iddi fwyta;
Ni chafodd damaid heddyw'n wir,
Ar dir, *hi* bia'r bara."

"Nis bwytaf mwy," atebai hi,
"Nes bwyto Henri dipyn;
Mi gefais *i* beth bara *ddoe*,
Ond *echdoe* ca'dd *ef* fymryn."

Ar hyn mi deimlwn dan fy mron
Y galon lesg yn gwaedu:
Eisteddais rhyngddynt ar y bedd
I geisio'u hymgeleddu.

Yn dirion gwesgais ddwylaw'r ddau,
Oedd fel y clai gan oerder:
A'r bachgen llwydaidd ataf drodd,
I adrodd eu cyfyngder.

"Ein tŷ oedd wrth y dderwen draw,
Gerllaw y dolydd gwyrddion;
Lle'r oeddym gynt yn chwareu o hyd
Yn hyfryd a chariadlon.

Un tro, pan oeddym oll yn llon,
Daeth dynion creulon heibio,
I fyn'd a'n tad i'r môr i ffwrdd,
Ni chawn mwy gwrdd mohono!

Ni wnaeth ein mam, byth ar ol hyn,
Ond wylo'n syn a chwynfan,
Gan ddystaw ddweyd yn brudd ei gwedd,
Yr âi i'r bedd yn fuan.

Un hwyr, pan ar ei gwely'n wan,
A'i hegwan lais crynedig
Galwodd ni'n dau, mewn tyner fodd,
A d'wedodd yn garedig—

'Fy anwyl blant! na wylwch chwi!
Gwnewch dyner garu'ch gilydd:
Dichon daw'ch tad yn ol yn glau,
I'ch gwneud eich dau yn ddedwydd.

Ond os na ddychwel byth eich tad,
Cewch *Ddaw* yn Geidwad tyner;
Mae ef i bob amddifad tlawd
Yn Dad a Brawd bob amser.'

Yna, ar ol ymdrechu'n gu
I sychu'n dagrau chwerw,
Cusanodd ni, wrth droi'i phen draw,
Gan godi'i llaw a *marw!*

Ein hanwyl *fam* ni chawn byth mwy
I'n harwain trwy ofidiau;
Ac ofni 'rym, mewn dirfawr fraw,
Na ddaw ein *tad* byth adre'.

Er wylo yma lawer dydd
Mewn hiraeth prudd am dano,
Ac edrych draw a welem neb
Yn d'od—yn debyg iddo.

Er clywed fod y môr yn mhell,
Tybiem mai gwell oedd myned—
Os gallem gyrhaedd *yno*'n dau,
Y caem yn glau ei weled.

Dan wylo aethom, law yn llaw,
Trwy wynt a gwlaw a lludded,
Gan droi yn wylaidd i bob tŷ
I holi'r ffordd wrth fyned.

Gwnai *rhai*, dan wenu, ymaith droi,
Heb roi i ni ddim cymhorth;
Och'neidiai'r *lleill* wrth wrando'n cwyn.
Gan roddi'n fwyn i'n ymborth.

Ond erbyn gwel'd y môr mawr draw,
Gwnaeth dirfawr fraw ein llenwi;
Ac ofni'r ydym fod ein tad
Anwylfad wedi boddi!

Ar fedd ein mam 'rym 'nawr o hyd,
Mewn ing a gofid chwerw,
A hiraeth dwys am fod ein dau,
Fel hithau, wedi marw.

A wyddoch chwi ddim p'le mae'n byw
Y Duw sy'n Dad amddifaid?
Pe gallem ni ryw fodd ei gael,
Mae ef yn hael wrth weiniaid.

Dywedodd mam mai yn y *nef*
Yr ydoedd ef yn trigo:—
A d'wedodd llawer wrthym ni,
Heb os, ei bod *hi* yno.

Ac os yw mam 'nawr *yno*'n byw,
Hi dd'wed wrth Dduw am danom;
A dysgwyl 'rym y llwydda hi
Cyn hir i'w yru atom."

Gwnaeth hyn i'm hoff gofleidio'r ddau,
A sychu'u gruddiau llwydion,
A dweyd—Fel mam, gofalaf fi
I'ch ymgeleddu'n dirion.

Na wylwch mwy! de'wch gyda mi,
Rho'f i chwi fwyd a dillad,
A dysg, a thŷ, a modd i fyw,
A chewch Dduw'n Dad a Cheidwad.

Efe yn fwyn a'm gyrodd i
I ddweyd i chwi ei 'wyllys:
A diwedd pawb a'i carant ef,
Yw myn'd i'r nef i orphwys.

CYFARCHIAD AR WYL PRIODAS.

Tangnefedd a ffyniant, dyddanwch a chariad,
Fo rhwymyn a choron eich undeb anwylfad;
Ymleded eich pabell dan wênau Rhagluniaeth,
A'ch eppil fo'n enwog dros lawer cenedlaeth.
Dysgleiried eich rhinwedd. A gwneled yr Arglwydd
Eich cylchoedd yn fendith, a'ch ceraint yn ddedwydd:
Estyned eich dyddiau i fod yn ddefnyddiol;
Ei eglwys fo'ch cartref, ei air fyddo'ch rheol.
A rhodded ei Ysbryd dyddanol i'ch tywys
Trwy dd'rysni yr anial i'w nefol baradwys.

DINYSTR BYDDIN SENACHERIB.

O fras fro Assyria, y gelyn, fel blaidd,
Ymdòrai i'r gorlan er difa y praidd;
A'i lengoedd mewn gwisgoedd o borphor ac aur,
Wrth hulio glyn Salem, a'i lliwient yn glaer.

Eu harfau o hirbell a welid o'r bron
Fel llewyrch ser fyrddiwn ar frig y werdd dòn;
A thrwst eu cerddediad a glywid o draw,
Fel rhuad taranau trwy'r wybren gerllaw.

Eu chwiflawg fanerau cyn machlud yr haul,
A welid fel coedwig dan flodau a dail;
Eu chwiflawg fanerau, ar dòriad y wawr,
Fel deiliach gwywedig a hulient y llawr.

Daeth angel marwolaeth ar edyn y chwa',
Gan dandlyd anadlu i'w gwersyll ei bla,
Nes gwneuthur pob calon, a llygad, a grudd,
Mor oer ac mor farw a delw o bridd!

Y ffrom farch ddymchwelwyd!—yn llydan ei ffroen,
Mae'n gorwedd heb chwythu mwy fa.chder ei hoen,
A'i ffun oer o'i amgylch fel tywyrch o waed:
Llonyddodd ar unwaith garlamiad ei draed!

Ar oer-lawr mae'r marchog, a'r gwlith ar ei farf,
A'r llaid ar ei hardd-wisg, a'r rhwd ar ei arf:
Nid oes trwy y gwersyll na thinc pibell fain,
Na baner yn ysgwyd, nac udgorn rydd sain!

Mae crochwaedd trwy Assur, daeth amser ei thâl,
Mae'r delwau yn ddarnau trwy holl demlau Baal:
Cynddaredd y gelyn, heb godi un cledd,
Wrth *olwg* yr Arglwydd ymdoddai i'r bedd!

GWEDDI PLENTYN.

Ni cheisiaf aur, na brî, na nerth,
Na diwerth fwyniant bydol;
Fy enaid gais ragorach rhan
Na seirian rwysg brenhinol.

Nid moethau o ddanteithiol rin,
Na gloew win puredig,
Nac ŷd, na mel, nac olew per,
Na brasder lloi pasgedig.

Nid plethiad gwallt, na thegwch pryd,
Na gwisg i gyd o sidan,
Nac eang lys, a'i addurn claer
O berlau, aur, neu arian.

Ond dwyfol werthfawrocach rodd,
Mewn taerfodd, wy'n ei cheisio:
Ac O, fy Nuw! erglyw fy nghri,
A dyro imi hòno.

Fel arwydd hoff o'th gariad hael,
Rho imi gael "*Doethineb:*"
Nid oes ond hon a ddwg i'm rhan
Ddedwyddawl anfarwoldeb.

Dysg fi yn *nechre* f'einioes frau
I rodio llwybrau'r bywyd;
A chadw'th air—trwy fyw yn ol
Ei nefol gyfarwyddyd.

Fel ufudd bentyn, boed i mi
Byth wneud dy *dŷ* yn gartre',
Fel caffwyf brofiad melus iawn
O'i radlawn arlwyadau.

Na âd im' ffol ymlygru byth,
Trwy fyn'd i blith rhagrithwyr;
Na rhedeg chwaith o lwybrau'r ne',
I eiste'n lle'r gwatwarwyr.

Dy santaidd waith a'th achos di
A fo i mi'n hyfrydwch;
A gwiw gymdeithas d'anwyl blant
Fy mwyniant a'm dyddanwch.

Os caf *gysuron* ar fy nhaith,
Fy melus waith fydd moli:
Fy nonïau oll, o galon rwydd,
I'm Harglwydd gânt eu rhoddi.

Ond os caf *gystudd* drwy fy oes,
A dwyn fy nghroes mewn galar,
Heb ddim ond gofid ar bob cam,
Gwna fi yn amyneddgar.

Os, fel blodeuyn, gwywo wnaf
Yn *nechre* haf fy mywyd;
Cymhwysa f'enaid drwy dy ras,
I deyrnas bythol wynfyd.

Os *hir* fy nhaith, rho im' dy hedd,
Nes myn'd i'r bedd i orphwys;
Ac yna seiniaf gyda'th blant
Dy foliant yn mharadwys.

CWYNION "YAMBA," Y GAETHES DDU.

Er bod mewn caethiwed yn mhell o fy ngwlad,
'Rwy'n cofio hoff gartref fy mam a fy nhad,
Y babell, a'r goedwig, yr afon a'r ddol;
Ond byth ni chaiff Yamba ddychwelyd yn ol!

Dros euraidd ororau ymlwybro wnawn gynt,
Heb ofid, nac angen, yn llawen fy hynt;
A'm plant o gylch gliniau fy mhriod mwyn cu;
Heb neb yn fwy boddlon a dedwydd na mi.

Pan unwaith yn gwasgu y bach at fy mron,
A'r lleill wrth fy ymyl yn cysgu yn llon;
Dysgwyliwn fy mhriod, gan sïo'n ddifraw,
Heb feddwl fod dychryn na gelyn gerllaw.

Ond pan yn hoff sugno awelon yr hwyr,
Ar unwaith ymdoddai fy nghalon fel cwyr,—
Gwel'd haid o ddyn-ladron yn dyfod o'r môr,
Gan guro fy mwthyn nes tòri y ddor!

Heb briod, na chyfaill, chwaer, brawd, mam, na thad,
I achub y gweiniaid crynedig rhag brad;
Fe'n llusgwyd, fe'n gwthiwyd, er taered ein cri,
I ddu-gell y gaeth-long at gan'oedd fel ni.

Wrth ruddfan i gyfrif mynydau'r nos hir,
A threiglo'n ddiorphwys fy mhen gan ei gur,
Mi gefais fy maban ar dòriad y dydd,
Yn oer ac yn farw—o'i boenau yn rhydd!

Hoff faban fy mynwes! i'r dyfrllyd oer fedd,
Er gwaetha'r gormeswr, diangaist mewn hedd;
Cei orphwys yn dawel, ni'th werthir byth mwy,
Ac ni rydd y fflangell na'r gadwyn it' glwy'!

Ffodd llawer fel tithau, o gyrhaedd pob aeth;
Ond etto mae'th gu-fam anwylaf yn gaeth!
Pa'm rhwystrwyd i Yamba gael huno yn llon,
A'i sïo i orphwys yn mynwes y dòn!

Ar ol garw fordaith, a chyrhaedd y làn,
A'n didol, a'n gwerthu i fyn'd i bob man;
Y brawd bach a rwygid o fynwes ei chwaer,
Er mynych lesmeirio wrth lefain yn daer!

Y wraig wrth ymadael, gusanai ei gwr,
A'i llygaid toddedig yn boddi mewn dw'r,
A'r lesg fam a wasgai ei dwyfron—o chwant
Cael myned i orwedd i'r un bedd a'i phlant!

Hoff geraint ysgarwyd, er cryfed eu bryd
Am weithio, dyoddef, a marw yn nghyd;
Y c'lymau anwylaf a dòrwyd bob un,
A rhwygwyd llinynau y galon ei hun!

I greulawn ormeswr fy ngwerthu a wnaed,
I gael fy fflangellu o'm dwyfron i'm traed:
Mae'm llafur yn galed, a minnau yn wan,
Heb ddefnyn o gysur i'w gael o un man!

Mae'r bwyd roddir i mi yn brin ac yn ddrwg,
Mae'r haul yn fy llosgi, mae pobpeth mewn gwg:
Dan oer wlith y ddu-nos rhaid cysgu, heb len;
O'r braidd y caf gareg i gynnal fy mhen!

Mewn ing rhaid im' *farw*, nis gallaf fyw'n hŵy,
Mae'r holl gorff yn glwyfus, a'r galon yn ddwy!
O na chawswn drengu yn mynwes fy ngwlad,
Fy mhlant a fy mhriod, fy mam a fy nhad!

Wrth farw, fy ngweddi daer olaf a fydd,
I'r caeth o'i gadwynau gael mynèd yn rhydd:
Pa Gristion, heb deimlo ei galon mewn aeth,
All gofio du lafur ei frodyr sy'n gaeth?

O Brydain brydweddol! "Arglwyddes y dòn,"
Na âd i un gaeth-long ymrwygo drwy hon:
Cwyd faner wen Rhyddid, nes gwawrio y dydd
I'r *olaf* gael dianc o'i gadwyn yn rhydd.

Y CREULONDEB O FFLANGELLU BENYWOD.

A *ysgrifenwyd* wrth ddarllen penderfyniad barbaraidd Blaenoriaid dideimlad Plan-feydd Jamaica, i ddynoethi a fflangellu gwyryfon a gwragedd.

Pe b'ai genyt deimlad, pe byddit yn Gristion,
Fe wridai dy wyneb, fe waedai dy galon,
Wel'd Menyw brydweddol wrth gadwen yn crynu,
Dan fflangell anifail yn gruddfan a gwaedu:
O ystyr, yn dirion, ei gwylder a'i dagrau;
Tafl ymaith y fflangell, a dryllia'i chadwynau!

Dwys glwyfir, bob ergyd, ei *chorff* teg tyneraidd,
Ond dyfnach y clwyfir ei *gwylder* benywaidd;
Heblaw ei harcholli o'r ddaear i'r ddwyfron,
Mae'r fflangell mewn *ail* fodd yn cyrhaedd ei chalon:
O ystyr, yn dirion, ei gwylder a'i dagrau;
Tafl ymaith y fflangell, a dryllia'i chadwynau!

Pan oeddit yn faban *hi*'th wasgai i'w mynwes,
A breichiau o'th amgylch, hi'th gadwai yn gynhes;
Rho'i gusan, dan wenu, i'th gadw'n ddyddanus,
Ac ar ei bron dyner hi'th siai i orphwys:
O ystyr, yn dirion, ei gwylder a'i dagrau;
Tafl ymaith y fflangell, a dryllia'i chadwynau!

Trywenid ei mynwes gan ingawl ddwys alaeth,
A gwewyr dirboenus, cyn dyfod yn *fammaeth*:
A chreulawn ei gwasgu mewn cyfyng amgylchiad,
Sy'n gofyn ymgeledd, tynerwch, a chariad;
O ystyr, yn dirion, ei gwylder a'i dagrau;
Tafl ymaith y fflangell, a dryllia'i chadwynau!

Dyngarwch a rhinwedd ymgiliant i wylo,
A chrefydd, o hirbell, saif draw gan och'neidio—
Gwel'd gwaedlyd archollion y fflangell gylymog!
Yn gwysau plethedig dan ddwyfron y feichiog!
O ystyr, yn dirion, ei gwylder a'i dagrau;
Tafl ymaith y fflangell, a dryllia'i chadwynau!

Mae Llywydd y bydoedd yn gweled ei chlwyfau,
Mae'n clywed ei chwynion, mae'n cyfrif ei dagrau;
Mae'n codi i ddial—clyw'r daran yn rhuo—
Mae'n gwisgo ei gleddyf, mae bron myn'd i daro:
O cryned dy galon! ymostwng mewn dychryn!
Tafl ymaith y fflangell, a dryllia y gadwyn!

Y FENYW WENIEITHUS.

Ar wyll y nos, dan dywyll leni'r hwyr,
Pan guddid gwên yr haul dan orchudd llwyr,
Yn nrws ei thŷ, yn denawl wenu'n llon,
Mewn esmwyth wisg, a dichell dan ei bron,
Y fenyw deg wenieithus welaf draw,
Yn gwamal droi ei llygaid ar bob llaw,
Nes canfod llanc mwyn hardd-deg, ond heb bwyll,
Na deall da i ochel hudawl dwyll.

Gan ddal ei llaw, hi a'i cusanodd ef,
Ac mewn iaith ystwyth, gyda dengar lef,
Dywedai'n hyf, "'Roedd im' aberthau hedd,
Ond cedwais wŷl, a gwnaethum heddyw wledd:
Yr hen adduned ddwys, cywirais hi,
A brysiais heno'n llon i'th gyfarch dî:
Fy ngwely drwsiais â cherfiadau gwych,
Ac â sidanaidd leni teg eu drych;
Mwg-derthais ef âg enaint peraidd iawn,
O aloes, myrr, a cinnamon, mae'n llawn.
Tyr'd gyda mi—ni chawn byth gyfle gwell
I garu'n gu—mae r gwr yn awr yn mhell:
O arian cymerth godaid yn ei law,
Ac ar y dydd ammodol adref daw;
Mae dyfroedd cêl fel gwin i'r galon brudd;
Cawn hyfryd wledd o beraidd fara cudd."

A'i geiriau teg, ei droi a'i ddenu wnaeth,
Nes cael i'w rhwyd ei galon ffol yn gaeth:
Fel ŷch yn fud i'r lladdfa aeth yn glau,
Neu fel yr ynfyd cyn i'r cyffion gau:
Heb gofio gwg na llygaid craff yr Ior,
Canlynodd hi, gan ddystaw gau y ddôr.

Yn mysg ei fwyn hoff-gu gyfoedion llon,
Lle rhodiai gynt heb ofid dan ei fron,
Nac yn ei dŷ, ni welwyd mo'no mwy!
Ei geraint oll, mewn galar gwelid hwy.
Ei *dad*, mewn dagrau, ro'i ei ben dan gudd,
A'i *fam*, wrth ruddfan, rwygai'i mynwes brudd!

Wrth wrando llais y fenyw ddengar ddrwg,
Cynhyrfir Ior y nef i wisgo gwg!
Porth uffern yw ei haddurnedig dŷ,
A'i ffordd i gell oer angeu'n arwain sy'!
Gweu maglau mae i ddal eneidiau'n gaeth
Yn nyfnder gwae, i oddef bythol aeth!
Os yno'r â, nid oes i'r adyn ffol
Ond gobaith gwan y dychwel byth yn ol!

Y TWYLLWR HUDAWL.

Mewn hyfryd le o gyrhaedd swn y byd,
Y trigai'n llon *forwynig*, dêg ei phryd;
Hoff unig ferch ei dedwydd fam a'i thad,
Heb dan ei bron na briw, na thwyll, na brad.
Pan, gyda'r wawr, y pigai'n llon o blith
Pêr-lysiau'r maes a dagrau'r bore wlith,
Y rhosyn coch a'r lili, têg eu drych,
I fritho'n hardd ei swp o flodau gwych,
A phan adseiniai lais yr eos fwyn,
Gan heinif ddawnsio'r gân o dwyn i dwyn—
O'r braidd, er craffu, gall'sid dweyd ar g'oedd,
Pa un ai *dynes* ai *angyles* oedd.

Ond gwywo wnaeth y gwrid oedd ar ei grudd,
A buan ffôdd y gân o'i mynwes brudd!
Un hwyr, gan wisgo gwên, rhyw *dwyllwr* ddaeth
I geisio'i dal mewn hudawl serch yn gaeth.
Wrth wel'd ei wên, ei chalon dyner wan,
Heb feddwl drwg, orchfygwyd yn y fan:
A'r gelyn cas, 'nol ei handwyo hi,
Arllwysai wawd, heb wrando ar ei chri.

Ei *thad*, wrth wel'd ei gwarth, creuloni wnaeth,
A'i galon falch fel darn o gàreg aeth;
Dan erchyll rêg—gan droi ei wyneb draw—
Ei gwthio wnaeth o'i dŷ i'r gwynt a'r gwlaw;
A chloi ei ddrws, gan greulawn dyngu'n ffol,
Na ch'ai hi byth ddychwelyd yno'n ol!

Ar gopa craig, wrth oleu gwan y lloer,
Ei *baban* gaed yn farw ac yn oer;
A'i ddagrau'n iâ tryloew ar ei rudd,
A'i ddwylaw bychain rewent wrth y pridd.

Y fam, yn awr o'i phwyll, yn llwyd a gwan,
A grwydrai'r *dydd* yn brudd o fan i fan;
A'r *nos*, mewn lludded tost, eisteddai'n syn
Dan gysgod llwyn, neu fry ar ael y bryn:
Ing ar ol ing drywanai'i mynwes brudd,
Ond byth ni welid deigryn ar ei grudd.

Yn glaf neu iach, âi allan ar bob hin,
Ac yn ei llaw y cariai gorsen grin,
Gan ddystaw ddweyd o hyd, yn syn ei gwedd,
"Fy chwaer yw hon, a daw i wylio'm bedd."

Ni soniai byth am gâr, na mam, na thad,
Na'i hudwr câs, nac am ei baban mâd:
Ymddyddan wnai, bob dydd, â'r gorsen grin,
Heb deimlo dwys effeithiau'i chystudd blin,

Nes marw dan oer wlith y niwliog nen,
Heb frawd na chwaer i gynnal pwys ei phen!
O'i llygredd oll ei chyflawn buro wnaed,
Gan Ysbryd Duw, trwy rin y dwyfol waed;
A'i henaid ffôld o'r maglau oll yn rhydd,
Gan hedeg fry i wlad o fythol ddydd.

Ond wrth gyflëu ei chorff i'w wely pridd,
Ei thad, dan guro'i fron, felldigai'r dydd
Y gwclodd hi o'i dŷ yn gorfod ffoi,
Mewn cyflwr gwan, heb wybod p'le i droi;
A'i hudwr tlawd a welai, er ei fraw,
Ddialydd llym â'i gleddyf yn ei law;
A'i Farnwr dig ar ddysglaer orsedd lan,
A'i wae'n seliedig mewn llyth'renau tân!

DAROSTYNGIAD A DYRCHAFIAD CRIST.

I gu Geidwad gwael bechadur,
Gyda gwylder, seiniwn gân;
Ac ennyner yn ein mynwes
Fywiol fflam o nefol dân:
Canwn am ei ddarostyngiad,
Am ei gur a'i gariad Ef,
Gan adseinio tônau mwynion,
Telynorion llys y nef.

Wrth wel'd adyn diymgeledd,
Tlawd, yn gorwedd yn ei waed,
Dan ei faich, yn archolledig
O'i ben ysig hyd ei draed;
Heb un cyfaill i dosturio,
Heb un balm i'w galon friw!
Codai Iesu lef drugarog
Am i'r euog gwael gael byw.

Gadael uchel sedd gogoniant,
Gadael moliant dirif lu,
Gadael hardd frenhinol goron
Wnaeth ein tirion Iesu cu;
Disgyn wnaeth ar edyn cariad,
Achub oedd ei fwriad E',
Daeth o'i fodd i gystudd chwerw,
Daeth i farw yn ein lle.

Yn y preseb, pan yn faban,
Llesg ac egwan gwelwyd Ef:
Isel annedd, gwael ymgeledd,
Ga'dd Etifedd mawr y nef:

Etto seren gain y dwyrain,
Wenai ar ei letty gwael;
Thus, a myrr, ac aur-anrhegion,
Wrth ei draed ro'i'r doethion hael.

Dirif luaws "ser y bore,"
Drwy'r wybrenau seiniant gân,
Gan fwyn ateb cyngan nefol
Y waredol dyrfa lan:
Gras, cyfiawnder, a gwirionedd,
A thrugaredd yn gytun,
Wrth yr orsedd yn hoff wenu
Am gael modd i godi dyn.

Cilio wnaeth y tew gysgodau,
Gwawriodd hyfryd oleu ddydd;
Nid oes eisieu gwaedlyd ebyrth,
Thuser aur, nac allor bridd:
Daeth y gogoneddus Sylwedd,
Daeth yr addawedig Had,
Cododd dysglaer Haul Cyfiawnder,
Sain y durtur sydd trwy'r wlad.

Mwy ni cheisir urddau Aaron,
Olew pêr, na brasder ŵyn;
Gwisgo'r Urim ar ei ddwyfron
Yn y nef mae'r Iesu mwyn:
Wrth yr allor aur mae'n gweini,
Clywir adsain clychau hedd;
Yn ei law mae'r aur-deyrnwialen,
Wrth ei glun mae'r dwyfol gledd.

Hoeliodd ddeddf yr ordeiniadau,
Oedd i'n herbyn, wrth ei groes,
Gan yspeilio'r awdurdodau
Pan yn dyoddef angeu loes;
Cododd faner wen trugaredd,
Drylliodd gedyrn byrth y bedd,
Seiniodd Jubil lawn i'r caethion,
Ac arlwyodd radlawn wledd.

Agoriadau y llywodraeth
Wisgwyd ar ei ysgwydd Ef,
Rhoddwyd iddo bob awdurdod
Ar y ddae'r ac yn y nef;
Marchog mae yn ngherbyd cariad,
Troi o'i gylch mae engyl nef;
Sigla cedyrn byrth y fagddu
Hyd eu sail wrth rym ei lef.

Croesaw iddo wisgo'r goron,
Aed ei enw dros y byd;
Plyged pawb i'w fwyn awdurdod
Am ei gymmod Ef mewn pryd;
Boed i'r euog tlawd ymguddio
Dan ei dawel gysgod Ef,
Boed i'r gwanaf ffyddiog bwyso
Ar ei fraich alluog gref.

Mewn gogoniant dirfawr etto,
Heb y groes a'r goron ddrain,
Disgyn gyda myrdd myrddiynau,
Llawen floedd, ac uchel sain;
Cwyd ei orsedd, egyr fyfrau,
Sigla seiliau dyfna'r bedd,
Lleda'r wyntyll, hwylia'r clorian,
Ysgwyd fry ei farnol gledd.

Pan y ffy y nefoedd heibio,
Pan y byddo'r ddae'r yn dân,
A'r holl anwir fyd mewn cyffro,
A llu'r saint yn seinio cân;
Pan y todda'r euog ymaith
Dan lewygon bythol fraw,
Boed i ni gael tawel orphwys
Ar ei dirion ddehau law.

BUDDUGOLIAETHAU YR EFENGYL YN Y MIL BLYNYDDOEDD.

Efengyl oludog! angyles trugaredd!
Mae cyrau y ddaear am wele'i dy wedd;
Yn mantell dy harddwch, ar gerbyd dy haeledd,
Dos rhagot nes llenwi y byd â dy hedd:
Mae genyt ti'n barod wledd lawn i'r newynog,
A chymmod i'r euog, a harddwisg i'r noeth,
A thrysor i'w ranu rhwng tlodion anghenog,
Sydd fyrdd mwy ei werth na mil myrdd o aur coeth.

Mae'r byd yn ymysgwyd o gwsg mil o oesau,
Gan ddirif dylwythau cei roesaw i'w mysg,
A gwastad balmantwyd ffyrdd rhyddion i'th gerbyd
Gan feibion celfyddyd, masnachaeth, a dysg:
Peiriannau tân cariad i droi dy olwynion
Yw'r llon Gymdeithasau addurnant ein gwlad;
A chwareu drwy'r nef mae holl dannau gorfoledd,
Fod gobaith i ddyn gael ymgeledd yn rhad.

Cyhoeddwyd o'r cynfyd gan lais ysbrydoliaeth
Am bur effeithiolaeth diattal dy ras—
Llwyr ofer i'r bobloedd i'th erbyn derfysgu,
I lengoedd y fagddu amlygu eu cås:
I'th dlilyn wrth d'alwad cwyd torf o Genadon
A'u calon yn fflamio dan fedydd o dân;
Ymdaenu trwy wersyll y gelyn mae'r cyffro,
Mae'r delwau'n malurio yn fawrion a mân.

Mae'th weision yn barod i gludo'th drysorau
Trwy 'stormydd, dros dônau trochionog y môr;
Wynebant yn llon ar dros fil o ynysoedd,
I ddweyd am oludoedd trugaredd yr Ior:
Dilynant afonydd, ânt trwy anial-diroedd,
A dringant fynyddoedd clogwynog yr iâ,
I ddangos i adyn ar suddo mewn adfyd
Fodd i achub ei fywyd a symud ei bla.

Mae llwythau yr Oen, wrth dy wel'd, yn gwroli,
Llawenydd a chân sy'n coroni eu pen;
Mae gwresog bêr anadl eu cariad a'u gweddi
Yn chwalu'r cymylau fu rhyngddynt a'r nen:
A gwelir ysbrydoedd y perffaith gyfiawnion,
Fel cwmwl o dystion ar furiau y nef,
Yn plygu i wrando'u plethedig ganiadau,
Gan hwylio'u telynau i ateb eu llef.

Daeth Iesu o Bosra a'i ddillad yn gochion,
Gan ymdaith yn eon yn amlder ei rym;
Ennillodd holl yspail y tywysogaethau,
Gall ddial, neu faddeu—ei gledd sydd yn llym.
O'i orsedd llefara mewn iawnder a chariad,
Mae'n gwisgo agoriad awdurdod a bri;
Gan hyny, ni lwydda dy elyn na'i luoedd,
Mae Brenin y neloedd yn Noddwr i ti.

Wrth wrando dy gais dros y Gwr a groeshoeliwyd,
Dwysbigwyd calonau myrddiynau cyn hyn,
A denwyd trueiniaid i droi eu hwynebau
O swynol lwyn Daphne i Galfari fryn:
Dadblygaist dy faner ar brif-ddinas Rhufain,
Ce'st luoedd yn Athen i ganmol y gwaed!
A golchaist yn Nghorinth dorf fawr o'r rhai duaf,
Gan wisgo mewn gwyn yr aflanaf a gaed.

Dy lais yn oes Luther ddychrynodd y bwystfil,
Dy wên doddodd galon y *Greenlander* draw,
A dofwyd cynddaredd y *Bushman* trwy'th eiriau,
Nes gollwng ei saethau gwenwynig o'i law:
Dy felus beroriaeth trwy helaeth goedwigoedd
America fras, ac Ynysoedd y De,
A ddenodd farbariaid o'u dawns yn y llwyni,
I wrando a chanu am gariad y Ne'.

Dihunodd dy udgyrn gydwybod Brutania
I ollwng wyth-ganmil o'i chaethion yn rhydd:
A gyraist gyflawnder o bêr-falm Calfaria
I wella archollion y galon fu'n brudd:
O gylch elor gormes mae myrdd o gadwynau
Ar wasgar yn ddarnau drylliedig dan draed;
A'r fammaeth a'i maban sy'n llon gadw jubil
Uwch bedd yr anghenfil fu'n meddwi ar waed.

Gorchfygodd yr Oen i agoryd y seliau,
A llawn yw'r phiolau ar allor y nef;

Hardd sefyll o'u cylch mae eneidiau'r merthyron,
Mewn gynau claerwynion, yn llawen eu llef:
O'u llwch cododd ysbryd a ddryllia'r cadwynau
Fu'n dal cydwybodau am oesoedd yn gaeth;
Pinaglau coelgrefydd yn chwilfriw a chwelir,
A'r gelyn ymlidir i'r llyn o'r lle daeth.

Bu anghymedroldeb yn llifo am oesau,
Bu'n lledu ei dònau fel dylif o dân;
A chyfoeth a chysur, a bywyd myrddiynau,
Er pob attal-furiau, ysgubid o'i flaen:
Ond codaist dy faner er attal ei ymchwydd,
A safodd yn ebrwydd, a chiliodd mewn brys;
Ac 'nawr lle bu'r gelyn yn creulawn deyrnasu,
Mae rhinwedd yn codi hardd orsedd ei lys.

Bu erchyll olwynion *Car Moloch* Hindostan
Yn treiglo dros balmant o esgyrn a gwaed,
A myrdd o rai gwallgof dan floeddio'n ei dynu,
Gan fathru eu plant a'u rhïeni dan draed!
Ond safodd er's dyddiau, ni faidd dy gyfarfod,
Mae'n suddo i'r tywod, a'i lu'n cilio draw;
Mae blodau sidanaidd ei dŵr wedi gwywo,
A'i ger yn malurio trwy'r tês a thrwy'r gwlaw.

Heb ddim o ffydd Abra'm, bu myrdd o'i hiliogaeth
Dan iau anghrediniaeth yn gaeth lawer oes;
Ond troant i'th ddilyn, dan gerdded ac wylo,
Nes tawel ymffrostio yn *Aberth y groes:*
Ail-hwylir y delyn fu'n hir ar yr helyg,
Daw'r llwythau crwydredig i Seion mewn hedd:
Am ryfedd rinweddau y gwaed y cydganant,
A melus ganmolant gyflawnder y wledd.

Trwy'r fro lle bu Israel yn lledu ei babell,
Bro cafell y dysglaer Shecinah cyn hyn,
Bro melus beroriaeth telynau'r prophwydi,
Bro'r ardd lle bu'r chwysu, bro Calfari fryn;
Trwy hòno mae'r wawr 'nawr yn gwasgar ei goleu
I ymlid cysgodau coelgrefydd ar ffo;
Trwy hòno tŷr etto sain tannau gorfoledd,
A blodau tangnefedd goronant y fro.

Hardd Rosyn Glyn Saron a siriol flodeua
Ar foelydd Siberia a gwledydd yr iâ,
A'r awel wasgara ei iraidd aroglau
Nes gwella tylwythau y Tartar o'u pla:
I wlad y saith Eglwys fu gynt yn flodeuog
Estynir yr eurog ganwyllbren yn ol,
Ceir etto fflam fywiol o'r allor i danio
Lamp gras i oleuo pob bryn a phob dôl.

Dan iau tri chan miliwn o eulunaddolwyr
Mae China mewn gwewyr yn gruddfan yn awr;
Ond siglwyd ei mur, er cadarned ei sciliau—
Mae eisoes yn fylchau, daw'n ddarnau i lawr:

Llon-gyrcha minteioedd i gysgod ei llwyni
I ddarllen a chanu am Aberth y bryn,
Trwy demlau Fôhî mae'r cerf-ddelwau yn crynu,
A'u crefftwyr yn gwelwi, gan edrych yn syn.

Mae awel adfywiol yn awr yn ymsymud
Ar wyneb du-ddyfnder cymysglyd y byd;
Ar dymmor dymunol mae'r nefol addewid
Bron esgor—mae gwewyr drwy natur i gyd:
Llawn bywyd yw heinif forwynion Rhagluniaeth,
Mae tannau mwyn odiaeth pob telyn mewn hwyl,
Mae arlwy frenhinol yn rhad i'r holl bobloedd,
A mil o flynyddoedd fydd yspaid yr wyl.

Goleuni gwybodaeth trwy'r ddaear ymdaena,
O'i flaen yr ymgilia'r tywyllwch yn glau;
Breuddwydion coelgrefydd fel niwl a ddiflanant,
A'r bleiddiaid gormesol a ffoant i'w ffau:
Cyfaredd y friglwyd ddewines a dòrir,
Y gair a ddilynir fel rheol y gwir;
Doethineb fydd sierwydd a nerth yr amserau,
Hyfrydwch hardd-fryniau y nef leinw'r tir.

Holl ddoniau yr enaid a gydymegnïant
Er cynnydd ei fwyniant a symud ei boen;
Harddwisgïr traethodau'r anianydd dysgedig
Ag iaith ostyngedig o fawredd i'r Oen:
Diweirdeb a rhinwedd a hoffant felusder
Y delyn fwyn seinber roes gynt iddynt glwy';
I chwythu eu gwenwyn dan flodau maes awen,
Colynawg seirph uffern ni lechant yn hŵy.

Gwir ydyw fod rhanau o'r wybren mewn cyffro,
Ond tyrfu wrth gilio mae'r 'storom yn awr;
Cenfigen a drenga, a nefol dangnefedd
Deyrnasa mewn mawredd dros wyneb y llawr;
Dinystriol beiriannau tân rhyfel a ddryllir,
Y march coch a rwymir mewn cadwyn o bres;
Ymleda yr heulwen nes chwalu'r tywyllwch,
A blodau brawdgarwch a dyf yn ei gwres.

Defnyna santeiddrwydd o'r nef fel gwlith Hermon,
Melusa gysuron holl gylchoedd y byd,
Addurna y cerbyd, y meitr, a'r goron,
Nefola serchiadau y galon i gyd;
Ireiddia ei olew olwynion masnachaeth,
A hwylia ei awel holl longau y môr,
Ei darth gwyd o'r allor, a'i iachus aroglau
A leinw holl gonglau cysegroedd yr Ior.

Yr anial diannedd, fel rhosyn, flodeua,
Y myrtwydd addurna hardd odre y bryn,
Yn mhen y mynyddoedd bydd ŷd yn ddyrneidiau,
Tyf brwyn lle bu'r dreigiau, daw'r crasdir yn llyn:
Bwytânt o ber-ffrwythau'r gwinllanoedd a blanant,
A'u tai gyfanneddant dros ddedwydd oes hir;

Hardd-wridog a heinif y ceir y mab canmlwydd,
Hyfrydwch a llwydd a briodant y tir.

Sylfaenir pryd hyn y Jerusalem newydd
A saphir—a hon fydd gogoniant y byd;
O feini dymunol y gwneir ei therfynau,
A'i phyrth fydd o berlau uchel-bris i gyd:
Ag aur y palmentir ei llydan heolydd,
O fewn ei magwyrydd bydd iechyd dilyth,
A thrwy ei ffenestri grisialaidd tywyna
Gogoniant Jehofa, heb fachlud mwy byth.

Tymmorau ei gweddwdod a'i galar a dderfydd,
Llawenydd i'r holl genedlaethau a fydd;
O fewn ei therfynau am drais byth ni chlywir,
A chenedl a enir o'i mewn yr un dydd:
Brenhinoedd a welant ei dysglaer ogoniant,
Ac iddi y dygant anrhegion heb rif;
Diwellir ei phlant â helaethrwydd dyddanwch,
A'i heddwch ymchwydda fel tònau yn llif.

Llys Ior geir i'w chanol, ac allan o'i orsedd
Yr afon risialaidd a lifa heb drai;
O'i deutu bydd tyrfa nad ellir ei rhifo
Yn rhodio heb deimlo na meldith na gwae:
Dan gysgod iachusol gwyrdd ddail pren y bywyd
Cydgadwant wyl hyfryd heb lygredd na phoen;
A'r Oen ga'dd ei ladd a'u bugeilia hwy'n wastad,
A byrdôn eu caniad fydd—Teilwng yw'r Oen.

FFYNNON CALFARIA.

Daeth ffynnon goch o ddwyfol waed
O glwyfau calon friw,
All gànu'n wyn o'r pen i'r traed
Yr adyn dua'i liw.

Gwnaeth hon i'r lleidr seinio cân
Pan dan angeuol glwyf;
A gall fy ngolchi innau'n lan,
Er mai'r afianaf wyf.

Er pan y teimlais nefol rin
Y ffrwd risialaidd hon,
Dylifo mae fel balm neu win,
I wella'm clwyfus fron.

Rhinweddol waed y dwyfol Oen
A bery byth mewn nerth;
A chlywir cydsain myrdd heb boen,
Yn canu am ei werth.

Bydd melus ganu am ei rin,
Gan fyrdd y'ngwlad yr hedd;
Pan byddo'r bloesg dafodau hyn
Yn ddystaw yn y bedd.

Mwyn fydd y gân yn Salem fry,
O fewn y nefol gaer,
Pan tery'r ddedwydd dorf ddirif
Holl dannau'r delyn aur.

AR FARWOLAETH MAM YR AWDWR.

Mawrth 9, 1848.

Fe ddarfu'r wasgfa galed, a loes y marwol ludded,
Ei henaid rhydd ddiangodd fry, yn iach o dŷ'r caethiwed—

At deulu gwlad y gwynfyd, sy'n dilyn yr anwylyd,
Yn hardd lon lu, oll yn eu gwyn, ar wyrddlas fryn y bywyd.

Uwch caerau pob tymhestloedd, aeth draw i'r teg ardaloedd,
Lle na ddaw achrau *parlys* byth i blith eu dedwydd luoedd;
Ni wywa gwawr eu palmwydd, ni lygra eu llawenydd,
Cânt wenau Duw, ni wylant mwy dan unrhyw glwy'n dragywydd

Ffodd ymaith eu cystuddiau, a sychwyd eu holl ddagrau;
Gorphenwyd athrist deithiau'r glyn: mor dyn a mwyn eu tannau!
Y gwaed a'i bur rinweddau, yw'r newydd gân o'u genau;
A'r gwaed a'u cànodd hwy mor wyn sydd etto'r un i ninnau.

41873

DOLGELLÀU: ARGRAFFWYD GÂN W. HUGHES AND CO.

School of Theology

BX
7233
R56
P7

Roberts, Samuel, 1800-1885.
Pregethau, yn nghydag areithiau a chan
Dolgellau, William Hughes, 1865.
xvi, 448p. 20cm.

1. Congregational churches--Sermons.
Title.

CCSC/mmb

171416